

'Segur fydd y cŷn a'r morthwyl mwy':
Dehongli Portreadau o'r Bröydd Chwarelyddol ers 1972

Elin Gwyn

PhD
Ysgol y Gymraeg
Prifysgol Bangor
2014



Ysgoloriaethau Sgiliau Economi Gwybodaeth
Knowledge Economy Skills Scholarships



Datganiad a Chaniatâd

Manylion y Gwaith

Rwyf trwy hyn yn cytuno i osod yr eitem ganlynol yn y gadwrfa ddigidol a gynhelir gan Brifysgol Bangor ac/neu mewn unrhyw gadwrfa arall yr awdurdoddir ei defnyddio gan Brifysgol Bangor.

Enw'r Awdur: Elin Gwyn

Teitl: Dehongli Portreadau o'r Bröydd Chwarelyddol ers 1972.

Goruchwyliwr/Adran: Angharad Price / Ysgol y Gymraeg

Corff cyllido (os oes): KESS

Cymhwyster/gradd a enillwyd: PhD

Mae'r eitem hon yn ffrwyth fy ymdrechion ymchwil fy hun ac mae'n dod o dan y cytundeb isod lle cyfeirir at yr eitem fel "y Gwaith". Mae'n union yr un fath o ran cynnwys â'r eitem a osodwyd yn y Llyfrgell, yn amodol ar bwynt 4 isod.

Hawliau Anghyfyngol

Mae'r hawliau a roddir i'r gadwrfa ddigidol trwy'r cytundeb hwn yn gwbl anghyfyngol. Rydw i'n rhydd i gyhoeddi'r Gwaith yn ei fersiwn presennol neu mewn fersiynau i ddod mewn man arall.

Cytunaf y gall Prifysgol Bangor gadw ar ffurf electronig, copïo neu drosi'r Gwaith i unrhyw gyfrwng neu fformat cymeradwy at bwrpas ei gadw a mynd ato yn y dyfodol. Nid yw Prifysgol Bangor o dan unrhyw rwymedigaeth i atgynhyrchu neu arddangos y Gwaith yn yr un fformatau neu ddyraniadau y cadwyd ef ynddynt yn wreiddiol.

Cadwrfa Ddigidol Prifysgol Bangor

Deallaf y bydd y gwaith a osodir yn y gadwrfa ddigidol ar gael i amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau, yn cynnwys asiantau a pheiriannau chwilio awtomataidd trwy'r We Fyd Eang.

Deallaf unwaith y gosodir y Gwaith, y gellir ymgorffori'r eitem a'i metadata yn y catalogau neu'r gwasanaethau mynediad cyhoeddus, cronfeydd data cenedlaethol theses a thraethodau hir electronig megis EthOS y Llyfrgell Brydeinig neu unrhyw wasanaeth a ddarperir gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru. Deallaf y bydd y Gwaith ar gael trwy Wasanaeth Theses Electronig Ar-Lein Llyfrgell Genedlaethol Cymru o dan y telerau a'r amodau defnydd a ddatganwyd (<http://www.llgc.org.uk/index.php?id=4676>). Cytunaf fel rhan o'r gwasanaeth hwn y gall Llyfrgell Genedlaethol Cymru gadw ar ffurf electronig, copïo neu drosi'r Gwaith i unrhyw gyfrwng neu fformat cymeradwy at bwrpas ei gadw a mynd ato yn y dyfodol. Nid yw Llyfrgell Genedlaethol Cymru o dan unrhyw rwymedigaeth i atgynhyrchu neu arddangos y Gwaith yn yr un fformatau neu ddyraniadau y cadwyd ef ynddynt yn wreiddiol.

Datganiad 1:

Nid yw sylwedd y gwaith hwn wedi cael ei dderbyn o'r blaen ar gyfer unrhyw radd, ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd mewn ymgeisiaeth am unrhyw radd onid fel y cytunwyd gan y Brifysgol ar gyfer cymwysterau deuil cymeradwy.

Llofnod (ymgeisydd)

Dyddiad

Datganiad 2:

Canlyniad fy ymchwil fy hun yw'r thesis hwn, ac eithrio lle nodir yn wahanol. Lle defnyddiwyd gwasanaethau cywiro, mae maint a natur y cywiriad wedi'i nodi'n glir mewn troednodyn/troednodiadau.

Caiff ffynonellau eraill eu cydnabod gan droednodiadau yn rhoi cyfeiriadau eglur. Mae llyfryddiaeth ynghlwm.

Llofnod (ymgeisydd)

Dyddiad

Datganiad 3:

Rhoddaf ganiatâd drwy hyn i'm thesis, os caiff ei dderbyn, fod ar gael ar gyfer llungopïo, ar gyfer benthyciad rhynglyfrgellol ac i'w gadw'n electronig (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau fel y nodir yn natganiad 4), ac i'r teitl a'r crynodeb fod ar gael i sefydliadau allanol.

Llofnod (ymgeisydd)

Dyddiad

ON: Dylai ymgeiswyr y mae'r Brifysgol wedi cymeradwyo gwaharddiad ar fynediad ar eu rhan, ddefnyddio'r fersiwn canlynol o **Ddatganiad 3:**

Datganiad 3 (gwaharddiad):

Rhoddaf ganiatâd drwy hyn i'm thesis, os caiff ei dderbyn, fod ar gael ar gyfer llungopïo ac ar gyfer benthyciadau rhynglyfrgellol ac i'w gadw'n electronig (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau fel y nodir yn natganiad 4), ar ôl i waharddiad ar fynediad ato ddod i ben.

Llofnod (ymgeisydd)

Dyddiad

Datganiad 4:

DEWISWCH **un** o blith y dewisiadau isod

a)	Cytunaf i osod copi electronig o'm thesis (y Gwaith) yng Nghadwrfa Ddigidol Sefydliadol Prifysgol Bangor, system ETHOS y Llyfrgell Brydeinig, ac/neu mewn unrhyw gadwrfa arall y rhoddwyd awdurdod i Brifysgol Bangor ei defnyddio, a lle bo angen wedi cael y caniatâd angenrheidiol i ddefnyddio deunydd trydydd parti.	
a)	Cytunaf i osod copi electronig o'm thesis (y Gwaith) yng Nghadwrfa Ddigidol Sefydliadol Prifysgol Bangor, system ETHOS y Llyfrgell Brydeinig, ac/neu mewn unrhyw gadwrfa arall y rhoddwyd awdurdod i Brifysgol Bangor ei defnyddio, pan fydd y gwaharddiad ar fynediad cymeradwy wedi ei godi.	
c)	Cytunaf i gyflwyno fy thesis (y Gwaith) yn electronig trwy gyfrwng system e-gyflwyno Prifysgol Bangor ond rydw i'n dewis peidio â chyflwyno copi electronig i Gadwrfa Ddigidol Sefydliadol Prifysgol Bangor, system ETHOS y Llyfrgell Brydeinig ac/neu unrhyw gadwrfa arall y rhoddwyd awdurdod i Brifysgol Bangor ei defnyddio, oherwydd na chafwyd caniatâd i ddefnyddio deunydd trydydd parti.	

Dylid defnyddio Dewis B dim ond os yw'r Brifysgol wedi cymeradwyo gwaharddiad ar fynediad.

Yn ogystal â'r uchod rydw i hefyd yn cytuno â'r canlynol:

1. Mai myfi yw'r awdur neu wedi cael awdurdod yr awdur(on) i ddod i'r cytundeb hwn a fy mod i felly'n rhoi'r hawl i Brifysgol Bangor i sicrhau bod y Gwaith ar gael yn y ffordd a ddisgrifiwyd uchod.
2. Bod y copi electronig o'r Gwaith a gadwyd yn y gadwrfa ddigidol ac sydd o dan y cytundeb hwn, yn union yr un fath o ran ei gynnwys â'r copi papur o'r Gwaith a osodwyd yn Llyfrgell Prifysgol Bangor, yn amodol ar bwynt 4 isod.
3. Fy mod i wedi cymryd gofal rhesymol i sicrhau bod y Gwaith yn wreiddiol a, hyd eithaf fy ngwybodaeth, nad yw'n torri unrhyw gyfreithiau – yn cynnwys y rhai hynny sy'n ymwneud â difenwi, enllib a hawlfraint.
4. Fy mod i mewn achosion lle mae eiddo deallusol awduron eraill neu ddeiliaid hawlfraint wedi ei gynnwys yn y Gwaith, a lle bo'n briodol, wedi cael caniatâd eglur i gynnwys y deunydd hwnnw yn y Gwaith, ac yn ffurf electronig y Gwaith fel y ceir mynediad ato trwy'r gadwrfa ddigidol mynediad agored, *neu* fy mod i wedi canfod ac wedi dileu'r deunydd hwn na roddwyd caniatâd digonol a phriodol ar ei gyfer ac na fydd modd mynd ato trwy'r gadwrfa ddigidol.
5. Nad oes unrhyw ymrwymiad gan Brifysgol Bangor i gymryd camau cyfreithiol ar ran y sawl sy'n cyflwyno'r gwaith, neu ddeiliaid hawliau eraill, os digwydd bod hawliau eiddo deallusol yn cael eu torri, neu unrhyw hawl arall yn y deunydd a gedwir.
6. Y byddaf yn indemnio ac yn cadw wedi ei indemnio Prifysgol Bangor a Llyfrgell Genedlaethol Cymru rhag ac yn erbyn unrhyw golled, atebolrwydd, hawl neu ddifrod, gan gynnwys yn ddigyfyngiad unrhyw ffioedd cyfreithiol a chostau llys cysylltiedig (ar sail indemniad llawn), sy'n gysylltiedig ar unrhyw achos lle'r ydw i wedi torri unrhyw amod yn y cytundeb hwn.

Llofnod:

Dyddiad:.....

Diolchiadau

Hoffwn ddiolch yn gyntaf i Angharad Price am ei holl amynedd, brwdfrydedd a chyfeillgarwch wrth i mi weithio ar y ddoethuriaeth hon. Roedd hi'n help mawr bob cam o'r ffordd a mawr yw fy nyled iddi. Hoffwn ddiolch hefyd i weddill staff Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Bangor. Diolch i Dafydd Roberts a holl staff yr Amgueddfa Lechi am fod mor barod i helpu, cynghori a sgwrsio. Diolch i KESS am ariannu'r prosiect, ni fuasai'r gwaith yn bodoli hebddynt. Hoffwn ddiolch i mam am bopeth ond yn enwedig am ei chymorth a'i chlust barod dros y blynyddoedd diwethaf. Diolch hefyd i Iwan a gweddill fy nheulu a'm ffrindiau. Hoffwn gyflwyno'r ymchwil hwn er cof am taid, Ivor Parry, a oedd yn chwarelwr am gyfnod.

Crynodeb

Mae'r ddoethuriaeth hon yn astudiaeth o'r ffordd mae'r bröydd chwarelyddol – y chwarelwyr, y diwydiant llechi a'r gymdeithas - wedi cael eu portreadu ers 1972. Byddaf yn canolbwyntio ar brif fröydd chwarelyddol gogledd Cymru; Blaenau Ffestiniog, Dyffryn Ogwen, Dyffryn Nantlle a Dyffryn Peris. Y prif gyfryngau y byddaf yn eu hastudio yw twristiaeth, papurau bro, hunangofiannau bro, llenyddiaeth, ffilm a theledu, cerddoriaeth a chelf. Dyma'r cyfryngau a fu'n fodd i gynnal ac ail-greu'r cof cyhoeddus am y diwydiant llechi yn y cyfnod diweddar. Trwy ymchwilio i'r holl gyfryngau hyn, byddaf yn canfod a dadansoddi sut mae'r bröydd chwarelyddol yn cael eu portreadu ar draws y sbectrwm cyhoeddus ers 1972.

Defnyddiaf 1972 fel dechrau'r cyfnod ôl-ddiwydiannol ond byddaf yn cyfeirio at weithiau sy'n rhagflaenu'r cyfnod hwn yn ogystal er mwyn gosod cefndir i'r portreadau diweddarach. Bydd y prosiect hwn yn datgelu 'myth' y chwarelwr a'r ystrydebau sy'n codi dro ar ôl tro wrth bortreadu'r bröydd chwarelyddol. Byddaf yn ceisio canfod gwreiddiau'r 'myth' a chonfensiynau'r portread o chwarelwr yn ogystal â'r ymdrechion i herio'r ystrydebau. Wrth astudio'r holl gyfryngau hyn byddaf yn ystyried a yw'r portread a geir yn un cytbwys neu'n euog o ramantu a gorbwysleisio rhinweddau'r bröydd chwarelyddol a'u cymdeithas.



CHWARELA LLECHFAEN YNG NGHYMRU CYN 1944



 Chwareli Llechi

Cynnwys

Rhagymadrodd	1
Pennod 1: Twristiaeth	8
i) Cefndir Twristiaeth	8
ii) Atyniadau Twristaidd	14
iii) Rheilffyrdd	29
iv) Chwaraeon a gweithgareddau awyr agored	36
v) Y Dyfodol	43
Pennod 2: Llais y Bröydd Chwarelyddol	44
i) Papurau Bro	44
ii) Hunangofiannau Bro	52
Pennod 3: Ffuglen	72
i) Portreadau o'r Chwarelwyr a'u Bro yn Ffuglen y Cyfnod Diwydiannol	72
ii) Ffuglen y Bröydd Chwarelyddol yn y Cyfnod Ôl-Ddiwydiannol	90
- Eigra Lewis Roberts	90
- Geraint Vaughan Jones	102
- Jerry Hunter	114
- Twm Miall	117
- Dewi Prysor	125
iii) Llenyddiaeth Plant	140
Pennod 4: Barddoniaeth	153
i) Sefydlu Gwreiddiau'r Portread o Chwarelwr – W. J. Gruffydd	154

ii) Rhamantiaeth – R. Williams Parry	155
iii) Ailddehongli'r Mabinogi – Tom Huws ac Emrys Roberts	158
iv) Moderniaeth – Caradog Prichard	164
v) Safbwynt y Ferch – Lisi Jones	168
vi) Cerddi gan Chwarelwyr – Twm Bethel a J. D. Evans	171
vii) Portreadau Ôl-ddiwydiannol – Mathonwy Hughes, T. R. Jones ac O. M. Lloyd	176
viii) Beirdd Cyfoes	183
- Ieuan Wyn	183
- Gwyn Thomas	186
- Karen Owen	195
- Eigra Lewis Roberts	197
ix) Casgliad	203
Pennod 5: Delweddau'r Cyfryngau Gweledol.	204
i) Ffilm	204
ii) Dramâu Teledu	225
iii) Dramâu Llwyfan	234
Pennod 6: Cerddoriaeth - Cadarnhau'r Myth	248
Pennod 7: Celf - Portreadu a Dehongli'r Bröydd Chwarelyddol	272
i) Y Llechen	272
ii) Darlunio'r Chwarelwyr	279
iii) Arlunio'r Chwarel a'r Fro	286
iv) Ffotograffiaeth	298

v) Ymateb i'r Tirlun	301
Diwedd glo	308
Atodiadau	314
Llyfryddiaeth	327

Rhagymadrodd

Cafodd y chwyldro diwydiannol effaith barhaol ar Gymru. Dywedir ar wefan Amgueddfa Genedlaethol Cymru: 'Erbyn 1850, roedd diwydiant yng Nghymru'n cyflogi mwy o bobl nag amaethyddiaeth ac, o ganlyniad, Cymru oedd gwlad ddiwydiannol gyntaf y byd.'¹ Os felly, gellir dadlau mai Cymru yw'r wlad ôl-ddiwydiannol gyntaf hefyd. Mae nifer sylweddol o hen safleoedd diwydiannol bellach yn ganolfannau treftadaeth yng Nghymru ac mae'r mwyafrif o'r diwydiannau a oedd yn cyflogi'r holl weithwyr hyn wedi dirywio'n sylweddol dros y deugain mlynedd diwethaf.

Yn niwedd yr 1960au a dechrau'r 1970au caewyd y mwyafrif o chwareli llechi Cymru ac eithrio ambell un sy'n parhau i gael ei gweithio hyd heddiw. Sefydlwyd yr Amgueddfa Lechi yn Llanberis a Llechwedd ym Mlaenau Ffestiniog yn 1972 ac felly fe gymerwn y dyddiad hwn fel dechrau'r cyfnod ôl-ddiwydiannol. Gellir cwestiynu'r casgliad hwn, wrth gwrs, ond yn wahanol i ddiwydiannau eraill Cymru e.e. y diwydiant glo, lle mae hollt glir yn dynodi'r diwedd, mae'r diwydiant llechi wedi bod yn dirywio ers dros ganrif. Gellir olrhain hollt rhwng y diwydiannol a'r ôl-ddiwydiannol yng nghyhoeddiadau'r bröydd, gyda hunangofiannau bro a barddoniaeth y 1960-70au yn hiraethu am ddiwylliant a chymdeithas yr hen chwarelwyr. O ganlyniad, credaf ei bod yn deg dyfarnu mai 1972 oedd dechrau'r cyfnod ôl-ddiwydiannol.

Mae tirwedd a diwylliant unigryw'r bröydd chwarelyddol wedi bod o ddiddordeb cenedlaethol ers dros ganrif. Mae'r diwydiant llechi wedi dylanwadu'n gryf ar fywyd, gwaith a hamdden y gymdeithas wrth odrau'r chwareli ac mae olion bwrlwm diwylliannol yr hen chwarelwyr yn bresennol hyd heddiw. Nid oes astudiaeth uniongyrchol sy'n olrhain dylanwad diwylliannol y diwydiant llechi ar y presennol a bydd yr ymchwil hon yn ymgais i lenwi rhywfaint o'r bwlch hwnnw. Ond canolbwynt y ddoethuriaeth hon yw'r modd y mae'r bröydd chwarelyddol- y chwarelwyr, y diwydiant llechi, a'r gymdeithas- yn cael eu portreadu ym mhrif gyfryngau Cymru. Byddaf yn canolbwyntio ar brif

¹ 'Cymru – Y Wlad Ddiwydiannol Gyntaf', Gwefan Amgueddfa Genedlaethol Cymru ar gael yma: <http://www.amgueddfacymru.ac.uk/1912/>
Dyddiad yr erthygl: 5 Hydref 2008. Dyddiad yr ymwelwyd â'r wefan: Medi 2013.

fröydd chwarelyddol gogledd Cymru: Blaenau Ffestiniog, Dyffryn Ogwen, Dyffryn Nantlle a Dyffryn Peris.

Yn y ddoethuriaeth hon, byddaf yn dadansoddi'r modd y portreadwyd y bröydd chwarelyddol mewn ystod eang o gyfryngau cyfathrebu a chelfyddydol. Rhai o'r prif gyfryngau y byddaf yn eu hastudio yw llenyddiaeth, dramâu teledu, llwyfan a ffilm, canu poblogaidd, papurau bro, llyfrynnau hunangofiannol, gweithiau celf a delweddau'r diwydiant ymwelwyr. Dyma'r cyfryngau a fu'n fodd i gynnal ac ail-greu'r cof cyhoeddus am y diwydiant llechi yn y cyfnod diweddar. Trwy ymchwilio i'r holl gyfryngau hyn, byddaf yn canfod a dadansoddi sut y mae'r bröydd chwarelyddol wedi cael eu portreadu ar draws y sbectrwm cyhoeddus ers 1972.

Dyma destun eang a gellid astudio unrhyw un o'r cyfryngau rwyf yn dynodi pennod ar ei gyfer yn destun doethuriaeth gyfan. Trosolwg a geir yma felly o bortreadau o'r bröydd chwarelyddol. Wrth edrych ar y darluniau hyn, gellir dirnad yr hyn sy'n gyffredin a cheir adlewyrchiad o'r ystrydebau sy'n codi dro ar ôl tro. Mae'r astudiaeth hon yn rhy gynhwysfawr i fanylu'n ormodol ar weithiau unigol.

Yr 1870au oedd oes aur y diwydiant llechi, fel y dywed R. M. Jones yn *The North Wales Quarrymen*: 'Between the 1870's, when the industry reached a peak, and the end of the century, the number of men labouring in the quarries fluctuated between 11,000 and 14,000.'² Bu'r dirywiad ers y cyfnod hwn yn gyson a pharodd i'r chwarelwyr a'r brodorion fod yn ymwybodol bod eu prif ddiwydiant a'u bywoliaeth yn ansefydlog ac yn bygwth dod i ben yn gyfan gwbl. Mae'r mwyafrif o lenorion y ganrif ddiwethaf yn rhamantu am y gorffennol ac yn hiraethu amdano wrth bwysleisio'r dirywiad yn y fro. Er mai diben y traethawd hwn yw dehongli'r portreadau o'r bröydd chwarelyddol ers 1972, fe fydd yr astudiaeth yn aml yn cyfeirio at bortreadau o'r cyfnod cynharach fel sylfaen i'r tueddiadau a welir ers 1972.

Man cychwyn yr ymchwil hon oedd archwilio cefndir y bröydd chwarelyddol a'r chwareli. Mae nifer o gyhoeddiadau defnyddiol am hanes Streic Fawr y Penrhyn ac am oes aur a dirywiad y diwydiant llechi. Mae Alun John

² R. M. Jones, *The North Wales Quarrymen 1874-1922* (Caerdydd: University of Wales Press, 1982), t. 17.

Richards wedi ysgrifennu nifer o lyfrau sy'n disgrifio chwareli sawl ardal yn fanwl a thrylwyr. Mae ganddo lyfrau sy'n cofnodi hanes chwarelyddol Cymru yn gyffredinol e.e. *A Gazetteer of the Welsh Slate Industry* a *Slate Quarrying in Wales* yn ogystal â chyhoeddiadau sy'n canolbwyntio ar ardaloedd chwarelyddol llai amlwg fel Corris a Sir Benfro. Mae ei lyfrau yn manylu ar hanes y diwydiant o'i anterth i'w ddiwedd, sy'n bwysig i gefndir yr astudiaeth hon. Ond nid yw Alun John Richards yn astudio dylanwad y chwarel ar ddiwylliant y bröydd a'i phobl.

Roedd *The North Wales Quarrymen 1874-1922* gan R. Merfyn Jones yn werthfawr o ran rhoi cefndir i hanes y diwydiant. Mae'r llyfr yn llawn ffeithiau a ffigyrau sy'n cofnodi'r hanes mewn ffordd ddiddorol a byw. Mae'n aml yn cyfeirio at gyfoeth diwylliannol yr ardaloedd:

The quarrymen and their families created distinctive communities which were remembered for many reasons: the intensity of their allegiance to non conformity, the radical edge to their politics, the importance of their contribution to Welsh culture, their multifarious organisations, ranging from Sick Units to Football clubs and Silver Bands.³

Credaf fod R. M. Jones yn cyfleu bwrlwm yr ardaloedd yn effeithiol. Bydd fy astudiaeth yn dehongli portreadau diweddarach o chwareli gogledd Cymru ac yn canolbwyntio mwy ar y diwylliant yn hytrach na'r diwydiant. Dywed R. M. Jones yn niwedd ei lyfr: 'The bitterness remained but not the energy.'⁴ Bwriadaf ymchwilio er mwyn canfod a yw hyn yn parhau i fod yn wir o 1972 ymlaen.

Mae'r darlun hwn sy'n cael ei gyflwyno gan R. Merfyn Jones yn cyd-fynd â phortread haneswyr eraill o'r gymdeithas ddiwylliedig hon. Ond mae lle i gwestiynu a yw'r haneswyr yn euog o ddelfrydu a rhamantu'r gymdeithas chwarelyddol. Ysgrifennodd Dafydd Roberts erthygl hynod ddiddorol, 'Y Deryn Nos a'i Deithiau', lle mae'n herio'r pwyslais cyson ar ddiwylliant a buchedd uwch-na'r-cyffredin y chwarelwyr. Datgela fod rhai o'r hen chwarelwyr yn yfed, betio, dwyn, llofruddio, ymladd, ac ymweld â phuteindai. Daw i'r canlyniad:

Nid saint oedd chwarelwyr Gwynedd i gyd, felly, ac nid yw'n deg nac yn gywir i haneswyr eu portreadu fel gymdeithas o weithwyr diwydiannol a

³ Ibid.

⁴ Ibid, t. 329.

oedd, rywsut, ychydig yn well na'u cyfoeswyr mewn manau eraill yng Nghymru.⁵

Datgela Dafydd Roberts wirioneddau annymunol am y chwarelwyr yn yr erthygl sy'n herio'r portread confensiynol o chwarelwyr Gwynedd, darlun y byddwn yn ei archwilio ymhellach yn y ddoethuriaeth hon.

Roedd yr ymateb yng Nghymru i ddatganiadau Dafydd Roberts yn syfrdanol. Cafwyd rhaglen deledu am ei ymchwil a thrwy hynny cyflwynwyd ei safbwynt i'r boblogaeth. Roedd *Stondin Sulwyn* ar Radio Cymru yn ei drafod am 'ddau i dri diwrnod'⁶ a phobl wedi dychryn bod Dafydd Roberts yn 'pardduo enw da y chwarelwyr.'⁷ Ymddengys bod y boblogaeth wedi llyncu'r portread traddodiadol o Fuchedd A yn ddigwestiwn ac yn gwrthod gwranddo ar dystiolaeth a oedd yn profi bodolaeth Buchedd B.⁸ Dywed Dafydd Roberts fod yr ysgrif yn 'adwaith'⁹ i'r portreadau a geir gan haneswyr ac awduron eraill ac â ymlaen i alw arnynt i 'ailgioriannu'¹⁰ digwyddiadau'r gorffennol.

Adwaith arall i'r erthygl oedd ymateb y bobl a'i hamddiffynnodd. Mewn erthygl yn *Barn* o dan y teitl bachog, 'Y Chwarelwr a'i fyd: A'r Cymry Croendenau Unllygeidiog,' cwestiynodd Emyr Price: 'Tybed a oes arnom ofn ailgioriannu ein hanes a cheisio peintio darlun cyflawn o'n rhinweddau a'n ffaeleddau?'¹¹ Mae'n gwestiwn diddorol i'w ystyried wrth ymchwilio i bortreadau o chwarelwyr. Bydd yr astudiaeth hon yn ystyried y cwestiwn hwn a osodwyd gan Emyr Price wrth

⁵ Dafydd Roberts, 'Y Deryn Nos a'i Deithiau' yn *Cof Cenedl III: Ysgrifau ar Hanes Cymru*, gol. Geraint H. Jenkins (Llandysul: Gwasg Gomer, 1988), t.117.

⁶ Emyr Price, 'Y Chwarelwr a'i fyd: A'r Cymry Croendenau Unllygeidiog' yn *Barn* (Mai 1988, Rhif 304), t. 9.

⁷ Dyfyniad gan Dafydd Roberts mewn sgwrs anffurfiol am yr ymateb i'w erthygl. Dywed fod dyn o'r Bari yn ei gyhuddo o 'bardduo enw da'r chwarelwyr.' *Medi* 2010.

⁸ Dyma ddiffiniad Prys Morgan o'r carfannau a elwir yn 'Grŵp Buchedd A' a Grŵp Buchedd B' gan y cymdeithasegydd David Jenkins:
'Yn ei astudiaethau o Aber-porth, 35 geilw David Jenkins nhw yn Buchedd A' a Buchedd B', gan ddefnyddio'r hen air buchedd i olygu ffordd o fyw, yn ei hystyr moesol. Pobl Buchedd A ydy'r bobl ymdrechgar, gapelog, yn awyddus i berchenogi eu tai ac i ddod 'mlaen etc. Pobl Buchedd B ydy'r werin sy' ar ymylon bywyd y capel neu'r eglwys, pobl heb brisio llawer am eu dyfodol yn y byd hwn na'r byd arall.'
Prys Morgan, 'Gwerin Cymru: Y Ffaith a'r Ddelfryd.' *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*. 1967 ar gael yma:
<http://welshjournals.llgc.org.uk/browse/viewpage/llgc-id:1386666/llgc-id:1417428/llgc-id:1417557/getText> Chwefror 2014.

⁹ Dafydd Roberts, 'Y Deryn Nos a'i Deithiau' yn *Cof Cenedl III*, t.158.

¹⁰ *Ibid.*

¹¹ Emyr Price, 'Y Chwarelwr a'i fyd: A'r Cymry Croendenau Unllygeidiog', t. 10.

edrych ar bortreadau o'r chwarelwr a'i fro. A yw'r darlun yn un cyflawn? A oes archwiliad o ffaeiddau a rhinweddau, ynteu dim ond cydnabyddiaeth wan o Fuchedd B fel eithriadau'r gymdeithas?

Mae John Rowlands yn cynnig safbwynt sy'n adleisio'r hyn a ddywedwyd yn erthygl Emyr Price. Wrth drafod gweithiau T. Rowland Hughes yn *Ysgrifau ar y Nofel*, dywed fod ei nofelau yn 'nodweddiadol Gymreig - am fod arnom fel cenedl ofn mentro i'r cilfachau tywyll lle mae ellyllon yr isymwybod yn byw, neu lle mae'r dymchwelwyr a'r chwyldroadwyr yn bygwth tarfu ar gysur ein byd bach confensiynol.'¹² Yn sicr mae nofelau T. Rowland Hughes yn delfrydu'r gymdeithas chwarelyddol ac yn cyflwyno portread rhamantus o'r chwarelwr. Yr hyn sy'n ddiddorol o safbwynt yr astudiaeth hon yw cymaint y mae'r darlun hwnnw wedi ei dderbyn a'i atgyfnerthu mewn gweithiau llenyddol diweddarach.

Er bod gan T. Rowland Hughes ran i'w chwarae wrth sefydlu myth y chwarelwr, agwedd y byddaf yn ei harchwilio ymhellach yn y ddoethuriaeth, mae ffactorau eraill yn gyfrifol hefyd. Mae haneswyr sy'n ysgrifennu am y diwydiant llechi yn cyflwyno'r un portread. Wrth i awduron ymchwilio i hanes y diwydiant llechi, yn gyffredinol, portreadir y chwarelwyr fel dynion gwleidyddol, radicalaidd, rhyddfrydol, anghydfurfiol, a diwylliedig. Cyndyn fu'r ymgais i newid y portread er gwaethaf y chwyldro cymdeithasol, gwleidyddol, ac economaidd sydd wedi trawsnewid Cymru dros y can mlynedd diwethaf.

Credaf fod 'myth' wedi ei sefydlu yma. O ganlyniad i bortreadau sy'n cyffredinoli gweithwyr y diwydiant llechi a phwysleisio rhinweddau'r gymdeithas i raddau eithafol, mae cof cyfredol y genedl wedi derbyn y darlun confensiynol hwnnw. Nid wyf yn defnyddio'r gair 'myth' yn yr ystyr 'celwydd', ond yn hytrach bod gwirioneddau wedi eu hystumio a'u gorliwio nes cael eu derbyn fel ffaith. Mae'n debyg bod myth yn adlewyrchu rhyw ran o hunaniaeth y mae pobl yn ei harddel. O ran myth y chwarelwr, efallai ei fod wedi parhau mor gryf oherwydd diffyg eiconau newydd i'w ddisodli. Mae'r fro chwarelyddol yn gaeth i fythau'r gorffennol oherwydd nad oes diwydiant na symbol cyfoes wedi datblygu yn lle'r chwarel.

¹² John Rowlands, *Ysgrifau ar y Nofel* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1992), t. 113.

Yn sicr, mae'r chwarelwr yn parhau i gael ei bortreadu fel y gwnaed ar ddechrau'r ugeinfed ganrif hyd at y presennol a phrin iawn yw'r portreadau o chwarelwyr cyfoes. Wrth i'r chwarelwyr ddeillio o bob carfan o'r gymdeithas, mae eu profiadau yn pegynnu o'r blaenor parchus cydwybodol at y pechadur meddw, diegwyddor. Er bod cydnabyddiaeth o Fuchedd A a Buchedd B, mae'r mwyafrif o'r cyfryngau a astudiwyd yn y ddoethuriaeth hon yn pwysleisio rhinweddau'r bröydd chwarelyddol ac yn cyflwyno Buchedd B fel eithriadau yn unig, yn hytrach nag fel rhan o gymdeithas gyflawn ac iddi sawl dimensiwn.

Ers 1972, gyda'r diwydiant llechi wedi dadfeilio i'r fath raddau nes y gellir ei ystyried yn ôl-ddiwydiant, mae'r mwyafrif o gyfryngau cyfathrebu a chelfyddydol yng Nghymru'n parhau i atgyfnerthu confensiynau llenyddol y cyfnod diwydiannol. Bydd y prosiect hwn yn ceisio canfod gwreiddiau'r 'myth' a'r portread ystrydebol o chwarelwr yn ogystal â chanfod ymdrechion i herio'r myth. Er mai astudiaeth sy'n canolbwyntio'n bennaf ar weithiau ar ôl 1972 sydd yma, byddaf yn cyfeirio at weithiau sy'n rhagflaenu'r cyfnod hwn yn ogystal, er mwyn gosod cefndir i'r portreadau diweddarach. Mae'n ddiddorol hefyd olrhain dylanwad portreadau blaenorol ar weithiau cyfoes, neu ddehongli'r modd y mae rhai portreadau'n tynnu'n groes i gonfensiwn.

Mae nifer o haneswyr yn cyfeirio at gyfoeth diwylliannol y bröydd ac mae astudiaethau fel doethuriaeth Gwen Gruffudd, 'Diwylliant Llenyddol y Gymdeithas Chwarelyddol yn Nyffryn Ogwen, c. 1865- 1939' yn archwilio cyfraniadau diwylliannol y chwarelwyr yn y cyfnod a ddynodir. Mae'r ymchwil a wnaed ganddi'n gofnod gwerthfawr o farddoniaeth y chwarelwyr eu hunain. Bydd fy ngwaith i'n edrych ar ddiwylliant diweddarach y bröydd a'r ffordd y mae'r beirdd y mae hi'n cyfeirio atynt yn cael eu dyrchafu gan gymdeithas gyfoes. Mae doethuriaeth Dafydd Roberts hefyd yn ddefnyddiol dros ben, 'The Slate Quarrying Communities of Caernarfonshire and Meirioneth 1911-1939.' Mae'r astudiaeth hon yn gyfraniad gwerthfawr i'r maes ac yn rhoi cefndir i'r cymunedau y byddaf yn eu hastudio. Bydd y ddoethuriaeth hon yn archwilio'r modd y portreadwyd y chwarelwyr a'u cymdeithas ers 1972 ac yn ehangu ar y sylfeini a osodwyd gan Gwen Gruffudd a Dafydd Roberts yn eu doethuriaethau hwy.

Yn atodiad i'r ymchwil mae cyfres o gyfweliadau a gynhaliwyd gennyf ar ran yr Amgueddfa Lechi. Roedd hyn yn rhan o'm gwaith dan amodau ysgoloriaeth KESS. Defnyddiwyd y cyfweliadau hyn fel rhan o ddatliadau 'Dathlu'r Deugain' yr amgueddfa ac fe'u cadwyd yn rhan o gasgliad Sain Ffagan. Dyma gyfraniad gwerthfawr i unrhyw un y buasai ganddynt ddiddordeb mewn olrhain hanes trosi'r Gilfach Ddu yn Amgueddfa Genedlaethol, neu yn hanes y diwydiant llechi yng Nghymru. Mae'r atodiadau'n gyfraniad i'r ddoethuriaeth hon oherwydd y modd mae'r cyfweliadau'n cyfleu'r hollt rhwng y cyfnod diwydiannol a'r ôl-ddiwydiannol. Dyma gadarnhad bod agor yr amgueddfa yn 1972 yn dynodi geni cyfnod ôl-ddiwydiannol y diwydiant llechi.

Mae'r gwaith a gynhwysir yn y ddoethuriaeth hon yn torri tir newydd felly. Dyma'r astudiaeth gyntaf o bortreadau cyfoes o'r bröydd chwarelyddol. Er bod nifer o gyhoeddiadau ffeithiol am hanes y diwydiant llechi a'r gymdeithas chwarelyddol, nid oes dehongliadau o'r modd y caiff yr ardaloedd eu portreadu. Dyma ymchwil sy'n gosod seiliau ar gyfer astudiaethau pellach, manylach efallai, yn seiliedig ar y trosolwg a geir yma. Yma hefyd, am y tro cyntaf, y canfyddir gwreiddiau myth y chwarelwr a'i archwilio mewn ystod eang o gyfryngau. Mae pob pennod yn manylu ar wahanol ffynonellau a'r modd y maent yn atgyfnerthu neu'n herio'r ddelwedd gonfensiynol o'r ardaloedd hyn.

Pennod 1: Twristiaeth

i) Cefndir Twristiaeth

Mae Richard Prentice yn dadlau yn *Tourism and Heritage Attractions* fod y chwareli llwyd ac olion diwydiannol tirlun y bröydd chwarelyddol yn tynnu'n groes i'r ddelwedd o Gymru sy'n apelio at dwristiaid, y ddelwedd o wlad werdd, 'unspoil'¹³ y mae Bwrdd Twristiaeth Cymru yn ei marchnata. Mae Pys Gruffudd yn ymhelaethu ar y pwynt hwn wrth osod y ddadl mewn cyd-destun hanesyddol:

Wales is characterized, according to Williams (1985) by two competing discourses - the rural *gwerin* and the industrial working class - and in the cultural politics of the national revival we find an adoption of the former in opposition to the more Anglicized latter. But whilst the romantic mythologizing of Wales appears to connect this native sense of heritage to that propagated by travellers, it contained a greater emphasis on myth and its contemporary resonance. Its writers engaged with the lives and concerns of the natives in opposition to the more disengaged and aestheticized 'monarch of all I survey' (Pratt, 1992) stance of the English traveller. Wales was reconstructed in the image of contemporary discourses and not simply as a dehistoricized and generalized 'heritage.' Thus in the nineteenth century, landscape and heritage intersected as a politically engaged commentary on the present.¹⁴

Felly, yn ôl Gruffudd, mae tirlun a threftadaeth Cymru'n uno i greu portread gwleidyddol bwerus o'r ardaloedd ôl-ddiwydiannol. Mae'n cyfeirio yma at y ddelwedd o Gymru ddiwydiannol a'r myth sydd wedi ei bwysleisio droeon am y werin ddiwylliedig, Gymraeg yn cael eu gormesu gan y Saeson cyfoethog a oedd berchen y tiroedd. Dyma'r myth hwnnw'n cael ei osod yng nghyd-destun twristiaeth a'r ddelwedd ramantus, ystrydebol o weithwyr y diwydiant llechi yn cael ei gwestiynu. Yn ôl Gruffudd, felly, mae treftadaeth Cymru yn danbaid gyda

¹³ Richard Prentice, *Tourism and Heritage Attractions* (London: Routledge, 1993), t. 6.

¹⁴ Pys Gruffudd, 'Heritage as National Identity: Histories and Prospects of the National Pasts' yn *Heritage, Tourism and Society*, ed. David Herbert (Caerdydd: University of Press, 1999), t. 53.

gwleidyddiaeth gwlad fechan sy'n ysu i'w llais gael ei glywed am y tro cyntaf a chyflwyno portread y mae hi ei hun wedi ei greu.

Mae'n ddiddorol cwestiynu a yw'r portread confensiynol o fro chwarelyddol wedi dylanwadu ar y darlun sy'n cael ei gyflwyno i ymwelwyr. Wrth ailfarchnata'r diwydiant llechi fel treftadaeth ddiwydiannol, a oes lle ar gyfer dehongliadau cymdeithasol? Yn *Heritage, Tourism and Society* mae Frans F. J. Schouten yn diffinio treftadaeth fel a ganlyn: 'Heritage is history processed through mythology, ideology, nationalism, local pride, romantic ideas or just plain marketing, into a commodity.'¹⁵ Yn ddigwestiwn mae'r holl syniadau hyn wedi eu gosod ar y diwydiant llechi cyn y cyfnod ôl-ddiwydiannol. Fel y mae Pysr Gruffudd yn ei ddatgan, defnyddiwyd y chwarelwyr mewn ystod eang o gyfryngau fel symbol o weithiwr diwydiannol Cymraeg, crefyddol, moesol ac ati. Dyma emblem o wladgarwch a balchder lleol. Ers sefydlu'r Amgueddfa Lechi a Ceudyllau Llechwedd yn 1972, a yw'r gwerthoedd hyn wedi'u cryfhau ynteu a ydynt yn cael eu cwestiynu? Er bod myth y chwarelwr yn parhau i gael ei ailadrodd a'i atgyfnerthu mewn rhai cyfryngau, credaf fod y sefydliadau twristaidd yn rhoi portread cytbwys o'r chwarelwr a'i fyd.

Mae twristiaeth wedi bod yn ffactor economaidd sylweddol yn Llanberis bron ers sefydlu'r pentref. Ers 1869 roedd trê'n yn rhedeg o Lundain i Gaernarfon ac yna ymlaen i odre'r Wyddfa yn Llanberis. Adeiladwyd y Lein Fach i Gopa'r Wyddfa yn 1896, ac roedd Gwesty'r Royal Victoria yn rhan o'r adnoddau ar gyfer ymwelwyr. Roedd chwarelyddiaeth a thwristiaeth yn cyd-fyw yn Llanberis yn gysurus o'r dechrau gyda theithiau i'r chwarel yn cael eu cynnig i ymwelwyr. Mae Llanberis, ers hynny, wedi parhau i ddatblygu adnoddau ar gyfer twristiaid. O'i chymharu â'r bröydd chwarelyddol eraill, mae nifer o atyniadau yno a llawer ohonynt yn deillio'n uniongyrchol o'r diwydiant llechi. Esblygodd Betws-y-coed hefyd (a oedd â nifer o chwareli llechi o'i chwmpas e.e. Hafodlas a Rhos) yn fangre dwristaidd sylweddol, ac yn fangre hefyd ar gyfer arlunwyr. Gellir ystyried Betws-y-coed yn fro chwarelyddol sydd wedi arallgyfeirio'n llwyddiannus i'r diwydiant twristiaeth.

¹⁵ Frans F. J. Schouten, 'Heritage as Historical Reality' yn *Heritage, Tourism and Society*, ed. David Herbert (Caerdydd: University of Press, 1999), t. 21.

Yn niwedd y 1800au, nid Llanberis a Betws-y-coed yn unig a oedd yn denu ymwelwyr. Daeth y Frenhines Fictoria i ymweld â Chastell Penrhyn a'r chwarel ym Methesda yn 1859 ac, efallai o ganlyniad, tyfodd diddordeb yn y diwydiant llechi ymysg y dosbarth canol:

There has always been some interest in industrial artefacts for their own sake and some early travellers referred with admiration to industrial landscapes; as early as 1894 visitors to Bangor were diverting to see the quarry at nearby Penrhyn.¹⁶

Ond er gwaethaf ymweliadau pwysigion yr oes â chwareli gogledd Cymru, nid oedd twristiaeth yn cyffwrdd braidd dim â bywydau trigolion Dyffryn Ogwen, Dyffryn Nantlle na Blaenau Ffestiniog. O ganlyniad, ymgais gymharol ddiweddar yw ymdrechion y bröydd hyn i ddenu twristiaid; ond gyda dyfodiad y cyfnod ôl-ddiwydiannol daeth yr angen economaidd amdanynt.

Wrth i'r diwydiant llechi ddirywio a'r mwyafrif o'r chwareli gau, daeth yn amlwg bod angen diwydiannau newydd yn y bröydd chwarelyddol. Agorwyd ambell ffatri fel Ferodo yng Nghaernarfon a Siemens yn Llanberis a chyflogwyd nifer o gyn-chwarelwyr yno. Ond, yn anffodus, bu raid i nifer o bobl symud i ffwrdd i gael gwaith. Roedd annog twristiaeth yn y bröydd yn dod yn fwy pwysig wrth i ddiweithdra gynyddu. Yn 1988 cynhaliwyd astudiaeth o effaith gymdeithasol, ddiwylliannol ac ieithyddol twristiaeth yng Nghymru ac roedd yr adroddiad yn cyfeirio at ddarpariaeth y bröydd chwarelyddol i dwristiaid.

Disgrifia effaith cau'r chwarel ar Lanberis:

Mae diweithdra yn uchel yn dilyn dirywiad y diwydiant llechi ac yn ddiweddarach, cwblhau pwerdy Dinorwig. Bwriedir defnyddio'r cynllun yma yn atyniad i ymwelwyr. [...] Bydd datblygu Oriel Eryri, y rheilffordd, Dinorwig ac atyniadau eraill yn cyfrannu'n fawr at economi Llanberis yn y dyfodol.¹⁷

¹⁶ Pat Yale, *From Tourist Attractions to Heritage Tourism* (Huntingdon: Elm, 1997), t. 179.

¹⁷Canolfan Diwylliannau traddodiadol a rhanbarthol Ewrop, *Astudiaeth o effaith Gymdeithasol, Diwylliannol ac Ieithyddol Twristiaeth yng Nghymru ac ar Gymru*, Adroddiad i Fwrdd Croeso Cymru (Caerdydd: Bwrdd Twristiaeth Cymru, 1988), t. 16.

Roedd yr adroddiad yn darogan y sefyllfa yn gywir oherwydd mae Llanberis wedi parhau i ddatblygu fel lle sy'n denu twristiaid. Mae Oriel Eryri bellach wedi uno gyda'r Amgueddfa Lechi ers 1995 a thröwyd yr adeilad yn ganolfan ar gyfer ymwelwyr â Mynydd Gwefru, sef atyniad twristaidd arall sydd yn ymwneud â hanes y diwydiant llechi.

Mae'r adroddiad yn disgrifio darpariaeth Llanberis i dwristiaid yn 1988 a cheir argraff o'r brwdfrydedd lleol:

Pery'r bywyd cymdeithasol a diwylliannol yn fywiog a cheir peth ymgyfathrachau ag ymwelwyr e.e. mae Band Arian Llanberis yn perfformio'n rheolaidd yng Ngwesty'r Royal Victoria. Ymhlith y digwyddiadau a gynhelir ar hyn o bryd y mae Marathon yr Wyddfa, y Ras Fynydd, Regatta, Ras Nofio Llyn Padarn a Charnifal y Pentref.¹⁸

Mae'r digwyddiadau hyn wedi parhau i ddatblygu a denu nifer o ymwelwyr i'r ardal dros y blynyddoedd. Mae'r adroddiad yn cyfleu'r bwrlwm yn Llanberis yn enwedig o'i gymharu â Blaenau Ffestiniog neu Gorris a Machynlleth. Dywed yr adroddiad am Flaenau Ffestiniog: 'Mae yma brinder llety a dibynna'r dref yn helaeth ar ymwelwyr undydd o ganolfannau ymwelwyr eraill yng ngogledd Cymru.'¹⁹ Mae hyn yn ymddangos yn wir hyd heddiw; er bod ymgais i adfywio'r dref, mae prinder llety yn parhau i fod yn broblem.

Mae cyferbyniad diddorol rhwng agwedd Llanberis a Blaenau Ffestiniog at dwristiaid. Ysgrifennwyd llyfryn, *Blaenau Ffestiniog Croeso!*, gan drigolion yr ardal ar gyfer ymwelwyr ac mae'n rhannu gwybodaeth am gefndir hanesyddol a phresennol y fro. Mae un adran yn canolbwyntio ar ochr hwyliog Blaenau Ffestiniog - y tafarndai a'r partis. Mae'n dyfynnu cân Anweledig ac yn pwysleisio lle mor wyllt a llawn hwyl yw Blaenau gan ddatgan:

OND, fydd y teimlad hwn ddim yn amlwg nac ychwaith 'yn eich wyneb' yn barod i'ch croesawu hefo breichiau agored gyda cyfarchiad [sic] yn Saesneg.....(sy'n rhywbeth gwahanol i'r rhan fwyaf o gyrchfannau twristaidd yn Eryri a Chymru'r dyddia' 'ma!ohhhhhh nac ydi - dydi hi ddim mor hawdd â hynny.... mae'n rhaid i chi fynd i chwilio amdano, cymysgu hefo'r criw lleol, rhoi her i chi eich hun i'w cyfarch nhw yn eu hiaith eu hunain ac yn y blaen ac yn y blaen..... y gwir Gymru ydy

¹⁸ Ibid, t. 17.

¹⁹ Ibid, t. 15.

Blaenau Ffestiniog..... tref heb ei datblygu ac yn lle go iawn, fan hyn yw'r lle sy'n bell o bob man y dylai pawb wneud yr ymdrech i ddod o hyd iddo!²⁰

Mae'r dyfyniad hwn yn codi nifer o bwyntiau diddorol ac yn rhoi portread gwreiddiol o'r dref. Mae'n cyfleu deuoliaeth y fro: ardal ddifreintiedig, dlawd sydd angen denu twristiaid, ond sydd hefyd yn hynod blwyfol ac yn gallu bod braidd yn oeraidd ei chroeso i ymwelwyr. Nid yw Blaenau Ffestiniog yn ganolfan dwristaidd amlwg, groesawgar hyd yn oed (yn ôl y dyfyniad hwn!). Ond yn *Blaenau Ffestiniog Croeso!* awgryma'r awdur, unwaith rydych wedi cael eich derbyn, byddwch chi'n rhan o'r hwyl.

Gyda dyfodiad y cyfnod ôl-ddiwydiannol, gorfodwyd yr ardaloedd hyn i addasu. Mae nifer o chwareli a safleoedd sydd yn gystylliedig â'r diwydiant llechi wedi datblygu i fod yn ganolfannau ac atyniadau treftadaeth. Tyfodd y diddordeb yn y cyfnod diwydiannol yn niwedd yr 1970au ac fel yr ysgrifennodd Robert Hewison yn *The Heritage Industry - Britain in a Climate of Decline*: 'As industries die, the heritage solution is increasingly applied.'²¹ Roedd hyn yn wir yn enwedig yn y bröydd chwarelyddol. Wrth i'r diwydiant llechi grebachu'n sylweddol yn y cyfnod, roedd arallgyfeirio'r hen chwareli yn safleoedd treftadaeth ar gyfer ymwelwyr yn ateb poblogaidd.

Ymelaetha Hewison: 'When museums become one of Britain's new growth industries, they are not signs of vitality, but symbols of national decline.'²² Er bod elfen o wirionedd yn ei ddadl, gellir dadlau hefyd mai symbol o bobl a diwydiannau'n addasu ydyw. Yn sicr mae gan Hewison bwynt yma, sef bod treftadaeth yn ffynnu o ganlyniad i'r cyfnod ôl-ddiwydiannol a'r dirywiad sydd ynghlwm wrth hynny. Ond wrth droi'r hen chwareli'n ganolfannau sy'n addysgu ymwelwyr am y diwydiant a gorffennol yr ardal, mae dylanwad ac olion yr hen ddiwydiannau yma'n goroesi i raddau. Mae'n sicr yn wir am y bröydd chwarelyddol bod chwyldro diwydiannol y ddeunawfed ganrif bellach wedi esblygu i fod yn dwristiaeth treftadaeth.

²⁰ Dienw, *Blaenau Ffestiniog Croeso!*, 2013, t. 11.

²¹ Robert Hewison, *The Heritage Industry - Britain in a Climate of Decline* (London: Methuen London, 1987), t. 95.

²² *Ibid*, t. 84.

Yn 1978 ysgrifennodd Bwrdd Twristiaeth Cymru adroddiad a oedd yn cyfeirio at bwysigrwydd treftadaeth a rôl y diwydiant llechi o fewn hynny:

Today, slate quarrying is no longer one of North Wales's major industries, as most of the quarries ceased production in the 1960s. Yet the skills of the quarrymen are not completely forgotten! A number of quarries are now experiencing a rather different form of success, measured not in slate output but in terms of thousands of visitors every year. Quarries have been developed into major tourist attractions to re-create and illustrate vividly the work and life of the former North Wales quarrymen.²³

Gellir dirnad o'r dyfyniad hwn syniad mor flaengar oedd addasu hen safleoedd diwydiannol yn safleoedd twristaidd treftadol. Yn 1972, nid oedd llawer o sefydliadau tebyg y gallai'r Amgueddfa Lechi neu Geudyllau Llechwedd eu hefelychu. Ond yn ôl Rhiannon Mason yn *Museums, Nations, Identities: Wales and its National Museums*, roedd datblygiad yr atyniadau hyn yn hynod amserol. Mae Rhiannon Mason yn dadlau bod pwysigrwydd treftadaeth ddiwydiannol wedi tyfu law yn llaw â chydabyddiaeth o hanes gymdeithasol y dosbarth gweithiol yn yr 1970au.²⁴ Tyfodd y diddordeb hwnnw ymhellach yn yr 1980au:

From the 1980s, interest in industrial history was given further impetus as tourism was promoted as the new source of income and employment, particularly, in those areas economically depressed by deindustrialization.²⁵

Roedd y bröydd chwarelyddol yn sicr wedi cael eu heffeithio gan gyfnod ôl-ddiwydiannol y chwareli. Yn bendant, nid yw'r Amgueddfa Lechi, er enghraifft, yn cyflogi yn agos at y 3000 o chwarelwyr a oedd yn gweithio yn chwarel Dinorwig ar ei hanterth. Ond maent yn cyfrannu at yr economi leol, yn denu twristiaid ac yn cyflogi pobl leol.

Yn 2010 cynhaliwyd astudiaeth ar gyfer Cyngor Gwynedd a oedd yn edrych ar gyfraniad y diwydiant llechi i'r economi leol. Cyhoeddwyd y canfyddiadau yn y *Daily Post*: 'The slate quarrying industry of north west Wales

²³ Wales Tourist Board, *A Glimpse of the Past* (Caerdydd: Wales Tourist Board, 1987), t. 4.

²⁴ Rhiannon Mason, *Museums, Nations, Identities: Wales and its National Museums* (Caerdydd: Wales University Press, 2007), t. 228.

²⁵ *Ibid*, t. 229.

is worth nearly £600m to the local economy each year.’²⁶ Yn ôl yr astudiaeth, mae’r diwydiant llechi yn parhau i gyflogi dros fil o bobl ac yn cyfrannu £31m i’r economi leol tra mae sefydliadau a busnesau fel yr atyniadau twristaidd sydd yn gystylliedig â’r chwareli yn cyfrannu £550m tuag at economi Gwynedd. Dyma gyfanswm sylweddol sydd yn adlewyrchu pwysigrwydd y diwydiant llechi yn y bröydd hyd yn oed yn y cyfnod ôl-ddiwydiannol. Bydd gweddill y bennod hon yn dehongli atyniadau twristaidd sydd yn ymwneud â’r diwydiant llechi.

Un pwynt diddorol sy’n codi wrth astudio hysbysebion a phamffledau’r atyniadau yw bod nifer ohonynt yn uniaith Saesneg. Casglwyd y pamffledi gennyf ar hap mewn sefydliadau twristaidd ac yn aml nid oedd rhai Cymraeg ar gael. Dyma godi cwestiynau felly am gynulleidfa darged yr atyniadau twristaidd. Ai diwydiant treftadaeth frodorol sydd yma’n paratoi ar gyfer ymwelwyr allanol? Oes yna brinder ymwelwyr Cymraeg, lleol? Yn sicr gellid dehongli’r diffyg darpariaeth o’r Gymraeg fel arwydd o dyndra rhwng y brodorion a’r sefydliadau ‘Seisnig’ sydd wedi manteisio ar hanes diwydiannol y fro. Wrth gwrs, mae rhai o’r atyniadau hyn yn fwy Cymreigaidd na’i gilydd ac yn gwneud ymdrech i ddenu pobl leol. Ond yn gyffredinol, yn ôl iaith eu pamffledi, ymddengys mai apelio i dwristiaid o du hwnt i Gymru yw eu prif amcan.

ii) Atyniadau Twristaidd

Caeodd Chwarel Dinorwig yn 1969 gyda chyfnod o ansefydlogrwydd yn dilyn hynny yn Llanberis. Mewn cyfweiliadau gyda’r chwarelwyr a thrigolion y fro a gedwir yn Sain Ffagan mae nifer ohonynt yn mynegi eu syndod o glywed bod y gwaith yn dod i ben. Hugh Richard Jones oedd prif beiriannydd y Gilfach Ddu ac wrth weld hen beiriannau a chreiriau’r chwarel yn cael eu gwerthu fel sgrap teimlodd yn angerddol y dylid eu cadw’n saff. Roedd yn benderfynol fod angen gwarchod y gweithle a’i hanes ac felly dechreuodd gwreiddiau’r Amgueddfa Lechi. Stopiwyd yr ocsiwn a dechreuodd Hugh Richard Jones gasglu creiriau o hen chwareli eraill. Ar ôl cyfnod yn nwylo Cyngor Sir Caernarfon a CADW, daeth

²⁶ Eryl Crump, ‘Slate industry worth £580m’ yn *Daily Post*, Tachwedd 22, 2010, t. 13.

Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn berchnogion ar y safle gan helpu Hugh Jones a chriw o bobl leol i droi'r Gilfach Ddu yn Amgueddfa Lechi Genedlaethol.

Daeth Hugh Jones yn rheolwr yr Amgueddfa ac mae'n parhau i fod yn driw i'w weledigaeth wrth geisio amddiffyn y creiriau a'u harddangos fel yr oeddynt yn 1969. Dywedodd Hugh Jones adeg agor yr Amgueddfa:

Dyda ni ddim am altro'r lle, na'i beintio fo. Rydan ni'n awyddus iawn i gadw'r lle fel ag yr oedd o pan oedd na chwarelwyr yn gweithio yma. Os ewch chi i'r stafell ffitings, mi glywch chi ogla mwg; yn y ffowndri, ogla tywod; ac yn y llofft batrwm ogla coed. Ryda ni isio cadw hyn.²⁷

Roedd eu hymgais i gadw naws ac awyrgylch gwreiddiol y gweithdai yn llwyddiannus. Mae fel petai amser wedi aros yno, rhywbeth sydd i raddau'n adlewyrchiad o ddiwedd y diwydiant llechi. Mae sawl lleoliad ledled gogledd Cymru lle mae cotiau'r dynion yn dal i grogi ar y wal, a'u hesgidiau'n gorffwys wrth y drws, gan mor sydyn y caewyd eu gweithleoedd. Hefyd mae'r pwyslais ar bwysigrwydd arogleuon yn un o'r eithriadau prin yn ôl Kenneth Hudson:

Smells distinguish one culture and one country from another more thoroughly and effectively than any other characteristic but, with very rare exceptions, museums do not deal in smells.²⁸

I'r gwrthwyneb, mae arogleuon yn rhan annatod o'r awyrgylch sy'n cael ei greu, neu'n hytrach ei gadw, yn yr Amgueddfa Lechi. Mae'r arogleuon yn atgyfnerthu'r teimlad nad yw'r chwarelwyr ond wedi gadael am y dydd.

Ysgrifennodd Morgan Rees am 'North Wales Quarrying Museum' fel y'i galwyd ar y pryd yn 1975 gan ddisgrifio'r camau a gymerwyd gan Gyngor Sir Caernarfon i sicrhau ei chadwraeth:

The immediate result of Caernarvonshire's praiseworthy decision was the preservation of the greater part of the original machinery and plant. In a

²⁷ H. R. Jones yn cael ei gyfweld gan Ieuan Bryn, 'Ogla Oel, Ogla Mwg, Ogla Tywod ac Ogla Coed – Yn Union fel yr Oedd Hi yn Nyddiau'r Chwarel.' *Y Cymro*. 13 Tachwedd, 1973, t. 8.

²⁸ Kenneth Hudson, *The Cambridge Guide to the Museums of Europe* (Cambridge: Cambridge University Press, 1991), t. 461.

large measure this has ensured a continuance of the original atmosphere of the workshops despite the transformation into a museum.²⁹

Unwaith eto ceir pwyslais ar y pwysigrwydd o gadw awyrgylch gwreiddiol y Gilfach Ddu, rhywbeth y mae'r amgueddfa'n parhau i geisio ei gyflawni wrth i'w pamffled ddatgan: 'Camwch yn ôl mewn amser i ganfod cyfrinachau'r llechi a'r chwarelwyr a fu'n eu cloddio.'³⁰ Nid oes llawer wedi newid yno ers yr 1970au: yn 1975 roedd nifer o brif atyniadau'r Amgueddfa yn agored gan gynnwys, Tŷ'r Peiriannydd, y Caban, y Gweithdy, a'r Ffowndri ac ati.

Wrth gwrs mae'r amgueddfa wedi datblygu gyda'r oes, a bellach mae ffilm yn un o'u harddangosfeydd parhaol. Mae 'Dwyn y Mynydd' yn portreadu sut brofiad oedd gweithio yn y chwarel ac yn dangos y dynion wrth eu gwaith. Ceir crefftwyr yno yn arddangos eu crefft o hollti a naddu'r llechi yn y dulliau traddodiadol gyda'r gof a'r saer yn arddangos eu gwaith hwythau'n rheolaidd. Mae'r olwyn ddŵr bellach wedi ei thrwsio a hi yw'r olwyn ddŵr fwyaf ar dir mawr Prydain sydd yn parhau i weithio. Mae'r hen weithdai yn parhau i fod yn agored i'r cyhoedd ac ambell un o hen drenau'r chwarel i'w gweld yno. Y prif newid, mae'n debyg, ers agor yr Amgueddfa'n 1972 yw gosod tai'r chwarelwyr ar y safle.

Hen dai 1-4 Fron Haul yw hen dai chwarelwyr a symudwyd o Flaenau Ffestiniog a'u hail-godi garreg wrth garreg yn y Gilfach Ddu. Mae pob tŷ yn portreadu cyfnod gwahanol yn oes y chwarelwyr o 1900 i'r 1960au. Mae'r daflen hysbysebu'n pwysleisio, 'nid dim ond cerrig, ond ffordd o fyw.'³¹ Wrth osod tai Fron Haul ar y safle, roedd hynny'n galluogi'r Amgueddfa i gynnwys dehongliadau mwy cymdeithasol a phersonol o fywydau'r chwarelwyr yn ogystal â phortreadu eu gwaith yn y chwarel.

Arian o Gronfa'r Loteri yn 1994 a sicrhodd yr ychwanegiad hwn. Sefydlwyd Cronfa Treftadaeth y Loteri gan y Loteri Genedlaethol a dosbarthwyd arian rhwng sefydliadau treftadaeth ym Mhrydain. Newid mawr arall a wynebodd yr Amgueddfa oedd polisi 'Mynediad am Ddim i Bawb' Llywodraeth

²⁹ Morgan Rees, *North Wales Quarrying Museum* (London: Her Majesty's Stationery Office, 1975), t. 16.

³⁰ Pamffled Amgueddfa Lechi Genedlaethol, 2013.

³¹ Taflen am yr Amgueddfa Lechi, 2013.

Cymru yn 2001. Mae'r polisi hwnnw, fel mae'r enw yn ei awgrymu, yn parhau i sicrhau mynediad am ddim i amgueddfeydd cenedlaethol Cymru. Gwelodd amgueddfeydd cenedlaethol Cymru gynydd o '88% (764,599 i 1,430, 428) o fewn 12 mis³² yn 2001-2 ar ôl i'r llywodraeth gyflwyno'r polisi ac mae'r niferoedd yn parhau i dyfu'n sylweddol.

Yn 1972 hefyd agorwyd Ceudyllau Llechwedd ym Mlaenau Ffestiniog. Mae chwarel Llechwedd yn parhau i gael ei gweithio mewn ambell ran ond canolfan ar gyfer twristiaid yw hi'n bennaf erbyn hyn. Mae ganddynt bentref Fictoraidd ar y safle sy'n cynnwys siop chwarel, tafarn, siop losin, hen swyddfa chwarel, sied gof a thai sy'n cynnwys arddangosfa ar hanes David Francis, y telynor dall. Maent yn cynnig teithiau; un yn mynd ar drên bach gyda thywysydd yn disgrifio bywydau'r chwarelwyr ac un sy'n crwydro trwy'r ceudyllau tanddaearol yn dilyn llais cymeriad o'r enw Siôn Dolgoch wrth iddo weithio yn y chwarel.

Yn debyg i'r Amgueddfa Lechi, mae cyn-chwarelwyr Llechwedd yn arddangos y grefft o hollti a naddu'r llechen. Ond mae hefyd weithdy cyfoes yn creu arwyddion ar gyfer y tŷ, a deunyddiau modern eraill o'r llechen. Mae'n ddiddorol a phriodol gweld yr hen a'r newydd yn cael eu defnyddio law yn llaw i bwysleisio gorffennol a phresennol y diwydiant llechi. Yn wir, mae Llechwedd i raddau ar dir canol rhwng twristiaeth-ddiwydiannol a thwristiaeth-treftadaeth. Ysgrifennodd Pat Yale am y gwahaniaeth rhwng y ddau fath o dwristiaeth:

While industrial heritage tourism is concerned with presenting redundant machinery, processes, buildings and ways of life, industrial tourism is about contemporary manufacturing processes.³³

Er bod elfennau o dwristiaeth-ddiwydiannol yn yr arddangosfa o ddefnydd cyfoes o'r llechen a'r gweithdy modern, y cyfnod diwydiannol sy'n cael ei bortreadu'n bennaf ac o ganlyniad twristiaeth treftadaeth ddiwydiannol a gynrychiolir gan Geudyllau Llechwedd yn ei hanfod. Y cyfnod Fictoraidd sy'n cael

³² Datganiad i'r Wasg, 'Ffigyrau ymwelwyr gorau erioed i amgueddfeydd cenedlaethol Cymru' yn: http://www.amgueddfacymru.ac.uk/cy/1823/?article_id=743, 3 Ebrill, 2012.

³³ Pat Yale, *From Tourist Attractions to Heritage Tourism*, t. 182.

ei bortreadu yma gyda'r pentref a'r chwarel danddaearol wedi'i rhewi mewn amser yn y cyfnod hwnnw.

Mae pamffledi Ceudyllau Llechwedd yn cynnwys ffeithiau am y teithiau ac am y chwarel: 'Welsh slate is 500 million years old and has been quarried here since 1836.'³⁴ Maent yn rhestru eu teithiau ac yn darparu gwybodaeth amdanynt:

Rheilffordd y Chwarelwr - Trafaeliwch drwy rwydwaith o geudyllau enfawr ac allddod mewn gwahanol fannau i ddysgu am y sgiliau oedd eu hangen i echdynnu'r llechen ac i brofi awyrgylch y chwarel yn ystod diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.³⁵

Mae'r daith hon yn canolbwyntio ar grefft y dynion yn bennaf ac yn dysgu'r ymwelwyr am y chwarel fel gweithle, y perchnogion a'r dynion a oedd yn dibynnu arni am eu bywiolaeth. Dyma ddisgrifiad o'r daith arall:

Y Chwarel Ddofn - yn y chwarel ddofn cewch eich tywys ar droed trwy ddeg dilynïad 'sŵn a golau' a darganfod harddwch bythgofiadwy'r llyn tanddaearol tra bod stori'r chwarelwr yn datblygu.³⁶

Mae'r daith hon yn rhoi portread mwy personol a dynol o'r chwarel wrth i lais bachgen deuddeg oed dywys yr ymwelwyr yn y tywyllwch dan-ddaear. Mae'n adrodd hanesion am ei gydweithwyr a'i deulu ac yn creu darlun o fywydau'r dynion ym Mlaenau Ffestiniog yn ystod yr oes Fictoraidd.

Ar y cyfan mae'r teithiau yng Ngheudyllau Llechwedd yn rhoi portread cytbwys o'r chwarelwr a'i fyd. Ceir cyfeiriadau at gystadlaethau'r Caban a'r Eisteddfodau ac am wleidyddiaeth a materion lleol heb orbwysleisio rhagoriaeth y chwarelwyr dros weithwyr diwydiannau eraill. Mae Siôn Dolgoch yn disgrifio pwysigrwydd y capel i'r dynion ac yn datgan eu bod yn mynd yno i addoli dair gwaith ar y Sul. Ond mae'n cadw cydbwysedd trwy gofio'r gweinidog yn llusgo aelodau o'i braidd allan o'r dafarn, 'We were a wild bunch!'³⁷ Mae'r daith yn

³⁴ Pamffled Llechwedd, 2013.

³⁵ Ibid.

³⁶ Ibid.

³⁷ Taith Llechwedd, 2013.

cyfleu pa mor beryglus oedd y gwaith gan ddisgrifio dyn yn marw ar ôl syrthio o'r graig. Ond yn wahanol i bortreadau eraill o'r diwydiant llechi, nid yw'r daith yn gorbwysleisio'r anghyfiawnderau ac mae'r gerddoriaeth werinol fywiog sy'n gefndir i'r galerïau a naratif brwdfrydig Siôn yn ysgafnhau'r awyrgylch.

Ysgrifennodd Ivor Wynne Jones nifer o lyfrynnau am Lechwedd o 1972 ymlaen. Maent yn rhoi gwybodaeth am y llechen, hanes y diwydiant, hanes Llechwedd, y chwarelwyr a John Whitehead Greaves, perchennog Llechwedd yn yr 1800au. Yn *Llechwedd Slate Caverns* disgrifia Ivor Wynne Jones yr holl drafferthion a wynebodd Greaves cyn canfod y llechen:

Greaves was on the point of abandoning Llechwedd in 1849 when a few men, working without pay, blasted a tunnel in the hollow 60 feet below the present passenger terminus, and found the slate which soon earned international fame as Meirioneth Old Vein.³⁸

Mae'r hanes hwn wedi ei addasu bellach i fod yn rhan o hanes Siôn Dolgoch, y llais sydd yn tywys ymwelwyr danddaear. Er bod anghyfiawnderau'r oes yn cael eu pwysleisio yn ystod y daith, yn ddiddorol ni fynegir unrhyw ddrwgdeimlad tuag at y perchnogion. Yn wir, mae Siôn yn canmol Greaves am ei deyrngarwch tuag at y dynion gan nad yw ei deulu yn gorfod talu rhent ar ôl i'w dad weithio am ddim i ganfod y llechen i'w feistr. Fel arfer mewn portreadau o'r diwydiant llechi, boed mewn llenyddiaeth, sefydliadau twristaidd neu lyfrau hanesyddol, mae perchnogion y chwarel yn dueddol o gael eu portreadu fel dynion creulon, hunanol sy'n poeni mwy am elw nag am einioes eu gweithwyr. Efallai bod y frawddeg fach hon gan Ivor Wynne Jones yn egluro portread Llechwedd o Greaves a'i deulu: 'Still owned by the family who opened it up in 1846, Llechwedd is the largest working slate mine in Wales.'³⁹ Neu efallai, wrth gwrs, bod y teulu Greaves yn llawer mwy ystyriol o'u gweithwyr ac yn eithriad i'r portread confensiynol o berchnogion y chwareli!

Yn 1973, cyhoeddodd Llechwedd lyfryn gwybodaeth gan Ivor Wynne Jones, *Llechwedd, Its Slate and Its People*. Yno, mae'n disgrifio'r ymateb a gawsant yn ystod y flwyddyn gyntaf ar ôl agor i dwristiaid:

³⁸ Ivor Wynne Jones, *Llechwedd Slate Caverns* (Blaenau Ffestiniog: Quarry Tours Ltd., 1978), t. 5.

³⁹ *Ibid*, t. 1.

The slate mines of Meirioneth remained a mystery to all but the quarrymen until 1972 when a half-mile level section was opened to the public. Within nine months it was awarded both the Wales tourist board's *Festival of Wales trophy* and the British Tourist Authority's *Come To Britain Trophy* as the most outstanding tourist enterprise with which Britain entered the European common market.⁴⁰

Roedd Ceudyllau Llechwedd ar y pryd yn flaengar dros ben fel safle twristaidd treftadaeth ôl-ddiwydiannol. Yn 1978 ysgrifennodd Bwrdd Twristiaeth Cymru am Lechwedd:

Llechwedd Slate Caverns have probably done more in recent years to promote an interest in Wales's industrial heritage than any other site in the country.⁴¹

Wrth gynnig teithiau tanddaearol i hen weithfeydd y chwarel, roedd y ceudyllau yn unigryw ac yn arloesol pan y'u hagogwyd am y tro cyntaf. Roedd ganddynt weledigaeth dda o ran rhagweld diddordeb mewn treftadaeth yn y cyfnod ôl-ddiwydiannol. Ers iddynt droi rhan o'r chwarel yn ganolfan dwristaidd, mae nifer o hen chwareli tanddaearol eraill wedi arallgyfeirio i'r diwydiant twristiaeth.

Roedd atyniad y Gloddfa Ganol yn agored o 1974 hyd at 1997 gyda gwybodaeth a theithiau i ymwelwyr. Wedi ei lleoli yn un o dwneli'r chwarel, roedd yr atyniad yn portreadu'r creigwyr yn paratoi'r ffrwydradau cyn chwythu'r graig er mwyn i'r llechen gael ei thrin gan yr holltwyr a'r naddwyr. Roedd y 'Ffestiniog Mountain Tourist Centre' yn cynnwys amgueddfa am y diwydiant llechi, siop greffttau, teithiau trwy'r hen dwneli tanddaearol a theithiau dros dopiau'r chwarel mewn cerbyd Land Rover. Disgrifiodd Bwrdd Twristiaeth Cymru'r Gloddfa Ganol yn 1978:

There is an opportunity to step into the slate-mining past at Gloddfa Ganol, which stands high above Blaenau Ffestiniog. The story of slate, its people and their struggles, is told in an exciting and informative display at

⁴⁰ Ivor Wynne Jones, *Llechwedd, Its Slate and Its People* (Blaenau Ffestiniog: Quarry Tours Ltd, 1973), t. 1.

⁴¹ Wales Tourist Board, *A Glimpse of the Past*, t. 4.

the Museum and Slate Works, where the original massive machinery has been restored. Quarrymen's cottages, built in the 1840s, are furnished to reflect the style of three eras of slate quarrying, from the 1800s to the late 1960s.⁴²

Mae'n debyg, felly, bod rhes o dai fel Bron Haul yn yr Amgueddfa Lechi yno erbyn diwedd yr 1970au. Yn debyg i Lechwedd, roedd y Gloddfa Ganol yn cyhoeddi llyfrynnau gyda gwybodaeth am y chwarel a'r diwydiant. J. G. Isherwood oedd awdur *Candles to Caplamps, The Story of Gloddfa Ganol* ac *An Underground walk into the Slate Mountain, on floor five at Gloddfa Ganol*. Mae'r llyfrynnau'n cynnwys mapiau o'r safle, gwybodaeth am lechi, y chwarelwyr a'r diwydiant.

Mae Chwarel Hen Lanfair, ger Harlech hefyd yn chwarel danddaearol sydd bellach yn cynnig mynediad i dwristiaid. Gellir cerdded trwy'r galeriau a'r ogofâu lle roedd yr hen chwarelwyr yn gweithio a gweld eu hen raffau a chadwyni yn dal i grogi o'r graig. Cafodd *First Knight* ei ffilmio yn y chwarel hon gyda'r actorion Sean Connery a Richard Gere, a chaiff hyn ei bwysleisio yn yr hysbysebion. Mae'r siop yn arddangos memorabilia'r ffilm a hen wyntyllau llechi ochr yn ochr â hen offer y chwarelwyr. Rhywbeth arall a ddefnyddir gan Chwarel Hen Llanfair i farchnata'r safle yw'r olygfa anhygoel o'r môr. Efallai bod y chwarel hon yn llawer llai o ran maint na chanolfannau twristaidd eraill tebyg sy'n cynnig teithiau tanddaearol ond maent yn gwneud y mwyaf o'r hyn sydd ganddynt i'w gynnig ac yn llwyddo i ddysgu ymwelwyr am y diwydiant llechi a threftadaeth Cymru.

Yng Nghorris mae Canolfan Grefft Corris yn cynnwys nifer o atyniadau sy'n gystylliedig â'r diwydiant llechi. Mae byrddau gwybodaeth yn y Ganolfan yn dehongli hanes y chwareli yng Nghorris gydag offer y chwarelwyr wedi eu gosod o amgylch y byrddau. Mae lluniau o weithwyr y diwydiant llechi yng Nghorris yn 1890 ynghyd â gwybodaeth am eu crefft, eu bywydau a'r llechen ei hun. Trwy gynnwys y wybodaeth hon am hanes y fro, mae'r ganolfan yn ceisio addysgu ymwelwyr a'r bobl leol am gyn-brif ddiwydiant Corris. Ceir dau atyniad yn y safle sy'n defnyddio hen chwareli tanddaearol at ddibenion gwahanol dros ben.

⁴² Ibid.

Mae 'Corris Mine Explorers' yn cynnig taith o amgylch Braich Goch, hen chwarel yng Nghorris. Gall y daith amrywio o ran amser, sef rhwng awr a hanner diwrnod. Yma hefyd mae hen offer y chwarelwyr yn parhau i fod yn y galerïau tanddaearol ynghyd â hen bacedi sigarét, canhwyllau a pheiriannau. Mae'r tywysydd yn dangos sut yr oedd yr hen beiriannau'n gweithio a sut y defnyddiwyd yr offer. Maent yn ceisio cyfleu'r gwaith yn y chwareli tanddaearol mewn ffordd addysgol, hwyliog a difyr. Mae elfen bersonol i'r daith wrth iddynt arddangos olion y dynion, eu gwaith, a'u henwau wedi'u cerfio yn y graig. Yn ôl eu taflen hysbysebu:

Corris Mine Explorers explore the virtually untouched, historic workings of an old Welsh slate mine. First worked in 1836 and abandoned by the miners 40 years ago, more than 130 years of mining history is captured inside awaiting discovery.⁴³

Cyflwynir y daith fel cyfuniad o daith hanesyddol ac antur eithafol. Mae'n daith anodd yn gorfforol wrth i'r ymwelwyr gerdded trwy dwneli o greigiau gwlyb ac mae'n addysgol wrth i'r tywysydd ddisgrifio bywyd a gwaith y chwarelwyr.

Mae 'Labyrinth y Brenin Arthur' yn daith arall i chwarel danddaearol yng Nghorris. Mae'r atyniad hwn yn defnyddio hen chwarel er mwyn adrodd hanes y Brenin Arthur a hen chwedlau Cymreig mewn lleoliad dramatig. Mae'r daith yn dibynnu'n fawr ar ddychymyg wrth i chwarel danddaearol sydd wedi ei boddi'n rhannol droi i fod yn ogof y Brenin Arthur. Ar ôl mynd ar daith mewn cwch mae'r ymwelwyr yn cael eu tywys trwy'r labyrinth gan oedi bob hyn a hyn i glywed y stori sy'n seiliedig ar hen chwedlau Cymreig. Mae'r atyniad yma felly'n gwbl wahanol i'r teithiau eraill yn y chwareli tanddaearol sy'n cynnig dehongliad o'r chwarelwyr a'u gwaith. Yma, mae'r chwarel ei hun yn cael ei thrawsnewid i fod yn labrinth ac yn hytrach na hanesion am fywydau'r chwarelwyr, ceir chwedlau'r Brenin Arthur.

Mae'r daflen hysbysebu yn ceisio cyfleu awyrgylch o ddirgelwch:

Sail through a magical waterfall back to a time of myth and legend. A mysterious hooded boatman sails you underground, through a waterfall,

⁴³ Pamffled Corris Mine Explorers, 2013.

and back across a thousand years deep into the vast caves of the Labyrinth. You're in the darkest of the Dark Ages....⁴⁴

Mae'r holl deithiau tanddaearol hyn yn cael eu disgrifio fel llefydd lle y mae amser wedi sefyll yn stond. Gydag offer y chwarelwyr, eu dillad ac eitemau personol yn parhau i orffwys mewn amgylchfyd sydd wedi aros yr un peth ers eu diwrnod olaf yn y gwaith, mae'r teithiau tanddaearol yn gallu manteisio ar hyn i gyfleu naws yr oes a fu pan oedd dynion yn gweithio yma. Mae Labrinth y Brenin Arthur yn manteisio ar leoliad heb olion amser trwy fynd â'r ymwelwyr yn ôl i oes y Brenin Arthur.

Cwmni arall sy'n cynnig teithiau i chwarel lechi danddaearol yw 'Go Below, Underground Adventures' ym Metws-y-coed. Yn wahanol i'r teithiau a gynigir gan gwmnïau eraill, nid oes unrhyw bwyslais ar y diwydiant llechi yn hysbysebion 'Go Below' ond yn hytrach ar y diwydiant mwyngloddio. Mae'r teithiau yn cael eu harwain gan dywysydd sy'n rhannu gwybodaeth am 'this fascinating environment, the mining industry and its history.'⁴⁵ Nid yw'n eglur o gwbl mai hen chwarel lechi yw'r gloddfa hon ac mae'n ddiddorol nad ydynt yn crybwyll hynny. Yn wahanol i 'Corris Mine Explorers' sy'n gyfuniad o antur a hanes, mae'r daith hon yn amlwg yn canolbwyntio ar yr ochr antur eithafol. Mae amrywiaeth y daith yn golygu ei bod yn antur sy'n gwthio'r corff i'r eithaf: 'You'll cross zip-lines, abseil into caverns, boat across water, scramble up streams and scale rock faces.'⁴⁶ Mae llynnoedd tanddaear, siambrau, twneli a hen offer cloddio yn datgelu byd a diwydiant sydd ynghudd i'r byd tu allan.

Yn 2013 agorwyd gwifren wib yn Chwarel y Penrhyn, y weiren hiraf o'i math yn Ewrop gyda'r bwriad i osod gwifren hirach fyth mewn chwarel ym Mlaenau Ffestiniog. Mae'r gwifrau yn ymgais fwriadol i ddenu twristiaid i Fethesda a Blaenau Ffestiniog, ardaloedd sydd heb lawer o atyniadau i'w cynnig i ymwelwyr oni bai am y tirlun. Y gobaith yw y bydd y gwifrau yn cyfrannu at yr economi leol ac yn denu twristiaid i ardaloedd difreintiedig. Ond trwy arallgyfeirio'r chwarel at ddibenion cyfoes ar gyfer twristiaid, mae'r gwifrau hyn yn symbol priodol o'r ffordd y mae'r diwydiant twristiaeth yn disodli'r diwydiant

⁴⁴ Pamffled King Arthur's Labyrinth- An Underground Adventure, 2013.

⁴⁵ Pamffled Go Below, Underground Adventures, 2013.

⁴⁶ Ibid.

llechi yn y bröydd chwarelyddol. Mewn taith bws i fyny drwy'r chwarel mae tywyswyr yn rhoi hanes bras am y chwarel a'r diwydiant llechi ac, os ydych yn lwcus yn canu 'Y Chwarelwr' gan John ac Alun!

Mae 'Zip World' chwarel y Penrhyn yn cynnwys dwy wifren sy'n croesi ar draws y chwarel dros y llyn anferth yn y canol. Mae teithwyr ar y wifren yn cyrraedd cyflymder o dros gan milltir yr awr ar uchder o 500 o droedfeddi. Mae pamffled 'Zip World' yn disgrifio'r wifren fel 'A journey through time'⁴⁷ ac yn rhestru ffeithiau am Chwarel y Penrhyn:

- It was once the largest slate quarry in the world.
- The first operations (in North Wales) using general anaesthetic were successfully performed in the quarry hospital.
- It was where the first zip lines were built more than 100 years ago to extract rock (these were known as Blondind after the famous tightrope walker)
- Infamously, it is where the longest strike in British Industrial History took place.
- Today we have the longest and fastest zip lines in Europe.⁴⁸

Mae'r ffaith bod gwifrau gwib wedi eu hadeiladu yno dros gan mlynedd ynghynt yn plethu'r hen a'r newydd gyda'i gilydd yn gelfydd. Mae'r pamffled hefyd yn annog ymwelwyr i rannu eu profiad ar y we gan rannu fideos a lluniau ac ati. Mae 'Zip World' yn symbol addas o hen chwarel, sy'n parhau i gynhyrchu llechi ac yn addasu i ddenu twristiaid i'r fro.

Mae Llechwedd yn llwyddiannus wrth addasu gyda'r oes trwy gydweithio â 'Zip World' ac Antur Stiniog. Bydd gwifren wib a trampolïanau tanddaear yn cael ei hagor Haf 2014 ac maent wedi creu llwybrau beics ar hyd yr hen chwarel ar gyfer beicio mynydd. Mae menter Antur Stiniog wedi bod yn hynod o lwyddiannus gyda'r lle wedi ei archebu'n llawn ymlaen llaw am fisoedd! Mae gan y cwmni ganolfan newydd yn Llechwedd yn ogystal â siop ar brif stryd Blaenau Ffestiniog. Gellir gweld yr adeilad newydd o'r lôn; mae'n fodern ac yn addas i'w leoliad gyda ffenestri enfawr, balconi pren ac wrth gwrs y llechen yn coroni'r cyfan. Cafwyd y llechi o hen adfeilion y chwarel, rhywbeth sy'n symbolaidd o'r

⁴⁷ Pamffled Zip World, 2013.

⁴⁸ Ibid.

ffordd y mae Llechwedd yn defnyddio hen adnoddau at ddibenion cyfoes. Byddaf yn trafod y fenter hon ymhellach yn yr adran am chwaraeon. Ond mae'n ddiddorol mor agos yw'r berthynas rhwng twristiaeth y bröydd chwarelyddol a chwaraeon. Daw twristiaid o bell i ddefnyddio hen chwareli wedi'u boddi ar gyfer deifio, neu glogwyni hen chwareli fel llefydd dringo a hen lwybrau chwarelwyr i gerdded.

Chwarel arall sydd wedi cael ei haddasu ar gyfer twristiaid yw Chwarel Llwyngwern ym Machynlleth, sydd bellach yn Ganolfan Dechnoleg Amgen. Mae'r ganolfan yn addysgu'r cyhoedd am ffyrdd hunangynhaliol a chynaliadwy o fyw. Yn wreiddiol technoleg amgen oedd eu prif ganolbwynt ond bellach mae Centre for Alternative Technology (CAT) wedi datblygu i gynnig pob math o gyrsiau - o rai undydd i ôl-radd, a hefyd fel canolfan sy'n annog cynaladwyedd a byw'n wyrdd. Mae'r ffaith bod y ganolfan hon wedi ei lleoli mewn hen chwarel yn nodweddiadol oherwydd mae'n safle ôl-ddiwydiannol sy'n annog pobl i ddychwelyd at natur. Mae hen system y chwarel o gario tunellau o lechi bellach wedi ei datblygu i gario ymwelwyr i fyny ac i lawr ochr y bryn. Er mai hunangynhaliath yw prif ffocws y ganolfan, mae hen olion y chwarel yn parhau i gael eu defnyddio mewn ambell fan, fel mannau o ddiddordeb yn hytrach nag arddangosfa.

Ar yr olwg gyntaf, nid oes unrhyw gyfeiriadau at y diwydiant llechi na'r hen chwarel lle mae'r ganolfan wedi ei lleoli. Bu cwynion am ddiffyg Cymreictod y ganolfan ac mae'n wir nad ydynt yn cyfeirio at ddiwylliant a chymdeithas yr ardal nac ychwaith at hanes y chwarelwyr. Ond wrth grwydro'r safle gwelir ambell beth fel twll chwarel yn cael ei ddefnyddio i gynhesu tŷ gwydr. 'Turning Slate into Soil'⁴⁹ oedd pennawd un o daflenni hysbysebu CAT, sydd yn cyfleu pwysigrwydd symbolaidd (bron) eu safle ôl-ddiwydiannol. Trwy gymryd hen chwarel a'i throi'n ganolfan technoleg amgen, mae'r safle'n pwysleisio'r neges bod angen dychwelyd at natur a defnyddio ffynonellau naturiol i gynhyrchu'r hyn sydd ei angen arnom.

Hen chwarel arall sydd wedi ei harallgyfeirio yw'r Mynydd Gwefru yn Ninorwig. Dewiswyd Elidir Fawr oherwydd bod y chwarelwyr wedi cloddio ochr

⁴⁹ Pamffed CAT, 2010.

y mynydd ac wedi gadael lle i greu galerïau enfawr yng nghrombil y mynydd. Fe'i hagarwyd fel lle cynhyrchu trydan yn 1984 cyn datblygu'n safle ar gyfer twristiaid yn 1988. Mae'r safle'n cynnig taith o amgylch a'r tu mewn i Fynydd Elidir i ddangos lle y cynhyrchir y trydan. Mae gwyddoniaeth yn ganolbwynt amlwg i'r atyniad hwn, bu arddangosfa Techniquest yn y ganolfan a bellach mae bwriad i greu arddangosfa barhaol am y Mynydd Gwefru. Mae'r Mynydd Gwefru yn cynnig teithiau addysgiadol am eu dull o gynhyrchu trydan a cheir cyfeiriadau at hanes y safle a'r diwydiant llechi yn ystod y teithiau. Ar wefan y cwmni ac yn eu pamffled maent yn cyfeirio at waith y chwarelwyr:

Nature at its most powerful - Take a journey of exploration deep inside one of Europe's largest man made caverns to learn how electricity reaches you when you need it most.⁵⁰

Ond fel y mae'r dyfyniad hwn yn ei bwysleisio, trydan yw prif ganolbwynt y Mynydd Gwefru a'r teithiau i ymwelwyr, ac eilbeth yw olion y diwydiant llechi.

Yn Llanberis hefyd mae hen ysbyty'r chwarel ar agor i'r cyhoedd. Gellir gweld offer ac ystafelloedd yr ysbyty fel yr oeddynt gan mlynedd yn ôl. Roedd yn un o'r ysbytai cyntaf i ddefnyddio Pelydr X ddwy flynedd yn unig wedi iddo gael ei ddyfeisio. Mae nifer o hanesion difyr am feddygon yr ysbyty a'r llawdriniaethau arloesol a berfformiwyd ar y chwarelwyr a oedd wedi eu hanafu. Mae golygfa anfarwol o Lyn Padarn o'r ysbyty ac yn driw i hen chwedlau'r bröydd chwarelyddol mae nifer o straeon ysbryd yn gysylltiedig â'r adeilad hwn. Mae'r ysbyty wedi ei leoli yng nghanol Llwybr Chwarel Vivian. Yn 1978 ysgrifennodd Bwrdd Twristiaeth Cymru am y llwybr:

Following the paths once trodden by quarrymen you will see splitting and dressing sheds, inclines, the caban, blast shelters, the former Quarry Hospital - to be used as an interpretive centre for tourists - and many more fascinating features associated with this once great industry.⁵¹

⁵⁰ Pamffled y Mynydd Gwefru, 2013.

⁵¹ Wales Tourist Board, *A Glimpse of the Past*, t. 4.

Mae'r llwybr hwn a'r ysbyty hefyd yn rhan allweddol o daith trên Padarn heibio'r llyn. Mae'r ysbyty yn adeilad hynod ac mae'n ddelwedd eiconig o Lanberis oherwydd ei leoliad ar draws Llyn Padarn.

Roedd Inigo Jones, Penygroes, yn gwerthu llechi ysgrifennu ar gyfer ysgolion ledled Prydain o 1861 hyd nes i bapur ddisodli'r llechen. Ers hynny mae'r cwmni wedi creu pob math o ddeunyddiau o'r llechen ac mae'r siop yn arddangos eu crefftau. Mae Inigo Jones bellach yn ganolfan i dwristiaid ac yn cynnig taith o amgylch eu gweithdai lle gellir gweld y crefftwyr wrth eu gwaith, dysgu am hanes y diwydiant llechi a chreu crefftau llechen. Mae'r daith yn dechrau gyda ffilm am y llechen a sut roedd hi'n cael ei chloddio a'i thrin ddoe a heddiw. Dyma atyniad sydd yn troedio'r tir canol rhwng twristiaeth treftadaeth a twristiaeth diwydiannol oherwydd ei fod yn cyflwyno hanes y diwydiant llechi a'i bresennol law yn llaw. Yn y gweithdai mae pwyslais ar bwysigrwydd Inigo Jones o fewn y diwydiant a datblygiad y llechen fel deunydd moethus. Mae arddangosfeydd daearegol, hanesyddol, am dorri llythrennau a chaligraffeg ac mae cyfle i ymwelwyr roi cynnig ar galigraffeg a cherfio llechen. Er bod nifer o siopau crefftau llechi ar agor ledled Cymru, nid oes arddangosfeydd eraill sy'n dehongli'r diwydiant llechi nac yn cynnig teithiau ffurfiol o'r gweithdai.

Felly, beth am ganolfannau sydd yn canolbwyntio ar y gymdeithas chwarelyddol yn hytrach na'r diwydiant? Mae rhywfaint o ddehongli yn yr Amgueddfa Lechi a Llechwedd, ond mae Cae'r Gors, cyn-gartref Kate Roberts, yn Rhosgadfan yn llwyddo i gyfleu hanes cymdeithasol y chwarelwyr trwy bortreadu hanes un teulu. Roedd Kate Roberts yn ferch i chwarelwr ac mae'r cartref ei hun wedi ei gadw fel y buasai yn ystod ei phlentyndod yn yr oes Fictoraidd. Trwy bortreadu a dehongli bywyd unigolyn, mae Cae'r Gors yn gofnod hanesyddol o'r ardal chwarelyddol hon yn ogystal â bod yn gofnod o fywyd yr awdures. Mae'r ganolfan yn cynnig cyrsiau a gweithgareddau addysgol i blant ac mae'n debyg bod apêl yr atyniad hwn wedi ei anelu at drigolion y fro neu Gymry sy'n mwynhau gweithiau llenyddol brenhines ein llên.

Ym mhamffled Cae'r Gors, Canolfan Dreftadaeth, dywedir:

Mae eich taith yn cychwyn yn y Caban, adeilad newydd sbon a godwyd yn 2006 ar safle'r hen dŷ gwair. Yno cewch wyllo ffilm fer yn trafod cerrig

milltir yng ngyrfa a bywyd personol Kate Roberts, ynghyd â chael cyfle i bori drwy, a phrynu, ei chynnyrch llenyddol yn ein siop.⁵²

Mae'r 'Caban' wrth gwrs yn gyfeiriad at y diwydiant llechi a phwysigrwydd hynny i'r teulu a oedd yn byw yng Nghae'r Gors a'r ardal gyfan. Mae'r beudy wedi cael ei drosi i fod yn arddangosfa aml-gyfrwng yn trafod yr hyn a ysbrydolodd Kate Roberts i ysgrifennu. Mae yma ddehongliad o fywyd ar dyddyn, portread o Rosgadfan ar droad yr ugeinfed ganrif a phwyslais ar ddylanwad y chwareli ar y gymdeithas glòs honno. Yn y tŷ ei hun mae cegin, parlwr, tŷ llaeth a siambr wedi eu gosod fel y buasant ym mhlentynod Kate Roberts ac yng ngyfnod diwydiannol chwareli Dyffryn Nantlle.

Ochr arall y geiniog yw cyfoeth syfrdanol yr Arglwydd Penrhyn. Cyflwynwyd Castell y Penrhyn i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol gan Lady Janet Douglas Pennant, un o ddisgynyddion y teulu, yn 1951. Ers hynny mae'r Castell wedi bod yn agored i'r cyhoedd. Mae'n Gastell Neo-Normanidd a adeiladwyd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi ei leoli yn Llandygái ynghanol ei erddi mawreddog. Mae gan y Castell y casgliad mwyaf o gelf yng ngogledd Cymru gan gynnwys 'Catrina Hooghsaet' gan Rembrandt yr amcangyfrifir ei fod yn werth dros £40 miliwn.

Yn ogystal ag arddangos cyfoeth teulu Pennant, gellir hefyd archwilio rhannau o'r Castell ar gyfer y gweision gyda phopeth wedi ei ail-greu fel y buasai yn y cyfnod Fictoraidd. Mae'n gofnod diddorol o fywyd yn y cyfnod ac o'r cyfoeth a enillwyd o'r diwydiant llechi a chaethwasiaeth yng nghaeau siwgr Jamaica. Ceir ychydig o gyfeiriadau at y diwydiant llechi yn y Castell. Mae 'The Penrhyn Slate Quarry' gan Henry Hawkins yn crogi ar y wal ac yn portreadu Chwarel y Penrhyn yn ei anterth. Yn y Castell hefyd mae gwely sy'n pwysu tunnell wedi ei gerfio o lechi. Mae'r atyniad hefyd yn cynnwys Amgueddfa Rheilffordd sy'n canolbwyntio'n bennaf ar reilffyrdd a threnau gogledd Cymru. Gwelir rhai trenau diwydiannol a oedd yn cludo llechi a rhai trenau moethus ar gyfer pobl gyfoethog o ddechrau'r ugeinfed ganrif. Byddaf yn trafod rheilffyrdd ac amgueddfeydd sy'n gysylltiedig â'r diwydiant llechi a thwristiaeth yn nes ymlaen yn y bennod hon.

⁵² Pamffled Cae'r Goes, Canolfan Dreftadaeth, 2010.

Safle arall sy'n cyfleu cyfoeth y teuluoedd a oedd yn berchen ar chwareli yng ngogledd Cymru yw Ystâd y Faenol, Felinheli. Mae'r Faenol yn gyn-gartef mawreddog i berchnogion chwarel Dinorwig. Roedd teulu Assheton-Smith yn byw yn yr hen safle Tuduraidd o 1762 ymlaen. Mae'r safle bellach yn cael ei logi ar gyfer digwyddiadau a gwyliau cerddorol. Mae Glynllifon, ger Llandwrog, yn hen blasty a gerddi a oedd yn eiddo i'r Arglwydd Niwbwrch. Roedd yr Arglwydd Niwbwrch yn dirfeddiannwr mawr yng ngogledd Cymru ac roedd yn berchen ar sawl chwarel gan gynnwys Llechwedd ym Mlaenau Ffestiniog.⁵³ Bu gerddi Glynllifon ar agor i'r cyhoedd ers yr 1980au pan ddaethant i law Cyngor Gwynedd. Mae Glynllifon, fel Ystâd y Faenol a Chastell y Penrhyn, yn adlewyrchu cyfoeth perchnogion y chwareli ac yn gyferbyniad llwyr i safleoedd treftadaeth fel Cae'r Gors neu'r rhes o dai, Fron Haul, yn yr Amgueddfa Lechi.

Mae Amgueddfa'r Môr, Porthmadog yn dehongli rhywfaint ar bwysigrwydd y diwydiant llechi a'r llongau a oedd yn allforio llechi o Gymru i bob rhan o'r byd. Yn wir, roedd y diwydiant llechi yn hybu diwydiannau cludiant wrth allforio'r llechi. Defnyddiwyd llongau o Borthmadog ar gyfer llechi Blaenau Ffestiniog a'r cyffiniau, Porth Penrhyn ym Mangor ar gyfer llechi Chwarel y Penrhyn a Phorth Dinorwig ar gyfer llechi Chwarel Dinorwig. Yn aml, fel yn achos Dinorwig a Phenrhyn, yr un boneddigion a oedd yn berchen ar y chwareli a'r porthladdoedd. Trenau oedd yn cludo'r llechi o'r chwarel gan amlaf ac o ganlyniad roedd y rheilffyrdd hefyd yn hybu'r economi leol.

iii) Rheilffyrdd

Mae rheilffyrdd gogledd Cymru yn flaenllaw yn y dreftadaeth cludiant ac yn denu llawer o dwristiaid. Dywed Dafydd Roberts am reilffyrdd y diwydiant llechi:

Y mae'n bryd cydnabod bod y rhwydwaith hwn yn un gwerthfawr o safbwynt rhyngwladol. Gellir priodoli hyn i ddau brif ffactor, sef yn gyntaf, esblygiad y rhwydwaith hynod hwn, ac yn ail, y newid o fod yn rheilffyrdd

⁵³ Roedd John Whitehead Greaves yn rhentu Chwarel Llechwedd gan yr Arglwydd Niwbwrch am flynyddoedd nes iddo lwyddo i brynu'r tir oddi wrtho. Roedd Arglwydd Niwbwrch hefyd yn rhentu Chwarel Diffwys i William Turner yn 1799 a Chwareli yng Nglynrhonwy Uchaf, Llanberis, Bowydd ac amryw o chwareli ym Mlaenau Ffestiniog.

diwydiannol i'r sefyllfa bresennol o fod yn rheilffyrdd treftadaeth.⁵⁴

Yn wir, tra bu rheilffyrdd a threnau'r bröydd chwarelyddol yn cael eu defnyddio'n draddodiadol i gludo llechi, erbyn heddiw mae nifer o'r hen lwybrau wedi eu hailagor ac maent bellach yn cludo twristiaid ar draws gogledd Cymru. Mae'r rheilffyrdd treftadaeth hyn yn atyniad twristaidd arall sydd yn deillio'n uniongyrchol o ddirywiad y diwydiant llechi.

Mae gan Reilffordd Llyn Llanberis berthynas agos gyda'r Amgueddfa Lechi. Dyma yw man cychwyn y daith sydd yn mynd trwy Barc Gwledig Padarn ar hyd glannau Llyn Padarn i ben y daith ym Mhenllyn. Crëwyd y rheilffordd o hen locomotifau dur wedi eu hachub o'r chwareli lleol. Mae gwefan Rheilffordd Llyn Padarn yn disgrifio hanes twristiaeth yn Llanberis ac yn cyfleu pwysigrwydd trên bach yr Wyddfa i ddatblygiad y pentref:

Gydag agor y rheilffordd o Lanberis i gopa'r Wyddfa yn 1897 [Sic., 1896], gwelwyd cynnydd mawr yn nifer yr ymwelwyr yn dod ar eu gwyliau, ac mae pwysigrwydd twristiaeth i'r economi leol wedi ehangu'n gyson ers hynny, i'r un graddau ag y mae gwaith y chwareli wedi edwino.⁵⁵

Yn wrthgyferbyniad i ffyniant y diwydiant twristiaeth yn nyddiau cynnar rheilffordd yr Wyddfa, datblygodd rheilffordd Llyn Padarn o ganlyniad i gau chwarel Dinorwig ac oherwydd poblogrwydd trên yr Wyddfa a'r Amgueddfa Lechi, mae gan Reilffordd Llyn Padarn leoliad gwych gyda digon o dwristiaid parod.

Rheilffordd Corris oedd y rheilffordd gul gyntaf yng nghanolbarth Cymru. Cafodd ei hadeiladu yn 1859, gan ymateb i alw'r diwydiant llechi. Roedd y cartiau llechi'n cael eu llusgo ar y traciau gan geffylau nes i'r trenau stêm gyrraedd yn 1878. Dechreuodd y cwmni gario'r cyhoedd o 1883 hyd at 1930 ac fe ddaeth y rheilffordd i ben yn gyfan gwbl yn 1948. Mae gwefan Rheilffordd Corris yn disgrifio ei hatgyfodiad:

⁵⁴ Dafydd Roberts, "A Narrow Swathe of English Eccentricity": Ailagor Rheilffyrdd Tal-y-llyn a Ffestiniog' yn *Cof Cenedl XXIII* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2008), t. 165.

⁵⁵ 'Croeso i Reilffordd Llyn Llanberis' yn <http://www.lake-railway.co.uk/index.php/cy/> Ionawr 2014.

Agorwyd Amgueddfa Rheilffordd Corris yn 1970 gan ail ddechrau'r gwasanaeth i deithwyr yn 2002, gyda gwasanaeth tynnu gan stêm yn dychwelyd yn 2005, a weithredwyd gan wirfoddolwyr Cymdeithas Rheilffordd Corris.⁵⁶

Mae amgueddfa rheilffordd Corris yn yr orsaf ac mae'n rhaid ei bod wedi chwarae rhan fawr yn atgyfodi'r rheilffordd. Trwy ennyn diddordeb pobl leol ac ymwelwyr, codwyd rheilffordd Corris ar ei thraed ac mae hi'n parhau i gael ei rhedeg gan wirfoddolwyr. Mae'r amgueddfa'n cynnig taith o'r sied injan, sy'n 134 mlwydd oed, a thaith o amgylch y gweithdai ym Maespoeth. Mae sawl un o'r rheilffyrdd yn cynnwys amgueddfa neu arddangosfa am hanes y rheilffordd, dyma rywbeth sy'n apelio at dwristiaid ac yn cyflwyno gwybodaeth sy'n gosod y rheilffordd o fewn cyd-destun hanesyddol.

Yn dilyn blynyddoedd o ddibynnu ar geffylau a chychod, yn y 1830au dechreuwyd defnyddio locomotifau i gludo llechi Blaenau Ffestiniog i Borthmadog. Ni chafodd y rheilffordd drenau stêm tan i 'The Princess' ac 'The Mountaineer' gyrraedd yn 1863 ac yna 'The Prince' a 'Palmerston' yn 1864. Y flwyddyn honno rhoddodd y Bwrdd Masnach ganiatâd i'r rheilffordd redeg trenau ar gyfer teithwyr, sef y lein gul gyntaf ym Mhrydain i wneud hynny. O 1866 ymlaen cynigiwyd teithiau rhad i'r chwarelwyr.⁵⁷ Gyda'r dirywiad yn y diwydiant llechi, erbyn yr 1920au roedd y rheilffordd yn cario mwy o dwristiaid nag o lechi ac yn ddibynnol ar y twf o ymwelwyr yn ystod yr haf.

Caewyd y lein yn 1946 ac o 1949 ymlaen cafwyd ambell ymgais i'w hatgyfodi. Ers adfer y lein yn 1955, mae wedi ennill nifer o wobrau twristaidd gan gynnwys cael ei rhestru fel y pumed lleoliad mwyaf poblogaidd i dwristiaid yng Nghymru yn 1972 ac enillydd y wobwr 'Independent Railway of the Year' yn 1987. Mae Rheilffordd Ffestiniog yn parhau i ddefnyddio locomotif gwreiddiol o 1863 ac mae bellach wedi dathlu 150 o flynyddoedd fel rheilffordd gul gyda threnau stêm yn rhedeg arni. Roedd Rheilffordd Ffestiniog yn enwog yn yr oes

⁵⁶ Cymdeithas Rheilffordd Corris, 'Information' yn <http://www.corris.co.uk/> Ionawr 2014.

⁵⁷ Ffestiniog Railway Co., 'History- Ffestiniog Railway/ Part 2 - The Fairlie Solution' yn http://www.festrail.co.uk/fr_history_2.htm?mn=4&sm=4-1 Ionawr 2014.

Fictoraidd am fod y lein gul gyntaf i ddefnyddio locomotifau trêen ac mae'r pedwar ohonynt yn parhau i gael eu defnyddio hyd heddiw.

Datblygodd Rheilffordd Ucheldir Cymru o sawl rheilffordd a oedd yn gysylltiedig â'r diwydiant llechi:

The origins of what was to become the Welsh Highland Railway can be traced back to a number of narrow gauge railway developments: the Nantlle Tramway, the Croesor Tramway, the Portmadoc, Beddgelert & South Snowdon Railway and, perhaps the best known, the North Wales Narrow Gauge Railways.⁵⁸

Agorodd rheilffordd Nantlle yn 1828 gyda cheffylau'n llusgo'r cartiau.

Datblygodd yn debyg i'w chwaer reilffordd ym Mlaenau Ffestiniog ac yr un fath â honno, erbyn yr 1920au, roedd y ddwy'n manteisio i'r eithaf ar y diwydiant twristiaeth:

It wasn't just slate and quarry workmen that the railway carried. The railway made the most of being the closest to the summit of Snowdon, so tourists were also encouraged by advertising the wonderful scenery and of access to paths up Snowdon.⁵⁹

Dyma brofi'r cysylltiad agos rhwng twristiaeth gogledd Cymru a'r diwydiant llechi. Roedd y trenau traws-gwlad hyn yn chwarae rhan fawr yn niwydiant twristiaeth y bröydd chwarelyddol hyd at eu cau. Yn anffodus, caodd y rheilffordd yn 1937 ond yn 1961 sefydlwyd Cymdeithas Rheilffordd Ucheldir Cymru, a oedd yn ymdrechu i ailagor y rheilffordd gyda help gwirfoddolwyr. Erbyn hyn, mae Rheilffordd Ffestiniog a Rheilffordd Ucheldir Cymru wedi uno'n gwmni sy'n cynnig dwy daith, rhwng Caernarfon a Phorthmadog a rhwng Phorthmadog a Blaenau Ffestiniog.

Er gwaetha'r ffaith bod yr holl reilffyrdd hyn yn cyfrannu llawer at economi leol gogledd Cymru, yn denu twristiaid ac yn amddiffyn creiriau hanesyddol y bröydd, roeddynt yn wynebu llawer o wrthwynebiad gan rai carfannau lleol. Yn ei erthygl, "A Narrow Swathe of English Eccentricity": Ailagor

⁵⁸ Ibid.

⁵⁹ Ibid.

Rheilffyrdd Tal-y-llyn a Ffestiniog' mae Dafydd Roberts yn olrhain y drwgdeimlad lleol ym Mlaenau Ffestiniog tuag at ailagor y rheilffordd oherwydd yr ofnau am broblemau diweithdra'r fro. Roedd y brodorion yn ofni y buasai ailagor y rheilffordd yn arwain y Bwrdd Canolog Cynhyrchu Trydan i benderfynu 'peidio â chodi gorsaf drydan ger Tanygrisiau ac, o'r herwydd, na fyddai swyddi yr oedd eu mawr hangen yn cael eu creu yn yr ardal.'⁶⁰ Roedd camsillafu enw'r ardal yn peri drwgdeimlad lleol hefyd, a threfnwyd protestiadau gan Gymdeithas yr Iaith. Ar ôl cryn frwydro rhwng y cwmni a'r gymdeithas cytunwyd mai 'Rheilffordd Ffestiniog' oedd y sillafiad cywir ac nid 'Ffestiniog Railway'. Ond erbyn cyfaddawdu yn ôl Roberts, 'i bobl leol, ac i Gymry Cymraeg, yr oedd y ffrwgwd yn arwydd pellach o'r gagendor a fodolai rhwng y Cwmni a'r gymuned leol.'⁶¹ Efallai i'r anghydfod rhwng pobl Blaenau Ffestiniog a'r rheilffordd arwain at ofid mewn ardaloedd chwarelyddol eraill.

Yn Rhyd-ddu cafwyd un achos o ddyn lleol yn gwthio trê'n ar ei ochr oddi ar y traciau! Roedd teimlad cryf yn yr ardal honno fod angen cadw cefn gwlad Cymru'n rhydd o dwristiaid. Yn wir, yn ôl erthygl Dafydd Roberts:

Wrth drafod y cais pwysleisiai aelodau'r Pwyllgor Cynllunio yr angen i warchod etifeddiaeth Eryri, ac y mae'n amlwg nad oeddynt o'r farn fod y rheilffordd yn rhan greiddiol o'r etifeddiaeth honno.⁶²

Mae'n ddiddorol bod amgueddfeydd a chanolfannau treftadaeth y diwydiant llechi yn cael eu croesawu gan amlaf tra mae rheilffyrdd treftadaeth yn cael eu gweld fel bygythiad i'r fro. Wrth geisio datblygu Rheilffordd Ucheldir Cymru bu gwrthwynebiad cryf a llawer o densiynau rhwng y brodorion a'r gwirfoddolwyr a oedd fel arfer yn dod o Loegr. Efallai mai dyma a oedd wrth wraidd y gwrthwynebiad, ac mae erthygl Dafydd Roberts yn dyfynnu datganiadau gwrth-Gymreig rhai o'r Saeson a oedd yn ailagor y rheilffyrdd. Daw i'r canlyniad isod:

Rhaid meithrin dealltwriaeth sensitif o gymeriad a gwerthoedd y gymdeithas frodorol os yw'r mentrau hyn i lwyddo, ac efallai'n wir nad y

⁶⁰ Dr Dafydd Roberts, "A Narrow Swathe of English Eccentricity": Ailagor Rheilffyrdd Tal-y-llyn a Ffestiniog' yn *Cof Cenedl XXIII*, t. 179.

⁶¹ *Ibid*, tt. 182-3.

⁶² *Ibid*, t. 189.

rhai sy'n arddangos 'English eccentricity' yw'r rhai mwyaf addas ar gyfer hynny.⁶³

Ymddengys felly fod y Cymry yn gweld Saeson yn ymyrryd yn eu treftadaeth ac yn bygwth gwerthoedd y gymdeithas. Cafwyd llawer o drafferth wrth sefydlu Rheilffordd Ucheldir Cymru gyda sawl achos llys, tri ymchwiliad cyhoeddus ac apêl, cyn y rhoddwyd caniatâd i'r gymdeithas ailagor y lein.

Erbyn heddiw mae Rheilffordd Ucheldir Cymru'n cyfrannu llawer at yr economi leol ac yn gwmni llwyddiannus dros ben:

The new Welsh Highland Railway has been developed on a much more substantial financial and engineering basis and is already making an environmentally-sensitive contribution to the economy of the area - independent research shows that the two railways generate over £15 million for the local economy each year and create more than 350 jobs in the surrounding area.⁶⁴

O'r 1990au ymlaen unwyd Rheilffordd Ucheldir Cymru gyda Rheilffordd Ffestiniog ac yn raddol agorwyd darnau o'r lein nes cysylltu Caernarfon a Phorthmadog trwy Ryd-ddu a'r hen lein chwarel.

Mae Rheilffordd Treftadaeth Ucheldir Cymru hefyd ym Mhorthmadog ac mae ganddi amgueddfa reilffordd fach a chanolfan dreftadaeth sydd yn dehongli hanes y rheilffordd lein gul a'i rôl yn y diwydiant llechi. Rwyf eisoes wedi cyfeirio at yr Amgueddfa Reilffordd yng Nghastell Penrhyn. Amgueddfa berthnasol arall yw Fairbourne Minature Railway yn Abermaw, Amgueddfa Rheilffyrdd Dyffryn Conwy a siop fodelau ym Metws-y-coed. Mae amgueddfa Betws-y-coed yn enwedig yn cyfeirio at bwysigrwydd y diwydiant llechi yn natblygiad rheilffyrdd y fro chwarelyddol hon.

Mae Amgueddfa Rheilffyrdd Lein Gul yn rhan o orsaf Tal-y-llyn. Yno maent yn dehongli hanes rheilffyrdd sy'n dyddio yn ôl hyd at 200 mlynedd a cheir arddangosfa am W. V. Awdry, sef awdur Tomos y Tanc, a'i gysylltiad â Tal-y-llyn:

⁶³ Ibid, t. 190.

⁶⁴ Welsh Highland Railway, 'History- Part 4: The Push to Porthmadog' yn http://www.festrail.co.uk/whr_history_4.htm Ionawr 2014.

The Museum displays contain a special section devoted to the Reverend W. V. Awdry, creator of "Thomas the Tank Engine." Awdry was an early volunteer on the Talyllyn Railway, and its history and his experiences were the inspiration for his "Skarloey Railway" on which operated scarcely disguised counterparts of Talyllyn locomotives.⁶⁵

Fel mae'r dyfyniad yn ei almygu, cafodd W. V. Awdry ei ysbrydoli gan drenau Tal-y-llyn wrth ysgrifennu hanesion Tomos y Tanc a'i ffrindiau. Fe chwaraeodd Awdry ran flaenllaw wrth sefydlu'r rheilffordd arbennig hon.

Rheilffordd Tal-y-llyn oedd y rheilffordd gul gyntaf i gael ei hadeiladu ar gyfer trenau stêm a bron i ganrif yn ddiweddarach y rheilffordd gyntaf i gael ei hachub a'i hadfer. Fe'i hadeiladwyd yn wreiddiol i gario llechi o chwareli Bryn Eglwys yn y bedwraedd ganrif ar bymtheg:

Opened in 1865, the line runs the seven and a quarter miles from Tywyn (on the Cardigan Bay coast) to Nant Gwernol, from where a series of horse-drawn tramways continued into the mountains. The slate traffic ceased in 1946 following a serious rock fall in the quarry.⁶⁶

Yn 1951 cafodd y lein ei hailagor gan wirfoddolwyr, y rheilffordd gyntaf yn y byd i gael ei hystyried yn dreftadaeth ac i gael ei hadfer a'i chadw. Mae safle'r rheilffordd hefyd yn cynnwys y 'quarrymen's tearoom' sy'n gyfeiriad amlwg at hanes diwydiannol y lein. Yn debyg i sawl rheilffordd gan gynnwys Llyn Padarn, mae Talyllyn yn gwneud ymdrech i apelio at dwristiaid trwy'r flwyddyn gyda themâu amrywiol dros y Nadolig, y Pasg a Chalan Gaeaf.

Felly beth am y trê'n enwocaf yng Nghymru? Fel yr wyf eisoes wedi sôn, mae trê'n bach yr Wyddfa'n rhedeg i'r copa ers 1896. Cludwyd miliynau o ymwelwyr ganddi i gopa'r mynydd uchaf yng Nghymru a Lloegr sy'n 3,560 o droedfeddi uwchben y môr ac wedi ysbrydoli cân boblogaidd Hogia'r Wyddfa! Yn ôl gwefan atyniadau Cymru: 'Mae'r rheilffordd wedi'i seilio ar beirianwaith Oes Fictoria, a hon ydy'r unig reilffordd rac a phiniwn cyhoeddus ym Mhrydain

⁶⁵ Rheilffordd Talyllyn, 'The Talyllyn Railway Museum' yn <http://www.talyllyn.co.uk/museum> Ionawr 2014.

⁶⁶ Rheilffordd Talyllyn, 'About The Talyllyn Railway' yn <http://www.talyllyn.co.uk/about> Ionawr 2014.

gyfan.⁶⁷ Mae'r mwyafrif o'r trenau a drafodir yn y bennod hon yn rhedeg ers yr oes Fictoriaidd ac mae ganddynt oll ddisgrifiad a honiad tebyg i'r uchod! Mae pamffled rheilffordd yr Wyddfa yn tanlinellu pwysigrwydd y chwedlau i'r tirlun:

Majestic Snowdon dominates the glorious, ancient landscape of North Wales. At 3,560ft (1085m) it is a true mountain, a place of legend - said to be the burial place of the giant ogre Rhita, vanquished by King Arthur. Some people believe that Arthur's knights still sleep beneath.⁶⁸

Dyma ddisgrifiad sy'n creu dirgelwch ac yn portreadu'r Wyddfa fel lle chwedlonol, hanesyddol. Mae rheilffordd trên yr Wyddfa'n parhau i ddatblygu ac agorwyd canolfan ymwelwyr newydd, Hafod Eryri, ar y copa yn 2009. Ac yntau'n rhedeg ers dros 115 o flynyddoedd, mae trên bach yr Wyddfa bellach yn eicon o dwristiaeth a threftadaeth y bröydd chwarelyddol.

iv) Chwaraeon a gweithgareddau awyr agored

Erbyn heddiw, mae chwaraeon yn y bröydd chwarelyddol yn cerdded law yn llaw â thwristiaeth. Mae'r bröydd chwarelyddol wedi dechrau gwneud y mwyaf o'r tirlun gan ei wneud yn lle unigryw sy'n denu ymwelwyr o bob cwr o'r byd. Er bod nifer o haneswyr yn disgrifio pwysigrwydd diwylliannol y bröydd chwarelyddol o ran cerddoriaeth a llenyddiaeth, mae traddodiadau hirhoedlog yn y meysydd chwaraeon hefyd. Efallai nad oes gwahaniaeth mawr rhwng byd chwaraeon y bröydd chwarelyddol a gweddill gogledd Cymru a thu hwnt, ond wedi dweud hynny, mae rhai agweddau unigryw a fydd yn cael eu harchwilio yn yr adran hon.

Mae Betws-y-coed a Llanberis yn ardaloedd chwarelyddol ôl-ddiwydiannol sydd wedi eu hen sefydlu fel canolfannau twristaidd ac sy'n arbenigo mewn chwaraeon a gweithgareddau awyr agored. Mae lleoliad Llanberis wrth odre'r Wyddfa'n golygu ei bod yn denu nifer o gerddwyr trwy'r

⁶⁷ Atyniadau Eryri, 'Rheilffordd yr Wyddfa' yn <http://www.attractionsofsnowdonia.com/cymraeg/atyniadau/trenau-trawiadol/rheilffordd-yr-wyddfa> Ionawr 2014.

⁶⁸ Pamffled The Majestic Snowdon Railway, 2013.

flwyddyn ac mae llwyddiannau Ras yr Wyddfa a Llanc y Llechi yn cadarnhau'r cysylltiad rhwng chwaraeon a thwristiaeth. Er bod yr holl fröydd chwarelyddol o fewn Parc Cenedlaethol Eryri, neu dafliaid carreg ohono, ac o ganlyniad yn naturiol yn denu ymwelwyr, nid ydynt yn wastad wedi manteisio ar hynny.

Cafwyd ymgais gymharol ddiweddar gan Ddyffryn Ogwen a Blaenau Ffestiniog i ddarparu gweithgareddau awyr agored gyda'r wifren wib bellach wedi ei hagog yn Chwarel y Penrhyn ac un arall ar y ffordd yn Llechwedd. Mae Antur Stiniog wedi gwneud llawer dros economi leol y fro trwy ddenu beicwyr ledled Prydain yno. Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, mae Dyffryn Nantlle yn araf o ran gwneud y mwyaf o'r hyn sydd gan y tirwedd i'w gynnig ac nid oes cymaint o gyfleoedd i drigolion nac ymwelwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored swyddogol.

Mae pêl-droed yn gymaint o draddodiad yn y bröydd chwarelyddol ag yw barddoniaeth neu ganu corawl. Er nad yw diddordeb yr ardaloedd mewn pêl-droed yn unigryw, nid oes unrhyw ardal chwarelyddol sydd heb ei thîm pêl-droed (neu dri) ac mae rhai o hen dimau'r chwarelwyr wedi parhau'n gryf ers yr 1800au. Mae tîm Llanberis wedi ei sefydlu ers oes aur y diwydiant llechi yr un fath â'r timau Talysarn Celts a Nantlle Vale yn Nyffryn Nantlle. Sefydlwyd nifer o'r timau hyn wrth i chwareli'r ardaloedd gystadlu yn erbyn ei gilydd mewn twrnameintiau pêl-droed. Roedd chwareli Dyffryn Nantlle, yn enwedig, yn gystadleuol gydag ambell gêm yn cael eu cynnal o fewn waliau Plas Glynlifon ar ôl diwrnod o waith yn y chwarel.

Roedd cyfnewid cardiau pêl-droed yn arferiad poblogaidd yn y Caban amser cinio a nifer o'r dynion yn trafod chwaraeon. Dywedir ar wefan yr Amgueddfa Lechi ran mor fawr yr oedd pêl-droed yn ei chwarae ym mywydau'r dynion: 'Roedd yno ddigon o fynd ar chwaraeon hefyd, gydag aml i dîm pêl-droed. Nid gwaith a gweddi oedd pob dim, er mor bwysig yr oedden nhw.'⁶⁹ Mae'r datganiad hwn yn tanseilio myth y chwarelwr cydwybodol, diwylliedig i raddau trwy gydnabod pwysigrwydd chwaraeon i'r dynion. Mae poblogrwydd pêl-droed yn y bröydd yn aml yn cael ei gyflwyno gan haneswyr a rhai llenorion fel eithriad, fel diddordeb israddol o'i gymharu â llenyddiaeth a cherddoriaeth.

⁶⁹ Amgueddfa Lechi Cymru, 'Bywyd y Chwarel, Bywyd Cymdeithasol a Diwylliannol', yn www.amgueddfacymru.ac.uk/cy/429 Ionawr 2014.

Mae pysgota yn hen draddodiad yn y bröydd chwarelyddol ac yn parhau i fod yn boblogaidd ymysg pobl ifanc yr ardaloedd. Mae Llyn y Dywarchen a Llyn Nantlle yn Nyffryn Nantlle ac afon Ogwen a Llyn Ogwen yn llefydd poblogaidd i fynd i bysgota. Mae Llechwefan, gwefan am yr ardaloedd chwarelyddol, yn disgrifio poblogrwydd y traddodiad hwn:

Ymddengys fod pysgota yn ymarferiad derbyniol a phoblogaidd. Ffurfiwyd Clybiau Pysgota yn ardaloedd y chwareli. Yn wir roedd pysgota mor boblogaidd ym Mlaenau Ffestiniog nes i'r chwarelwyr greu ac enwi ugeiniau o blu pysgota gwreiddiol.⁷⁰

Unwaith eto, nid yw pysgota yn unigryw i ardaloedd chwarelyddol ond mae'n hynod o boblogaidd. Mae'n deillio o hen draddodiad y chwarelwyr, arferiad sydd yn parhau i fod yn boblogaidd hyd heddiw; mae colofnau pysgota yn *Llais Ogwan* ac *Eco'r Wyddfa* yn profi hynny.

Mae amrywiaeth helaeth o lyfrau cerdded ar gael am ogledd Cymru, rhai sy'n arbenigo mewn llwybrau hanesyddol, llwybrau addas ar gyfer teuluoedd, rhedwyr a beicwyr. Mae llyfrau fel *Railway Rambles in Snowdonia* yn arbenigo mewn llwybrau sy'n dilyn hen draciau rheilffyrdd y diwydiant llechi ac mae nifer o'r llyfrau hyn yn cyfeirio at hen lwybrau'r chwarelwyr a'r hen olion a'r peiriannau y gellir eu gweld wrth grwydro ar eu hyd. Mae *O Gwmpas y Foel* gan Dewi Tomos yn dangos llwybrau cerdded yn ardal Cae'r Gors, cyn-gartref Kate Roberts, ac yn dyfynnu ei gweithiau. Yn ogystal â hen lwybrau'r chwarelwyr, sydd yn cynnig golygfeydd unigryw o'r ardaloedd, y chwareli a'r adfeilion, mae Dewi Tomos yn cyfeirio at brosiectau cyfoes:

Lluniwyd Llwybr y Pedwar Dyffryn gan Gyngor Gwynedd, yn cysylltu dyffrynnoedd chwarelyddol Ogwen, Peris, Gwyrfaï a Nantlle, gyda mapiau ar gael, a theithiau byrrach o fewn y dyffrynnoedd, y Llwybrau Llechi.⁷¹

⁷⁰ Llechwefan, 'Chwaraeon' yn <http://www.llechicymru.info/ComSport.cymraeg.htm> Ionawr 2014

⁷¹ Dewi Tomos, *O Gwmpas y Foel* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2007), t. 9.

Dros y blynyddoedd, yn enwedig ers 2000, mae nifer o lwybrau newydd wedi cael eu datblygu yn y bröydd chwarelyddol, nifer ohonynt yn cynnig dehongliadau o'r diwydiant llechi ac o ddiwylliant y bröydd.

Yn 2012, fel rhan o gynllun adfywio Blaenau Ffestiniog, gwariwyd £4.5 miliwn ar gerfluniau llechi gan Howard Bowcott a llwybr llenyddol o amgylch Blaenau. Mae enwau dros 350 o chwareli wedi eu cerfio ar hyd afon o lechi sy'n rhedeg drwy'r dref yn ogystal â dyfyniadau o farddoniaeth Gwyn Thomas a dywediadau lleol. Ceir rhywfaint o ddehongli hanesyddol ar Lôn Las Ogwen, neu'r Lôn Las yng nghyffiniau Penygroes, llwybrau sydd yn parhau i gael eu hehangu. Mae Lôn Las Ogwen wedi cael ei hymestyn yn ddiweddar i gynnwys twnnel tywyll Tregarth a hen lwybr rheilffordd Chwarel y Penrhyn. Ceir dehongliad o bwysigrwydd y diwydiant llechi yn Nyffryn Ogwen yn Llys Dafydd yng nghanol prif stryd Bethesda. Mae'r byrddau gwybodaeth yn datgan:

Milltir sgwâr Duw a phorth Eryri
Croeso i Fethesda, sy'n gwarchod rhan uchaf Dyffryn Ogwen, un o byrth Eryri. Yma cewch ddilyn ôl traed chwarelwyr gynt ar hyd llu o lwybrau neu fynd ar gefn beic ar yr hen A5 a'r rheilffordd fach bob cam o Lyn Ogwen, yng nghôl y mynyddoedd, i Borth Penrhyn ar lan y Fenai. Dyma gyfle i chi fwynhau'r fro o boptu Afon Ogwen, sydd yn byrlymu i lawr trwy dirwedd a gerfiwyd gan rewlif oesoedd maith yn ôl.⁷²

Mae'r byrddau'n pwysleisio prydfferthwch naturiol yr ardal a'i phwysigrwydd diwylliannol - yn gelfyddydol (gweithiau Peter Prendergast a Martin Bloch) ac yn gerddorol (Côr y Penrhyn a Gruff Rhys). Mae Llys Dafydd yn dehongli hanes y chwarel gyda chyfeiriadau at y streic a'r diwydiant llechi yn ei anterth. Mae'r byrddau gwybodaeth yn cynnwys map o'r ardal a'i llwybrau.

Mae hen lwybrau'r chwarelwyr yn rhan o atyniadau Blaenau Ffestiniog hefyd. Fel a nodwyd eisoes, mae *Blaenau Ffestiniog Croeso!* yn llyfryn gwybodaeth am Flaenau Ffestiniog, ei hanes a gweithgareddau i ymwelwyr yn ogystal â phobl leol. Mae'n tanlinellu pwysigrwydd hanesyddol y chwareli yn y fro:

⁷² Byrddau Gwybodaeth Llys Dafydd, Bethesda, 2013.

Mae'r diwydiant pwysig hwn wedi gadael olion parhaol yn y dirwedd, uwch y ddaear yn y tomenni, y tramffyrdd a'r melinau adfeiliedig; a hefyd o dan ddaear ar ffurf y milltiroedd o dwneli troellog ac hefyd y siambrau sydd cymaint â chadeirlannau a gafodd eu naddu â llaw yn y mynyddoedd o amgylch y dref.⁷³

Mae'r llyfryn yn mynegi bod bodolaeth y dref yn deillio o'r diwydiant llechi a phwysigrwydd y chwareli, er bod y mwyafrif ohonynt bellach wedi cau. Mae *Blaenau Ffestiniog Croeso!* yn disgrifio taith hanesyddol o amgylch y fro sy'n dechrau gyda thai cyntaf y chwarelwyr cynnar cyn troedio hen lwybrau'r chwarel, heibio hen gartref rheolwr y chwarel ac i fyny i'r chwareli. Mae'r twneli a siambrau tanddaearol yn boblogaidd ymysg rhai clybiau cerdded. Maent yn dilyn llwybrau tanddaearol y chwareli ac yn croesi llynnoedd a dringo creigiau yng nghrombil y mynydd. Mae hen chwarel Cwmorthin yn safle poblogaidd ar gyfer y math yma o antur.

Mae Llyn Padarn, Llanberis ac Afon Ogwen, Bethesda yn lleoliadau poblogaidd dros ben i nofio ar ddiwrnod braf. Yn ogystal â nofio, chwaraeon dŵr eraill sydd yn boblogaidd mewn lleoliadau fel Llyn Padarn yw rhwyfo, hwylio, caiacio a chanŵio. Mae afon Ogwen, afon Machno, Llugwy, Llyfni, Nant Peris, a llu o afonydd yn ardal Blaenau Ffestiniog yn ymddangos yn *The Welsh Rivers*, Beibl caiacwyr Cymru. Profir felly fod tirlun naturiol y bröydd chwarelyddol yn ogystal â'r tyllau chwareli yn boblogaidd o ran gweithgareddau a chwaraeon awyr agored.

Gyda chwareli gwag y cyfnod ôl-ddiwydiannol yn cael eu gadael i lenwi â dŵr, tyfodd poblogrwydd yr hen chwareli fel canolfannau deifio swyddogol ac answyddogol. Yn anffodus mae'r hen chwareli sydd wedi boddi, fel Chwarel Dorothea, yn enwog am yr holl ddeifwyr sydd wedi colli eu bywydau yn y dyfroedd. Yn *Chwareli Dyffryn Nantlle* ysgrifennodd Dewi Tomos am y defnydd answyddogol o Chwarel Dorothea:

Mae rhai yn defnyddio'r chwarel yn gyson i blymio yn y twll, er bod sawl un wedi boddi yn y dyfroedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Cafwyd ceisiadau i adeiladu canolfan ddeifio bwrpasol, gyda hyfforddiant ac offer diogelwch a meddygol ond dal i obeithio y mae rhywun.⁷⁴

⁷³ *Blaenau Ffestiniog Croeso!*, 2013, t. 7.

⁷⁴ Dewi Tomos, *Chwareli Dyffryn Nantlle* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2007), t. 73.

Mae'n drueni nad yw Dyffryn Nantlle yn manteisio ar boblogrwydd y Chwarel ymysg deifwyr o safbwynt twristiaeth chwaraeon eithafol. Hefyd buasai adeiladu canolfan bwrpasol yn helpu i achub bywydau. Prif beryglon y pyllau chwarel yw eu bod yn gallu bod yn dwyllodrus gyda llechfaen mewn ambell chwarel sy'n rhwystro'r deifwyr rhag cyrraedd yr wyneb. Mae'r tymheredd yn isel dros ben ac mae'r pyllau'n gallu bod dros fil o droedfeddi o ddyfnder.

Mae gan Chwarel Vivian ganolfan swyddogol ar gyfer deifwyr ac maent yn cynnig gwersi a hyfforddiant gyda deifwyr profiadol. Mae siop ar y safle sy'n gwerthu'r offer angenrheidiol ac o dan y dŵr mae golygfeydd difyr o'r chwarel gan gynnwys hen adeiladau, ceir a chychod. Mae'r hen chwareli yn boblogaidd ymysg deifwyr oherwydd y golygfeydd prin o dan yr wyneb ac am eu bod yn cynnig sialens newydd. Dyma ganolfan lwyddiannus sydd yn adlewyrchiad o beth allai gael ei gyflawni yn Chwarel Dorothea. Gan fod cwsmeriaid eisoes yn tyrru yno, mae'n drueni nad yw Dyffryn Nantlle yn bachu'r cyfle i greu swyddi mewn hen chwarel.

Felly beth am y chwareli sydd heb eu llenwi â dŵr? Ers dyfodiad y cyfnod ôl-ddiwydiannol mae dringo wedi tyfu mewn poblogrwydd ac yn enwedig felly mewn hen chwareli. Mae *Llanberis* gan Iwan Arfon Jones yn disgrifio'r llwybrau dringo gorau yn chwareli'r ardal ac yn rhoi ychydig o hanes dringo yn Llanberis:

Climbing in Snowdonia started in earnest in the 1860s and 1870s when members of the then recently formed Alpine Club came to stay at the Pen y Gwryd Hotel, owned by Henry Owen.⁷⁵

Mae'r traddodiad mynydda a dringo wedi bodoli yn Llanberis felly ers cyn belled yn ôl â'r 1860au. Erbyn heddiw mae wedi mynd o nerth i nerth gyda phobl yn tyrru o bob cwr o'r byd i fynydda a dringo yno. Felly beth am ddringo creigiau'r chwarel? Mae *Slate* yn cofnodi hanes a llwybrau dringo'r chwareli:

Slate Quarrying, that staple diet of north Wales' industry, has touched almost every part of northern Snowdonia, leaving the characteristic calling card of dank cavernous pits, granular spoil heaps and aimless grey

⁷⁵ Iwan Arfon Jones, *Llanberis* (Great Britain: Climber's Club, 2003), t. 17.

communities left high and dry by the loss of a way of life which belonged to the expansion and exploitation of the Industrial Revolution. During the damp summers of the mid and late eighties slate climbing experienced a boom time as its quick-drying properties and compulsory “fifteen minutes of fame” attracted increasing numbers of protagonists.⁷⁶

Mae'r llyfrau hyn yn cynnwys lluniau o bonciau gwahanol a'r llwybrau y gellir eu dringo. Maent yn nodi graddau'r llwybrau a'u henwau. Yn y byd dringo, y cyntaf i gyflawni llwybr sydd yn ennill y fraint o'i enwi.⁷⁷ Mae'r enwau yn y llyfr hwn yn adlewyrchu cyn lleied o Gymry sydd yn dringo. Mae'r ffaith bod y dringwyr yn rhoi eu henwau eu hunain ar y llwybrau yn destun gofid i bobl leol sydd yn ei gweld fel proses o Seisnigeiddio ardaloedd naturiol Gymraeg.

Yn y cyfnod diweddar mae beicio mynydd wedi dod yn fwy poblogaidd ac yn sgil hynny mae fersiwn mwy eithafol wedi datblygu sef beicio lawr allt. Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi creu llwybrau ar gyfer beicio lawr allt ym Moelyci, Mynydd Llandygai, Plas y Brenin, ger Machynlleth a llu o goedwigoedd eraill yng ngogledd Cymru. Y daith lawr allt fwyaf llwyddiannus hyd yn hyn yw menter Antur Stiniog yn Llechwedd, Blaenau Ffestiniog. Dyma enghraifft o fro chwarelyddol ôl-ddiwydiannol yn gwneud y mwyaf o'r tirlun ac yn defnyddio hen lwybrau chwareli i helpu'r economi leol. Maent yn denu ymwelwyr o bob rhan o Brydain a'r teithiau yn ennill canmoliaeth fawr gan y beicwyr. Mae sawl llwybr gwahanol yn rhedeg lawr ochrau chwarel Llechwedd, 'Y Du', 'Powdwr Du', 'Car Gwyllt' a 'Drafft', oll yn cynnig sialensiau amrywiol. O ganlyniad i fentrau fel hyn, mae'n amlwg pam mae Cymru'n boblogaidd ymysg pobl sy'n mwynhau gweithgareddau a chwaraeon awyr agored.

Yr hyn sy'n ddiddorol am chwaraeon yn y bröydd chwarelyddol yw'r berthynas agos â thwristiaeth. Tra mae pobl leol yn mwynhau chwaraeon tîm fel pêl-droed ac i raddau rygbi a chriced, ymwelwyr yn bennaf yw'r rhai sy'n deifio,

⁷⁶ Iwan Arfon Jones, Andy Newton a Leigh McGinley, developed from the work of Paul Williams, *Slate, a climber's guide* (Bangor: North Wales Slate, 1992), t. 9.

⁷⁷ Iwan Arfon Jones, *Llanberis*, engreiffitiau o enwau Cymraeg ar lwybrau:
t. 187 Anturiaethau Dic Preifat
t. 246 Twll Tin

Iwan Arfon Jones, *Slate*, engreiffitiau o rai o'r enwau ar lwybrau:
t. 116 The Homicidal Hamster From Hell
t. 143 The Sponge that walked away
t. 143 Two Bolts or Not To Be
t. 148 The Dwarf in the Toilet

dringo, beicio mynydd, caiacio a mynydda. Wrth gwrs, mae nifer o bobl leol yn ymddiddori yn y gweithgareddau hyn hefyd ond gan amlaf pobl o'r tu allan sy'n manteisio fwyaf ar ein tirlun yng ngogledd Cymru o ran creu sefydliadau a chanolfannau a'u defnyddio. Mae'n gŵyn aml nad yw brodorion yn llawn werthfawrogi'r hyn sydd gan yr ardaloedd i'w gynnig. Ond gellir hefyd weld ymgais gan gynghorau a sefydliadau lleol i arallgyfeirio'r chwareli ar gyfer gweithgareddau a chwaraeon awyr agored. Mae poblogrwydd chwaraeon eithafol fel beicio mynydd lawr allt, y wifren wib ac ati yn dal sylw cenedlaethol yn ogystal â dychymyg y trigolion. Mae'n ymddangos bod brodorion y bröydd chwarelyddol wedi dechrau sylweddoli cymaint o botensial sydd i'w tirwedd a chanfod ffyrdd newydd o arallgyfeirio'r olion ôl-ddiwydiannol. Wrth gyfuno twristiaeth a chwaraeon eithafol, gall yr ardaloedd hyn ddatblygu i fod yn ganolfannau byd-enwog i bobl sy'n chwilio am anturiaethau awyr agored.

v) Y Dyfodol

Mae'r ardaloedd wedi gwneud cais i UNESCO i'r hen chwareli llechi ac olion y diwydiant llechi gael statws Safle Treftadaeth y Byd. Mae potensial i drawsnewid y bröydd am byth. Yn ôl Dafydd Roberts, Ceidwad yr Amgueddfa Lechi ac un o'r criw sy'n gyfrifol am y cais, maent yn gobeithio ennill cydnabyddiaeth a sicrhau gwarchodaeth i'r hen chwareli a thrwy hynny ddathlu'r diwydiant llechi a'i gyfraniad i'r byd. Sgil-ffaith hynny, a gobaith y cynghorau lleol, yw y buasai statws Safle Treftadaeth y Byd yn dod â thwf newydd i dwristiaeth gogledd Cymru a'r bröydd chwarelyddol. Ni chaiff unrhyw benderfyniad ei wneud am flynyddoedd eto ond mae'n ymgyrch hynod o gyffrous ac yn creu gobaith am ddyfodol y bröydd hyn.

Pennod 2: Llais y Bröydd Chwarelyddol

Gyda'r atyniadau twristaidd yn cyflwyno portread o'r ardaloedd chwarelyddol a'r diwydiant llechi i ymwelwyr yn bennaf, mae'n ddiddorol astudio'r ffordd y mae unigolion o'r bröydd yn darlunio'u hardal. Bydd y bennod hon yn archwilio llais y bröydd chwarelyddol mewn cyfryngau ysgrifenedig sydd wedi eu hanelu at y gymdeithas honno.

i) Papurau Bro

Mae papurau bro wedi bodoli ers rhyw ganrif bellach, ond mynd a dod oedd hanes y cyhoeddiadau cynnar. Yn yr 1970au y dechreuodd y mwyafrif o'r papurau bro sy'n parhau i fodoli hyd heddiw. Maent yn gyhoeddiadau misol sydd yn adrodd hanesion y gymuned leol. Nid yw'r bröydd chwarelyddol yn unigryw yn y cyd-destun hwn, gyda thua 58 o bapurau bro yng Nghymru. Ond byddaf yn rhoi trosolwg bras o'r portread a geir o'r bröydd yn *Llais Ogwan, Lleu, Eco'r Wyddfa* a *Llafar Bro* gan ganolbwyntio ar Ddyffryn Ogwen a *Llais Ogwan* fel prif enghraifft o bapur bro chwarelyddol.

Ysgrifennodd Gwilym Huws erthygl ddiddorol am lwyddiant papurau bro Cymru, 'The Success of the Local: Wales'. Mae'n rhoi ystadegau sydd yn cyfleu'r bwrlwm a'r brwdfrydedd a nodweddi'r syniad o ddechrau papurau bro yn yr 1970au:

Between 1973 and 1978 alone, thirty-eight *papurau bro* were established, with a new title appearing, on average, every six or seven weeks during the closing years of the seventies.⁷⁸

O'r ystadegau hyn gellir dirnad bod galw am newyddion lleol yn y cyfnod hwn. Ond fel yr aiff Gwilym Huws ymlaen i ddatgan, mae'n rhyfeddol bod cynifer o'r cyhoeddiadau hyn yn parhau i redeg yn fisol:

The truly remarkable thing about them is that 83 per cent of those set up are still with us. [...] Something of a feat for any paper in a minority language, not to mention papers whose survival is totally dependent on the efforts of volunteers.⁷⁹

Mae'n ddiddorol cwestiynu'r rhesymau dros lwyddiant y papurau bro a chredaf eu bod bellach wedi datblygu i fod yn rhan bwysig o fywyd yng Nghymru. Trwy gyflwyno newyddion am ddigwyddiadau o bwysigrwydd lleol mae'r papurau bro yn llenwi'r bwlch sydd allan o gyrraedd y cyfryngau cenedlaethol neu bapurau newydd masnachol ardal ehangach.

Mae pob papur bro yn adlewyrchu cymdeithas Gymraeg ei hardal, a'r hyn sydd efallai'n gwneud papurau bro'r ardaloedd chwarelyddol yn unigryw yw cyfeiriadau at y cyfnod diwydiannol a hanesion am y chwarelwyr a'r diwydiant llechi yn ei anterth. Enghraifft o hyn yw atgofion nai cyn-ofalwr hen injian ddŵr Chwarel Dorothea yn *Lleu*⁸⁰ neu golofn fisol J. Elwyn Hughes yn *Llais Ogwan*, 'Pwy Sy'n Cofio Ddoe?' Dyma golofn gan hanesydd lleol nad yw'n wastad yn canolbwyntio ar ddylanwad y diwydiant llechi ond sydd yn portreadu agweddau ar orffennol y dyffryn. Yn *Lleu* ceir 'Colofn Hanes Robert Wyn' sy'n adrodd

⁷⁸ Gwilym Huws, 'The Success of the Local: Wales' yn *Mercator Media Forum 2*, *Mercator Media Project* (Aberystwyth: University of Wales Press, 1996), t. 85.

⁷⁹ *Ibid.*

⁸⁰ 'Hên Injan Ddŵr Chwarel Dorothea' yn *Lleu*, Rhif 428, Mawrth 2012, t. 5.

hanesion ac atgofion am Ddyffryn Nantlle gynt. Ceir hefyd gofnodion cylch llenyddol Dyffryn Nantlle a chymdeithas hanes Dyffryn Nantlle yn fisol.

Yn wahanol i *Lleu a Llais Ogwan*, mae gan *Eco'r Wyddfa* bwyslais amlwg ar chwaraeon a digwyddiadau awyr agored yn y dyffryn. Efallai bod hyn yn adlewyrchiad o fywyd yr ardal honno sy'n enwog am ei chystadlaethau a sialens corfforol eithafol. Yn 2012 roedd chwaraeon Dyffryn Peris yn ymddangos ar y clawr yn bur aml, gyda straeon yn cynnwys cwynion nad oedd S4C am ddarlledu Ras yr Wyddfa, ymdrech ysgolion lleol i annog plant i gerdded i'r ysgol, hanesion pobl leol yn Llanc y Llechen, a llwyddiannau unigolion o'r fro mewn marathon dramor. Mae 'Ar ben arall i'r lein' yn golofn fisol am bysgota yn yr ardal ac yn adlewyrchiad o bwyslais *Eco'r Wyddfa* ar chwaraeon awyr agored yn hytrach na diwylliant a hanes fel a geir ym mhapurau'r bröydd chwarelyddol eraill.

Gwahaniaeth arall rhwng y papur hwn a'r lleill yw ei bod hi'n ymddangos i fod yn llai parod i fynegi barn ar ddatblygiadau lleol; er enghraifft, yn yr erthygl, 'Cynllun Trydan-Dŵr arall i'r Ardal?'⁸¹ ni fynegir gwrthwynebiad na chroeso i'r orsaf drydan newydd. Efallai bod tîm golygyddol *Eco'r Wyddfa* heb gymaint o gysylltiad â'r Mudiad Adfer o'i gymharu â golygyddion *Llais Ogwan* er enghraifft. Byddaf yn ymhelaethu ar y cysylltiad rhwng y papurau bro â'r Mudiad Adfer yn ddiweddarach yn y bennod hon.

Yn rhifyn mis Medi 2013 o *Llais Ogwan* roedd nifer o gyfeiriadau at y chwarel a'r diwydiant llechi. Dyma adlewyrchiad o bwysigrwydd hanes y chwarel yn niwylliant Dyffryn Ogwen hyd heddiw. Cyhoeddwyd 'Llwch Ymhobman a Llanastr' gan William Arthur Jones, Rhiwlas yn wreiddiol yn *Y Gwyliedydd Newydd*, Hydref 1969. Cafodd ei hailgyhoeddi yn *Llais Ogwan* ac ynddo mae'r awdur yn pendroni:

Y mae llawer o siarad y dyddiau hyn am gau chwareli llechi yng Ngogledd Cymru, ac y mae gwahanol farnau ynglŷn â'r achos. Ai mantais ai anfantais yw cau'r chwareli?⁸²

⁸¹ 'Cynllun Trydan-Dŵr arall i'r Ardal?' yn *Eco'r Wyddfa*, Rhif 401 Gorffennaf/ Awst, t. 1.

⁸² William Arthur Jones, 'Llwch Ymhobman a Llanastr' yn *Llais Ogwan*, Rhif 434, Mehefin 2013, t. 16.

Mae'n cofio caledi'r chwarel, yr oriau hir, y cyflog gwael, y gwaith caled, a'r siwrnai hir am adref gyda'r nos cyn datgan:

Gwir fod pethau wedi newid erbyn hyn, ond ni newidiodd un peth – y peth pwysicaf oll – sef effaith gwaith y chwarel ar y rhai a fu'n gweithio yno. Er eu bod, efallai, wedi ymadael â'r chwarel ers rhai blynyddoedd y mae'r difrod i'w hiechyd wedi'i wneud gan lwch y llechi.⁸³

Mae'n disgrifio effaith y llwch arno ef ac ar ei gydweithwyr yn y chwarel. O ganlyniad i'r holl ddioddef sydd yn parhau, er gwaethaf cau nifer o'r chwareli yn 1969, mae William Arthur Jones yn croesawu'r cau. Mae'n gobeithio y daw gwaith newydd i'r ardal, gwaith sydd ddim yn peryglu bywydau gwŷr ifanc y fro. Mae ei ysgrif yn fwy ingol o ystyried na chafodd y chwarelwyr unrhyw iawndal am effaith silicosis tan 1979 ac mai dyna a'i laddodd yn fuan wedi cyhoeddi'r erthygl wreiddiol.

Cyd-ddigwyddiad teimladwy ydyw bod englyn goffa am Edward Oliver yn yr un rhifyn o *Llais Ogwen* oherwydd bu farw Edward Oliver ar ôl dioddef o effaith y llwch am ddegawdau lawer. Roedd yn undebwr dros chwarelwyr gogledd Cymru a chafodd ei ddewis i ddadorchuddio cofeb y streic yn Neuadd Ogwen i ddynodi can mlynedd ers streic Chwarel y Penrhyn 1900-03. Mae 'Edward Oliver, 5 Arafon, 1917-2013' gan Dilwyn Owen yn canmol cyfraniad y gwŷr i weithwyr Cymru:

Codwn gofeb i undebwr - a alwodd
Am hawliau chwarelwr;
O'r hen wlad, a'r stad a'i stŵr,
Y werin gollodd arwr.⁸⁴

Dyma enghraifft o agweddau diwylliannol y papurau bro a'r ardaloedd. Try'r englyn o fod yn deyrnged bersonol i fod yn deyrnged gan ardal gyfan wrth gael ei gyhoeddi yn y papur bro. Cafwyd nifer o deyrngedau haeddiannol i'r diweddar Dewi Tomos yn *Lleu* pan fu farw yn 2012. Er bod teyrngedau cenedlaethol iddo,

⁸³ Ibid.

⁸⁴ Dilwyn Owen, 'Edward Oliver 5 Arafon 1917-2013' yn *Llais Ogwan*, Rhif 434, Mehefin 2013, t. 9.

roedd ei bwysigrwydd yn ei ardal yn amlwg o'r holl deyrngedau a fynegwyd yn y papur bro.

Erthygl arall o ddiddordeb yw 'Lliw a Llun ar y Stryd Fawr' sydd yn sôn am ymgyrch i wneud siopau gwag Bethesda yn fwy deniadol:

Mae'r cynllun wedi cymryd ei gam cyntaf ac mae lluniau o chwareli enwog Dyffryn Ogwen ac atyniadau lleol i'w gweld yn ffenestr siop wag ar Stryd Fawr Bethesda.⁸⁵

Unwaith eto, ceir enghraifft o ddylanwad y chwareli ar fywyd pob dydd mewn bro chwarelyddol yn y cyfnod ôl-ddiwydiannol. Mae'n amlwg o ddewis testun y gweithiau celf fod y diwydiant llechi yn rhan annatod o hunaniaeth trigolion y bröydd chwarelyddol o hyd. Mae'n amlwg hefyd o'r rhifyn hwn o *Llais Ogwan* mor bwysig yw hanes a diwylliant y diwydiant llechi yn Nyffryn Ogwen hyd heddiw.

O ran cynnwys, nid yw'r papurau bro yn newyddiadurol nac ychwaith yn ysgrifennu sylwadau am ddigwyddiadau lleol, dim ond eu cofnodi gan amlaf. Yn wir, cofnodion cymdeithasol yw'r papurau bro mewn gwirionedd. Maent yn cynnwys erthyglau am lwyddiannau lleol yn yr eisteddfod, hanesion o'r ysgolion lleol ac ambell golofn sy'n edrych yn ôl dros hanes y fro. Er bod y mwyafrif o'r cynnwys yn tueddu i fod yn gofnodion arwynebol, mae rhai erthyglau yn mynegi barn ar faterion o bwysigrwydd lleol. Yn aml ceir stori flaen mewn papur bro sydd yn gwrthwynebu rhywbeth a all fod yn fygythiad i Gymreictod y fro. Dyma agwedd ar y papurau bro sydd yn dangos bod eu gwreiddiau yn parhau i dyfu o werthoedd mudiad Adfer.

Roedd Adfer yn fudiad protest a darddodd o Gymdeithas yr Iaith yn yr 1970au a'i brif amcan oedd gwarchod y 'fro Gymraeg'. Dyma fudiad a dyfodd yn yr un cyfnod â'r papurau bro ac a chwaraeodd ran yn eu sefydlu. Mae *Adfer a'r Fro Gymraeg* gan Emyr Llywelyn yn fanifesto o fath sydd yn rhestru amcanion, delfryd a gwerthoedd mudiad Adfer. Mae'r llyfr yn pregethu neges o hunangynhafiaeth y diwylliant Cymraeg:

⁸⁵ 'Lliw a Llun ar y Stryd Fawr' yn *Llais Ogwan*, Rhif 434, Mehefin 2013, t. 6.

Y dull arall yw troi cefn ar yr amgylchfyd gelyniaethus gan ei gau allan trwy rym ewylllys. Creu amgylchfyd newydd annibynnol, cwbl ar wahân i'r amgylchfyd sy'n llethu ac yn lladd. Creu amgylchfyd newydd fydd yn gydnaws â safonau a ffordd o fyw'r lleiafrif, ac a fydd yn galluogi'r lleiafrif i sylweddoli eu holl bosibiliadau yn llawn.⁸⁶

Fel enghraifft o'r amgylchfyd mae Emyr Llywelyn yn ei disgrifio, defnyddir papurau newydd: 'Yn lle cwyno a phrotestio fod papur fel y *Cambrian News* yn wrth-Gymreig fe ddylem ni gychwyn ein papur ein hunain.'⁸⁷ Mae'n debyg mai dyma un o'r cymhellion y tu ôl i sefydlu'r papurau bro. Gall y trigolion lleol fynegi'r hyn sydd yn bwysig i'w hardal a thrwy hynny, atgyfnerthu eu cymuned.

Dywed Emyr Llywelyn: 'Y mae gwir genedlaetholdeb bob amser yn codi o frogarwch. Y cam cyntaf i adfer gwir genedlaetholdeb i Gymru yw adfer brogarwch.'⁸⁸ Mae lle i gwestiynu'r datganiad hwn ond mae'n cyfleu pwysigrwydd y papurau bro yn amcanion Adfer. Yn ôl llwyddiannau'r papurau bro, efallai eu bod wedi llwyddo i hybu brogarwch. Ond nid cofnodi priodasau, marwolaethau a genedigaethau oedd unig amcan y papurau hyn. Roedd agenda wleidyddol gan aelodau Adfer, aelodau, yn ôl Gwilym Huws, a aeth ymlaen i fod yn olygyddion: 'Indeed, in at least one of the first areas to see the establishment of a *papur bro*, members of *Adfer* were the chief founders.'⁸⁹ Yn *Adfer a'r Fro Gymraeg* mae Emyr Llywelyn yn rhestru'r pethau ymarferol y gall Adferwr ei wneud yn y fro Gymraeg gyda sefydlu papur lleol Cymraeg yn uchel ar yr agenda:

Bydd papur teipiedig wedi ei ddyblygu yn gwneud y gwaith yn iawn. Mae llais egwan yn well na dim llais o gwbl. Drwy drefnu Papur Bro ymhob ardal o'r Fro Gymraeg fe ddaw hi'n arfer ymysg y Cymry unwaith eto i ddarllen newyddion yn Gymraeg, a gan mai Adferwr fydd y golygydd bydd cyfle i lywio barn leol yn erbyn datblygiadau anghydawns ac estronol.⁹⁰

Yr hyn sy'n ddiddorol am y datganiad hwn yw ei fod yn wir hyd heddiw. Mae nifer o'r papurau bro yn cyflwyno erthyglau ar faterion lleol mewn ffordd sydd

⁸⁶ Emyr Llywelyn, *Adfer a'r Fro Gymraeg* (Pontypridd: Cyhoeddiadau Modern Cymreig, 1976), tt. 11-12.

⁸⁷ *Ibid*, t. 12.

⁸⁸ *Ibid*, t. 77.

⁸⁹ Gwilym Huws, 'The Success of the Local: Wales' yn *Mercator Media Forum* 2, t. 86.

⁹⁰ Emyr Llywelyn, *Adfer a'r Fro Gymraeg*, t. 79.

yn annog y darllenydd i wrthwynebu'r datblygiadau a all fod yn fygythiad i'w cymdeithas. Mae rhifyn Mehefin 2013 o *Llais Ogwan* yn gwrthwynebu adeiladu ystâd newydd o dai - 'Datblygu Dinistriol?'⁹¹ - gyda'r angen i warchod ardal naturiol Gymraeg yn cael ei restru fel un o'r rhesymau dros wrthwynebu.

Mae Gwilym Huws yn ymhelaethu ar y cymhelliant y tu cefn i sefydlu'r papurau bro gan gyfeirio'n uniongyrchol at eu pwysigrwydd i ardaloedd ôl-ddiwydiannol fel y bröydd chwarelyddol:

Early editorials frequently make reference to 'social life', 'local activity', 'preservation' and 'promotion' to summarize the principal motivation behind the establishment of these papers, namely chronicling the Welsh-language social and cultural life in their respective areas in order to safeguard and promote it. One must understand that the social life of rural districts and traditionally industrial areas (the slate-quarries of Gwynedd and the coal-mining communities of south Wales) are facing real threats to their existence from several directions, as are very many similar areas all over Europe.⁹²

Roedd y papurau bro felly'n ymgais i warchod Cymreictod naturiol yr ardaloedd hyn. Gyda diweithdra difrifol yn y bröydd chwarelyddol yn yr 1970au, roedd nifer yn gadael gogledd Cymru am ardaloedd mwy llewyrchus, yn Lloegr gan amlaf. Roedd papurau fel *Llais Ogwan*, *Lleu*, *Eco'r Wyddfafa* a *Llafar Bro* yn ymgais i roi llais i'r ardaloedd hyn wrth iddynt wynebu problemau economaidd yn sgil cau'r chwareli. Roeddent hefyd yn portreadu bwrlwm cymdeithasol ardaloedd naturiol Gymraeg. Dywed Gwilym Huws wrth gloi ei erthygl:

The *papurau bro* have survived for so long because of the loyalty of their staff to the Welsh language and culture, and to their local area. In other words, the thing which ensures the continuation of the *papurau bro* is their reliance upon something 'more than just a newspaper.' Indeed, by now they are as integral a part of their localities as the school, the football club or the village hall.⁹³

⁹¹ 'Datblygiad Dinistriol', *Llais Ogwan*, Mehefin 2013, Rhif 434, t. 1.

⁹² Gwilym Huws, 'The Success of the Local: Wales' yn *Mercator Media Forum* 2, t. 86.

⁹³ *Ibid*, t. 93.

Yn wir, mae gan y papurau hyn le annatod yn eu hardaloedd bellach. Trwy roi pwyslais ar faterion lleol na fuasai o ddiddordeb i unrhyw un o'r tu allan, fwy na thebyg, mae'r papurau bro yn chwarae rhan unigryw yn y cyfryngau Cymraeg.

Ym Medi 2010 cyhoeddwyd cylchgrawn wedi ei greu gan bobl ifanc Dyffryn Ogwen. Roedd *Bachog* yn gyfuniad o erthyglau o ddiddordeb lleol a chenedlaethol a oedd yn ymgais i lenwi bwlch yn y farchnad leol ar gyfer pobl ifanc. Y gobaith oedd y buasai'n gosod sylfaen i ardaloedd eraill ddatblygu cylchgronau tebyg yn eu bröydd nhw ac y byddai'n dynwared llwyddiant y papurau bro yn yr 1970au. Lawnsiwyd *DHFF mag* gan CellB a chriw o bobl ifanc ym Mlaenau Ffestiniog yn 2011. Mae'r cylchgrawn yn ddwyieithog ac yn canolbwyntio'n bennaf ar wyliau cerddorol a chwareaon eithafol y fro. Dyma brosiect diddorol sy'n ymddangos fel ymgais i hybu balchder ymhlith pobl ifanc yr ardal ac apelio at dwristiaid ar yr un pryd.

Felly beth am ddyfodol y papurau bro? Mae costau argraffu yn cynyddu'n gyson ac mae prinder cyfranwyr ifanc yn broblem ar draws Cymru. Mae Siôn Richards yn rhagweld digideiddio'r cyhoeddiadau ar y we fel rhan bwysig o'u dyfodol. Yn ei erthygl 'Mwy na phapur bro?' mae'n defnyddio gwefan BBC a'r adran am Gymru ac ardaloedd lleol yng Nghymru fel enghraifft o'r ffordd y mae pwyslais ar 'gyfryngau cymunedol a chyfryngau amgen, megis gwefannau lleol er mwyn darparu newyddion a gwybodaeth leol a chymunedol ar ein cyfer.'⁹⁴ Unwaith eto mae pwysigrwydd cyfryngau lleol yn dod i'r amlwg. Ymddengys fod pobl eisiau clywed am ddatblygiadau yn Neuadd Ogwen⁹⁵ yn ogystal â datblygiadau stadiwm y gêmiau Olympaidd yn Llundain, er enghraifft.

Ar wefan y BBC mae erthyglau ac ambell fideo am ardaloedd penodol gan gynnwys casgliad o erthyglau a lluniau o'r papurau bro.⁹⁶ Unwaith eto, nid y bröydd chwarelyddol yn unig sydd wedi eu cynnwys ar y wefan ond mae'n adlewyrchiad o bwysigrwydd newyddion lleol. Mae'r wefan yn cynnwys

⁹⁴ Siôn Richards, 'Mwy na phapur bro?' ar wefan Golwg360, Tachwedd 16, 2012:

www.golwg360.com/blog/sion_rich/91912-mwy-na-phapur-bro

⁹⁵ Dyfrig Jones, 'Neuadd Ogwen' yn *Llais Ogwan*, Rhif 434, Mehefin 2013, t. 6.

⁹⁶ Y gwefannau ar gael yma: www.bbc.co.uk/cymru/gogledd-orllewin/papurau_bro/llais_ogwan
www.bbc.co.uk/cymru/gogledd-orllewin/papurau_bro/lleu/
www.bbc.co.uk/cymru/gogledd-orllewin/papurau_bro/ecor_wyddfa
www.bbc.co.uk/cymru/gogledd-orllewin/papurau_bro/llafar_bro

gwybodaeth am gêmâu'r timau chwaraeon lleol, y tywydd, digwyddiadau, hanes, lluniau, cyfeiriadau gwefannau lleol ac ati.

Mae *Golwg360* yn bwriadu datblygu presenoldeb ar-lein y papurau bro. Yr hyn sy'n ddiddorol am eu hymgais o safbwynt yr ymchwil hon yw mai papurau'r bröydd chwarelyddol fydd yn cael eu datblygu. Bydd *Lleu*, *Llais Ogwan* ac *Eco'r Wyddfa* yn cael eu cynnwys ar wefan *Golwg360*. Ysgrifennodd *Lleu* am 'Prosiect Digidol Papurau Bro Ardaloedd y Chwareli':

Mae'r papurau bro, sy'n llwyddo ar hyn o bryd, yn edrych ymlaen at esblygu tueddiadau cyfoes, newydd y we gan obeithio darparu'n gyson gynnwys bywiog, gyda lluniau, fideos, canlyniadau chwaraeon a newyddion trafndiaeth fel rhai awgrymiadau.⁹⁷

Dyma mae gwefan y BBC yn ei gynnig ar hyn o bryd ar gyfer y mwyafrif o bapurau bro Cymru. Credaf ei fod yn arwyddocaol mai papurau bro'r ardaloedd chwarelyddol y mae *Golwg360* yn bwriadu eu datblygu. Tybed a yw cysylltiad dwfn hanesyddol, daeryddol a chymdeithasol yr ardaloedd hyn yn eu gwneud yn ddewis amlwg wrth ddatblygu cymuned ar-lein o newyddion lleol? Efallai bod golygyddion y papurau hyn wedi dangos brwdfrydedd dros ddatblygu neu fod eu statws fel cadarnleoedd y Gymraeg yn eu gwneud yn ddewis amlwg. Beth bynnag fo'r rheswm, mae'r bröydd chwarelyddol yn ymfalchïo yn eu papurau bro, yn eu cymdeithas glòs a'u hunaniaeth.

Mae rhan o brosiect *Golwg360* eisoes wedi dechrau cael ei wireddu gan Siôn Richards gyda'r dudalen Facebook a'r cyfrif Twitter: *Ogwen360*. Mae'r ymdrech ddiweddar hon yn rhannu gwybodaeth am ddigwyddiadau a materion lleol. Ond mae rhai o bapurau bro'r ardaloedd chwarelyddol eisoes wedi dechrau datblygu presenoldeb ar-lein yn annibynnol. Mae gan *Llais Ogwan* wefan sydd yn cynnwys dyddiadur y Dyffryn a fersiwn ddigidol o'r cyhoeddiad diweddaraf.⁹⁸ Mae gan *Lleu* rywffaint o wybodaeth gyswllt yn bennaf ar wefan Dyffryn Nantlle,⁹⁹ tra mae gan *Llafar Bro* flog sydd yn rhoi blas o erthyglau'r cyhoeddiad a gwybodaeth ynglŷn â lle i gael copi.¹⁰⁰ Yn anffodus, mae *Eco'r Wyddfa* ar ei hôl

⁹⁷ 'Prosiect Digidol Papurau Bro Ardaloedd y Chwareli' yn *Lleu*, Rhif 443, Gorffennaf 2013, t. 5.

⁹⁸ Y wefan ar gael yma: www.llaisogwan.com Ionawr 2014.

⁹⁹ Y wefan ar gael yma: www.nantlle.com/lleu-cymraeg.htm Ionawr 2014.

¹⁰⁰ Y wefan ar gael yma: www.llafar-bro.blogspot.co.uk/ Ionawr 2014.

hi braidd ond bydd datblygiadau *Golwg360* yn siŵr o gryfhau eu presenoldeb ar y we. Ymddengys mai un o brif lwyddiannau'r papurau bro yw creu neu o leiaf gryfhau hunaniaeth a balchder y bröydd yn eu hardaloedd. Bydd y cynigion diweddar i greu presenoldeb ar-lein yn hwb i blatfform y cyhoeddiadau ac yn galluogi pobl i ddarllen newyddion lleol am eu cynefin lle bynnag y maent yn y byd.

ii) Hunangofiannau Bro

Yn yr 1960-70au roedd dyfodol y diwydiant llechi a'r bröydd chwarelyddol yn ansefydlog dros ben. Datblygodd y chwarelwr i fod yn symbol o fyd a oedd ar fin diflannu am byth. Gyda dylanwad mudiad Adfer yn gryf ar feirdd fel Alan Llwyd, Gerallt Lloyd Owen a Ieuan Wyn i enwi ond ychydig, dyrchafwyd y chwarelwr ymhellach fel cynrychiolydd o'r werin ddiwylliedig Gymraeg:

Rhwng difuriau ffiniau'r ffeg
Hen fro Celyn fu'r coleg
ac addysg unigeddau
Daear a'i bryd ar barhau:
Rhydychen y fargen fach,
Caer-grawnt yr acer grintach.¹⁰¹

Mae'r dyfyniad hwn o 'Ifan Gist Faen' gan Gerallt Lloyd Owen yn enghraifft o'r ymchwydd o barch at werinwyr uniaith y bröydd chwarelyddol a dyfodd yn y cyfnod hwn. Mae edmygedd amlwg at hunan-addysg gwŷr y graig a'r diwylliant cyfoethog a dyfodd o'u hamgylch. Dyma gefndir felly i'r diddordeb newydd a ddechreuodd yn yr 1960au mewn hen chwarelwyr a hunangofiannau bro'r ardaloedd chwarelyddol.

Daeth hunangofiannau bro yn gyhoeddiadau poblogaidd yn yr 1960au-70au, law yn llaw â dechrau'r cyfnod ôl-ddiwydiannol yn y bröydd chwarelyddol. Mae hunangofiannau bro yn gyfuniad o hunangofiant a llyfr ffeithiol am ardal benodol. Caiff y darllenydd felly fewnwelediad i fro a chymdeithas yr awdur a

¹⁰¹ Gerallt Lloyd Owen, 'Ifan Gist Faen', *Cilmeri a cherddi eraill* (Caernarfon: Gwasg Gwynedd, 1991), t. 41.

chredaf fod dwy gynulleidfa darged mewn golwg i'r cyfrolau hyn. Yn gyntaf, mae pobl o'r un genhedlaeth â'r awdur, darllenwyr fydd yn nodio'u pennau wrth gofio'r cymeriadau a'r digwyddiadau a ddisgrifir. Yr ail gynulleidfa yw pobl nad ydynt yn cofio'r chwareli yn eu hanterth, cenhedlaeth wedi ei magu yn y cyfnod ôl-ddiwydiannol, wedi cyfnod cyhoeddi'r hunangofiannau bro. I'r gynulleidfa hon mae'r llyfrau hyn yn nes at lyfrau hanes ac yn portreadu cyndeidiau'r gymdeithas.

Rheswm arall dros y ffrwd mewn hunangofiannau bro yn y cyfnod hwn yw'r ffaith bod gweisg cyhoeddi wedi eu sefydlu yn yr ardaloedd ôl-ddiwydiannol hyn yn yr 1960au. Sefydlwyd Cyhoeddiadau Mei a Gwasg Gwynedd i gyhoeddi deunyddiau a godai o ddiddordebau lleol. Mae'n amlwg o gyhoeddiadau'r cyfnod bod y dirywiad yn y diwydiant llechi a'r gymdeithas chwarelyddol yn bwnc llog o ddiddordeb.

Yn wir, rhywbeth sy'n amlygu ei hun dro ar ôl tro wrth astudio'r cyhoeddiadau hyn yw'r ymdeimlad cyffredinol fod ffordd o fyw draddodiadol eu hardal ar fin cael ei cholli. Dyma gofnodion hanesyddol o fywyd yn y bröydd chwarelyddol yn oes ddiwydiannol y diwydiant llechi. Mae nifer o'r un themâu yn codi yn y cyhoeddiadau hyn ac maent yn tueddu i rannu fformiwla eithaf cyffredin. Felly bwriadaf gymryd ambell enghraifft sy'n cyfleu'r gwahanol agweddau ar y *genre* a dehongli'r portread a geir ynddynt. I ddechrau rwyf am edrych ar yr hunangofiannau bro cynharaf a mwyaf traddodiadol eu harddull, gan ddechrau gydag un Ernest Roberts.

Roedd *Bargen Bywyd fy Nhaid* gan Ernest Roberts yn un o'r hunangofiannau cyntaf ym mhrif lif y math hwn o gyhoeddiad. Roedd y gyfrol hon, a gyhoeddwyd yn 1963, yn ddarlith radio yn wreiddiol ac yn gosod y cefndir i *Chwalfa* gan T. Rowland Hughes. Dywed am y portread hwnnw o Fethesda, 'er mai nofel yw *Chwalfa* y mae'n stori wir, ac ef, hyd yn hyn, sydd wedi rhoi inni yr hanes llawnaf am Streic Fawr y Penrhyn.¹⁰² Mae Ernest Roberts yn cyflwyno hanes y streic a'r anghydfod a arweiniodd at ei chychwyn. Mae'n disgrifio'r adwaith a ddaeth wedi i'r Arglwydd Penrhyn wahardd y chwarelwyr rhag cymryd rhan mewn cyfarfodydd Datgysylltiad:

¹⁰²Ernest Roberts, *Bargen Bywyd fy Nhaid* (Llandybie: Llyfrau'r Dryw, 1963), t. 11.

Ni sylweddolodd am foment ei fod yn delio â dynion digon diwylliedig i wybod fod ganddynt hawliau, a digon gwrol i ddioddef i'w sicrhau. Ie, hawliau moesol fel dynion rhydd- nid rhyw hawliau dibwys fel a geir yn aml heddiw yn y streiciau answyddogol.¹⁰³

Sylwer ar y ffordd y mae'r awdur yn lladd ar y genhedlaeth ifanc: dyma nodwedd gyffredin mewn hunangofiannau bro. Mae pwyslais mawr yn y gyfrol ar ddiwylliant y chwarelwr cyffredin a'i fro, ond er gwaethaf hynny, mae Ernest Roberts yn rhoi safbwynt newydd wrth edrych yn ôl dros hanes y streic:

Ciliodd mwg y frwydr gan adael ei chreithiau hyd y dydd hwn ar yr ardal ac efallai ar eneidiau llawer o'i phlant. Daeth yr amser bellach inni i gyd ym Methesda anghofio'r gair 'bradwrs.' Nid oes gennym hawl i'w ddefnyddio. Ni fuon ni blant ac wyrion y frwydr yn y tân, ac ni wn i, beth bynnag, a fuaswn i fy hun gyda theulu a thyraid o blant wedi medru wynebu'r newyn a'r tlodi.¹⁰⁴

Gyda dyfodiad y cyfnod ôl-ddiwydiannol mae Ernest Roberts yn gweld cyfle i anghofio creithiau'r gorffennol. Mae dehongliadau eraill o hanes y streic yn tueddu i fod yn eithaf du a gwyn gyda'r bradwyr yn bobl ddrwg, hunanol a'r streicwyr yn ddyinion da, moesol. Dyma gydnabyddiaeth bod bywyd yn anodd i'r ddwy ochr.

Mae taid yr awdur yn cael ei ddefnyddio fel symbol o genhedlaeth y streicwyr, gŵr a oedd yn llwrymwrthodwr, yn flaenor a chapelwr selog ac yn ysgrifennydd i nifer o gymdeithasau a byrddau swyddogol. Mae Ernest Roberts yn cyfleu bwrlwm diwylliannol y cyfnod:

Roedd rhyw gyhoeddiad neu'i gilydd ar gyfer pob dydd a phob nos o'r wythnos, ac yr oedd y bwletinau hyn yn ddrych o fywyd yr ardal ac o'i marw hefyd. Cyfarfodydd yr Eglwys, dosbarthiadau, darlithau, cyngherddau, heb sôn am angladdau.¹⁰⁵

¹⁰³ Ibid, t. 21.

¹⁰⁴ Ibid, t. 28.

¹⁰⁵ Ibid, t. 12.

Dyma'r gymdeithas y mae T. Rowland Hughes yn ei phortreadu yn *Chwalfa*, cymdeithas o werin ddiwylliedig, grefyddol, gadarn ei daliadau a'i moesau. Mae Ernest Roberts yn atgyfnerthu'r darlun hwnnw o Ddyffryn Ogwen yn *Bargen Bywyd fy Nhaid*, ond hefyd yn galaru ar ei ôl. Felly hefyd y mae'r mwyafrif o'r hunangofiannau bro yn portreadu'r ardaloedd chwarelyddol.

Mae gweddill y gyfrol yn gyfres o hanesion am unigolion y fro, pobl a oedd â gallu anhygoel, e.e. Neli Dywyll y delynores, Robot Jôs y Printar a'r hynod ddoctor Arthur Jones. Roedd Morfudd Eryri yn Saesnes a fabwysiadodd Ddyffryn Ogwen yn gartref iddi ac a fagodd ei phlant yn Gymry. Roedd hi'n rhugl mewn sawl iaith a dywed Roberts amdani:

I un a chanddi gymaint sêl dros addysg a chymaint hefyd o ddawn i'w chyfrannu, prin y gallasai Morfudd Eryri ddewis ardal i ymateb yn well i'w doniau nag ardal y chwarelwyr llengar. 'Athen Gwalia' oedd ei henw hi ar yr ardal, ac yr oedd hynny wrth gwrs cyn i'r Coleg ddod i Fangor.¹⁰⁶

Mae'r hanesion a ddewiswyd gan Ernest Roberts yn pwysleisio doniau unigolion a diwylliant y fro yn bennaf. Y rhinweddau sy'n cael eu pwysleisio yma, er bod ambell hanes eithaf trasig hefyd yn eu plith. Mae *Bargen Bywyd Fy Nhaid* yn nodweddiadol o'r ffrwd gynharaf o hunangofiannau bro wrth iddynt gynnwys hanesion sydd yn atgyfnerthu'r portread o fro chwarelyddol fel lle a oedd yn byrlymu gyda diwylliant.

Yn ei ail gyfrol, *Ar Lwybrau'r Gwynt* yn 1965 mae Ernest Roberts yn cydnabod bod elfen gref o ramantiaeth yn perthyn i bortreadau o fröydd chwarelyddol, yn enwedig mewn atgofion:

Clywsom ein hynafiaid yn sôn yn hiraethus am y gogoniant a fu ar grefydd ac am yr amser hwyliog hwnnw pan oedd yn rhaid iddynt fynd i'r capel rhyw ugain munud cyn dechrau'r oedfa er mwyn bod yn siŵr o sedd. Rwy'n tueddu i feddwl mai atgofion ein tadau am Suliau'r cymanfaoedd a orliwiodd eu hatgofion am Suliau cyffredin y flwyddyn, yn union fel y soniwn ninnau heddiw am ddyddiau haf hirseflyn ein hieuentid wrth achwyn am hafau gwlyb ac oer ein canol oed.¹⁰⁷

¹⁰⁶ Ibid, t. 66.

¹⁰⁷ Ernest Roberts, *Ar Lwybrau'r Gwynt* (Caernarfon: Llyfrau'r Methodistiaid Calfinaidd, 1965), t. 17.

Dyma gydnabyddiaeth brin o orliwio diwylliant a chrefydd yn y bröydd chwarelyddol. Tybed a yw'r awdur ei hun yn euog o ramantu? Yn niwedd *Ar Lwybrau'r Gwynt*, mae'n datgan:

Os caled a llwm oedd bywyd y gymdeithas gynnes a gwerinol y tyfais
ynndi, 'roedd iddi hefyd ryw gadernid a dewrder na fedrais eu hamgyffred
pan oeddwn ar fy mhrifant yn ei chanol. Ei chymeriadau heulog a'i
throeon lliwus mae'n debyg, sy'n aros gliriaf ar fy nghof o'r cyfnod hwnnw
ac yn peri i minnau ddweud;
'O! gwyn fy myd pan oeddwn gynt
Yn llanc di boen ar lwybrau'r gwynt.'¹⁰⁸

Wrth ddweud nad oedd yn gallu amgyffred cynhesrwydd y gymdeithas yn ei chanol hi, onid yw Roberts yn edrych yn ôl ar ei fro gyda rhamant? Mae ei drydydd cyhoeddiad, *Cerrig Môn*, yn 1979 yn parhau i osod diwylliant y fro fel canolbwynt i'r ysgrif. Mae'n disgrifio llwyddiannau'r corau lleol, cantorion lleol fel Eos Llechid a beirdd fel R. Williams Parry ynghyd â tharddiad enwau lleol a hanesion am gymeriadau'r fro.

Roedd *Bargen Bywyd Fy Nhaid* gan Ernest Roberts yn un o'r hunangofiannau bro cyntaf i'w cyhoeddi am fro chwarelyddol. Yn amlwg, mae Roberts ac eraill eisiau i'r ardal gael ei chofio fel lle diwylliedig, crefyddol, moesol a oedd yn llawn cymeriadau ffraeth a thalentog oherwydd dyma'r portread a ddarlunnir yn yr hunangofiannau hyn. Ni ellir gwadu bod y bröydd chwarelyddol yn gyfoethog o ran diwylliant y cyfnod ond tybed a oes rhamantu yma? Ai portread bwriadol o rinweddau'r ardal sydd yma, portread sy'n osgoi cydnabod ei ffaeiddau?

Mae *Y Chwarel a'i Phobl* gan H. D. Hughes hefyd yn perthyn i'r un math o hunangofiannau bro. Bu H. D. Hughes yn chwarelwr yn Ninorwig am gyfnod cyn troi'n weinidog ac mae ganddo felly safbwynt eithaf hiraethus wrth edrych yn ôl ar y chwarel. Yn debyg i'r portread gan Ernest Roberts, hanesion sy'n pwysleisio rhinweddau diwylliedig y fro chwarelyddol a geir yma. Ond mae'r rhagair gan

¹⁰⁸ Ibid, t. 92.

fab yr awdur, D. Lloyd Hughes, yn rhoi safbwynt difyr sydd yn rhybuddio peryglon gorddelfrydu'r ardaloedd:

Y mae inni emau disglair ym myd llenyddiaeth ond buan y pylant ac y diflannant pan agorir dorau trysordy llenyddiaeth Lloegr. Ni fuasai'r Cymro mwyaf penboeth, rwy'n siwr yn ceisio maentumio bod ein cyfraniad i fyd miwsig a chelf yn arwyddocaol o gwbl.¹⁰⁹

Yn anaml iawn y caiff y safbwynt hwn ei fynegi wrth ysgrifennu am y bröydd chwarelyddol. Ond nid yw'n bortread negyddol o bell ffordd, oblegid ymhelaetha:

Gallwn er hynny ymfalchio mewn un peth, sef dawn a chymeriad ein gwerin ar ei gorau, ac yn ardaloedd y chwareli y rhoddwyd y cyfle i'r ddawn honno ei hamlygu ei hun.¹¹⁰

Dyma thema sydd yn cael ei hadleisio trwy'r holl hunangofiannau bro. Mae pwyslais enfawr ar y werin yn ei haddysgu ei hun ac yn magu diwylliant cyfoethog. Ond dyma hefyd enghraifft brin o awdur yn rhybuddio bod angen pinsiad o halen wrth glywed canmoliaeth am y bywyd hwn.

O'r portread a geir gan D. Lloyd Hughes, ceir yr argraff ei fod, fel Ernest Roberts, yn ymwybodol o'r rhamant sydd yn amgylchynu'r bröydd chwarelyddol. Ond yn wahanol i Roberts, mae Hughes yn fwy hunanymwybodol a gofalus, efallai, wrth ysgrifennu. Dyma enghreifftiau o lif cyntaf yr hunangofiannau bro, a dwy gyfrol sydd yn cynnig darluniau eithaf cyferbyniol ohonynt; un sy'n cynnig hanesion yn profi'r diwylliant cyfoethog, ac un gyda rhagair sy'n ofalus i beidio â gorbwysleisio'r diwylliant. Mae hunangofiannau diweddarach yn parhau i ddilyn y patrwm a osodwyd gan awduron fel Ernest Roberts. Ond gyda dyfodiad y cyfnod ôl-ddiwydiannol a diddordeb newydd yn y lleol (o ganlyniad rhannol i lwyddiant y papurau bro), daeth ffrwd newydd o hunangofiannau bro a nifer o hen chwarelwyr a phobl heb gefndir academaidd yn ysgrifennu. Gall y llyfrau hyn fod yn fwy gwerthfawr o ran dehongli'r bröydd

¹⁰⁹ D. Lloyd Hughes, 'Rhagair' yn H. D. Hughes, *Y Chwarel a'i Phobl* (Llandybie: Llyfrau'r Dryw, 1960), t. 14.

¹¹⁰ Ibid.

oherwydd nid ydynt yn fynegiant gan y dosbarth canol hyderus ond yn hytrach yn un o'r adegau cyntaf y cawn glywed llais chwarelwr hunan-addysgedig. Mae *Cerddi ac Atgofion Twm Bethel* yn enghraifft dda o gyhoeddiad gan y garfan hon.

Byddaf yn dehongli cerddi Twm Bethel yn y bennod am farddoniaeth y bröydd chwarelyddol ac maent yn gyfraniad pwysig wrth roi llais i'r chwarelwyr. Mae'r hunangofiant hwn yn cael ei ddisgrifio fel a ganlyn gan ei awdur:

Stori'r chwarel ydyw hon, chwarel lechi fwya'r byd, ie chwarel fawr
Dinorwig. [...] Ydi, mae'r chwarel wedi cau ers llawer blwyddyn, a'r corn
a'r ergydion wedi distewi, a sŵn y glochan wedi diflannu o'r cylch.¹¹¹

Cyhoeddwyd y gyfrol hon yn 1976, yn gadarn yn y cyfnod ôl-ddiwydiannol ac felly mae'r awdur wedi cael amser i edrych yn ôl dros ei gyfnod yn y chwarel. Casgliad o'i atgofion a geir yma, atgofion sy'n fewnwelediad i fywyd chwarelwr ar drothwy cau'r chwareli. Mae'n disgrifio'r syndod o glywed bod Chwarel Dinorwig am gau:

Fe synnwyd yr holl fro gyda'r newyddion drwg, a thri chant o weithwyr
yn colli eu gwaith, doedd dim i'w wneud ond bodoli a chwilio'r cylch am
waith arall.¹¹²

Mae Twm Bethel yn cyfleu'r cyfnod yn effeithiol a'r bygythiad parhaus o ddiweithdra yn y fro. Mae sawl cerdd ganddo yn disgrifio'r rhwystredigaeth o orfod mynd ar y dôl a chwilio am waith, agwedd ar fywyd mewn bro chwarelyddol nad yw'n cael ei mynegi gan awduron dosbarth canol.

Nid yw holl hanesion Twm Bethel yn ymwneud â'r chwarel, ond gellir gweld o'r gyfrol mai yn y chwarel y mae ei galon:

Ni allaf ddweud am gymeriadau'r caban i gyd, ond maent ar fy ngho' bob
un, a chofiaf yr hen amser difyr a gefais yn eu mysg. Os oedd yr arian yn
brin a'r gwaith yn galed, roedd awr ginio yn y caban yn peri inni
anghofio'r cwbl i gyd.¹¹³

¹¹¹ T. H. Jones, *Cerddi ac Atgofion Twm Bethel* (Caernarfon: Gwasg y Tir, 1976), t. 9.

¹¹² *Ibid*, t. 13.

¹¹³ *Ibid*, t. 54.

Er bod Twm Bethel ei hun yn barddoni, nid yw'n pwysleisio'r agweddau diwylliannol o fywyd y caban a'r chwarelwr. Mae ei naratif yn llawer mwy tebygol o ddisgrifio'r hwyl a'r cymeriadau na'r barddoni a'r trafod gwleidyddiaeth y mae gweithiau eraill yn tueddu i roi pwyslais arnynt. Wrth gofio am ei ffrindiau yn y chwarel mae'n datgan:

Pe cawn heddiw fynd i'r caban a gweld y byrddau a'r seddau gweigion, rwy'n siwr y buasai deigryn yn dod i fy llygaid, ie deigryn o goffadwriaeth am y dynion gwreiddiol yma. Ni welwn eto fyth gymeriadau yn debyg i'r rhain:

'A phan ddaw fy ngalwad i adref
Gan Iesu i adael y byd.
Dymunaf gyfarfod â'r hogiau,
Hen hogiau y Garret i gyd.'¹¹⁴

Trwy gyfuno ysgrifau am ei atgofion â'r cerddi a ysgrifennodd ar y pryd, mae *Cerddi ac Atgofion Twm Bethel* yn hunangofiant bro sydd yn cyfleu cyfnod a bywyd chwarelwr ar drothwy'r cyfnod ôl-ddiwydiannol yn effeithiol. Dyma gyn-chwarelwr yn portreadu ei gymdeithas a'i weithle a'r cyfnod ansicr a ddilynodd cau'r chwarel fel yr oedd ef yn profi'r peth.

Ond nid yw pob hunangofiant bro gan gyn-chwarelwr yn rhoi'r un portread ag a geir gan Twm Bethel. Mae *Myfyrion Hen Chwarelwr* gan J. D. Evans yn pwysleisio rhinweddau a diwylliant y chwarelwr. Dywed ef yn ei hunangofiant:

Ond os hyn oedd cyfnod yr ysgol i ni, gallaf ddweud yn ddi-wyrni fod y chwarel ar ei chaleted, wedi bod yn goleg o'r math orau i mi. Dan ddylanwad yr hen chwarelwyr hunanddiwylliedig, clir a chadarn eu barn, y rhai a fu o'u cyni'n gwasgu ceiniog i godi ysgolion a cholegau i blant y dyfodol. Fe erys ffrwyth eu llafur fel cofgolofnau iddynt.¹¹⁵

Dyma bortread rhamantus o'r hen chwarelwyr a'u cyfraniad i'r ardal, darlun sy'n cael ei adleisio mewn nifer o'r hunangofiannau bro. Thema gyffredin arall sydd yn tueddu i redeg trwy'r gweithiau hyn yw gofidio am ddyfodol y fro trwy gymharu'r oes a fu â'r presennol:

¹¹⁴ Ibid, tt. 54-55.

¹¹⁵ J. D. Evans, *Myfyrion Hen Chwarelwr* (Caernarfon: Cyhoeddiadau Mei, 1978), t. 15.

Edrychaf yn ôl a chofio'r gymdeithas glos oedd yn bodoli'r pryd hwnnw. Gwerinwyr syml, er hynny dinasyddion pur. Ond rhaid i ni symud efo'r amseroedd.

Dyma ni mewn cyfnod oer wyddonol, y gwerthoedd ar ffo, ac yn eu lle y gymdeithas ariannog a'r oddefol. Wrth edrych yn ôl at atgofion bore oes, teg yw gofyn a ydym wedi colli rhywbeth. Credaf ein bod.¹¹⁶

Dyma sentiment a ymddengys yn aml yn y cofiannau. Wrth gwrs mae J. D. Evans yn cofio'r gymdeithas o chwarelwyr y mae'n eu disgrifio ac yn eu portreadu gydag angerdd, ond un garfan ddiwylliedig a gaiff ei phortreadu ganddo. Atgyfnerthu myth y chwarelwr diwylliedig a wna J. D. Evans yma, ac nid oes ymgais i ailgloriannu'r darlun confensiynol hwnnw.

Yn debyg i gyfrol Twm Bethel, mae *Myfyrion Hen Chwarelwr* yn gyfuniad o atgofion a cherddi y byddaf yn eu dehongli yn y bennod am farddoniaeth. Ond er bod y ddwy gyfrol wedi eu cyhoeddi o fewn dwy flynedd i'w gilydd ac wedi eu hysgrifennu gan gyn-chwarelwyr, mae'r portreadau a geir ynddynt yn dra gwahanol. Dyma hunangofiannau bro sydd yn llawer mwy personol na rhai cynharach gan awduron fel H. D. Hughes ac Ernest Roberts sydd yn portreadu'r gymdeithas yn gyffredinol yn hytrach na'u bywydau eu hunain.

Yn yr un cyfnod â chyhoeddi atgofion a cherddi Twm Bethel a J. D. Evans, cafwyd hunangofiannau bro unigolion o'r bröydd chwarelyddol sydd fel petaent yn pontio'r cyhoeddiadau diweddarach hyn gan gyn-chwarelwyr a chyhoeddiadau cynnar yr 1960au sydd yn fwy hyderus ac yn portreadu ardal ehangach. Mae'r garfan hon o hunangofiannau yn fwy personol, yn canolbwyntio ar hanes yr hunan yn hytrach na'r fro. Yn debyg i Twm Bethel a J. D. Evans, roedd Idwal Hughes yn chwarelwr. Cyhoeddwyd *Dros F'Ysgwydd* yn 1977, ac mae'r gyfrol yn nodweddiadol o weithiau hunangofiannol diweddarach y bröydd chwarelyddol. Mae'n dechrau trwy ddisgrifio aelwyd y teulu:

Tyddyn bach dinod ar yr ochr ogleddol i Ddyffryn Nantlle oedd Beudy Gwyn, cartref cyntaf 'Nhad a Mam wedi eu priodas. 'Roedd i'r tyddyn ryw bum acer o dir rhywiog a phymtheg acer o dir garw. Y stoc fyddai dwy fuwch flith, a rhyw bymtheg o ddefaid. Y tiffeddiannwr oedd Mr Lewis, perchennog chwarel lechi Tynyweirglodd oedd yn gyfagos â'r tyddyn.

¹¹⁶ Ibid, t. 65.

Gweithiai fy Nhad yn Chwarel Penyrsedd. Tua theirpunt y mis oedd ei gyflog, ac allan o'r swm yma byddai angen talu am ffrwydron a thalu i'r gof am drin arfau.¹¹⁷

Dyma gyfleu aelwyd eithaf cyffredin yn Nyffryn Nantlle'r cyfnod. Roedd nifer o deuluoedd yn byw ar dyddyn ac yn ddibynnol ar gyflog y tad yn y chwarel. Trwy roi cefndir mor benodol i'w fagwraeth yn y fro, mae Idwal Hughes yn rhoi portread sy'n adlewyrchiad cyffredinol o'r ardal.

Mae'r awduron sy'n portreadu'r bröydd chwarelyddol yn tueddu i ganolbwyntio ar yr un agweddau nodweddiadol o fywyd yr ardal. Ceir yma ddisgrifiad o'r tyddyn, y chwarel, y ffermydd yn ogystal â hanesion ac atgofion am yr ysgol, y capel a'r aelwyd. Disgrifia fywyd y caban:

Twnel yn y graig oedd y caban bwyta, a dyna le fyddai yna yr awr ginio - ond 'roedd trefn ar bopeth - gofalai llywydd y mis am hynny. Y pwnc llosg ar yr awr ginio ar ddydd Llun, fyddai pregethau'r Sul. Sôn am ddiwinydda ac athronyddu. Yr oedd tu hwnt i'r un dosbarth Ysgol Sul hyd yn oed.¹¹⁸

Nid yw Idwal Hughes yn pendroni'n ormodol ar ddiwylliant yr ardal, ac o ganlyniad mae disgrifiad fel hyn o drafodaethau'r caban yn fwy credadwy nag awdur sydd yn gyson yn pwysleisio rhinweddau ei ardal. Mae'n disgrifio ansicrwydd y diwydiant llechi yn y cyfnod y bu'n gweithio yn y chwarel ac effaith hynny ar ei fywyd:

Bûm yn y chwarel am tua dwy flynedd, ond yn niwedd 1924 aeth y cwmni yn fethdalwyr a bu raid imi droi fy ngolygon yn ôl i'r fferm, lle bum tan ddiwedd Ionawr 1926.¹¹⁹

Wrth gyfleu dylanwad y diwydiant llechi, ei anterth a'i gwymp, ar unigolyn, gellir dirnad yr effaith ehangach ar y gymdeithas.

Mae disgrifiad Idwal Hughes o'r hyn a wnaeth ef a'i ffrindiau ar ôl gadael yr ysgol yn nodweddiadol o fechgyn y cyfnod:

¹¹⁷ Idwal Hughes, *Dros F'Ysgwydd* (Caernarfon: Cyhoeddiadau Mei, 1977), t. 5.

¹¹⁸ *Ibid*, t. 37.

¹¹⁹ *Ibid*, t. 39.

Ar ôl gwyliau'r haf, cawsom oll ryddhad o 'dŷ caethiwed'. Aeth Twm Min-y-Nant i Chwarel Nant-y-Fron i weithio gyda'i dad, cafodd Twm Richard fynd yn ôl at Queen [march hynafol y Taldrwst, i dynnu ysbwriel o sied Dorothea], anfonwyd Ifan 'Bach' Lloyd i'r De, a Ned yn mynd i ganlyn un o geffylau Plas Tan-'rallt yn Chwarel Blaen-y-Cae.¹²⁰

Gellir gweld o'r dyfyniad hwn mor ddibynnol oedd y fro ar y chwareli ac mae'r hunangofiannau bro yn effeithiol wrth fynegi dylanwad y diwydiant llechi ar sawl agwedd ar fywyd yn y bröydd chwarelyddol. Gweithiodd Idwal Hughes hefyd yn cyfrif llechi ac yna fel perchennog Chwarel Nant-y-Fron wedi marw ei gyfaill, W. J. Davies. Am y cyfnod hwnnw dywed, 'bûm yn ei gweithio yno efo chwech o ddynion tan 1973.'¹²¹ Ac o'r dyfyniad hwn ceir mewnwelediad i effaith y cyfnod ôl-ddiwydiannol ar y fro. Mae'r gyfrol yn llawn hanesion difyr am Ddyffryn Nantlle, am deulu a gwaith yr awdur ond hefyd am ei gyfnod yn byw a gweithio yng Nghanada a'r gymdeithas Gymraeg y daeth ar ei thraws yno. Dyma hunangofiant bro sydd yn cyfleu dylanwad ac effaith y diwydiant llechi ar fywydau trigolion y fro a oedd mor ddibynnol arni.

Mae *Rhwng Dwy* gan R. Emyr Jones a gyhoeddwyd yn 1976 hefyd yn hunangofiant bro sydd yn cynnwys pwyslais ar yr hunan yn ogystal â'r ardal. Mae'r gyfrol yn dilyn hanes bywyd yr awdur rhwng ei fagwraeth ym mro afon Ogwen a'i fywyd priodasol ym mro afon Dysynni. Dywed am ei ddyffryn genedigol:

Dyffryn rhamantus, hawdd ei anwylo, yw Dyffryn Ogwen yn Arfon, o darddiad yr afon wrth droed y Tryfan i'w haber yn heli Menai ger muriau gormesol castell y Penrhyn.¹²²

Dyma ddelwedd sydd yn pwysleisio gwraidd y dioddefaint a wynebai'r afon ar ei thaith trwy Fethesda. Mae cyferbyniad amlwg rhwng rhyddid yr afon wrth droed Tryfan a muriau gormesol castell y Penrhyn. Ysgrifenna'n ddiweddarach am daith yr afon heibio Pont y Tŵr: 'Y mae'r dyfroedd fel pe'n cyflymu yma, rhag ofn efallai iddynt sylwi ar hagrwch tloidaidd y strydoedd culion – gwaddol y streic a'r

¹²⁰ Ibid, t. 28.

¹²¹ Ibid, t. 75.

¹²² R. Emyr Jones, *Rhwng Dwy* (Porthmadog: Gwasg Tŷ ar y Graig, 1976), tt. 9-10.

dirwasgiad.¹²³ Mae R. Emyr Jones yn darlunio Dyffryn Ogwen fel lle tlawd, llawn dioddefaint. Er bod cyfeiriadau arwynebol at dlodi a dioddefaint yr ardal yn y mwyafrif o'r hunangofiannau bro, yn anaml y ceir portread sy'n disgrifio effaith hynny ar y fro a'i brodorion.

Ond wedi dweud hyn, aiff R. Emyr Jones ymlaen i holi ai'r afon a ysbrydolodd gantorion, cyfansoddwyr a llenorion y fro. Er ei fod yn fwy parod na'r mwyafrif i gydnabod dioddefaint, mae yntau'n pwysleisio rhinweddau diwylliannol yr ardal. Rhoddir hefyd enghreifftiau o ganu anhygoel y capeli a chorau'r ardal. I R. Emyr Jones, mae Dyffryn Ogwen yn lle llawn gwrthgyferbyniadau wrth iddo ddatgan:

Gwelodd dwylan Ogwen brydferthwch ar ei berffeithiaf, gwelodd hefyd hagrwch ar ei waethaf. Llifodd ei dyfroedd drwy gwm diwydiannol Cymreig a brofodd ddiwydrwydd a segurdd yn eu tro, daioni a drygioni, hapusrwydd a thristwch, ar ei ffordd o'r mynydd i'r môr.¹²⁴

Dyma grynoded o bortread yr awdur o Ddyffryn Ogwen, awdur sydd yn gweld a mynegi gwrthgyferbyniadau bro sydd yn gymysgedd o'r da a'r drwg, o rinweddau a ffaeleddau. Tua diwedd y gyfrol, ar ôl cyfnod yn y fyddin yn teithio'r byd, daw R. Emyr Jones yn ôl i Gymru, i fro chwarelyddol arall. Wrth ddyfroedd afon Dysynni ym Meirionnydd dywed:

Y mae stamp y Comisiwn Coedwig yn amlwg o amgylch Abergynolwyn. Gorchuddir pob llethr gan y coed bytholwyrdd - prif ddiwydiant y pentre'. Eto, teimlaf fod cadernid hen greigiau'r chwarel yn amlwg iawn yng nghyfansoddiad y pentrefwyr. Pobol solat, gwydn, a balchter yn eu llygaid a'u hosgo.¹²⁵

Yn gelfydd, mae'r gyfrol hon yn dilyn taith afon Ogwen a Dysynni o'u dechrau i'w diwedd a thrwy wneud hynny yn dilyn llwybr bywyd yr awdur.

Yn debyg i hunangofiant Idwal Hughes, dyma hunangofiant personol sy'n disgrifio bro chwarelyddol a'i chymeriadau ond dim ond wrth adrodd hanes personol yr awdur. Yn wahanol i weithiau cynnar fel *Bargen Bywyd Fy Nhaid*

¹²³ Ibid, t. 11.

¹²⁴ Ibid, t. 15.

¹²⁵ Ibid, t. 117.

sydd yn cynnwys pennod i gymeriadau gwahanol, mae'r hunangofiannau diweddarach hyn yn defnyddio'r hunan yn hytrach na'r fro fel canolbwynt. Tra mae *Cerddi ac Atgofion Twm Bethel a Myfyrion Hen Chwarelwr* yn defnyddio'r chwarel fel canolbwynt wrth adrodd hanesion ac atgofion personol, mae *Dros F'Ysgwydd a Rhwng Dwy* yn ddatblygiad pellach gyda'r bröydd chwarelyddol yn gefndir wrth adrodd hanes bywyd yr awdur.

Categori arall o'r hunangofiannau bro yw cyfres o ddarlithoedd blynyddol a drefnwyd ac a gyhoeddwyd gan Lyfrgell Gwynedd. Cafwyd darlithoedd ym Mhenygroes, Bethesda a Blaenau Ffestiniog yn bennaf gan nifer o drigolion y bröydd chwarelyddol. Mae'r darlithoedd gan amlaf (yn debyg i'r hunangofiannau cynnar) yn dechrau'n fywgraffyddol gan ddisgrifio taid a nain ac aelwyd y teulu cyn disgrifio tirlun y fro gan gyfeirio at y mynyddoedd a'r afonydd o'u cwmpas. Datblyga'r ddarlith wedyn i ganolbwyntio ar un agwedd ar fywyd yn y fro, gan amlaf gyda chyfres o hanesion neu atgofion sy'n amlygu diwylliant y fro. Mae *Hafan Bwlch a Dyffryn* gan Elfed Roberts yn eithaf nodweddiadol o'r darlithoedd hyn.

Cynhaliwyd y ddarlith ym Mhenygroes yn 1992 ac mae'n agor gyda hanes ei deulu yn y fro. Mae Elfed Roberts yn disgrifio tirlun Dyffryn Nantlle a thywysa'r gynulleidfa trwy'r dyffryn: 'Awn yn ôl i Fwlch Gylfin a theithio i lawr yr allt tua Drws-y-Coed.'¹²⁶ Yr hyn y mae'r ddarlith hon yn canolbwyntio arno'n bennaf yw mwynfeydd copr y fro: 'Gwaith mwynfeydd copr Drws-y-Coed oedd blaenffrwyth diwydiannol y dyffryn cyn agor yr un o'r chwareli llechi.'¹²⁷ Mae'n dyfynnu ei ewythr yn sôn am y gwaith yn y mwynfeydd copr ac yn disgrifio dull y Rhufeiniaid o dynnu'r copr o'r tir. Mae'n ddarlith ddiddorol sydd yn rhoi hanes diwydiannol gwahanol i Ddyffryn Nantlle, diwydiant sydd bron â mynd yn angof. I gloi'r ysgrif mae Elfed Roberts, yn debyg i hunangofiannau bro eraill, yn mynegi gofid am bresennol a dyfodol yr ardal:

O wybod a sylwi sut y mae Drws-y-Coed yn edrych heddiw, sylweddolaf, fel llawer ohonoch chwithau, y newid sydd wedi cymeryd lle, ond diolchwn am y gogoniant a fu.¹²⁸

¹²⁶ Elfed Roberts, *Hafan Bwlch a Dyffryn* (Caernarfon: Cyngor Sir Gwynedd, Adran Diwylliant a Hamdden, 1993), t. 11.

¹²⁷ *Ibid*, t. 12.

¹²⁸ *Ibid*, t. 35.

Mae'r hunangofiannau bro, ac yn enwedig y darlithoedd, yn tueddu i fod yn hiraethus am gyfnod diwydiannol y bröydd chwarelyddol, boed hynny am resymau economaidd, rhai diwylliannol neu oherwydd y traddodiad Cymreig hwnnw o edrych yn ôl ar oes aur y genhedlaeth hŷn.

Yn un arall o ddarlithoedd Llyfrgell Gwynedd, *Hon Ydyw'r Afon*, mae R. M. Williams yn galaru am ddiwylliant yr hen chwarelwyr:

Roedd llai a llai yn ymddiddori mewn llenyddiaeth a darllen yn gyffredinol, meddent, erbyn y dau a'r tridegau, a chlywais ddatgan siom am ddirywiad hen ddiwylliant amlochrog cymdeithas y chwareli gynt.¹²⁹

Mae'n amlwg o'r datganiad hwn bod cymdeithas y bröydd chwarelyddol yn gofidio am ei diwylliant mor gynnar â'r 1920au. Erbyn cyhoeddi'r cyfrolau hyn yn yr 1970au, roedd y gymdeithas yn parhau i hiraethu am yr oes o'r blaen. Yn *Cofio'r Gorffennol* mae John Alun Roberts yn hel atgofion am hiwmor y chwarel a chymeriadau ffraeth y gymdeithas.¹³⁰ Mae Huw Davies yn gweld dirywiad mawr yn ei ardal ers ei blentyndod ac yn rhagweld dirywio pellach eto.¹³¹

Nid oes llawer o gyfraniadau gan fenywod y bröydd chwarelyddol. Mae hunangofiant gan Catherine Parry, Llanllyfni, *Atgofion*, yn disgrifio'r fro a'i theulu ond yna yn dilyn ei gyrfa wrth iddi fod yn forwyn i Esgob Caer (Esgob Llundain yn ddiweddarach). Yn ei darlith, *Swyn Cofio* - teitl sy'n dweud y cyfan! - mae Gwladys Williams yn cwyno am gymdeithas bresennol y fro droeon:

Roedd pawb erstmalwm yn selog dros bob mudiad cymdeithasol ond heddiw y mae wedi mynd yn anodd cael pobol i fod yn frwdfrydig ynghylch dim.¹³²

¹²⁹ R. M. Williams, *Hon Ydyw'r Afon* (Caernarfon: Llyfrgell Gwynedd, Rhanbarth Arfon/Dwyfor, 1979), t. 21.

¹³⁰ Gweler: Roberts, John Alun. *Cofio'r Gorffennol*. Caernarfon: Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd, Rhanbarth Arfon/ Dwyfor, 1980.

¹³¹ Gweler: Davies, Huw. *Fy Hen Fro*. (Caernarfon: Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd, Rhanbarth Arfon/ Dwyfor), 1978.

¹³² Gwladys Williams, *Swyn Cofio* (Caernarfon: Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd, Rhanbarth Arfon/Dwyfor, 1977), t. 26.

Nid oes disgrifiadau ganddi o gyfraniad merched y bröydd chwarelyddol i'r gymdeithas. Credaf fod bwlch ym mhortreadau'r hunangofiannau bro oherwydd y prinder ysgrifau gan fenywod yn y cyfnod hwn. Gyda ffrwd o hunangofiannau bro yn yr 1960-70au, mae'n siom nad yw menywod y bröydd wedi lleisio eu profiadau a phortreadu eu cymdeithas ar drothwy'r cyfnod ôl-ddiwydiannol.

Mae 'Cyfres Cymêrs Cymru' wedi anfarwoli ychydig o hiwmor a chymeriadau'r bröydd chwarelyddol a thu hwnt. Mae'r cyfrolau hyn yn ymdebygu i hunangofiannau bro ond gyda phwyslais ar ochr ysgafn bywyd yn yr ardal a chymeriadau ffraeth y gymdeithas. Mae sawl cyhoeddiad am gymeriadau'r bröydd chwarelyddol, ond rwyf am ddechongli *Cymeriadau Stiniog* sydd yn nodweddiadol o'r straeon a geir mewn cyhoeddiadau eraill yn y gyfres fel *Cymeriadau Dyffryn Nantlle*. Nid yw pob hanesyn yn ddoniol. Egyr y gyfrol gyda chyfeiriadau at leoliadau'r Mabinogi ac olion y diwydiant llechi ar dirlun Blaenau Ffestiniog cyn symud ymlaen i ddisgrifio'r rhai a oedd yn byw yno ganrif yn ôl. Mae'r gyfrol hon yn llai caeth i ystrydebau a myth y chwarelwr diwylliedig o'i chymharu â'r hunangofiannau bro eraill.

Ceir hanesion am y Prifardd Elfyn (R. O. Hughes) o Flaenau Ffestiniog. Er ei fod yn fardd, nid yw'r naratif yn gor-ganmol ei ddoniau llenyddol ond yn hytrach yn crybwyll ei fod yn yfwr mawr:

Cymeriad trasig mewn sawl ystyr, ond dyrys a difyr serch hynny. Mewn cyfnod tlawd ar bawb, doedd dim teulu yn Llan Stiniog oedd lawer tlotach na'i deulu fo, a deuai iddo blyciau o euogrwydd ac iselder ysbryd yn aml o orfod cydnabod iddo'i hun y prif reswm am y tloidi hwnnw.¹³³

Nid oes unrhyw gydnabyddiaeth o alcoholiaeth yn yr hunangofiannau bro eraill. Efallai bod *Cymeriadau Stiniog* yn fwy rhydd i grybwyll pethau felly oherwydd bod y mwyafrif o bobl yr ysgrifennir amdanynt wedi marw bellach. Hefyd trwy fanylu ar unigolion o gig a gwaed yn hytrach na chyffredinoli, nid oes ymgais i bortreadu a chreu darlun o'r 'chwarelwr cyffredin' a'i gymdeithas. Mae cydnabyddiaeth hefyd o broblem yfed Robin Llanddog, chwarelwr: 'Un 'gwlyb' drybeilig oedd Llanddog - braidd yn or-hoff o'r llaeth mwnci! Ni fyddai'n tywyllu

¹³³ Geraint V. Jones, 'Wrth dy draed, machgian i!' yn *Cymeriadau Stiniog* (Caernarfon: Gwasg Gwynedd, 2008), t. 20.

unrhyw le o addoliad.¹³⁴ Buasai'r hunangofiannau bro eraill yn gyndyn iawn o ddisgrifio unigolyn o'r fath oherwydd y buasai'n chwalu'r ddelwedd y mae'r awduron hynny'n ceisio ei chyflwyno o'r bröydd chwarelyddol.

Nid yw *Cymeriadau Stiniog* yn gwneud unrhyw ymgais i berchnogi'r hiwmor yn y llyfr. Nid yw'n ei ddisgrifio fel hiwmor y chwarel na hiwmor unigryw i Flaenau Ffestiniog oni bai am yn y broliant sy'n datgan: 'Mae 'na rywbeth am ardaloedd y llechi, on'd oes? Mae fel petai'r ardaloedd hynny wedi naddu cymeriadau unigryw yn ogystal â'r llechi.'¹³⁵ Un cymeriad sydd yn cael ei bortreadu fel ymgnawdoliad, bron, o hiwmor y fro yw Robin Jolly:

Heb os nac oni bai, Robin Jolly oedd un o'r cymeriadau mwyaf digri a ffraeth a fu'n troedio'r ardal hon erioed, a chymaint oedd y sôn amdano wedi iddo fynd fel bod peryg i *bob* ffraethineb a stori ddoniol gael ei thadogi iddo!¹³⁶

Ceir sawl enghraifft o hiwmor Robin Jolly yng ngweddill y bennod; dyma un sy'n nodweddiadol o'i atebion sydyn:

Wrth ddod adref o angladd un tro, ac yntau'n cydgerdded ag eraill o'r galarwyr, trodd un o'r dynion at Robin a deud, 'Un sâl am gladdu ydi dy weinidog di, Bob.' Fe ddaeth yr ateb mewn fflach, 'Glywaist ti sôn am unrhyw un sydd wedi codi ar ei ôl o?'¹³⁷

Credaf fod yr hiwmor yn *Cymeriadau Stiniog* yn nodweddiadol o'r bröydd chwarelyddol. Hanesion tebyg i'r rhai yma yw'r hen straeon o'r chwarel sy'n cael eu hadrodd gan gymeriadau yn nofelau T. Rowland Hughes, Eigra Lewis Roberts a Caradog Prichard. Mae'n ddiddorol mai'r broliant yn unig sydd yn hawlio'r hiwmor hwnnw fel ffraethineb enwog yr ardal a buasai'n ddiddorol gweld yr amrywiaeth o ran hiwmor sydd yng ngweddill 'Cyfres Cymêrs Cymru'.

Credaf fod categori arall o'r hunangofiannau bro, sef llyfrau hanesyddol lleol. Mae dwy enghraifft wych o'r rhain yn *Chwareli Dyffryn Nantlle* gan Idwal Hughes a *Llechi Llew* gan Dewi Tomos. Dyma gyfrolau sydd yn cyflwyno hanes

¹³⁴ Emrys Evans, 'Robin Llanddog', *Cymeriadau Stiniog*, t. 78

¹³⁵ Broliant, *Cymeriadau Stiniog*.

¹³⁶ Steffan ab Owain, 'Robin Jolly (Robert Griffith 1862-1928)', *Cymeriadau Stiniog*, t. 57.

¹³⁷ *Ibid*, t. 60.

Dyffryn Nantlle mewn ffordd sgyrsiol, gyda manylion cymdeithasol sy'n absennol mewn llyfrau hanes academiaidd. Fel cyn-chwarelwr, mae Idwal Hughes yn cynnwys atgofion personol yn ei ddisgrifiadau o chwareli ei fro: 'Bûm yn gweithio ym Mlaen-y-Cae o 1921 i 1924.'¹³⁸ O ganlyniad mae'r llyfr yn gyfuniad o lyfr hanes a hunangofiant. Ceir yr argraff bod yr awdur eisiau cofnodi digwyddiadau a hanesion o'r chwareli cyn i'r cyfan fynd yn angof:

Erbyn heddiw, mae'r mwyafrif o chwareli Dyffryn Nantlle yn segur, a'r manau hynny lle bu cloddio prysur yn y dyddiau a fu yn brysur ddiflannu; oherwydd ymdrech byd natur i guddio'i archollion a'i greithiau, tyfodd mân goediach, glaswellt a mwsogl dros y rhan helaethaf o'r hen dipiau a'r tomennydd ac y mae lleoliad yr hen chwareli yn brysur fynd i ddifancoll, yn arbennig felly y mân chwareli.¹³⁹

Mae *Chwareli Dyffryn Nantlle* felly'n ymgais i gofnodi hanes y chwareli gyda dyfodiad y cyfnod ôl-ddiwydiannol.

Mae ffeithiau'r llyfr yn cael eu plethu gyda chofnodion cymdeithasol y cyfnod ac atgofion yr awdur o'i blentyndod. Trwy gyfuno ffeithiau a hanesion personol, mae *Chwareli Dyffryn Nantlle* yn cyflwyno portread cymdeithasol o'r chwareli. Yr agwedd hon ar y gyfrol sy'n ei gwneud yn hunangofiant bro yn hytrach na llyfr hanes. Mae atgofion Idwal Hughes am ei blentyndod yn cael eu defnyddio i gyfleu agweddau ar y diwydiant llechi:

Pan oeddwn yn blentyn ym mhentref Tanrallt ar yr ochr ogleddol i'r dyffryn, ac ar gyfer chwarel Gloddfa Glai, nid oedd yn bosibl gweld tai isaf Talysarn oherwydd tomen ysbwriel y chwarel, ond yn y tridegau, a'r chwarel wedi cau ers blynyddoedd, cymerodd W. J. Davies, y nofelydd a'r dramodydd, les ar y tomenydd a bu cannoedd yn gweithio yno'n rybela ym mlynyddoedd y dirwasgiad. Yn raddol, crebachodd y domen a heddiw gellir gweld holl dai Talysarn yn glir o Danrallt.¹⁴⁰

Trwy gyflwyno ffeithiau am y diwydiant llechi mewn ffordd mor bersonol, mae *Chwareli Dyffryn Nantlle* yn gofnod hanesyddol gwerthfawr. Mae'n cofnodi hanesion am bobl a digwyddiadau na fuasai'n ymddangos yn y llyfrau hanes. Mae

¹³⁸ Idwal Hughes, *Chwareli Dyffryn Nantlle* (Caernarfon: Cyhoeddiadau Mei, 1980), t. 17.

¹³⁹ Ibid, t. 5.

¹⁴⁰ Ibid, t. 10.

nifer ohonynt yn ddigwyddiadau trasig sydd yn aros yng nghof y fro, er enghraifft hanes bachgen ifanc yn boddi yn Chwarel y Gloddfa Goed yn 1918, manylion am blasty hardd perchennog y chwarel a ddinistriwyd, a phrentis yn cael ei ladd yn ddamweiniol yn y felin un amser cinio wrth i'r bechgyn chwarae o gwmpas gyda'r prennau mesur ac un gyda hoelen farcio arni.

Mae'r hanesion sydd yn cael eu cofnodi gan Idwal Hughes yn rhai o bwysigrwydd mawr yn lleol, ond rhai na fuasai o ddiddordeb i hanesydd. Onid cofnodi hanes cymdeithasol yw bwriad yr holl hunangofiannau bro? Dyma gofnodi manwl am ddigwyddiadau a phobl all fynd yn angof, pethau na ddylid eu hanghofio. Cofnodion tebyg a geir yn *Llechi Lleu* gan Dewi Tomos. Cyhoeddwyd y gyfrol hon yn 1980 hefyd ond mae hi'n tywys y darllynydd yn ôl trwy hanes y dyffryn o gyfnod y Mabinogi i'r presennol.

Mae tôn sgysiol i *Llechi Lleu* ac mae'n gofyn cwestiynau uniongyrchol i'r darllynydd: 'Pa mor hen yw'r chwareli llechi a welwch yn Nyffryn Nantlle heddiw? Wyddoch chi faint o bobl fu'n gweithio yn y chwareli yma ar un adeg?'¹⁴¹ Mae hefyd yn tywys y darllynydd fel petai ar daith gyda'r awdur:

Ond mae'n bryd i ni orffen crwydro a throi ein golygon at un ardal sy'n enwog am ei chwareli ac am ei phobl ddiwylliedig, yr ardal orau yn y byd i mi, sef Dyffryn Nantlle.¹⁴²

Dyma arddull sydd yn dwyn i gof lyfrau wedi eu hanelu at blant, ond credaf mai ymgais i fod yn agos-atoch-chi sydd yma. Mae *Llechi Lleu* yn gyfuniad o farddoniaeth, atgofion, a ffeithiau a thrwy gyfuno enghreifftiau o ddiwylliant y fro, hanesion cymdeithasol a ffeithiau hanesyddol fe geir darlun eithaf cyflawn o fywyd yn Nyffryn Nantlle hyd at y cyfnod ôl-ddiwydiannol. Er hynny, mae'n rhaid dweud bod y portread hwn hefyd yn canolbwyntio ar rinweddau'r fro ac yn osgoi cydnabod unrhyw ffaeleddau.

Wrth bortreadu'r diwydiant llechi a'i ddylanwad ar y fro ceir pwyslais ar y diwylliant a dyfodd yn yr un cyfnod. Mae barddoniaeth am y dyffryn yn cael ei dyfynnu'n aml ynghyd â chyfeiriadau at feirdd a llenorion o'r fro. Wrth

¹⁴¹ Dewi Tomos, *Llechi Lleu* (Caernarfon: Cyhoeddiadau Mei, 1980), t. 12.

¹⁴² *Ibid*, t. 10.

ddisgrifio'r gymdeithas mae Dewi Tomos yn cyfeirio at bwysigrwydd y capel, y corau, y bandiau pres a'r caban. Am y tyddynnod dywed:

Ewch am dro o gwmpas Y Fron, Cilgwyn neu Nebo ac fe welwch ddwsiynau o'r tyddynnod yma, ond golygfa drist ydyw erbyn heddiw gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn adfeilion a'r tir yn llithro'n ôl i anialwch y mynydd unwaith eto.¹⁴³

Dyma fynd â'r darllenydd yn ôl i'r cyfnod ôl-ddiwydiannol a'r dirywiad yn Nyffryn Nantlle. Er gwaethaf yr holl fwrlwm cymdeithasol, diwylliannol a diwydiannol mae *Llechi Lleu* yn ei ddisgrifio, yn y diwedd mae dirywiad presennol y fro yn tra-arglwyddiaethu:

Ai da o beth oedd cau'r chwareli? Yn sicr ni wylwn dros golli'r cyflogau pitw, y damweiniau erchyll a'r llwch yn cronni'n yr ysgyfaint. Ond trist wyf weithiau pan sylweddolaf fod perygl inni hefyd golli'r bywyd cyfoethog, y gymdeithas glos, gartrefol, a'r berw o fywyd diwylliannol a feddiannodd bentrefi a thyddynnod y chwarelwyr.¹⁴⁴

O'r diwedd glo hwn gellir dirnad bwriad Dewi Tomos wrth ysgrifennu'r gyfrol hon. Roedd eisiau cofnodi'r hyn a fu yn Nyffryn Nantlle er mwyn ysgogi balchder unwaith eto yn niwylliant cyfoethog y fro. Dyma ymgais i addysgu'r darllenydd ac efallai i ysgogi Dyffryn Nantlle i godi ar ei thraed unwaith eto.

Mae'r hunangofiannau bro yn gyffredinol felly yn euog i raddau o ddelfrydu a rhamantu'r bröydd chwarelyddol ac o atgyfnerthu myth y chwarelwr diwylliedig a'i gymdeithas. Yn wir, credaf fod cyhoeddiadau'r 1960au-80au wedi chwarae rhan fawr yn sefydlu'r myth yng nghof cyfredol y genedl. Mae'n debyg bod dyfodiad y cyfnod ôl-ddiwydiannol wedi chwarae rhan fawr yn y rhesymau dros ddelfrydu'r gymdeithas a fu. Roedd yr awduron hyn eisiau portreadu rhinweddau'r bröydd chwarelyddol cyn i'r cyfan fynd yn angof. Dyma lais y bröydd chwarelyddol, a'r portread a gyflwynir ganddynt o'r ardaloedd a'u cymdeithas.

¹⁴³ Ibid, t. 71.

¹⁴⁴ Ibid, t. 110.

Pennod 3: Ffuglen

i) Portreadau o'r Chwarelwyr a'u Bro yn Ffuglen y Cyfnod Diwydiannol

Mae'r chwarelwr yn ffigwr pwysig yn hanes a llenyddiaeth Cymru. Mae'n cynrychioli bro a diwydiant naturiol Gymraeg ac wedi datblygu i fod yn symbol o'r bywyd Cymreig delfrydol. Ers yr 19eg ganrif hyd at y presennol, mae awduron Cymraeg wedi sefydlu confensiynau wrth ddarlunio chwarelwyr. Bydd yr adran hon yn archwilio gwreiddiau myth y chwarelwr.

Ymhlith y cyntaf i ysgrifennu am chwarelwyr yr oedd Richard Hughes Williams neu Dic Tryfan. Roedd yn chwarelwr ac yn ysgrifennu straeon byrion am gymeriadau'r chwarel ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Cyhoeddwyd *Tair Stori Fer* yn 1916 ac nid oes dyddiad pendant ar gyfer cyhoeddi *Straeon y Chwarel*, ond tybir mai 1914 ydyw. Mae ei weithiau yn portreadu sawl haen o'r gymdeithas chwarelyddol; ceir cymeriadau parchus a chrefyddol fel y blaenor Huw Huws yn ogystal â chymeriadau direidus, anfoesol fel Harri Trwyn Cam. Yn amlwg, nid oedd y portread confensiynol o chwarelwr wedi ei sefydlu eto.

Mae Menna Baines yn cyfeirio at gymeriadau Dic Tryfan yn *Yng Ngolau'r Lleuad*:

Mae yma baganiaid a meddwon a thlodion digon tlawd i orfod mynd i'r wyrwys; mae yma ddynion sy'n rhaffu celwyddau ac yn hwyr i'r gwaith. Mae'r rhain nid ar gyrion y straeon ond yn y canol, yn brif gymeriadau, a'r awdur yn eu darlunio gyda chydymdeimlad ond heb sentimentaliaeth.¹⁴⁵

Gellir dirnad o'r dyfyniad hwn mor brin yw gweithiau llenyddol sy'n portreadu sawl haen o'r gymdeithas chwarelyddol. Dyma awdur a chanddo nid yn unig gyfeiriadau at Fuchedd B ond cymeriadau ac iddynt sawl dimensiwn o'r garfan honno. Mae'n ddiddorol bod yr enghraifft gynharaf o ffuglen am y bröydd chwarelyddol yn gwbl rydd o'r confensiynau sydd wedi datblygu ers hynny. Yn 'Y Prydydd Llwyd' dywed yr adroddwr:

Dylwn ddweyd mai prif hobi Huw Huws oedd chwilio am rywun yn ein plith a oedd yn debyg o wneud pregethwr. Ei ffefryn oedd y "Gŵr Bonheddig," ond wedi iddo ef gael ei ladd, yr oedd yr hen ŵr wedi methu rhoi ei law ar neb a allai ei yrru i Glynog. Bechgyn direidus oeddym oll, a dim mwy o bregethu ynom nag sydd mewn llo.¹⁴⁶

Dyma enghraifft o dôn diymhongar yr awdur; nid oes rhamantiaeth na sentimentaliaeth hyd yn oed wrth gyfeirio at farwolaeth gŵr yn y chwarel. Awgrymir yma fod dyn duwiol fel Huw Huws yn eithriad ymysg 'bechgyn direidus' y chwarel, awgrym sy'n mynd yn groes i'r portread confensiynol a geir yng ngweddill llenyddiaeth y bröydd chwarelyddol.

Mae straeon Dic Tryfan yn portreadu chwarelwyr fel dynion cyffredin, heb ddelfrydu eu diwylliant na'u cymdeithas, nac ychwaith eu pardduo. Mae cymeriadau fel Harri Trwyn Cam yn 'Plentyn y Diafol' yn cael eu cyflwyno gyda chydymdeimlad gan yr adroddwr sy'n cyhoeddi fod y chwarel yn 'lle ofnadwy i fachgen gyda llygaid croes, traed mawr, neu drwyn cam.'¹⁴⁷ Mae Harri Trwyn Cam yn nodweddiadol o'r hyn a oedd yn cael ei ystyried yn ddrwg gan gymdeithas chwarelyddol y cyfnod: 'pan dyfodd yn ddyn, dechreuodd Harri yfed

¹⁴⁵ Menna Baines, *Yng Ngolau'r Lleuad* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2005), t. 121.

¹⁴⁶ Richard Hughes Williams, 'Y Prydydd Llwyd' yn *Straeon y Chwarel* (Caernarfon: Cwmni y Cyhoeddwr Cymraeg, 1914), t. 57.

¹⁴⁷ 'Plentyn y Diafol,' t. 26.

cwrw, ac yn lle gweithio, treuliai ei amser yn nhafarnau y dref.¹⁴⁸ Ond yn wahanol i weithiau awduron diweddarach fel T. Rowland Hughes ac Eigra Lewis Roberts, mae Dic Tryfan yn archwilio'r tir canol rhwng da a drwg ac yn gweld gobaith yn 'Plentyn y Diafol.'

Yn 'Yr Hogyn Drwg' ceir hanes Harri Huws, chwarelwr meddw sy'n gwario ei holl enillion yn y dafarn:

Pan ddeffry dyn o gwsg meddw ar ochr y ffordd, cyn i'r byd ddiuno, â yn naturiol i'r lle a gâr fwyaf. A nefoedd i Harri Huws oedd y lefel yng ngwaelod chwarel y coed.¹⁴⁹

Mae gan Dic Tryfan dôn eithaf hamddenol er ei fod yn disgrifio pwnc a fyddai'n ddadleuol ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf. Sylwer hefyd ar y ffordd y mae'r awdur yn cyfleu cariad y chwarelwr at ei waith, safbwynt nad yw'n aml yn cael ei fynegi. Mae'r portread o Harri yn herio portreadau diweddarach o chwarelwyr oherwydd mae 'pechadur mwyaf yn y chwarel'¹⁵⁰ yn ei aberthu ei hun er mwyn achub ei bartner. Dyma gymeriad ac iddo sawl dimensiwn, cymeriad a ystyrir yn ddrwg sy'n rhoi ei fywyd er mwyn achub dyn arall. Nid yw gweithiau llenyddol diweddarach y bröydd yn tueddu i roi cymaint o ddyfnder a datblygiad i'r cymeriadau, pwynt y byddaf yn ei archwilio ymhellach wrth edrych ar weithiau T. Rowland Hughes yn enwedig.

Ceir enghraifft yn 'Yr Hogyn Drwg' o'r gymdeithas yn rhamantu oblegid dywed yr adroddwr am aberth Harri: 'Ond pan anghofwyd ei feddwdod, cytunai pawb fod hynny yn union fel Harri.'¹⁵¹ Mae 'Yr Hogyn Drwg' yn troi'n ddyn da yn niwedd y stori ac yn pwysleisio arwriaeth y chwarelwyr. Yn wir, er bod Dic Tryfan yn darlunio Buchedd B y gymdeithas chwarelyddol, mae'n llwyddo i bwysleisio eu dewrder. Dyma ddarlun cytbwys o chwarelwyr fel unigolion yn hytrach na chynrychiolaeth o ddiwydiant cyfan. Gosododd Dic Tryfan sylfaen gadarn i ffuglen y bröydd chwarelyddol ac mae'n amlwg nad oedd yn gyfrifol am

¹⁴⁸ Ibid.

¹⁴⁹ 'Yr Hogyn Drwg,' t. 131.

¹⁵⁰ Ibid, t. 140.

¹⁵¹ Ibid.

wreiddiau'r portread confensiynol o chwarelwyr, er bod edmygedd amlwg at arwriaeth y gwŷr hyn.

Wrth i awduron fel Kate Roberts a T. Rowland Hughes ysgrifennu am y chwarelwyr gellir gweld dylanwad Dic Tryfan ar eu gwaith, nid yn unig wrth gyfleu arwriaeth y chwarelwyr ond hefyd yn nefnydd Kate Roberts o'r stori fer.¹⁵² Gweithiau Kate Roberts a T. Rowland Hughes yw'r llenyddiaeth enwocaf am y bröydd chwarelyddol, yn ôl Dafydd Glyn Jones:

Ac o holl awduron y cyfnod hwn, tebyg mai Kate Roberts yn ei straeon byrion a T. Rowland Hughes yn ei nofelau a wnaeth fwyaf i gyflwyno chwarelwyr Arfon, eu cymeriad a'u gwerthoedd ac ansawdd eu bywyd i Gymru gyfan.¹⁵³

Yng ngweithiau'r awduron hyn ceir sail i'r portread traddodiadol o chwarelwr. O ganlyniad, mae eu gweithiau yn bendant yn gyfrifol am sefydlu gwreiddiau'r myth.

Mae sawl beirniad llenyddol yn cyhuddo T. Rowland Hughes o fwydo myth y chwarelwr. Yn rhagymadrodd *Y Cychwyn*, dywed John Rowlands am y nofel honno:

[Dyma] gymeriadau pur o galon ac ambell un brith, eu hiwmor, eu diwylliant, eu dadleuon gwybodus a deallus, a'u harwriaeth dawel, ddigynnwrf. Bwydo'r myth o'r chwarelwr diwylliedig a wneir yn gyson gan ddelfrydu'r gymdeithas chwarelyddol.¹⁵⁴

Mae'r nofel yn llawn cyfeiriadau o'r fath at ddoniau areithio, barddoni, a phregethu'r cymeriadau. Yng ngweithiau eraill yr awdur hefyd mae pwyslais ar rinweddau a diwylliant y fro chwarelyddol. Dywed beirniad llenyddol arall, Menna Baines, mai 'yn nofelau T. Rowland Hughes y cawn y myth ar ei fwyaf amrwd; ac ef, fel un o nofelwyr mwyaf poblogaidd yr ugeinfed ganrif, a roddodd yr hwb mwyaf o ddigon i ddelwedd y chwarelwr da.'¹⁵⁵ Yn sicr, mae gwirionedd

¹⁵² Cafodd *O Gors y Bryniau* gan Kate Roberts ei gyflwyno er cof am Richard Hughes Williams: Kate Roberts, *O Gors y Bryniau* (Wreccsam: Hughes a'i Fab, 1925), t. 5.

¹⁵³ Dafydd Glyn Jones, *Atlas Sir Gaernarfon* (Caernarfon: Cyngor Gwlad Gwynedd, 1977), t. 182.

¹⁵⁴ John Rowlands, yn ei ragymadrodd i T. Rowland Hughes, *Y Cychwyn* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1994), tt. 10-11.

¹⁵⁵ Menna Baines, *Yng Ngolau'r Lleuad*, t. 122.

yn y datganiadau hyn. Gellir dadlau bod portread T. Rowland Hughes o'r chwarelwyr a'r gymdeithas chwarelyddol, nid yn unig yn bwydo myth y chwarelwr diwylliedig, ond yn ei greu.

O holl weithiau'r awdur, mae un cymeriad penodol yn ymgnawdoli'r chwarelwr da sef William Jones. Caiff ei gyflwyno i'r darllenwyr fel a ganlyn: 'Gŵr mwyn a thawel oedd William Jones, un iawn ei ffordd a selog yn y capel. Ni fyddai byth yn rhegi.'¹⁵⁶ Mae T. Rowland Hughes yn pwysleisio moesoldeb William Jones ac yn ei ddefnyddio fel cynrychiolydd gweithwyr y diwydiant llechi. Â'r naratif ymlaen i dywys y darlennydd i'r chwarel at ddynton diwylliedig a meddylgar eraill:

'Y drwg hefo ni'r chwarelwyr, Bob,' sylwodd William Jones ymhen tipyn, 'ydi ein bod ni'n rhy sobor a difrifol o lawar, fachgan. Ddim yn mwynhau bywyd fel y dyle' ni, wsti.'¹⁵⁷

Dyma enghraifft o T. Rowland Hughes yn sefydlu'r myth yn ei nofelau. Mae'n delfrydu'r chwarelwyr i'r fath raddau fel ei fod yn datgan bod gweithwyr diwydiant cyfan yn 'sobor a difrifol.' Er mwyn 'mwynhau ei fywyd' fel y dylai, mae William Jones yn symud i'r de ac at ddiwydiant arall yng Nghymru lle nad oes cymaint o ramantu gan yr awdur. Yn wir, mae *William Jones* yn feirniadol o'r ardal, gyda'r nofel yn portreadu cymeriadau na fyddai ddim yn cael eu crybwyll yn y gogledd.

Yn *Y Cychwyn*, nofel olaf T. Rowland Hughes, mae yna gydnabyddiaeth o Fuchedd B, ond dynion ar ymylon y gymdeithas ydyw'r rhain. Maent hwy naill ai wedi newid eu ffordd (fel tad Owen, y prif gymeriad) neu'n bechaduriaid sy'n cael eu barnu'n hallt gan y nofel. Dyma ddisgrifiad o dad Robert Ellis o safbwynt ei dad yng nghyfraith:

Onid oedd y llanc a'i dad Dafydd Ellis a bron pawb o'r teulu ffaidd yn nhir gwrthgiliad? Yr argian fawr, mab Dafydd Ellis y llofrudd, creadur a laddodd ei dad ei hun!¹⁵⁸

¹⁵⁶ T. Rowland Hughes, *William Jones* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1966), t. 8.

¹⁵⁷ Ibid, t. 45.

¹⁵⁸ T. Rowland Hughes, *Y Cychwyn*, t. 58.

Er nad yw hyn yn gwbl wir (datgela Owen mai damwain oedd marwolaeth tad Dafydd Ellis), mae'n enghraifft o'r gymdeithas yn llwyr bardduo y rhai a ystyrir yn 'ddrwg.' Yn yr un ffordd caiff y rhai 'da' eu dyrchafu. Er bod *Y Cychwyn* yn cyfeirio at ragrith y capelwyr, ac yn cyfleu dynion mor ddiegwyddor yw'r rhai a fynychai'r *Crown*, pwysleisir mai eithriadau'r gymdeithas ydynt. Daioni a dewrder syml y chwarelwyr yn wyneb pob brwydr sy'n cael ei fynegi gan T. Rowland Hughes: 'gorweddaid cysgod yr afiechyd a ymosododd yn araf ond ystyfnig ar y cawr o chwarelwr.'¹⁵⁹ Fel y mae John Rowlands yn ei amlygu yn rhagymadrodd y nofel, dyma bortread sy'n rhamantu'r chwarelwyr a'u cymdeithas fel un glòs, ddiwylliedig.

Nofel enwocaf yr awdur yw *Chwalfa*, nofel hanesyddol, wleidyddol am Streic Fawr y Penrhyn 1900-3 a'i heffaith ar y gymdeithas. Caiff y frwydr rhwng y bradwyr a'r streicwyr ei chyflwyno fel brwydr rhwng da a drwg; categorïau 'hanfodol simplistig,'¹⁶⁰ yn ôl Hywel Teifi Edwards sy'n dadlau bod effaith y streic yn fwy pwerus yn narlun Caradog Prichard o'r gymdeithas yn *Un Nos Ola Leuad*. Dilyn y streicwyr i'w cyfarfodydd y mae *Chwalfa*, nid y bradwyr tua'r chwarel. Mae sawl araith o'r cyfarfodydd yn cael eu hadrodd a'r rheini yn llawn cyfeiriadau Beiblaidd sydd yn gweld y streicwyr yn debyg i'r Iddewon yn yr anialwch. Mae'n gwbl amlwg o'r nofel hon gyda phwy y mae'r awdur yn ochri.

Mae Ifor, mab yng nghyfraith Edward Ifans, yn cael ei ddefnyddio fel cynrychiolydd o'r bradwyr. Mae'n gymeriad anfoesol, hunanol ac yn wrthbwynt i werthoedd cadarn Edward a gweddill y streicwyr. Mae John Rowlands yn disgrifio'r hyn y mae personoliaeth Ifor yn ei ddatgelu am agwedd yr awdur:

Fe ddadlennir tipyn am ffordd T. Rowland Hughes o edrych ar y sefyllfa yn y portread a rydd inni o Ifor, gŵr Megan. Mae hi bron yn anorfod o'r dechrau ei fod ef yn troi'n Fradwr. [...] Ac wrth gwrs roedd Ifor yn perthyn i griw'r Snowdon Arms, ac roedd y cwrw'n sicr o wanychu'i gyhyrau moesol ymhellach. O ran hynny roedd wedi'i dyngedu o'r groth i fod yn wahanol i deulu Edward Ifans – onid oedd yn fab i Letitia Davies, y ddynes fawreddog honno nad oedd gonestrwydd a didwylledd yn golygu dim iddi? Yn nhermau brwydr rhwng didwylledd a ffuantrwydd y gwelir y cyfan i gyd. Nodweddion personol arweinwyr y streic sy'n ennill

¹⁵⁹ T. Rowland Hughes, *Y Cychwyn*, t. 75.

¹⁶⁰ Hywel Teifi Edwards, *O'r Pentre Gwyn I Gwmderi* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2004), t. 186.

gwrogaeth T. Rowland Hughes. Eu hunplygrwydd di-lol sy'n rhoi iddynt eu dewrder moesol.¹⁶¹

Nid yw'n syndod ychwaith bod y cymeriad hwn yn anffyddlon i'w wraig. Fel y mae John Rowlands yn cyfeirio ato yn y dyfyniad hwn, mae cysylltiad amlwg rhwng y dafarn a dirywiad ym moesau'r cymeriadau. Dywed G. A. Jones: 'Tynnir llinell bendant rhwng aelodau'r gymdeithas barchus a'u cymdogion llai dymunol, ac ni cheir awgrym fod angen ailystyried y gwahanu haearnaidd hwnnw.'¹⁶² Yn groes i weithiau Dic Tryfan gyda phechaduriaid yn troi'n dda, nid oes dyfnder i'r cymeriadau yn *Chwalfa*. Gyda chymeriad mor annymunol yn cynrychioli'r bradwyr, gwahoddir y darllenwyr i ochri gydag Edward Ifans a'i gyfoedion.

Ond er bod Ifor ac Edward yn cael eu cyflwyno fel gwrthbwyntiau, mae'r 'unplygrwydd di-lol' hwnnw y cyfeiriodd John Rowlands ato yn datgelu gwendidau'r streicwyr. Mae mab Edward yn marw o ganlyniad i dlodi'r teulu yn ystod y streic, digwyddiad sy'n cael ei ddefnyddio i bwysleisio dioddefaint y streicwyr. Ond dyma wendid mawr y nofel yn ôl G. A. Jones, oherwydd wrth i Edward gysuro cymydog sydd am ddychwelyd i'r chwarel er mwyn achub ei ferch, dywed Edward y gwnâi yntau'r un peth. Gwyddom fod hyn yn gelwydd ac felly mae'r naratif yn datgelu cadernid barn eithafol y cymeriad. Mewn ffordd, felly, mae Edward Ifans wedi aberthu ei blentyn ei hun yn enw'r streic. Yn ôl G. A. Jones:

Profa hyn fod T. Rowland Hughes yn gwbl gyfrannog o feddylfryd y gymdeithas, ac mai anuniongyrchol, felly yw unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu gwendidau'r meddylfryd hwnnw – y darlennydd sy'n eu gweld ac yn eu dehongli drosto'i hun yn hytrach na'r awdur. Gall T. Rowland Hughes, fel Edward Ifans, drugarhau wrth John, ond nid yw'n credu am funud fod yma ddim dewrder. Edward Ifans sy'n ddewr, ac arno ef y mae prif ffocws y nofelydd hyd yn oed yn yr episod hwn.¹⁶³

¹⁶¹ John Rowlands, 'T. Rowland Hughes', *Ysgrifau ar y Nofel* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1992), t. 125.

¹⁶² G. A. Jones, *Y Gymdeithas Chwarelyddol yng Ngwaith Kate Roberts a T. Rowland Hughes*, M.Phil (Aberystwyth: Prifysgol Aberystwyth, 2000), t. 189.

¹⁶³ *Ibid*, t. 121.

Yma mae Edward yn mynd yn groes i werthoedd gweddill y gymdeithas a thrwy hynny yn colli ei statws fel cynrychiolydd streicwyr y nofel. Pe buasai hyn yn ymgais fwriadol i ddatgelu eithafon Edward ac yn enghraifft o ochr dywyll dyn da, buasai'n olygfa lawer mwy effeithiol. Ond cytunaf gyda G. A. Jones mai anfwriadol yw unrhyw awgrym o wendidau'r streicwyr.

Mae llwyrfryd y streicwyr yn ennyn edmygedd T. Rowland Hughes a chawn ei sentimentalïaeth yn ei holl anterth yn *Chwalfa*:

Yr ydw i'n caru'r hen ardal 'ma,' meddai, "i phobol, 'i phentrefi, 'i llechwedda, 'i mynyddoedd, 'i holl hanas hi. Mae hi wedi magu dynion o gymeriad ac egwyddor, gwŷr cadarn fel y graig.¹⁶⁴

Dyma ddyfyniad sy'n adlewyrchu'r portread a geir o fro chwarelyddol yn *Chwalfa*. Mae rhinweddau'r ardal a'i chymdeithas yn cael ei phwysleisio'n gyson gyda chymeriadau fel Ifor yn cael eu portreadu fel eithriadau mewn ardal sydd fel arall yn egwyddorol a chadarn. Mae T. Emrys Parry yn dadlau bod y rhamantiaeth hon yn hanu o'r ffaith bod ei nofelau yn deyrnged i'w fro enedigol:

Teyrnged i gymdeithas bro ei febyd a dehongliad cynnes a sensitif o'i gwedd cyfoethog hi yw ei nofelau. Mewn canlyniad, nid ar greu a datblygu cymeriad unigol yn gyflawn, gan ddangos ei holl gymhlethdodau a'i anghysondebau, y mae ei fryd. Yn hytrach, creu nifer helaeth o gymeriadau na cheisir treiddio i adnabyddiaeth ddofn ohonynt a wna. Yn y modd yma mae'n darlunio bywyd cyffredin, ond diddorol ac amrywiol, ei gymdeithas.¹⁶⁵

Mae'n wir nad yw T. Rowland Hughes yn archwilio cymhlethdodau ac anghysondebau'r natur ddynol, ond nid wyf yn credu ei fod yn llwyddiannus yn darlunio bywyd cyffredin ei fro o ganlyniad. Trwy osgoi archwilio ffaeleddau'r gymdeithas a'r cymeriadau, portread un dimensiwn a geir. Mae nofelau'r awdur felly'n ddarlun unochrog o'r chwarelwyr a'u cymdeithas.

Ond wedi dweud hyn, mae *O Law i Law* yn wahanol i'w nofelau eraill oherwydd mae gan T. Rowland Hughes agwedd lawer mwy chwareus at

¹⁶⁴ T. Rowland Hughes, *Chwalfa* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1993), t. 47.

¹⁶⁵ T. Emrys Parry, 'T. Rowland Hughes (1903-1949)' yn *Ysgrifau Beirniadol, I*, gol. J. E. Caerwyn Williams (Dinbych: Gwasg Gee, 1971), t. 36.

bechaduriaid y bröydd chwarelyddol. Mae'n defnyddio cymeriadau Buchedd B i fritho'r straeon gyda hiwmor: 'Ni welais mohono erioed yn feddw- nid oedd ganddo ddigon o arian i hynny; ac ni welais mohono erioed yn hollol sobor.'¹⁶⁶ Mae *O Law i Law* yn llawer mwy parod i gyfeirio at yfwyr, tlodion a dynion nad ydynt yn mynychu'r capel nag unrhyw un o weithiau eraill yr awdur. Yn 'Yr Harmonium' mae'r prif gymeriad yn ysgrifennydd i'r Eglwys ac yn gapelwr selog a phan aiff at y barbwr, William Preis, mae hwnnw'n wastad yn sgwrsio am faterion crefyddol er nad yw'n gwybod rhyw lawer am y pwnc. Mae ei gyfeillion yn tynnu ei goes:

Edrychodd William Preis fel petai'r gair 'peint' yn un go ddiethr iddo, ac yna, wedi i'w ystyr wawrio ar ei feddwl, dechreuodd gecian chwerthin a wincian arnaf i awgrymu bod y cyfeillion ysmala hyn yn tynnu ei goes. Gwyddwn innau fod y cymdeithion diddan yn aros iddo gau'r siop cyn mynd ag ef am 'un bach' i'r *Red Lion*.¹⁶⁷

Er bod cymeriadau fel William Preis ar gyrion y nofel, maent yn cael llawer mwy o gydnabyddiaeth nag yn nofelau eraill yr awdur. *O Law i Law* oedd nofel gyntaf T. Rowland Hughes, os 'nofel' yw'r gwir ddisgrifiad, oherwydd mae wedi cael ei gosod fel cyfres o straeon byrion. Ai dylanwad Dic Tryfan yw'r cyfeiriadau at gymeriadau ffraeth sy'n yfed ac yn ei ddefnydd o ffurf y stori fer? Os hynny, mae'n sicr yn ddylanwad llawer cryfach nag ar weithiau diweddarach yr awdur.

Mae Kate Roberts hefyd, wrth gwrs, yn bwysig wrth gyflwyno bywyd y chwarelwyr i weddill Cymru a rhinweddau'r fro sy'n cael eu pwysleisio yn ei gweithiau hithau. Ysgrifennodd Dafydd Johnston am y ffordd yr oedd Kate Roberts yn cael ei hysbrydoli gan ei hardal, ond wrth ysgrifennu roedd yn addasu ffeithiau am y bobl y seiliwyd ei chymeriadau arnynt i wneud iddynt gydymffurfio'n well gyda gwerthoedd yr oes. Daw Johnston i'r canlyniad felly bod ei gweithiau yn 'fwy confensiynol na'r realiti y [mae'n] honni ei chynrychioli.'¹⁶⁸ Yn debyg felly i nofelau T. Rowland Hughes, mae llenyddiaeth

¹⁶⁶ T. Rowland Hughes, 'Y Lliain' yn *O Law i Law* (Aberystwyth: The Castle Press, 1944), t. 130.

¹⁶⁷ T. Rowland Hughes, 'Yr Harmonium' yn *O Law i Law*, t. 35.

¹⁶⁸ Dafydd Johnston, 'Dwy Lenyddiaeth Cymru yn y Tridegau,' *Sglefrio ar Eiriau* gol. John Rowlands (Llandysul: Gwasg Gomer, 1992), t. 46.

Kate Roberts yn ystumio'r bröydd chwarelyddol er mwyn darlunio cymdeithas ddelfrydol sy'n cydymffurfio â myth y chwarelwr.

Wrth ymateb i ddamcaniaeth Dafydd Johnston am weithiau Kate Roberts, dywed G. A. Jones:

Nid oes fawr o ryfedd, felly, fod nifer o feirniaid yn ystyried mai teipiau cynrychioladol yn hytrach na chymeriadau crwn sy'n britho tudalennau'r cyfrolau cynnar, a gedy hyn yr argraff gyffreinol ei bod hithau, fel T. Rowland Hughes, yn ymostwng i'r myth traddodiadol ynghylch y gymdeithas chwarelyddol fucheddol. Ceir ganddi gymeriad ar ôl cymeriad sy'n perthyn i stoc y chwarelwr rhinweddol a'r fam ddiwyd, ymdrechgar, a bron na fyddai'n gabledd i feiddio amau'r gwirionedd na all dim da ddyfod o'r 'dref.' Gall ddarlunio gwerin Buchedd B yn un o gymoedd diwydiannol de Cymru gyda mesur o gydymdeimlad, ond nid felly'r gymdeithas a seiliwyd ar Rosgadfan ei phlentyndod.¹⁶⁹

Yn sicr, mae pwyslais yng ngweithau'r ddau awdur ar rinweddau'r bröydd chwarelyddol. Darlunnir y gymdeithas ganddynt yn ôl gwerthoedd Cymru Fictoraidd, Gristnogol. Mae'r cymeriadau sy'n tynnu'n groes i gonfensiwn yn cael eu cyflwyno fel eithriadau'r gymdeithas ac yn ymddangos ar gyrion y gweithiau'n unig. Dyma wraidd myth y chwarelwr yn cael ei sefydlu a'i atgyfnerthu gan yr awduron hyn.

Er mwyn edmygu dewrder y chwarelwyr yn wyneb anghyfiawnderau, mae'n rhaid portreadu eu dioddefaint. Y nofel sydd yn cyfleu'r anobaith gryfaf yw *Traed Mewn Cyffion*:

'Rydw i'n licio bod yn y tŷ,' meddai Owen, 'ond am yr ardal, dyma iti bictiwr o anobaith. Pwy 'rioed feddyliodd am ddechrau codi tŷ mewn lle fel hyn?'¹⁷⁰

Mae'r ardal yn cael ei phortreadu fel man lle mae anobaith yn ffynnu, rhywle llawn rhwystrau a gormes. Fel petai'n ateb cwestiwn Owen, caiff y chwarel ei defnyddio fel symbol o'r dioddefaint:

¹⁶⁹ G. A. Jones, *Y Gymdeithas Chwarelyddol yng Ngwaith Kate Roberts a T. Rowland Hughes*, t. 193.

¹⁷⁰ Kate Roberts, *Traed Mewn Cyffion* (Abertawe: C. E. Watkins Cyf, 1971), t. 140.

Troes ei olygon at domen y chwarel. Heno nid oedd ond clwt du ar ochr y mynydd. Yr un bobl a oedd yn gyfrifol am godi tyddynnod ar fawndir oedd yn gyfrifol am domen y chwarel hefyd. Rhwng y ddau yma y bu'r pentrefwyr am gan mlynedd yn gweithio'n hwyr ac yn fore, nes mynd a'u pennau at lawr cyn bod yn ganol oed.¹⁷¹

Mae'r chwarel yng nghefnidir y nofel ac yn cael ei phortreadu fel rhan fygythiol o'r dirwedd gorsiog. Fel yr awgryma'r dyfyniad uchod, mae bywydau'r trigolion yn troi o amgylch y chwarel. Mae Gruffydd a William yn gweithio yno ac yn wynebu casineb y stiward a diymadferthedd y chwarelwyr eraill sy'n gwrthod ymuno gyda'r Undeb a mynnu gwell hawliau.

Yn wir, mae cysylltiad amlwg yn *Traed Mewn Cyffion* rhwng dioddefaint y cymeriadau a'r chwarel. Maent wedi gorfod dygymod gyda'r bygythiad parhaus o farwolaeth a dioddef gormes perchennog creulon. Ond yn ddiweddarach yn y nofel, mae bygythiad y rhyfel yn thema sy'n datblygu ac yn gwaethygu'r anghyfiawnderau:

Dioddefasant gamwri ac anghyfiawnder yn y chwareli; gormes meistr a pherchennog, gormes ffafriaeth a llwgrwobrwyo. Gwelsant ladd eu cyfeillion a'u plant wrth eu gwaith, ond ni welsant erioed fyned â'u plant oddi wrthynt i'w lladd mewn rhyfel. Ceisient esbonio'r peth ym mhob dull a modd yn yr Ysgol Sul yn awr, gan nad oedd gaban chwarel i ddadlau ynddo.¹⁷²

Gyda dyfodiad y Rhyfel Byd Cyntaf, caiff yr anghyfiawnderau y mae'r bröydd chwarelyddol wedi brwydro yn eu herbyn ers cenhedlaethau lawer eu cynyddu. Dyma fygythiad newydd sy'n lladd dynion y fro ar raddfa lawer mwy. Sylwer hefyd fod diwylliant y caban wedi dirywio yng nghysgod y rhyfel. Dyma fygythiad newydd sy'n difa unrhyw obaith a oedd yn tywynnu trwy gyfrwng diwylliant neu agosatrwydd y gymdeithas.

Ond er gwaethaf bygythiad y rhyfel i ddiwylliant y fro, mae'r nofel yn dathlu diwylliant Cymraeg yn ddiamwys. Mae Owen yn llwyddiannus yng nghystadlaethau'r ysgol a'r eisteddfod. Mae cyfeiriadau at y cyfarfodydd llenyddol a phwysigrwydd addysg yn cael eu hadleisio trwy'r nofel. Ac er mor

¹⁷¹ Ibid, tt. 189- 190.

¹⁷² Ibid, t. 173.

dywyll yr amgylchiadau, mae'r gymdeithas yn parhau i flodeuo: 'Dyma'r gymdeithas berffeithiaf a adnabu Owen trwy ei oes.'¹⁷³ Mae Twm yn ysgrifennu barddoniaeth ac yn ennill y wobr gyntaf yn yr eisteddfod leol. Trwy'r gamp hon, daw Twm i gynrychioli cyfoeth llenyddol y fro. Try Twm o fod yn symbol o obaith i'r gwrthwyneb pan ddaw'r newydd ei fod wedi cael ei ladd yn y rhyfel. Dyma bwyslais pellach yn y nofel ar ddiodeffaint ac effaith drychinebus y rhyfel ar y gymdeithas a'i diwylliant.

Mae *Te yn y Grug* yn stori am gydymffurfiaeth mewn bro chwarelyddol ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf. Defnyddir Winni Ffinni Hadog fel ymgnawdoliad o unigolyn sy'n gwrthod plygu i'r drefn ac ymddwyn yn ôl disgwyliadau'r gymdeithas. Mae hi'n ferch wyllt, flêr sy'n rhegi ac yn lleisio ei barn am ragrith y capelwyr a phobl ffug-barchus y gymdeithas. Daw Elin Gruffydd yn symbol o ochr oddefgar y gymdogaeth wrth iddi gydymdeimlo â Winni a'i helpu i ganfod gwaith. Mae cydymdeimlad amlwg tuag at Winni ond nid yw'r naratif yn caniatáu iddi leisio gwirioneddau am y gymdeithas ac erbyn diwedd y stori fer hon mae Winni wedi ei thrawsnewid. Mae Kate Roberts, trwy Elin Gruffydd, yn gwyngalchu Winni ac yn tawelu ei chymeriad mwyaf diddorol a heriol: "Cofiwch chi Winni, am dreio peidio ag ateb eich mistras yn ôl," ebe Elin Gruffydd.¹⁷⁴ Erbyn *Haul a Drycin* mae Winni wedi cael ei rheoli'n llwyr ac mae'r wrthryfelwraig wedi ei thawelu. Trwy hynny, nid oes perygl datgelu gwirioneddau tywyll am y gymdeithas chwarelyddol y mae Kate Roberts yn ei dyrchafu.

Yn ei hunangofiant, *Y Lôn Wen*, mae Kate Roberts yn datgelu rhywbeth a all fod yn hynod ddadlennol o ystyried bod yr un peth yn wir am ei gweithiau creadigol:

A ddywedais i'r gwir? Naddo. Fe'm cysurais fy hun ei bod yn amhosibl dweud y gwir mewn hunangofiant. Gadewais y pethau anhyfryd allan. Yr oedd yn fy hen ardal bethau cas, yr oedd yno bethau drwg, yr oedd yno bobl annymunol. Ond petaswn i'n sôn amdanynt fe fyddai eu teuluoedd am fy ngwaed, ac fe'm cawn fy hun mewn llys barn. Ymatelais am fod arnaf ofn. Ofn yw ein gelyn mwyaf, yn ifanc ac yn hen.¹⁷⁵

¹⁷³ Ibid, t. 65.

¹⁷⁴ Kate Roberts, *Te yn y Grug: Cyfrol o Storiâu Byrion* (Dinbych: Gwasg Gee, 1959), t. 83.

¹⁷⁵ Kate Roberts, *Y Lôn Wen* (Dinbych: Gwasg Gee, 1973), tt. 117-8.

Ceir awgrym yn y dyfyniad hwn o rwystredigaeth Kate Roberts nad oedd ei phortread o Rosgadfan yn gwbl wir. Er mai trafod ei hunangofiant y mae'r awdures yma, nid yw'n afresymol ystyried bod yr un peth yn wir am ei ffuglen. Ymddengys fod Kate Roberts yn ymwybodol erbyn cyhoeddi *Y Lôn Wen* yn 1973 o oblygiadau ei darlun dethol o'r gymdeithas chwarelyddol. Efallai mai'r ofn y mae hi'n ei ddisgrifio a'i rhwystrodd rhag rhoi llais i Winni Ffinni Hadog ac a'i gorfododd i sefydlu ac atgyfnerthu myth y chwarelwr.

Erbyn 1972, gyda'r mwyafrif o'r chwareli wedi cau a diwydiant llechi Rhosgadfan wedi dod i ben, mae agwedd lawer tywyllach yn ymddangos yn straeon Kate Roberts. Caiff yr hyn sy'n weddill o'r gymdeithas y mae hi wedi ei dyrchafu yn ei llenyddiaeth ei danseilio yn *Gobaith a Storiâu Eraill*:

Wedi mynd i'r ffordd gwelodd griw o labystiaid o hogiau efo gwalltiau hir budr yn dyfod, yr un fath â'r hogiau ysgol a'i rhegodd. Cerddodd cyn neses ag y medrai i'r clawdd, eithr daethant hwythau yn nes i'r clawdd, a meddai un ohonynt:

'Gwthiwch hi i'r wal i'r diawl, does dim eisio i beth hen fel hyn gael byw.'¹⁷⁶

Mae 'Dychwelyd' yn stori am hen wraig sy'n dod yn ôl i'w hardal enedigol ac yn gweld dirywiad ym mhobman: 'Ar hynny, dechreuasant weiddi'r iaith futraf a glywsai erioed, iaith ry fudr i'w hailadrodd.'¹⁷⁷ Yr un yw'r ardal a'r gymdeithas sy'n cael eu portreadu yma ac yn *Traed Mewn Cyffion* a *Te yn y Grug*, ond mae yma estroniaid a chenhedlaeth newydd, anfoesol a chreulon.

Mae'r portread a geir yn 'Dychwelyd' felly'n ymateb i gau'r chwarel mewn ffordd negyddol. Defnyddir y dirwedd i bwysleisio'r dirywiad ymhellach:

Yr oedd y rhan fwyaf o'r tai wedi mynd a ffatri fawr yn sefyll yng nghanol y cwm. [...] Nid oedd sŵn llwyth yn disgyn oddi ar ben y domen. Edrychai'r crawiau'n hen, fel petaent wedi eu taflu yno ers blynyddoedd, yn glynu yn ei gilydd. Yr oedd yno ychydig blanhigion o redyn mynydd yn edrych yn fwy unig nag erioed.¹⁷⁸

¹⁷⁶ Kate Roberts, 'Dychwelyd' yn *Gobaith a Storiâu Eraill* (Dinbych: Gwasg Gee, 1982), tt. 91-92.

¹⁷⁷ Ibid, t. 88.

¹⁷⁸ Ibid, t. 91.

Dyma gyfeiriad pendant at gyfnod ôl-ddiwydiannol y diwydiant llechi. Mae'n ddiddorol bod nofelau fel *Traed Mewn Cyffion* yn awgrymu bod cysylltiad rhwng dioddefaint y fro a'r chwarel, tra mae 'Dychwelyd' (1972) yn awgrymu bod cysylltiad rhwng cau'r chwarel a'r dirywiad yn y gymdeithas. Mae'r pentref yn llawn ysbrydion bellach; mae'r wraig yn mynd i dŷ cymydog i ddarganfod taw Saeson sy'n byw yno, ac mae ei chartref ei hun yn llawn atgofion ac ysbrydion llythrennol ei rhieni. Mae tŷ dywyll iawn i'r gyfrol hon, gyda'r fflam gymdeithasol sy'n rhedeg trwy weithiau Kate Roberts fel petai wedi ei diffodd.

Y nofel enwocaf i danseilio myth y chwarelwyr a phortreadu dirywiad y bröydd chwarelyddol yw *Un Nos Ola Leuad* gan Caradog Prichard. Mae'r nofel hon yn portreadu Buchedd B ac, fel gweithiau Dic Tryfan, yn gosod y garfan honno yng nghanol y naratif. Mae *Un Nos Ola Leuad* yn bortread chwyldroadol o'r bröydd chwarelyddol ac yn herio'r confensiynau a sefydlwyd yng ngweithiau Kate Roberts a T. Rowland Hughes. Mae'r nofel yn archwilio themâu tywyll fel gwallgofrwydd, awgrymiadau o losgach, alcoholiaeth, hunanladdiadau, pedoffilia, trais a llofruddiaeth. Mae'r themâu hyn yn llifo trwy'r nofel ac yn cael eu crybwyll yn ddirnadar weithiau. Clyw'r bachgen fod 'Yncl Now Moi wedi crogi'i hun yn y tŷ bach, a bod nhw wedi mynd a Jini Bach Pen Cae a Catrin Jên Lôn Isa i'r Seilam. Mae na leuad llawn heno.'¹⁷⁹ Yn *Un Nos Ola Leuad*, mae'r portread confensiynol o fro chwarelyddol yn cael ei droi wyneb i waered.

O ystyried y modd y portreadwyd y bröydd chwarelyddol yn llenyddiaeth Kate Roberts a T. Rowland Hughes, gellir dirnad mor herfeddiol oedd *Un Nos Ola Leuad* yn y cyfnod. Mae G. A. Jones yn datgan bod Caradog Prichard yn rhoi llais i ran o'r gymdeithas a gafodd ei hanwybyddu gan awduron blaenorol:

Llais yr 'Arall' sy'n ei fynegi ei hun yn *Un Nos Ola Leuad*, llais y ceisiodd y prif draddodiad ei fygu a gwadu ei fodolaeth, ac y bu'n rhaid iddo ymwrthod â'r confensiwn naturiolaid i gael ei glywed o gwbl.¹⁸⁰

¹⁷⁹ Caradog Prichard, *Un Nos Ola Leuad* (Dinbych: Gwasg Gee, 1973), t. 18.

¹⁸⁰ G. A. Jones, *Y Gymdeithas Chwarelyddol yng Ngwaith Kate Roberts a T. Rowland Hughes*, t. 196.

Wrth fabwysiadu technegau modernaidd, mae Prichard yn ennill rhyddid i ymbellhau hyd yn oed yn fwy oddi wrth draddodiadau llenyddol y bröydd. Mae'r nofel hon yn archwilio'r hyn sydd ar goll yng ngweithiau Kate Roberts a T. Rowland Hughes, cydnabyddiaeth nad yw pawb o fewn y gymdeithas yn cydymffurfio â phatrymau cymdeithasol yr oes. Trwy gynnig portread o Fuchedd B mewn bro chwarelyddol, mae Prichard yn llenwi'r bwlch a adawyd yng ngweithau'r awduron hyn wrth iddynt bwysleisio rhinweddau'r fro a'i chymdeithas.

Mae Menna Baines yn ysgrifennu am y cymhelliant y tu ôl i'r portread a geir yn *Un Nos Ola Leuad*:

A dichon mai parodrwydd yr awdur i gydnabod cymhlethdod a dryswch y natur ddynol, yn hytrach nag unrhyw awydd penodol i ddadfythu ei fro a'i phobl, sy'n pennu natur y darlun a gyflwynir ganddo. Eto, nid yw hynny'n golygu nad oes rywfaint o awydd i unioni cam yn rhan o'r cyfan.¹⁸¹

Roedd gweithiau Roberts a Hughes yn portreadu'r chwarelwyr fel cynrychiolwyr cymdeithas ddelfrydol yn hytrach nag unigolion. Wrth fynd ati i archwilio'r natur ddynol mewn bro chwarelyddol roedd Prichard felly, boed yn fwriadol neu beidio, yn dadfythu'r fro. Wrth gwrs, mae'r gwahaniaethau yn y portreadau a geir yng ngweithiau'r awduron hyn wedi eu hastudio gan sawl beirniad llenyddol. Byddaf felly'n hytrach yn archwilio'r hyn sy'n gyffredin yn eu llenyddiaeth.

Mae'n ddiddorol cwestiynu faint o ddadfythu sydd yn *Un Nos Ola Leuad* mewn gwirionedd. Yn sicr mae Caradog Prichard yn darlunio'r fro a'r gymdeithas mewn golau newydd ond o ran y chwarelwyr eu hunain, mae'n syndod eu bod yn parhau i fod yn greaduriaid mor fythol ag erioed. Mae Prichard yn cyflwyno moesoldeb y chwarelwyr yn gynnar yn y nofel. Yn yr olygfa pan mae Catrin Jên Lôn Isa yn cael ei hel o'i chartref am beidio a thalu rhent, mae'r chwarelwyr yn canfod tŷ newydd iddi ac yn cario'i dodfren: 'Pan ddeuthom ni at Llidiart Meirch, pwy oedd yn Lôn Isa ond criw o hogia Chwaral yn sefyll o gwmpas dodrafn Catrin Jên...'¹⁸² Defnyddir y chwarelwyr fel symbol o

¹⁸¹ Menna Baines, *Yng Ngolau'r Lleuad*, t. 124.

¹⁸² Caradog Prichard, *Un Nos Ola Leuad*, t. 13.

gymdeithas ddelfrydol ac o frawdoliaeth mewn gweithiau blaenorol ac mae'n ddiddorol cwestiynu a yw Prichard yn parhau gyda'r portread hwnnw ynteu'n chwarae gyda'r confensiwn â thafod ym moch?

Beth bynnag yw cymhelliant yr awdur, mae'r chwarelwyr yn cael eu dyrchafu trwy'r nofel:

Mae yna lot o ddynion da'n gweithio'n Chwarael. Dynion run fath â Defi Difas.

Oes. A rhai run fath â Wil Colar Startsh.

Ia, ond dyn duwiol ydi hwnnw. Cael diwygiad ddaru o.¹⁸³

Trwy wahaniaethu rhwng dynion da a dynion duwiol, mae'r bachgen yn cryfhau'r tueddiad yn llenyddiaeth y bröydd chwarelyddol i ddosbarthu dynion yn dda, yn ddrwg neu'n rhai sydd wedi cael troedigaeth. Mae'r dyfyniad hefyd yn cyfleu nad yw portread *Un Nos Ola Leuad* o chwarelwyr mor chwyldroadol ag yr ymddengys ar y wyneb. Maent yn dreisgar yn yr olygfa ble caiff Em ei guro yn y stryd am dreisio Jini Bach Pen Cae. Ond er y defnydd o drais, cânt eu portreadu yma fel gwarchodwyr moesau'r fro.

Mae Elis Ifas Drws Nesa yn ymgorfforiad o'r chwarelwr diwylliedig. Dywed ei wraig: 'Dyna'r peth cynta fydd Elis acw'n neud ar ôl Swpar Chwarael bob nos Lun, mynd i eistadd yn y gadar wrth y ffenast a rhoid ei sbectol i ddarllan.'¹⁸⁴ Dyma fyth y chwarelwr yn cael ei gadarnhau mewn nofel sydd yn ymdrin â ffaeleddau'r gymdeithas. Yn yr un ffordd ag y mae nofelau Kate Roberts a T. Rowland Hughes yn cydnabod unigolion sy'n perthyn i Fuchedd B, dynion diwylliedig fel Elis Ifas yw eithriadau'r gymdeithas a ddarlunnir gan Caradog Prichard. Dywed Menna Baines:

Byddai'r awdur, heb amheuaeth, yn ymwybodol hefyd o'r confensiynau llenyddol a'r mythau: y traddodiad o ysgrifennu bro, myth y chwarelwr egwyddorol.¹⁸⁵

¹⁸³ Ibid, t. 130.

¹⁸⁴ Ibid, t. 52.

¹⁸⁵ Menna Baines, *Yng Ngolau'r Lleuad*, t. 138.

Mae cymeriad Elis Ifas yn dilyn confensiynau llenyddol y bröydd chwarelyddol ac yn ymgorfforiad o fyth y chwarelwr diwylliedig. Ai cyfeiriad dychanol at y myth ydyw felly? Ynteu ymgais i roi darlun mwy cytbwys o'r fro trwy gydnabod Buchedd A?

Nid yw pob chwarelwr yn y gymdeithas hon yn ddiwylliedig. Defnyddir Yncl Wil ac Em Brawd Bach Now fel rhai sy'n cynrychioli chwarelwyr anfoesol. Cânt eu hel o'r chwarel am feddwi a pheidio â gweithio. Awgryma hyn felly mai cynrychioli agwedd arall o'r gymdeithas y mae Elis Ifas a'r chwarelwyr 'da', chwedl y bachgen. Ond wedi dweud hyn, mae'r ffaith bod y chwarelwyr 'drwg' yn cael eu hel o'r chwarel efallai'n cryfhau'r ddelwedd o'r chwarel fel canolfan foesol, egwyddorol y pentref.

Gydag Elis Ifas yn ffigwr mor ddibynadwy a deallus, pam mae'r bachgen mor chwyrn yn erbyn mynd i weithio gydag ef? Mae'n datgan: 'Oeddwn i wedi penderfynu nad awn i byth i'r hen Chwaraal gythral yna hefo Elis Ifas Drws Nesa.'¹⁸⁶ Gyda sawl cyfeiriad trwy'r nofel at Gruffydd Ifas Braich a gafodd ei ladd yn y chwarel, mae'n debyg mai ofn gorfod wynebu'r un ffawd sydd gan y bachgen. Efallai hefyd ei fod yn gwrthwynebu gorfod 'plygu i'r drefn',¹⁸⁷ fel y mae Elis Ifas yn ei annog i wneud. Mae'r chwarel yn symbol trwy'r nofel o ddisgwyliadau'r gymdeithas am ddyfodol y plant. Ond mae'r bachgen yn breuddwydio am gael bywyd anturus ar y môr. Dywed Menna Baines:

Mae Wmffra ac Elis Ifas yn cynrychioli dau eithaf: y llongwr di-ddal ar y naill law yn sefyll dros ryddid a chyffro'r byd ehangach, a'r chwarelwr solat fel petai'n ymgorfforiad o gaethiwed llethol bywyd y Pentra.¹⁸⁸

Mae'r chwarel yn fygythiad parhaus yng nghefnidir y nofel. Mae fel petai'r plant wedi eu tynghedu i dreulio gweddill eu hoes yn y chwarel. Erbyn diwedd y nofel, gyda'i nain eisiau iddo ddechrau yn y chwarel, mae'r bachgen yn mynd i eithafion er mwyn osgoi'r ffawd honno.

Mae *Un Nos Ola Leuad* hefyd yn debyg i *Te yn y Grug* a *Chwalfa* wrth i'r cymeriadau wrthod trafod aelodau pechadurus eu teuluoedd. Datgela'r bachgen

¹⁸⁶ Caradog Prichard, *Un Nos Ola Leuad*, t. 180.

¹⁸⁷ Ibid, t. 167.

¹⁸⁸ Menna Baines, *Yng Ngolau'r Lleuad*, t. 128.

hanes ei Yncl Wil: 'Ar ôl hynny mi aeth o'n dramp a fydda mam byth yn sôn amdano fo, a neb yn gwybod dim byd o'i hanas o.'¹⁸⁹ Awgrymir bod y bröydd felly yn gwrthod trafod ochr dywyll eu cymunedau, ac os felly, gellir dadlau bod portreadau T. Rowland Hughes a Kate Roberts yn adlewyrchiad o hyn. Mae hefyd yn ddiddorol nodi bod themâu cyffredin rhwng yr amryw weithiau hyn, er enghraifft rhagrith y capelwyr a'r gwrthdaro rhwng capelwyr ac eglwyswyr, yr anghyfiawnderau sy'n wynebu'r chwarelwyr, a'r bygythiad parhaus o gael damwain yn y chwarel i enwi dim ond ychydig.

Felly, mae llenyddiaeth y cyfnod diwydiannol yn sefydlu ac yn atgyfnerthu confensiynau llenyddol ynglŷn â sut i bortreadu ffigwr y chwarelwr. Er mor chwyldroadol yw portread Caradog Prichard o'r fro chwarelyddol, mae'r chwarelwyr yn parhau i gael eu darlunio fel dynion da, diwylliedig. Mae'r dynion anfoesol sy'n gweithio yn y chwarel yn cael eu hel oddi yno yn y nofel a'r chwarel yn cael ei hamddiffyn fel canolfan foesol y pentref, er mor anfoesol yw trigolion y pentref ei hun. Er nad yw Prichard yn rhamantu i'r un graddau â T. Rowland Hughes, mae'n canmol moesoldeb a brawdoliaeth y chwarelwyr, traddodiad sy'n ymddangos fel petai'n deillio o weithiau Hughes.

O gymeriadau amrywiol Dic Tryfan i arwyr diwylliannol T. Rowland Hughes, o gymeriadau Kate Roberts sy'n goroesi pob gormes i gymeriadau Caradog Prichard sy'n ildio o dan y pwysau, mae amrywiaeth eang yn y cyfnod hwn. Ond, o ran y chwarelwyr eu hunain, caiff myth ei sefydlu, ei atgyfnerthu, a'i dderbyn. Mae llenyddiaeth y cyfnod diwydiannol yn pwysleisio daioni'r arwyr hyn a oedd yn gyfrifol am greu cymunedau sydd yn parhau i gael eu dyrchafu hyd heddiw. Mae'r portreadau hyn yn sicr yn darlunio'r gweithwyr fel rhai sy'n well na'r gŵr cyffredin - yn chwarelwr, a gyda'r rhamant sydd bellach ynghlwm â'r teitl. Dyma, felly, gefndir ffuglen y bröydd chwarelyddol, a dyma'r sail i archwilio gweithiau'r cyfnod ôl-ddiwydiannol.

¹⁸⁹ Caradog Prichard, *Un Nos Ola Leuad*, t. 132.

ii) Ffuglen y Bröydd Chwarelyddol yn y Cyfnod Ôl-Ddiwydiannol.

Gyda dyfodiad y cyfnod ôl-ddiwydiannol yn yr 1970au, daeth cyfle i herio ac ailystyried y portread confensiynol gan lu o awduron o'r chwarelwr a'i fro. Bydd yr adran hon yn archwilio'r portreadau a geir o'r diwydiant llechi a'r bröydd chwarelyddol ers cau'r mwyafrif o chwareli ar ddiwedd yr 1960au.

Eigra Lewis Roberts

Mae Eigr Lewis Roberts yn un o awduron mwyaf cynhyrchiol Cymru. Cyhoeddodd ei nofel gyntaf yn ugain oed ac ers hynny mae hi wedi ysgrifennu dros ddeg ar hugain o lyfrau. Yn ogystal â nofelau, mae gan yr awdures sawl cyfrol o straeon byrion. Mae *Rhoi'r Byd yn ei Le* yn ddetholiad o'i straeon gorau ac yn glawr i'r casgliad mae llun o domen lechi uwchben tai ym Mlaenau Ffestiniog. Yn amlwg, caiff yr awdures ei chysylltu â'r tirlun sydd gymaint o ysbrydoliaeth iddi. Mae'r straeon byr sydd wedi eu lleoli mewn bröydd chwarelyddol yn cydfynd â'r portread a geir yn nofelau'r awdures ac felly bydd yr adran hon yn canolbwyntio ar y portread a geir o'r bröydd chwarelyddol mewn detholiad o nofelau gan Eigr Lewis Roberts.

Cyhoeddwyd *Tŷ ar y Graig* yn 1966, ar drothwy'r cyfnod ôl-ddiwydiannol. Mae'r nofel wedi ei lleoli mewn ardal chwarelyddol gydag olion y diwydiant llechi i'w gweld trwy ffenestri'r tŷ yn nheiti y nofel. Er bod chwareli'n parhau i gael eu gweithio, mae pwyllais ar ddirywiad y diwydiant a'r cynnydd mewn diweithdra. Defnyddir y chwarel a'r tomennydd llechi fel rhyw fath o *memento mori* trwy'r nofel wrth i'w presenoldeb bygythiol dra-arglwyddiaethu ar y tirlun. Stori ddial yw hon ac mae'r prif gymeriad, Enid, wedi dychwelyd i'w bro enedigol er mwyn talu'r pwyth yn ôl am farwolaeth ei thad.

Roedd tad Enid yn chwarelwr ac er nad yw'r naratif yn egluro'n union sut y bu farw, mae cyfeiriadau llawn atgasedd at lwch llechi trwy'r nofel. Mae Enid a'i hewythr yn dal y chwarel yn gyfrifol:

Yr un eiliad troesai'r ddau ohonynt eu pennau at Chwarel Fach. 'Honna ddaru'i ladd o,' meddai ef. Ac yr oedd hithau wedi meddwl yr un peth yn union.¹⁹⁰

I Enid, mae'r chwarel yn symbol o fro a chymdeithas sy'n fodlon aberthu ei dynion i ddiwydiant. Ers i'w thad farw mae Enid wedi osgoi ei chynefin a'r tomennydd llechi sydd, iddi hi, yn atgof o'i farwolaeth:

¹⁹⁰ Eigr Lewis Roberts, *Tŷ ar y Graig* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1966), t. 21.

Yr oedd y llenni yn agored a llond un paen o leuad. Diolchodd Enid na allai weld y tomennydd. Caeodd y llenni rhag digwydd i'r lleuad symud a'u dangos iddi.¹⁹¹

Yn gyferbyniad i agwedd Enid mae ei mam yn falch o gael gweld y chwarel ac yn ei weld fel ymgorfforiad o'i gŵr. Mae hi'n gwenu arno trwy'r ffenestri ac yn gwrthod ei adael. Mae hyn yn pwysleisio'r gwahaniaethau a'r diffyg dealltwriaeth rhwng y fam a'r ferch.

Mae ei mam yn falch o aberth ei thad, ond ym meddwl Enid, roedd ei thad yn rhy dda i golli ei fywyd yn y chwarel. Caiff hyn ei amlygu wrth iddi gofio diwrnod o'i phlentyndod gydag ef: 'Yr oedd yr haul ar ei wyneb a hithau yn ei weld yn dlws. Yn rhy dlws i fod yn chwarelwr.'¹⁹² Yn ddiweddarach mae hi'n datgan: 'Trannoeth uwchben ei frecwast yr oedd iddo wyneb chwarelwr.'¹⁹³ Mae'r cyferbyniad rhwng ei thad yn yr awyr agored a'i thad yn barod i fynd i'w waith yn awgrymu bod ei thad wedi gwastraffu ei fywyd yn y diwydiant llechi. Pwysleisia'r dyfyniad hefyd fod y chwarel yn lle hyll a chreulon yng ngolwg Enid.

Mae'n edifar ganddi fod ei thad wedi dod i'r ardal o gwbl ac yn edifar ei gwreiddiau ei hun:

Fe'i ganed hi i fam a oedd â chraig yn ei chalon ac i dad a oedd â llwch yn ei waed. Yr oedd ganddi nain a fagodd blant mewn caledi ac ymfalchïo'r plant i gyd yn eu brwydr. Ni welai ond tomennydd trwy ffenestr ei llofft. Na, nid oedd ganddi obaith o gwbl.¹⁹⁴

Mae Enid yn cysylltu'r ardal gydag anobaith ac yn ysu i ryddhau ei gwreiddiau o gymdeithas sy'n gaeth i ddiwydiant mor beryglus, diwydiant a laddodd ei thad. Mae'r cyfeiriad at galedi'r cenedlaethau hŷn a'r ffaith iddynt ymfalchïo yn eu brwydr yn ategu chwerwedd Enid tuag at yr ardal. Er bod rhai anghyfiawnderau wedi eu goresgyn, mae dynion yn parhau i gael eu lladd wrth weithio yn y chwareli.

¹⁹¹ Ibid, t. 18.

¹⁹² Ibid, t. 20.

¹⁹³ Ibid.

¹⁹⁴ Ibid, t. 35.

Pan ddaw Enid adref o Lundain ar ôl blynyddoedd o gadw draw o'r fro, mae ei sgwrs gyntaf gyda'i mam yn troi o amgylch y diwydiant llechi:

'Mae chwarel Bryn Coch wedi cau. Mae 'na ddigon o gerrig ond neb i'w gweithio nhw.'

'Mae'n nhw'n gwneud yn gall iawn,' meddylodd Enid. 'Chaech chi mo'na i i fynd i fyny yno i dynnu'r gwenwyn 'na i'm 'sgyfaint efo pob anadl.'

'Mae nhw wedi gneud Chwarel Fach a Phen Bonc yn un rŵan. Chwarael Fawr mae'n nhw'n i galw hi. Yng ngofal Huw Davies mae hi.'¹⁹⁵

Mewn ardal lle mae diweithdra yn broblem, mae'n anodd credu nad oes dynion ar gael i weithio'r chwarel, yn enwedig mewn bro sy'n ddibynnol ar y diwydiant llechi. Efallai mai ymgais lenyddol sydd yma i gyfleu'r dirywiad yn yr ardal. Mae'r cyfeiriad at lwch y llechen fel gwenwyn unwaith eto'n awgrymu mai dyma oedd achos marwolaeth ei thad ac yn pwysleisio chwerwedd Enid tuag at y chwarel. Mae'r cyfeiriad hwn at Huw Davies yn ennyn ymateb cryf oddi wrth Enid a dysgwn mai ar reolwr y chwarel mae Enid eisiau dial.

Ond nid yw Enid yn dal Huw Davies yn gyfrifol am farwolaeth ei thad, ond yn hytrach am ddifetha bywyd Mari, ei chwaer. Datgela Enid fod Huw Davies wedi treisio Mari a'i bod hi wedi syrthio'n feichiog a gorfod rhoi'r plentyn i ffwrdd. Ond nid yw'n eglur pa mor ddibynadwy yw stori Enid oherwydd mae gan Mari a Huw berthynas gyfeillgar a chynigiodd ei phriodi wedi iddi syrthio'n feichiog. Er bod Mari wedi maddau'n llwyr iddo, mae'r syniad ei bod hi a'i mam yn ei drin fel dyn parchus yn atgas i Enid. Mae hi'n benderfynol o ddatgelu'r gwir amdano a chwalu ei enw da yn y gymdeithas.

Er mwyn dial arno, mae Enid yn datgelu gorffennol Huw Davies i 'geg' fwyaf y fro. Ei gobaith yw y byddai chwalu ei enw da yn achosi rhwyg yn y gymdeithas. Mae John, gŵr Mari, yn deall Enid yn well na'i theulu ac mae ef yn ei chwestiynu:

Ac 'r ydach chi wrth ddial ar Huw Davies wedi gallu dial ar y dre' 'ma. Mae'r ddau yn un yn eich meddwl chi yn tydyn'? Yn sefyll dros bopeth yr

¹⁹⁵ Ibid, t. 15.

ydach chi'n i gasáu. Edrychwch ar y doman 'na. Ydach chi'n i chal hi'n haws edrych arni hi heddiw?¹⁹⁶

Nid yw Enid yn dangos unrhyw edifarhad nac ychwaith yn llwyr sylweddoli'r boen y mae hi wedi ei achosi i'w mam a'i chwaer wrth ddatgelu'r gwir. Mae hi'n gymeriad anodd cydymdeimlo â hi oherwydd ei chwerwedd ac mae lle i gwestiynu ei chymhelliant. A yw datgelu gorffennol dyn sy'n cael ei ystyried yn barchus yn talu'r pwyth yn ôl i'r gymdeithas? A yw'r gymdeithas yn haeddu'r casineb y mae Enid yn ei deimlo tuag ati? A yw Huw Davies? Nid yw'r elfennau hyn o'r nofel yn llwyr argyhoeddi.

Fodd bynnag, ar ôl cyflawni'r hyn y daeth yn ôl i'w wneud, mae'r nofel yn gorffen gydag Enid yn dychwelyd i Lundain:

Daeth y trê'n a brysiodd Enid iddo. Teimlodd ei gryndod oddi tani. Eisteddodd â'i hwyneb at y mynyddoedd a'r haul. Ac o'r lle yr eisteddai ni allai weld yr un domen.¹⁹⁷

Wedi i Enid ddial ar Huw Davies (ac, yn ôl y naratif, ar y gymdeithas trwyddo ef), unwaith eto mae hi'n dianc rhag y tomennydd llechi a'u gorthrwm ac yn troi ei chefn ar ei theulu a'i hardal. Dyma nofel sy'n portreadu bro chwarelyddol gyda chwerwedd tuag at yr holl ddynion a aberthwyd yn y chwareli. Yn wir, mae *Tŷ ar y Graig*, ar drothwy'r cyfnod ôl-ddiwydiannol, yn rhoi portread oeraidd o fro chwarelyddol trwy lygaid cymeriad sy'n berwi â chasineb. Dyma ddarlun clawstroffobig o'r gymdeithas wrth odrau'r tomennydd llechi, cymdeithas sy'n aberthu ei gwŷr yn y chwarel. Er nad yw'r nofel yn llwyr argyhoeddi ar adegau, mae'r defnydd o'r chwarel ac olion y diwydiant llechi fel symbolau o boen a marwolaeth yn effeithiol.

Nofel arall gan Eigr Lewis Roberts sydd wedi ei lleoli mewn bro chwarelyddol ôl-ddiwydiannol yw *Mis o Fehefin* a gyhoeddwyd yn 1980. Comisiynwyd hon yn gyfres o'r enw *Minafon* ar S4C yn fuan wedi sefydlu'r sianel. Eigr Lewis Roberts oedd yn gyfrifol am sgriptio *Minafon* ac fe redodd am bedair cyfres. Byddaf yn dehongli'r rhaglen yn yr adran am ddramâu teledu. Yn dilyn

¹⁹⁶ Ibid, t. 77.

¹⁹⁷ Ibid, t. 91.

llwyddiant y gyfres deledu, ysgrifennodd yr awdures *Ha' Bach*, dilyniant am fywydau trigolion Minafon.

Yn *Mis o Fehefin*, mae'r diwydiant llechi wedi dirywio'n sylweddol a nifer o ddynion wedi colli eu gwaith. Defnyddir Arthur Huws, cyn-chwarelwr, fel symbol o farwolaeth y diwydiant. Mae ei weddw, Mati Huws, fel y fro, yn cael trafferth dygymod â bywyd hebdo. Caiff Arthur Huws ei bortreadu trwy gyfres o atgofion ei wraig:

A biti na fyddai wedi cael ei gymryd o ganol ei waith a llwch ei gerrig wedi caledu ar gledrau'i ddwylo, cyn iddo gael amser i ddifaru a chwerwi. A'i chwerwi hithau.¹⁹⁸

Wrth barhau gyda'r syniad o Arthur yn drosiad am y diwydiant llechi, gellir dehongli'r dyfyniad hwn fel portread o chwerwedd ardal sydd wedi colli diwydiant yr oedd yn gwbl ddibynnol arno. Mae'r cyfeiriadau at lwch, fel yn *Tŷ ar y Graig*, yn awgrymu mai effaith llwch y chwarel laddodd Arthur. Roedd Arthur yn addoli'r creigiau fel petaent yn sanctaidd:

Chlywodd hi mohono fo'n peri iddyn nhw roi clust ar y garreg a gwrando am y curiad, cyflym, afreolus? Sŵn y ddaear oedd o, meddai Arthur, yno yn y garreg, fel sŵn y môr mewn cragen. Ac o wrando'n fwy astud fe allen nhw glywed mân synau o'i mewn oedd yn peri i rywun feddwl am hen lwythau cyntefig yn siarad eu hieithoedd eu hunain. Ac roedd Lena'n siŵr o fod o gwmpas weithiau, pan ddeuai Arthur â llechen adref; tafell o graig y soniai mor barchus amdani.¹⁹⁹

Bron nad yw Arthur, fel chwarelwr, yn cael ei bortreadu fel derwydd Celtaidd. Mae ganddo gysylltiad sanctaidd gyda'r tir a'r creigiau yr oedd yn eu tynnu o grombil y Ddaear. Mae'n sicr bod rhywfaint o ramantiaeth yma wrth bortreadu cariad chwarelwr at ei waith. Mae Dei, chwarelwr arall yn y nofel, hefyd yn hiraethu am y chwarel ac yn gweld crefft y chwarelwyr fel rhywbeth sanctaidd, cysygreddig.

¹⁹⁸ Eigra Lewis Roberts, *Mis o Fehefin* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1980), tt. 22-3.

¹⁹⁹ *Ibid*, tt. 23-4.

Ond er gwaethaf dirywiad y diwydiant llechi, fel a ddigwyddodd yn yr ardaloedd hyn, yn hytrach na chau'n llwyr mae'r chwarel yn arallgyfeirio. Mae Dei Ellis bellach yn arddangos ei grefft i ymwelwyr. Mae Dei yn gymeriad diddorol oherwydd mae'n casáu'r syniad o 'fychanu'²⁰⁰ crefft y chwarelwyr i ddiddanu twristiaid, chwedl ef. Mae Dei yn disgrifio ei waith: 'Yn y miwsïym yr ydw i rŵan, yn dangos i bobl ddiarth sut i drin llechan. Fel blydi mwnci mewn caets.'²⁰¹ Nid yw'n gweld yr amgueddfa fel teyrnged i'r chwarelwyr, ond yn hytrach fel sarhad.

Yn y gyfres deledu, *Minafon*, wrth bendroni am ei weithle fel amgueddfa yn hytrach na chwarel dywed Dei: 'A minnau'n rhan o'r gorffennol, dyna fy lle i.'²⁰² Er ei fod yn dweud mai'r chwarel yw ei le, gellir dehongli'r llinell hon hefyd fel mai'r gorffennol yw'r lle i Dei. Mae'n ffordd gynnil o gyfleu agwedd mor henffasiwn sydd ganddo a'i ddiffyg yn gwrthod symud gyda'r oes. Dyma gymeriad diddorol o safbwynt yr astudiaeth hon, am ei fod yn anghytuno â thwristiaeth mewn chwareli a thrwy hynny'n cynnig safbwynt newydd, unigryw wrth bortreadu bro chwarelyddol yn y cyfnod ôl-ddiwydiannol.

Mae sgwrs rhwng Dei a Gwen Ellis yn cyfeirio at un o ddylanwadau'r nofel:

'Be 'dach chi'n i ddarllan, Dei?'
'*Chwalfa*, Rowland Hughes.'
'Mi 'dach chi wedi darllan hwnnw o'r blaen.'
'Mae 'na rwbath newydd ynddo fo bob tro.'
'Am be mae o'n sôn, dwch?'
'Y Chwaral.'²⁰³

Er bod adlais yma o'r chwarelwr diwylliedig a gafodd ei ddyrchafu yn y nofel honno, mae'r gymdeithas yn *Mis o Fehefin* yn llai caeth i'r myth hwnnw wrth i'r nofel ymdrin â ffaeiddau'r gymdeithas. Mewn un olygfa yn y dafarn leol, mae Hyw Twm a Dic Pŵal yn ffraeo dros butain: 'Ni allai Richard yn ei fyw godi awydd er ei bod hi'n ddifai'r olwg ac yn eitha bargaen am noson.'²⁰⁴ Mae gwraig

²⁰⁰ Ibid, t. 86.

²⁰¹ Ibid, t. 86.

²⁰² *Minafon* (S4C, 1986).

²⁰³ Eigr Lewis Roberts, *Mis o Fehefin*, t. 101.

²⁰⁴ Ibid, t. 109.

Hyw Twm yna'n cyhuddo Dic Pwâl o dreisio merch ifanc ac mae yntau'n ateb: 'Hi ddaru fy repio i, musus. Doedd 'na ddim digon iddi i gael.'²⁰⁵ Mae'n aneglur a yw Richard wedi treisio merch ai peidio ond mae Eigra Lewis Roberts yma'n ymdrin â themâu tywyll ac anghynnes mewn ffordd ysgafn. Er bod dylanwad T. Rowland Hughes yn nhensiynau'r gymdeithas, dyma nofel sydd yn llawer mwy parod i gydnabod cymeriadau ymylol.

Mae *Mis o Fehefin a Ha' Bach* yn operâu sebon i raddau. Maent yn ymdebygu i raglenni teledu melodramatig gyda nifer o'r cymeriadau'n godinebu, ffraeo, ymladd ac ati. Nid oes syndod felly i'r gyfrol gael ei throsi'n gyfres deledu. Nid yw'r gymdeithas yn y nofelau hyn yn perthyn yn agos iawn i'r chwarelwyr diwylliedig a gafodd eu dyrchafu gan T. Rowland Hughes a Kate Roberts. Mae yma ddyinion sy'n yfed, yn ymweld â phuteiniaid ac yn anffyddlon. Ond wedi dweud hynny, mae'r genhedlaeth hân o chwarelwyr yn cael eu portreadu fel derwyddon a chanddynt gysylltiad cysygreddig â'r tir. Mae yma elfen gref o ramantiaeth yn sicr wrth i Dei Ellis hiraethu am y chwarel. Efallai ei bod yn ymgais i adlewyrchu'r cysylltiad rhwng cau'r chwarel a'r dirywiad ym moesau'r gymdeithas, thema fydd yn codi droeon wrth edrych ar ffuglen y cyfnod ôl-ddiwydiannol.

Mae *Hi a Fi* wedi ei lleoli ym Mlaenau Ffestiniog yn y presennol ac wedi ei hysgrifennu o safbwynt gwraig sy'n edrych yn ôl ar ei phlentyndod yn yr 1960au a'i chyfeillgarwch gyda merch arall. Mae'n cyfleu safbwynt plentyn yn effeithiol ac mae hiwmor a chymeriadau cryf yn y nofel hon. Defnyddir delweddau plentynnaidd, doniol: 'Mae stryd fawr y Blaena' fel hen wraig sydd wedi colli'r rhan fwy a o'i dannadd ac yn methu fforddio rhai gosod.'²⁰⁶ Dyma enghraifft o nifer o ddelweddau sy'n pwysleisio tlodi'r ardal, thema fawr yn y nofel. Er nad yw'r unigolion yn dioddef o ganlyniad uniongyrchol i dlodi, mae'r dref ar ei gliniau.

Portreadir yr ardal fel lle annymunol: 'Tre ddigon hyll ydy hon ar y gora, a'r creigia'n hofran uwchben, fel bwystfilod yn barod i ymosod arnon ni.'²⁰⁷ Mae'r ddelwedd fygythiol hon yn adleisio'r holl fywydau sydd wedi eu colli ar y

²⁰⁵ Ibid.

²⁰⁶ Eigra Lewis Roberts, *Hi a Fi* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2009), t. 116.

²⁰⁷ Ibid, t. 87.

creigiau ac yn gosod tŷ dywyll i'r nofel. Dyma hefyd adlais o feddylfryd Enid yn *Tŷ ar y Graig*. Mae tad Helen, y prif gymeriad, yn gwneud cerrig beddi o lechi. Pan fo Helen yn mynd i nôl moddion ar gyfer ei annwyd mae'r trigolion i gyd yn credu bod y llwch yn effeithio ar ei ysgyfaint:

'Glywist ti hynna, Madge? Dydy Prichard Owen cerrig beddi ddim hannar da.'

'Y llwch, ia?'

'Na dim ond annwyd,' medda fi, ond ymlaen â nhw i drafod peth mor beryg ydy treulio oria mewn mynwentydd, ac anadlu llwch sy'n clogio'r gwythienna ac yn cau am y galon.²⁰⁸

Er bod hiwmor yn y ffordd y mae'r gwragedd yn neidio i gasgliadau, mae'r dyfyniad yn cyfleu breuder bywydau'r chwarelwyr a'r bygythiad parhaus o farwolaeth sy'n gorwedd dros y pentref.

Yn nofelau Roberts, caiff teuluoedd tlawd fel teulu Helen eu dyrchafu fel gwerin ddiwylliedig. Mae mam Helen, yn enwedig, yn alluog. Mae hi'n darllen yn aml ac yn cael ei hysbrydoli gan gwmni theatr sy'n ymweld â'r pentref i ysgrifennu drama ar gyfer y gymuned. Er nad yw plot y ddrama yn cael ei ddatgelu'n llawn, mae boneddigion a gweision, plismyn a meddwon yn ymddangos ynddi. Mae hyn yn adlewyrchiad o'r portread cyffredin a geir o gymdeithas fel Blaenau Ffestiniog gyda phwyslais ar y gwahaniaethau rhwng y dosbarthiadau. Mae'n nodweddiadol hefyd fod y ddrama wedi ei lleoli yn yr oes Fictoraidd oherwydd dyma'r cyfnod y caiff y bröydd chwarelyddol eu portreadu ynddo gan amlaf, a hynny mewn ystod eang o gyfryngau.

Mae *Hi a Fi* yn portreadu bro enedigol yr awdures yn yr 1960au ac mae awgrym o gyffyrddiadau bywgraffiadol ynddi. Mae ymdriniaeth *Hi a Fi* â'r gymdeithas yn chwareus a llawn hiwmor tra mae disgrifiadau bygythiol o'r tirlun yn cyfleu cysgod y chwarel dros y gymdogaeth yn effeithiol. Dyma gyfres o ddelweddu sy'n dwyn i gof chwerwedd Mati yn *Mis o Fehefin* ac agwedd Enid yn *Tŷ ar y Graig* a'i chasineb at y tomennydd llechi o'i chwmpas. Mae ymdriniaeth Eigra Lewis Roberts ag olion ôl-ddiwydiannol tirlun y Blaenau yn pwysleisio cynifer o ddynion a laddwyd yn y chwareli. Ym mhob un o'r nofelau hyn, *Tŷ ar y*

²⁰⁸ Ibid, t. 110.

Graig, Mis o Fehefin, Ha' Bach a Hi a Fi, defnyddir olion y diwydiant llechi fel symbolau o farwolaeth (neu'r bygythiad o farwolaeth) a cheir hefyd bwyslais ar y dirywiad ym moesau'r gymdeithas wedi cau'r chwareli.

Yn ogystal â'r nofelau hyn, sydd wedi eu lleoli ym Mlaenau ôl-ddiwydiannol yr 1960-80au, mae Eigr Lewis Roberts yn ysgrifennu nofelau hanes am gyndeidiau'r gymdeithas honno. Mae *Rhannu'r Tŷ* yn nofel wedi ei lleoli ym Methesda yn ystod Streic Fawr y Penrhyn, 1900-1903. Mae'n disgrifio anghydfod a thensiynau'r gymdeithas glôs honno wrth iddi gael ei hollti'n ddwy rhwng y streicwyr a'r bradwyr. Mae'r testun hwn eisoes wedi cael ei bortreadu gan T. Rowland Hughes yn *Chwalfa*, felly sut mae Eigr Lewis Roberts yn ail-ddehongli'r darlun hwnnw dros hanner can mlynedd yn ddiweddarach? Mae ambell hanes o'r chwarel yn cael ei adrodd gan gymeriadau, hanesion sydd hefyd yn ymddangos yn nofelau T. Rowland Hughes. Er bod rhai elfennau yn efelychu ac yn atgyfnerthu'r portread a geir yn *Chwalfa*, mae ymgais yma gan Eigr Lewis Roberts i roi portread mwy cytbwys o'r gymdeithas honno.

Mae ffocws Eigr Lewis Roberts yn llai gwleidyddol ac yn canolbwyntio mwy ar storïau caru rhwng sawl cymeriad. Tra mae sawl golygfa yn *Chwalfa* o gyfarfodydd y streicwyr, mae Eigr Lewis Roberts yn fwy tebygol o ddisgrifio plant ysgol yn ffraeo ac ymladd gyda'i gilydd ynglŷn â'r streic yn hytrach na'r chwarelwyr eu hunain. Ond wedi dweud hynny, cynrychiolir streicwyr y nofel gan Robert Evans a'i fab, Tom. Mae Robert yn hiraethu am y chwarel ac wedi ei siomi gan yr hollt yn y gymdeithas. Mae 'Ffarwel, ffarwel' yn cael ei dyfynnu i gyfleu ei dorcalon wrth adael ei weithle:

Ffarwèl, ffarwèl i'r cyfan,
Ni chana' i ddim yn hwy;
Os yw nghân yn ysgafn-
Mae nghalon bron yn ddwy!²⁰⁹

Yn ddiweddarach yn y nofel mae Robert yn ei lladd ei hun, ac mae dyfynnu'r gân hon yn cynnig ateb cynnil pam y gwnaeth hynny. Mae'r teulu'n galaru heb ddeall yn llwyr pam mae Robert wedi boddi ei hun: 'Mi ddeudodd wrtha i unwaith fod

²⁰⁹ Eigr Lewis Roberts, *Rhannu'r Tŷ* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2003), t. 118.

gen i'r cyfla i allu dianc o'r uffarn yma. Falla mai dyna'r unig ddihangfa iddo fo.²¹⁰ Mae'n rhaid i Tom fynd yn ôl i'r chwarel a thorri'r streic er mwyn i'r teulu oroesi. Defnyddir y teulu hwn fel symbol o ganlyniadau trasig y streic. Maent yn ymdopi gyda themâu rhy ddwys i T. Rowland Hughes eu crybwyll ac yn portreadu 'bradwr' gyda chydymdeimlad.

Mae T. Rowland Hughes yn gallu gweu elfennau hanesyddol y nofel gyda'r personol yn gelfydd: 'O du awdurdodau'r chwarel nid oedd ond tawelwch dwfn.'²¹¹ Ond mae ffeithiau hanesyddol *Rhannu'r Tŷ* yn teimlo fel pe baent yn cael eu gorfodi ar y naratif. Ar ddechrau'r nofel mae golygfa o safbwynt Young, rheolwr y chwarel yng Nghastell y Penrhyn:

Er bod Emilius Augustus Young yn ymwelydd gweddol reolaidd â Chastell Penrhyn, yr oedd eto i allu dygymod â'r teimlad o israddoldeb bob tro y camai i mewn i'r Neuadd Fawr. Yn y chwarel, ef, fel y prif reolwr, oedd y meistr - ond yma nid oedd ond gwas ac iddo lai o awdurdod hyd yn oed na'r bwtler a agorodd y drws derw iddo gynnau.²¹²

Mae Eigr Lewis Roberts yn portreadu Young a'r Arglwydd Penrhyn fel cymeriadau stoc ac nid yw'n gweddu gyda gweddill y nofel sydd o safbwynt y werin. Nid oes unrhyw ymgais i roi dyfnder i'r cymeriadau, dim ond eu defnyddio fel ymgorfforiad o'r hyn y mae'r streicwyr yn brwydro yn ei erbyn.

Yn debyg i'r ymdriniaeth ag alcoholiaeth yn *Chwalfa*, mae cysylltiad rhwng y ddiod gadarn ac anfoesoldeb. Dywed mam Laura, Cartin Morris am ei gŵr yn *Rhannu'r Tŷ*:

Begin pres oddi arna i, esgus talu'i aelodaeth [i'r Undeb], a'u tywallt nhw'i gyd lawr i lôn goch yn y King's Head. Ddeudis i mai yn y Wyrwys byddwn ni'n do.²¹³

Felly er bod Eigr Lewis Roberts yn barod i gydnabod Buchedd B, mae'r naratif yn parhau i fod yr un mor feirniadol ohonynt â gweithiau Kate Roberts a T. Rowland Hughes. Yma hefyd, fel yn y mwyafrif o weithiau llenyddol am y bröydd

²¹⁰ Ibid, t. 216.

²¹¹ T. Rowland Hughes, *Chwalfa*, t. 169.

²¹² Eigr Lewis Roberts, *Rhannu'r Tŷ*, t. 13.

²¹³ Ibid, t. 97.

chwarelyddol, eithriadau yw'r dynion sy'n yfed neu'n ymddwyn yn anfoesol. Ar ôl i dad Laura golli ei goes mewn damwain yn y chwarel, mae'r capel yn trefnu cyngerdd i godi arian ar ei gyfer a dywed y gweinidog: 'Dipyn o ddafad ddu ydi o wedi bod, mae arna i ofn, ond falla y bydd hyn yn foddion i ddod â fo'n ôl i'r gorlan.'²¹⁴ Mae'r dyfyniad hwn yn awgrymu mai sefydliad goddefgar oedd y capel sy'n ceisio helpu dyn mor anobeithiol. Dyma gyferbyniad i'r portreadau o'r cyfnod diwydiannol sy'n llawer mwy beirniadol o'r capel gyda rhagrith capelwyr yn thema fawr yng ngweithiau Kate Roberts, T. Rowland Hughes a Caradog Prichard.

Yn dilyn llwyddiant *Rhannu'r Tŷ*, ysgrifennodd Eigr Lewis Roberts ddilyniant iddi, sef *Carreg wrth Garreg*. Mae'r nofel honno wedi ei lleoli ym Methesda a Blaenau Ffestiniog ugain mlynedd wedi i'r streic ddod i ben ac yn dilyn y rhan fwyaf o'r un cymeriadau. Mae'r nofel yn agor gyda phortread digalon o'r bröydd wrth i Grace ddarllen llythyr gan ei brawd Dan sydd bellach yn weinidog ym Mlaenau Ffestiniog: 'Dydi'r Blaenau ddim gwahanol i Bethesda 'ma yn ôl pob golwg. Mwy o feddwi a thorcyfraith nag erioed.'²¹⁵ Mae'r nofel wedyn yn cael ei rhannu rhwng y ddau leoliad ac yn disgrifio'r problemau sy'n codi o ddiweithdra. Mae gan y nofel hon agwedd fwy goddefgar na *Rhannu'r Tŷ* at dorcyfraith ac yfed wrth i Dan gael ei feirniadu am hel pobl o'r capel am ymladd, yfed a chael perthynas tu allan i briodas.

Mae cyfocredd rhwng bywyd Laura, sydd bellach yn wraig i Dan Ellis, a Magi, morwyn yn siop y teulu Ellis. Yn *Rhannu'r Tŷ*, roedd teulu Laura yn eithriad i'r gymdeithas grefyddol, oddefgar. Roedd ganddi deulu mawr a thlawd, ei thad yn yfed a'i mam yn greulon. Yn *Carreg wrth Garreg*, mae gan Magi deulu mawr a thlawd ond mae cariad yn amlwg ar yr aelwyd. Mae hynny'n pwysleisio bod sefyllfa'r ardal wedi gwella dros yr ugain mlynedd diwethaf. Defnyddir delweddau o natur i gyfleu hynny ymhellach:

Ni fu haf cyn brafiad ers blynyddoedd. Llwyddodd y golau i dreiddio drwy lwydni trefi'r llechi i amlygu'r gwyrddni a gollwng y lliwiau'n rhydd.²¹⁶

²¹⁴ Ibid, t. 114.

²¹⁵ Eigr Lewis Roberts, *Carreg wrth Garreg* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2007), t. 8.

²¹⁶ Ibid, t. 191.

Mae'n bortread llawer mwy cadarnhaol o'r fro a cheir awgrym bod creithiau anghydfod y streic bellach yn gwella.

Mae'r Rhyfel Byd Cyntaf hefyd yn gefndir i *Carreg wrth Garreg* gyda Tom yn cael hunllefau ac yn sgrechian yn ei gwsg. Mae Ifan yn wrthwynebydd cydwybodol ac, yn ôl y naratif, yn dioddef rhagfarnau'r gymdeithas oherwydd hynny, er does dim llawer o dystiolaeth o hynny yn y nofel. Mae'r rhyfel bellach ar ben a dim ond cyfeirio at ddiodeffaint rhai o'r unigolion y mae'r nofel. Nid oes sôn am unrhyw fechgyn o'r pentref a gafodd eu lladd ar faes y gad nac am wleidyddiaeth y cyfnod. Yn wir, mae agwedd eithaf ffwrdd-â-hi at wleidyddiaeth y chwarelwyr. Mae disgrifiad o'r bwrlwm yn y Blaenau yn ystod cyfarfod cyhoeddus Gŵyl Llafur Chwarelwyr Gogledd Cymru. Ond i gyferbynnu gyda hynny, mae Ifan wedi diflasu ar yr holl drafod:

Penderfynodd Ifan dreulio'r prynhawn yn y Neuadd, ond diflasodd yn fuan ar wrando ar yr un hen gwynion. Roedd y meistri yr un mor ormesol, a'r gweithwyr yr un mor ddiymadferth ag oedden nhw ugain mlynedd yn ôl.²¹⁷

Efallai mai ymgais i bortreadu diymadferthedd Ifan yw'r dyfyniad hwn ond gellir dadlau, oherwydd absenoldeb gwleidyddiaeth yn y nofel gyfan, fod yr awdures yn osgoi trafod diwylliant a gwleidyddiaeth y chwarelwyr. Mae Tom hefyd yn osgoi'r caban amser cinio rhag iddo orfod cyfrannu at y drafodaeth. Efallai mai ymgais i bellhau oddi wrth bortread T. Rowland Hughes yn *Chwalfa* sy'n gyfrifol am yr absenoldeb.

Yn *Carreg wrth Garreg* mae priodas Tom a Maud ar chwâl. Caiff hi ei phortreadu fel dynes hunanol a chreulon. Mae hi'n godinebu gyda gelyn pennaf ei gŵr cyn troi'n butain a chael ei lladd ym Mangor. Dyma bortread tywyll dros ben o gymeriad mewn bro chwarelyddol. Ond ym Mangor mae Maud yn gweithio ac yn cael ei llofruddio, sydd yn rhoi digon o bellter rhyngddi a'r chwarelwyr moesol. Nid oes tir canol yn y portread hwn; pan fo cymeriad yn 'ddrwg,' nid oes diwedd ar ei anfoesoldeb. Mae cryn dipyn o fwllch rhwng godinebu a phuteindra, ond nid yn y nofel hon. Caiff marwolaeth Maud ei darlunio fel rhywbeth

²¹⁷ Ibid, t. 305.

cadarnhaol, i raddau, am ei bod yn rhyddhau Tom a'i fam rhag oblygiadau'r briodas. Wedi i'r ferch hunanol farw, mae Tom yn rhydd i ddweud wrth Grace sut y mae'n teimlo amdani ac mae ei fam yn gallu ailhawlio ei haelwyd.

Er bod y nofel yn rhoi darlun mwy cadarnhaol o'r fro ar adegau, mae'r diweddglo yn llawn anobaith:

Ugain mlynedd yn ôl, roedd tenantiaid y tŷ a rannwyd wedi gweddïo am nerth i'w ailadeiladu, garreg wrth garreg. Ond heddiw, ar waetha'r ymdrech a'r dioddef a fu, roedd y muriau'n bygwth dymchwel o'u cwmpas unwaith eto.²¹⁸

Y bygythiad a wyneba'r tŷ yw bod streic arall ar droed a'r dynion yn dechrau ffraeo ymysg ei gilydd ac atgyfodi hen atgofion am bwy oedd yn fradwyr. Nid oes rhyw lawer yn cael ei ddatrys yn y nofel hon. Mae'r cariadon yn parhau i fod ar wahân, potensial academaidd yn cael ei wastraffu a'r mwyafrif o gymeriadau priod yn anhapus.

Felly er bod *Rhannu'r Tŷ a Carreg wrth Garreg* yn ymdrin â themâu fel hunanladdiad, puteindra a llofruddiaeth, mae'r naratif yn feirniadol o unigolion ar gyrion y gymdeithas, boed ddynion sy'n yfed neu ferched sy'n godinebu. Mae Eigra Lewis Roberts yn barod i gydnabod ffaeleddau cymdeithas chwarelyddol a phortreadu Buchedd B, ond mae hi hefyd yn beirniadu'r garfan honno o'r gymdeithas. Nid yw'r naratif yn archwilio'r tir canol hwnnw roedd T. Rowland Hughes hefyd yn ei hepgor o'i weithiau ef. O ganlyniad, mae'r portread a geir gan Eigra Lewis Roberts yn euog o atgyfnerthu'r ddelwedd ramantus o'r gymdeithas chwarelyddol a'r chwarelwyr moesol, arwrol.

Geraint Vaughan Jones

Mae Geraint V. Jones yn awdur sy'n enwog am ei nofelau ditectif. Mae *Yn y Gwaed*, *Semtecs* ac *Omega* yn gyfrolau poblogaidd yn y *genre* hwnnw, ond canfod y llofrudd sy'n cael blaenoriaeth yn y nofelau hynny, nid portreadu'r ardal. Er y

²¹⁸ Ibid, t. 312.

gellir dadlau bod y bröydd chwarelyddol yn gefndir i ambell un o'i nofelau ditectif, lleoliad yn unig yw'r ardal yn wahanol i'r ymdriniaeth a geir yn *Ar Lechan Lân* a *Teulu Lòrd Bach*. Dyma ddwy nofel sydd wedi eu lleoli mewn ardaloedd sy'n seiliedig ar Flaenau Ffestiniog. Mae Blaendyffryn, *Teulu Lòrd Bach* a Pen-y-Dyffryn, *Ar Lechan Lân*, yn llawer mwy na lleoliad; mae'r diwydiant llechi a chymdeithas y chwarelwyr yn rhan annatod o'r nofelau.

Mae *Teulu Lòrd Bach* yn nofel swmpus sy'n dilyn hanes teulu o 1919 hyd at 1999. Mae'r nofel yn pwysleisio'r anghyfiawnderau a'r caledi a oedd yn wynebu cymdeithas chwarelyddol y Blaenau yn nechrau'r ugeinfed ganrif. Mae'r naratif yn cydymdeimlo'n gryf gyda'r cymeriadau fel y gwelir yn y disgrifiad hwn o ferch Alis Lòrd Bach:

Elsi fach ddibriod, heb fod eto'n ddwy ar bymtheg oed, yn cyhoeddi trwy'i dagra ei bod hi'n feichiog! Ac i ddilyn y sgytwad hwnnw, y gwarth anochel ohoni'n cael ei thorri allan o'r seiat yng Nghapel Caersalem, a hitha ond newydd gael ei derbyn yn gyflawn aelod yno.²¹⁹

Yn wahanol i weithiau llenyddol cynharach, nid yw'r naratif yn barnu Elsi am syrthio'n feichiog a hithau heb briodi; yn hytrach mae'n gweld bai ar y tad a adawodd yn syth am Loegr ac ar ragfarn y capel:

Ar y pryd, fe allai Alis fod wedi gwneud fel y gwnaeth Ifan ei gŵr, sef cefnu ar y capel a'i ragrith, ond roedd ganddi ormod o ofn tynnu gwg yr Hollalluog.²²⁰

Mae'r ferch ifanc, feichiog yn gorfod wynebu creulondeb yr oes. Mae hi'n byw gyda'i thaid sydd yn dioddef o effeithiau'r llwch ar ei frest. Mae'r teulu hwn yn cael eu defnyddio fel symbol o'r holl rwystrau roedd pobl y bröydd chwarelyddol yn gorfod eu hwynebu ar y pryd ac maent oll yn dioddef mewn rhyw ffordd o ganlyniad i anghyfiawnderau'r oes.

Mae Blaendyffryn yn cael ei bortreadu fel lle tywyll, tlawd a llawn dioddefaint:

²¹⁹ Geraint V. Jones, *Teulu Lòrd Bach* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2008), t. 20.

²²⁰ Ibid.

Dros y blynyddoedd, roedd Blaendyffryn wedi gweld ei siâr o angladda tristach na'i gilydd. Tai yn erthylu mwy nag un arch fechan ar y tro, diolch i'r teiffoid a'r diphtheria... Tad a mab yn mynd i'r un bedd agored yn dilyn damwain yn y Chwarel Fawr... Mam ifanc yn taflu'i hun o ben clogwyn am i rywun dichellgar gychwyn stori gelwyddog amdani... Tad yn colli'i bwyll ac yn lladd ei wraig a'i ferch ei hun ar y gymdogaeth. Ac fe wna trasiedi Rhys Lòrd Bach hefyd yr un peth.²²¹

Cyfeirio y mae'r dyfyniad at hunanladdiad Rhys a oedd yn dioddef o *shell shock* ar ôl dychwelyd o'r Rhyfel Mawr. Dyma bortread echrydus o'r fro. Mae'r paragraff yn gosod y teulu o fewn cyd-destun ehangach, wrth i weddill y pentref gael ei effeithio gan drasiedïau. Mae'r gymdogaeth yn dod i angladd Rhys, ac er bod ambell un yn barod i gwestiynu diffyg dagrau Alis a hawl Rhys i gael ei gladdu, mae'n bortread sy'n pwysleisio agosatrwydd y gymdeithas. Yn wir, y gymdeithas yw'r golau yng nghanol yr holl anobaith yn y nofel hon.

Mae Blaendyffryn yn cael ei ddyrchafu fel cymdeithas grefyddol, ddiwylliedig, a gweithgar. Mae Bob Ellis yn cynrychioli'r chwarelwr delfrydol: blaenor yn y capel a llywydd yn y chwarel. Dyma ddisgrifiad o'i allu academaidd:

Gwyddai pob un ohonyn nhw am allu arbennig eu llywydd ac fel roedd o'n cael ei ystyried yn ddarllenwr mawr; yn hyddysg, nid yn unig yn ei Feibl ond yng ngweithiau awduron dyrys megis Thomas Carlyle a John Bunyan a'u tebyg. Ac roedd yn hysbys i bawb hefyd ei fod o'n darllen *Baner ac Amserau Cymru* o glawr i glawr bob wythnos.²²²

Fel yn holl lenyddiaeth y bröydd chwarelyddol, mae pwyslais ar allu 'uwch na'r cyffredin' y dynion hyn. Maent yn bobl ddiwylliedig sy'n ymhyfrydu yn eu corau, cymdeithasau llenyddol a thrafodaethau gwleidyddol y caban. Yn fachgen pedair ar ddeg oed, mae Ifan yn mynd i weithio yn y chwarel ond yn parhau gyda'i addysg. Dyma sgwrs rhyngddo a'i fam:

'Ond dadla fel arall mae Mustyr Lloyd George! Be mae o'n ddeud ydi y gall amoda rhy lym ar Jyrmani rwan arwain at fwy o broblema yn nes ymlaen.' 'Bobol bach, Ifan! Lle wyt ti wedi dysgu am y petha 'ma i gyd, dywad?'

²²¹ Ibid, tt. 179-180.

²²² Ibid, t. 37.

'Gwranddo ar y dynion yn siarad yn y Caban oeddwn i.'²²³

Ar sawl achlysur mae'r chwarelwyr yn gwybod yn well na'r gwleidyddion. Fel y dywed Evan Thomas, un o gymeriadau'r nofel, 'Hawdd iawn ydi bod yn ddoeth ar ôl y digwydd.'²²⁴ Gan amlaf, pan fo'r dynion yn mynegi eu barn am wleidyddiaeth, *Baner ac Amserau Cymru* sydd wedi siapio'r farn honno. Mae'n fewnwelediad i agweddau'r cyfnod, ond tybed a yw'r awdur yn euog o or-ramantu gallu'r chwarelwyr?

Safbwynt Alis Lòrd Bach a gawn yn chwarter cyntaf y nofel ac er bod pwyslais ar ddiodefaint unigolion yn y gymdeithas, mae'r portread hefyd yn dathlu elfennau o'r gymdogaeth honno. Wrth i'r nofel ddatblygu, mae sawl cymeriad yn cyfeirio at ddiffyg moesoldeb a'r dirywiad yn safon iaith y genhedlaeth ifanc. Mae fel petai cysylltiad rhwng dirywiad y diwydiant llechi a'r dirywiad yng ngwerthoedd trigolion y fro. Yng nghyfnod Alis, mae'r mwyafrif o gymeriadau'r pentref a'r teulu'n gweithio yn y chwarel (er bod rhywfaint o ddrwgdeimlad oherwydd bod Rhys Lòrd Bach yn un o'r ychydig fechgyn a aeth i ymladd yn y Rhyfel Mawr a gafodd ei waith yn ôl yn y chwarel). Mae'r bechgyn sydd yn ddi-waith yn yfed yn ystod y dydd, yn rhegi, ac yn cwffio yn y stryd. Maent yn symbol cynnar yn y nofel o effaith rhyfel a diweithdra ar foesoldeb cymdeithas.

Â'r nofel ymlaen i gyfnod yr Ail Ryfel Byd, a chyfnod Ifan, mab Alis. Mae Ifan yn wrthwynebydd cydwybodol ar ôl gweld effaith y Rhyfel Byd Cyntaf ar ei frawd, Rhys. Mae'n cael ei orfodi i dreulio'r rhyfel yn gweithio ym mhyllau glo Wrecsam lle mae'n dysgu nad yw diwylliant y chwarelwyr mor arbennig ac unigryw ag y tybiai gynt:

Cael fy synnu gan wybodaeth eang y criw a chan y ffordd y daw ambell air Cymraeg allan yn eu sgwrs. Dawn traethu fel Lloyd George gan Tomi Comi. Minnau wedi tybio erioed bod diwylliant y chwarelwyr Cymraeg yn llawer amgenach nag un y glöwr estron ei iaith.²²⁵

²²³ Ibid, t. 156.

²²⁴ Ibid, t. 72.

²²⁵ Ibid, t. 275.

Y prif wahaniaeth yn y nofel hon rhwng diwylliant y chwarelwyr a'r glöwyr yw bod trafodaethau llenyddol a gwleidyddol y glöwyr yn digwydd mewn tafarn ac yn Saesneg. Golyga hyn fod y chwarelwyr yn parhau i fod yn uwchraddol ond, mae'r ddwy gymdeithas yn cael eu dyrchafu yn y nofel hon.

Er mwyn pwysleisio rhagoriaeth y chwarelwyr ymhellach, mae Ifan yn tynnu'n groes i werthoedd cymdeithas y glöwyr trwy beidio ag yfed:

Noson ddifyr iawn, er cael fy ngwneud yn gyff gwawd am ofyn i ŵr y tŷ am baned o de yn hytrach na chwrw. Ei wraig yn dod â thebotiad cyfan imi, a chael fy ngalw'n Evan Teetotal ac Evan TT, weddill y min nos. Ysbryd cyfeillgar y tynnu coes yn fy atgoffa am y Caban, slawer dydd.²²⁶

Mae'r ffaith nad yw Ifan yn yfed yn cryfhau'r ddelwedd o chwarelwr moesol. Ond wrth gydnabod tebygrwydd rhwng gwaith a bywyd y glöwyr a'r chwarelwyr, mae'r portread yn gam tuag at ddileu'r gwahaniaeth enfawr rhwng y darluniau cyferbyniol o'r glöwr traddodiadol a'r chwarelwr traddodiadol. Wedi dweud hyn, y glöwr sydd yn uwch ei barch ac efallai bod yr awdur yn euog o ramantu'r gymdeithas hon yn ogystal.

Yn ddiweddarach yn y nofel, mae Ifan yn dechrau yfed ac yn ymwrthod â'r capel. Mae'n troi'n ŵr cas ac yn taro Arthur, ei fab, am ofyn cwestiwn diniwed. Dyma gymeriad ac iddo fwy nag un dimensiwn, cymeriad sy'n cyferbynnu â chymeriadau sydd naill ai'n 'dda' neu'n 'ddrwg' fel yng ngweithiau awduron fel T. Rowland Hughes ac Eigr Lewis Roberts. Er ei fod yn cael achubiaeth ar ôl hynny, mae'r dirywiad yn ei egwyddorion yn cyd-fynd â'r dirywiad ym Mlaendyffryn.

Mae'r ardal yn cael ei disgrifio mewn ffyrdd llawer mwy bygythiol wrth i'r nofel ddatblygu. Dyma Flaendyffryn o safbwynt Mair Huws, gwraig Ifan:

Treuliai ei dyddia'n eistedd wrth ffenest ei stafell fyw, yn syllu allan ar olygfa gyfarwydd, lwyd. Defaid llwydion... tai a thoeau llwydion... tomennydd llwydion... creigia a chymyla llwydion... Môr diderfyn o lwydni.²²⁷

²²⁶ Ibid, t. 275.

²²⁷ Ibid, tt. 394-5.

Mae fel petai'r llwydni hwn yn gorchuddio'r ardal ac yn llyncu gobeithion y trigolion. Mae'n ddarlun sy'n pwysleisio diflastod a thlodi. Erbyn chwarter olaf y nofel mae wedi troi'n rhywbeth llawer mwy sinistr a bygythiol:

... dechreuodd tomennydd o rwbel llechi gau amdanynt, fel rhaeadrau o ddŵr llwyd wedi rhewi. Oherwydd y cymylau duon uwchben, roedd y rhaeadrau rheini'n llwytach nag arfer, heddiw, ac yn fwy bygythiol rywsut.²²⁸

Mae'r dyfyniad hwn yn awgrymu'n gryf fod gan y llwydni bŵer dros yr ardal. Wrth iddo wasgaru a chryfhau, mae anobaith hefyd yn mygu'r gymdeithas. Nid yw'n gyd-ddigwyddiad bod disgrifiadau o'r llwydni'n dod yn amlach ac yn fwy bygythiol wrth i'r nofel ddatblygu.

Wrth i'r ddelwedd o'r llwydni ddefnyddio'r tirlun i gyfleu anobaith, mae yna hefyd bortreadau llawer mwy llythrennol o ddirywiad y fro. Pan fo Wendy, un o'r faciwis a ddaeth i aros gydag Ifan a Mair Huws ym Mlaendyffryn, yn dychwelyd fel oedolyn, mae hi'n cyferbynnu ei hatgof plentyn o'r lle gyda'r presennol. Ar ôl disgrifio bwrlwm yr oes ddiwydiannol, dywed wrth ei gŵr: 'Ond yli fel mae bariau honno wedi rhydu, erbyn rwan... Mae hi fel y bedd yma ac mae gwair yn tyfu dros y llwybr.'²²⁹ Mae disgrifiadau o'r 'diffeithwch diwydiannol,'²³⁰ sef olion yr hen chwarel yn adleisio sylwadau am yr holl arwyddion 'ar werth' ar y tai a'r siopau gwag. Mae nodweddion tebyg hefyd rhwng disgrifiad Wendy o'r hen dŷ a'r atgofion sy'n cael eu deffro yn Arthur trwy gyfrwng y llun o'r tŷ gan ei wŷr, Arnold:

Wyddost ti? Bob tro dwi'n edrych arno fo, dwi fel 'tawn i'n gweld Mam yn sefyll yn nrws y tŷ, a Nhad a'r chwarelwyr eraill yn martsio yn un rhes hir i lawr Llwybr y Chwaral, a sŵn eu traed nhw i'w glywed o bell.' Daeth deigr yn i'w lygad. 'Fel mae'r oes wedi newid, yn de! Y chwaral yn gwblwll segur ers blynyddoedd a'r inclên a'r Llwybr wedi hen ddiffannu i'r gwyllt. Ond, o leia, mae'r hen gartra yno o hyd, ac mae hynny'n gysur imi.'²³¹

²²⁸ Ibid, t. 530.

²²⁹ Ibid, t. 393.

²³⁰ Ibid, t. 593.

²³¹ Ibid, tt. 650-1.

Mae'r awdur yn chwarae gydag eironi yma oherwydd bod yr hen dŷ ar fin cael ei ddymchwel. Mae Arthur yn gymeriad sentimental ac yn galaru'n agored am ei ddiffyg cysylltiad â Blaendyffryn. Mae disgrifiad Ifan o'r lle yn mynegi difaterwch y genhedlaeth ifanc: 'Mae'r lle 'ma mor *derelict*,' medda Ifan o'r diwedd. 'Hollol *dead*! Anodd credu eich bod chi'n ddigon hen i gofio pobol yn gweithio yma o gwbl.'²³² Mae ei ddefnydd o'r Saesneg hefyd yn cyfrannu at y portread negyddol o bobl ifanc yr ardal a'r diffyg cyfathrebu rhwng y cenedlaethau.

Y digwyddiad mwyaf erchyll a'r darlun mwyaf brawychus o ddirywiad yn y fro yw'r hyn sy'n digwydd i Huw Lòrd Bach. Mae wedi dioddef anafiadau dychrynlyd yn y rhyfel ac wedi cael strôc a wnaeth ochr chwith ei gorff yn ddiffwrwyth. Un noson mae bachgen lleol ifanc yn torri i mewn i'w dŷ ac yn ymosod arno. Mae'n cael ei drywanu bron i hanner cant o weithiau a'i ladd, mae ei dŷ yn cael ei losgi drwy gynnu'r papurau a'r dyddiaduron oedd yn adrodd hanes Teulu Lòrd Bach ers sawl cenedlaeth. Mae 'Adrian Jynce' yn gaeth i gyffuriau ac mae ei wallau iaith fel petai'n pwysleisio'r diffygion yn y genhedlaeth ifanc: 'Chdi deud lle ma ffycin pres chdi ne fi sticio hwn i mewn i ffycin gyts chdi.'²³³ Mae'n ddigwyddiad erchyll sydd yn agoriad i chwarter olaf y llyfr yn y flwyddyn 1999.

Mae'r teuluoedd eraill sydd yn cael eu crybwyll trwy'r nofel hefyd yn dioddef. Roedd Mike Foster yn faciwr ym Mlaendyffryn yn ystod y rhyfel, ond cafodd ei deulu i gyd eu lladd yn Lerpwl ac felly arhosodd a dysgu'r iaith, priodi, magu teulu a rhedeg busnes llwyddiannus. Erbyn 1999, mae ei wraig, Gwenith, yn marw o gancr y fron, ei ferch Gwenno ar gyffuriau ac yn byw yn Llundain, Glyn ei fab yn y fyddin ac yn dioddef o *Gulf War Syndrome*, Heledd ei ferch arall yn byw yn Lloegr ac yn magu ei phlant yn Saeson, ac mae Mike yn fethdalwr ar ôl colli'r siop a'i arian yng nghwmp y farchnad stoc. Mae diwedd glo'r nofel yn ddirugaredd o anobeithiol, heb lygedyn o obaith i unrhyw gymeriad.

Yr unig symbol o obaith ar gyfer dyfodol Teulu Lòrd Bach yw Arnold, mab Ifan. Mae rhieni Ifan yn mynegi eu bod yn amau nad Ifan yw tad Arnold. Ond unwaith mae Arnold yn dangos dawn arlunio mae Arthur yn datgan ei fod yn

²³² Ibid, t. 595.

²³³ Ibid, t. 524.

'Teulu Lòrd Bach yn ei nerth.'²³⁴ Mae gobaith felly am ddyfodol y teulu yn enwedig wrth i Arnold wneud mwy o ymdrech i siarad Cymraeg a chymryd diddordeb yn hanesion ei daid. Mae Ifan yn dechrau canlyn Cymraes o Lanrwst ac mae hynny'n rhoi rhywfaint o obaith at ddyfodol Ifan a'r teulu. Ond mae'r oes fodern yn y nofel yn hynod o negyddol gydag unrhyw arwydd neu symbol o obaith yn cael ei chwalu. Awgryma'r naratif yn gryf bod y berthynas honno ar chwâl wrth i gyn-wraig Ifan ei ffonio a dweud bod Arnold wedi cael ei gyhuddo o gamdrin bachgen ysgol: '*Somebody's reported him... they say he's been abusing their son... in the school toilets...*'²³⁵

Mae dresel a chloc y cartref yn symbol o etifeddiaeth. Mae pwysigrwydd mawr yn cael ei osod ar y cwestiwn pwy fydd yn cael y dodrefn ar ôl i Ifan a Mair Huws farw. Yn y diwedd mae merch ail wŵr Mair yn eu gwerthu. Mae Arthur yn galaru: 'Cartra'r teulu wedi mynd... y ddresal... y cloc mawr... dyddiaduron fy nhad... rheini'n llawn o hanas y teulu ac o hanas yr ardal.'²³⁶ Fe gafodd y mwyafrif o'r dyddiaduron eu llosgi yn y tân yn nhŷ Huw. Ond mae rhywfaint yn cael eu darganfod gan y gweithwyr Pwyleg sy'n chwalu'r hen gartref. Maent yn penderfynu eu rhoi i'r Llyfrgell Genedlaethol. Yn niwedd y nofel, dyma'r unig beth cadarnhaol y gall y darlennydd gael cysur ynddo.

Mae *Teulu Lòrd Bach* yn nofel sy'n rhoi darlun o fro trwy ddefnyddio hanes un teulu fel symbol o'r fro honno. Mae'n archwilio anghyfiawnderau degawdau cynnar y ganrif ddiwethaf a'r gymdeithas glòs oedd yn ffynnu yno. Mae'r darlun yn cydnabod ffaeleddau'r oes honno, ond mae hefyd yn euog o ddefnyddu'r chwarelwr diwylliedig a'i fro. Wrth i'r nofel ddatblygu mae'r dirywiad yn y gymdeithas a oedd cynt yn cael ei dyrchafu yn ddramatig dros ben. Wedi i'r diwydiant llechi ddod i ben, mae'n rhaid i'r trigolion ddioddef tloidi neu symud i Loegr i chwilio am waith. Mae'r gymdogaeth yn chwalu ac egwyddorion cadarn y chwarelwyr yn angof. Erbyn yr 1990au, does dim ond olion y gymdeithas honno ar ôl. Efallai mai dyma yw'r 'rwbath prin' y mae Arthur yn myfyrio drosto:

²³⁴ Ibid, t. 637.

²³⁵ Ibid, t. 654.

²³⁶ Ibid, t. 596.

'Cau'r chwareli, cau'r atomfa, y to ifanc yn gorfo symud o'ma i chwilio am waith, dim gwaed newydd yn dod i mewn... Mae hi'n hen stori yma. Mae'r dre 'ma'n marw ar ei thraed ers blynyddoedd. Ac eto,' medda fo, fel petai o'n chwilio am gysur, 'mae 'na rwbath prin ar ôl yma o hyd, wyst ti; rhwbath na chei di mo'no fo ym mhob man; rhwbath na allai mo'i egluro'n iawn.'²³⁷

Fel y mae olion y diwydiant llechi yn aros ar y tir, yn rhydu, â gwair yn tyfu drostynt, mae olion cymdeithas y chwarelwyr yn parhau i fod fel cysgod gwan dros eu disgynyddion. Ond mae'r dylanwad hwnnw'n gwanhau gyda phob cenhedlaeth, ac erbyn diwedd y nofel, mae wedi diflannu'n llwyr.

Mae *Ar Lechan Lân* gan Geraint V. Jones yn llawer mwy gwleidyddol ac yn ymwneud â'r chwarel yn fwy uniongyrchol na *Teulu Lòrd Bach*. Mae wedi ei lleoli yn yr 1990au ac o safbwynt OV, newyddiadurwr sy'n gweithio i'r *Gazette* yn Stryd y Fflyd. Mae'n wreiddiol o Ben-y-Dyffryn, sydd eto'n lleoliad sydd yn rhannu nodweddion amlwg gyda Blaenau Ffestiniog. Nid yw'r newyddiadurwr yn gymeriad hoffus, mae'n wrth-Gymreig, yn drahaus ac yn ddiogwyddor. Mae'n cael ei anfon i Ben-y-Dyffryn i ymchwilio i werthiant 'Diffwys Newydd Slate Quarry'. Dyma sut mae'n disgrifio'r ardal yn ei erthygl:

I stepped onto the platform and stared in despair at the bleakness of everything around me. PEN-Y-DYFFRYN, the sign said, as the rain lashed incessantly through the thick mist. People and sheep scurried and splashed through the puddles that dotted the rough and uneven pavement of what could jokingly be referred to as The High Street, while high above, looming in the mist, a barren black rock threatened...²³⁸

Mae'n bortread anffafriol o'r ardal ac yn anffodus yn adleisio ambell erthygl am Gymru yn y papurau Prydeinig. I bwysleisio agwedd wrth-Gymreig OV ymhellach, yn nes ymlaen yn y nofel pan mae'n gweithio i'r *Western Post* mae'n disgrifio'r dref fel, 'A town of narrow-minded monoglots', 'cultural backwater', ac 'a sluggard's paradise.'²³⁹ Yn groes i'r naratif, mae OV yn ddall i rinweddau'r ardal ac yn gor-ddweud y ffaeleddau.

²³⁷ Ibid, t. 563.

²³⁸ Ibid, t. 25.

²³⁹ Ibid, t. 147.

Mae'r *Western Post* yn derbyn cwynion am erthyglau OV ac felly mae'n rhaid iddo ysgrifennu am y chwarel a'r ardal o safbwynt cadarnhaol:

'Dyma gymuned glos, gyfeillgar; cymdeithas sy'n dangos yr un cadernid â'r graig y sefydlwyd hi arni; pobl falch, yn ymhyfrydu yn eu gwreiddiau a'u diwylliant Cymreig a Chymraeg...' Oedd y geiriau'n nawddoglyd? Gwaeth fyth, oedden nhw'n swnio'n ymgreiniol?²⁴⁰

Nid yw OV yn credu ei eiriau ei hun. Ond dyma ddelwedd o fro chwarelyddol sydd yn cael ei hailadrodd yn gyson gan y cyfryngau, delwedd y mae'r bobl yn ymhyfrydu ynddi. Yn anffodus, mae rhywfaint o wirionedd yn safbwynt OV. Mae Pen-y-Dyffryn yn ardal dlawd ac mae'r newyddiadurwr yn sylwi ar y dirywiad ers iddo symud i fyw i Lundain:

Siopa gwag, arwyddion 'Ar Werth'... Darlun digon i godi'r felan ar unrhyw un, meddyliodd. Nid dyma'r cof oedd ganddo am y Stryd Fawr ond am ryw reswm annirnad, dyma'r hyn oedd o wedi 'i ddisgwyl serch hynny.²⁴¹

Mae'n bortread tebyg i'r un a gawn yn *Teulu Lòrd Bach*, sef o dref sydd bellach wedi colli'r galw am siopau a thai. Mae'n rhaid i'r trigolion symud i ffwrdd i chwilio am waith a Saeson yw'r unig rai a all fforddio prynu'r eiddo. Mae'r ffaith nad yw OV wedi cael ei synnu gan y dirywiad hwn yn awgrymu bod pethau wedi bod yn graddol waethygu ym Mhen-y-Dyffryn ers dros ddeugain mlynedd.

Er ei bod wedi ei lleoli yn y cyfnod ôl-ddiwydiannol, mae *Ar Lechan Lân* yn rhoi safbwynt cyfoes o'r diwydiant llechi. Mae chwarelwyr yn parhau i fodoli a'r chwareli'n parhau i weithio:

Mi gafodd y chwarael yma, sef Diffwys Newydd, ei hailagor yn gymharol ddiweddar, ar sbec yn fwy na dim. Cyn hynny, roedd hi wedi bod ar gau ers dechrau'r chwedega.²⁴²

Er bod y nofel wedi ei lleoli yn y chwarel yn yr 1990au, mae yna elfennau traddodiadol a hen-ffasiwn ynglŷn â'r modd y caiff y chwarelwyr eu portreadu.

²⁴⁰ Ibid, t. 158.

²⁴¹ Geraint V. Jones, *Ar Lechan Lân* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 1999), t. 21.

²⁴² Ibid, t. 26.

Maent yn mynd ar streic ac yn adleisio *Chwalfa*, T. Rowland Hughes yn gryf, yn enwedig yn y disgrifiadau o gyfarfodydd y streicwyr. Mae OV yn 'sylwi gymaint gwelwch oedd gwyneb y chwarelwr heddiw a chymaint mwy amlwg y cleisia duon o dan ei lygaid...' ²⁴³ Mae hyn yn adleisio disgrifiadau T. Rowland Hughes o streicwyr yr 1900au:

Ond yn awr gwelai dorf o wynebau o'i flaen, ac ymddangosai pob un yn llym, esgyrniog a llinellog dan y golau a'r cysgodion a daflai'r lampau olew. ²⁴⁴

Er bod y nofel wedi ei lleoli yn y cyfnod ôl-ddiwydiannol, mae cyfochredd cryf rhwng y streicwyr hyn a'r streicwyr ar ddechrau'r ganrif. Mae'r genhedlaeth hon yn parhau i ddioddef anghyfiawnderau oherwydd perchnogion y chwareli.

Tom Roberts yw arweinydd y streicwyr ac mae'n dwyn i gof briodweddau cymeriadau T. Rowland Hughes. Mae'n cael ei ddisgrifio fel merthyr yn y nofel:

Arweinydd didwyll, dirodes y chwarelwyr; gŵr o addysg gyffredin; Cymro Cymraeg naturiol yn brwydro i drafod ac i ddadla achos ei aeloda mewn iaith oedd yn estron iddo; gwerinwr yn herio gwŷr diegwyddor a barus y Ddinas, gwŷr na feddyliai ddwywaith cyn sathru ar y tlawd a'r gonest a'r geirwir. ²⁴⁵

Mae'r disgrifiad yn ddu a gwyn yn ei bortread o'r chwarelwr gonest a'r Sais creulon. Bron nad yw'r nofel hon yn ailadrodd portread T. Rowland Hughes o hanes Streic y Penrhyn yn *Chwalfa* mewn cyd-destun cyfoes. Mae perchennog y chwarel yn cael ei bortreadu fel Sais hunanol sydd wedi bod yn twyllo ei gyfoedion yn Llundain. Wrth i OV ysgrifennu ei erthyglau mae'n datgelu'r gwir am dor-cyfraith y dynion busnes hyn. Dyma frwydr rhwng y da a'r drwg, y Cymro a'r Sais, y tlawd a'r cyfoethog. Mewn gair, dyma adlewyrchiad arall o werthoedd syml T. Rowland Hughes.

Nid yw OV yn poeni llawer o ran egwyddor pwy sy'n ennill y frwydr; mae eisiau ennill clod am ddod â'r stori i olwg y cyfryngau cenedlaethol a dial ar y

²⁴³ Ibid, t. 55.

²⁴⁴ T. Rowland Hughes, *Chwalfa*, t. 286.

²⁴⁵ Geraint V. Jones, *Ar Lechan Lân*, t. 63.

Gazette am ei ddiswyddo. Mae tebygrwydd rhwng brwydr OV i ennill iawndal a'r streicwyr mae'n ysgrifennu amdanynt. Ychwanega'r hanes hwnnw haen arall i'r stori ac nid yw OV yn gallu gweld bod chwarelwyr ond eisiau'r un hawliau ag sydd gan ddiwydiannau eraill. Chwarae'r nofel gydag eironi wrth i OV dderbyn dros £70,000 trwy undeb y newyddiadurwyr a'r chwarelwyr yn brwydro'n galed i gael £500.

Mae cyferbyniadau cyson rhwng y ffordd y mae OV yn gweld y diwydiant llechi a'r ardal a'r ffordd y mae'r trigolion yn eu gweld. Pan fo rhywun yn esbonio wrtho ei bod hi'n bwysig rhoi swyddi i fechgyn lleol am fod ganddyn nhw sgiliau traddodiadol, mae OV yn myfyrio:

Trodd OV draw a gwenu i'r niwl. Sgilia? Oedd y George Parry 'ma yn trio creu argraff 'ta be? Pa blydi sgilia oedd eu hangen i dynnu llechi allan o dwll yn y graig? Ond dyna fo, roedd 'na ryw ddelwedd ramantus wedi bod erioed am chwarelwyr diwylliedig. Sgilia? Diwylliant? Uffar dân! Yn y chwarel oedd ei dad, Johnny Rhyd Sarn, wedi gweithio ar hyd ei oes a doedd dim mwy o ddiwylliant ym mhen hwnnw nag a oedd 'na ym mlaen cynffon un o'r defaid gwirion oedd yn crwydro strydoedd y dre 'ma.²⁴⁶

Trwy ddiystyru pwysigrwydd y chwarel i'r fro, mae OV yn dangos ei anwybodaeth am y diwydiant a'i sinigiaeth am ddiwylliant y chwarelwyr. Mae'n mynegi ei safbwynt wrth Tom Roberts, y chwarelwr diwylliedig ac arweinydd y dynion ar streic. Mae hwnnw'n dadlau bod ei gydweithwyr yn ddyinion diwylliedig:

Mae o'n perthyn i gwmni drama ac, fel fi, yn aelod o'r Gymdeithas Hanas a'r Gymdeithas Lenyddol sy'n cyfarfod bob mis. Mae tri o'r hogia ifanc oedd yn y cyfarfod 'na gynna yn perthyn i seindorf yr *Inter-quarry*, yn mynd i ymarfar unwaith yr wythnos ac yn teithio hyd a lled y wlad 'ma i gystadlaetha ac i gyngherdda. Ar ben hynny mae un ohonyn nhw, Gari, wedi cymryd arno'i hun i hyfforddi tîm pêl-droed o hogia dan ddeuddag oed. Ys gwn i be mae llancia ifanc o'r un oed â fo yn neud tua Llundain 'na? Mynd i'r opera mae'n debyg.²⁴⁷

²⁴⁶ Ibid, t. 27.

²⁴⁷ Ibid, t. 149.

Mae Tom Roberts yn ymfalchïo yn ei gyd-chwarelwyr ac yn herio barn OV eu bod yn weithwyr cyffredin. Mae safbwyntiau'r ddau yn ddau begwn ar wahân, fel y ceir yn y nofel hon. Efallai bod llygedyn o wirionedd yn y ffordd y mae OV yn gweld tloidi'r ardal, ond mae'r naratif ym awgrymu'n gryf mai safbwynt Tom Roberts sydd gywiraf.

Mae *Ar Lechan Lân* felly yn cyfleu neges lawer mwy cadarnhaol ar ddiwedd y nofel na *Teulu Lòrd Bach*. Yn wahanol i ddiwedd *Teulu Lòrd Bach*, mae'r chwarelwr diwylliedig yn parhau i fodoli yma, a'i ddiwydiant mor fyw ag erioed. Yn wir, mae sawl chwarel yn parhau i weithio ym Mhen-y-Dyffryn. Er bod y fro yn dioddef o ddiweithdra, y siopau'n cau a'r tai ar werth, a'r mewnlifiad o'r tu hwnt i Glawdd Offa, mae'r naws arbennig honno roedd Arthur yn ei disgrifio yn *Teulu Lòrd Bach* yn weladwy ac yn ffynnu. Mae yna ddeuliaeth ym mhortread Geraint V. Jones o'r bröydd. Ar un llaw mae'n canmol y gymdeithas ac yn delfrydu ei diwylliant, ond ar y llaw arall mae'n anobeithio wrth i effeithiau tloidi erydu'r dref a moesoldeb y trigolion. Mae'r awdur yn pegynnu rhwng y ddau safbwynt yma trwy'r ddwy nofel ac efallai bod hynny'n adlewyrchu ansefydlogrwydd presennol y bröydd chwarelyddol.

Jerry Hunter

Mae *Gwreiddyn Chwerw* wedi ei lleoli mewn bro chwarelyddol yn nechrau'r ugeinfed ganrif. Mae'r nofel wedi ei hysgrifennu o safbwynt gwraig wrth iddi adrodd hanes ei deulu a'i fagwraeth wrth ei mab, Asa. Caiff taid Asa ei bortreadu fel ymgorfforiad o'r chwarelwr diwylliedig. Llyfrau yw ei drysor ac mae wedi ei addysgu ei hun trwyddynt:

Tyddynnwr tlawd a chwarelwr oedd o o ran ei gefndir, un na chawsai fanteision addysg ffurfiol mwy na thyddynwyr a chwarelwyr eraill yr ardal, ond eto'n gwybod mwy am y byd mawr y tu hwnt i'r mynyddoedd na neb arall roeddwn i'n ei nabod. Neb, ar wahân i Mrs Rowlands.²⁴⁸

²⁴⁸ Jerry Hunter, *Gwreiddyn Chwerw* (Pwllheli: Gwasg Gwynedd, 2012), tt. 21-2.

Ymddengys tad Mari yn ffigwr ystrydebol yn nechrau'r nofel; yn ddiwylliedig a chydwybodol. Mae'n adrodd chwedlau o bob cwr o'r byd ac yn hyddysg yn ei Feibl, er nad yw'n mynychu'r capel. Mae rhagrith capelwyr yn thema gyffredin yn ffuglen y bröydd chwarelyddol, ac yn enwedig mewn nofelau hanes fel hon.

Ond wrth i'r nofel ddatblygu, daw'r portread o'r tad yn llai a llai ystrydebol wrth i'r cymeriad ymwrthod â phatrymau cymdeithasol yr oes. Mae eisiau bod yn arddwr:

Felly, pan glywodd Nhad fod Mrs Rowlands wedi symud i Blas Uchaf a'i bod hi'n chwilio am arddwr, gwelodd ei gyfle. A dyna oedd ei waith wedyn: trodd ei gefn ar y chwarel a dod yn arddwr Plas Uchaf.²⁴⁹

Mae cyferbyniadau cyson yn y nofel rhwng ei yrfa fel chwarelwr ac fel garddwr, yn enwedig wedi iddo golli ei waith. Mae rhwystredigaeth y tad yn cael ei gyfleu'n gelfydd wrth iddo aberthu ei drysorau er mwyn dal gafael ar ei ryddid o'r chwarel:

Dywedai rhai dynion eraill y câi Nhad fynd yn ôl i'r chwarel unrhywbryd, gan fod ganddo enw o hyd fel un oedd yn eithriadol o dda gyda'i ddwylo ac yn gydwybodol iawn yn ei waith. Awgrymwn innau'r un peth pan fyddai'n neilltuol o fain arnom – pan ddeuai Nhad adref ar noson rewlyd o aeaf, yn llwglyd ac yn flinedig ac yn ddigalon ar ôl diwrnod di-fudd arall o chwilio'n ofer am waith.

'Fedra i ddim, Mari. Garddwr ydw i. Planhigion a choed ydi 'mhetha i, nid llechi a llwch. Dydi o ddim yn 'yn natur i bellach.'

Yn hytrach nag ildio a mynd i holi am waith yn y chwarel, byddai'n penderfynu gwerthu un o'r llyfrau cain.²⁵⁰

Dyma bortread o chwarelwr confensiynol i raddau; mae'n ddarllenwr brwd, yn grefyddol, yn alluog a gweithgar. Ond er ei fod yn adlewyrchiad o fyth y chwarelwr diwylliedig, wrth iddo wrthod fynd yn ôl i weithio'n y chwarel, nid yw'n bortread mor ystrydebol ag yr ymddangosai ar yr wyneb.

Mae Mari yn prifio ac yn priodi chwarelwr. Ond nid yw'r chwarelwr hwn fel ei thad. Mae Tomos yn ddyn creulon a geisiodd orfodi Mari i adael eu mab

²⁴⁹ Ibid, t. 22.

²⁵⁰ Ibid, t. 78.

anabl i farw ar noson ei eni. Mae hi felly'n cenfigennu wrth weld agosatrwydd y tad a'r mab wedi iddo dyfu:

Byddwn yn ymhyfrydu yn ymadawiad dy dad am y chwarel, a'r ymwybod cynnes, braf hwnnw y byddet yn fy ngofal i wedyn nes y byddech chi'ch dau'n mynd i gysgu eto'r noson honno.²⁵¹

Tra mae'r chwarel yn symbol o farwolaeth mewn nifer o nofelau, yn enwedig nofelau Eigr Lewis Roberts, mae'r bygythiad i fywyd ei gŵr yn gysur i Mari. Mae'r naratif yn cyfleu ei chasineb yn gelfydd. Roedd Tomos wedi gobeithio cael mab i weithio gydag ef yn y chwarel, ond mae anabledd Asa yn golygu nad yw'n medru gwneud gwaith corfforol. Mae Mari yn ymfalchïo yn niddordeb Asa mewn planhigion ac yn ei hatgoffa o'i thad a'i mentor, Mrs Rowlands.

Mae *Gwreiddyn Chwerw* yn cyfeirio'n anuniongyrchol at lenyddiaeth sy'n ei rhagflaenu. Mae'r ymdriniaeth o stiward y chwarel yn datgelu llawer am safbwynt yr awdur:

Y plentyn olaf i'th bryfocio ynglŷn â dy gefn – o leiaf, yr olaf i mi wybod amdano – oedd Albert, mab y stiward. [...]Gwyddwn yr ofnai dy dad y câi drafferth gan y stiward yn y chwarel, ond soniodd o 'run gair am ei bryder wrtha i. Ddywedodd y Stiward ddim gair am y peth, chwaith; o leiaf, ddim i mi wybod. Mae'n bosibl nad oedd gan ei fab yr wyneb i ddeud ei fod wedi cael cweir gan hogan flwyddyn yn iau nag o. Mae hefyd yn bosibl fod y stiward yn decach dyn na'r hyn a honnai rhai pobl.²⁵²

Trwy gynnig dau bosibilrwydd mae Jerry Hunter yn agor y nofel i ddehongliadau. Mae hefyd yn cynnig dau bortread cyferbyniol o chwarelwyr trwy gyfrwng y tad a'r gŵr. Dyma gydnabyddiaeth efallai nad yw gwirionedd cymdeithas y bröydd chwarelyddol mor ddu a gwyn ag y mae gweithiau eraill yn ei awgrymu.

Mae Tomos yn marw o effaith y llwch ar ei ysgyfaint: 'Roedd yn ddyn cydnerth, ond eto roedd y blynyddoedd wedi deud arno.'²⁵³ Mae'r dirywiad ynddo yn adlewyrchiad o effaith angheuol y chwarel. Nid oes unrhyw ramantiaeth am y chwarel ei hun yn y nofel hon. Mae tad Mari yn mynd i eithafon

²⁵¹ Ibid, t. 103.

²⁵² Ibid, t. 100.

²⁵³ Ibid, t. 130.

i osgoi dychwelyd yno ac mae Tomos yn marw o lid yr ysgyfaint. Nid oes unrhyw gyfeiriadau ychwaith at ddiwylliant y gymdeithas na'r chwarelwyr. Mae rhai unigolion fel tad Mari a Mrs Rowlands yn ddiwylliedig a deallus, ond awgrymir mai hwy yw eithriadau'r gymdeithas hon. Ceir yr argraff bod cymeriad Tomos yn adlewyrchiad llawer mwy cyffredin o'r ardal. Mae portread *Gwreiddyn Chwerw* o fro chwarelyddol felly'n herio ystrydebau gweithiau blaenorol ac yn cynnig dehongliad cytbwys o fywyd a gwaith chwarelwyr trwy bortreadu dau gymeriad cyferbyniol.

Twm Miall

Mae'r gyfres *Cyw Haul* yn dilyn helyntion Bleddyn, bachgen ifanc sy'n byw yn Llan Ffestiniog. Mae'r nofelau, *Cyw Haul* a *Cyw Dôl*, yn portreadu sawl rhan o'r gymdeithas chwarelyddol hon gyda rhai cymeriadau crefyddol, parchus a rhai ar ymylon y gymdeithas yn byw yn eu ffordd eu hunain. Yn wahanol i bortreadau cynharach gan Eigr Lewis Roberts a T. Rowland Hughes yn enwedig, nid yw'r nofelau yn feirniadol o gymeriadau sy'n yfed neu'n torri'r gyfraith. Yn wir, mae nofelau Twm Miall yn dathlu'r bobl amgen yn hytrach na'r rhai sy'n dilyn confensiwn a disgwyliadau'r gymdeithas. Dyma drobwynt yn llenyddiaeth y bröydd chwarelyddol, dyma fro chwarelyddol gyda chymeriadau sy'n gymysg o rinweddau a ffaeleddau.

Yn yr ail nofel, *Cyw Dôl*, mae Bleddyn yn byw yng Nghaerdydd. Mae'r portread hwnnw hefyd yn gytbwys yn yr ystyr ei fod yn cydnabod ffaeleddau pob rhan o'r gymdeithas. Mae yma bobl dlawd yn ddibynnol ar fudd-daliadau sydd yn gor-yfed, cymryd cyffuriau, yn cael rhyw achlysurol ac yn dal afiechydon rhywiol. Mae'r nofel hefyd yn portreadu pobl gyfoethog Caerdydd, dynes ffug-grefyddol, ffug-barchus sydd yn gas gyda'i mam ac wedi priodi ei gŵr am ei gyfoeth. Ond mae Twm Miall yn cadw cydbwysedd ac nid yw'n gorbwysleisio ffaeleddau un rhan o'r gymdeithas yn fwy na'r llall. Mae Bleddyn fel petai'n cael ei ddal mewn tir canol rhwng eithafion ac nid yw'n rhan gyflawn o'r un garfan.

Mae *Cyw Haul* a *Cyw Dôl* yn dyrchafu bywyd amgen i'r gymdeithas Gymraeg draddodiadol. Caiff Yncl Dic ei ddefnyddio fel symbol o'r alltud

annibynnol. Dywed Bleddyn am Yncl Dic a'i ffrindiau, Dei a Huwsyn, 'y cyfan maen nhw'n ei wneud ydi byw yn syml yn eu ffordd eu hunain, heb ddim trimings - dyna'r cyfan.'²⁵⁴ Yncl Dic yw'r cymeriad mwyaf diwylliedig yn y ddwy nofel ac mae'n aml yn dyfynnu barddoniaeth, dywediadau a jôcs. Caiff ei bortreadu fel athro, fel llais rheswm ynghanol cymdeithas glòs, ragrithiol. Mae rhagrith y capel a phobl ffug-barchus y gymdeithas, boed yng Nghaerdydd neu Lan Ffestiniog, yn gwneud bywyd yn anodd i Bleddyn sydd eisiau bodoli yn rhydd o'r cymhlethdodau sy'n cael eu gorfodi arno, fel ei Yncl Dic.

Mewn cyfweliad yn *Golwg*, eglurodd Twm Miall y pwysau sy'n gwasgu Bleddyn:

Nid y pwysau o'r capeli yn uniongyrchol ond yr hen bwysau Cymreig, felly'n de - bod rhaid ichdi... wsti, mae 'na ryw barchusrwydd yn y Cymry, yn does? Mae rhaid iti gael job, mae rhaid iti ymddwyn fatha pawb arall. Does 'na ddim llawer o le i neb fod yn wahanol, nacoës, yn enwedig yng nghefn gwlad. Ac os oedd rhywun ychydig yn wahanol oeddau nhw'n edrych arno fo fel rhywun oedd yn blydi hurt.²⁵⁵

Yn y nofelau does dim canlyniad erchyll i fod yn wahanol, nid oes neb yn cael eu halltudio na'u cosbi. Caiff Yncl Dic ei ddefnyddio i gyfleu'r unigolyn 'gwahanol' yn y gymdeithas draddodiadol Gymreig hon. Prif ganlyniad ei statws yw mai Bleddyn yw'r unig un o'r teulu sydd â pherthynas gydag ef a hynny heb yn wybod i'w dad. Er bod y nofel yn cyfeirio'n barhaus at y pwysau sydd ar Bleddyn i gydymffurfio, yr unig ganlyniad fyddai'n dod ohono'n peidio â dilyn y drefn yw y byddai'n siomi ei rieni. Yn wahanol i'r gymdeithas yn *Un Nos Ola Leuad* sydd yn gwrthod rhoi cymun i ferch ifanc feichiog, mae'r gymdeithas hon yn weddol ddof o'i gymharu.

Mae gan grefydd le blaenllaw yn y gymdeithas ac mae'r modd y caiff y gweinidog ei bortreadu yn cyfleu atgasedd Bleddyn tuag at gydymffurfiaeth. Mae'n rhaid i Bleddyn ddarllen *O Law i Law* gan T. Rowland Hughes ar gyfer cystadleuaeth yn y capel. Mae'n dyfynnu barn ei ewythr am nofelau T. Rowland Hughes: 'Rybish sentimental ydyn nhw, yn ôl Yncl Dic, ac maen nhw wedi

²⁵⁴ Twm Miall, *Cyw Haul* (Talybont: Y Lolfa, 1988), t. 29.

²⁵⁵ Twm Miall mewn cyfweliad, 'Nofel i Hogia'r Werin' yn *Golwg* (Cyfrol 1, Rhif 13, Rhagfyr 1988), t. 19.

gwneud mwy o ddrwg nag o les i'n datblygiad ni fel cenedl, medda fo.²⁵⁶ Mae Yncl Dic yn wrthbwynt llwyr i'r gweinidog sy'n canmol gweithiau T. Rowland Hughes. Tra mae un yn pregethu cydymffurfiaeth, mae'r llall yn dysgu rhinweddau'r bywyd syml ac yn herio confensiwn. Ymddengys fod Bleddyn wedi etifeddu ychydig o agwedd wrthryfelgar ei ewythr wrth iddo ymwrthod â gwerthoedd rhwystredig y capel.

Mae *Cyw Haul* yn cyfeirio'n aml at lenyddiaeth y bröydd chwarelyddol. Mae T. Rowland Hughes a Kate Roberts (yn fwy anuniongyrchol) yn cael eu gosod fel gwrthbwynt i athrylith Caradog Prichard. Yn wir, mewn un man mae Bleddyn yn cwyno am y nofel Gymraeg draddodiadol ac mae'n werth dyfynnu ei farn yn ei chyfanrwydd:

Maen nhw un ai'n sôn am ryw deulu bach sy'n byw ar ochr y mynydd - y plant yn hanner llwgu, y tad yn marw oherwydd llwch ac yn lladd ei hun am chwe-chein yn y chwarel, a'r fam yn ddewr ac yn hambygio ei hun wrth blannu swêj yn y cae pan mae ganddi hi funud i'w sbario yng nghanol yr holl jobsys. Yn aml iawn hefyd, mae'n nhw'n sôn am ryw hen ddynas gysetlyd sy'n rhoi lliain bwrdd glân ar y bwrdd, ac yn gwneud tê iddi hi ei hun a'r gath, oherwydd ei bod hi'n dipresd am nad ydi ei ffrind gorau hi – rhyw hen ddynas arall - wedi galw i'w gweld oherwydd ei bod hi wedi mynd i siopa i'r dre efo rhyw ddynas ddiarth ddaeth i fyw i'r pentra. Mae hi'n rhoi y llestri tsheina a gafodd hi pan briododd hi ar y bwrdd, ac yn dechrau crio wrth feddwl am ei gŵr, wedyn mae hi'n sgoffio sandwîj-sbynj a brechdanau wedi eu torri'n denau 'run fath â papur-sychu-tin, efo menyn cartra ych-a-fi, wedi ei sbredio'n dew drostyn nhw. Pan mae hi ar fin gorffen ei the, mae perchennog y tŷ yn galw yno i gwyno am nad ydi hi wedi talu'r rhent ers wythnosau. Does ganddi ddim pres oherwydd ei bod hi wedi colli arni ei hun ryw bnawn, ac wedi prynu ffyr-côt newydd sbon, am fod gan yr hen ddynas ddiarth 'na un. Mae'r boi yn bygwth ei hel hi o'r tŷ os nad fydd hi'n talu'n reit sydyn, ond mae hi'n dweud nad aiff hi oddi yno tan y diwrnod pan fydd hi'n mynd at ei gŵr i'r nefoedd.²⁵⁷

Mae'r dyfyniad hwn yn adleisio sawl nofel Gymraeg ond credaf fod yr awdur yn cyfeirio'n benodol at Kate Roberts. Mae'n pwysleisio ystrydebau'r stori honno sydd wedi cael ei hefelychu sawl gwaith dros y blynyddoedd. Ysgrifennodd Vaughan Hughes adolygiad ar gyfer *Llais Llyfrau*:

²⁵⁶ Twm Miall, *Cyw Haul*, t. 46.

²⁵⁷ *Ibid*, tt. 28-29.

Yn gam neu'n gymwys teimlais nad Bleddyn ddi-waith oedd yn bwrw ei lid ar y capel ac ar y gymdeithas ond yr awdur ei hun. Meddyliais ar un adeg mai ei fwriad oedd dychanu gweithiau llenorion Cymreig eraill a pharodio'r teipiau sydd i'w cael yn y nofel *Gymraeg*.²⁵⁸

Efallai bod elfen felly i'r gwaith wrth i Miall gyfeirio at weithiau Kate Roberts a T. Rowland Hughes, ond credaf mai creu comedi yn hytrach na dychanu yw ei fwriad. Mae *Cyw Haul* yn ei gosod ei hun o fewn traddodiad llenyddol y bröydd chwarelyddol wrth gyfeirio at y nofelau hyn ac wrth efelychu Caradog Prichard.

Yn wir mae *Un Nos Ola Leuad* yn ddylanwad enfawr ar y nofel hon. Ceir sawl cyfeiriad uniongyrchol ac anuniongyrchol ati. Unwaith eto defnyddia Twm Miall lais Yncl Dic i gyfleu gwirioneddau anffafriol am y Cymry:

Doedden ni ddim yn darllen llyfrau Cymraeg yn aml iawn oherwydd fod y rhan fwyaf ohonyn nhw'n boring heblaw am *Un Nos Ola Leuad*, gan foi o'r enw Caradog Prichard. Mae Yncl Dic yn gwybod lot am y Caradog Prichard 'ma, ac mae o'n dweud na chafodd o fawr o barch gan y Cymry oherwydd eu bod nhw'n rhy dwp ac yn methu deall ei waith o.²⁵⁹

Yr hyn sy'n debyg rhwng *Cyw Haul* ac *Un Nos Ola Leuad* yw'r dafodiaith gref, y disgrifiadau o unigolion yn y gymdeithas a llais y prif gymeriad sydd yn gyfuniad o ddiniweidrwydd a dylanwadau tywyll (er bod y rhain hefyd yn llawer ysgafnach yma). Mae hiwmor llawer mwy blaenllaw yn *Cyw Haul* ac mae'r stori'n syml.

Wrth i Bleddyn ganmol *Un Nos Ola Leuad*, mae hefyd yn gweld tebygrwydd i'r nofel yn ei fro ei hun. Boed hynny'n ymgais fwriadol gan yr awdur ai peidio, gall yn sicr gael ei ddehongli fel cyfeiriad anuniongyrchol at y gymdeithas honno:

Roedd yno ambell i dŷ fel cwt mochyn, ac roedd yna ddau neu dri o nytars yn cerddad yn rhydd o gwmpas y lle nad oeddau nhw ddim yn ffit i fod allan o'r Seilam. Roedd yna ddynion yn dŵad allan o'r pybs am dri o'r gloch y prynhawn, yn pisd allan o'u pennau ac yn gweiddi abiws arna ni

²⁵⁸ Vaughan Hughes, 'Adolygiad o *Cyw Haul*' yn *Llais Llyfrau* (Gwanwyn 1989) (Llandysul: Gwasg Gomer, 1989), t. 18.

²⁵⁹ Twm Miall, *Cyw Haul*, t. 15.

ac ar eu gwagedd a'u plant, ac roedd y copars neu'r beliffs yn cnocio drws rhywun neu'i gilydd bron bob dydd o'r wythnos.²⁶⁰

Dyma adlais pendant o themâu *Un Nos Ola Leuad*, gwallgofrwydd, trais ac ochr dywyll cymdeithas. Mae sawl haen i fywyd y fro ac mae'r dyfyniad uchod yn disgrifio stad o dai cyngor. Ond efallai, yn yr olygfa hon, fod Twm Miall hefyd yn euog o hollti Buchedd A a Buchedd B ac o beidio portreadu cymdeithas amlochrog gyflawn.

Mae'r cyfeiriadau at lenyddiaeth y bröydd chwarelyddol yn rhoi mwy o ddyfnder ac elfen o agosatrwydd plwyfol i'r nofelau. Maent yn llawn hiwmor wrth ddisgrifio diwylliant y bröydd chwarelyddol:

Ond doeddwn i ddim yn gwybod fawr ddim am 'ein llên' na Rowland Hughes na'i 'hen wraig', ac roeddwn i wastad o dan yr argraff ma 'Hogia'r Wyddfa' oedd wedi sgwennu 'Mi wellaf pan ddaw'r Gwanwyn,' ac mi gefais i dipyn o sioc wrth ddarganfod mai rip-off-myrtshants oedd hogia hen bentra bach Llanbêr.²⁶¹

Mae'r hiwmor bron yn gynhenid o'r bröydd chwarelyddol fel y gerddoriaeth y mae'n cyfeirio ati. Yn *Cyw Dôl* mae'n defnyddio Hogia Llandygái i gyfleu hiraeth:

Ro'n i'n teimlo'n reit dipresd wrth gerddad am Glyn Rhondda Street, ac ro'n i'n clywed yr hen gân 'na gen Hogia Llandygái yn mynd rownd a rownd yn fy mhen i: 'Fedrwch chi ddim byw ar bres y dôl, fedrwch chi ddim byw ar bres y dôl, fedrwch chi ddim byw ar bres y dôl, mae hynny'n beth go ffôl...' Ond wedyn mi ddechreuais i chwerthin pan gofiais i am yr hen foi 'na oedd yn gwisgo'r un fath â ffarmwr, ac yn chwibianu pan oeddau nhw'n canu 'Defaid William Morgan.' Roedd hwnnw'n ddiawl o beiriant. Rhai da oedd yr Hogia.²⁶²

Mae cefndir chwarelyddol pendant iawn i'r nofelau wrth gyfeirio at ddiwylliant. Wrth ddisgrifio gweithiau llenorion fel T. Rowland Hughes a Caradog Prichard, a dyfynnu cerddoriaeth enwog y bröydd, mae Twm Miall yn cyfoethogi'r nofelau,

²⁶⁰ Ibid, t. 114.

²⁶¹ Ibid, t. 46.

²⁶² Twm Miall, *Cyw Dôl* (Talybont: Y Lolfa, 1990), t. 28.

yn cyfleu'r berthynas rhwng y gwahanol fröydd chwarelyddol ac yn ychwanegu elfen blwyfol i'r nofel.

Mae ewythr arall i Bleddyn, Yncl Glyn, yn gyn-chwarelwr ac yn hiraethu am y chwarel:

Roedd o'n hen foi difyr iawn ac roedd ganddo fo lot o straeon a jôcs amdano fo a'i ffrindiau pan oedd o'n gweithio yn y chwaraal ers talwm, ond mi ddechreuais i fynd yn ffed-yp pan ddaru o ddechra sôn am Lebyr a lladd ar Blaid Cymru.²⁶³

Mae'n chwarelwr traddodiadol yn ôl ei wleidyddiaeth a'i straeon. Ond yn wahanol i bortreadau cynharach, mae'r chwarel wedi cau ac Yncl Glyn wedi cael trawiad ar ei galon ac yn wan. Bron nad ydyw ei wraig gyntaf yn symbol o draddodiadau'r chwarel:

Mi ddechreuodd Yncl Glyn sôn am y swpar chwaraal bendigedig roedd ei wraig gyntaf o yn ei wneud iddo fo, ac roedd o'n codi awydd bwyd mawr a thipyn o hiraeth am adra arna i, ond mi ddywedodd Anti Dil wrtho fo am beidio ag ypsetio ei hun wrth feddwl amdani hi.²⁶⁴

Mae ei wraig bresennol, Anti Dil, yn gyferbyniad llwyr i'w wraig gyntaf. Caiff hyn ei amlygu trwy ei choginio sydd yn seimllyd ac afiach. Efallai bod Yncl Glyn yn rhamantu ei wraig gyntaf a'r chwarel ond mae'n sicr yn well na'i stâd bresennol, yn ddibynnol ar dabledi a'i wraig sydd yn ceisio cael rhyw gyda'i hŵyr. Awgryma'r nofel felly fod rhyw wacter ar ôl y chwarel trwy'r diffyg swyddi a'r diflastod parhaus sy'n cael ei gyfleu yn hynod o effeithiol.

Mae Bleddyn yn treulio'r rhan fwyaf o'r nofel yn cwyno am yr ardal, y diflastod, a'r tlodi. Mae'n gweld Caerdydd fel man gwyn fan draw, y lle i fod. Ond unwaith y mae'n cael caniatâd gan ei rieni i symyd i fyw i Gaerdydd, mae ei lygaid yn agor am y tro cyntaf i harddwch ei fro:

Mi ddechreuais i grwydro'n aml, ar fy mhen fy hun, i lawr at yr afon, ac i fyni i'r Graig Wen. Roeddwn i'n teimlo fel dyn a oedd newydd glywed ei fod yn dioddef o ryw afiechyd angeuol: eisiau dengid oddi wrth y boen a'r

²⁶³ Twm Miall, *Cyw Haul*, tt. 160-1.

²⁶⁴ *Ibid*, t. 161.

dioddefaint, ond eto, am ryw reswm anesboniadwy, yn mynnu cael crwydro'r filltir sgwâr, a hel atgofion, a rhamantu. Roedd gan ddaear y fro ei swyn arbennig a doedd hi ddim yn fodlon rhyddhau neb ar chwarae bach. Wnes i erioed sylwi pa mor dlws oedd yr ardal tan yr wythnos honno. Piti ar y diawl fod yna ryw bobol bach granclyd, ryfedd, wedi codi eu tai yno, ac anharddu'r lle. Roedd y dail yn newid eu lliw, doedd yna ddim Saeson yn crwydro ar hyd y fan ac roedd hi'n dawel fel y bedd. Roedd swm yr afon yn dweud y stori i gyd; roedd hi'n gwybod fy hanes i yn well na neb, ac wedi bod yn dyst i lawer i berfformans ar lwyfan y dorlan, ond doedd hi erioed wedi fy nghondemio. Petawn i wedi cael y cyfle i fyw yn y ffordd roeddwn i eisiau byw, yna mae'n debyg na fuaswn i eisiau ymadael.²⁶⁵

Mae sawl pwynt diddorol yn codi yn y dyfyniad hwn. Mae'n cyfleu ysfa Bleddyn i adael gyda'r gymhariaeth â dyn yn dioddef o afiechyd angeuol. Ond hefyd fel rhywun ar drothwy angau, mae Bleddyn yn dechrau rhamantu am ei filltir sgwâr, yn dysgu amdani a sylwi arni'n iawn am y tro cyntaf. Mae gan y tir a'r afon ymwybyddiaeth a phŵer dros y trigolion. Ond, nid yw pobl yr ardal yn gynhenid; yn hytrach mae trigolion *Cyw Haul* wedi eu plannu eu hunain yno a difetha'r olygfa. Yn y dyfyniad hwn unwaith eto mae Twm Miall yn pwysleisio'r angen am y rhyddid i fyw fel unigolyn yn hytrach nag fel rhan o'r gymdeithas.

Yn wir, nid yw'r gymdeithas yn *Cyw Haul* yn cynnig awyrgylch lle y gall berson ffynnu a thyfu. Cydymffurfiaeth yw blaenoriaeth y gymdeithas hon, ac nid yw hynny yn dod yn hawdd i Bleddyn. Iddo ef mae Caerdydd yn cynrychioli'r rhyddid y mae'n awchu amdano, rhywle lle caiff wneud fel y mynno. Er ei fod yn datgelu ei fod wedi cael ei arestio gwpl o weithiau am weithredu dros yr iaith Gymraeg, pan mae'n dod ar draws criw Cymdeithas yr Iaith yng Nghaerdydd, does gan Bleddyn ddim diddordeb mewn cymryd rhan. Mae gan bobl Caerdydd agwedd ddilornus at y Gymraeg: 'That Welsh Language Society crowd should be hung.'²⁶⁶ Er bod eu hagwedd yn ei wylltio nid yw Bleddyn yn ymgyrchu na cheisio'u haddysgu. Yn ddiweddarach yn y nofel mae Bleddyn yn mynd yn ôl i swyddfa'r post lle roedd Cymdeithas yr Iaith yn ymgyrchu ac yn taflu taflenni uniaith Saesneg ar y llawr. Mae'n well ganddo wneud popeth yn ei ffordd ei hun a does dim byd gwaeth i Bleddyn na bod yn rhan o unrhyw gymdeithas.

²⁶⁵ Ibid, t. 181.

²⁶⁶ Twm Miall, *Cyw Dôl*, t. 30.

Yng Nghaerdydd mae'n dysgu nad yw'r lle mor berffaith ag yr oedd wedi ei ddychmygu. Mae'n wynebu un siom ar ôl y llall o'r eiliad mae'n cyrraedd. Does dim fel yr oedd wedi breuddwydio:

Roedd y lle dól o dan ei sang, a dynion a merchaid yn gweiddi a rhegi'r bobol oedd y tu ôl i'r cowntar. Rhyw le tebyg i hwn ydi uffarn, medda fi wrtha fi'n hun. [...] Iesu, roedd hi'n dipresing yno. Roedd lle dól adra fel Ysgol Sul i gymharu â'r lle yma.²⁶⁷

Mae'n dechrau hiraethu am adref cyn gynted ag y mae'n cyrraedd. Er nad oes cymdeithas glòs yng Nghaerdydd, sef yr union beth yr oedd o'n ceisio ei osgoi, mae'n gweld eisiau hynny yn y diwedd. Nid yw bro ei febyd byth yn llwyr adael Bleddyn: 'Mi gefais i sioc pan welais i'r stryd. Roeddau nhw'n dai mawr, posh-run fath â tai manijyrs chwaraal.'²⁶⁸ Mae'n crwydro Caerdydd ond yn gweld Llan Ffestiniog.

Tra mae'r nofel gyntaf yn cyfleu diflastod byw yn y wlad, mae *Cyw Dól* yn cyfleu mor unig yw bywyd mewn dinas. Er ei fod yn cwyno trwy *Cyw Haul* am gymuned Llan Ffestiniog, erbyn y nofel hon mae'n hiraethu amdani:

Ond ro'n i'n gwbod rywsut nad oedd 'na ddim dyfodol i mi yng Nghaerdydd. Doeddwn i ddim yn gwbod lle oedd fy nyfodol i. Roedd genna i hiraeth am bawb adra rŵan, wrth weld y dagra yn llygid yr hen wraig.²⁶⁹

Mae'r fro wedi dal ei gafael ynddo er i Bleddyn geisio dianc rhagddi. Mae'r dyfyniad uchod yn cyfleu'r ddeuoliaeth yn nheimladau Bleddyn at ei ardal. Yno mae ei wreiddiau, ei deulu, ei ffrindiau, ond eto mae'r ysfaf i ddianc o'r lle yn gryf ar yr un pryd. Mae'r diflastod a gafodd ei gyfleu mor gelfydd yn *Cyw Haul* yn atgof byw ac mae Bleddyn yn gorfod wynebu'r ofn y byddai'n dychwelyd adref ac yn ailymuno â'r gymdeithas mae wedi bod yn cwyno cymaint amdani.

Yn niwedd *Cyw Dól* mae Bleddyn yn gadael am Lan Ffestiniog gan gyhoeddi mai 'dymp oedd Caerdydd.'²⁷⁰ Ym mrolant y llyfr mae'n dweud: 'Y

²⁶⁷ Ibid, t. 26.

²⁶⁸ Ibid, t. 150.

²⁶⁹ Ibid, t. 159.

²⁷⁰ Ibid, t. 180.

nofel hon yw'r ail o gyfres o dair.²⁷¹ Ond nid yw'r drydedd nofel wedi cael ei chyhoeddi. Efallai bod hyn oherwydd bod elfen hunan-gofiannol i'r llyfrau a'r awdur wedi aros yng Nghaerdydd.²⁷² Teimlaf fod hanes Bleddyn yn anghyflawn ac mae *Cyw Dôl* yn gorffen gyda'r addewid o nofel arall. Mae'n siom nad yw'r nofel honno wedi ymddangos eto, ond y gwir yw bod *Cyw Haul* wedi cael ei throsi ar gyfer y teledu ac mae bywydau'r cymeriadau wedi datblygu gyda phob cyfres yn hytrach na chyda'r nofel nesaf. Byddaf yn trafod yr addasiad ar gyfer y sgrin fach yn yr adran am ddramâu teledu.

Cyw Haul oedd un o'r camau cyntaf tuag at bortreadu bro chwarelyddol gyfoes yn y cyfnod ôl-ddiwydiannol. Mae'r cyn-chwarelwyr yn hiraethu am oes a fu a'r bechgyn ifanc yn ddi-waith mewn cymdeithas sy'n parhau i fod yn glòs, a Chymreig. Ond mae *Cyw Haul* yn cynnig dehongliad newydd o oblygiadau'r gymdeithas hon. Mae cydymffurfiaeth yn faich sydd yn arwain at ragrith ac er nad oes unrhyw greulondeb amlwg yn perthyn i'r fro hon, mae anniddigrwydd Bleddyn yn cael ei bwysleisio'n gyson. Mae *Cyw Haul*, a *Cyw Dôl* hefyd i raddau llai, yn drobwynt pwysig yn natblygiad y nofel chwarelyddol. Er bod ei gyfraniad i lenyddiaeth Gymraeg wedi cael ei anwybyddu i raddau helaeth, mae Twm Miall wedi agor y drysau i lenorion ifanc, newydd sydd eisiau portreadu eu bro fel y maen nhw'n ei gweld. Gan hynny, mae *Cyw Haul* a *Cyw Dôl* yn gyfraniad pwysig i lenyddiaeth y bröydd chwarelyddol.

Dewi Prysor

Mae *Brithyll*, *Madarch* a *Crawia* yn rhan o drioleg Dewi Prysor ac yn dilyn helyntion trigolion 'Graig', bro chwarelyddol sydd yn gadarn yn y cyfnod ôl-ddiwydiannol. Mae hi'n ardal dlawd, ddosbarth gweithiol a Chymraeg. Mae'r prif gymeriadau'n ddibynnol ar fudd-daliadau ac yn byw mewn 'Stad gownsil fach fendigedig yn llawn o deuluoedd mawr.'²⁷³ Mae'r ansoddair 'bendigedig' yn annisgwyl o ystyried sut caiff stadau cyngor eu portreadu fel arfer. Dyma gyfleu

²⁷¹ Twm Miall, *Cyw Dôl*, Broliant.

²⁷² Newidiodd ei enw oherwydd bod sawl Llion Williams arall yn cael eu cam-gymryd amdano.

²⁷³ Dewi Prysor, *Brithyll* (Talybont, Ceredigion: Y Lolfa, 2006), t. 100.

safbwynt y naratif sydd yn rhoi darlun rhamantus o fywyd ar fudd-dâl, agwedd na chaiff ei chrybwyll yn aml yn y Gymraeg; a naratif sydd yn gyferbyniad llwyr i'r portread a geir gan Eigra Lewis Roberts a Geraint V. Jones.

Er bod arian yn brin, mae agosatrwydd y gymuned yn ffynnu. Ond nid mewn cyfarfodydd llenyddol, yn y capeli neu yn y côr lleol y mae'r gymdeithas hon yn cwrdd, ond yn y dafarn. Tra mae llenorion eraill yn delfrydu rhinweddau'r fro chwarelyddol ac yn osgoi cydnabod ffaeleddau eu prif gymeriadau, mae Dewi Prysor yn rhamantu'r ffaeleddau honedig ac yn dathlu gor-yfed, tor-cyfraith a chyffuriau fel rhan annatod o hunaniaeth y fro. Wrth ailddehongli gwerthoedd cymdeithas, mae yma ddarlun cyfoes o Gymry Cymraeg dosbarth gweithiol, a datblygiad naturiol o'r sylfeini a osodwyd gan Twm Miall yn *Cyw Haul* a *Cyw Dôl*.

Mae adolygiad o *Cyw Dôl* yn *Llais Llyfrau* yn disgrifio'r llyfr fel, 'portread gwerthfawr o fath o fywyd fydd yn ddeithr i'r rhan fwyaf o ddarllenwyr y gyfrol.'²⁷⁴ Mae'n safbwynt diddorol oherwydd erbyn nofel gyntaf Dewi Prysor yn 2006 mae'r agwedd hon yn cael ei gwrth-ddweud yn llwyr. Dywed Prysor ei hun:

Mae angen torri yn rhydd o'r arfer diogel o sgwennu at leiafrif diwylliedig a'u Cymraeg safonol a'u parchusrwydd cartrefol eisteddfodol. Rhaid i lenyddiaeth Gymraeg fod yn berthnasol i arferion Cymry Cymraeg heddiw. Dwi'n gobeithio fy mod wrth ysgrifennu *Brithyll* wedi adlewyrchu beth yw gwir natur bywyd, arferion a hiwmor cymdeithas gyfoes Gymraeg gan dorri ffiniau ffug-barchusrwydd.²⁷⁵

Mae'r cyferbyniad rhwng y ddau safbwynt uchod yn syfrdanol o ystyried mai dim ond pymtheng mlynedd sydd rhyngddynt. Yn wir, mae cyferbyniadau sylweddol rhwng nofelau Twm Miall a Dewi Prysor o ystyried y ffordd y caiff y gymdeithas ei phortreadu. Tra mae Bleddyn yn brwydro yn erbyn ei gymdeithas ffug-barchus, grefyddol, erbyn cyfres *Brithyll* ymddengys fod y mwyafrif o'r gymdeithas yn byw fel Bleddyn: ar y dôl, yn cymryd cyffuriau ac yn torri'r gyfraith.

²⁷⁴ Philip Wyn Jones, 'Adolygiad o *C'mon Midffild* a *Cyw Dôl*' yn *Llais Llyfrau* (Gwanwyn 1991), (Llandysul: Gwasg Gomer, 1991), t. 10.

²⁷⁵ Dewi Prysor yn cael ei ddyfynnu yn "'Brithyll" yn corddi dyfroedd tawel llenyddiaeth Gymraeg' ar Wefan Y Lolfa: <http://www.ylolf.com/newyddion.php?ID=52> (10/11/2006)

Ysgrifennodd Meg Elis mewn adolygiad o *Madarch*, Dewi Prysor:

Yr un gymdeithas a ddarlunnir gan Twm Miall a Dewi Prysor, ond bod ugain mlynedd wedi mynd heibio. Mae'r gymdeithas yr un mor guriedig - ond ein bod ni'n gorfod ei galw hi'n 'gymuned' bellach - ac y mae amrywiaeth y cyffuriau yn ehangach.²⁷⁶

Mae'n ddiddorol cymharu'r ddau bortread a chwestiynu ai'r oes sydd wedi newid, ac a oedd Twm Miall ymhell o flaen ei amser, ynteu ai dim ond dros y pymtheng mlynedd diwethaf y mae'r Cymry Cymraeg dosbarth gweithiol wedi cael eu llais? Mae'n naturiol bod agweddau wedi newid rhwng cyhoeddi *Cyw Haul* a *Brithyll*. Ond er gwaethaf hynny, mae nifer helaeth o bethau yn gyffredin i'r ddau bortread. Mae dylanwad Twm Miall ar Dewi Prysor yn cael ei gydnabod ym mroliant *Brithyll* sydd yn dyfynnu Twm Miall:

Dyma nofel fendigedig o ddi-chwaeth a dyma fro'r chwareli fel nas gwelwyd hi erioed o'r blaen. Mae Prysor yn awdur newydd, grymus sy'n mynd i gorddi dyfroedd tawel llenyddiaeth Gymraeg am flynyddoedd i ddod. Melys moes mwy.²⁷⁷

Er bod Miall yn datgan na welwyd bro'r chwareli fel hyn o'r blaen, credaf fod ei bortread ef yng nghyfres *Cyw Haul* wedi agor y drws i nofelau o'r fath.

Er bod nofelau Dewi Prysor yn ymdrin â themâu tywyll megis cyffuriau, llofruddiaeth, tlodi a diweithdra, cânt eu cyflwyno gyda hiwmor ac elfen o falchder. Mae cloriau'r nofelau wedi eu creu gan Ian Phillips. Mae hon yn bartneriaeth addas iawn oherwydd bod Ian Phillips hefyd yn portreadu bröydd y chwareli o fewn cyd-destun ôl-ddiwidiannol mewn ffordd fodern, gartwnaidd a thywyll. Caiff yr agweddau tywyll ar fywyd Cymreig eu harchwilio gyda chyfuniad o onestrwydd a rhamant gan Dewi Prysor. Dywed Glyn Jones mewn adolygiad o *Madarch* yn *Taliesin*:

²⁷⁶ Adolygiad Meg Elis o *Madarch*, Dewi Prysor, Awst 2003:

<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/749-madarch.shtml>

²⁷⁷ Twm Miall, dyfyniad ar glawr cefn *Brithyll* gan Dewi Prysor (Talybont: Y Lolfa, 2006).

Perthyn yr awdur i do newydd o lenorion sy'n benderfynol o ddarlunio'n onest y Gymru y tuedda llawer ohonom i edrych arni drwy wydrau cochliw ein sbectol coleg.²⁷⁸

Mae'r ffaith iddo gyfeirio at onestrwydd y portread yn ddiddorol oherwydd er bod Prysor yn onest mewn rhai ffyrdd, mae hefyd yn delfrydu'r bywyd y mae'n ei bortreadu. Er bod portread Dewi Prysor o fro chwarelyddol ôl-ddiwydiannol yn euog o ramant, mae'n delfrydu rhan o gymdeithas nad yw'n cael llais yn aml.

Yn fwriadol neu beidio, mae Dewi Prysor yn tanseilio'r darlun confensiynol o chwarelwr. Yn y nofelau hyn, nid oes un cymeriad sy'n gweithio yn y chwarel, ond mae dau gymeriad lliwgar a arferai fod yn chwarelwyr. Dyma ddisgrifiad ohonynt:

Roedd Tomi a Jac yn wariars ag oeddau nhw yn godwrs cynnar ar ôl sesh. Doeddau nhw ddim i'w gweld yn cael hangofyrs fel pobol erill. Ond dyna fo, roeddau nhw'n yfad bob nos ers hannar canrif. Chwarelwrs oeddau nhw, o'r ysgol nes oeddau nhw'n eu pumdega. Bildars oeddau' nhw wedyn am ddeng mlynadd ac ers iddyn nhw gael pensiwn gan y wlad roeddau nhw'n od-jobio o gwmpas y pentra am bres cwrw neu'n gneud amball ddiwrnod *cash-in-hand* i Macswel Bildar. Er eu bod nhw'n yfad digon i feddwi byffalo bron bob nos, doedd 'run o'r ddau wedi colli diwrnod o waith o'r herwydd.²⁷⁹

Dyma ddyfyniad sy'n cyfleu effaith cau'r chwareli ar y cymeriadau hyn, a thrwy hynny, eu cenhedlaeth. Mae Dewi Prysor yn chwalu myth y chwarelwr sobor wrth gyfleu meddwdod Graig gyda balchder. Mae Tomi Shytyl a Jac Bach y Gwalch yn bell o fod yn eithriadau yn y gymdeithas hon o ran yfed. Nid cymdeithasu yn y chwarel y mae'r dynion, ond gwneud hynny dros beint neu ddeg yn y dafarn leol! Am fod Tomi a Jac yn yfwyr mawr tra oeddynt yn gweithio yn y chwarel, yn y nofel hon, does dim cysylltiad rhwng cau'r chwarel a'r dirywiad ym moesau'r gymdeithas, thema gref mewn llenyddiaeth flaenorol.

Ond wedi dweud hynny, mae cau'r chwareli wedi cael effaith drawiadol ar economi'r dref ac einioes y trigolion. Dyma ddisgrifiad o gynlluniau Gai Ows pan oedd yn blentyn:

²⁷⁸ Glyn Jones, 'Adolygiad o *Madarch*' yn *Taliesin*, Cyfrol 13, Haf 2008, t. 146.

²⁷⁹ Dewi Prysor, *Brithyll*, t. 94.

I'r chwarael oedd o am fynd i weithio, fel ei dad a'i frodyr. Ond erbyn iddo adael rysgol bum mlynedd ar hugain yn ôl roedd 'na ddau beth wedi digwydd fyddai'n newid cwrs ei fywyd. Roedd Thatcher newydd ddod i rym a gneud 'joban am oes' yn 'joban mewn oes a fu' ac, fel llu o hogia eraill o'i flaen o ac ar ei ôl o, roedd o wedi ffeindio ganja. Neu, yn hytrach, roedd ganja wedi'i ffeindio fo.²⁸⁰

Mewn ffordd mae'r ddau ddigwyddiad hyn yn newid cwrs bywydau bron i bob cymeriad yn y nofel. Ymddengys fod mwyafrif o'r cymeriadau yn ddibynnol ar arian budd-dâl, ond gan mlynedd yn ôl fe fuasent, fwy na thebyg, yn gweithio yn y chwarel. Mae hyn yn cael ei amlygu gan gyfeiriadau at deulu Gai Ows a chynrychiolwyr y genhedlaeth hŷn, Tomi a Jac. Ond yn y cyfnod ôl-ddiwydiannol, does dim gwaith ar gael iddynt.

Mae'r criw yn treulio'r mwyafrif o'u dyddiau yn cael partion, yn mynd o dafarn i dafarn ac yn cymryd cyffuriau. Mae hyn yn cael ei bortreadu fel 'norm' y fro. Does gan y dynion ddim parch at awdurdod na chyfraith, ond nid ydynt yn bobl ddrwg. Awgryma'r naratif mai anarchiaeth yw'r ffordd ddelfrydol o fyw ac mai'r gyfraith sydd yn anghyfiawn yn erbyn y Cymry a'r tlawd:

Oedd, bob hyn a hyn roedd 'na waith yn dod i'r ardal, efo cyflog gwerth seinio i ffwrdd o'r dôl amdano. Dim 'i fod o'n gyflog da, chwaith. 'Mond digon i gadw'r brodorion mewn cwrw a ffags am flwyddyn, rŵan fod y chwareli bron i gyd wedi cau. A digon da, hefyd, i'r hogia gymryd y cyfla i gael y bobol dôl oddi ar eu cefna am flwyddyn arall. Cyfla i lnau'r lechan yn lân cyn i'r biwrocrats diwynab ddechra brathu'u cynffonna nhw eto.²⁸¹

Mae'r dyfyniad hwn yn adlewyrchu gwerthoedd anarchaidd y prif gymeriadau. Y gallu i fyw yn eu cynefin, nid gwneud arian, yw eu blaenoriaeth.

Yn *Brithyll*, mae Tintin yn gosod bom yn hen Gapel Ramoth i geisio ei achub rhag cael ei droi'n gartref moethus i Saeson. Mae Dewi Prysor yn cwestiynu ideoleg Cymru fodern sy'n cael ei haddasu er mwyn apelio at ymwelwyr. Mae nifer o densiynau'n codi yn y gymdeithas, yr amlycaf rhwng y Cymry a'r Saeson, thema sy'n codi sawl gwaith ym mhob un o'r nofelau ôl-

²⁸⁰ Ibid, t. 199.

²⁸¹ Dewi Prysor, *Crawia* (Talybont, Ceredigion: Y Lolfa, 2008), t. 6.

ddiwydiannol. Mae tensiynau rhwng awdurdodau megis yr heddlu a'r bobl leol yn thema gyson, a chaiff cŵn a chathod eu defnyddio i gyfleu'r anghydfod hwnnw. Yn wir, mae'r heddlu yn cael eu portreadu fel gweision i Walter Finch, tiffeddiannwr lleol. Mae eu bygythiadau yn adleisio'r stiwardiaid gynt ac mae gan Finch yr awdurdod i gael gwared â swyddi'r prif gymeriadau am resymau personol, yn hytrach na'u gallu yn y gwaith.

Mae traddodiadau'r bröydd chwarelyddol yn fyw yn nofelau Dewi Prysor. Mae gan bob un o'r cymeriadau lysenw a stori ddoniol tu ôl i'r enw. Mae'r nofelau yn plethu delweddau o'r chwareli gyda'r naratif. Mae *Brithyll* yn dechrau gyda hunllef Cledwyn, sy'n ei rybuddio bod drwg ar y ffordd: 'Llais fel Bryn Terfel efo eco fel sa'i ben o mewn bwcad brass seis Ceudyllau Llechwedd.'²⁸² Mae'n plethu'r traddodiad canu Cymraeg â delweddau o'r chwarel ym Mlaenau Ffestiniog i gyfleu'r sŵn annaeorol hwnnw. Er bod y nofelau hyn wedi eu gosod yn gadarn yn y cyfnod ôl-ddiwydiannol, maent yn tanlinellu pwysigrwydd y chwareli yn hanes y dyffryn ac effaith hynny ar y trigolion presennol:

Doedd fawr neb, heblaw amball wennol ar ôl gwybedyn, yn mynd am geunentydd Graig yn yr ha. Fel y creigwyr am y chwareli gynt, am y mynydd byddai pobol Graig yn mynd.²⁸³

Mae'r dynfa hynafol hon yn cadw pobl Graig yn dynn wrth eu gwreiddiau. Er bod y gyfres hon yn herio rhai agweddau ar bortreadau traddodiadol o'r bröydd chwarelyddol, mae rhai nodweddion yn parhau.

Mae'r disgrifiad canlynol o Caradog Dafis yn adlewyrchu'r pwysigrwydd sy'n cael ei osod ar addysg anghonfensiynol:

Darllenwr brwd oedd Rhen Crad, a'i silffoedd yn llawn o lyfrau ar bob pwnc dan haul. Haneswyr, beirdd ac athronwyr- roedd ganddyn nhw i gyd eu lle yn llyfrgell Nant-y-Fagddu, gan rannu'r silffoedd efo astudiaethau eang o bynciau mor amrywiol â beioleg, peirianeg, ffiseg, astronomeg, pensaernïaeth, diwinyddiaeth, a natur a bywyd gwyllt. Roedd Caradog Dafis yn hyddysg yn y cwblwl lot. A thra oedd academwyr yn gwybod, roedd Rhen Crad yn dallt.²⁸⁴

²⁸² Dewi Prysor, *Brithyll*, t. 6.

²⁸³ *Ibid*, t. 10.

²⁸⁴ Dewi Prysor, *Madarch*, t. 8.

Fel roedd y chwarelwyr yn eu haddysgu eu hunain yn y caban, felly roedd Caradog yn cael blas ar addysg. Er nad oedd Caradog Dafis yn chwarelwr, mae'n hanu o'r ardal ac mae'r dyfyniad uchod yn adleisio edmygedd llenorion at chwarelwyr hyddysg.

Ond yn y drioleg hon, efallai nad traddodiad sy'n deillio o'r chwarelwyr sy'n gyfrifol am wybodaeth eang Caradog. Yn hytrach, traddodiad ydyw sy'n dyddio'n ôl yn llawer pellach yn hanes Graig. Mae dylanwadau'r derwyddon a'r Celtiaid yn fyw yn y fro. Mae hyd yn oed enwau'r Celtiaid am y tir yn parhau:

Roedd rhyw hud yng Nghwm Derwyddon- y berthynas berffaith rhwng tir a hanes, ynghlwm mewn priodas bersain na allai dim ond amser ei bendithio. Hanes wedi'i greu gan hynodion y tir, ac amser yn plethu'r cwbl yn dreftadaeth dragwyddol o chwedlau byw.²⁸⁵

Mae mytholeg yn y tir a hen ffyrdd y derwyddon yn parhau i gael eu hefelychu yn naturiol gan y trigolion hyd heddiw. Mae Cled yn myfyrio dros allu'r Cymry i oroesi ac yn cysylltu'r rhinwedd hwnnw gyda hynafiaeth ein cysylltiad â'r wlad:

O'r tir yma 'da ni'n dod. Ma'n gwreiddia ni 'di ca'l eu gneud yn *union* ar gyfar yr *union* bridd yma... 'Da ni'n *rhan* o'r ffycin pridd 'ma... 'Da ni fel madarch- ma' nhw'n rhan o'r pridd, a ffwc o bwys os 'di'r tymhora'n newid, ma'r ddaear yn aros 'run fath, felly ma'r madarch yn aros 'run fath, wastad yno, wastad yn popio'n ôl i fyny, yn yr *union* 'run lle, flwyddyn ar ôl blwyddyn ar ôl blwyddyn...²⁸⁶

Mae'r gymhariaeth hon o'r Cymry fel madarch yn tanlinellu pwysigrwydd cynefin i bobloedd. Mae'r ail nofel, *Madarch*, yn disgrifio'r cysylltiad sanctaidd sydd rhwng y Cymry a'r tir ac mae'r madarch yn cael eu defnyddio fel symbol i bwysleisio'r cysylltiad hwnnw.

Bron nad yw dylanwad y derwyddon yn gryfach na chyfraniad y chwarelwyr i ddiwylliant y fro. Mae'r chwareli bron i gyd wedi eu cau ynghyd â'r

²⁸⁵Ibid, t. 161.

²⁸⁶ Ibid, t. 269.

ffordd honno o fyw, fel sy'n cael ei amlygu gan absenoldeb y capeli a'u traddodiadau:

Safai Hen Gapal Ramoth ar gefnan o dir ar lawr Cwm Derwyddon rhyw hannar milltir yr ochr isaf i Nant-y-Fagddu. Ers iddo gau, roedd wedi mynd i edrych yn unig a thrist, heb efengyl yn gwmpeini, nac emyn na gweddi i'w clywed rhwng ei furiau tamp.²⁸⁷

Mae ffyrdd y derwyddon o addoli'r tir a chylch bywyd yn fwy byw yn Graig na chrefydd gonfensiynol y capeli. Yn ôl Cled mae cymryd cyffuriau yn deillio o arferion yr hen dderwyddon. Mae madarch hud yn cael eu cyflwyno fel rhyw fath o anrheg gan y tir:

Roedd yr hogia, fel cannoedd o hogia eraill yr ardal, wedi eu 'magu' ar fadarch hud. Roeddau nhw'n byw yng nghanol gwlad y madarch ac roeddau nhw wedi bod yn eu cymryd nhw ers pan oeddau nhw'n un ar ddeg oed.²⁸⁸

Mae madarch hud yn rhan o fywyd yn Graig. Mae'r naratif fel petai'n dadlau bod unrhyw beth sy'n tyfu'n naturiol yn y fro yno ar gyfer y brodorion. Meddylfryd y cymeriadau yw na all cyffuriau fod yn beth drwg pan fo Cymru yn eu darparu ar eu cyfer. Yn wir, caiff cyffuriau, yn enwedig madarch hud, eu darlunio fel rhywbeth naturiol, bron yn reddfod ac fel ffordd o ailgysylltu gyda thraddodiadau a meddylfryd y derwyddon. Mae gwerthoedd paganaidd yn llifo trwy'r nofelau hyn ac mae'r portread yn awgrymu bod y brodorion yn dychwelyd at werthoedd y Celtiaid wedi diwedd oes anghydfurfiaeth y chwarelwyr.

Yn y nofel olaf, *Crawia*, mae hynafiaeth y tir yn cael ei blethu gyda mytholeg gyfoes y chwarelwyr: 'Bellach, yn rhan annatod o dirwedd a hunaniaeth yr ardal, roedd rhywun yn gwybod ei fod adra wrth weld ffensys crawia.'²⁸⁹ Defnyddir y crawiau fel symbol o hunaniaeth y fro ac o gyfraniad y chwarelwyr i'r ardal. Mae'r ddau gymeriad sy'n cynrychioli'r chwarelwyr, Tomi Shytyl a Jac Bach y Gwalch yn cael eu curo'n anymwybodol ac mae Tomi yn

²⁸⁷ Ibid, t. 24.

²⁸⁸ Dewi Prysor, *Brithyll*, t. 249.

²⁸⁹ Dewi Prysor, *Crawia*, t. 18.

enwedig yn dioddef anafiadau difrifol oherwydd eu bod yn ceisio amddiffyn fferm rhag lladron o Loegr. Mae'r Saeson hefyd yn dwyn crawia'r prif gymeriadau. Mae Cledwyn yn datgan:

'Fel oedd Tomi Shytyl yn ddeud, rhywbryd- ma'r crawia fel coed derw. Ti'n parchu nhw. Os ti'n ymosod ar yr hen grawia, ti'n ymosod ar 'yn hanas ni...'

'Petha ryff, calad, trwm... hyll i'r llygad... fel Jac a Tomi'u hunain...'²⁹⁰

Mae crawiau yn ddelwedd ddifyr gan mai gwastraff y chwareli oedd y llechi hynny; gyda'r chwareli bellach wedi cau, ai gwastraff yw'r cyn-chwarelwyr bellach? Mae'r cyfocredd hwn rhwng y ddau chwarelwr a'r crawiau llechi yn pwysleisio bod y Saeson yma wedi ymosod ar yr ardal ei hun. Mae'r criw yn penderfynu dod at ei gilydd er mwyn dial ar y Saeson ac amddiffyn eu hardal a'u hunaniaeth trwy wneud hynny.

Maent yn darganfod bod y Saeson hyn hefyd yn gwerthu heroin i bobl ifanc yr ardal. Nid yw pob cyffur yn cael ei bortreadu mewn golau positif:

Roedd y *smack* wedi cydio yn yr ardal hefyd. Bobol ddŵad ddaeth â fo yma. Sgym wedi'u hel o stadau mawrion Manceinion a Lerpwl a'u gosod yn rhai o dai cyhoeddus yr ardal. Doedd gan y cops ddim adnoddau, na'r mynadd chwaith, mae'n debyg, i daclo'r contiaid, ac erbyn iddyn nhw ddechra cael brics drwy'u ffenestri roedd hi'n rhy hwyr- roedd pobol ifanc leol yn gaeth i'r sdwff ac yn gorfod ei werthu fo eu hunain i gynnal eu habit. A doedd 'na'm stumog yn y dre i hel rheiny o'ma. Pawb yn nabod nhw a nabod eu teuluoedd. Eu pitio nhw oedd pobol, fwy na dim.²⁹¹

Nid Cymru sy'n darparu '*smack*' ac felly mae'n cael effaith negyddol ar y gymdeithas. Mae'n symbol o ddylanwad gwenwynig estroniaid ar Gymru. Daw'r tir yn fyw er mwyn dial ar un o'r Saeson hyn:

Roedd o'n suddo'n is, ac yn cael traffarth i gadw'i freichiau uwchben y mawnddwr du. Roedd pob symudiad a wnâi yn gwylltio'r gors yn fwy, ac i lawr â fo, fesul modfadd.²⁹²

²⁹⁰ Ibid, t. 211.

²⁹¹ Dewi Prysor, *Brithyll*, t. 147.

²⁹² Dewi Prysor, *Crawia*, t. 261.

Dyma uchafbwynt y disgrifiadau o Gymru fel tir mytholegol a hefyd o'r frwydr rhwng y brodorion a'r Saeson. Mae gan Gymru ymwybod ac mae hi'n amddiffyn ei phobl trwy ymosod ar y rhai sy'n eu bygwth.

Nid y tir yn unig sy'n cario mytholeg hynafol y Derwyddon, ond mae'r hen Gymry yn fyw yn y brodorion. Fel y mae'r madarch yn codi yn yr un lle bob blwyddyn, felly mae pob cenhedlaeth o Graig. Dyma bortread dwys ar adegau wrth fyfyrion ar hanes Cymru. Ond ar y cyfan mae'r nofelau hyn yn llawn hwyl a hiwmor. Mae'n gyfraniad pwysig i lenyddiaeth am y bröydd chwarelyddol am ei fod yn chwa o awyr iach i *genre* sydd yn mynnu efelychu'r gorffennol. Mae *Brithyll*, *Madarch* a *Crawia* yn nofelau sy'n adlewyrchu bro ôl-ddiwydiannol gyfoes yn gadarnhaol trwy ramantu'r ochr dywyll o'i diwylliant. Mae Dewi Prysor yn tanlinellu pwysigrwydd cynefin ac ymwybyddiaeth o hanes bro, ond ar yr un pryd mae'n dathlu tor-cyfraith a chyffuriau fel rhan annatod o'r bywyd dosbarth gweithiol, Cymraeg. Tra mae Eigra Lewis Roberts a Geraint V. Jones yn pwysleisio'r dirywiad ym moesau'r gymdeithas chwarelyddol, mae Dewi Prysor yn eu darlunio fel disgynyddion teilwng sy'n parhau â gwerthoedd cynhenid y fro. Dyma ddehongliad newydd o fro chwarelyddol, heb chwareli.

Yn dilyn llwyddiant y drioleg hon, aeth Dewi Prysor ymlaen i ysgrifennu *Lladd Duw* a *Cig a Gwaed* a chyrhaeddodd y ddwy restr fer Llyfr y Flwyddyn. Mae *Lladd Duw* wedi ei lleoli yn Llundain ac ardal amaethyddol yng nghefn gwlad Cymru ac felly nid yw'n berthnasol i'r traethawd hwn, ond mae *Cig a Gwaed* wedi ei rhannu rhwng Lerpwl a Chwmygafael, bro chwarelyddol yn 1991. Mae Cwmygafael yn seiliedig ar Flaenau Ffestiniog ac yn cyd-fynd â'r portread o Graig yn y gyfres *Brithyll*. Gyda'r nofel hon wedi ei lleoli yn nechrau'r 1990au, mae cyfnod diwydiannol y chwareli yn nes nag ydyw yn ei nofelau cyntaf. Canlyniad hyn yw bod y chwarel yn chwarae rhan fwy blaenllaw ym mywydau'r cymeriadau. Yma mae rhai bechgyn ifanc sy'n gweithio yn y chwarel a sawl cymeriad yn gyn-chwarelwyr, ond dim ond dau hen ddyn wedi ymddeol o'r chwarel oedd yno yn *Brithyll*, *Madarch* a *Crawia*.

Yn debyg i'r cymeriadau yng nghyfres *Brithyll*, mae gan bawb eu llysenw a hanes y tu ôl iddo:

Cafodd Kola Kube ei enw oherwydd ei arfer o fwyta bageidiau o'r da-das coch, sgwâr tra oedd o'n gweithio yn y chwarel. Mi sticiodd yr enw'n hawdd oherwydd fod Kola Kube yn sgwâr – o ran ei gorff a'i agweddau.²⁹³

Mae'r nofel yn adlewyrchu'r ffordd y mae traddodiad llysenwau'r chwareli'n parhau yn y cyfnod ôl-ddiwydiannol. Mae llysenwau yn rhoi hunaniaeth i'r cymeriadau, ac yn achos Kola Kube, yn rhoi mwy o awdurdod: 'Doedd Alfonso ddim yn enw a roddai lawer o awdurdod i alpha male mewn cymuned chwarelyddol yng nghefn gwlad Cymru.'²⁹⁴ Kola Kube yw'r hynaf o deulu'r Bartis ac mae gan ei frodyr a'i chwiorydd oll llysenwau: Coco Bîns, Porffafôr, Gwcw Blastig, Dryw Bach, Lili Wen i enwi ychydig. Dyma enwau sy'n cyfleu bod yr unigolion wedi cael eu derbyn gan y gymdeithas.

Mae Mani, prif gymeriad y nofel, yn cofio ei fam, Mari Bartholomew, a cheir mewnwelediad i blentyndod y Bartis:

Cadw tŷ gwely a brecwast oedd ei fam, a hynny'n bennaf ar gyfer gweithwyr dros dro ar safleoedd adeiladu, yn ogystal ag anffodusion a gâi eu dadlwytho yno gan y Gwasanaethau Cymdeithasol – y digartref gan fwyaf, boed yn gyn-garcharorion neu'n weinos ac alcoholics o bob math.²⁹⁵

Ceir yr argraff bod gor-yfed a chymryd cyffuriau'n weithred gyffredin yn yr ardal hon. Ond gyda'r anffodusion yn dod o'r tu allan, nid ydynt yn cynrychioli Cwmygafael, ac efallai felly mai adlewyrchiad o fagwraeth y Bartis sydd yma yn hytrach na phortread o'r ardal. Yn wahanol i agwedd chwareus *Brithyll*, *Madarch* a *Crawia*, mae ochr fwy tywyll yn *Cig a Gwaed*, fel y mae'r dyfyniad uchod yn ei awgrymu. Mae hiwmor y gymdeithas yn *Cig a Gwaed* yn debyg i'r hwyl a'r tynnu coes oedd yn y gyfres *Brithyll*, ond mae'n nes at yr asgwrn ac yn fwy haerllug a chignoeth, fel y nofel ei hun.

Nid yw'r mwyafrif o blant Mari Bartholomew wedi cwrdd â'u tadau sydd yn cynnwys Sbaenwr, Ffrancwr, Eidalwr, a Jamaican, yn ôl y sôn yn lleol. Ond er yr amwysedd ynghylch eu tadau, nid yw'n ymddangos bod hynny wedi effeithio

²⁹³ Dewi Prysor, *Cig a Gwaed* (Talybont: Y Lolfa, 2012), t. 16.

²⁹⁴ *Ibid*, t. 17.

²⁹⁵ *Ibid*, t. 67.

ar yr un ohonynt, yn ôl Mani. Mae'n pendroni am y tad Sbaeneg a roddodd iddo ei groen tywyll: 'Wnaeth o erioed deimlo'n ecsotig nac yn wahanol i unrhyw un arall a fagwyd yng ngwynt a glaw mynyddoedd methodistaidd Cwmygafael.'²⁹⁶ Mae ei frawd, Onri, yn dod i gasgliad gwahanol wrth fyfyrio ar weithiau seicolegwyr fel Erich Fromm a'u damcaniaethau am effaith y gymdeithas ar unigolyn:

Doedd magwraeth 'anghonfensiynol' y Bartis heb achosi problemau, ond efallai fod ymateb cymdeithas i'r fagwraeth honno wedi gwneud – bod agweddau ceidwadol tuag at eu sefyllfa deuluol wedi gadael eu hoel. Wedi'r cwbl, roedd plant yn clywed eu rhieni'n trafod y Bartis yna'n ffurfio rhagfarnau a'u mynegi ar iard yr ysgol.²⁹⁷

Wrth ddisgrifio eu plentyndod fel 'magwraeth anghonfensiynol' a chyfeirio at y plant ysgol oedd yn feirniadol o'u magwraeth, mae Onri'n awgrymu bod eu ffordd o fyw yn wahanol i weddill y gymdeithas. Mae'n anodd dehongli i ba raddau mae'r Bartis yn eithriadau mewn gwirionedd gan mai portread o deulu mewn bro chwarelyddol a geir yn hytrach na'r gymdeithas.

Mae Onri bellach wedi gadael y gymdeithas chwarelyddol ac yn seicolegydd ym Mae Colwyn. Mae'r naratif yn pwysleisio dro ar ôl tro ei fod bellach wedi troi ei gefn ar ei fagwraeth wrth iddo annog Dryw Bach i adael Cwmygafael.²⁹⁸ Mae Onri'n disgrifio ei resymau dros adael:

Ond fi benderfynodd mod i wedi cael digon... Y smalltown mentality, y cecru, y meddwi... Am wn i, mi welais i fod yna fyd mawr allan yn fa'na... Fod 'na rwbath mwy i fywyd na hasyls dibwys y Bartis!²⁹⁹

Mae'r cyfeiriad at y 'smalltown mentality' yn awgrym arall bod y Bartis yn eithriadau yn y gymdeithas hon a'u bod yn cael eu herlid i raddau. Dyma nofel

²⁹⁶ Ibid, t. 30.

²⁹⁷ Ibid, tt. 60-1.

²⁹⁸ 'Pwy a wŷr, Dryw Bach – falla fod 'na ffordd allan o Gwmygafael i ti'n fan hyn. [...] Dyma dy dicad di allan o'r cwm bach cul... I gael gyrfa – a pres i brynu paent a canfasys!' Ibid, t. 126.

'Mi oedd yna obaith i Dryw Bach. Gwenodd Onri. Hwyrach nad y fo fyddai'r unig Barti i ddianc o Gwmygafael wedi'r cwbl.'

Ibid, t. 139.

²⁹⁹ Ibid, t. 127.

sy'n agos at gyfres *Cyw Haul* o ran cyfnod a'r ffaith bod y cymeriadau'n teimlo'n rhwystredig mewn gymdeithas gonfensiynol, gaeedig. Gyda'r gyfres *Brithyll* wedi ei lleoli mewn bro chwarelyddol bron i ugain mlynedd yn ddiweddarach, efallai mai dilyniant sydd yma i raddau gyda'r ardal gyfan yn byw fel y Bartis erbyn diwedd y 2000au.

Wrth ddychwelyd adref i ymweld â bedd ei fam ar ei phen-blwydd mae Onri'n disgrifio'r dref:

Wedi disgyn yn araf rhwng y tomenni llechi cyrhaeddodd y stryd fawr a'i goleuadau Nadolig tila. Pasiodd y siop jips a Woolworths, a'r hen Milk Bar oedd bellach yn siop takeaway Tsieiniaidd. Syllodd drwy ffenestri'r Prince wrth basio. Edrychai'n dawel yn y bar.³⁰⁰

Mae Dewi Prysor yn osgoi'r demtasiwn i ddisgrifio siopau gwag ac arwyddion 'ar werth' ar y tai, rhywbeth sy'n nodweddiadol o ryddiaith y cyfnod ôl-ddiwydiannol ac yn enwedig gweithiau Geraint V. Jones. Yn y nofel hon, tawelwch y dafarn sy'n cyfleu dirywiad y gymdeithas. Mae Onri'n cadw golwg am ei deulu ac efallai bod gwacter y dafarn yn cryfhau'r posibilrwydd mai eithriad yn y gymdeithas yw'r teulu camweithredol hwn.

Stori sydd yn rhedeg ochr yn ochr â phrif lif y nofel yw hanes Porffafôr a'r chwarel. Roedd yn arfer gweithio yno flynyddoedd yn ôl ac mae ganddo gynllun; mae Porffafôr yn egluro i'w frawd, Gwcu Blastig:

'Agor' ydi siambar dan ddaear, ynde, lle ma'r creigiwrs yn cael y cerrig o. Dallt? Dyna ydan ni'n obeithio torri drwodd iddi fory. Rhyw hen, hen chwaraal fach oedd hi, un gynnar – cyn i'r 'big guns' gyrradd yr ardal. Cyn i'r stryd gael ei chodi – cyn i ochor yma'r pentra fodoli o gwbl, hyd yn oed... [...] 'Does 'na ddim record o'r chwaraal o gwbl... heblaw am rywun yn talu'r Lord am yr hawl i'w hagar, ond does dim sôn lle'n union mae hi.³⁰¹

Mae Porffafôr yn credu bod yr hen lefel yn rhedeg i gefn y banc yr ochr arall i Gwmygafael ac mae'n gobeithio defnyddio hen ffrwydron y chwarel i chwythu twll yng nghefn y banc. Mae Gwcu Blastig yn cwyno: 'Bu'n fore anodd iddo, yn

³⁰⁰ Ibid, t. 64.

³⁰¹ Ibid, t. 228.

crynu a chwysu yng nghanol llwch mewn hen lefal chwaraal.³⁰² Maent yn gweithio yn yr hen chwarel na wŷr neb amdani ac ar ôl cyrraedd y lefel, yn penderfynu cynnau'r ffrwydrad am hanner nos ar nos galan, yr un pryd â than gwylt y dref:

Crynodd y mynydd cyfan oddi tanynt efo'r glec a ddaeth o grombil y graig, ac arhosodd y ddau yn lle'r oeddan nhw wrth wrando ar ruo'r gwynt yn nesu drwy'r twnel. Ymhen dwy neu dair eiliad saethodd cymylau o lwch allan ohono fel trê'n ysbrydion aflan i ganol y nos. Doedd gan Gwcw ddim profiad blaenorol o ffrwydrad, ond mi oedd o, fel pawb yn y pentref, yn gyfarwydd â sŵn tanio arferol y chwaraal – a doedd hon ddim yn swnio fel clec chwaraal.³⁰³

Mae'r nofel hon yn adlewyrchu'r cyfnod yn effeithiol gyda rhai o'r chwareli'n parhau i gael eu gweithio, ond mae'n amlwg wedi ei lleoli yn y cyfnod ôl-ddiwydiannol oherwydd yr holl gyn-chwarelwyr di-waith. Mae'r disgrifiad hwn o adnabod clec chwarel yn adlewyrchiad cynnil o fywyd mewn dyffryn diwydiannol.

Mae lle i gwestiynu a oes symboliaeth tu ôl i'r ffrwydrad mewn hen chwarel. Mae'n sicr yn cyfleu tloidi a diweithdra'r fro wrth i Porffafôr orfod meddwl am ffyrdd creadigol o gael pres. Mae'r ffrwydrad yn dod â gorffennol diwydiannol yr ardal yn berthnasol unwaith eto. Wrth chwythu'r hen lefel maent yn difa ychydig o dai ar Ffordd Milionêrs. Dyma stad dai newydd wedi ei chreu gan Elwyn, cynghorwr lleol ac aelod o'r Seiri Rhyddion. Elwyn a Kola Kube yw'r unig bobl leol sy'n byw yno, ac mae'r mewnlifiad o Saeson cyfoethog yn cael ei gyflwyno fel bygythiad i werin gynhenid y fro. Efallai bod difrodi'r stad hon gyda ffrwydrad mewn hen chwarel yn pwysleisio'r gwerthoedd sydd wedi eu colli gyda dyfodiad y cyfnod ôl-ddiwydiannol. Mae gan y cynghorwyr lleol fwy o ddiddordeb mewn denu estroniaid cyfoethog i'r ardal na chreu gwaith i bobl leol.

Fodd bynnag, wrth i'r ffrwydrad ddifa un o'r tai ar Ffordd Milionêrs mae'n achub Mani rhag criw o sadistiaid sydd ar fin ei ladd. Wrth i'r tŷ chwalu mae'n lladd Gwawr wrth iddi geisio ei arteithio i farwolaeth. Mae Mani'n llwyddo i ddianc ac yn canfod ei hun wrth fedd ei fam:

³⁰² Ibid, t. 201.

³⁰³ Ibid, t. 313.

Trodd ei lygaid i weld ei fod o'n gorwedd wrth hen gistfedd lechfaen ymysg beddi hynaf y fynwent. Yno cydiodd y breichiau nerthol o dan ei geseiliau a'i godi dros ymyl y gistfedd, cyn cydio yn ei goesau a'i daflu i mewn. Glaniodd ar ei ochr. Methai symud o hyd. Clywodd sŵn y garreg yn crafu eto. Trodd ei lygaid i syllu ar Kola Kube yn gwthio'r caead yn ôl i'w lle. Gwyliodd y rhimyn golau'n culhau efo pob symudiad, ychydig fodfeddi ar y tro, cyn diffodd.³⁰⁴

Mae'r nofel yn gorffen gyda Kola Kube yn bachu'r cyfle i waredu ei hun o'i frawd bach am byth. Ai cyd-ddigwyddiad ydyw mai Kola Kube yw'r cyntaf i ddod ar draws Mani, ynteu a oes cysylltiad rhwng Kola Kube a'r sadistiaid? Mae nifer o bethau'n aneglur yn niwedd y nofel gan fod cymaint o gyd-ddigwyddiadau.

Mae'r ffaith bod criw o sadistiaid wedi talu'n ddrud i arteithio a lladd rhywun ar nos galan yn adlewyrchiad o ymdriniaeth Dewi Prysor o'r ddynoliaeth. Os oedd Eigr Lewis Roberts yn ymdrin â ffaeleddau cymdeithas wrth gyfeirio at butain yn cael ei lladd, mae yma lefel newydd o ffaeleddau! Mae Mani'n cael ei flingo'n fyw a'i arteithio gan y criw, ond nid yw'n adnabod neb ac felly nid ydynt yn bobl leol. Beth mae hyn yn ei ddweud am y fro chwarelyddol hon felly? Gellir dadlau mai lle tawel yng nghefn gwlad Cymru yw'r lle diwethaf y buasai rhywun yn disgwyl i bethau fel hyn ddigwydd ac felly mae'n lleoliad delfrydol. Neu gall y gwrthwyneb fod yn wir, sef bod Cwmygafael yr union fath o le lle y gall pethau fel hyn ddigwydd. Mae sawl cwestiwn heb ei ateb yn niwedd y nofel a sawl llinyn storiol heb eu clymu. Mae'r diwedd glo felly'n eithaf penagored.

Mae Dewi Prysor yn mynd i eithafion wrth archwilio'r ffaeleddau. Nid ochr dywyll ardal a geir yma ond ochr dywyll dynoliaeth. Yn yr un ffordd ag y mae T. Rowland Hughes a Kate Roberts yn portreadu rhinweddau bröydd chwarelyddol yn unig, y ffaeleddau sy'n dal sylw Dewi Prysor. Mae ei ymdriniaeth â ffaeleddau yn cau amdano ei hun yn *Cig a Gwaed*. Wrth ddelfrydu ochr dywyll ei gymeriadau a'u cymdeithas, mae'r themâu hynny'n trechu yn niwedd y nofel ac anobaith sy'n goresgyn.

³⁰⁴ Ibid, t. 317.

Mae portread Dewi Prysor o fröydd chwarelyddol yn y cyfnod ôl-ddiwydiannol yn rhoi llais i'r garfan sy'n cael ei hanwybyddu ym mhrif lif ffuglen yr ardaloedd chwarelyddol. Dyma eithriadau'r gymdeithas yn brif gymeriadau, yn ganolbwynt i'r naratif ac yn cael eu dathlu yn hytrach na'u beirniadu a'u diystyru. Mae cyfraniad Dewi Prysor i ryddiaith y bröydd chwarelyddol felly'n sylweddol ac yn herio portreadau ystrydebol sy'n ei ragflaenu yn effeithiol.

iii) Llenyddiaeth Plant

Bydd yr adran hon yn edrych ar ryddiaith i blant am y bröydd chwarelyddol sydd wedi ei chyhoeddi yn y cyfnod ôl-ddiwydiannol. Dechreuwn gyda dwy nofel hanes draddodiadol wedi eu lleoli yng nghyfnod Streic Fawr y Penrhyn 1900-1903. Mae *Bwli a Bradwr* gan Brenda Wyn Jones a *Streic* gan Eigra Lewis Roberts yn adlewyrchiad o'r gweithiau llenyddol naturiolaid am y bröydd chwarelyddol i blant. Byddaf hefyd yn dehongli cyhoeddiadau diweddarach, *Yr Allwedd Aur* gan Eurgain Haf a *Mari Wyn* gan Sara Ashton, sydd wedi eu lleoli mewn bröydd chwarelyddol ffantasiol, ôl-apocalyptaidd yn y dyfodol. Wrth astudio'r pedair nofel yma, cawn drosolwg o'r amrywiaeth, yn ogystal â'r nodweddion cyffredin, mewn ffuglen i blant sy'n ymwneud â'r diwydiant llechi.

Mae ffuglen hanesyddol i blant yn *genre* sy'n gallu addysgu yn ogystal â diddanu. Mae Brenda Wyn Jones ac Eigra Lewis Roberts wedi ysgrifennu am gyfnod y streic o safbwynt plentyn ac maent yn dramateiddio ffeithiau ac unigolion hanesyddol. Bydd yn ddiddorol gweld a oes cyferbyniadau yn eu dehongliadau o'r hanes ac yn eu portread o'r gymdeithas chwarelyddol. Prif ffynhonnell hanesyddol Brenda Wyn Jones wrth iddi ymchwilio i'r streic oedd llyfrau lòg yr ysgolion lleol. Mae pob pennod yn *Bwli a Bradwr* yn gorffen gyda dyfyniad o un o'r llyfrau: 'The disturbance in the Quarry has affected the

school...'³⁰⁵ Mae'r dyfyniadau yn ychwanegu elfen o ddilysrwydd i'r nofel ac yn tanlinellu pwysigrwydd hanesyddol y digwyddiadau sy'n cael eu cofnodi.

Mae *Bwli a Bradwr* wedi ei hysgrifennu o safbwynt Guto ac mae'r darllenwyr yn dysgu am hanes y streic fawr ym Methesda trwy ei lygaid ef. Mae'n debyg y buasai plant yr oes Fictoraidd yn cael eu hamddiffyn oddi wrth gymhlethdodau gwleidyddol y streic, ond mae Brenda Wyn Jones yn camu dros y rhwystr hwnnw trwy osod teulu Guto yng nghanol y frwydr:

Yna fe welodd ei ddau frawd ar flaen y dorf. O, diolch byth! Roedd y ddau'n iawn, ond pwy oedd y dyn a'i wyneb yn waed i gyd oedd yn cerdded rhyngddyn nhw? Roedd golwg druenus arno, ond roedd Wil a Llew yn ei wthio yn ei flaen yn ddirugaredd. Beth ar y ddaear oedd wedi digwydd tybed?³⁰⁶

Dyma ddisgrifiad brawychus o stiward yn cael ei guro a'i fartsio trwy'r strydoedd gyda thorf enfawr y tu ôl iddo. Mae tensiynau'r chwarel yn dod yn fwyfwy amlwg wrth i'r stori ddatblygu a daw'r darllenydd i ddysgu am yr hanes trwy Guto yn y cartref ac ar iard yr ysgol:

'Cheith neb ymosod ar ddyinion Lord Penrhyn fel 'na. Nhw sy'n rhedag y chwaraal a dim ond gweithwyr cyffredin ydi pawb arall. Doedd gynnyn nhw ddim hawl i fusnesu, medda Nhad.'

'Ond mi glywais i Taid yn dweud ei bod hi'n hen bryd i rywun wneud rwbath.'³⁰⁷

Mae'r dyfyniad hwn yn gelfydd o ran cyfleu'r ffordd y mae plant yn dod i ddeall sefyllfaoedd cymhleth ac yn ffordd o fynegi gwahanol agweddau'r cyfnod i'r darllenwyr.

Ar ddechrau'r nofel mae Guto yn cael ei fwlio gan Robot, mab stiward yn y chwarel:

³⁰⁵ Brenda Wyn Jones, *Bwli a Bradwr* (Caernarfon: Gwasg Gwynedd, 1998), t. 15 yn dyfynnu *Llyfr Løg Carneddi British School – 6 Tachwedd, 1900*.

³⁰⁶ Brenda Wyn Jones, *Bwli a Bradwr*, t.17.

³⁰⁷ *Ibid*, t. 10.

'Wyt ti am gael mynd, Guto? I ti gael gweld dy ddau frawd mawr yn cael eu martsio i'r jêl?' Chwarddodd Robot a rhoi dyrnod ciaidd arall i Guto yn ei stumog.³⁰⁸

Ond unwaith mae'r dynion ar streic, mae Robot yn colli ei bŵer dros yr iard ysgol: 'Dydi Robot ddim mor boblogaidd ag y buo fo, wyddost ti,' aeth Defi yn ei flaen i geisio ei gysuro. 'Wedi'r cwbl, mae teulu pawb yn yr un cwch â ni erbyn hyn.'³⁰⁹ Robot gaiff ei ddefnyddio i gynrychioli plant dynion yr Arglwydd Penrhyn. Mae'n gymeriad creulon ac atgas sy'n bwlio plant y streicwyr, merched a phlant iau nag ef ei hun. Dyma bortread nodweddiadol o blentyn stiward.

Ond yn ddiweddarach yn y nofel, Guto yw'r bwli ac mae ef a'i griw yn curo plant y bradwyr. Mae patrymau cymdeithasol y fro wedi eu gwrthdroi'n llwyr. Dyma gyfleu effaith tensiynau'r gymdeithas ar yr iard ysgol:

Not a day has passed since the re-opening after the holidays but that our school children are called after or otherwise illtreated by the children of the British School.³¹⁰

Er bod edmygedd yn y nofel at y streicwyr, mae cydymdeimlad tuag at blant y bradwyr. Mae golygfa yn y capel lle mae'r gweinidog yn canmol dewrder y streicwyr ac yn barnu'r rhai sydd wedi eu bradychu. Caiff yr olygfa hon ei defnyddio yn rhannol i bwysleisio'r rhwyg yn y gymdeithas a'r frwydr rhwng y 'da' a'r 'drwg,' ond yn bennaf i ennyn cydymdeimlad tuag at deulu Defi sydd yn gorfod gadael y capel ynghanol y weddi. Dyma'r foment pan fo Guto yn sylweddoli bod ei ffrind bellach ar ochr arall y frwydr. Mae'r criw yn troi ar Defi ond mae Guto yn ei amddiffyn. Wrth weld bod tad Defi mewn sefyllfa amhosibl mae Guto yn dysgu nad yw pethau mor ddu a gwyn ag yr oedd wedi tybio gynt. Mae moeswers yn y nofel hon yn ogystal â gwers hanes. Mae Brenda Wyn Jones yn portreadu mor ddiymadferth yw'r plant mewn sefyllfa sydd allan o'u rheolaeth. Ond er nad ydynt efallai'n deall anghydfod yr oedolion yn llwyr, maent yr un mor gaeth i effeithiau'r streic â'u rhieni.

³⁰⁸ Ibid, t.11.

³⁰⁹ Ibid, t. 48.

³¹⁰ Brenda Wyn Jones, *Bwli a Bradwr*, t. 80 yn dyfynnu *Llyfr Lòg Llanllechid National School- 16 Medi, 1901*.

Mae nofel Eigr Lewis Roberts i blant, *Streic (Fy Hanes i STREIC Dyddiadur Ifan Evans, Llwybrmain, Bethesda, 1899-1903)* yn deillio o'i nofelau *Rhannu'r Tŷ* a *Carreg wrth Garreg*. Mae Ifan yn gymeriad yn y nofelau hynny ac mae cyfeiriadau yn *Streic* at ddiwyddiadau'r nofelau hynny yn ogystal â digwyddiadau hanesyddol. Mae wedi ei hysgrifennu ar ffurf dyddiadur Ifan sy'n disgrifio effaith y streic ar y teulu a'r gymdeithas.

Ar ddechrau'r dyddiadur mae'r chwarel yn cael ei phortreadu fel nefoedd ar y ddaear: 'Robert Evans ydi enw Nhad. Mae o'n meddwl y byd o'r chwarael. Fe gafodd ei ddewis yn llywydd Caban Ponc Twll Dwndwr llynadd.'³¹¹ Mae'r dyfyniad yn cyfleu balchder y gymdeithas o'r chwarel a'r bri o fod yn gysylltiedig â'r caban. Mae brawd Ifan hefyd yn caru ei weithle:

Mae Tom ddeuddag mlynadd yn hŷn na fi. Fe adawodd yr ysgol i fynd i weithio i'r chwarael pan oedd o'n dair ar ddeg oed, ac mae yntau'n meddwl y byd o'r lle.³¹²

Dyma beth mae Ifan yn bwriadu ei wneud hefyd, ond bod ei fam yn gobeithio y bydd yn cario ymlaen gyda'i addysg. Mae'r anghytuno hwn yn bresennol yn y mwyafrif o'r straeon am y chwarel, ac yn cyfleu swyn y chwarel i fechgyn ifanc a'r gofid y mae eu mamau'n ei wynebu o'i herwydd. Gwelwn, felly, fod dechrau'r nofel yn gosod cefndir i'r hanes gyda'r gweithwyr i gyd yn ymfalchïo yn eu gwaith.

Mae Ifan yn ysgrifennu yn ei ddyddiadur am yr anghydfod yn y chwarel a'i effaith ar y gymdogaeth:

Dydd Sadwrn, Ionawr 20

Mae'r Young 'na wedi bod wrthi eto. Fe fydd y dynion yn colli dau ddwrnod o waith am fod yn hwyr, ac wythnos gyfa am adal cyn amsar. Ac mae o wedi rhoi'r sac i Griffith Parry, dyn sydd wedi bod yn gweithio'n y chwarael am hanner can mlynadd, am wrthod achwyn ar y dynion.³¹³

³¹¹ Eigr Lewis Roberts, *Streic (Fy Hanes i STREIC Dyddiadur Ifan Evans, Llwybrmain, Bethesda, 1899-1903)*, (Llandysul: Gwasg Gomer, 2004), tt. 8-9.

³¹² *Ibid*, t. 9.

³¹³ *Ibid*, t. 16.

Mae'n disgrifio'r anghyfiawnderau yr oedd y chwarelwyr yn eu hwynebu ac yn cyfeirio'n uniongyrchol at ffigyrau fel E. A. Young, Yr Arglwydd Penrhyn a Mr Lloyd Carter gyda dirmyg. Yn debyg i *Rhannu'r Tŷ*, mae Eigr Lewis Roberts yn portreadu'r dynion hyn fel cymeriadau stoc. Mae'n debyg y gwneir hyn er mwyn cyfleu safbwynt y werin ac yn benodol safbwynt Ifan. Mae sylfeini'r rhesymau dros fynd ar streic yn cael eu crybwyll yn y dyddiadur wrth ddyfynnu geiriau Tom. Nid yw tad Ifan mor benderfynol ac mae bod o'r chwarel yn torri ei galon. O ganlyniad i'r streic mae'n rhaid i'r teulu o bedwar fyw heb gyflog. Mae sawl disgrifiad o'r diffyg bwyd wrth i Ifan gofio'n ôl at y cinio Nadolig cyn y streic. Mae'r rhwyg yn y gymdeithas yn tyfu wrth i'r nofel ddatblygu, mae ffrindiau oes yn ffraeo a chymdogion yn cael eu gorfodi i symud i ffwrdd.

Yn debyg i Guto yn *Bwli a Bradwr*, mae Ifan yn chwarae gyda'r syniad o ddial ar blant y bradwyr: 'Mae 'na griw o blant bradwrs yn Ysgol Bodfeurig erbyn hyn, gormod i'w tynnu nhw'n eu penna.'³¹⁴ Ond yn wahanol i *Bwli a Bradwr*, lle caiff plant y bradwyr eu curo yn ystod y streic, Ifan a phlant y streicwyr sy'n cael eu bwlio yma. I ychwanegu at yr anghyfiawnderau sy'n wynebu Ifan a phlant y streicwyr, mae ei athro yn yr ysgol yn mynd i'r Eglwys ac o ganlyniad y mae ar ochr y dynion sydd wedi dychwelyd i'r chwarel: 'Ond dim ond fi gafodd gansan. Fydd o byth yn cosbi hogia bradwrs.'³¹⁵ Yn *Bwli a Bradwr* mae'r athro yn sylwi ar ddiwyddiadau'r iard ysgol ac yn gwneud ei orau i rwystro'r ymladd. Mae'n cadw bechgyn i mewn yn ystod amser chwarae, yn ymweld â rhieni Guto a'i griw ac yn eu siarsio i beidio ag ymladd. Dyma wrthgyferbyniad llwyr i'r portread hwnnw. Mae Ifan a Guto yn ymladd gyda phlant y bradwyr gyda'r un casineb ag sy'n cael ei leisio yn eu cartrefi. Ond wrth i'r streic barhau, mae'r ddau'n dysgu bod bywyd yn llawer mwy cymhleth nag yr oeddent erioed wedi ei ddychmygu.

Ar ôl i'w tad farw, mae Tom yn torri'r streic ac yn mynd yn ôl i'r chwarel. Nid yw Ifan yn hapus o gwbl:

'Mae pawb 'run fath,' medda fi. 'Pawb ond plant bradwrs.'
Ond mi fydda inna'n un ohonyn nhw rŵan.³¹⁶

³¹⁴ Ibid, t. 100.

³¹⁵ Ibid, t. 154.

³¹⁶ Ibid, t. 158.

Nid yw'n gallu deall safbwynt Tom a'i fam ac mae'n ymladd yn erbyn y peth trwy wrthod y pethau y mae cyflog Tom yn eu prynu iddo. Mae wedi ei siomi yn ei frawd mawr:

Pan adawodd Tom y chwaraal, roedd o'n gallu dal ei ben yn uchaf a bod yn falch ohono'i hun, ond un o'r adar duon oedd o heddiw, a dyna fydd o am byth, waeth be mae Mam yn ei ddeud.³¹⁷

Ar ôl cael ei fwydo yn y cartref, y gymdeithas a'r capel gyda delweddau o'r hyn sy'n dda ac yn ddrwg, mae'n anodd i blentyn ddygymod gyda chymhlethdod y sefyllfa. Yn wahanol i Guto yn *Bwli a Bradwr*, nid yw Ifan yn dysgu moeswers.

Mae Ifan yn gweld ei fod yn cael ei drin yn wahanol ers i Tom ddychwelyd i'r chwarel; mae'n cael ei dderbyn gan griw newydd yn yr ysgol ac mae'r athro yn ei drin yn deg:

Mi ges i 'nghanmol gan syr heddiw, a doedd Twm Mos ddim dicach 'mod i wedi cael fy syms i gyd yn iawn. Mae'r ddau yn gneud ati i fod yn glên, rŵan eu bod nhw'n gwobod fod Tom wedi mynd yn ôl i'r chwaraal. Fydd dim rhaid i mi ofni cael cweir eto, ond mae gwobod pam yn brifo mwy na chansan.³¹⁸

Mae Ifan yn casáu popeth am ddychweliad Tom i'r chwarel, hyd yn oed y pethau cadarnhaol sydd wedi deillio o hynny. Yn ei feddwl ef, mae Tom yn un o'r adar duon ac o ganlyniad mae yntau hefyd. Yn wahanol i *Bwli a Bradwr* lle mae'r prif gymeriad yn sylweddoli mor annheg yw cosbi plant am weithredoedd eu teulu, yma mae Ifan yn gwrthod derbyn hynny, er nad oes ganddo unrhyw reolaeth dros benderfyniad ei frawd.

Mae *Streic a Bwli a Bradwr* yn nofelau hanes traddodiadol ac yn dilyn hanes y streic trwy lygaid plentyn. Er bod y ddau brif gymeriad yn fechgyn ysgol ifanc yn 1900, yn niwedd y nofelau maent wedi cyrraedd safbwyntiau gwahanol. Ar y cyfan mae'r ddwy nofel yn adlewyrchu llenyddiaeth flaenorol am y streic a gwerthoedd sosialaidd y cyfnod. Maent yn hanesyddol gywir ac yn portreadu problemau'r gymdeithas yn ystod y cyfnod yn effeithiol. Mae'r ffin rhwng

³¹⁷ Ibid, t. 161.

³¹⁸ Ibid, t. 162.

dychymyg a ffaith yn glir, a gall y llyfrau hyn addysgu plant am hanes Bethesda yn ogystal â'u diddanu gyda hanesion am ysgolion a'r iard chwarae ar droad y ganrif ddiwethaf.

Yn wrthgyferbyniad llwyr i'r nofelau naturiolaid hyn, mae *Mari Wyn* ac *Yr Allwedd Aur* wedi eu lleoli yn y dyfodol ac yn defnyddio hanes y diwydiant llechi fel canolbwynt i'r gweithiau. Maent yn portreadu bröydd chwarelyddol ôl-apocalyptaidd ac yn defnyddio delweddau o'r cyfnod ôl-ddiwydiannol i gyfleu gwraidd y dirywiad yng Nghymru. Dyma nofelau blaengar, ffantasiol sy'n cyflwyno portreadau o'r bröydd chwarelyddol fel nas gwelwyd erioed o'r blaen.

Mae *Yr Allwedd Aur* gan Eurgain Haf yn agor gyda llythyr i'r darllenwyr sy'n disgrifio'r sefyllfa:

Y flwyddyn yw 2050.

Mae Cymru mewn trafferthion mawr.

Mae Bae Caerdydd yn boddi.

Mae'r senedd yn suddo, a'r chwareli'n cael eu defnyddio fel ffatrioedd i chwalu cof y Cymry.³¹⁹

Gedon Ddu yw'r grym drwg sy'n ceisio difa Cymru ac mae ganddo griw o'r enw Y Chwalwyr sy'n dileu cof athrawon, gwleidyddion ac awduron Cymru. Defnyddir hen chwareli i ddifa cof y Cymry, efallai oherwydd bod hanes y chwareli bellach yn angof. Mae'r diwydiant llechi wedi hen ddod i ben erbyn 2050, ond mae'r chwareli eu hunain yn parhau i fodoli. Mae cyfochredd yma gyda bwriad Gedon Ddu, sef dileu atgofion y Cymry ond caniatáu iddynt fyw; fel y dywed Gedon Ddu: 'Heb gof, heb ddyfodol.'³²⁰ Mae'r nofel yn galw ar blant Cymru i ymladd yn erbyn Gedon Ddu ac i ymfalchïo yn eu diwylliant a'u hanes.

Er bod y chwareli'n cael eu defnyddio ar gyfer gweithredoedd dychrynlyd, maent yn lleoliadau hudol hefyd sydd yn gartref i dylwyth teg:

'Y tylwyth teg tanddaearol ydi'r Cnocwyr,' eglurodd Rhitw. 'Maen nhw'n byw o dan y ddaear mewn cloddfeydd fel pyllau glo a chwareli llechi, ac yn gwybod am leoliad pob gwythïen werthfawr o fwyn.'³²¹

³¹⁹ Eurgain Haf, *Yr Allwedd Aur* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2010), t. 7.

³²⁰ Ibid, t. 6.

³²¹ Ibid, t. 73.

Mae'r Cnocwyr hyn yn rhan o fytholeg y bröydd chwarelyddol ac yn greaduriaid hud sy'n byw mewn hen gloddfeydd, ac felly cyn brif ddiwydiannau Cymru. Mae Dafydd Whiteside Thomas yn disgrifio hanesion am y cnocwyr yn *Chwedlau a Choelion Godre'r Wyddfa*.³²² Er bod y diwydiannau ar ben, maent yn parhau i fod yn bwysig i hanes Cymru:

Ar y platfform o graig ar dop y grisiau, ymddangosodd criw o ddynion bach crwn, pob un yn gwisgo barclod lledr am ei ganol. Yn eu dwylo tewion roedd morthwyl ac ebill a chÿn, sef offer cloddio'r chwarelwyr ers talwm.³²³

Mae'r Cnocwyr yn parhau gyda thraddodiadau'r hen chwarelwyr wrth gloddio, ac maent yn fodau gweithgar. Maent yn dylwyth teg anghonfensiynol ac yn perthyn yn nes at yr hen chwarelwyr na'r darlun traddodiadol o dylwyth teg.

Yn *Yr Allwedd Aur*, mae llechi yn hudol. Mae'r cymeriadau yn canfod llechen yn Siambr y Brenin Arthur:

Roedd sgwâr solet o lechfaen gyda gwythiennau piws a gwyrddlas yn nadreddu drwyddo.

'Sbiwch,' ebychodd Llwyd wrth ruthro at y llechen. 'Mae 'na siâp allwedd wedi'i naddu i mewn i'r llechen.'³²⁴

Mae allwedd aur y Brenin Arthur yn gallu achub Cymru rhag pwerau Gedon Ddu a sicrhau dyfodol y wlad. Mae'r ffaith ei fod yn cael ei osod mewn llechen yn cyfleu pwysigrwydd y deunydd hwnnw i Gymru. Dyma'r allwedd i achub Cymru, ac efallai bod awgrym yma bod gwerthoedd a thraddodiadau'r chwarelwyr yn chwarae rhan bwysig yn nyfodol y Gymru ffantasiol hon.

Mae'r nofel yn effeithiol wrth osod Cymru fel lleoliad i anturiaethau ffantasi. Mae themâu a chyfeiriadau at fytholeg Cymraeg, e.e. brwydr rhwng y ddraig goch a'r ddraig wen, a'r Brenin Arthur, ond mae'r nofel hefyd yn creu

³²² Gweler: Thomas, Dafydd Whiteside. *Chwedlau a Choelion Godre'r Wyddfa*. Caernarfon: Gwasg Gwynedd, 1998.

³²³ Ibid, t. 74.

³²⁴ Ibid, t. 131.

mytholeg fodern yn y modd y caiff y chwareli, a'r llechfaen eu disgrifio. O safbwynt yr astudiaeth hon, mae *Yr Allwedd Aur* yn ddiddorol dros ben. Nid yw'n dilyn confensiynau arferol llenyddiaeth sy'n ymwneud â'r chwareli. Mae yma ddehongliad newydd o chwarel ôl-ddiwydiannol mewn cyd-destun ffantasïol. Mae Eurgain Haf yn llwyddo i bortreadu traddodiadau'r hen chwarelwyr mewn ffordd gwbl newydd ac yn rhoi gwedd newydd ar hen hanes.

Mae *Mari Wyn* gan Sara Ashton yn nofel ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau sydd wedi ei lleoli ym Mlaenau Ffestiniog yn 2029. Mae nifer o nodweddion tebyg rhwng y nofel hon ac *Yr Allwedd Aur*. Dyma fyd ôl-apocalyptaidd sy'n cael ei reoli gan gwmni Bush Enterprises Transnational Energy Corp. ac mae'n rhaid i Mari a'i chefnider, Osian, achub y Blaenau a'r byd rhag y cwmni anfoesol. Yn debyg i'r ffordd mae'r pryfed llwyd yn arwain y plant i fyd chwedlonol yn *Yr Allwedd Aur*, mae pili-pala gwyn yn swyno Mari ac Osian yn y nofel hon. Hefyd yn yr un ffordd ag yr oedd Llwyd ac Arddun Gwen yn deffro'r Brenin Arthur er mwyn cael ei gymorth, mae hynafiaid byd natur yn deffro i geisio cael cymorth gan Mari.

Yn y byd ôl-apocalyptaidd hwn, mae'r ddaear dan straen ddifrifol ac mae llifogydd, daeargrynfeydd a thrychinebau naturiol yn fygythiadau parhaus i'r hyn sydd ar ôl o'r byd. Mae'r Blaenau yn llawn ffoaduriaid o bob cwr o Gymru a thu hwnt. Mae Mari'n rhyfeddu wrth ddychwelyd i fro ei mam:

'Pam wnaethoch chi ddim sôn wrthai am hyn?' gofynnodd hithau, yn methu coelio bod y dref, oedd yn marw ar ei thraed ychydig o flynyddoedd ynghynt, bellach mor llawn o bobol.³²⁵

Dyma gyfeiriad at y cyfnod ôl-ddiwydiannol a'r dirywiad yn y fro. Gellir dirnad o'r dyfyniad hwn ymhle mae dychymyg yr awdures yn dechrau a gwirionedd sefyllfa'r Blaenau'n gorffen. Mae taid Mari yn galw ar y ffoaduriaid i ddysgu am hanes a diwylliant yr ardal y maent yn byw ynddi: 'Gwrandewch nawr, ymwelwyr, canys chwedlau gwerin yw ein hanes ni!'³²⁶ Mae taid Mari yn amlygu pwysigrwydd hanes trwy gydol y nofel a cheir yr awgrym bod ganddo gysylltiad

³²⁵ Sara Ashton, *Mari Wyn* (Talybont: Y Lolfa, 2013), t. 16.

³²⁶ *Ibid*, t. 18.

sanctaidd gyda'r tir. Mae'n gallu gweld yr hynafiaid sy'n anweledig i weddill y trigolion ac yn gwrthod torri ei dderwen gan ddatgan mai hi 'ydi un o'r ychydig gystylliadau sy gynnon ni â'n gorffennol.'³²⁷

Mae cymeriad taid yn dwyn i gof fyfyrdodau Dewi Prysor yn y gyfres *Brithyll* am bwysigrwydd cynefin a'r cysylltiad sanctaidd rhwng y brodorion a'u tir. Yn wir, mae dylanwad Dewi Prysor yn amlwg trwy'r nofel, yn enwedig wrth bwysleisio effaith cyfalafiaeth ar yr amgylchedd ac ar ddiwylliant Cymru:

Eu holew nhw oedd y cwbl inni, a doeddan ni ddim yn meddwl dwywaith am y petha roeddan ni'n eu dinistrio i sicrhau ein ffics – ein cynefin ffrwythlon, ein hiaith, ein diwylliant, ein cymunedau, ein hawliau a'n rhyddid...³²⁸

Dyma werthoedd y gyfres *Brithyll*, gwerthoedd y mae'r naratif hwnnw'n eu pwysleisio'n gyson. Mae *Mari Wyn* yn rhoi safbwynt ôl-apocalytaidd lle mae'r gwerthoedd hynny wedi eu dinistrio gan y cwmni mawr sy'n rheoli'r Blaenau a'r byd.

Mae Bush Enterprises Transnational Energy Corp. yn noddi'r unig addoldy sydd ar ôl ym Mlaenau bellach, The New Church of the Holy Trinity. Maent yn cyflyru'r boblogaeth trwy'r rhaglen deledu 'Saints and Sinners' sy'n cael ei ddarlledu yno bob dydd Sul:

Each week we expose three sinners from your town. We place them before you. You are the judge and the jury; we let you decide who should be saved and who has got to goooo [sic].³²⁹

Mae'r sioe yn gorfodi'r gynulleidfa i bleidleisio dros bwy sy'n cael aros yn rhan o'r gymdeithas a phwy sy'n eiddo i'r cwmni Bush. Maent yn herwgipio Elfed Jones am iddo feichiogi merch cyn ei phriodi, am ei fod bellach wedi ysgaru, yn byw mewn pechod ac yn yfed yn y dafarn bob nos. Mae'r ferch a feichiogwyd ganddo hefyd yn bechadur yn ôl yr Eglwys am fod ganddi dri o blant gyda thri tad gwahanol ac yn disgwyl y pedwerydd. Yn y diwedd Mr a Mrs Bachar sy'n cael

³²⁷ Ibid, t. 20.

³²⁸ Ibid, t. 114.

³²⁹ Ibid, t. 45.

eu dyfarnu'n euog am addoli duw arall. Dyma bortread dychrynlyd o grefydd sydd wedi ei blethu gyda diddanwch a chyfalafiaeth. Mae'r nofel hon wedi ystumio'r darlun o ragrith crefydd mewn llenyddiaeth Gymraeg flaenorol a rhoi gwedd ôl-apocalyptaidd eithafol iddo.

Mae *Mari Wyn* yn portreadu Blaenau Ffestiniog yn 2029 gyda chyfeiriadau at y presennol ôl-ddiwydiannol:

Er bod y Blaenau'n enwog am ei thomenni llechi ar un adeg, doedd dim llawer ohonyn nhw ar ôl bellach. Roedd y mynydd wedi ailfeddiannu rhai, tra bod y rhan fwyaf o'r lleill wedi'u gwasgaru ar hyd a lled y wlad fel deunydd adeiladu ffyrdd (ffyrdd nad oedd yn cael eu defnyddio rhyw lawer bellach.) Ond roedd y domen hon a'r Llwybr Cam yn dal yno. Roedd rhyw bwyllgor rywbryd wedi penderfynu eu bod nhw'n nodwedd bwysig o'r diwedd ac wedi brwydro i'w cadw.³³⁰

Ceir awgrym yn y dyfyniad hwn bod y tomennydd llechi yn rhan o hunaniaeth yr ardal. Maent yn symbol o hanes diwydiannol y Blaenau, rhywbeth sy'n cael ei amlygu wrth i'r naratif fynd rhagddo:

Cawsai'r llwybr troellog hwn ei adeiladu amser maith yn ôl fel y gallai'r chwarelwyr gerdded ar ei hyd i fynd at eu gwaith yn y chwarel. Flynyddoedd yn ddiweddarach, pan oedd llai o bobol yn gweithio yno, bydden nhw'n mynd i'r gwaith yn eu ceir. Eto i gyd, câi'r inclên wrth ochr y llwybr ei ddefnyddio gan yr hogiau lleol wrth iddyn nhw, fel her, geisio gyrru beiciau modur i ben y domen. Ond gwaharddwyd hynny pan benderfynwyd gwarchod y llwybr, a gosod goleuadau bach ar ei hyd fel ei fod i'w weld yn amlwg yn ystod y nos. Dysgodd Mari hyn wrth ddarllen y bwrdd dehongli, a oedd bellach wedi pylu, wrth waelod y domen.³³¹

Mae bodolaeth y bwrdd dehongli yn cyfleu pwysigrwydd y llwybr ar y domen, er bod hwnnw bellach wedi dirywio. Mae'r cyfeiriadau at gyfnodau diwydiannol ac ôl-ddiwydiannol y chwareli yn gosod y nofel hon mewn cyd-destun hanesyddol diddorol. Dyma gefndir y fro yn cael ei gyflwyno mewn ffordd ddadlennol a diymhongar.

³³⁰ Ibid, t. 33.

³³¹ Ibid.

Mae Mari ac Osian yn dringo'r domen ac ar ei chopa yn canfod y gwir am y cwmni Bush:

Ar y gwastad o'i blaen, lle roedd y chwarel yn arfer bod, roedd dros gant o bobol mewn carpiâu, a'r rheiny wedi'u gorchuddio â llwch, yn troelli'n araf mewn un cylch mawr. [...] Sylwai fod y bobol wedi'u clymu wrth olwyn fawr, a'u gwaith oedd ei throi'n ddiwedd.³³²

Mae caethwasiaeth yn ddelwedd gyson yn llenyddiaeth y bröydd chwarelyddol. Yma mae'r nodwedd honno wedi ei hystumio i eithafion. Ceir portread eithafol hefyd o ffigwr stiward y chwarel: 'PUSH, scum! PUSH!' gwaeddai'r dyn yn eu canol. Roedd yn sefyll ar hen slab mawr o llechen [sic] â chwip yn ei law.³³³ Dyma bortread sy'n plethu'r darlun confensiynol o stiward gyda gwas perchennog caethweision. Mae'r caethweision yn cael eu mewnfario o wledydd tramor er mwyn cynhyrchu trydan ac yn cael eu cludo ar hyd yr un llwybrau â'r llechi cynt. Mae'r llongau yn eu cludo o bob cwr o'r byd i Borthmadog cyn cael eu cario ar hen drenau rheilffordd y Blaenau i'r chwarel. Dyma bortread sy'n pwysleisio anfoesoldeb a chreulondeb y cwmni, ond dyma hefyd ddarlun sy'n ystumio portreadau mewn llenyddiaeth flaenorol o'r anghyfiawnderau a wynebwyd gan y chwarelwyr. Mae'r ffaith mai caethweision sy'n cael eu cludo ar hen lwybrau'r llechi'n adlewyrchiad o fyd sydd wedi ei droi ben i waered.

Mae daeargryn yn difa cartrefi'r fro gyfan ac wrth archwilio effaith y difrod, mae adlais o ryddiaith am gyfnod y streic:

Roedd y ddwy wedi gwneud popeth o fewn eu gallu i gynnal eu teuluoedd, eu cartrefi, a'u cymdeithas. Yn wyneb pob dioddefaint roedden nhw wedi aros yn gryf; yn wyneb pob gorthrwm roedden nhw wedi aros yn dawel, a diodde'r cyfan, er mwyn cynnal eu ffordd o fyw. A rŵan, mewn un noson, roedden nhw wedi colli'r cyfan.³³⁴

Dyma bortread cyffredin o fenywod y bröydd chwarelyddol, yn stoicaidd, yn dioddef yn dawel ac yn aberthu er mwyn eu teuluoedd. Efallai bod hwn yn gyfeiriad bwriadol at hanes y bröydd ac at y ffaith bod y cymeriadau hyn yn

³³² Ibid, t. 35.

³³³ Ibid, tt. 35-6.

³³⁴ Ibid, t. 85.

ddisgynyddion i deuluoedd y chwarelwyr, teuluoedd sydd wedi wynebu anghyfiawnderau ers sawl cenhedlaeth.

Mae Mari'n canfod hen bapur newydd yn y llyfrgell ac yn dysgu bod y cwmni'n difa'r blaned; oherwydd hyn mae'r cwmni eisiau tawelu Mari a'i theulu. Mae'n rhaid iddynt ddianc i ogof yn y mynyddoedd, cyn sylweddoli nad ogof yw hi ond hen chwarel. Mae olion y chwarelwyr o'u cwmpas, wedi cerfio eu henwau a dyddiadau i'r graig. Dyma ddelwedd sy'n cyfleu dylanwad y genhedlaeth honno ar y tirlun ac ar eu disgynyddion wrth i'r brodorion ddechrau deffro i'r anghyfiawnderau ac ymladd yn ôl. Mae Mari'n dilyn llwybrau'r ceudyllau tanddaearol ac yn llwyddo i ddod allan o'r chwarel, yr ochr arall i'r mynydd, yn saff oddi wrth weision y cwmni.

Wrth i'r brodorion benderfynu brwydro yn erbyn y cwmni, daw hanes diwydiannol y fro yn berthnasol unwaith eto. Mae taid Mari yn cael ei ddal fel un o'r caethweision yn y chwarel ac yn eu hannog i wrthryfela. Roedd tad un o'r caethweision yn arfer gweithio yn y chwarel ac wedi gadael ffrwydron ar ôl yno wedi iddi gau. Mae rhai o'r caethweision yn dianc ac yn llwyddo i ryddhau'r gweddill a difa pencadlys y cwmni gyda'r ffrwydron. Mae'r brodorion yn gosod llechen anferth ar hen drac y rheilffordd i atal y trê'n sy'n cludo mwy o gaethweision i'r chwarel. Wrth i'r nofel ddatblygu, mae hanes diwydiannol y fro yn dod yn fwy perthnasol i'r presennol.

Yn niwedd y nofel mae teulu Mari i gyd wedi marw. Er bod y caethweision yn rhydd, mae byddin yn ymdeithio tuag atynt gyda'r bygythiad bod rhyfel ar y gweill. Yr unig beth gobeithiol yw'r ffaith bod yr hynafiaid ar ochr y caethweision a'r brodorion. Mae'n ddiwedd glo eithaf penagored gyda brwydr fawr yn nesáu - awgrymir mai dechrau'r nofel nesaf yw'r diwedd glo hwn. Mae'n amlwg bod y nofel wedi ei hanelu at gynulleidfa hŷn nag *Yr Allwedd Aur* oherwydd nad yw'r chwyldro wedi llwyr drechu'r gelyn. Wrth osod y nofel mewn bro chwarelyddol ôl-apocalyptaidd, mae Sara Ashton yn ystumio portreadau confensiynol o'r Blaenau a rhoi gwedd eithafol, ddyfodolaidd erchyll iddynt. Mae *Mari Wyn* yn rhybudd i raddau o'r hyn y gellir ei golli os nad ydym yn cadw at werthoedd yr hen chwarelwyr a'u cymdeithas.

Pennod 4: Barddoniaeth

Mae'r darlun a geir o'r chwarelwr a'i fro ym marddoniaeth y bröydd chwarelyddol yn cyd-fynd â'r portread a geir mewn ffuglen Gymraeg. Mae'r darlun o'r chwarelwr diwylliedig yn wynebu anghyfiawnderau'r oes yn fyw mewn sawl cerdd. Ceir cydymdeimlad â'r cyflog isel, yr oriau hir, y llafur, yn ogystal ag edmygedd at grefft, moesoldeb, crefydd, gwleidyddiaeth a diwylliant y bröydd ar droad y ganrif ddiwethaf. Ond er bod y portread o fywyd yn y bröydd chwarelyddol mewn barddoniaeth yn cyd-fynd â'r darlun a geir mewn nofelau, mae gwahaniaethau yn codi.

Un nodwedd yw bod gwahaniaethau amlycach rhwng ardaloedd chwarelyddol o ran themâu yn y farddoniaeth. Mae barddoniaeth Dyffryn Nantlle yn tanlinellu pwysigrwydd chwedloniaeth y Mabinogi yn y fro, tra mae barddoniaeth o Flaenau Ffestiniog yn cael ei hysgrifennu o safbwynt ôl-ddiwydiannol yn llawer cynharach nag mewn ardaloedd eraill. Cyfeiria T. H. Parry Williams at y gwacter mewn bro chwarelyddol a'r dirywiad yn y diwydiant llechi mor gynnar â 1931 yn ei gerdd 'Llyn y Gadair':

Dim byd ond mawnog a'i boncyffion brau,
Dau glogwyn, a dwy chwarel wedi cau.³³⁵

Mae rhai themâu megis y tawelwch mewn chwarel wag neu natur yn ailhawlio hen chwarel yn codi droeon mewn barddoniaeth ond dim ond yn cael eu crybwyll mewn rhyddiaith. Bydd y bennod hon yn archwilio detholiad o farddoniaeth y bröydd chwarelyddol o 1900 hyd at y presennol gyda phwyslais ar yr ôl-ddiwydiannol. Gellid dadansoddi ymhellach, a chynnwys llawer mwy o feirdd a cherddi, ond oherwydd nifer cyfyngedig y geiriau, dyma drosolwg o farddoniaeth sy'n portreadu'r diwydiant llechi a'r bröydd chwarelyddol. I ddechrau, rwyf am edrych ar wreiddiau'r portread confensiynol mewn barddoniaeth.

i) Sefydlu Gwreiddiau'r Portread o Chwarelwr – W. J. Gruffydd

Yr enwocaf o'r cerddi am y chwarelwyr, yn ôl pob tebyg, yw 'Cerdd yr Hen Chwarelwr' gan W. J. Gruffydd. Dyma enghraifft o ramantiaeth W. J. Gruffydd ifanc a sylfaen i nifer o bortreadau o'r chwarelwyr cyffredin. Yn wir, mae'r gerdd yn cyflwyno themâu sydd bellach yn rhan annatod o lenyddiaeth y bröydd chwarelyddol. Cafodd ei hysgrifennu yn 1902 ac felly mae hi'n un o'r portreadau llenyddol cynharaf o chwarelwr yn yr ugeinfed ganrif. Egyr y gerdd gyda diwrnod cyntaf yr hen chwarelwr yn y chwarel:

Hogyn dengmlwydd gerddodd ryw ben bore,
Lawer dydd yn ôl, i gwr y gwaith;
Gobaith fflachiai yn ei lygaid gleision
Olau dengmlwydd i'r dyfodol maith.³³⁶

Trwy ailadrodd oed y bachgen, mae'r bardd yn llwyddo i bwysleisio mor ifanc ydoedd, heb gollu tôn ffeithiol y naratif. Mae'n debyg mai W. J. Gruffydd oedd y

³³⁵ T. H. Parry-Williams, 'Llyn y Gadair' yn *Cerddi rhigymau a sonedau* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2011), t. 45.

³³⁶ W. J. Gruffydd, 'Cerdd yr Hen Chwarelwr' yn *Detholiad o Gerddi W. J. Gruffydd*, gol. Bobi Jones (Caerdydd: Yr Academi Gymreig a Hughes a'i Fab, 1991), t. 62.

cyntaf i bortreadu'r cynnwrf o gael dechrau gweithio yn y chwarel ac mae'n cyfleu diniweidrwydd a naïfrwydd y bachgen yn effeithiol. Dyma ddisgrifiad sydd wedi datblygu i fod yn nodwedd gyffredin yn llenyddiaeth y bröydd chwarelyddol. Yn wir, mae'r mwyafrif o bortreadau o chwarelwyr ers 1902 yn deillio'n rhannol o 'Cerdd yr Hen Chwarelwr'.

Wrth i'r gerdd ddatblygu, mae'r bachgen yn tyfu'n ddyn. Mae W. J. Gruffydd yn edmygu crefft a nerth y dynion ac yn beirniadu perchnogion y chwarel ar yr un gwynt:

Cryf oedd calon hen y glas glogwyni,
Cryfach oedd ei ebill ef a'i ddur;
Chwyddodd gyfoeth gŵr yr aur a'r faenol
O'i enillion prin a'i fynych gur.³³⁷

Mae gwrthdaro rhwng y gweithwyr a pherchnogion y chwareli yn pwysleisio gormes ac anghyfiawnder yr oes. Mae'n cyfeirio hefyd at ddiwylliant y chwarelwyr: 'Canodd yn y côr a gadd y wobor,'³³⁸ ond yn wahanol i rai portreadau mwy diweddar, nid yw'n gor-ddweud pwysigrwydd diwylliant a chrefydd i'r chwarelwr cyffredin.

Mae'n gerdd drist sy'n cyfleu byrhoedledd bywyd chwarelwr. Dyma'r diweddglo:

Neithiwr daeth tri gŵr o'r gwaith yn gynnar,
Soniwyd am y graig yn torri'n ddwy;
Dygydd rhywun tua'r tŷ ar elor,-
Segur fydd y cŷn a'r morthwyl mwy.³³⁹

Mae'r ddelwedd o'r morthwyl a'r cŷn yn segur heb law grefftus eu perchennog yn deimladwy ac yn pwysleisio'r gwacter ar ei ôl. Mae'r gerdd yn cyfleu amryw o agweddau ar fywyd y chwarelwr ac yn pwysleisio breuder bywyd mewn gwaith mor beryglus. Daw'r chwarelwr cydwybodol, diwylliedig a chrefyddol, a gaiff ei ladd yn niwedd y gerdd hon, yn symbol o holl weithwyr y diwydiant llechi. Dyma

³³⁷ Ibid.

³³⁸ Ibid.

³³⁹ Ibid.

wraidd myth y chwarelwr oherwydd mae wedi datblygu i fod yn sail i bortreadau stoc o weithwyr y diwydiant llechi. Mae arwriaeth y chwarelwyr yn wyneb pob rhwystr yn destun edmygedd yn yr holl gerddi hyn gyda phwyslais ar eu cryfder corfforol, meddyliol a gwleidyddol, a gellir dadlau bod y darlun hwnnw'n deillio o'r gerdd hon.

ii) Rhamantiaeth - R. Williams Parry

Un o'r themâu sy'n gwahaniaethu barddoniaeth oddi wrth ffuglen y bröydd chwarelyddol yw cyfeiriadau at y Mabinogi. Mae sawl cerdd gan R. Williams Parry am Ddyffryn Nantlle ac ynddynt mae'r bardd yn pwysleisio cyffelybiaethau rhwng y diwydiant llechi a hanes Llew yn y Mabinogi. Yn 'Dyffryn Nantlle Ddoe a Heddiw' mae llais Ymwelydd yn holi'r Brodor am y dirywiad yn Nyffryn Nantlle:

YMWELYDD

'Does ond un llyn ym Maladeulyn mwy;
A beth a ddaeth o'r ddâr ar y ddôl?

BRODOR

Daeth dau wareiddiad newydd i'n dau blwy':
Ac ni ddaw Llew i Ddyffryn Nantlleu'n ôl.³⁴⁰

Yn hytrach na rhamantu diwylliant y chwarelwyr neu alaru oherwydd creulondeb y diwydiant llechi, mae R. Williams Parry yn pwysleisio effaith annymunol y diwydiant ar brydferthwch yr ardal. Eglura Alan Llwyd y cyfeiriadau at Llew yn 'Dyffryn Nantlle Ddoe a Heddiw':

Ardal Baladeulyn yw cwr uchaf Dyffryn Nantlle, a cheid dau lyn yno, y llyn isaf, a'r llyn uchaf, ac at y llyn isaf y cyfeirir yn y llinell gyntaf, sef y llyn a sychwyd, ac a lanwyd gan rwbwl o chwarel Dorothea. Ceir cyfeiriad at y ddau lyn yn llinell gyntaf yr englyn a ganodd Gwydion wedi iddo ddarganfod Llew yn rhith eryr ar flaen pren yn y lle a enwyd yn Nantlleu oherwydd mai yno y darganfuwyd Llew.³⁴¹

³⁴⁰ R. Williams Parry, 'Dyffryn Nantlle Ddoe a Heddiw' yn *R. Williams Parry Y Casgliad Cyflawn 1905-1950*, gol. Alan Llwyd (Dinbych: Gwasg Gee, 1998), t. 139.

³⁴¹ Alan Llwyd yn *R. Williams Parry Y Casgliad Cyflawn 1905-1950*, gol. Alan Llwyd (Dinbych: Gwasg Gee, 1998), tt. 298-9.

Mae'r ffaith fod y llyn hanesyddol hwn wedi cael ei lenwi gyda rwbel chwarel yn peri gofid i R. Williams Parry. Iddo ef, trwy gollir'r llyn, mae'r fro hefyd wedi colli'r holl hud a hanes a'i gwnaeth yn bwysig yn y Mabinogi. Dyma fro Lleu, Gwydion a Blodeuwedd yn colli gafael ar y cysylltiad hynafol a chysygreddig rhwng y tirlun a'r brodorion.

Â R. Williams Parry ymlaen yn y gerdd i edrych yn uniongyrchol ar y chwarelwyr. Mae'r darlun ohonynt yn cyfuno dau gonfensiwn wrth eu portreadu sef dychryn at y gwaith a chanmol eu moesoldeb:

YMWELYDD

Pwy yw'r rhain sy'n disgyn hyd ysgolion cul
Dros erchyll drothwy chwarel Dorothea?

BRODOR

Y maent yr un mor selog ar y Sul
Yn Saron, Nasareth a Chaesarea.³⁴²

Bron nad yw R. Williams Parry yn rhagweld chwedloniaeth newydd yn lle chwedloniaeth y Mabinogi. Daw'r chwarelwyr i ddisodli Lleu a Blodeuwedd a'r manau cysegredig yn eu hanes. Dyma thema sydd hefyd yn gryf yn 'Y Ddôl a Aeth o'r Golwg' gyda'r is-deitl, '*Dôl Pebin y Mabinogion.*' Mae'r pennill olaf yn gofidio am yr harddwch sydd wedi ei ddifa am byth:

Yn Nhal-y-Sarn ysywaeth
Ni welwn Lyfni mwy,
Na gwartheg gwyrthiol Pebin
Yn eu cynefin hwy.
Buan y'n dysgodd bywyd
Athrawiaeth llanw a thrai:
Rhyngom a'r ddôl ddihalog
Daeth chwydfa'r Gloddfa Glai.³⁴³

³⁴² R. Williams Parry, 'Dyffryn Nantlle Ddoe a Heddiw' yn *R. Williams Parry Y Casgliad Cyflawn 1905-1950*, gol. Alan Llwyd (Dinbych: Gwasg Gee, 1998), t. 139.

³⁴³ R. Williams Parry, 'Y Ddôl a Aeth o'r Golwg' yn *R. Williams Parry Y Casgliad Cyflawn 1905-1950*, t. 71.

Mae chwarel Y Gloddfa Glai yn cael ei defnyddio fel symbol o ddiwydiant yn difa prydfferthwch naturiol. Mae Alan Llwyd yn disgrifio agwedd y gerdd fel a ganlyn:

Mae'r gerdd yn mynegi ymateb cymhleth R. Williams Parry i'r modd y difethwyd harddwch naturiol, hud, rhamant a chwedloniaeth bro ei febyd gan y diwydiant chwareli.³⁴⁴

Ond nid wyf yn credu bod llawer o gymhlethdod yn ymateb R. Williams Parry i'r diwydiant llechi. Fel y mwyafrif o feirdd sydd yn ysgrifennu am y testun, mae'n edmygu'r gwŷr a'u crefft ond yn casáu'r diwydiant a'i effaith ar y tir. Wrth adleisio agwedd y Rhamantwyr yn niwedd y ddeunawfed ganrif at y chwyldro diwydiannol, mae R. Williams Parry yn tanlinellu pwysigrwydd hanesyddol y Mabinogi yn Nyffryn Nantlle ac yn gofidio bod Cymru yn colli gfael ar ei hanes yn enw cynnydd.

Mae 'Eifionydd' hefyd yn adleisio'r un sentiment wrth i'r bardd wrthgyferbynnu harddwch Eifionydd gyda hagrwch y bröydd chwarelyddol:

O olwg hagrwch Cynnydd
Ar wyneb trist y Gwaith
Mae bro rhwng môr a mynydd
Heb arni staen na chraith,
Ond lle bu'r arad ar y ffridd
Yn rhwygo'r gwanwyn pêr o'r pridd.³⁴⁵

Mae Eifionydd yn parhau i fod yn bur yng ngolwg Williams Parry ac yn rhydd o lygredd diwydiant. Wrth ganmol Eifionydd mae'n gofidio'r un pryd am Ddyffryn Nantlle, lle cafodd ei fagu, a Dyffryn Ogwen, lle'r aeth i fyw. Mae Eifionydd yn ddihangfa oddi wrth y 'dyffryn diwydiannol'³⁴⁶ sydd yn prysur greithio a difa'i phrydfferthwch. Felly hefyd mae portread Gwilym R. Jones yn 'Dyffryn Nantlle'³⁴⁷ lle mae'r bardd yn dechrau cwestiynu a yw hud y Mabinogi yn parhau i fodoli yn y tir. Yn debyg i R. Williams Parry, mae'n rhagweld bod olion y Mabinogi yn cael

³⁴⁴ Alan Llwyd yn *R. Williams Parry Y Casgliad Cyflawn 1905-1950*, gol. Alan Llwyd (Dinbych: Gwasg Gee, 1998), tt. 267-8.

³⁴⁵ R. Williams Parry, 'Eifionydd' yn *R. Williams Parry Y Casgliad Cyflawn 1905-1950*, t. 72.

³⁴⁶ Ibid.

³⁴⁷ Gwilym R. Jones, 'Dyffryn Nantlle' yn *Cerddi Gwilym R.* (Bala: Llyfrau'r Faner, 1969), t. 96.

eu difa a'u hanghofio. Mae 'Gwae Annwn'³⁴⁸, cerdd arall gan Gwilym R. Jones, yn cyfleu pa mor berthnasol yw Lleu i chwedloniaeth leol y Dyffryn a cheir disgrifiad tebyg yn 'Nant Lleu'³⁴⁹ gan Mathonwy Hughes. Yn wir, ceir sawl cerdd sy'n chwarae gyda'r ffaith i Ddyffryn Nantlle gael ei enwi ar ôl Lleu a'r beirdd yn cael eu hollti gan y cwestiwn a ddaw Lleu yn ôl i'r dyffryn diwydiannol.

iii) Ailddehongli'r Mabinogi – Tom Huws ac Emrys Roberts

Yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru yng Nghaernarfon yn 1959 enillodd Tom Huws y bryddest gyda'i gerdd 'Cadwynau'. Mae'n pwysleisio'r tawelwch yn Nyffryn Nantlle wedi i'r chwarel gau, nodwedd gyffredin ym marddoniaeth y bröydd:

Heddiw mae ynfyd dawelwch yn cerdded trwy lawr y dyffryn,
Mor dawel a phlentyn yng nghroth ei fam.
Mwyach ni chlywir
hwteri'r chwarel fel cynt
Yn rhwygo'r awyr plisgyn ŵy.³⁵⁰

Mae Tom Huws yn creu awyrgylch yn gelfydd a thrwy'r gyfres o ddelweddau am enedigaeth, y groth a'r plisgyn wy, mae'n cysylltu diwedd y diwydiant llechi gydag aileni'r Mabinogi:

Daw lleuad arian i ddilladu erwau,
A llathru Llyfnwy'n llyfn o arian byw,
A throi hen domenydd [sic] rwbel
Yn fynyddoedd hud a lledrith.³⁵¹

³⁴⁸ Gwilym R. Jones, 'Gwae Annwn' yn *Cerddi Gwilym R.*, t. 6-7.

³⁴⁹ Mathonwy Hughes, 'Nant Lleu' yn *Corlannau a cherddi eraill* (Bala: Clwb Llyfrau'r Faner, 1971), t. 1.

³⁵⁰ Tom Huws, 'Cadwynau' yn *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru yng Nghaernarfon 1959* (Caernarfon: Gwasg y Brython, 1959), t. 41.

³⁵¹ *Ibid.*, t. 42.

Mae sawl cyfeiriad at y Mabinogi o safbwynt y diwydiant llechi: 'Erthylon Gwern a Chriafol yn cuddio creithiau y mynyddoedd.'³⁵² Wrth blethu delweddau o dirlun ôl-ddiwydiannol Dyffryn Nantlle gyda chwedloniaeth yr ardal, mae Tom Huws yn cynnig dehongliad newydd o bresennol y fro.

Mae 'Cadwynau' yn awgrymu bod Llew yn dychwelyd a'i fod yn gallu ailhawlio'r tir wrth i'r chwareli gau:

Bro Pebin a Llew,
Dau fu'n dalog a diofal
Cyn eu caethiwo rhwng cloriau'r Mabinogion
Yng nghwmni'r ferch a wnaed o flodau'r gwŷdd.³⁵³

Mae'r bryddest yn llawn delweddau o gaethiwed, fel Pebin a Llew yng nghloriau'r Mabinogi a'r chwarelwyr yn gaeth wrth gadwyni'r chwarel:

Dyma'r cadwynau.
Nid cadwyn o aur Drws-y-Coed
Sy'n pontio cyfandir gwasgod y Stiward bach;
Nid cadwyn groenddu, crogedig [sic]
Yn dal crochan yng nghegin yr Amgueddfa.³⁵⁴

Mae cyfeiriad yma at y cysylltiad rhwng y diwydiant llechi yng Nghymru a chaethwasiaeth mewn planhigfa siwgr yn Jamaica. Mae'r cadwynau yn symbol o gaethiwed ac yn cyfleu dibyniaeth y fro ar y chwarel yn effeithiol. Wrth i'r cadwynau ddadfeilio, mae'r fro yn gallu dychwelyd at ei gwreiddiau chwedlonol. Bron nad yw 'Cadwynau' yn aildehongliad ôl-ddiwydiannol o gerddi R. Williams Parry, gyda diwedd y diwydiant llechi yn caniatáu dychweliad Llew.

Â'r bardd ymlaen i greu chwedloniaeth newydd i'r bröydd trwy gyfeirio at gymeriadau enwog y chwareli. Mae'n cyfeirio at bwysigrwydd crefydd i'r chwarelwyr heb ddelfrydu, yn wir bron nad yw ei dafod yn ei foch wrth gyflwyno'r capeli: 'Bro bocsus o gapeli fu'n solas i eneidiau'r werin mewn dyddiau blin.'³⁵⁵ Mae Tom Huws yn barod i roi darlun o'r chwarelwyr roedd ef yn

³⁵² Ibid, t. 41.

³⁵³ Ibid.

³⁵⁴ Ibid, t. 45.

³⁵⁵ Ibid, t. 41.

eu hadnabod yn hytrach na'r chwarelwyr llenyddol. Mae'n bortread cytbwys sy'n ennyn clod gan Cynan, un o feirniaid y gystadleuaeth:

Rhagorfraint *Brig Mawr* ydyw bod gwreiddiau ei farddoniaeth mor ddwfn ac mor sicr ym mhridd daear y fro y cân amdani. Nid rhyw hunan-dosturi ffansiol sydd yma, eithr gŵyr hwn trwy brofiad am gadwyn gymdeithasol yr hen fywyd Cymreig yn ardal y chwareli, y gadwyn a forthwyliwyd ac a asiwyd ar eingion y cyd-fyw, y cyd-chwerthin, y cyd-ddioddef, a'r cyd-addoli. Nid oes dim yn aros ond olion prin o'r hen gymdeithas honno; enwau'n unig ar gerrig beddau yw llawer o'i haelodau bellach.³⁵⁶

Mae Tom Huws yn fodlon archwilio ffaeleddau'r gymdeithas Gymraeg yn ogystal â'i chanmol. Nid oedd bywyd yn y bröydd chwarelyddol yn fêl i gyd - mae hynny'n cael ei bwysleisio mewn llenyddiaeth - ond mae'r gerdd hon yn archwilio gwendidau'r gymdeithas Gymraeg yn ogystal ag anghyfiawnderau'r oes. Mae safbwynt y beirniad yn ddiddorol am ei fod yn cael ei fynegi yn 1959, oherwydd mae ymwybyddiaeth amlwg o drobwynt yn hanes y bröydd chwarelyddol yma. Er mai sôn am ddiwedd y gymdeithas Gymraeg draddodiadol y mae Cynan yn y fan hon, mae'r gerdd yn gosod y diwydiant llechi yn gadarn yn y cyfnod ôl-ddiwydiannol. Gyda'r chwarelwyr yn aml yn cael eu defnyddio fel symbol o'r gymdeithas Gymraeg ddelfrydol, mae'n ingol eu bod yn symbol o'i diwedd yn y gerdd hon.

Bron nad yw'r bryddest hon yn farwnad i'r diwydiant llechi wrth i'r gerdd bwysleisio'r dirywiad:

Dim Cowntis, Dutchis, na Phrinsis -
Diawlio Rhagluniaeth, a chrafu tomennydd;
Dim ond damp-côrs dienaidd digwilydd.³⁵⁷

Mae gwacter yn cael ei gyfleu ynghyd â'r dadfeilio:

Gwylio gweigion wagenni'r drên,
A rhwd fel haint yn eu hysu,

³⁵⁶ Cynan, 'Beirniadau y Bryddest', *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru yng Nghaernarfon 1959* (Caernarfon: Gwasg y Brython dros Lys yr Eisteddfod Genedlaethol, 1959), t. 39.

³⁵⁷ Tom Huws, 'Cadwynau' yn *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru yng Nghaernarfon 1959*, t. 47.

Troi am Ddôl-Pebin a rhynnu.³⁵⁸

Mae Tom Huws o flaen ei amser i raddau wrth ddisgrifio diwedd y diwydiant. Wrth blethu delweddau o'r Mabinogi gyda diwedd cymdeithas a diwydiant y chwarelwyr, mae Tom Huws yn cynnig dechrau newydd i hen fro.

Wrth ystyried hyn, mae awdl fuddugol Emrys Roberts yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor a'r Cylch yn 1971 yn hynod ddiddorol. Wrth i'r Eisteddfod osod y testun 'Y Chwarelwr' ar drothwy'r cyfnod ôl-ddiwydiannol, roedd potensial i gael dehongliadau cyfoes o'r diwydiant a'r bröydd. Wrth i'r beirniaid ystyried y testun, roeddynt yn teimlo ei fod yn thema hen-ffasiwn gyda phopeth a allai fod wedi ei ddweud am y diwydiant a'i weithwyr bellach wedi ei ddweud. Yn y feirniadaeth dywedir am y cystadleuwyr:

Yn anffodus, ni chyffrowyd hwythau'n ddigonol gan y testun a osodwyd iddynt i ganu arno nes eu cymell i durio dan yr wyneb am ddehongliad barddonol o gymeriad a bywyd y chwarelwr. Ni fedrodd yr un ohonynt anghofio'n llwyr y darlun llenyddol traddodiadol o'r chwarelwr fel y'i ceir yn 'Cerdd yr Hen Chwarelwr', W. J. Gruffydd, nac anghofio awdl galon-gynnes Gwilym R. Tilsley, 'Y Glowr'.³⁵⁹

Mae bron fel petai'r byd barddonol wedi creu confensiynau y mae'n rhaid ufuddhau iddynt wrth bortreadu chwarelwr, a 'Cerdd yr Hen Chwarelwr' yn wraidd i'r portread hwnnw. Llwyddodd Emrys Roberts i ennill y Gadair gyda'r ffugenw *Lleu* a chredai'r beirniaid ei fod yn llwyddo i roi gwedd newydd ar hen hanes trwy glymu'r thema gyda hanesion o'r Mabinogi. Dywed y beirniaid: 'Nid yw *Lleu*'r hen chwedl mor anghyffwrdd ag y tybiwn, na'r chwarelwr mor ddigefndir. Fe ddaeth *Lleu* i Ddyffryn Nantlleu'n ôl.'³⁶⁰

Mae Emrys Roberts yn plethu dyfyniadau o'r Mabinogi gyda delweddau o'r diwydiant llechi yn gelfydd:

Y mae stamp dioddefaint ar gampwaith,
Daw i *Lleu*'r artist welw awr o artaith;

³⁵⁸ Ibid.

³⁵⁹ Gwilym R. Jones, William Morris a Thomas Parry, *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Bangor a'r Cylch, 1971* (Gwasg Gomer: Llandysul, 1971) t. 3.

³⁶⁰ Ibid, t. 9.

Ond ni all loes y groes na'r graith- lethu
Mynwes a wybu am wynias obaith.³⁶¹

Mae hefyd yn gweu delweddau o ddiwylliant yr ardal yn y gerdd wrth gyfeirio'n gyson at Llew fel artist. Mae ystyr ddwbl i'r cyfeiriad hwnnw wrth i Llew ddefnyddio'i grefft ar y graig i greu'r llechi, a hefyd wrth iddo ysbrydoli'r rhai sy'n byw ym 'mro'r artistiaid.'³⁶² Yn ôl beirniaid y gystadleuaeth, roedd yr awdl hon yn dod â dyfnder newydd i'r portread o Ddyffryn Nantlle fel bro Llew.

Nid oedd y beirniaid yn meddwl llawer o gynhyrchion y cystadleuwyr yn gyffredinol. Dywed y feirniadaeth: 'Hen-ffasiwn bellach yw'r portread o'r chwarelwr a gafwyd ganddynt: nid yw pob chwarelwr yn 'selog ar y Suliau'³⁶³ nac yn pesychu'n silicosaidd.'³⁶⁴ Ond wrth ystyried yr holl farddoniaeth am y chwarelwyr, mae delweddau o'r Mabinogi a ffigwr Llew yr un mor gyffredin â'r chwarelwr diwylliedig, silicosaidd, crefyddol. Dywed y beirniaid fod y mwyafrif yn darlunio'r chwarelwr a'i bryderon yn ystrydebol, 'gweithiwr cydwybodol, dedwyddwch ei gartref, caledi a pheryglon ei orchwyl, bychander ei gyflog, anghydfod rhwng cyflogwr a gweithiwr, a streic.'³⁶⁵ Maent yn feirniadol nad oes stamp gwreiddiol i'r gweithiau. Mae'r hyn a ddywed y beirniaid yn hynod ddiddorol oherwydd maent yn cydnabod bod myth wedi cael ei sefydlu erbyn 1971. Yn y cyfnod ôl-ddiwydiannol mae chwarelwyr yn parhau i fod ynghlwm â'r un hen lun.

Er bod beirdd eraill eisoes wedi ysgrifennu am Ddyffryn Nantlle a'r diwydiant llechi trwy eu cyffelybu i'r Mabinogi, mae Emrys Roberts yn adleisio pryddest Tom Huws wrth fynd â'r gymhariaeth rhwng Llew â'r chwarelwr ymhellach:

Er rhwydi ystryw y stiward estron,
Rheg y rheolwr, fel Gronw Pefr greulon,
Taniwyd digofaint dynion, - a'r fflam fry

³⁶¹ Emrys Roberts, 'Y Chwarelwr' yn *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Bangor a'r Cylch, 1971* (Gwasg Gomer: Llambod, 1971), t.15.

³⁶² Ibid, t. 13.

³⁶³ R. Williams Parry, 'Dyffryn Nantlle Ddoe a heddiw' yn *R. Williams Parry Y Casgliad Cyflawn 1905-1950*, gol. Alan Llwyd (Dinbych: Gwasg Gee, 1998), t. 139.

³⁶⁴ Gwilym R. Jones, William Morris a Thomas Parry, *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Bangor a'r Cylch, 1971* (Gwasg Gomer: Llandysul, 1971), t.5.

³⁶⁵ Ibid, t. 6.

Drwy'u cyni a orfu'n y streic yn Arfon.³⁶⁶

Mae hanes Lleu a Blodeuwedd yn cael ei blethu gyda'r chwarel i greu chwedloniaeth gyfoes. Mae'r stiward a'r rheolwr yn destun gwawd yn holl lenyddiaeth y bröydd chwarelyddol ac felly wrth eu cymharu â Gronw Pebr mae Emrys Roberts yn atgyfnerthu'r ddelwedd ohonynt fel ffigyrau i'w casáu. Mae bygythiad streic yn bresennol yma, ond wrth uno'r diwydiant llechi â hanesion a chymeriadau'r Mabinogi, mae hyd yn oed yr hen thema honno yn cael gwedd newydd.

Yn niwedd 'Y Chwarelwr', mae Lleu wedi dychwelyd a'i olion yn fyw yn y tir:

Aur lewyrch yr haul ar lwch chwarelwr, -
Ac â thanbaid drem megis llygaid draig
Dychwelodd Lleu yn dragwyddol ieuanc,
Eto'n ddisgleirdeb ar wyneb y graig.³⁶⁷

Mae Emrys Roberts yn ailddehongli hanes Lleu yn y Mabinogi trwy ei osod yng nghanol y diwydiant llechi. Mae Lleu yn celfydd naddu'r graig ac yn dychwelyd gobaith a phwysigrwydd hanesyddol i'r fro. Tra mae beirdd cynharach fel R. Williams Parry ac un o feirniaid y gystadleuaeth, Gwilym R. Jones, yn tueddu i ddisgrifio'r diwydiant llechi fel rhywbeth sy'n difa hanes a chwedloniaeth y fro, mae Emrys Roberts yn ysgrifennu amdano fel parhad o chwedloniaeth y Mabinogi. Yn 'Cadwynau' gan Tom Huws, mae geni'r cyfnod ôl-ddiwydiannol yn gyfle i'r fro ddychwelyd at ei gwreiddiau chwedlonol. Gellir dirnad felly fod barddoniaeth ar drothwy'r cyfnod ôl-ddiwydiannol yn fwy parod i bortreadu cymeriadau'r Mabinogi fel dylanwadau byw ar dirlun Dyffryn Nantlle tra mae barddoniaeth y cyfnod diwydiannol yn pwysleisio eu habsenoldeb. Dyma gyfleu effaith y cyfnod ôl-ddiwydiannol ar farddoniaeth y bröydd chwarelyddol.

³⁶⁶ Emrys Roberts, 'Y Chwarelwr' yn *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Bangor a'r Cylch*, 1971, t. 14.

³⁶⁷ *Ibid*, t. 16.

iv) Moderniaeth - Caradog Prichard

Bardd sydd yn gweld gwedd newydd, fodern ar hen fro yw Caradog Prichard. Yn ei gerdd 'Trwy Borth y Bedd' mae'n dychmygu Dyffryn Ogwen yn wag. Darlunnir Bethesda fel tref o ysbrydion ac mae'r chwarel yn hen friw:

Dilynais heibio i'r chwarel chwyrn
A'i llechi glas yn lluchio'u glud
Dros friw diriondeb dwylon werdd.³⁶⁸

Mewn sawl un o gerddi Caradog Prichard mae'r cymeriadau'n byw yng nghysgod y chwarel; mae hi fel cread hollalluog sydd yn edrych dros fywydau'r trigolion. Crwydra'r cymeriad yn y gerdd, neu efallai Prichard ei hun, trwy fro fud ei febyd:

Nes dod i gysgod diwyd gyrr
Simneiau teiau'r pentre mud
A thafarn segur a di-gerdd.³⁶⁹

Llwydda Prichard i gyfleu awyrgylch o ansicrwydd yn effeithiol wrth bortreadu pentref wedi ei adael gan y brodorion. Â'r cymeriad i hen dafarn a dechreua yfed gydag ysbryd sy'n farw ers deugain haf. Mae'r ysbryd yn cofio taid y bardd ac yn llawn sgwrs am y dyddiau a fu:

A galwodd i'w gyfeddach fudr
Adroddwyr a chantorion meddw
I sugno llawen chwedl o'r llaid.³⁷⁰

Mae'r diweddglo hwn yn hynod o berthnasol i'r astudiaeth hon oherwydd ei fod yn agored i'w ddadansoddi. Gyda'r adroddwyr a chantorion yn gyfeiriad at ddiwylliant Bethesda, mae Prichard yn tanseilio'r diwylliant wrth iddynt oll fod yn feddw ac yn farw. Mae'r llinell 'I sugno llawen chwedl o'r llaid' yn arbennig o berthnasol ac efallai'n awgrym o ddyrchafiad y chwarelwyr ac yn

³⁶⁸ Caradog Prichard, 'Trwy Borth y Bedd' yn *Tantalus* (Dinbych: Gwasg Gee, 1957), t. 22.

³⁶⁹ Ibid.

³⁷⁰ Ibid, t. 23.

gydnabyddiaeth o fyth y chwarelwr diwylliedig. Awgryma'r llinell hon fod yr ysbrydion meddw yn rhamantu am eu hoes ac yn ceisio rhoi darlun hapus o fywydau trasig. Gall hyn fod yn symbol o'r ffordd y mae'r bröydd chwarelyddol yn cael eu portreadu, sef creu chwedlau cyfoes am yr arwyr oedd yn dioddef yn llaid y chwareli.

Nid perchnogion y chwareli a gaiff eu portreadu fel gelynion gan Caradog Prichard ond yn hytrach y graig ei hun. Fel yn rhyddiaith Dic Tryfan lle daw'r graig yn fyw er mwyn lladd y dynion sy'n gweithio arni, mae'r graig ym mhryddest Caradog Prichard, 'Y Briodas,' yn greulon ac yn casáu'r chwarelwyr am ei chreithio. Enillodd Caradog Prichard y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdybi yn 1927 gydag 'Y Briodas'. Mae'r gyfres hon o delynegion yn cynnwys tair pennod ac wedi eu hysgrifennu o dri safbwynt; y mynydd, y wraig a gollodd ei gŵr yn y chwarel, a'r afon o 1900 hyd at 1920. Mae'r bryddest yn agor gyda'r wraig sy'n galaru am ei gŵr:

Er mwyn chwiorydd eraill sy'n disgwyl bob awr gariad
Yn dirion am eu gwŷr o greigiau Chwarel y Cae
Na wyddant eto am affwys ehangddu'r ymwahaniad,
Na'r gwyllo syn bob hwyrddydd a'i oriau hir o wae.³⁷¹

Mae'n anodd peidio â darllen gweithiau Caradog Prichard o safbwynt bywgraffiadol. Wrth gwrs, roedd ei dad ei hun wedi ei ladd yn y chwarel ac ni ellir ond dychmygu mai llais ei fam sydd yma. Yn sicr, mae dicter amlwg tuag at y mynydd lle y lladdwyd ei dad yn y gerdd hon.

Llofruddiwyd y gŵr yn y chwarel gan y mynydd sydd yn ceisio dial ar y dynion am y graith sy'n ei gorchuddio. Yn y mwyafrif o weithiau llenyddol, natur y diwydiant llechi a pherchnogion y chwareli sy'n cael eu hystyried yn gyfrifol am anharddu'r tirlun. Ond yma, mae mynydd Caradog Prichard yn ystyried y chwarelwyr eu hunain yn gyfrifol. Mae hi'n atgoffa'r dynion o'r holl genedlaethau o'u teuluoedd sy'n gorffwys yng nghrombil y chwarel:

Pan glywoch wyllt oernadau

³⁷¹ Caradog Prichard, 'Y Briodas' yn *Cerddi Caradog Prichard: Y Casgliad Cyflawn* (Abertawe: Gwasg Christopher Davies, 1979), t. 13.

Yn gwau o gylch fy nhroed,
Gwybyddwch mai eich tadau
Sydd yma'n cadw eu hoed
A minnau'n tyrru uwch yr hwyl
Mor gadarn ag erioed.³⁷²

Mae'r mynydd yn llawn gwawd ac yn herio'r chwarelwyr gan wybod eu bod yn gaeth iddi. Mae'n ddelwedd hunllefus o'r mynydd yn bwriadol ladd y dynion, yn enwedig wrth i'r bardd gyferbynnu safbwynt y graig gyda'r wraig weddw. Wrth i'r gerdd ddatblygu, mae casineb y mynydd yn tyfu:

Wylwch, y ffyliaid, chwerthwch,
Gwallgofwch eto fwy;
Chwychwithau, gŵn, cyferthwch
Yn ôl eu sodlau hwy
Pan geisiant ddianc cyn eu pryd
I fynwent fud y plwy.³⁷³

Hyd yn oed ar ôl i'r chwarelwyr farw ar ochr y graig, mae'r mynydd yn parhau i'w harteithio. Dyma adlais o Frenhines y Llyn Du ym mhennod 15 o *Un Nos Ola Leuad*; mae hi'n cael ei phortreadu fel duwies greulon, hollalluog sy'n diystyru bywydau'r dynion cyffredin.

Mae'r afon yn yr awdl yn gyferbyniad llwyr i'r mynydd. Mae hi'n gwrando ar dramp y traed ar y ffordd i'r chwarel ac yn gofidio amdanynt dan wg y graig. Caiff y chwarelwyr eu portreadu fel byddin ac mae hynny'n cryfhau thema'r frwydr rhwng y dynion a'r mynydd. Defnyddir delweddau o natur i greu awryglch a phwysleisio bygythiad y graig:

Ambell i fore fe fydd lliw
Y gwyrdd-ddail llaith yn duo,
A deudroed sionc ynghwsg o'r criw,
A'r awel yn eu suo;
A gwg y graig fydd yn fwy bryd hyn,
A'i harswyd arnaf yn fwy bryd hyn.³⁷⁴

³⁷² Ibid, t. 14.

³⁷³ Ibid, t. 23.

³⁷⁴ Ibid, t. 15.

Wrth i'r afon gydymdeimlo â'r dynion a phoeni amdanynt, mae Caradog Prichard yn gallu mynegi safbwynt addfwyn natur. Mae'r afon yn sylwi os oes un o'r dynion ar goll ac mae'n wrthbwynt i greulondeb y mynydd:

Ond os bydd dau gynefin droed
Yfory'n fud o'r dyrfa,
A'r creigiau ban a dail y coed
Yn gwgu ar fy ngyrfa,
Caf stelc er hynny wrth Bont y Tŵr,
Yn llyn bach diog wrth Bont y Tŵr.³⁷⁵

Tra bo'r mynydd yn casáu'r dynion fel petaent yn forgrug yn difa ei phrydferthwch, mae'r afon yn adnabod sŵn traed pob unigolyn wrth iddynt groesi'r bont ar eu ffordd i'r gwaith. Dyma adlais efallai o lais Brenhines y Llyn Du ym mhennod 8 *Un Nos Ola Leuad*, pan fo'r llais yn gariadus ac yn famol. Mae 'Y Briodas' yn mynegi pwysigrwydd unigolyn ac yn pwysleisio mor drasig a brau yw bywyd chwarelwr. Gellir dadlau bod y gerdd hon yn ailddehongliad modernaid o 'Cerdd yr Hen Chwarelwr' gan W. J. Gruffydd wrth iddi edrych ar effaith ehangach marwolaeth chwarelwr a rhoi llais i'r graig a'i lladdodd.

v) Safbwynt y Ferch - Lisi Jones

Daeth awdl Lisi Jones, 'Y Chwarelwr' yn agos i'r brig yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor yn 1971 ac fe'i cyhoeddwyd yn ddiweddarach yn ei chyfrol, *Swper Chwarel* yn 1974. Mae ei phortread hi o chwarelwr yn ystrydebol ac yn defnyddio'r delweddau gor-gyfarwydd roedd y beirniaid yn cwyno amdanynt. Mae'r gyfrol hon o farddoniaeth yn agor gyda'r awdl, 'Y Chwarelwr' sy'n adrodd hanes bachgen ifanc yn gorfod gadael yr ysgol a mynd i'r chwarel er mwyn cynnal ei deulu:

Yn was llon mewn trowsus llaes,
Anaeddfed i'w newyddfaes.³⁷⁶

³⁷⁵ Ibid.

³⁷⁶ Lisi Jones, 'Y Chwarelwr' yn *Swper Chwarel* (Caernarfon: Llyfrau'r Methodistiaid Calinaidd, 1974), t. 9.

Dyma adlais pendant o 'Cerdd yr Hen Chwarelwr' gan W. J. Gruffydd sy'n agor gyda'r un dôn a mynegiant. Mae'r bachgen ifanc yn dechrau yn y chwarel oherwydd bod ei dad newydd gael ei ladd yno ac mae'n rhaid iddo ef yn awr gynnal y teulu. Dan amgylchiadau felly mae'r ansoddair 'llon' braidd yn amhriodol. Mae'n rhan o'r portread confensiynol o chwarelwr i ddisgrifio'r cynnwrf o ddechrau yn y chwarel a chael trowsus hir fel symbol ei fod bellach yn ddyn. Ond nid yw'r darlun hwnnw'n gweddu rywsut yn y fan hon gyda'r bachgen yn gorfod troi'n benteulu dros nos.

Yn hwyrach yn y gerdd ceir disgrifiad o farwolaeth y tad:

Rhuddaidd boer a roddodd ben - ar ei hoedl,
Trwy ryw hy dynghedfen
Y'i lluchiodd hen dduw'r llechen
Yn wŷr llwyd o'i aelwyd wen.³⁷⁷

Mae'n defnyddio lliwiau i gyferbynnu llwch a chreulondeb y chwarel gyda phurdeb yr aelwyd. Yma hefyd, fel yn 'Y Briodas' gan Caradog Prichard, ceir y ddelwedd o'r mynydd yn mynd ati'n fwriadol i ladd y dynion sy'n ei chreithio wrth i hen dduw'r llechen luchio'r graig 'ddidostur'.³⁷⁸ Trwy ddisgrifio'r chwarel fel hen dduw'r llechen, mae Lisi Jones yn pwysleisio meidroldeb y gwŷr cyffredin a'u bod yn ddiymadferth wrth wynebu gwg y graig.

Yr hyn sy'n unigryw i farddoniaeth Lisi Jones yw safbwynt y ferch. Mae hynny'n gryfach yma nag ym marddoniaeth y beirdd eraill yn enwedig o ran disgrifio gwaith yn y cartref. Mae'r dynion sy'n ysgrifennu barddoniaeth am y chwarelwyr fel arfer yn cyfeirio at y caledi y mae'r fam yn ei wynebu, ond gan Lisi Jones cawn fwy o fanylion am gost tloidi i ferch:

I'w ddinam fam, ef a fyn
Uno deupen y llinyn.
Hon a ymprydiodd, cans llwm y prydau,
A hi yn taenu'r ymenyn tenau
'N ysgafn â'i chylllell hyd ei thafellau;

³⁷⁷ Ibid, t. 11.

³⁷⁸ Ibid.

A thaer ei hyder wrth borthi rheidiau.
Ysig fron dan ei gwisg frau- mewn byd main
Yn dal heb ochain nac edliw beichiau.³⁷⁹

Yn sicr mae adlais o weithiau Kate Roberts yma wrth i'r fam boeni am fwydo'r teulu. Defnyddir tŷn o ddiacter yn effeithiol wrth ddwrddio hen reolau sy'n faich ychwanegol ar fenywod y bröydd chwarelyddol:

Yn y rhes troedia y rhain
Yn loyw mewn crysbais liain
I fwrllwch y llwch a'r llaid,
Yn eu hynod wisg gannaid,
A olchwyd fel gwyn galchen
Yn ôl hawl rhyw reol hen.³⁸⁰

Cyfleir y cyferbyniad rhwng gwaith y gwragedd a'r dynion yn symbolaidd trwy'r cyferbyniad rhwng y wisg wen a'r llwch a'r llaid. Ond mae bywyd a gwaith merch yr un mor anodd yn y gymdeithas hon; mae'n rhaid i'r merched gydgario baich eu gwŷr. Trwy roi safbwynt benywaidd i fywyd yn y bröydd chwarelyddol mae gan Lisi Jones lais unigryw sy'n rhoi mwy o ddyfnder a gwreiddioldeb i'r awdl.

Ond ar ôl dangos potensial yn ei phortread o wragedd a mamau chwarelwyr, mae Lisi Jones yn mynd ymlaen i ailadrodd hen ystrydebau fel a ganlyn:

Am bris sâl i'r graig galed
Yr ânt yn eu melfaréd.³⁸¹

Mae'r bardd hefyd yn cyfeirio at effaith y llwch, a'r chwarelwr yn cwyno mor 'garw a chaled yw'r goruchwyliwr'³⁸² ac yn disgrifio'r anghyfiawnderau dan orthrwm y perchnogion. Ceir disgrifiadau o'r rhyfel a'r undebau yn ogystal â chyfeiriadau at bwysigrwydd diwylliant i'r chwarelwyr; y Beibl, y capel a'r côr. Nid oes unrhyw sôn am dafarn neu ddawns. Mae'n siom, mewn gwirionedd, bod

³⁷⁹ Ibid, tt. 9-10.

³⁸⁰ Ibid, t. 10.

³⁸¹ Ibid.

³⁸² Ibid, t. 13.

y bardd yn dilyn y dynion i'r chwarel yn hytrach na rhoi llais i fyd y ferch mewn bro chwarelyddol, llais sydd yn llawer llai cyfarwydd mewn llenyddiaeth.

Mae'r awdl yn cloi ar nodyn diddorol o ystyried dyddiad yr awdl. Agorwyd Llechwedd a'r Amgueddfa Lechi yn 1972 a bu Lisi Jones yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1971. Efallai bod y gerdd wedi cael ei golygu rhwng hynny a'i chyhoeddi yn *Swper Chwarel* yn 1974 oherwydd mae'r awdl yn cloi trwy gyfeirio at yr Amgueddfa Lechi:

On d ar fyrder nid erys
O'i arwriaeth namyn y creiriau
Yn hawddfyd yr amgueddfa.³⁸³

Mae holl arwriaeth y chwarelwr yn gadael y byd gydag ef pan fydd farw ond gadewir y creiriau ar ôl i dystio ei fod wedi bod yno, ac wedi siapio'r mynydd. Mae 'hawddfyd yr amgueddfa'³⁸⁴ yn pwysleisio'r cyferbyniad llwyr rhwng gwaith y chwarelwr a'r gwaith o'u coffáu. Er bod y diwedd glo yn mynegi rhywfaint o falchder bod arwriaeth y chwarelwr yn cael ei chofio, mae tòn hiraethus yma am yr oes a fu. Wrth i'r gerdd gael ei hysgrifennu ar drothwy'r cyfnod ôl-ddiwydiannol, mae ganddi safbwynt pwysig i'r astudiaeth hon. Trwy gydnabod diwedd y diwydiant llechi wrth gloi'r gerdd, mae Lisi Jones yn cynnig diwedd glo addas i un bennod o hanes y bröydd chwarelyddol.

vi) Cerddi gan chwarelwr – Twm Bethel a J. D. Evans

Rwyf eisoes wedi cyfeirio at gyfrolau'r beirdd hyn yn yr adran am hunangofiannau bro. Roedd Twm Bethel a J. D. Evans yn chwarelwr ac yn ysgrifennu barddoniaeth ac atgofion am eu profiadau yn y chwarel. Roedd Twm Bethel yn chwarelwr o Ddyffryn Peris ac mae ei farddoniaeth yn fewnwelediad i ddiwylliant y caban a'r fro ar ddiwedd oes y diwydiant llechi yn y dyffryn. Mae ei gerddi yn dilyn patrwm odli syml ac yn hawdd eu deall. Yn aml, mae Twm Bethel

³⁸³ Ibid, t. 18.

³⁸⁴ Ibid.

yn defnyddio ei farddoniaeth i wneud pwyntiau gwleidyddol am hawliau'r gweithwyr, neu weithiau i adrodd stori ddoniol. Mae llawer o amrywiaeth yn y casgliad ond yn y bôn mae arddull syml y bardd a'i lais sgysiol yn hawdd eu hadnabod.

Ysgrifennodd Dafydd Iwan gyflwyniad i'r casgliad o gerddi sydd yn dychmygu cynulleidfa'r bardd:

Prin iawn yw'r cerddi Cymraeg sy'n sôn am waith a gweithwyr, Undebaeth a chyflog, ond fe geir nifer ohonynt yn y casgliad hwn. Mae cysgod y chwarel – yn drwm ac ysgafn – ar lawer o'r cerddi, ac y mae'n amlwg mai i'w hadrodd yng nghaban y chwarel, neu ym mar y Gors Bach, y cyfansoddwyd y rhan fwyaf ohonynt.³⁸⁵

Yn sicr, mae cysgod y chwarel trwy'r gyfrol ac yn ganolbwynt i'r mwyafrif o'r cerddi. Mae'n ddiddorol bod Dafydd Iwan yn rhestru'r caban a'r dafarn fel manau i adrodd y cerddi hyn oherwydd bod tueddiad i weld y ddau leoliad fel gwrthbwyntiau. Er bod Twm Bethel yn chwarelwr sy'n barddoni, nid yw'n darlunio ei hun na'i gydweithwyr fel gwŷr diwylliedig. Mae cerddi am ennill y pŵls, cymeriadau lleol, marwolaethau a hanesion o'r chwarel a'r tafarndai. Nid yw'r bardd yn gwneud ymdrech i barhau gyda myth y chwarelwr diwylliedig, dim ond adrodd hanesion ar ffurf cerddi, rhai'n ddoniol a rhai'n drist.

Mae rhai cerddi fel 'Helynt y Llo Bach' yn cyfarch chwarelwyr ei gaban yn uniongyrchol ac yn adrodd hanes doniol am un o'r chwarelwyr. Dyma lenyddiaeth a diwylliant y chwarelwyr eu hunain ac mae'n fewnwelediad diddorol i'r ffordd roedd y dynion yn diddanu ei gilydd tua diwedd y diwydiant llechi. Mae hiwmor yn bresennol yn nifer o'i gerddi gan gynnwys 'Defaid Crwydro Rhosgadfan 1960' sydd yn dwyn i gof gerdd enwog o Ddyffryn Ogwen, 'Defaid William Morgan'. Mae cerddi eraill yn cyfeirio'n uniongyrchol at unigolion a oedd yn ymddeol o'r chwarel ac at ddigwyddiadau trasig fel 'Y ddamwain Fawr, 1959' sydd am ei gyfaill David Williams yn marw ar ôl syrthio o bonc uchel. Dyma gofnodion hanesyddol am y chwarel mewn cyfrol sydd yn llyfr bro hunangofiannol yn ogystal â chasgliad o farddoniaeth.

³⁸⁵ Dafydd Iwan, 'Cyflwyniad' yn *Cerddi Twm Bethel* (Penygroes: T. H. Jones Gwasg y Tir, 1974), t. 5.

Mae cerddi am anghyfiawnderau'r chwarelwyr yn gosod ffeithiau ac yn manylu ar achosion penodol yn hytrach na chyffredinol holl gwynion y canrifoedd fel mae nifer o feirdd ac awduron eraill yn ei wneud. Yn 'Stopio'r 70's yn y Chwarel' mae Twm Bethel yn sôn am y ffordd gwbl ddiurddas y cafwyd gwared ar chwarelwyr oedd dros eu 70 oed ac mae'r gerdd yn gân brotest i raddau. Mae Twm Bethel yn mynegi ei ddicter yn effeithiol ac yn cyfleu mor annheg yr oedd perchnogion y chwarel yn trin eu gweithwyr hyd yn oed mor ddiweddar â diwedd yr 1960au. Mae ei gerdd, 'Isrif y Cyflog', yn gais uniongyrchol i R. G. Williams, Prif Swyddog Chwarel Dinorwig, i roi lleiafswm cyflog i'r gweithwyr:

Pa beth ydyw chwephunt
I ddynion y graig,
Chwarelwyr sy'n gadael
Y bonc yn un haid.
Os ydyw'r hen chwarel
Am aros mewn bri
"O coda yr isrif
Fy annwyl R. G."³⁸⁶

Er bod testun y gerdd yn ddifrifol ac yn ymwneud â phroblemau a oedd yn wynebu'r chwarelwyr a'r diwydiant, mae Twm Bethel yn dod ag elfen sarhaus o hiwmor trwy gyfeirio at R. G. Williams fel 'Fy annwyl R. G.'³⁸⁷ Er bod y gerdd hon, a nifer o'i gerddi am y chwarel, yn wleidyddol ac yn ymgais i hawlio gwell cyflog i'r gweithwyr, mae yno'n wastad elfen o hiwmor yn bresennol. Ysgrifennwyd y gerdd hon yn 1958 ac mae hi'n rhagweld y bygythiad o orfod cau'r chwarel.

Yn wir, mae nifer o'i gerddi yn mynegi gofid am ddyfodol y diwydiant. Mae 'Y Farchnad Lechi 1959' yn poeni am ddiffyg gwerthiant y llechi, ac ynddi mae'n dwrddio bod y pris yn rhy ddrud ac yn disgrifio'r llechi'n pentyrru yn y chwarel:

Mae'r dynion yn gadael a'r ponciau yn cau,
Oherwydd y farchnad mae pawb yn tristau,
Y cledi sy'n dyfod, a mwy ar y 'dole',

³⁸⁶ Twm Bethel, 'Isrif y Cyflog' yn *Cerddi ac Atgofion Twm Bethel*, t. 21.

³⁸⁷ Ibid.

O brysiwch chwi brynwyr i'r chwarel yn ôl!³⁸⁸

Pwysleisia'r gerdd ofnau'r gymdeithas gyfan gyda'r bygythiad o orfod mynd ar y dôl. Dyma thema gyson yn ei waith ac mae'n adlewyrchu ofn diweithdra'r cyfnod. Yn 'Newid Gwaith' ceir disgrifiadau o ddynion yn gadael y chwarel i chwilio am waith mwy sefydlog gyda chyflog gwell a chyflëir yr orfodaeth ar deuluoedd i ymfudo. Mae 'Gwaith i Wynedd' yn adlais eironig o 'Y Fenai Dlawd' gan W. J. Gruffydd ac yn clodfori Ferodo am ddod â gwaith i ogledd Cymru a galluogi'r dynion i aros yn eu cynefin heb ddibynnu ar y dôl:

Ar lan y Fenai dirion dlos
Mae ffatri fawr Ferodo,
A'r dynion sydd yn dod yn llu
O bobman yno i weithio.
Mae rhyw hapusrwydd trwy y fro
Ar wedd fy holl gymdogion,
Wrth weld fod Gwynedd eto'n rhydd
O'i chaeth gadwyni cryfion.³⁸⁹

Cyfyd y motiff o gadwynau yn caethiwo'r chwarelwyr yn codi'n aml ym marddoniaeth y bröydd. Yma mae'r dynion yn cael eu rhyddhau o gaethiwed tlodi wrth i ffatri fawr ddod â swyddi i'r gogledd. Diddorol yw cael safbwynt gŵr ynghanol y cyfnod ansicr hwn lle'r oedd y chwareli'n cau o'u cwmpas a dim diwydiant arall i gymryd eu lle. Yn ei farddoniaeth, gellir amgyffred gofid y bardd dros ddyfodol ei ardal ac mae 'Gwaith i Wynedd' yn rhoi cyfle iddo ddathlu llygedyn o obaith am y dyfodol hwnnw.

Ddadlennol hefyd yw cael safbwynt chwarelwr i'r newyddion bod Chwarel Dinorwig yn cau. Cyflea'r gerdd 'Y Chwarel yn Cau' y syndod yn Nyffryn Peris ar y pryd. Mae pwyslais ar y ddelwedd o chwarel wag a'r tawelwch sydd ynghlwm â hynny. Ceir tŷn chwerw i'r gerdd wrth i'r bardd ofidio am effaith y cau ar ardal sydd eisoes yn brin o swyddi:

Mae llawer yn cofio
Y chwarel mewn bri,

³⁸⁸ Twm Bethel, 'Y Farchnad Lechi 1959' yn *Cerddi ac Atgofion Twm Bethel*, t. 24.

³⁸⁹ Twm Bethel, 'Gwaith i Wynedd' yn *Cerddi Twm Bethel*, t. 15.

Yn magu teuluoedd
A chewri di-ri.
Does heddiw ond clogwyn
Yn aros ar ôl,
I wenu yn ddistaw
Ar giwiau y 'dole'.³⁹⁰

Yn aml caiff chwarelwyr eu disgrifio fel 'cewri' ym marddoniaeth y bröydd chwarelyddol, yn enwedig wrth ddisgrifio gwŷr Llanberis. Mae'n debyg bod hyn yn gyfeiriad at Yr Wyddfa a'r mynyddoedd eraill sy'n amgylchynu Dyffryn Peris.³⁹¹ Gorffenna'r gerdd ar nodyn gobeithiol:

Gobeithio daw prynwr
I'r chwarel cyn hir,
A dangos i'r Faenol
Y ffordd eto'n glir;
Cawn glywed mhen amser
Ar adain y gwynt
Y cŷn a'r hen ebill
Yn atsain fel cynt.³⁹²

Yma cyferbynnir y tawelwch ar ddechrau'r gerdd gyda'r gobaith a'r atgof o synau'r chwarel yn ei hanterth. Cyflëir y sioc yn y fro bod y chwarel yn cau yn effeithiol ac wrth gymharu'r pennill cyntaf a'r olaf gellir dirnad yr ansicrwydd yn ymateb y bardd. Gyda synau'r chwarel yn dychwelyd wrth gloi'r gerdd, ceir rhywfaint o obaith am ddyfodol y diwydiant.

Mae *Myfyrion Hen Chwarelwr* gan J. D. Evans hefyd yn perthyn yn y categori llyfrau bro ond ei fod yntau wedi ysgrifennu barddoniaeth am y chwarelwr a'i fyd. Yn ei awdl, 'Y Chwarelwr', mae J. D. Evans hefyd yn pwysleisio'r tawelwch yn Neiniolen ers cau chwarel Dinorwig:

Ni chlywir mwy o'r chwarel
Hen sŵn yr ordd a'r cŷn,
Daeth dylanwadau modern
I wella cyflwr dyn:

³⁹⁰ Twm Bethel, 'Y Chwarel yn Cau' (Chwarel Dinorwig) *Cerddi Twm Bethel*, t. 27.

³⁹¹ Mae ei gerdd 'Cewri Llanbêr' yn ymestyn y ddelwedd hon a hefyd yn disgrifio tawelwch y chwarel yn y cyfnod ôl-ddiwydiannol.

³⁹² Twm Bethel, 'Y Chwarel yn Cau' (Chwarel Dinorwig) *Cerddi Twm Bethel*, t. 28.

Darfyddodd yr hen ormes,
Daeth newydd dro ar fyd,
Ond erys creithiau hen y graig
I boeni rhai o hyd.³⁹³

Cyfeirio mae'r bardd at y dylanwadau modern yn y chwareli, sef y peiriannau a oedd yn gallu lleihau gwaith y dynion a nifer y dynion oedd eu hangen yno. Mae'r ffaith bod creithiau'r graig yn 'poeni rhai o hyd' yn cyfleu bod y chwarel yn parhau i effeithio ar fywydau trigolion y fro. Er bod gormes y chwarel ar ben, mae creithiau'r graig yn parhau i gynrychioli'r bywydau a gollwyd yno i rai teuluoedd.

Atgyfnerthu myth y chwarelwr diwylliedig mae ei bortread o'r chwarelwyr eu hunain:

Ond er yr holl a welais
Rhyfeddais at ei ffydd,
O dan ei boenau dyddiol
Roedd enaid mawr ynghyd:
Diwylliant gaed yn llifo
Hen gynnyrch dyddiau fu,
Pan oedd yn un o'r arwyr glew
Ar graig y Gilfach Ddu.³⁹⁴

Dyma bortread arwrol sy'n pwysleisio dewrder y chwarelwr. Mae crefydd y chwarelwr yn gadarn, ei enaid yn bur, ei ddiwylliant yn llifo. Efallai bod J. D. Evans yn ysgrifennu am chwarelwr penodol yn ei bortread ond trwy beidio â rhoi darlun cyflawn o fywydau chwarelwyr mae'r darlun yn llithro i fod yn un ystrydebol. Atgyfnerthu'r portread o wŷr glew y garreg las fel dynion crefyddol, diwylliedig a gaiff eu gormesu gan ddiwydiant creulon a wna J. D. Evans. Er bod y bardd yn chwarelwr, nid yw'n rhoi safbwynt newydd i'r hen ddarlun hwnnw. Mae Twm Bethel, ar y llaw arall, yn portreadu cymdeithas y chwarelwyr fel yr oedd ef yn ei phrofi, heb gael ei ddylanwadu'n ormodol gan weithiau llenyddol a'i rhagflaenodd.

³⁹³ J. D. Evans, 'Y Chwarelwr' yn *Myfyrion Hen Chwarelwr* (Caernarfon: Cyhoeddiadau Mei, 1978), t. 35

³⁹⁴ *Ibid*, t. 34.

vii) Portreadau Ôl-ddiwydiannol – Mathonwy Hughes, T. R. Jones ac O. M. Lloyd.

Ysgrifennodd Mathonwy Hughes am y chwareli yn cau yn 1971 yn ei gyfrol *Corlannau a cherddi eraill*. Mae 'Cwm Rwbel' yn farwnad i'r chwarel ac yn llawn delweddau o bydredd, dirywiad a marwolaeth. Mae trosiad effeithiol yn rhedeg trwy'r gerdd o'r hen chwarel wag fel mynwent:

Mynwent yn nhroed y mynydd sydd yma mwy,
Mynwent o domennydd;
Mwy nid oes hwter yn glafoeri,
Mwy ni ddaw gwagen i chwydu ei chynnwys
Hyd frest y domen dal,
Safodd yr olwynion
A magu rhwd.³⁹⁵

Mae'r delweddau o chwydu a chyfogi yn codi droeon yn y gerdd ac yn cyfleu mor annymunol yw'r dirywiad yn y chwareli. Unwaith eto, mae tawelwch yn cael ei bwysleisio. Ond mae'r gerdd hon yn cynnwys delweddau mwy treisgar ac annisgwyl na'r portreadau eraill o ddiwedd diwydiant:

Muriau a mastiau mud
Uwch pyllau a'u llond o ddŵr,
A gwyrdd nadreddog eu llysnafedd
Fel gardd o wenwyn,
Fel cyfog yn magu cen.³⁹⁶

Tra bo beirdd cynharach yn gofidio am olwg y chwarel fel craith ar eu tir, mae Mathonwy Hughes yn disgrifio diwedd y diwydiant wrth bentyrru delweddau afiach o ddirywiad. Gall cyfeiriad at y ddraenen wen yn blodeuo gael ei ddehongli fel symbol o obaith at y dyfodol, ond yn y gerdd hon mae'r ddraenen wen yn symbol o farwolaeth wrth i 'Cwm Rwbel' gau ar nodyn hunllefus ac anobeithiol:

³⁹⁵ Mathonwy Hughes, 'Cwm Rwbel' yn *Corlannau a cherddi eraill* (Bala: Clwb Llyfrau'r Faner, 1971), t. 4.

³⁹⁶ Ibid.

Mynwent sydd yma mwy,
Mynwent a'i meirwon yn gwrthod marw.³⁹⁷

Wrth fod yn llawn delweddau hunllefus, mae'r gerdd yn awgrymu nad yw'r chwarel fyth am farw oherwydd bod ei chysgod yn gorffwys dros y mynydd a'r gymdeithas sydd wedi tyfu o'i chwmpas. Er ei bod bellach wedi cau, bydd hi'n wastad yno fel cofeb fyw.

Mae nifer o gerddi Mathonwy Hughes yn portreadu dirywiad y diwydiant llechi mewn ffordd ddramatig yn llawn delweddau hunllefus. Yn 'Ofnadwyaeth' cyflwynir cysgod bygythiol y chwarel trwy gyfres o ddelweddau hunllefus o hen domen rwbel. Mae 'Yr Anrheithiwr' yn adleisio gwerthoedd beirdd cynharach, yn enwedig Gwilym R. Jones a oedd hefyd yn herio perchnogion y chwareli a'u triniaeth o'r gweithwyr yn 'Y Fyddin Garpiog'. Dyma bortread cignoeth a threisgar gan Mathonwy Hughes, portread sy'n rhoi safbwynt newydd a heriol i olion y diwydiant llechi.

Deuai T. R. Jones o Flaenau Ffestiniog ac fe weithiodd am gyfnod fel chwarelwr yn chwarel Maenofferen cyn iddo fynd i'r coleg. Dywed W. J. Gruffydd amdano mewn cyflwyniad i'r gyfrol: 'Y graig, nid y pridd, a symbylodd ei awen, a chredaf mai o'r ffynhonnell honno y daw ei gerdd bwysicaf yn ystod y blynyddoedd nesaf.'³⁹⁸ Credaf mai'r gerdd y cyfeiria W. J. Gruffydd ati yw 'Cwm Orthin'. Mae'r gerdd hon yn rhoi darlun cyflawn o'r chwarel a'r chwarelwyr yn y cyfnod ôl-ddiwydiannol ac mae hefyd yn edrych yn ôl ar y dyddiau a fu heb ramantu'n ormodol na phregethu am yr anghyfiawnderau. Mae hi'n agor gyda'r llinell: 'Mae rheiliau rhydlyd ar lethrau Dôlrhedyn.'³⁹⁹ Yn syth, mae dirywiad y chwarel yn cael ei gyfleu. Ailadroddir hyn yn nes ymlaen yn y gerdd i bwysleisio'r gwacter:

Mae rheiliau rhydlyd ar lethrau Dôlrhedyn
Dim ond amser a'r elfennau sy'n rybela'r ponciau.⁴⁰⁰

³⁹⁷ Ibid.

³⁹⁸ W. J. Gruffydd, Cyflwyniad yn T. R. Jones ac Eirwyn George, *O'r Moelwyn i'r Preselau* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1975), t. ix.

³⁹⁹ T. R. Jones, 'Cwm Orthin' yn *O'r Moelwyn i'r Preselau* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1975), t. 52.

⁴⁰⁰ Ibid, t. 55.

Er bod y chwarel wedi cael ei gadael, yn raddol mae'n dirywio'n waeth gan amser a'r elfennau.

Wedi cau'r chwarel, mae'r hen gwm yn cael ei adael i ddirywio gyda dim ond defaid a dŵr yn mynd yno:

Gadawyd Cwm Orthin i amser ac atgofion
Fel padell wag yng ngodre'r tomennydd,
Dim ond bref mamog i bryfocio'r bedd
A fflapian dŵr ar anghofrwydd y clogwyn.⁴⁰¹

Wrth drosiadu'r chwarel fel bedd, mae'r bardd yn cyfleu marwolaeth y diwydiant llechi yng Nghwm Orthin yn effeithiol. Â ymlaen i fynegi'r tawelwch sy'n amgylchynu'r Moelwyn bellach:

Taenwyd tawelwch fel carthen wlân
Ar wely angau'r felin,
Olion y clytiau rhywiog mewn tomen o grych
A rhwd blynyddoedd y dôl
Ar forthwyl a chŷn a siefl
Dim ond wagenni gweigion yn cancru ar fynwent olwynog
Ar lefel mor wag â'r bedd ym Methania.⁴⁰²

Caiff y trosiad ei ymestyn ymhellach i bwysleisio effaith y farwolaeth ar y gymdeithas a'r fro. Nid dim ond y domen enfawr sydd yn llonydd ond y chwarelwyr a'u hoffer hefyd. Mae'n pentyrru geiriau negyddol er mwyn creu naws dywyll a phwysleisio'r dirywiad ymhellach.

Mae'r bardd yn cofio'r dynion a fu'n gweithio ar y graig a'u swyddogaeth o fewn y diwydiant:

Now Pen Inclên
Hen lanc meddw o ddiwinyddiaeth yr Apostol Paul,
Pâr o ddwylo medrus ar y cwplws a'r brêc.
Bachwr wrth reddf, sled, wagen, popeth ond merch!⁴⁰³

⁴⁰¹ Ibid, t. 52.

⁴⁰² Ibid, t. 53.

⁴⁰³ Ibid, t. 52.

Er bod y portreadau o'r chwarelwyr yn llawn edmygedd, mae hiwmor sych a thynnu coes y chwarelwyr yn bresennol yma ac yn gryfach na rhamantiaeth. Maent yn yfed ac yn gamblo ond cânt eu portreadu fel gweithwyr a dynion da yn y bôn. Mae dod â hiwmor i'r gerdd yn cyferbynnu bywiogrwydd y chwarel pan oedd y cymeriadau hyn yn gweithio ynnddi gyda'r tawelwch a'r llonyddwch sydd yno erbyn hyn.

Mae'r bardd yn hiraethu am y gymdeithas honno sydd wedi crebachu ynghyd â'r diwydiant:

Dadfeiliodd y gymdeithas dan bawennau'r blynyddoedd
Mae'r cwm yn ei drwmgwsg yng ngheseiliau'n tomennydd.⁴⁰⁴

Mae'r darlun hwn ychydig yn fwy cadarnhaol na mynwent Mathonwy Hughes oherwydd mewn trwmgwsg y mae'r cwm yn hytrach nac wedi marw. Mae'r dirywiad wedi gwasgaru ac effeithio ar sawl agwedd ar fywyd y fro. Ceir disgrifiad o'r capel yn dadfeilio a'r testament yn melyn: 'Gwelsom y Crist yn diflannu i'r niwl dros y Moelwyn Mawr.'⁴⁰⁵ Dyma adlais o safbwynt Caradog Prichard yn *Un Nos Ola Leuad* wrth i'r ddelwedd awgrymu bod effaith y diwygiad ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf yn gysylltiedig â'r diwydiant llechi, a marwolaeth y ddau yn mynd law yn llaw.

Mae'r gerdd yn cloi wrth fyfyrion am y fro a'r dirywiad sy'n ei hamgylchynu:

Wrth syllu ar y fro o ben y bonc
Gwelaf sgerbydau gweigion yn rhythu yn y niwl
Plyciodd cudyll amser y llawenydd o'u llygaid,
Mae'r penglogau melyn yn suddo i'r fawnog
A'r Cwm yn Anghofiedig megis bedd anhysbys.⁴⁰⁶

Mae ystyr ddwbl 'ben y bonc' yn gynnwl wrth bwysleisio diwedd y cwm. Unwaith eto, mae T. R. Jones yn pentyrru delweddau o farwolaeth a dirywiad yn effeithiol ac yn cyfleu llonyddwch y fro. Datblygir y darlun hunllefus hwn o'r ardal gyda'r

⁴⁰⁴ Ibid, t. 53.

⁴⁰⁵ Ibid, t. 54.

⁴⁰⁶ Ibid, t. 55.

gyfres o ddelweddau ohoni fel anialwch. Yn wir, gall y dyfyniad uchod fod yn ddisgrifiad o'r diffeithiwch mewn anialwch ac wrth ddisgrifio bro chwarelyddol ôl-ddiwydiannol ar ffurf trosiad mor drawiadol mae'n cyfleu effaith marwolaeth y diwydiant llechi ar fro sy'n ddibynnol arni.

Caiff y themâu hyn eu crybwyll hefyd yn ei gerdd, 'Y Bryniau': 'Cylch hirgrwn o fryniau esgrynog yn rhythu eu dannedd.'⁴⁰⁷ Trwy roi rhinweddau anifeilaidd i'r bryniau, mae'r bardd yn creu awyrgylch hunllefus a bygythiol. Mae'r darlun y mae T. R. Jones yn ei greu o fro chwarelyddol a'r diwydiant llechi yn un anial ac yn pwysleisio diffeithiwch a gwacter y cyfnod ôl-ddiwydiannol. Disgrifia'r gerdd, 'Y Gadwyn,' chwarelwr yn hongian wrth y graig. Gellir dehongli ystyr ddwbl i deitl y gerdd; mae'n cyfeirio'n llythrennol at y rhaff sydd yn cadw'r chwarelwr wrth y graig a hefyd at y gadwyn drosiadol sy'n emblem cyson trwy farddoniaeth y bröydd chwarelyddol, sef y gadwyn sydd yn caethiwo'r dynion i'r chwarel. Egyr y gerdd fel a ganlyn:

A hon am dy glun fe'th welais yn dringo
Fel corryn mawr wrth ei we yn pendilio.⁴⁰⁸

Pwysleisia'r gymhariaeth mor fychan yw dyn wrth ymyl y graig anferth a'i fod mor ddiymadferth wrth orfod gosod ei fywyd yn nwylo'r mynydd. Mae'r mwyafrif o gerddi T. R. Jones felly'n portreadu bro chwarelyddol fel lle diffaith llawn marwolaeth. Ond mae eithriadau i'r darlun hwn.

Yn ei englyn, 'Stiniog,' mae'r bardd yn mynegi balchder at ei fro a'i chymdeithas:

Magodd rywiog enwogion, - a rhoddodd
O'i rhuddion i'w meibion,
Nid ei glaw ond ei glewion
I'n tir yw gogoniant hon.⁴⁰⁹

Tra mae ei gerddi eraill yn disgrifio marwolaeth y diwydiant llechi, mae'r englyn hwn yn pwysleisio cyfoeth diwylliannol y fro. Felly, er bod portread T. R. Jones

⁴⁰⁷ T. R. Jones, 'Y Bryniau' yn *O'r Moelwyn i'r Preselau*, t. 2.

⁴⁰⁸ T. R. Jones, 'Y Gadwyn' yn *O'r Moelwyn i'r Preselau*, t. 8.

⁴⁰⁹ T. R. Jones, 'Stiniog' yn *O'r Moelwyn i'r Preselau*, t. 8.

o'r diwydiant ac effaith ei ddiwedd ar yr ardal yn dywyll ac yn anobeithiol, mae ei bortread o ddiwylliant Blaenau Ffestiniog yn gadarnhaol ac yn mynegi cariad at y tir a roddodd gymaint i'w gwŷr.

Roedd O. M. Lloyd hefyd yn fardd o Flaenau Ffestiniog ac roedd yntau'n ysgrifennu am y diwydiant llechi a'i effaith ar y fro. Mae nodweddion tebyg yn ei gerdd, 'Y Tir Diffaith,' a barddoniaeth T. R. Jones. Tra mae T. R. Jones yn rhoi nodweddion yr anialwch i'r fro i bwysleisio ei diffeithiwch, mae O. M. Lloyd yn cyfleu lle gwlyb, corsiog a llwydaidd i fynegi'r diffeithiwch a'r diflastod:

Oeda'r niwl yn y dre'n hir; - gwelw yw maes
A glaw mân uwch corstir;
Llwydaidd tai, tloataidd y tir,
A gwên heulog ni welir.⁴¹⁰

Mae'r bardd yn creu'r awyrgylch yn gelfydd a cheir darlun effeithiol o ddifflastod. Trwy bentyrri ansoddeiriau sy'n pwysleisio tlodi a thristwch, mae O. M. Lloyd yn creu portread negyddol o Flaenau Ffestiniog. Serch hynny, â'r bardd ymlaen i ddisgrifio mor brydferth oedd y fro ar un adeg. Roedd ei choedwigoedd a'r mynyddoedd wedi eu gorchuddio gyda grug a rhedyn yn baradwys iddo. Ond mae hynny'n gwrthgyferbynnu'n llwyr â'r fro yn y cyfnod ôl-ddiwydiannol:

Llwydaidd erbyn hyn yw hi,
Sawr mynwent sy i'r meini;
Trwm arogl tir y meirwon
A'i bridd hysb a bruddha hon.
Gwŷr lledfyw gerllaw adfail,
Crynhoi i ddim, y crin ddail.⁴¹¹

Dyma adlais o bortread Mathonwy Hughes o'r chwarel fel mynwent, portread sy'n rhoi pwyslais ar farwolaeth a dirywiad. Yma mae O. M. Lloyd yn defnyddio arogl i gryfhau'r awyrgylch. Mae'r llinell 'Gwŷr lledfyw gerllaw adfail' yn hynod bwerus ac yn cyfleu segurddod mewn bro chwarelyddol ôl-ddiwydiannol yn effeithiol. Mae gan y gerdd dôn chwerw wrth i O. M. Lloyd leisio barn

⁴¹⁰ O. M. Lloyd, 'Y Tir Diffaith' yn *Barddoniaeth O. M. Lloyd* (Caernarfon: Cyhoeddiadau Barddas, 1981), t. 62.

⁴¹¹ Ibid.

cenhedlaeth a gollodd eu bywoliaeth yn annisgwyl ar ôl i genedlaethau a chenedlaethau o'u teuluoedd weithio yn y chwarel:

Lle bu bywyd diwyd, da
Erys gwŷr i segura.⁴¹²

Mae'r gerdd yn cyson gyferbynnu'r dirywiad presennol â'r cyfnod diwydiannol llewyrchus y mae'n hiraethu amdano.

Er bod y chwareli wedi cau mae eu heffaith ar y fro yn parhau i fod yn gryf. Nid yn unig yng nghysgod hagr y mynyddoedd, neu yn rhwd yr hen offer, ond yng nghreithiau'r graig ac ysgyfaint y dynion. Ceir delwedd o'r chwarelwyr fel henwyr ifanc, delwedd sy'n codi mewn sawl cerdd. Mae effaith tloedi a'r diffyg gwaith fel rhaff am wddf y fro. Mae O. M. Lloyd, T. R. Jones a Mathonwy Hughes, oll yn creu darlun tywyll ac anobeithiol o fro sydd yn marw. Mae'r siopau a'r tai yn wag, y chwarel yn dadfeilio, y dynion yn gorfod symud i ffwrdd neu bydru'n araf. Dyma farddoniaeth bwysig o safbwynt yr astudiaeth hon oherwydd ei bod yn archwilio ac yn rhagweld effaith diwedd y diwydiant llechi ar fro chwarelyddol mewn ffordd dywyll ac arloesol.

viii) Beirdd Cyfoes

Ieuan Wyn

Enillodd Ieuan Wyn y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Porthmadog yn 1987 gyda'i awdl, 'Llanw a Thrai'. Mae'r teitl ei hun yn gyfeiriad at 'Y Ddôl a Aeth o'r Golwg' gan R. Williams Parry sydd, fel rwyf eisoes wedi datgan, yn defnyddio chwarel Y Gloddfa Glai fel symbol o'r diwydiant llechi a'i effaith ar dirwedd Dyffryn Nantlle. Yng ngolwg R. Williams Parry roedd y chwareli yn difa chwedloniaeth a phrydferthwch naturiol yr ardaloedd, ond yng ngherdd Ieuan Wyn, mae'r chwarel yn ganolbwynt i hunaniaeth y bröydd.

⁴¹² Ibid.

Mae awdl Ieuan Wyn yn mynegi safbwynt dyn yn hen gartref ei daid wedi iddo farw. Mae'n edrych trwy'r tŷ a thrwy hen luniau a geriach a welir yno. Wrth wneud hynny, mae'r gerdd yn pontio'n gelfydd y cyfnod diwydiannol a'r cyfnod ôl-ddiwydiannol. Ceir disgrifiad o lun o daid yr adroddwr yn melynu: er bod ei daid yn ifanc ac yn iach yn y llun, mae'r dirywiad yn y ffotograff yn datgelu cyn belled yn ôl oedd hynny. Felly hefyd y caiff y chwarel ei phortreadu, fel cofeb am y dyddiau a fu, ond bod ôl amser yn datgelu mor bell yn ôl roedd hynny:

Hen rwydwaith heddiw'n rhydu yw'r rheiliau
Drwy'r chwareli hynny
A'i gwna'n llun; wagenni'n llu
Olwynion yn melynu.⁴¹³

Mae cyfatebiaeth rhwng y taid a'r chwarel, gyda'r olwynion yn melynu fel y llun a'r chwarel yn rhydu fel mae'r taid yn heneiddio. Mae'r ddelwedd yn effeithiol wrth bontio oes aur y diwydiant llechi a'r dirywiad sylweddol a oedd wedi ei daro erbyn 1989.

Â'r bardd ymlaen i ddisgrifio gwaith y chwarelwyr ac yn dychmygu'r olygfa wrth i'w daid weithio ar anterth y diwydiant:

Y dynion llwyd yn un lli
I lawr llwybrau pileri.⁴¹⁴

Mae'r ddelwedd o'r dynion fel lli yn arllwys lawr allt y chwarel yn effeithiol wrth gyfleu eu niferoedd ond hefyd yn cyfleu mor gaeth oeddynt i'r lli. Dyma ddelwedd sy'n rhedeg trwy'r gwaith ac sy'n dwyn i gof deitl yr awdl a'i chyfeiriad at yr 'athrawiaeth llanw a thrai'⁴¹⁵ yng ngherdd R. Williams Parry. Yn y gerdd honno mae'r chwarel yn dod rhwng y brodorion a'u rhyddid, felly hefyd mae streic fawr Chwarel y Penrhyn sy'n gefndir i'r gerdd hon:

Tair mil yn tramwyo ynt,

⁴¹³ Ieuan Wyn, 'Llanw a Thrai' yn *Llanw a Thrai* (Caernarfon: Gwasg Gwalia, 1989), t. 12.

⁴¹⁴ Ibid.

⁴¹⁵ R. Williams Parry, 'Y Ddôl a Aeth o'r Golwg' yn *R. Williams Parry Y Casgliad Cyflawn 1905-1950*, t. 71.

Y tair mil i'r trwm helynt.⁴¹⁶

Roedd tair mil o ddynion yn gweithio yn Chwarel y Penrhyn pan oedd ar ei hanterth ac wrth ailadrodd y rhif hwnnw, mae'r gerdd yn pwysleisio mor fawr oedd y dyrfa lwyd.

Â Ieuan Wyn ymlaen i ysgrifennu am y côr merched a oedd yn codi arian ar gyfer cronfa'r streic ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf:

Merched yn wyneb caledi, a straen
Y streic yn eu codi
I roi cân yn awr cyni
I roi nerth drwy'i haberth hi.⁴¹⁷

Fel Lisi Jones gynt, mae Ieuan Wyn yn rhoi llais i aberth y merched ond nid ydyw'n mynd i gymaint o fanylder. Mae'n canmol y merched trwy eu disgrifio fel edau a gadwodd yr ardal at ei gilydd er gwaethaf rhwyg y streic.

Yn debyg i awdlau ôl-ddiwydiannol eraill am y chwareli, mae 'Llanw a Thrai' yn cyfeirio at sawl digwyddiad pwysig yn hanes y fro. Mae'r streic yn ddigwyddiad hanesyddol amlwg a gaiff ei archwilio a cheir hanes y chwarel yn cau oherwydd eira mawr un gaeaf. Ceir portread hefyd o'r dynion yn dychwelyd o'r rhyfel:

Dyna'u llun yn dod yn lli
Yn ôl i'r un chwareli;
Yn ôl i ddyddiau celyd
Yr un bonc yn yr un byd.⁴¹⁸

Er bod y chwarelwyr yn dychwelyd i'r byd y maent yn gyfarwydd ag ef, mae'r byd hwnnw wedi newid yn llwyr wedi'r rhyfel. Darlunnir y dynion yn dychwelyd yn y pennill hwn, darlun sy'n cyferbynnu gyda phortread cynharach o'r dynion ac undonedd eu bywydau:

Myned i'r un tomennydd agored,

⁴¹⁶ Ieuan Wyn, 'Llanw a Thrai' yn *Llanw a Thrai*, t. 12.

⁴¹⁷ Ibid, t. 13.

⁴¹⁸ Ibid.

Myned i'r un mynydd;
Myned i hollt min y dydd
O'r un tai drwy'r un tywydd.⁴¹⁹

Caiff undod y chwarelwyr ei gyfleu ond hefyd y ffaith nad oes ganddynt unrhyw ddewis ond dilyn yr un drefn â'u cymdogion a'u cyndeidiau. Llwydda'r pennill i ddangos mor glòs oedd y gymdeithas wrth i bawb fyw bywydau mor agos, yr un gwaith, yr un cyflog, yr un grefydd a diwylliant. Ond ar yr un pryd, mae'r darlun yn y pennill hwn yn un o gaethiwed y dynion i'r llwybr at y chwarel.

Cyfeiria Ieuan Wyn at effaith y llwch ar ysgyfaint y dynion ac yn benodol ar daid yr adroddwr. Edrycha'r cymeriad yn ôl ar ei blentyndod a sylwi ar ei anwybodaeth o ddioddefaint ei daid:

Rhedem i dŷ hyfrydwch, â'r Gymraeg
Ym mro diogelwch,
Heb weld gormes mewn peswch,
Heb weld ôl llethol y llwch.⁴²⁰

Wrth edrych yn ôl ar yr hen luniau mae adroddwr y gerdd hon yn gweld salwch ei daid. Portreadir Dyffryn Ogwen fel 'bro diogelwch'⁴²¹ gan fynegi cadernid y Gymraeg ynddi ond hefyd ddiniweidrwydd plant a'u diffyg ymwybyddiaeth o agweddau tywyll bywyd, fel y llwch sy'n llofruddio'u teidiau'n dawel, a'r gormes a oedd yn eu caethiwo i'r graig am genedlaethau.

Yn ei farddoniaeth mae Ieuan Wyn yn mynegi dealltwriaeth o draddodiadau'r hen chwarelwyr a'r bröydd chwarelyddol heddiw. Pwysleisia'r hyn sy'n gyffredin rhwng y trigolion a'u cyndeidiau gan ddangos ymwybyddiaeth bendant o hanes y chwarel ac effaith hynny ar Fethesda'r presennol. Mae'n amlwg fod y bardd yn ymwybodol ei fod yn troedio hen lwybrau'r chwareli a'r farddoniaeth o'i flaen. Trwy gyfeirio at gerdd enwog R. Williams Parry yn ei deitl, 'Llanw a Thrai', mae Ieuan Wyn yn cydnabod yn gelfydd y llenyddiaeth sydd yn rhagflaenu ei weithiau ei hun. Er bod yr un safbwyntiau a themâu yn cael eu mynegi ganddo ag a geir mewn barddoniaeth cyn yr 1970au - y streic, silicosis,

⁴¹⁹ Ibid, t. 14

⁴²⁰ Ibid, t. 15.

⁴²¹ Ibid.

yr Ail Ryfel Byd, tlodi, ac ati - mae pellter dwy genhedlaeth yma sy'n galluogi'r bardd i ddehongli'r hanes o bellter a dod i'r canlyniad bod y chwarel yn parhau i fod yn rhan bwysig o fywyd mewn bro chwarelyddol hyd yn oed yn y cyfnod ôl-ddiwydiannol:

Â llanw coll yn ein cael ar y traeth
Yn awr trai'r ymadael,
Mae hen gof yma'n gafael,
A hen ffydd ar graig ddi-ffael.⁴²²

Yn y portread hwn felly, waeth pa genhedlaeth, pa gysylltiad sydd gan yr unigolyn â'r chwarel, mae cof am yr hen hanes hwnnw yn fyw yng nghreithiau'r graig, yng nghof cyfredol y gymdeithas ac yn y trigolion fydd yn byw ynddi dros y canrifoedd sydd i ddod.

Gwyn Thomas

Mae Gwyn Thomas wedi bod yn cyhoeddi cyfrolau o farddoniaeth yn gyson ers 1962. Mae bro ei febyd, Blaenau Ffestiniog, yn ysbrydoliaeth fawr iddo a byddaf yn rhoi trosolwg o'i bortread o'r fro dros yr hanner can mlynedd diwethaf. Tybed a oes yna wahaniaethau'n datblygu rhwng y portreadau cynharaf a'r diweddaraf? Cafodd 'Cwmorthin' ei chyhoeddi yn *Y Weledigaeth Haearn* (1965) ac mae'r gerdd honno yn portreadu hen chwarel wedi cau:

Mae pawb wedi mynd rŵan
Gan adael olion cyfannedd ar ôl –
Olwynion haearn a'u dannedd rhydlyd, ar eu cefnau
Fel hen gegau erchyll, hen eneau morfilaidd;
Hen adfeilion dilygad, megis penglogau gwag
Yma ac acw, a hen gapel yn mynd â'i ben iddo.
Mae'r mynydd maith a'i dawelwch hir yn eu cymryd yn ôl.
Mae popeth yn dychwelyd at y difaterwch carreg,
I afael y gwair a'r hesg, i dduwch y dwfr,
Dan y ffurfafen lom.⁴²³

⁴²² Ibid, t. 16.

⁴²³ Gwyn Thomas, 'Cwmorthin' yn *Y Weledigaeth Haearn* (Dinbych: Gwasg Gee, 1965), t. 24.

Mae'r gerdd hon yn rhannu nodweddion tebyg i 'Cwm Orthin' gan T. R. Jones. Mae yntau yn rhoi nodweddion anifeilaidd i olion y chwarel ac yn disgrifio'r penglogau a'r dirywiad llethol yno. Mae'r ddwy gerdd yn portreadu hen chwarel Cwmorthin mewn ffordd hunllefus gydag anobaith yn treiddio'n gryf drwy'r ddwy gerdd.

Yn *Ysgyrion Gwaed* (1967) ceir cerdd epig Gwyn Thomas 'Blaenau,' cerdd a gafodd ei darlledu ar Radio Cymru ac ar S4C. Mae hi'n gerdd ar gyfer ei pherfformio gan leisiau ac yn cyflwyno sawl safbwynt ar fywyd ym Mlaenau Ffestiniog yn y cyfnod:

Llais 1: Mae sŵn y llechi'n crafu'r nos
Fel y daw haenfeydd y glaw o'r gorllewin
I lacio'r tywyllwch a pheri i'r rwbel redeg
Ar hen domen fawr chwarel yr Oclis;
Rwbel cenedlaethau o ddwylo garw
Yn gorwedd yn enfawr yn erbyn Nyth y Gigfran
A'i symud yn y nos fel sŵn esgyrn y marw
Yng nghefn y distawrwydd rhwng y mynyddoedd.
A phobol yn eu gwllâu yn swatio rhag y tywyllwch a'r niwl
Yn clywed carreg ar garreg, rwbel amser, yn rhygnu rhwng y
mynyddoedd.⁴²⁴

Mae ei gerdd 'Tomen Fawr yr Oclis' yn *Blaenau Ffestiniog* (2007) yn ailadrodd nifer o'r delweddau a'r myfyrdodau yn y dyfyniad uchod. Mae'r ffaith fod Gwyn Thomas yn defnyddio delweddau unffurf i ddisgrifio'r domen gyda bron i ddeugain o flynyddoedd yn gwahanu'r ddwy gerdd yn dangos nad oes llawer o newidiadau wedi effeithio ar y domen honno. Fodd bynnag, mae dechrau'r gerdd 'Blaenau' yn creu awyrgylch yn syth ac yn gosod y trigolion wrth odrau'r domen enfawr sydd yn taflu ei chysgod drostynt.

Yn niwedd yr 1960au roedd nifer o chwareli wedi cau, a chânt eu rhestru yma:

Llais 1: Yn y mynydd mae'r chwareli; llawer ohonynt

⁴²⁴ Gwyn Thomas, 'Blaenau' yn *Gwednewid: Detholiad o Gerddi 1962-1986* (Dinbych: Gwasg Gee, 2000), t. 35.

Erbyn hyn wedi cau - Cwmorthin, Y Wrysgen Fawr,
Rhosydd, Cwt y Bugail, Lórd.
Ar y llechen y tyfodd y dref hon;
Blodyn glas ydyw a fwriodd ei wraidd i ddwfn y mynyddoedd,
I hollt ac ysgythredd meini a malurion caled.⁴²⁵

Felly, hyd yn oed yn yr 1960au pan oedd Gwyn Thomas yn ysgrifennu ei farddoniaeth gynnar, roedd yn ysgrifennu am y chwareli mewn cyd-destun ôl-ddiwydiannol. Trwy roi disgrifiad trosiadol o Flaenau fel blodyn glas, mae'r bardd yn creu darlun tyner o fro sydd wedi tyfu o amgylch creigiau garw. Â'r gerdd ymlaen i gwestiynu gwreiddiau'r dref ymhellach:

Pwy gyntaf a gerddodd a gweld
Llygad y llech yn brigo allan
Ac a ddechreuodd weithio ei gwythïen?
Pwy gyntaf a wthiodd flaen llym ei ebill
I ollwng y gwaed glas, y cyfoeth a gododd yn dew
O gorff hen y clogwyni?
Pobol estron, llygadog a feddiannodd chwareli,
Saeson o bell, Eglwyswyr diethr, meistri ariannog.⁴²⁶

Trwy gyflwyno cyfres o ddelweddau arteithiol, llwydda'r bardd i drosiadu'r graig fel corff. Cyflea mor dreisgar yw'r gwaith gan bwysleisio mai estroniaid sy'n gyfrifol am greithio'r tir. Cadwa hyn at y confensiwn mewn barddoniaeth chwarelyddol o gadw dwylo'r chwarelwyr eu hunain yn lân ac o gondemnio perchnogion y chwarel am anharddu'r mynyddoedd.

Cydymdeimla Gwyn Thomas gyda'r gweithwyr a'r perygl yr oeddynt yn ei wynebu bob dydd:

Llais 2: Roedd gen i ffrind – gŵr yn gwybod ei waith;
Mi symudodd y tywyllwch amdano fo o f'ochor i.
Pan welais i o wedyn 'roedd o wedi malu.
Yng ngolau fy lamp mi welais dryblith o gnawd
Ac esgyrn yn gwthio'u pennau'n bigau drwyddo fo,
A'r cwbl yn socian boeth o waed.
Mi synnech mor sydyn yr oerodd o.⁴²⁷

⁴²⁵ Ibid, tt. 36-7.

⁴²⁶ Ibid, t. 37.

⁴²⁷ Ibid, t. 38.

Cyfleu'r disgrifiad hwn yr erchyllterau roedd y chwarelwyr yn eu dioddef. Mae undod yma rhwng y chwarel a'r chwarelwr wrth i'r ddau golli eu gwaed. Dyma ddisgrifiad cignoeth sy'n mynegi marwolaeth chwarelwr mewn ffordd onest ac amrwd. Fel arfer caiff y darllenydd ei amddiffyn rhag erchyllterau'r chwarel ac nid yn aml y mae'r llenorion yn disgrifio corff y chwarelwr ar ôl marw, yn enwedig gyda chymaint o fanylder.

Er bod rhai elfennau o'r gerdd epig hon yn rhoi safbwyntiau newydd neu'n ailddehongli hen themâu, mae rhai elfennau yn driw i'r confensiynau:

Llais 1: Arian bach, oriau mawr, caledwaith, teulu mawr,
Afiechyd, ofnau;
Trwyddynt fe redai llygad o lawenydd
I'w chwarelu yn nyfn yr enaid ac yn agor y gymdeithas.
Daeth dynion at ei gilydd.⁴²⁸

Dyma restru'r anghyfiawnderau; confensiwn wrth ddisgrifio bywyd chwarelwr gyda'r gymdeithas yn disgleirio er gwaethaf y dioddefaint y maent yn ei wynebu. Caiff y caban ei bortreadu fel hafan yn y chwarel. Ond yn groes i bortreadau cynharach, nid yw'n fan sanctaidd llawn canu ac adrodd barddoniaeth a phregethau, ond yn hytrach yn lle i ddynion ddod i adnabod ei gilydd:

Llais 2: Rhwng y pileri cerrig ar hyd y cenedlaethau,
Gyda'r wagenni, a'r tomennydd rwbel yn y cabanau
Daeth dynion i adnabod ei gilydd,
I rannu eu syniadau a'u profiadau dros baned
Ac i agor rhywfaint ar fywydau ei gilydd uwchben eu brechdanau.⁴²⁹

Dechreuau'r lleisiau ddyfynnu sgysiau'r caban. Mae rhai'n wleidyddol, rhai'n addysgol a chrefyddol ond maent hefyd yn trafod betio a gemau pêl-droed. Dyma bortread cytbwys o fywyd y caban sy'n osgoi gorbwysleisio diwylliant y chwarelwyr.

⁴²⁸ Ibid, t. 39.

⁴²⁹ Ibid.

Cyflwynna lleisiau 3 a 4 y gerdd safbwynt y ferch. Mae cyfrifoldeb y ferch i fwydo'r teulu a chadw dau ben llinyn ynghyd yn fotiff sydd yn codi'n aml wrth bortreadu menywod y bröydd chwarelyddol ac nid yw Gwyn Thomas yn eithriad:

Llais 3: Ar yr aelwyd cafodd ei bywyd i ddod i wybod
Ac i ddisgwyl am yr adnabod, rhwng cael dau pen llinyn ynghyd.⁴³⁰

Ond er bod hynny'n ymylu ar ystrydeb, â'r bardd ymlaen i ddisgrifio merched ifanc yn gwisgo sgertiau byr i fynd i'r ddawns a hen wragedd yn hel straeon ac yn sgwrsio am y cymdogion dros y lein ddillad:

Un ddrwg oedd ei mam hi,
Yn rêl mei ledi efo'i ffyr llwynog a'i hawdi dw,
A bil hyd braich heb ei dalu yn siop Jôs.⁴³¹

Mae'r portread o fenywod y bröydd chwarelyddol yn ddiddorol oherwydd mae'r dyfyniad cyntaf yn un traddodiadol o ddynes stoicaidd fel a geir yng ngweithiau Kate Roberts a T. Rowland Hughes, tra mae'r ail yn bortread mwy cyfoes sy'n ymddangos yng ngweithiau Geraint Vaughan Jones ac Eigra Lewis Roberts. Felly mae Gwyn Thomas fel petai'n rhoi darlun o sawl rhan o'r gymdeithas ac o sawl cyfnod hefyd. Trwy'r gerdd hon, llwydda i bontio gweithiau llenyddol sawl cenhedlaeth o lenorion y bröydd chwarelyddol.

Ers geni'r cyfnod ôl-ddiwydiannol a chau'r chwareli, mae'r fro'n ddwfn mewn dirwasgiad:

O dan y toeau yn y tai,
Ym mhwl y galon beth yw'r ofn?
Y dôl a dwylo segur.⁴³²

Defnyddir y dôl fel bygythiad, yn debyg i'r portread yng ngweithiau Twm Bethel. Mae'n faich na chroesewir gan chwarelwyr, sydd heb arfer gyda dwylo segur.

⁴³⁰ Ibid, t. 42.

⁴³¹ Ibid.

⁴³² Ibid, t. 47.

Caiff bywyd ar y dôl ei bortreadu fel cadwyn arall i gaethiwo'r dynion, nid i'r graig y tro hwn ond i'r cartref. Mae 'Blaenau' yn cloi wrth ailadrodd myfyrdodau am y domen ar ddechrau'r gerdd:

Llais 1: Ac ar nosweithiau llaith a'r niwl yn symud
Fe glywn y rwbel yn dechrau llacio a rhedeg
A chrafu'r nos fel hen esgyrn.⁴³³

Erbyn diwedd y gerdd mae'r fro yn gadarn yn y cyfnod ôl-ddiwydiannol a sŵn crafu'r domen fel adlais hen ddiwydiant, fel atgof o'r hyn a fu yn y fro ar un adeg.

Mae nifer o gerddi eraill yn *Gwednewidio* sydd yn cyd-fynd â'r portread a geir yn 'Blaenau' felly ni fyddaf yn eu dehongli yma. Erbyn i *Blaenau Ffestiniog* gael ei chyhoeddi yn 2007, roedd y diwydiant llechi wedi parhau i ddirywio gyda dim ond ambell chwarel yn dal ar agor. O ganlyniad, mae'r gyfrol hon yn ddyfnach yn y cyfnod ôl-ddiwydiannol. Pwysleisir y cysylltiad rhyngom a'n cyndeidiau a cheir argraff bod llawer mwy o bellter rhwng y fro a'r cyfnod diwydiannol. Yn y gyfrol *Blaenau Ffestiniog* mae casgliad o ffotograffau o'r ardal gan Jeremy Moore gyda chyfres o gerddi gan Gwyn Thomas yn ymateb i'r lluniau. Mae'r lluniau'n drawiadol a byddaf yn eu trafod ymhellach yn y bennod am gelf y bröydd chwarelyddol.

Portreadir yr ardal fel man cysegredig yn llawn hanes a phrydferthwch ym marddoniaeth Gwyn Thomas. Ceir darlun yn 'Allan, Bellach' sy'n gerdd ochr yn ochr â ffotograff o Jac Codi Baw melyn yng nghanol y chwarel. Mae Gwyn Thomas yn myfyrio am y dynion a fu unwaith yn tyrchu yn lle'r peiriannau:

Allan, bellach,
Y mae dynion yma
Yn chwilio am gerrig.
Yn llanast ansad du y graig
Y mae'r tyrchwr melyn haearn hwn
Yn edrych mor egwan
Â chnawd, a'r un mor druan.
Ac uwch ei ben o y mae
Nerthoedd mileinig maen-raeadrau
Wedi eu dal, yn hongian yn llonydd.
Y mae yna rywbeth tragwydd

⁴³³ Ibid, t. 48.

Yn ein hymdrechion bychain yma
Yn erbyn hen, hen rymusterau gerwin
Sydd yn swatio o'n cwmpas ni
Yn ein cynefin.⁴³⁴

Rhyfeddu at ôl y chwarelwyr ar y mynydd a wna Gwyn Thomas yn y gerdd hon. Mae'r tyrchwyr melyn yn edrych mor fach ac egwan wedi ei amgylchynu gan waith yr hen chwarelwyr. Ond â ymlaen i gwestiynu cyn lleied yw ôl dyn ar ei gynefin o'i gymharu â grym natur. Er gwaethaf yr holl effaith a gafodd y chwarelwyr ar y mynydd, yn y diwedd, natur fydd yn goresgyn. Mewn sgwrs, datgelodd Gwyn Thomas fod y 'nerthoedd mileinig'⁴³⁵ yn y gerdd yn cyfeirio at y ddeuliaeth a geir mewn portreadau o'r chwareli.⁴³⁶ Ar un llaw mae'n ymfalchïo yn y diwydiant llechi a'i effaith gadarnhaol ar y fro, ond mae hefyd yn teimlo braw oherwydd yr holl ddynion a gollodd eu bywydau yno. Ceir yr argraff yn y gerdd hon fod 'nerthoedd mileinig' ar waith pan fo dyn yn ymyrryd â natur.

Tra mae cerddi'r cyfnod diwydiannol yn gofidio am gau chwareli penodol, erbyn 2007 mae'r bardd yn gweld yr effaith o gau chwareli ei fro mewn cyd-destun ehangach. Mae'n cwestiynu yn 'Terfyn':

A oes yna un dim sydd yn dristach
Na hen waith,
Hen waith a fu unwaith
Yn befr o brysurdeb,
O bobol yn gwneud pethau
A'r rheini i gyd yn ystyrllon
Fel bod i bob peth ei bwrpas?⁴³⁷

Effeithiodd cau'r chwareli ar drefn bywyd ym Mlaenau Ffestiniog. Mae'r gerdd hon yn anghofio'r anghyfiawnderau ac yn hytrach yn clodfori'r ffordd roedd pawb yn y gymdeithas chwarelyddol yn dilyn yr un drefn. Yn amlwg mae pellter erbyn hyn rhwng y diwydiannol a'r ôl-ddiwydiannol wrth i'r bardd ramantu bywydau'r chwarelwyr cyffredin. Caiff y bwrlwm diwydiannol ei wrthgyferbynnu gyda'r gwacter ar ôl y diwydiant:

⁴³⁴ Gwyn Thomas, 'Allan, Bellach' yn *Blaenau Ffestiniog* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2007), t. 52.

⁴³⁵ Ibid.

⁴³⁶ Cyfweliad rhwng Elin Gwyn a Gwyn Thomas, Awst 2013.

⁴³⁷ Gwyn Thomas, 'Terfyn' yn *Blaenau Ffestiniog*, t. 62.

Yma, y glanastra hwn:
Pobol wedi mynd,
Dim byd yn cael ei wneud,
Dim ystyr i ddim byd,
A dinistr yn dod o lechen i lechen,
O hoelen i hoelen;
Rhwd yn bwyta,
Rhwd yn difetha;
A dŵr yn hel fel anobaith.
A phob peth yn dod i ben
Fesul awr, fesul dydd, fesul blwyddyn,
A'r holl le wedi ei nodi'n dywyll
Â 'Terfyn', 'Terfyn', 'Terfyn'.⁴³⁸

Pwysleisir y dirywiad a'r gwacter ar ôl i'r chwareli gau yn y gerdd hon. Mae'r rhwd a'r dŵr yn araf ddifa'r hyn sydd ar ôl a cheir cyfres o ddelweddau sy'n amlygu'r dadfeilio. Dyma adlais arall o farddoniaeth beirdd fel T. R. Jones a Mathonwy Hughes. Trwy ailadrodd 'terfyn'⁴³⁹ mae'r bardd yn rhoi diwedd pendant i'r diwydiant llechi.

Er bod sawl cerdd yn y gyfrol hon yn mynegi bod diwedd y diwydiant llechi yn rhywbeth drwg i'r gymdeithas, mae rhai o'r cerddi'n rhoi darlun mwy cadarnhaol o gau'r chwareli. Mae 'Rhedyn', 'Blodau Bach' a 'Gwellhad' yn portreadu diwedd y cyfnod diwydiannol fel cyfle newydd i natur adennill y tir. Ceir delweddau o blanhigion yn tyfu trwy ysgerbydau'r hen chwareli gwag:

Ond o'r dinistr a fu yn y graig ddidrugaredd
Y mae dalennau tyner o wyrddni
Yn tyfu trwy rym y caledi:
Dyma inni redyn anhydyn bywyd.⁴⁴⁰

Er gwaethaf ymdrechion dyn i drin y graig, yn y diwedd mae natur yn goresgyn. Ond wedi dweud hyn, nid yw'r graig fel petai'n perthyn i natur mwyach, y mae brwydr rhwng y mynydd garw a'r gwyrddni tyner. Ceir cyferbyniad yma rhwng caledwch y graig 'ddidrugaredd'⁴⁴¹ a thynnerwch y gwyrddni sydd yn tyfu'n dawel

⁴³⁸ Ibid.

⁴³⁹ Ibid.

⁴⁴⁰ Gwyn Thomas, 'Rhedyn' yn *Blaenau Ffestiniog*, t. 64.

⁴⁴¹ Ibid.

ar y llechi. Mae Gwyn Thomas yn gweld gobaith yn y rhedyn a chânt eu defnyddio fel symbol o adnewyddu a pharhad.

Mae 'Gwellhad' hefyd yn parhau gyda'r thema hon. Caiff y tomennydd eu darlunio fel symbol o farwolaeth, fel rhywbeth annaturiol wedi ei greu o berfedd y mynydd. Unwaith eto, mae'r gwyrddni yn cael ei ddisgrifio fel tyfiant 'tyner' wrth iddo ledaenu'n raddol dros y domen:

Ond yn dyner, dyner y mae gwyrddni
Fesul modfeddi, modfeddi
Yn glynu yng ngloes y llechweddi
Gan eu hymgeleddu,
A chan leddfu eu harchollion.
Fel drwy y dŵr du
Y mae dail yn dyrchafu;
Ac yn y man fe ddaw hi,
Y lili wen, i liniaru'r tywyllwch.⁴⁴²

Wrth i'r bardd ddisgrifio'r planhigion trwy eu gwrthgyferbynnu gyda thywyllwch y domen, mae'n amlwg eu bod yn symbol o wellhad a gobaith. Mae'r gwyrddni yn lleddfu creithiau'r graig ac mae fel petai olion y diwydiant llechi yn dychwelyd i'r mynydd. Mae'r gerdd yn cloi ar nodyn gobeithiol:

Y mae, trwy'r darn dioddefus hwn o dir,
Egnïon gwellhad yn ymnyddu.⁴⁴³

Pwysleisir yma mor amhosibl ydyw i ddyn orchfygu'r byd naturiol. Er mai yn araf a thyner mae natur yn adfer olion y chwareli, mae'n sicr o wneud hynny. Mae'n ddiddorol nodi nad oes un o'r beirdd yn mynegi unrhyw edmygedd at olwg y chwareli. Dim ond ym marddoniaeth y cyfnod ôl-ddiwydiannol gyda natur yn dechrau adennill tiroedd y chwareli y mae beirdd yn mynegi edmygedd at y chwareli gwag. Defnyddir tyfiant gan Gwyn Thomas yma, fel symbol o obaith a gwellhad, tra mae ei bortread o olion diwydiannol y Blaenau yn adleisio barddoniaeth ôl-apocalyptaid beirdd ar drothwy'r cyfnod ôl-ddiwydiannol.

⁴⁴² Gwyn Thomas, 'Gwellhad' yn *Blaenau Ffestiniog*, t. 73.

⁴⁴³ Ibid.

Karen Owen

Portread o Ddyffryn Nantlle a geir yng nghyfrol Karen Owen, *Yn Fy Lle*, sy'n adlewyrchiad o hanes yr ardal a dylanwad y diwydiant llechi arni. Mae sawl cerdd yn y casgliad am gyndeidiau'r bardd a'u hardaloedd chwarelyddol. Yn amlwg mae gan Karen Owen ddiddordeb mewn hel achau oherwydd coda'r thema honno droeon yn ei barddoniaeth. Nid hanes ei theulu'n unig sydd yma ond ymwybyddiaeth o hanes ei bro. Mae 'Methu Dallt Chwarelwrs' yn gerdd sy'n gyfoeth o eirfa'r chwarel. Defnyddir geiriau unigryw'r chwarelwyr gydag allwedd yn cyfieithu ystyr y geiriau:

Dydd papur setlo, doedd ei gelc yn ddim,
ond rhannodd o'i ddiwylliant ar y bonc,
ac er ei fargen sâl, mae'n g'wilydd im
fod allt ei drafal yn Seisnigo'n rhonc.⁴⁴⁴

Dangosir ymwybyddiaeth o eirfa a thraddodiadau'r chwarelwyr yn y gerdd. Dyma lythyr gan y bardd i'w thaid yn ymddiheuro am beidio â'i ddeall nes ei bod yn rhy hwyr:

Am fethu â deall heddiw, maddau i mi,
dw i'n araf hollti llechi dy eiriau di.⁴⁴⁵

Ceir delwedd yma o grefft y bardd yn hollti geiriau i ganfod eu hystyr fel yr oedd y chwarelwyr yn hollti'r llechen. Mae'r gerdd yn eithaf syml oni bai am yr eirfa chwarelyddol ac mae elfen o hiwmor ynndi oherwydd cymhlethdod hynny.

Cyfleir effaith y llwch ar ysgyfaint chwarelwr mewn ffordd flaengar yn 'Mae Gwynt yn Fyr':

Ond be' gawn i'n well (*anadliad*) nag aros adra (*anadliad*)
a methu symud (*anadliad*) o'r gwely neu'r sofffa (*anadliad*)
yn meddwl am sut ydw i (*anadliad*) a gweddill yr hogia (*anadliad*)

⁴⁴⁴ Karen Owen, 'Methu Dallt Chwarelwrs', *Yn Fy Lle* (Abertawe: Cyhoeddiadau Barddas, 2009), t. 25.

⁴⁴⁵ Ibid.

ers oeddau ni'n ifanc (*anadliad*) yn nhwll Dorothea (*anadliad*)
yn hongian ar raff (*anadliad*) mor uffernol o dena (*anadliad*)⁴⁴⁶

Llais y chwarelwr sydd yn cario'r gerdd a gyda'r anadliadau cyson yn torri ar draws y llinellau ceir argraff o drafferth anadlu'r gŵr hwn. Mae'r adroddwr yn cofio ei ieuenctid yn y chwarel ac yn sôn am y dychryn o hongian ar graig gerfydd rhaff mor denau, heb ystyried effaith erchyll rhywbeth mor fân â llwch. Dyma ffordd unigryw o bortreadu rhywun sy'n dioddef o silicosis ac mae'r gerdd yn cyfleu effaith y clefyd mewn ffordd hynod o drawiadol.

Mae barddoniaeth Karen Owen yn rhoi darlun o gymdeithas Pen-y-groes a Dyffryn Nantlle. Mae'r cerddi yn disgrifio digwyddiadau lleol megis hanes siop bwtsiar Penygroes yn cau, capel newydd yn agor, y profiad o weithio ar y papur bro, a lleoedd penodol yn yr ardal fel Cadair y Frenhines yng Nghlogwyn Melyn. Ceir hefyd gyfeiriadau at bwysigrwydd llenyddol Dyffryn Nantlle - mae cerdd am Winni Ffinni Hadog ac enaid y cymeriad hwnnw yn crwydro'r Lôn Wen. Yn ei hail gyfrol, *Siarad Trwy'i Het*, mae 'Lôn Wen' yn gyfeiriad arall at Kate Roberts a bywydau'r chwarelwyr yn ei chyfnod. Ond ni fuasai Karen Owen yn fardd o Ddyffryn Nantlle heb gyfeirio at Lleu a'i bwysigrwydd yn hanes y fro! Mae 'Cadw Iaith' wedi ei hysgrifennu ar gyfer Dewi R. Jones, cyn-athro Cymraeg y bardd. Mae hi'n canmol gallu'r athro hwnnw i ysbrydoli:

Dod eilwaith i Faladeulyn - wna Lleu
gyda llu i'w ganlyn
i gadw'r ffin, a ni'n un
elwir i ganu'r delyn.⁴⁴⁷

Mae dychweliad Lleu yn rhywbeth sy'n codi dro ar ôl tro mewn barddoniaeth o Ddyffryn Nantlle hyd yn oed gan feirdd cyfoes. Mae barddoniaeth Dyffryn Nantlle yn tueddu i gyfeirio at y cyfoeth o hanes yno, yn enwedig o ystyried ei phwysigrwydd yn chwedloniaeth y Mabinogi. Mae Karen Owen yn adleisio'r balchder hwnnw ac yn mynegi ei chariad at ei bro trwy ei barddoniaeth.

⁴⁴⁶ Karen Owen, 'Gwynt yn Fyr', *Yn Fy Lle*, t. 83.

⁴⁴⁷ Karen Owen, 'Cadw Iaith', *Siarad Trwy'i Het* (Abertawe: Cyhoeddiadau Barddas, 2011), t. 75.

Eigra Lewis Roberts

Rwyf eisoes wedi ysgrifennu am ffuglen Eigra Lewis Roberts a'r holl nofelau ganddi sydd yn drwm dan ddylanwad y chwareli. Ond yn 2012 cyhoeddwyd ei chyfrol gyntaf o farddoniaeth, *Parlwr Bach*. Mae'r casgliad hwn hefyd yn amlygu dylanwad ei bro arni fel unigolyn ac fel llenor. Ysgrifenna Hywel Griffiths mewn adolygiad yn *Taliesin*:

Mae blas milltir sgwâr y bardd ar y cerddi, a llwydda i ddarlunio dylanwad cymhleth ardal arni trwy gyfrwng trosiadau dyfeisgar. [...] Mae ei gwreiddiau yn rhan o'r graig sydd o'i chwmpas ac mewn hir a thoddaid gwirioneddol feistrolgar daw ei dylanwad i'r amlwg eto wrth i'r bardd ddarlunio llanc yn hollti llechfaen.⁴⁴⁸

Nid yw'r bardd yn gaeth i'w bro ei hun; mae ei barddoniaeth yn ymestyn dros yr holl fröydd chwarelyddol. Cawn gerdd deyrnged i Kate Roberts a'i chymeriadau, i T. Rowland Hughes a hefyd gyfeiriadau at deulu'r bardd ei hun ym Methesda. Mae hyn yn awgrymu bod Eigra Lewis Roberts yn gweld teyrngarwch a chysylltiad dwfn rhwng y bröydd chwarelyddol oherwydd ni chaiff ei chyfyngu i Flaenau Ffestiniog yn unig.

Mae 'Achub y Pethau Bychain' a 'Codi'n Wynt Mae Hi' yn gerddi teyrnged i Kate Roberts. Mae'r ail yn gerdd i'w pherfformio ar lafar ac yn creu awyrgylch dywyll wrth i sŵn gwynt a glaw daranu yn y cefndir. Mae hi'n gwrthgyferbynnu'r Lôn Wen â'r tywyllwch sydd yn cau o'i chwmpas bellach. Mae cymeriadau Brenhines ein Llên yn ymddangos yn y gerdd ac yn lleisio'u gofidiau. Maent hefyd yn ymddangos yn 'Achub y Pethau Bychain' sydd yn defnyddio'r un ddelwedd ddiobaith o hen gartref Kate Roberts:

Mae'r Lôn Wen yn dywyll heno, - y niwl
Yn hulio Moel Smatho
Â'i gnu, ac yn gwnïo
Cadachau am friwiau'r fro.⁴⁴⁹

⁴⁴⁸ Hywel Griffiths, 'Adolygiad o *Parlwr Bach* gan Eigra Lewis Roberts' yn *Taliesin* (Haf 2012, Cyfrol 146) t. 95.

⁴⁴⁹ Eigra Lewis Roberts, 'Achub y Pethau Bychain' yn *Parlwr Bach* (Llandysul: Gwasg Gomer,

Mae 'briwiau'r fro' yn gyfeiriad at greithiau'r diwydiant llechi ar y mynydd ac ar y trigolion. Mae'r fro yn cael ei phortreadu fel lle llwm a thywyll sydd yn dod yn fyw trwy ddarluniau Kate Roberts ohoni:

Yn argel y tawelwch
cwyd adlais y llais o'r llwch;
un â'i llên roes i fyd llwm
ei arlwy wedi'r hirlwm.
Mewn cyffion, bu hon yn hau
erw'i gweryd â'r geiriau.⁴⁵⁰

Mae Eigr Lewis Roberts yn cyfuno cyfeiriadau at lenyddiaeth Kate Roberts gyda delweddau o'r tirlun. Mae yma ddarlun o'r awdures a oedd mewn cyffion mewn cymdeithas glòs, gaeedig.

Mae'r gerdd yn datblygu i gyfeirio at nifer o gymeriadau mwyaf adnabyddus Kate Roberts a chaiff ei phortreadu fel rhywun â gallu goruwchnaturiol wrth iddi wau geiriau o gerrig:

Gwau y geiriau o garreg - a nyddu'r
Rhuddin i bob brawddeg;
Cyweirio a brodio breg
Â grym edau'i gramadeg.⁴⁵¹

Wrth gyfuno delweddau o waith traddodiadol y ferch o wau gyda gwaith creigio'r gwŷr, ceir pwyslais ar allu'r awdures i gymeriadu ac ysgrifennu. Mae'r cymeriadau, fel yr awdures ei hun, yn hanu o fro'r Mabinogi:

Yr un gaer a rannai gynt,
eiddo'r un ddaear oeddynt.
O'u craidd hwy creodd hon
neges ei Mabinogion.⁴⁵²

2012), t. 19.

⁴⁵⁰ Ibid, t. 20.

⁴⁵¹ Ibid, t. 24.

⁴⁵² Ibid.

Awgrymir yma fod hud y Mabinogi'n fyw o hyd a bod Kate Roberts wedi etifeddu dawn creu ac adrodd hanesion o'r tir. Yn ôl y gerdd hon, o lwch y chwarel mae awdures fwyaf llwyddiannus Cymru yn creu ei llenyddiaeth. Mae'r gerdd yn cyfleu edmygedd Eigra Lewis Roberts ac yn mynegi pwysigrwydd Kate Roberts iddi fel darllenydd ac awdures.

Mae 'Dal i Gredu' yn gerdd deyrnged i T. Rowland Hughes, awdur arall oedd yn portreadu'r bröydd chwarelyddol. Hanai T. Rowland Hughes o Ddyffryn Peris ac mae'r gerdd hon yn edrych dros ei ysgwydd wrth iddo gael yr ysbrydoliaeth i ddarlunio'r chwarelwyr. Mae'r awdur yn cael ei bortreadu fel hen wŷr yn gaeth i'w gadair, ond hefyd yn gaeth i'w grefft:

Yn gaeth i'r rhaid
o rannu'r lledrith,
gwêl drwy'r gawod flodau
gysgodion yn dynesu.⁴⁵³

Mae'r cysgodion yn perthyn i'r hen chwarelwyr, a hen fyd ei fro. Maent yn sibrwd wrtho am eu caledi ac yn ei annog yntau i ddal ati fel y gwnaethant hwythau. Mae ysbrydoliaeth yn taro T. Rowland Hughes ac o ganlyniad penderfyna:

Mae'n bryd agor y clo,
troi'r rhith yn sylwedd,
ac ailfeddiannu'r hen fyd.⁴⁵⁴

Mae'r hen fyd yn symbol o fyd yr hen chwarelwyr, sef y byd yr oedd T. Rowland Hughes yn ei ddarlunio mewn nofelau megis *Chwalfa*, *William Jones* ac *Y Cychwyn*. Mae 'Dal i Gredu' yn edmygu'r ffordd roedd T. Rowland Hughes yn parhau i ysgrifennu tan y diwedd. Hyd yn oed yn ei salwch, roedd yn benderfynol o bortreadu'r hen fyd a oedd mor fyw iddo.

Er bod Eigra Lewis Roberts yn ysgrifennu am y bröydd chwarelyddol yn gyffredinol, mae ôl bro ei mebyd ym Mlaenau Ffestiniog yn ddwfn ar y bardd. Yn

⁴⁵³ Eigra Lewis Roberts, 'Dal i Gredu', *Parlwr Bach*, t. 26.

⁴⁵⁴ *Ibid*, t. 27.

y gerdd, 'Brecwast', mae'r naratif yn disgrifio ei chenhedlu a'i geni mewn cyd-destun sydd yn creu cyffelybiaeth gyda'r fro:

Rhoed i mi ar ddydd fy ngeni
wely llwyd mewn crud o lechi,
niwl yn gewyn am fy llwynau
a llwch yn bowdwr yn fy ffroenau.⁴⁵⁵

Mae'r bardd yn disgrifio'r adroddwr gyda nodweddion tebyg i'r fro chwarelyddol er mwyn pwysleisio dylanwad yr ardal ar ei fagwraeth. Yn wir, gellir dehongli'r gerdd fel hanes datblygiad y fro ei hun. Mae ei gynefin yn rhan annatod o hunaniaeth y cymeriad:

Bwriais wreiddyn bach i garreg
yn ddi-hid, wrth fynd ar redeg;
i ble bynnag yr awn wedyn,
rhaid oedd mynd â'r graig i 'nghanlyn.⁴⁵⁶

Ble bynnag yr â'i chymeriad yn y byd, bydd ei wreiddiau yn fythol gaeth i'w fro. Mae'r gerdd yn archwilio pwysigrwydd cynefin i unigolyn ac wrth bortreadu'r cymeriad yn un â'r fro, mae'r bardd yn pwysleisio'r cysylltiad agos rhwng brodor a'i gynefin. Mae gwreiddiau yn ddelwedd sydd yn codi mewn sawl cerdd gan Eigra Lewis Roberts ac yn tanlinellu pwysigrwydd perthyn, delwedd sy'n gysylltiedig â'r graig yn y gyfrol hon. Trwy ailadrodd y ddelwedd mewn sawl cerdd, mae'r bardd yn pwysleisio mor ddwfn yw ei gwreiddiau ei hun yn y graig.

Tra mae beirdd eraill yn ysgrifennu barddoniaeth am y chwareli o safbwynt ôl-ddiwydiannol yn yr 1950au, mae Eigra Lewis Roberts yn eithriad yn y traethawd hwn wrth iddi barhau i bortreadu'r diwydiant llechi yn ystod yr oes ddiwydiannol yn 2012. Y gerdd fwyaf pwerus yn y casgliad hwn o safbwynt yr astudiaeth hon yw 'Y Llun tu Hwnt i'r Llenni' sy'n disgrifio ysfa bachgen ifanc i adael yr ysgol a dechrau'n y chwarel, cerdd sy'n ymylu ar fod yn ystrydebol wrth adleisio agoriad W. J. Gruffydd yn 'Cerdd yr Hen Chwarelwr'. Y llun y mae'r gerdd

⁴⁵⁵ Eigra Lewis Roberts, 'Brecwast', *Parlwr Bach*, t. 12.

⁴⁵⁶ Ibid.

yn cyfeirio ato yn y teitl yw un o dad y bachgen a'i gyd-weithwyr yn y chwarel ac uchelgais y bachgen yw cael ymddangos yn y llun hwnnw ryw ddydd.

Mae'r bachgen yn dechrau yn y chwarel ac, fel y gwna bechgyn Blaenau Ffestiniog yn y cyfnod diwydiannol, yn dilyn ôl traed ei dad:

Uno'i daith ag un ei dad,
eu dau â'u un dyhead;
deubar o 'sgidiau chwarel
a'u sang yn adleisio'u sêl,
ac o ris i ris yr un
nerth i'w hosgo wrth esgyn.⁴⁵⁷

Yma gwelir undod y tad a'r mab wrth iddynt ddilyn llwybr eu bywydau tua'r chwarel. Ond mae'r llwch wedi dal gafael ar ysgyfaint y tad ac ymhen amser, mae'r bachgen yn troedio ar ei ben ei hun:

Caethiwed yw'r caledwaith
heb ei dad i hybu'i daith;
oferedd o lafurwaith.⁴⁵⁸

Mae absenoldeb y tad yn cael ei gyfleu yn gynnil ac yn ingol ond mae adlais hefyd o farddoniaeth flaenorol wrth i'r bardd gyferbynnu ieuencid y tad gydag effaith y llwch arno: 'Ddoe'n ei nerth, heddiw'n hen wŕ.'⁴⁵⁹ Mae'r gerdd hon, er bod rhai delweddau trawiadol a hynod effeithiol yn disgleirio ynddi, yn ymylu'n gyson ar fod yn ystrydebol.

Yn ail ran y gerdd, dan yr is-deitl 'Heddiw', mae cydnabyddiaeth o ddiwedd y diwydiant llechi:

'Run yw'r lle a 'run yw'r llun - sy'n agor
I sŵn hogi ellyn
Y wawr erch, ond nid yr un
Yw'r di-arf ar ei derfyn.⁴⁶⁰

⁴⁵⁷ Eigr Lewis Roberts, 'Y Llun tu Hwnt i'r Llenni', *Parlwr Bach*, t. 65.

⁴⁵⁸ Ibid, t. 66.

⁴⁵⁹ Ibid.

⁴⁶⁰ Ibid, t. 67.

Mae'r chwarel yn parhau i edrych fel yr oedd 'D[d]oe'⁴⁶¹ ond nid oes chwarelwyr yno bellach. Trwy fynd i gael addysg yn y brifysgol, mae'r bachgen wedi colli ei gysylltiad â'r chwarel a chreffft ei gyn-deidiau. Mae'r thema hon yn bresennol yn awdlau buddugol Twm Morys ac Alan Llwyd, hynny yw bod pobl ifanc trwy ennill gradd yn colli gafael ar draddodiadau eu teuluoedd. Mae'r bachgen hwn bellach yn 'sgolor' ac wedi torri'r trywydd newydd iddo'i hun, llwybr sydd ddim yn dilyn ôl traed ei dad mwyach:

Ym mynwent ei Ben Meini - nawr nid oes
Yr un doe all roddi
Iddo hawl i'w meddu hi
Na'r llun tu hwnt i'r llenni.⁴⁶²

Er bod y bachgen yn rhydd o gadwynau'r chwarel ac yn gallu creu ei lwybr ei hun, nid yw'n cael ei bortreadu fel peth cadarnhaol yn y gerdd hon. Er gwaethaf yr anghyfiawnderau a'r marwolaethau a ddioddefwyd yn y chwarel dros y canrifoedd, ymddengys yn y gerdd hon fod cadw at draddodiadau yn bwysicach. Yn nechrau'r gerdd mae tad y bachgen yn dioddef o silicosis ac yn marw o'r clefyd; mae'n od felly fod y gerdd yn hiraethu am yr hen ffordd honno o fyw. Ond mae'r bardd yn cydnabod diwedd y diwydiant llechi er ei bod yn awgrymu mai dyna'r pris i dalu am addysg.

ix) Casgliad

Er bod y portread cyffredinol a geir ym marddoniaeth y bröydd chwarelyddol yn cyd-fynd â'r portread mewn ffuglen, mae elfennau yn unigryw i'r traddodiad barddol. Cyflwyno'r beirdd wedd newydd i bortreadau o'r bröydd trwy blethu chwedloniaeth y Mabinogi a'r diwydiant llechi, neu drwy ddarlunio chwarel wedi cau fel anialwch a'r diffeithiwch yn gwasgaru dros y fro. Yr hyn sy'n ddiddorol am y nodweddion barddol hyn yw'r ffordd y mae'r beirdd yn ymateb i gonfensiynau'r portread barddol yn ogystal â'r darlun a geir mewn rhyddiaith.

⁴⁶¹ Is-deitl rhan gyntaf y gerdd.

⁴⁶² Eigra Lewis Roberts, 'Y Llun tu Hwnt i'r Llenni,' *Parlwr Bach*, t. 67.

Mae ysgrifennu o safbwynt ôl-ddiwydiannol yn nodwedd lawer mwy cyffredin ym marddoniaeth y bröydd. Mae sawl bardd yn ysgrifennu am chwareli unigol sydd wedi cau o 1913 ymlaen ac maent yn ysgrifennu o safbwynt ôl-ddiwydiannol mor gynnar â'r 1950au. Gellir dirnad felly fod ymateb i'r cyfnod ôl-ddiwydiannol yn draddodiad llenyddol barddol llawer mwy cyffredin nag ydyw mewn rhyddiaith. Nid yw'n glir pam bod hyn yn nodwedd sy'n hollti rhyddiaith a barddoniaeth. Efallai bod beirdd yn llai caeth i'r confensiynau y mae awduron yn eu dilyn ac yn ysgrifennu am bresennol y diwydiant llechi yn hytrach na'i orffennol. Efallai hefyd ei bod hi'n haws ymateb i chwarel yn cau mewn cerdd ar y testun hwnnw nac ydyw mewn nofel a fuasai fel arfer gyda diwydiant yn gefndir yn unig.

Ond er gwaethaf rhai gwahaniaethau, mae elfennau o'r portread ym marddoniaeth y bröydd chwarelyddol yn cyd-fynd â'r darlun a geir gan awduron ffuglen. Mae myth y chwarelwr diwylliedig yn gryf ac mae'r mwyafrif o gerddi yn cyfeirio at anghyfiawnderau'r oes a'r chwarelwr yn cael ei ormesu gan y chwarel a'i pherchnogion. Gellir olrhain dylanwad 'Cerdd yr Hen Chwarelwr' ar y mwyafrif o'r cerddi gyda'r chwarelwr yn parhau i gael ei gyflwyno fel ffigur arwrol. Felly, mae confensiynau'r portread traddodiadol yn fyw ym marddoniaeth ardaloedd y llechi yn ogystal ag yn eu ffuglen, er gwaethaf rhai nodweddion sy'n eu gwahaniaethu.

Pennod 5: Delweddau'r Cyfryngau Gweledol: Ffilm, Dramâu Teledu a Dramâu Llwyfan.

i) Ffilm

Mae'r ffaith fod y ffilm gyntaf yn yr iaith Gymraeg yn darlunio bywydau chwarelwyr yn dweud cyfrolau am bwysigrwydd y diwydiant llechi a ffigur y chwarelwr yng Nghymru. Cafodd *Y Chwarelwr* (1935) ei chreu gan Syr Ifan ab Owen Edwards a John Ellis Williams a'u cymhelliant wrth greu'r ffilm oedd hybu Cymreictod a balchder yn nhreftadaeth Cymru. Dyma ffilm sydd yn adlewyrchu

gwerthoedd Cymru'r cyfnod trwy ei phortread o deulu cyffredin mewn bro chwarelyddol.

Mae *Y Chwarelwr* yn agor gyda golygfeydd o Flaenau Ffestiniog a'i chwareli i gyfeiliant sgôr swynol. Dangosir y chwarelwyr yn cerdded tua'r gwaith cyn canolbwyntio ar dad a mab yn gadael eu cartref yn trafod mor lwcus ydynt i gael gwaith. Ceir mewnwelediad i sawl agwedd ar waith yn y diwydiant llechi; chwarelwyr yn crogi ar y graig, eraill yn hollti a naddu, ceffylau'n cario llwythi, yr inclên yn mynd tan-ddaear a'r dynion yn gwibio i lawr y car gwyllt. Yn wir, trwy bortreadu gwahanol rannau o waith yn y chwarel, mae elfen gref o raglen ddogfen i'r *Chwarelwr*. Wrth i'r corn ganu amser cinio ceir sawl golygfa o ddyinion yn gadael eu gwaith yn y ffowndri, yn y swyddfa, yn dod i lawr o'r creigiau ac yn rhoi'r morthwyl a'r cŷn i orffwys. Maent oll yn cymysgu yn y caban ac yn cynnal cystadleuaeth ganu. Mae digonedd o dynnu coes a hiwmor yn yr olygfa hon sydd yn portreadu'r ddelwedd gyfarwydd o ddiwylliant cyfoethog y chwarelwyr a'u caban.

Yn dilyn arddull ddogfennol *Y Chwarelwr* wrth bortreadu'r chwarel a bwrlwm y caban, cawn gyfres o olygfeydd o'r teulu o amgylch y bwrdd bwyd, yn yr ysgol, ac yn y capel. Un diwrnod, mae'r tad yn marw yn y capel ar yr un diwrnod y mae ei ferch, Nesta, wedi llwyddo yn ei harholiad ac ar y brig trwy'r sir. Yn dilyn yr angladd gwelwn effaith marwolaeth eu penteulu ar y cymeriadau. Mae'n rhaid i'r mab hynaf ohirio ei briodas, a dim ond un o'r plant ieuengaf a all fynd i'r coleg. Er bod Robin eisiau bod yn feddyg, fe wŷr fod ei chwaer fach yn fwy galluog nag ef. Felly, mae'n penderfynu gadael yr ysgol ac mae'r ffilm yn cloi wrth iddo gerdded tua'r chwarel i ofyn am waith.

Er ei bod yn stori syml, mae'n adlewyrchu pwysigrwydd addysg i'r chwarelwyr a'r themâu cyfarwydd hynny o dlodi ac annhegwch. Efallai bod y ffilm yn sentimental ond y mae'n driw i realiti bywyd mewn bro chwarelyddol yn y cyfnod. Ysgrifenna David Berry am themâu'r ffilm o fewn cyd-destun y ffilmiau eraill o'r cyfnod:

The theme of choice between pursuing education, staying at home to face up to one's family responsibilities or allowing others to seize chances was

to remain at the core of much Welsh works from *How Green Was My Valley* and *The Corn is Green* to David.⁴⁶³

Mae'n bwynt diddorol o ystyried yr astudiaeth hon oherwydd mae pwysigrwydd addysg a hunanaberth yn themâu sy'n codi droeon yn llenyddiaeth y bröydd chwarelyddol. Yn *Traed Mewn Cyffion*, *Chwalfa* ac *Y Cychwyn* mae pwysau ar y teuluoedd i aberthu er mwyn addysg eu plant; dyma thema fawr sydd yn treiddio trwodd i'r sgrin fawr. Wrth roi pwyslais ar ddiwylliant y caban, pwysigrwydd addysg y plant a phwysigrwydd y capel i'r gymdeithas, roedd y microcosm hwn yn bortread o'r Gymru ddelfrydol i raddau. Er bod y stori ei hun yn drasig ac yn cyfleu tlogi'r cyfnod, mae rhamant yn y ffordd y caiff y gymdeithas chwarelyddol hon a'i gwerthoedd eu portreadu.

Yn 2006 crëwyd rhaglen ddogfen gan Cwmni Da yn dilyn Ifor ap Glyn wrth iddo atgyfodi *Y Chwarelwr*. Darganfuwyd bod rîl olaf y ffilm ar goll, felly gyda chopi o'r sgript a'r sain wreiddiol aeth Cwmni Da ati i ail-greu'r darnau colledig. Mae pedair rhaglen ddogfen fer yn dilyn y criw wrth iddynt ddefnyddio hen gamerâu a cheisio bod mor driw i'r gwreiddiol ag sydd bosibl. Mae'r rhaglen hefyd yn ail-greu golygfeydd o Syr Ifan a John Ellis Williams wrth iddynt weithio ar y ffilm wreiddiol. Dywed Ifor ap Glyn mai 'Talu teyrnged oedd fy mwriad'⁴⁶⁴ ac o'r rhaglenni dogfen gellir gweld mor ofalus yr aeth ati i atgyfodi'r ffilm Gymraeg gyntaf. Gyda deg a thrigain o flynyddoedd rhwng y ffilm wreiddiol a'r ailgread, mae'r rhaglenni'n fewnwelediad gwerthfawr i wreiddiau'r sinema Gymraeg.

Yr hyn sy'n ddiddorol yw cyn lleied o ffilmiau am y diwydiant llechi a ddatblygodd ar ôl *Y Chwarelwr*. Dywed David Berry am ffilmiau Cymru: 'The decline of the north Wales industries remained curiously neglected.'⁴⁶⁵ Roedd ffilmiau fel *The Citadel* (1938), *Today We Live* (1937) a *The Proud Valley* (1940) yn creu darluniau rhamantus o fywyd yng nghymoedd y de. Maent yn bortreadau sy'n adleisio nofelau llenyddol y bröydd chwarelyddol fel gweithiau Kate Roberts a T. Rowland Hughes. Ond er bod nofel fel *How Green Was My Valley* yn cael ei datblygu'n ffilm mor gynnar â 1941 (ac wedi mynd yn ei blaen i ennill sawl Oscar

⁴⁶³ David Berry, *Wales & Cinema: The First Hundred Years* (Caerdydd: University of Wales Press, 1996), t. 144.

⁴⁶⁴ Ifor ap Glyn, 'Cyflwyniad' i *Y Chwarelwr* (2006), Cwmni Da, S4C.

⁴⁶⁵ David Berry, *Wales & Cinema*, t. 150.

y flwyddyn honno), ni chafodd gweithiau llenyddol y gogledd eu haddasu ar gyfer y sgrin fawr tan yr 1990au. Mae'r gwahaniaethau rhwng y ffilmiau sy'n portreadu de Cymru a gogledd Cymru'n ddiddorol ac mae'n drawiadol cyn lleied o bortreadau sy'n bodoli o fröydd chwarelyddol ôl-ddiwydiannol o'u cymharu.

Roedd de Cymru yn llawer mwy parod i dderbyn ffilmiau fel rhan o ddiwylliant cyfoes eu hardaloedd. Yn y gogledd ymddengys bod dylanwad y diwygiad a pharchusrwydd y capel wedi peri i'r gymdeithas fod yn ddrwgdybus o'r sinema a'i gweld fel adloniant anfoesol. Wrth gwrs roedd diwygiad 1904-05 yr un mor bwerus yng nghymoedd y de ag yr oedd yn y gogledd, ond roedd clybiau'r glöwyr yn llawer mwy parod i gofleidio sinema ac i fachu'r cyfle i wneud arian yr un pryd. Roedd clybiau a sefydliadau'r glöwyr yn arddangos ffilmiau'n aml ac yn addasu eu prisiau yn ddibynnol ar gyflogau'r pyllau. O ganlyniad i hynny a llwyddiant ffilmiau fel *How Green Was My Valley* (1941), mae'r cymoedd yn lleoliad llawer mwy poblogaidd na'r bröydd chwarelyddol ar gyfer ffilmiau. Mae ffilmiau diweddarach fel *Ms Rhymney Valley* (1985) ac *The Angry Earth* (1989) yn portreadu'r pyllau glo o safbwynt ôl-ddiwydiannol.

Aderyn Papur (1984) oedd y ffilm gyntaf i bortreadu bröydd chwarelyddol gogledd Cymru o fewn cyd-destun ôl-ddiwydiannol. Dyma leoliad a safbwynt sydd, fel mae David Berry yn ei bwysleisio, yn 'sadly neglected in all Welsh drama.'⁴⁶⁶ Mae *Aderyn Papur* yn dilyn bachgen ifanc, Alun, a'i fro chwarelyddol ôl-ddiwydiannol. Caiff yr ardal ei chyflwyno fel lle anobeithiol, caeedig sy'n crebachu o amgylch yr ychydig drigolion sy'n parhau i fyw yno. Mae'r chwareli yn gefndir i'r cyfan ac yn cael eu cyflwyno fel cofebau i'r hyn roedd y fro yn arfer bod, cyn yr holl dlodi a diweithdra.

Mae Alun a'i ffrind yn derbyn teitl prosiectau yn yr ysgol, 'llechi' a 'chwareli'. Mae'r prifathro yn cwestiynu dewisiadau'r athrawes ifanc gan ddweud y dylid cael testunau mwy gobeithiol. Caiff taid Alun ei gyflwyno fel arbenigwr ar y chwarel a'i llechi ac mae'n falch o gael y cyfle i rannu ei wybodaeth gyda'r bechgyn. Eglura wrth Alun mai'r llechi a ddaeth gyntaf a bod popeth arall yn y fro wedi dilyn. Dyma ddatganiad ingol o ystyried sefyllfa bresennol yr ardal, y chwareli wedi cau a gweddill y fro'n disgwyl am ddiwydiant

⁴⁶⁶ David Berry, 'Unearthing the Present: Television drama in Wales' yn *Wales on Screen*, gol. Steve Blandford (Bridgend: Seren, 2000), t. 143.

newydd i'w ddisodli. Yn wir, yr unig ddefnydd a geir o'r chwarel yn y ffilm hon yw adloniant y 'skinheads' lleol wrth iddynt wthio ceir dros y dibyn i'r llyn yng nghanol y chwarel. Dyma olygfa wreiddiol sy'n adlewyrchiad o ddiflastod pobl ifanc mewn ardal ddifreintiedig.

Ceir symbolau parhaus o ddirywiad trwy'r ffilm: adeiladau gwag, siopau a'u ffenestri wedi eu gorchuddio, arwyddion 'ar werth', graffiti ac ati. Edrycha'r tad (John Ogwen) i lawr ar y fro o'r domen chwarel a cofia'r gwaith da a oedd i'w gael ers talwm. Gofidia ei chwaer hefyd, modryb Alun, am ddyfodol y pentref sydd heb unrhyw waed newydd, dim ond poblogaeth fechan sy'n prysur heneiddio. Does gan neb unrhyw obaith am y dyfodol na balchder yn eu bro oni bai am Alun sydd yn gweld rhinweddau sy'n anweledig i bawb arall.

Pan mae dau ddyn o Siapan yn dod i aros yn un o fythynnod y pentref mae Alun yn siŵr eu bod wedi dod i chwilio am le i agor ffatri. Mae'n mynd â'r dynion o amgylch y pentref a'u cyflwyno i bawb yn y gobaith y bydd y dynion yn dod â gwaith i'r ardal. Yn raddol mae gweddill y pentref yn dechrau cymryd diddordeb yn y gwŷr hyn a'r si amdanynt. Mae arwydd y gwesty yn cael ei ailbaentio, y garej yn cael arwyddion newydd a'r perchennog yn cymryd mwy o falchder ynddo'i hun a'i fusnes. Daw'r pentref at ei gilydd i gynnal parti i'r Siapaneaid ac i sôn wrthynt am holl rinweddau'r llechen a'u bro. Yn y diwedd mae'r Siapaneaid a ddaeth â gobaith a bywyd newydd i'r pentref yn gadael a darganfyddwn mai dim ond ar eu gwyliau yr oeddynt. Er hyn, mae gobaith newydd yn y fro ac mae gan y trigolion falchder yn eu cymdeithas am y tro cyntaf ers i'r chwareli gau.

Dyma ddiweddglo chwerw-felys gyda'r fro yn parhau i wynebu problemau tlodi a diweithdra difrifol ond bod ganddynt agwedd fwy cadarnhaol tuag at y dyfodol. Er bod gobaith newydd i deulu Alan, gyda'i dad yn addo newid a mynd i Lerpwl i ddod â'i wraig adref, a'i frawd, Idris, yn ennill lle mewn cystadleuaeth snwcer fawr yn Lerpwl, mae diweithdra yn parhau i effeithio arnynt, yn ogystal â'r mwyafrif o'r trigolion. Mae ffrind gorau Alun yn gorfod symud gyda'i deulu i Awstralia er mwyn i'w dad gael gwaith ac er bod y fro bellach wedi deffro a dechrau gwella ei hun, mae'n parhau i fod yn ardal ôl-ddiwydiannol, ddifreintiedig heb swyddi. Dyma bortread blaengar o fro chwarelyddol yn y cyfnod ôl-ddiwydiannol nad yw'n ofni archwilio effaith diweithdra ar gymdeithas.

Mae *Twll o Le* (1986) hefyd yn bortread o ddiweithdra mewn bro chwarelyddol yn yr 1980au. Cafodd ei haddasu ar gyfer y sgrin o un o straeon Wil Sam ac mae'n canolbwyntio ar y gymdeithas yn Dinorwig sydd yn debyg i'r pentref yn *Aderyn Papur*, yng ngeiriau David Berry: 'a north Wales community drained of life by the decline of the slate trade.'⁴⁶⁷ Yn cynrychioli dynion ifanc y fro mae Mostyn (Bryn Fôn) sy'n byw ar y dôl ac yn methu canfod gwaith. Mae'r ffilm yn agor gyda Mostyn yn edrych allan yn freuddwydiol ar hen chwarel i gyfeiliant nodau hir-iasol. Mae'r ffilm yn atmosfferig trwy'r pwyslais cyson ar dlodi'r fro a'r delweddau o ddirywiad fel y chwareli gwag, adfeilion, tai ar werth ac ati. Mae ysfa Mostyn i adael y lle yn cael ei gyfleu'n effeithiol a gallwn deimlo ei rwystredigaeth yn y 'twll o le.'⁴⁶⁸

Mae cwpl o olygfeydd ailadroddus i bwysleisio effaith diweithdra ar fro yn dilyn cau'r chwareli. Mae'r sgysiau rhwng taid Mostyn a'i ffrind yn datgelu eu gofid am ddyfodol yr ardal a'r bobl ifanc: 'Chwarel Twll Pella 'di mynd rwan, fath â'r lleill.'⁴⁶⁹ Ychydig o olygfeydd yn ddiweddarach maent yn parhau gyda'r un sgwrs: 'Cau un ar ôl y llall. Chwarel Twll Pella 'di mynd rwan, 'run fath â'r lleill, gadal dim ond poen a thlodi ar eu hôl... a visitors.'⁴⁷⁰ Maent yn trafod yn ddrwgdybus y ffordd y caiff yr hen chwareli eu hailagor ar gyfer twristiaid. Ond nid eistedd o gwmpas yn cwyno yn unig a wna taid Mostyn. Ysgrifenna David Berry amdano:

Guto Roberts plays Taid, an old man ruminating on the demise of the community, the frustrations of the young who are 'like animals looking for an open door', and the cynicism of modern times. But he is prepared at least to act, on behalf of a newly formed Unemployed Workers' Union, and finally to use his skills to build the house which will help in the rehabilitation of Mostyn and – symbolically - the community.⁴⁷¹

Ar ddiwedd y ffilm mae Taid wedi troi hen sied yn undeb ar gyfer y di-waith ac wedi dechrau ailadeiladu'r hen adfail lle cafodd ei fagu ar gyfer Mostyn a'i deulu. Mae ganddo agwedd oddefgar at y dynion ifanc ac yn gweld bod diweithdra'n eu

⁴⁶⁷ David Berry, *Wales & Cinema*, t. 339.

⁴⁶⁸ *Twll o Le* (1986), S4C.

⁴⁶⁹ Ibid.

⁴⁷⁰ Ibid.

⁴⁷¹ David Berry, *Wales & Cinema*, t. 339.

gorfodi i fod yn alltudion o'u cynefin eu hunain.

Pan fo ffatri Siapaneaidd yn agor yn y fro daw gobaith newydd i Mostyn. Mae'n ddiddorol bod cwmnïau Siapaneaidd yn cael eu cyflwyno fel symbol o obaith yn *Aderyn Papur* hefyd, adlewyrchiad arall o economi'r 1980au. Ond yma mae agwedd ddilornus y perchnogion at y dynion di-waith yn difa unrhyw obaith am y dyfodol. Mae sŵn traed y dynion yn cerdded am adref yn adlais eironig o dramp y chwarelwyr ar ôl diwrnod o waith. Mae criw o ddynion yn twrio trwy hen domennydd chwarel yn chwilio am gerrig a sgrapiau o'r hen beiriannau, golygfa sy'n cyfleu eu rhwystredigaeth. Mae Delyth George yn canmol ymdriniaeth y ffilm â'r dirywiad yn y fro ac yn Mostyn:

Cawsom ddarlun treiddgar a disentiment o ddirywiad un o ardaloedd chwarelyddol Arfon yn sgîl diweithdra eang; yr hen yn gresynu at y newid a fu, a'r ifanc ar ben eu tennyn, â blys dianc rhag y 'twll o le'. Gwelwyd y cyfan yn glòs o gylch sefyllfa argyfyngus Mostyn, gŵr ifanc prin a fuasai ar y dôl ers tro byd wedi 'bargen wael' yn y chwarel.⁴⁷²

Yn wir, defnyddir Mostyn fel symbol, neu rybudd efallai, o effaith diweithdra. Mae'n cynrychioli dynion ifanc mewn ardal ôl-ddiwydiannol ac mae'r ffilm yn effeithiol wrth bortreadu'i rwystredigaeth. Ar ôl sawl anffawd mae Mostyn yn dechrau lladrata. Caiff ei ddal a'i anfon i'r carchar. Datblyga'n fotiff o anobaith y fro wrth iddo chwerwi dan glo.

Tra mae yn y carchar, mae Mostyn yn myfyrio am yr hen ddiwydiant ac yn dychmygu ei hun yn ôl wrth ymyl twll chwarel. Dywed mewn troslais:

Silicosis, crydcymalau a damweiniau - boddi'r lle 'na sydd isio a llenwi'r twll efo rwbel. Os cau, cau o ddifrif, cau am byth. Mynd. Neu aros. Aros am byth.⁴⁷³

Gall y dyfyniad hwn gael ei ddehongli mewn sawl ffordd, efallai ei fod yn cyfeirio at y chwarel, y fro neu'r gymdeithas hyd yn oed. Er bod y chwareli i gyd wedi cau a dim gobaith cael swydd yn ei gynefin, mae Mostyn yn sownd yno, heb arian i adael. Pan mae ei wraig a'i daid yn dod i ymweld ag ef yn y carchar mae'n

⁴⁷² Delyth George, 'Teledu- *Twll o Le*' yn *Barn*, 292 (Mai 1987), t. 182.

⁴⁷³ *Twll o Le* (1986), S4C.

yмосod arnynt yn eiriol. Ei ymateb wrth glywed bod ei wraig yn disgwyl eu plentyn cyntaf yw 'ceg arall i fwydo'⁴⁷⁴ ac mae'n ddilornus o ymdrechion Taid i ffurfio undeb i'r di-waith.

Mae'r ffilm yn gorffen gyda golygfeydd o daid a gwraig Mostyn yn gweithio ar yr hen adfail a'i droi'n gartref. Dyma symbol o obaith newydd i'r fro sy'n cael ei gryfhau gan feichiogrwydd ei wraig. Ond pan mae Mostyn yn gadael y carchar nid yw'n gwbl eglur a ydyw'n bwriadu dychwelyd adref at ei deulu neu adael y 'twll o le' unwaith ac am byth. Yn gefndir i'r olygfa olaf hon mae anthem y ffilm yn chwarae, cân am fywyd ar y dôl gan Endaf Emlyn. Ysgrifenna Delyth George am berthnasedd y geiriau:

Clowyd y cyfan yn gampus gan alaw afaelgar Endaf Emlyn; ei geiriau'n crynhoi sylwedd y ddrama ('Ffŵl yw'r gobaith sy'n dal i droedio'r lôn' a chredu ceir 'dihangfa rhag y dôl'), a hefyd gan olygfeydd rwbel yn symbol o ddadfeiliad ardal - yr hen yn casglu'r darnau o blith y rwbel a'r ifanc yn dianc rhagddynt cyn gynted ag y medrent. Drama rymus yn wir, â'i bys ar bŷls problemau'r cyfnod.⁴⁷⁵

Mae *Twll o Le* yn sicr yn portreadu diweithdra ac anobaith bröydd chwarelyddol ôl-ddiwydiannol yn yr 1980au yn hynod effeithiol ac yn adlewyrchu ing y cyfnod. Mae'n siomedig bod y diweddglô'n wrth-uchafbwynt ac yn colli'r angerdd gwleidyddol a oedd yn byrlymu'n dawel ar hyd y ffilm. Mae David Berry hefyd yn siomedig â'r diweddglô:

Unfortunately the film's would-be affirmative ending is at odds with the tenor of previous scenes, and the expressed hope that Mostyn's predicament and fall from grace might somehow bring the community to its senses is whimsical. Humphreys's characters appear to function in a vacuum, and a work always strong in atmosphere finally smacks a little of complacency about problems, and lacks irony and political thrust.⁴⁷⁶

Mae *Twll o Le* yn portreadu'r gwylltineb sydd ynghlwm â diweithdra ac yn rhybudd am effaith tlodi, er ei fod efallai'n colli ei drywydd ar ddiwedd y ffilm.

⁴⁷⁴ Ibid.

⁴⁷⁵ Delyth George, 'Teledu- *Twll o Le*' yn *Barn*, t. 183.

⁴⁷⁶ David Berry, *Wales & Cinema*, t. 339.

Mae *Twll o Le* ac *Aderyn Papur* yn bortreadau difyr o fröydd chwarelyddol yn y cyfnod ôl-ddiwydiannol oherwydd bod y ddwy ffilm yn pwysleisio problemau diweithdra, tlodi a'r dirywiad yn yr ardaloedd ond yn cloi'r ffilmiau ar nodyn chwerw-felys. Yn *Aderyn Papur*, nid yw'r diwedd glo'n cynnig achubiaeth i'r bröydd ond yn hytrach i'r cymeriadau, tra mae Mostyn yn *Twll o Le* wedi anobeithio'n llwyr er gwaethaf ymdrechion i adnewyddu'r fro. Mae tad Alun yn *Aderyn Papur* a Mostyn yn *Twll o Le* yn cael eu defnyddio i gynrychioli'r fro, gydag effaith diweithdra'n eu mygu yn nechrau'r ffilmiau. Erbyn diwedd *Aderyn Papur*, mae tad Alun a'r ardal wedi canfod hyder a gobaith newydd, tra mae pellter wedi tyfu rhwng Mostyn a'r fro erbyn diwedd *Twll o Le* ac mae wedi chwerwi hyd yn oed yn fwy.

Yn yr 1990au daeth ffrwd o addasiadau o nofelau clasurol y bröydd chwarelyddol. Cafodd *Un Nos Ola Leuad* (1991), *William Jones* (1993) ac *Y Mynydd Grug* (1998) eu rhyddhau yn y cyfnod hwn, ynghyd â chyfresi fel *Traed Mewn Cyffion* (1991) ar y sgrin fach. Efallai bod hiraeth erbyn yr 1990au am oes aur y diwydiant llechi yn dilyn ing yr 1980au ac ymdriniaeth ffilmiau fel *Twll o Le* ac *Aderyn Papur* o ddiweithdra. Cyn sefydlu S4C, roedd gan y BBC gynulleidfa barod ar gyfer addasiadau o nofelau Cymraeg ac nid oedd S4C am dorri'n rhydd o'r patrwm hwnnw. Gyda dyfodiad S4C yn 1982, fel y dywed Eurgain Haf, 'cyndyn oedd y cyfryngau i ollwng gafael ar lawes "saff" y creiddiau llenyddol.'⁴⁷⁷ Â ymlaen i ddatgan mai addasiadau oedd 'norm' y cyfnod:

Yn dilyn adfywiad ym mhoblogrwydd dalen wen y llyfr ar gyfer diwydiant darlledu yn ystod yr 1980au hwyr a'r 1990au, rydym bellach wedi hen arfer â gweld cynhyrchwyr Hollywood, a chynhyrchwyr dramâu'r prif sianeli teledu, yn cyflwyno ffilmiau neu gyfresi teledu sy'n seiliedig ar lenyddiaeth, wedi eu hysbrydoli ganddi neu yn ddehongliadau ohoni.⁴⁷⁸

Efallai felly mai cymoedd y de oedd o flaen eu hamser yn addasu nofelau ar gyfer y sgrin yn hytrach na bod y bröydd chwarelyddol yn araf i wneud hynny. Mae'n rhaid bod y ffilmiau yma yn nodweddiadol o'r cyfnod o fewn cyd-destun ehangach wrth i nofelau clasurol gael eu haddasu yn rhyngwladol. Rwyf eisoes

⁴⁷⁷ Eurgain Haf, 'Addasu Llunyddol' yn *Chwileniwm: Technoleg a Llenyddiaeth* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2002), t. 131.

⁴⁷⁸ *Ibid*, t. 123.

wedi trafod y nofelau hyn ac felly canolbwyntiaf yma ar yr hyn sy'n wahanol yn yr addasiadau.

Addaswyd y nofel enwog *Un Nos Ola Leuad* i fod yn sgrïpt (1991) gan Gwenlyn Parry, tasg anodd dros ben o ystyried mor boblogaidd yw'r nofel a'r holl ddarnau diriaethol sydd ynddi. Yn *Barn* ysgrifennodd Menna Baines adolygiad o'r ffilm. Mae hi'n canmol yr addasiad am beidio â cheisio aros yn rhy gaeth i'r gwreiddiol:

Ar y cyfan, mae'r ffilm yn dal ysbryd y gwreiddiol yn iasol o lwyddiannus. Does dim dwywaith y bydd pawb sy'n gyfarwydd â'r nofel yn gweld colli hoff gymeriadau, golygfeydd a straeon, ond mae hynny'n anochel. Dehongliad sydd yma, *un* olwg ar y nofel, nid ymgais, diolch byth, i geisio rhoi'r cyfan ar y sgrin.⁴⁷⁹

Er bod yr hyn a ddywed Menna Baines yn hollol wir, mae'n siom bod pob golygfa neu gymeriad a oedd yn cynnig hiwmor wedi eu hepgor o'r ffilm. Mae'r golygfeydd a oedd yn ddoniol yn y nofel wedi eu haddasu i fynegi rhywbeth tywyll ar y sgrin. Ond fel y dywed Menna Baines, un olwg ar y nofel sydd yma ac ni fuasai'r hiwmor yn gweddu gyda'r dehongliad tywyll hwn.

Dywedodd y cyfarwyddwr, Endaf Emlyn, ei fod wedi cael ei ddenu at addasu'r nofel am nad oes dehongliad pendant ohoni.⁴⁸⁰ Mae'r gerddoriaeth iasol, y tywyllwch, y defnydd o ddelweddau dychrynlyd fel y lleuad lawn a'r angylion, a'r ffordd y mae'r addasiad yn chwarae gyda'r ffin rhwng realiti a breuddwyd yn cyfrannu at awyrgylch hunllefus y ffilm. Mae David Berry yn canmol sinematograffi'r ffilm:

He returns to his home village to complete the cycle by seeking absolution through his own death, and the use of woods, hills and barren landscapes in sharp juxtaposition with the claustrophobic looming interiors which hem in the protagonist, can scarcely be faulted. The film gains immeasurably from fine editing and the beautifully modulated performance of Dyfan Roberts as the man moving, inexorably, towards atonement and suicide.⁴⁸¹

⁴⁷⁹ Menna Baines, 'Yng Ngolau'r Lleuad... ac yn nwndwr y dŵr' yn *Barn*, 346 (Tachwedd 1991), t. 41.

⁴⁸⁰ Eurgain Haf yn dyfynnu Endaf Emlyn yn 'Addasu Llunyddol' yn *Chwileniwm: Technoleg a Llenyddiaeth*, t. 129.

⁴⁸¹ David Berry, *Wales & Cinema*, t. 414.

Mae'r cyfarwyddwr yn gwneud y mwyaf o dirlun bygythiol y bröydd chwarelyddol ac yn creu awyrgylch yn hynod o effeithiol. Ond teimlaf ar adegau bod angen osgoi'r gordefnydd o olygfeydd tywyll, delweddau symbolaidd a nodau hir-iasol y gerddoriaeth.

Mae dŵr yn ddelwedd sy'n rhedeg drwy'r ffilm, bron â bod ym mhob golygfa. Mae *Un Nos Ola Leuad* yn agor gyda'r dyn (Dyfan Roberts) yn golchi ei ddwylo gydag ôl-fflach o'r fam yn ymolchi. Ceir adlewyrchiad o'r lleuad lawn yn y llyn, sŵn dŵr yng nghefnidir ambell olygfa ac wrth gwrs y diwedd glo pan fo'r dyn yn diflannu dan wyneb y llyn. Mae'r holl ddelweddau yma'n ychwanegu at awyrgylch y ffilm a hefyd yn fotiff sy'n cysylltu gwahanol olygfeydd gyda'i gilydd. Mae angylion hefyd yn fotiff cyson ond nid yw'n gwbl effeithiol ym marn Menna Baines:

lawn cael angel fel symbol o'r grefydd ormesol sy'n gymaint o ddylanwad ar feddwl y bachgen, ond a oedd rhaid cael y babi-dol asgellog yna'n dod, fel rhywbeth wedi dianc o *Salem's Lot*, at ffenestr Moi y claf? Y gwir yw fod yr angel carreg yn y fynwent wedi gwneud y pwynt yn iawn. Am ryw reswm, roedd rhoi adenydd i Yncl Harri druan yn gweithio'n well, efallai am ei bod yn glir mai hunllef sydd yma. Mae'r ffin mor denau rhwng y derbyniol a'r annerbyniol wrth geisio cyfleu dychymyg plentyn - yn deneuach byth, o bosib, mewn ffilm.⁴⁸²

Mae'r golygfeydd hyn yn amlwg wedi eu hychwanegu am resymau ffilmig yn hytrach nag ar gyfer cario'r plot ac efallai mai dyna pam eu bod yn cael eu gweld fel atodiadau braidd yn od.

Problem i'w hwynebu wrth drosi llyfr mor gynnwl ac aneglur ar adegau i'r sgrin yw sut y gellir cynnal y dirgelwch a'r cynildeb hwnnw. Wrth ddarlunio ochr dywyll y gymdeithas, mae'r ffilm yn llawer mwy blaengar na'r llyfr. Pan fo'r Prifathro'n galw Jini Bach Pen Cae i'w swyddfa, mae'r bachgen yn ei gweld yn diosg ei dillad, a phan fo Em yn cael ei ddal ar ôl treisio Jini Bach Pen Cae'r eilwaith mae'n cael ei lusgo trwy'r strydoedd yn gwaedu ac yn cael ei guro tra mae'r chwarelwyr yn rhegi arno. Mae'n amlwg bod Gwenlyn Parry ac Endaf

⁴⁸² Menna Baines, 'Yng Ngolau'r Lleuad... ac yn nwndwr y dŵr' yn *Barn*, tt. 41-2.

Emlyn wedi penderfynu peidio â cheisio cuddio rhai o wirioneddau cynnil y nofel. Ar adegau eraill maent yn driw i'r hyn sy'n aneglur yn y nofel ei hun fel yr amwysedd am dad y plentyn a pherthynas y fam gyda'r Canon, er enghraifft.

Mae'r chwarel ei hun yn llawer mwy amlwg yn y ffilm na'r nofel, sydd bron yn osgoi crybwyll y gweithle. Yma, ceir golygfa o'r corn yn canu a'r dynion yn mynd i'r caban i ymochel wrth i graig gael ei chwythu. Mae sawl golygfa lle mae'r cymeriadau'n dweud yr amser yn ôl caniad y chwarel ac mae'r bachgen a'i ffrindiau'n mynd yno i chwarae. Maent yn taflu cerrig i'r pwll yng nghrombil y chwarel un diwrnod pan fo Yncl Wil (sy'n gyfuniad o'r cymeriad hwnnw ac Wil Ellis Portar) yn ymddangos ac yn cael ffit. Mae'r bachgen yn rhedeg i ffwrdd mewn ofn a bron â syrthio i'r pwll. Yn ddiweddarach yn y ffilm, wrth iddo syrthio o ben sied ar fferm ei gefnder, mae'r bachgen yn cael ôl-fflach o edrych i lawr ar y pwll dwfn hwnnw, enghraifft arall o bwysigrwydd dŵr yn y ffilm.

I'r bachgen, mae'r chwarel yn lle sinistr a chaiff hyn ei amlygu trwy sŵn tincial bygythiol cylllyll Yncl Wil. Wrth iddo fynd i'r chwarel i chwilio am waith, mae'n canfod corff marw Yncl Wil sydd wedi lladd ei hun ac yn gwaedu dros lun o'r bachgen a'i fam. Mae'n taflu holl eiddo Yncl Wil i'r pwll ac yn golchi'r gwaed oddi ar y llun cyn rhedeg i ffwrdd. Mae'r dehongliad hwn o *Un Nos Ola Leuad* yn cynnig portread dychrynlyd o'r chwarel fel lle llawn marwolaeth a hafan i Yncl Wil. Dyma 'un olwg,'⁴⁸³ chwedl Menna Baines, ar y nofel a safbwynt sy'n pwysleisio tywyllwch a dioddefaint y bachgen a'r fro.

Cafodd *William Jones*, nofel enwog T. Rowland Hughes, ei haddasu'n ffilm yn 1993. Dyma addasiad arall gan Gwenlyn Parry, ond y tro hwn mae'n cadw'n fwy triw i'r nofel wreiddiol. Mae *William Jones* yn cynnig ei hun yn llawer haws ar gyfer y sgrin nag *Un Nos Ola Leuad* oherwydd ei naratif cryf a'r plot syml. Mae'n ddiddorol nodi mai *William Jones* oedd y nofel Gymraeg gyntaf i bortreadu bywyd yng nghymoedd diwydiannol y de. Mae *William Jones* felly'n pontio diwydiannau'r de a'r gogledd ac yn portreadu sawl carfan o'r gymdeithas Gymraeg.

Cyhoeddwyd y nofel yn 1944 ac erbyn i'r ffilm gael ei gwneud yn 1993 roedd y diwydiant llechi yng ngogledd Cymru wedi ei drawsnewid yn llwyr.

⁴⁸³ Ibid.

Mewn adolygiad yn *Barn*, mae Meg Elis yn canmol y ffordd y caiff cyfnod y nofel ei gyfleu yn y ffilm a hefyd yn rhyfeddu at effaith y cyfnod ôl-ddiwydiannol ar dirlun Cymru:

Cafwyd y sylwebaeth fwyaf iasol ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng y cyfnod a bortreadir yn y nofel *William Jones* a chyfnod y ddrama deledu cyn i'r un funud o'r addasiad hwn gyrraedd y sgrin. 'Doedd hi ddim yn hawdd erbyn hyn i ddod o hyd i chwarel na phwll glo naturiol, ond diolch byth mae'r ddau ddiwydiant wedi'u cadw mewn amgueddfeydd...' Gwers gryno sy'n dangos pam fod *William Jones* bellach yn perthyn i ddisbarth y 'ddrama gyfnod' yn nhermau teledu.⁴⁸⁴

Yn sicr, mae *William Jones* yn ddrama gyfnod a thrwy hynny yn adlewyrchu newidiadau enfawr i dirlun, economi a chymdeithas Cymru gyfan yn ystod yr hanner canrif rhwng cyhoeddi'r nofel a rhyddhau'r ffilm. Ond wrth gyflwyno portread T. Rowland Hughes i genhedlaeth newydd, mae'r ffilm yn atgyfnerthu myth y chwarelwr yng nghof cyfredol y genedl.

Mae William Jones yn ymgnawdoliad o'r chwarelwr da. Caiff hyn ei amlygu trwy olygfeydd ffafriol fel yn nechrau'r ffilm pan mae William Jones yn hwyr i'r gwaith un diwrnod, ac y mae'r stiward yn ei gredu pan ddywed nad oedd ei larwm wedi gweithio. Dyma ddigwyddiad sydd yn gwrth-ddweud y portread confensiynol o stiwardiaid er mwyn cyfleu mor ddibynadwy yw William Jones. Yn y ffilm, mae'r cymeriad yn cael ei bortreadu'n fwy syml a naif nag yn y nofel a daw'n fwy o syndod pan mae'n cael digon ac yn gadael ei wraig a symud i'r de. Ysgrifenna D. W. Williams am yr addasiad o'r nofel i'r sgrin:

Un o brif lwyddiannau'r addasiad teledu oedd y modd y dangoswyd datblygiad William Jones o fod yn dipyn o glown yn Llan-y-graig, i fod yn gymeriad hoffus a phoblogaidd yn ei gynefin mabwysiedig ym Mryn Glo.⁴⁸⁵

⁴⁸⁴ Meg Elis, 'Drama'r Eiliadau Gloyw' yn *Barn* (Rhif 363, Ebrill 1993), t. 17.

⁴⁸⁵ D. W. Williams, *William Jones, T. Rowland Hughes, Trafodaeth ar y nofel a'r addasiad teledu ohoni*, (Traethawd M.A. Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Bangor, 1996), t. 98.

Mae'r cyferbyniadau rhwng y de a'r gogledd yn thema gyson trwy'r nofel a'r ffilm ac fel y mae D. W. Williams yn ei amlygu yma, defnyddir cymeriad William Jones i bwysleisio'r gwahaniaethau.

Mae'r chwarel yn chwarae rhan bwysig yn nechrau *William Jones*. Mae'r golygfeydd hyn yn sail bwysig i'r stori ac ym mwrlwm y caban a gwaith cywrain y dynion, caiff y gynulleidfa ei chyflwyno i fröydd chwarelyddol gogledd Cymru fel llefydd llawn bywyd. Ceir saethiadau o'r dynion wrth eu gwaith yn y chwarel ac yna'n chwerthin a thrafod sgandal leol yn y caban. Mae Dic Trombôn yn perfformio cerdd i'r chwarelwyr am larwm William Jones y bore hwnnw. Maent oll yn mwynhau ac yn ymateb yn ffafriol i'r penillion doniol:

O rhen William trenia Leusa
I dy ddeffro di tro nesa.⁴⁸⁶

Ond er yr hiwmor a'r hwyl yn y caban, nid yw William Jones yn mwynhau. Dywed yng nghyfarwyddiadau'r sgript:

GWEIDDI UCHEL A CHYMERADWYAETH WRTH I DIC EISTEDD. Y DDWY
LINELL OLAF YN BRIFO WILLIAM JONES.⁴⁸⁷

Yn y nofel, nid oes cerdd ddychan yn gwneud hwyl am anffawd William Jones y bore hwnnw. Yn hytrach, mae sawl cymeriad yn dod ato ac yn awgrymu iddo ddibynnu ar ei wraig i'w ddeffro. Mae'r olygfa hon yn effeithiol ar gyfer y sgrin am ei bod yn gallu mynegi'r cyngor hwnnw'n gryno ac mewn ffordd sy'n cyfleu bwrlwm a miri'r caban. Caiff Dic Trombôn ei ddefnyddio fel eithriad yn y gymdeithas chwarelyddol, mae'n ansensitif i wewyr William Jones ac yn hoff o drafod sgandalau'r fro, ond er ei fod yn gymeriad anghynnes, mae'n angel o'i gymharu ag ambell gymeriad y daw William ar eu traws tua'r de. Dyma bwyslais pellach ar rinweddau'r gogledd o gymharu â'r de.

Yn ei hadolygiad yn *Barn*, mae Meg Elis yn gwneud pwynt difyr am y

⁴⁸⁶ Gwenlyn Parry, addasiad o *William Jones, T. Rowland Hughes, yn William Jones, T. Rowland Hughes, Nodiadau a gweithgareddau ar y nofel a'r ffilm deledu* (Llandysul: Gwasg Gomer ar ran Adran Addysg BBC Cymru, 1993), t. 52.

⁴⁸⁷ Ibid.

ffordd y mae'r ffilm yn rhoi llais i bobl nas clywyd o'r blaen. Dywed:

Felly mae'n debyg mai disgwyl am hir wnawn ni am hanes disgynyddion Arfon: yn Essex Man ac Essex Girl Torïaidd, yn alltudion ers cenedlaethau; disgynyddion Eleri yn Gymry hyderus y cyfryngau a Glantâf; a disgynyddion Wili John yn ddifreintiedig a di-Gymraeg ar stad Penrhys. [sic]⁴⁸⁸

Credaf mai'r hyn y mae Meg Elis yn ei ddweud yma yw bod gan gymeriadau *William Jones* fwy i'w gynnig i'r gynulleidfa. Mae sawl carfan o'r gymdeithas Gymraeg yn cael ei phortreadu yn y nofel hon ac mae Meg Elis yn galw am gael clywed mwy amdanynt. Pam gorfod disgwyl hanner canrif arall cyn clywed am eu bywydau hwy heddiw? Credaf fod yr adolygiad hwn yn galw am fwy o weithiau gwreiddiol ar S4C, neu'n awgrymu y dylid addasu'r nofelau yn eu hoes eu hunain, yn hytrach na disgwyl iddynt droi'n ddramâu cyfnod.

Ysgrifennodd Dafydd Glyn Jones am gyfraniad llenyddol Kate Roberts a T. Rowland Hughes:

Ac o holl awduron y cyfnod hwn, tebyg mai Kate Roberts yn ei straeon byrion a T. Rowland Hughes yn ei nofelau a wnaeth fwyaf i gyflwyno chwarelwyr Arfon, eu cymeriad a'u gwerthoedd ac ansawdd eu bywyd i Gymru gyfan.⁴⁸⁹

Erbyn diwedd yr 1990au, roedd y ddau awdur yn parhau i gyflwyno chwarelwyr Arfon i gynulleidfaoedd cyfoes trwy'r addasiadau o'u gweithiau. Efallai bod ail-greu portreadau'r awduron hyn ar gyfer y sgrin yn cyflwyno myth y chwarelwr diwylliedig i gynulleidfa nad oedd yn gyfarwydd ag ef, neu'n ei atgyfnerthu ym meddyliau'r rhai sydd eisoes wedi darllen gweithiau'r awduron. Ond wedi dweud hyn, nid yw *Y Mynydd Grug* yn llwyr gyd-fynd â darlun Kate Roberts o'r gymdeithas chwarelyddol lle'i magwyd. Wrth droi'r gyfrol i'r sgrin, moderneiddiwyd y storïau gwreiddiol i gynnwys themâu a digwyddiadau tywyll a herfeiddiol.

Cafodd *Y Mynydd Grug* (1997) ei haddasu o *Te yn y Grug* gan Kate Roberts,

⁴⁸⁸ Meg Elis, 'Drama'r Eiliadau Gloyw' yn *Barn* (Rhif 363, Ebrill 1993), t. 17.

⁴⁸⁹ Dafydd Glyn Jones, *Atlas Sir Gaernarfon* (Caernarfon: Cyngor Gwlad Gwynedd, 1977), t. 182.

neu efallai bod dweud y cafodd ei seilio ar y gyfrol yn fwy cywir, oherwydd mae nifer o ddigwyddiadau a chymeriadau newydd yn y ffilm. Mae pwyslais yn y ffilm ar agweddau bywgraffiadol *Te yn y Grug* gan ddechrau gyda dyfyniad gan Kate Roberts am yr hyn a'i hysgogodd i ddechrau ysgrifennu gyda'r camera'n agor ar Begw, y prif gymeriad, wrth iddi ysgrifennu stori. Yn sicr mae *Y Mynydd Grug* yn llawer mwy parod na'r gyfrol i archwilio ochr dywyll y gymdeithas. Mae'n ymdrin â themâu a digwyddiadau y mae Begw'n anymwybodol ohonynt, tra mae *Te yn y Grug* felly yn llwyddo i fod yn fwy triw i natur plentyn.

Credaf mai dyma sydd gan Gwenno Ffrancon mewn golwg wrth iddi ysgrifennu adolygiad o *Y Mynydd Grug* mewn erthygl yn *Barn* am ŵyl ffilmiau Cymraeg:

Tameidiog yw'r ffurf ar y cyfan, bron yn episodig, ond gall hyn fod yn ymdrech i nodi mai cyfres o straeon byrion yw'r gyfrol wreiddiol. Caiff y ffilm ei thynnu i sawl cyfeiriad fel petai'r gyfarwyddwraig heb fod yn gwbl siŵr i ba le yr hoffai ei harwain - ai ffantasi plentyn ydyw, lle mae'r mynydd grug yn esgor fan ar freuddwydion, ynteu ffilm sy'n ceisio cyfleu caledi bywyd trigolion ardaloedd mynyddig Cymru ar droad y ganrif? Ni ellir chwaith, er mor hyfryd o ddiniwed yw golwg plentyn ar fywyd, beidio â theimlo fod y cyfan wedi ei fynegi eisoes, megis yn *Un Nos Ola Leuad*, ac mai ail-fraenaru hen dir a wneir.⁴⁹⁰

Yn sicr, mae sawl peth yn *Y Mynydd Grug* sy'n debyg iawn i *Un Nos Ola Leuad* a byddaf yn eu trafod yn y man. Trwy gyfuno dychymyg Begw â hanes trigolion bro chwarelyddol sy'n cael trafferth i gael dau ben llinyn ynghyd cawn safbwynt newydd ar fywyd yn y fro. Mae ymgais i roi darlun cyflawn o'r gymdeithas ond ni ellir cyflawni hynny'n gwbl lwyddiannus drwy lygaid plentyn mor ddiniwed â Begw. Nid yw hi mor agored i ffaeleddau'r gymdeithas â'r bachgen yn *Un Nos Ola Leuad* ac nid yw hi ychwaith yn cael ei heffeithio'n uniongyrchol gan ochr dywyll y gymdeithas. Ai o safbwynt plentyn y mae'r ffilm hon? Ynteu ai oedolyn sydd yn edrych yn ôl a sylwi ar bethau nas gwelwyd pan yr oedd yn blentyn? Yr amwysedd yma oedd yn peri i'r ffilm gael adolygiadau cymysg o bosibl.

Efallai, i raddau, bod yr addasiad hwn yn nes at Caradog Prichard na Kate

⁴⁹⁰ Gwenno Ffrancon, 'Nefoedd i bob cyfryng-gi!' yn *Barn* (Rhif 422, Rhagfyr/ Ionawr 1997/98), t. 53.

Roberts mewn rhai agweddau. Mae parodrwydd y ffilm i bortreadu cymeriadau gwallgof, rhai gyda phroblemau iechyd meddwl, a thrais, yn fwy o adlewyrchiad o gymdeithas *Un Nos Ola Leuad* na chymdeithas *Te yn y Grug*. Yn y gyfrol mae Winni Finni Hadog yn ceisio datgelu rhagrith y capelwyr ond caiff ei thawelu neu ei hanwybyddu. Bron nad yw'r ffilm hon yn gwneud cyfiawnder â hi ac yn darlunio'r hyn yr oedd Kate Roberts yn ei sensro yn ei gwaith ei hun. Mae tad Winni'n alcoholig ac yn ei churo, mae Mrs Huws, gwraig y gweinidog, yn anffyddlon, ac mae'r gweinidog yn wallgof ac yn cyflawni hunanladdiad. Dyma ddigwyddiadau na fuasai cyfrolau Kate Roberts hyd yn oed yn eu crybwyll. Nid dim ond adlais o gymeriadau nofel *Un Nos Ola Leuad* sydd yma ond o'r ffilm *Un Nos Ola Leuad* hefyd.

Mae'r angylion hynny yr oedd Menna Baines yn ysgrifennu amdanynt yn ymddangos yma. Pan fo Dafydd Siôn ar goll ar y mynydd ynghanol yr eira mawr mae'n gweld angel yn dod tuag ato; angel gwyn sy'n hofran o'i flaen fel symbol o farwolaeth. Hefyd yn debyg i *Un Nos Ola Leuad* mae'r ffin rhwng realiti a dychymyg yn denau. Mae hunllefau, breuddwydion a dychymyg yn llithro i naratif naturiolaid y ffilm i bwysleisio safbwynt plentyn a dychymyg Begw. Pan fo Begw a'i brawd yn ymweld â Nanw Sion, mae hi'n disgrifio pry cop fel symbol o angau cyn i un ymddangos ar ei hwyneb; mae sŵn cloc yn tician yn uchel yn y cefndir, ac wrth i'r plant redeg oddi yno mewn ofn mae penglogau anifeiliaid tu allan i'r tŷ. Dyma enghraifft o'r ffordd y mae *Y Mynydd Grug*, yn debyg i *Un Nos Ola Leuad*, yn gordefnyddio symbolau mewn ambell olygfa, ac o ganlyniad yn tynnu'n groes i realaeth y nofelau.

Yn debyg i'r addasiad o *Un Nos Ola Leuad*, mae *Y Mynydd Grug* yn troi'r chwarel yn lle sinistr. Yn *Te yn y Grug*, mae'r tad yn chwarelwr, ac wrth gwrs mae'r bygythiad o farwolaeth yn hollbresennol. Ond mae'r ffilm yn cryfhau'r bygythiad gyda chyfres o ddigwyddiadau tywyll. Mae un o'r chwarelwyr yn colli ei goes mewn damwain ac mae'r stiward yn ddigydyndeimlad ac eisiau rhywun yn ei le erbyn trannoeth. Ceir golygfa lle mae Begw yn gweddio i Dduw ac yn diolch iddo am gadw ei thad yn saff. Mae ôl-fflach yma o chwarelwyr yn cario dyn wedi marw o'r chwarel. Mae'r olygfa hon yn cyfleu mor ddychrynlyd oedd bywyd mewn bro chwarelyddol yn y cyfnod.

Mewn un olygfa mae buwch Dafydd a Nanw Siôn yn syrthio oddi ar

glogwyn yn y chwarel. Mae'r hen gwpl tlawd yma'n colli incwm prin trwy gollir fuwch. Mae'n ddiddorol nodi bod yr olygfa hon wedi cael ei gosod ochr yn ochr â'r olygfa lle mae Begw yn canfod ei chath wedi boddi. Mae'n ffordd symbolaidd o gyfleu effaith marwolaeth y gath ar Begw wrth ei gosod ochr yn ochr â marwolaeth y fuwch sy'n symbol o dlodi'r fro. Mae rhes o bibonwy o amgylch Begw i gyfleu caethiwed tlodi, ac yn dilyn yr olygfa hon mae Begw yn taflu ei dol i gyfleu diwedd diniweidrwydd plentyndod.

Ond er gwaethaf peryglon y chwarel, sy'n cael eu hamlygu sawl gwaith yn y ffilm hon, mae cymdeithas y chwarelwyr yn serennu. Wedi canu'r corn maent yn trafod pregeth y gweinidog ac yn helpu i berswadio tad Winni i brynu dillad newydd iddi. Er eu bod i gyd yn dlawd, mae sawl golygfa lle mae'r chwarelwyr yn rhoi ychydig o arian neu anrhegion i Begw. Mae cyfeillgarwch a charedigrwydd y chwarelwyr yn gyferbyniad llwyr i gyfoeth a chreulondeb gwraig y gweinidog a phobl gyfoethog y gymdeithas, ac yn cyd-fynd â phortread Kate Roberts. Dyma ffilm sy'n aildehongli'r gyfrol ac yn rhoi gwedd newydd i gymdeithas chwarelyddol sy'n gyfuniad o ffaeleddau a rhinweddau.

Mae *Eldra* (2003) yn seiliedig ar hunangofiant Eldra Jarman, sipsi a fagwyd ym Methesda ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf. Mae'r ffilm yn rhoi llais i gymuned leiafrifol o fewn cymdeithas chwarelyddol, llais nas clywyd ar y sgrin o'r blaen. Trwy gyferbynnu bywyd y sipsiwn â'r chwarelwyr mae *Eldra* yn llwyddo i roi darlun o'r ddwy gymuned. Mae Eldra ar gyrion y gymdeithas, caiff hyn ei amlygu drwy ei pherthynas â'r plant eraill yn y pentref. Defnyddir perthynas Eldra â bachgen yn yr ysgol, Robot, i bwysleisio'r gwahaniaethau rhwng byd y Romani a byd y chwarelwr. Mae tad Eldra'n gipar i'r Arglwydd Penrhyn ac felly'n pontio rhwng byd y chwarelwyr a'r Arglwydd Penrhyn; eto nid ydynt yn perthyn i'r naill fyd na'r llall ond yn profi'r ddau. Egyr y ffilm gyda golygfa o'r chwarel a'r dynion wrth eu gwaith, ac o Gastell Penrhyn, a'r Arglwydd Penrhyn yn hela. Ar unwaith, sefydlir y cyferbyniad trawiadol hwn rhwng dwy garfan yn y gymdeithas.

Mae manylion bychan yn rhoi dilysrwydd i'r portread, er enghraifft, arferion dydd Sadwrn setlo'r chwarelwyr. Mae plant yn rhedeg o gwmpas y neuadd bentre'n wyllt wedi eu dylanwadu gan y ffilmiau cowbois ac indiaid a ddangosir yno. Wrth iddynt redeg i'r stryd i chwarae, mae chwarelwyr yn y

cefnidir yn yfed. Dyma ddarlun cynnil sydd yn chwalu ychydig ar fyth y chwarelwr. Mae traddodiadau unigryw eraill yn cael eu dangos, fel arferion dydd Llun golchi a'r ffordd roedd pobl yn dweud yr amser yn ôl caniad y chwarel.

Collodd tad Robot (Bryn Fôn) ei fraich yn y chwarel ac felly mae'n cael ei gyflogi gan y chwarelwyr eraill i gadw'r tân yn y caban. Maent yn deulu mawr ac yn gorfod dibynnu ar arian elusennol y capel ar adegau, rhywbeth sy'n gwylltio Trefor, brawd mawr Robot. O ganlyniad i dlodi'r teulu, mae Trefor yn gorfod gadael yr ysgol a mynd i weithio yn y chwarel. Mae'n genfigennus bod Robot yn gwneud yn dda yn yr ysgol ac mae tensiynau'n codi rhwng y ddau frawd oherwydd perthynas Robot gydag Eldra. Un diwrnod mae Robot yn dewis treulio amser gydag Eldra yn hytrach na gyda'i frawd ac mae Trefor yn gweiddi arno:

'Dio'm yn ddigon bod dad 'di colli'i fraich yn chwarael ond ma'i fab o'n gynffonwr.'

'Paid ti byth â 'ngalw i'n gynffonwr eto. BYTH!'⁴⁹¹

Mae geirfa sarhaus y chwarel yn llithro i ieithwedd y plant ac yn cyfleu effaith anghydfod y diwydiant ar y gymdeithas gyfan. Wedi i Trefor adael, mae Robot yn egluro ei ymddygiad trwy ddweud ei fod yn dechrau yn y chwarel y diwrnod wedyn. Mae'n ddiddorol nodi bod y portread hwn o Trefor yn cyferbynnu'n gryf gyda'r llenyddiaeth sy'n rhagflaenu'r ffilm. Dyma enghraifft brin o fachgen nad yw'n gyffrous ynglŷn â chael dechrau yn y chwarel.

Yn hwyrach yn y ffilm, ymddengys bod Trefor yn aeddfedu ar ôl dechrau gweithio yn y chwarel. Mae'n dilyn esiampl un o'r chwarelwyr eraill trwy fod yn gyfeillgar gydag Eldra. Wrth iddynt siarad mae Trefor ac Eldra yn gweld potensial yn Robot 'y sgolar,'⁴⁹² chwedl ei frawd. Dywed Trefor fod Robot yn glyfar: 'Ond i'r chwarael eith o ar ei ben.'⁴⁹³ Mae Trefor yn ymwybodol o'r holl allu academaidd a wastraffwyd yn hollti a naddu. Mae'n genfigennus o unrhyw un nad ydynt yn gorfod mynd i weithio yn y chwarel ac yn rhagweld mai dyma fydd dyfodol ei frawd bach, waeth beth fo'i allu. Mae'r chwarelwyr felly'n cael eu portreadu fel carcharorion, yn gaeth i hen drefn. Dyma'r thema gyfarwydd honno

⁴⁹¹ *Eldra* (2003), Teliesyn, S4C.

⁴⁹² *Ibid.*

⁴⁹³ *Ibid.*

o anghyfiawnder yn codi, ond y tro hwn, oherwydd bod Trefor yn gymeriad annymunol, mae'r thema'n cael ei chyflwyno fel agwedd negyddol dyn sydd wedi chwerwi yn hytrach na realiti creulon.

Mae cyfeillgarwch Eldra a Robat yn destun pryder i sawl cymeriad. Mae Trefor yn ei gwneud hi'n amlwg ei fod yn anhapus gyda'u perthynas o'r dechrau. Mae mam Eldra'n edrych yn ofidus bob hyn a hyn ac mae'r bechgyn lleol, wedi eu dylanwadu gan ffilmiau cowbois ac indiaid, yn ymosod ar Robat gan ei alw'n 'indian lover'⁴⁹⁴ a'i glymu wrth goeden. Mae taid Eldra (John Ogwen) yn ddylanwad mawr arni ac yn dweud sawl stori Romani sy'n cario'r neges iddi aros gyda'i phobl ei hun. Wrth adrodd hanes merch Romani a briododd 'gorja' (y gair Romani am berson nad ydynt yn sipsiwn), mae Taid yn ei gwneud yn amlwg ei fod yntau'n ddrwgdybus o berthynas Eldra a Robat. Yn y stori mae'r ferch yn mynd yn groes i natur ac mae hen wraig yn ei rhybuddio: 'Romani wyt ti, fyddi di fyth yn Gorja.'⁴⁹⁵ Yn cyd-redeg â'r brif stori mae hanes llwynog a gaiff ei gadw'n ddof gan Eldra; mae'n symbol o wir natur Eldra ac o fywyd natur. Un diwrnod mae ei thad yn lladd y llwynog am iddo ladd yr ieir i gyd. Mae ei thaid yn egluro iddi: 'Llwynog 'di llwynog 'sdi, ac Eldra 'di Eldra... Alli di ddim mynd yn groes i natur.'⁴⁹⁶ Nid ymysg pobl y mae lle'r llwynog, ac nid ymysg gorjas y mae lle Eldra. Mae hyn yn arwain Eldra a Robat i gytuno i fod yn ffrindiau ac na allant fyth briodi, gan na allai Eldra fyth fod yn gorja.

Er gwaetha'r gwrthdaro sy'n codi o gyfeillgarwch Eldra a Robat, mae golygfeydd o undod rhwng y ddwy gymuned. Un noson mae teulu Eldra yn chwarae cerddoriaeth a pherfformio i'r chwarelwyr sy'n cyd-ganu a chwerthin yn yr hwyl. Mae tad Robat a Trefor yn canu a chwerthin gyda chynhesrwydd na welwyd ynddo ers blynyddoedd. Mae'r olygfa hon yn cyferbynnu gyda the parti'r Arglwydd Penrhyn yn y Castell lle mae'n rhaid i Eldra a'i theulu wisgo'n barchus ac ymddwyn yn dra gwahanol. Efallai bod y golygfeydd hyn yno i bwysleisio bod y sipsiwn yn nes at y chwarelwyr na'r Arglwydd Penrhyn er bod tad Eldra'n gweithio'n agos gydag ef. Nid yw'r teulu Romani'n rhan lwyr o unrhyw gymdeithas, fel yr ysgrifenna Robat yn ei ddyddiadur: mae Eldra'n 'very

⁴⁹⁴ Ibid.

⁴⁹⁵ Ibid.

⁴⁹⁶ Ibid.

gwahanol'⁴⁹⁷ ac ni fuasai hi fyth yn gallu bod yn gorja. Dyma ffilm felly sy'n cynnig darlun newydd o gymdeithas chwarelyddol. Mae *Eldra*'n rhoi llais i ran o'r gymuned nad ydym wedi clywed ei llais o'r blaen ac yn llwyddo i gyfleu bro chwarelyddol amlddiwylliannol.

Ffilm arall ar gyfer plant sydd yn portreadu bro chwarelyddol yw *Porc Pei* (1998) gan Wynford Ellis Owen. Dyma oedd y darlun cyntaf o Kenneth a'i ardal, ac aeth ymlaen i greu chwe chyfres o *Porc Peis Bach* (1999-2005). Mae'r ffilm a'r gyfres hon yn portreadu cymeriadau sy'n seiliedig ar bobl a oedd yn byw yn Llanllyfni yn yr 1960au. Mae elfennau bywgraffiadol cryf i'r gweithiau hyn oherwydd roedd tad yr awdur yn weinidog yn Llanllyfni. Enillodd *Porc Pei* y brif wobwr yng Ngŵyl Ffilmiau Ryngwladol Würzburg ac arweiniodd y llwyddiant hwn at y cyfresi *Porc Peis Bach*.

Felly, beth am ffilmiau sydd wedi cael eu ffilmio mewn chwarel neu fro chwarelyddol ond nad ydynt yn ymdrin â hanes neu gymdeithas yr ardal? Cafodd *Blodeuwedd* (1989), fersiwn Siôn Humphreys o ddrama Saunders Lewis, ei lleoli mewn hen chwarel. Mae'n ffilm atmosfferig ac yn cynnwys nifer o saethiadau o'r lleoliad hynod ac yn un o'r unig ffilmiau Cymraeg i gael eu lleoli mewn chwarel y tu allan i gyd-destun chwarelyddol. Cafodd *The Keep* (1983) ei ffilmio yn Chwarel Glyn Rhonwy ger Llanberis. Crëwyd set i gyfleu pentref Romanaidd gan ddefnyddio gwaith llechi o Geudyllau Llechwedd. Ers hynny mae chwareli Llanberis yn enwedig wedi dod yn lleoliadau poblogaidd i ffilmio amrywiaeth helaeth o ffilmiau o Hollywood i Bollywood.

Ffilmwyd rhannau o *Clash Of The Titans* (2010) yn chwarel Dinorwig ond yng nghredydau'r ffilm mae'n nodi'r lleoliad fel 'Dinorwic Quarry, Wales, England.'⁴⁹⁸ Ffilmwyd rhannau o ffilmiau *Lara Croft: Tomb Raider* (2001) yn Nyffryn Nantlle, gan gynnwys golygfa yn chwarel Alexandria. Defnyddiodd *Willow* (1988) blant lleol (gan gynnwys y Dafydd Du ifanc) i actio yn y ffilm wrth iddynt ffilmio yn Llanberis. Er ei fod yn gartŵn, cafodd ffilm Disney, *The Black Cauldron* (1985), ei lleoli yng Ngheudyllau Llechwedd a defnyddiwyd y chwarel danddaearol hon fel sail i leoliadau'r animeiddiad a oedd wedi ei seilio ar chwedloniaeth Gymraeg. Mae llu o ffilmiau a rhaglenni eraill wedi eu ffilmio yng

⁴⁹⁷ Ibid.

⁴⁹⁸ *Clash Of The Titans* (2010), Warner Bros.

ngogledd Cymru ac mae'n ddiwydiant sy'n cyfrannu at yr economi leol.

Mae ffilmiau am y bröydd chwarelyddol, felly, yn rhoi portreadau amrywiol. Ceir ing diweithdra'r 1980au yn *Twll o Le* ac *Aderyn Papur* sydd yn adlewyrchiad o dlodi'r cyfnod ac o wacter yn ardaloedd y llechi ar ôl cau'r chwareli. Mae addasiadau o nofelau fel *William Jones* a *Traed Mewn Cyffion* yn atgyfnerthu myth y chwarelwr diwylliedig ar gyfer cynulleidfa newydd, tra mae addasiadau mwy herfeiddiol fel *Un Nos Ola Leuad* ac *Y Mynydd Grug* yn cynnig dehongliadau newydd o fywyd mewn bro chwarelyddol o safbwynt plentyn. Mae ffilm fwy diweddar wedyn, fel *Eldra*, yn ailddehongli bro chwarelyddol trwy gyflwyno carfan na chlywyd ei llais o'r blaen.

Gellir gweld, felly, fod mwy o ryddid i ddehongli hanes a bywydau yn y broydd chwarelyddol erbyn yr 1990au a thu hwnt. Nid yw'r addasiadau yn gwbl gaeth i'r nofelau gwreiddiol, yn enwedig yn achos *Y Mynydd Grug*, ac mae gallu ffilmiau i ymdrin â phroblemau'r oes a ffaeleddau'r gymdeithas fel yn *Twll o Le* yn adlewyrchiad o ryddid y sgrin o'i gymharu â llenyddiaeth y bröydd. Mae'r portread a geir mewn ffilmiau, felly, yn fwy parod i archwilio ffaeleddau ac yn fwy rhydd o gonfensiynau llenyddol wrth bortreadu bro chwarelyddol. Efallai bod hyn oherwydd bod ffilm yn gyfrwng newydd, cyfoes sy'n llai caeth i gonfensiynau ac ystrydebau'r ganrif ddiwethaf. Mae'r darluniadau hyn wedi datblygu llawer ers *Y Chwarelwr* (1935) ac ymddengys fod y sgrin fawr yn fwy parod i ailddehongli a herio'r portread traddodiadol o'r ardaloedd chwarelyddol.

ii) Dramâu Teledu

Bu'r BBC yn cynhyrchu rhaglenni Cymraeg ddegawdau cyn sefydlu sianel annibynnol i Gymru yn 1982. Ymhlith y rhaglenni cyntaf i gael eu darlledu yr oedd addasiad o *Chwalfa* gan T. Rowland Hughes yn yr 1960au. Mae'r ffaith iddynt ddewis y nofel hon fel un o'r addasiadau cyntaf o nofel Gymraeg yn adlewyrchu poblogrwydd y nofel ond hefyd yn cyfleu pwysigrwydd diwylliannol y bröydd chwarelyddol. Roedd yn gyfres boblogaidd ac yn driw i werthoedd y nofel a oedd yn archwilio effaith streic fawr y Penrhyn ar gymdeithas Bethesda'r cyfnod.

Roedd *Fo a Fe* yn gyfres gomedi boblogaidd dros ben a ddarledwyd ar BBC Cymru o 1970-1977. Crëwyd y gyfres gan Gwenlyn Parry a Rhydderch Jones ac roedd am berthynas dau dad yng nghyfraith. Roedd y gomedi sefyllfa yn chwarae'n gyson â'r cyferbyniadau rhwng y glöwr traddodiadol a'r chwarelwr confensiynol. Roedd Twm Twm (Ryan Davies) yn yfed, gamblo, yn magu colomennod ac yn prynu nwyddau amheus yn y dafarn. Yn cyferbynnu'n llwyr â hyn, roedd Ephraim Hughes (Guto Roberts) yn grefyddol, yn barchus, yn canu emynau ac yn eisteddfodwr brwd. Mae'r ddau unigolyn yma'n cael eu defnyddio i bortreadu prif ddiwydiannau Cymru a'r ddelwedd gonfensiynol o'u gweithwyr. Mae'r hiwmor yn yr ystrydebau ac mae'n ddiddorol cwestiynu ai parodi o'r stereoteipiau sydd yma ynteu portread arall sy'n atgyfnerthu'r ystrydeb o chwarelwr a glöwr. Fodd bynnag, dyma gyfres gomedi hynod boblogaidd sy'n difriö ac atgyfnerthu myth y chwarelwr diwylliedig ar yr un pryd.

Gyda dyfodiad S4C, penderfynwyd creu cyfres opera sebon ogleddol yn seiliedig ar *Mis o Fehefin* gan Eigra Lewis Roberts. Yr awdures oedd yn gyfrifol am sgriptio'r gyfres, *Minafon*, a chafwyd pedair cyfres. Yn *Clonc*, atodiad i *Barn*, mynegwyd yr hyn sy'n debyg rhwng *Pobol y Cwm* a *Minafon*, sef bod y ddwy gyfres yn tueddu i gynnwys storiâu cyffredinol a nodweddiadol o operâu sebon yn hytrach na'r hyn sy'n unigryw i'w hardaloedd cyfatebol. Yn amlwg, mae gwahaniaethau mawr rhwng bywyd yng nghanol dinasoedd Lloegr ac yng nghefn gwlad Cymru ond, yn ôl yr erthygl, nid yw'r sgrin fach yn adlewyrchu hynny:

Dyma fwyd llwy y werin, boed Gymry boed Saeson neu Ysgotiaid. Y maent mor rhamantaidd nes eu bod yn gwadu dilysrwydd personau dynol a

pharant i'w gwylwyr-wrandawyr eu huniaethu eu hunain â rhithau a seiliwyd ar ragdybiaethau eu sgriptwyr arwynebol.⁴⁹⁹

Nid yw *Minafon* na'r nofel y seiliwyd y gyfres arni, *Mis o Fehefin*, yn torri ffiniau nac yn cyflwyno cymeriadau a digwyddiadau dwfn a chymhleth. Mae'r gyfres yn dilyn bywydau trigolion bro chwarelyddol ôl-ddiwydiannol, ac er nad yw'n llwyr adlewyrchu'r hyn sy'n unigryw i ardal fel Blaenau Ffestiniog, mae elfennau o'r stori yn cynnig safbwynt newydd, unigryw am waith mewn chwarel yn y cyfnod ôl-ddiwydiannol.

Nid oes gwahaniaethau mawr rhwng y nofel, *Mis o Fehefin*, a'i dilyniant, *Ha' Bach*, a'r gyfres deledu. Rwyf eisoes wedi dehongli'r portread a geir yn y nofelau a'r cymeriadau a'r digwyddiadau. Mae'r nofelau'n tueddu i gynnal pob golygfa ar y stryd neu yn y tai tra mae'r gyfres deledu yn llawer mwy cynhwysfawr o'r gymdeithas gyda golygfeydd mewn ysgol, ysbyty, chwarel, neuadd bingo, swyddfa'r heddlu, siop a thafarn. Gyda'r gyfres wedi ei lleoli yn yr 1980au mae'n realistig mai dim ond un cymeriad sy'n parhau â chysylltiad â'r chwarel a bod hynny bellach trwy'r diwydiant twristiaeth yn hytrach na llechi. Mae Dei Ellis yn ystyried bod ei swydd yn arddangos crefft y chwarelwyr yn sarhad a thrwy hynny'n cynnig safbwynt newydd ac unigryw wrth bortreadu bro chwarelyddol yn y cyfnod ôl-ddiwydiannol.

Dechreuodd cyfresi hynod o lwyddiannus *C'mon Midffild* ar BBC Radio Cymru cyn cael eu haddasu i fod yn gyfres deledu yn 1988. Dyma'r rhaglen fwyaf llwyddiannus yn hanes S4C ac fe'i cynhaliwyd am chwe chyfres hyd at 1994. Crëwyd *Midffild- Y Mŵfi*, a deng mlynedd yn ddiweddarach cafwyd y ffilm *Midffild a Rasbrijam* (2004). Er nad oes unrhyw gyfeiriad at y chwarel yn unrhyw bennod, mae'r gyfres yn amlwg wedi ei lleoli a'i ffilmio yn Nyffryn Nantlle a Dyffryn Peris. Dywedwyd i *C'mon Midffild* gael ei seilio ar glwb pêl-droed ym Mhontrhydfendigaid, ond mae traddodiad pêl-droed cryf yr ardaloedd chwarelyddol a'r hiwmor ffraeth, yn ogystal â'r tirlun, yn awgrymu'n gryf mai Dyffryn Nantlle neu Ddyffryn Peris yw lleoliad Bryncoch.

Ysgrifennwyd *Rhew Poeth* yn 1987 gan Bryn Fôn ac fe'i cyfarwyddwyd gan Alun Ffred Jones. Yn y bennod gyntaf mae'r prif gymeriad ifanc yn colli ei

⁴⁹⁹ Dienw, 'Minafon' yn *CLONC*, atodiad i *Barn* (Mehefin 1983, rhif 245), t. 195.

swydd ac yn penderfynu dechrau cwmni gwerthu hufen iâ i gystadlu yn erbyn ei gyn-gyflogwr. Wedi ei lleoli mewn bro chwarelyddol ôl-ddiwydiannol, mae'r gyfres yn dilyn pobl ifanc mewn ardal lle mae diweithdra'n broblem. Er bod y cymeriadau'n wynebu problemau personol, sy'n deillio o ddiffyg arian yn bennaf, mae'r gyfres yn ddoniol a hwyliog ar y cyfan. Gellid lleoli'r gyfres hon yn unrhyw le mewn gwirionedd oherwydd nid yw hi'n ymdrin yn uniongyrchol â'r ardal chwarelyddol a'i thrigolion.

Roedd cyfres *Almanac*, Ffilmiau'r Nant, yn yr 1980au yn dramateiddio hanesion anghyffredin a hanesyddol yng Nghymru. Ysgrifennodd David Berry am y gyfres:

Nant concentrated on true, often bizarre, stories, notably *Y Chwarelwr* about a man who suspected his wife of infidelity, stole dynamite to blow up his imagined adversary, then found, too late, that the supposed seducer was his own daughter. As he ran away after the discovery, a slate fell, decapitating him.⁵⁰⁰

Seiliwyd y bennod hon ar hanes teulu yn Hwlfordd yn 1912. Ni chrybwyllir hanes chwarelwyr y tu hwnt i fröydd chwarelyddol y gogledd yn aml. Yma ceir portread o chwarel fechan yn Hwlfordd a'r gymuned a dyfodd o'i herwydd. Mae'n agor gyda golygfeydd o'r chwarel a'r dynion wrth eu gwaith. Maent i gyd yn ymlwybro tua'r caban ar ôl i'r corn ganu ac i'r tanio ddechrau. Mae un chwarelwr yn cloffi ar ôl y lleill a'i hanes ef a gawn yn y bennod hon.

Mae'r chwarelwr yn amau bod ei wraig yn anffyddlon ac wrth iddynt ffraeo mae hi'n gweiddi: 'Des i i'r twll lle hyn i dy briodi di. I weld plant bach yn marw a dynion mawr yn hwdu llwch.'⁵⁰¹ Mae'r llinell hon yn bwerus iawn ac yn cyfleu agwedd ar fywyd mewn bro chwarelyddol nas crybwyllir yn aml mewn ffordd mor drawiadol. Mae'r wraig yn disgrifio'r 'Twll lle hyn'⁵⁰² fel a ganlyn: 'Dim byd ond llechi a marwolaeth.'⁵⁰³ Dyma ffordd effeithiol o gyfleu rhwystredigaeth y wraig ac anobaith y fro. Mae eu merch yn wael a'i chyflwr yn gwaethygu wrth i'r ddrama ddatblygu. Mae natur glawstroffobig yr ardal yn cael

⁵⁰⁰ David Berry, *Wales & Cinema*, t. 331.

⁵⁰¹ *Y Chwarelwr*, *Almanac*, (1988), Ffilmiau'r Nant, S4C.

⁵⁰² Ibid.

⁵⁰³ Ibid.

ei phwysleisio wrth i'r wraig gwyno am yr hen fenywod sy'n ysu am rywbeth i siarad amdano. Yn y capel maent yn gweddïo ar Dduw i amddiffyn y chwarelwr ac yn yr ysgol maent yn dweud yr amser yn ôl caniad y chwarel. Dyma fro chwarelyddol draddodiadol y tu hwnt i ogledd Cymru.

Nid yw disgrifiad David Berry o'r plot yn gwbl gywir oherwydd mae'r wraig yn anffyddlon a chaiff y chwarelwr ei ladd yn y ffrwydrad gyda'i wraig a'i ferch, yn hytrach na chael ei daro gan lechen. Wrth i'r cymdogion dyrru at y tŷ ar ôl y ffrwydrad, mae rhywun yn tynnu llun. Caiff y llun hwnnw ei rewi a'i ddal gan Hywel Teifi Edwards yn niwedd y bennod wrth iddo siarad mewn tŷ newyddiadurol am y trychineb. Roedd *Almanac* yn cael ei hystyried yn rhaglen ddogfen ac roedd cael Hywel Teifi yn trafod y digwyddiadau ar ddiwedd pob pennod yn dod â dilysrwydd hanesyddol i'r straeon. Mae'n ddiddorol cael portread o ardal chwarelyddol mor draddodiadol yn Hwlfordd ac mae llinellau pwerus y wraig yn mynegi gwirioneddau dychrynlyd am fywydau oedd yn dibynnu ar y chwarel.

Cafodd nofel enwocaf Kate Roberts, *Traed Mewn Cyffion*, ei haddasu i fod yn gyfres deledu gan John Ogwen a Maureen Rhys yn 1991. Mae'r deyrnged hon i Kate Roberts yn portreadu bywyd mewn bro chwarelyddol mewn ffordd sy'n driw iawn i'r llyfr. Yn wir, mae'n cadw'n hynod o agos at y ddeialog wreiddiol. Dywed Eurgain Haf am yr addasiad:

Gydag epig mor hir, ac iddi llyn stori denau, yr allwedd i lwyddiant yr addasiad oedd ei ffresni gweledol, y lluniau panoramig o dirlun Eryri, a'r defnydd a wnaed o fformat ffilm y *Super 16* i gyfnerthu ansawdd y llun a chreu rhyngweithio effeithiol â'r goleuo. Er bod yr addasiad yn cadw'n driw i gronoleg a phlot y nofel (a hynny'n ddefodol, ar brydiau, o safbwynt y deialog a'r manylder disgrifiadol), gyda nofel fel *Traed Mewn Cyffion* ac iddi arddull naturiolaid a threfn amserol bendant, ni cheir fawr o drwydded artistig ar gyfer arbrofi.⁵⁰⁴

Yn wir, mae *Traed Mewn Cyffion* yn cynnig ei hun yn naturiol ar gyfer y sgrin. Fel y dywedodd Eurgain Haf, nid yw'r addasiad hwn yn troedio'n bell o'r gwreiddiol,

⁵⁰⁴ Eurgain Haf, 'Addasu Llunyddol' yn *Chwileniwm: Technoleg a Llenyddiaeth* yn trafod addasiad John Ogwen o *Traed Mewn Cyffion* 1991, t. 131.

ac felly mae'n anodd dehongli'r hyn sy'n wahanol i'r nofel. Ond wedi dweud hyn, mae ambell beth a geir ar y sgrin yn absennol o'r nofel.

Mae'r defnydd o gerddoriaeth yn nodweddiadol oherwydd mae'n adlewyrchu cerddoriaeth draddodiadol, werinol y cyfnod. Pan fo'r stiward yn y chwarel yn ymddangos ceir cerddoriaeth organ drom sy'n helpu i liwio'r cymeriad mewn ffordd negyddol. Mae Ifan Gruffydd yn cyfeirio ato fel 'Cynffon o ddyn,'⁵⁰⁵ ac mae'r gerddoriaeth yn annog y gynulleidfa i gytuno ag ef. Ar adegau hefyd caiff golygfeydd eu rhewi fel petai rhywun newydd dynnu llun a'r llun hwnnw'n troi'n sepia. Mae'n debyg bod hyn yn ymgais i ychwanegu elfen hanesyddol i'r ddrama. Mae'n dechreg a ddefnyddir hefyd i gyfleu treigl amser, e.e. gyda'r is-bennawd '1893' ymddengys cyfres o luniau a ffilm sepia araf o'r plant yn chwarae. Mae'r ffilm ohonynt yn rhedeg yn araf yn rhewi gyda'r plant wedi tyfu.

Mewn cyfweiliad yn *Golwg* soniodd John Ogwen am bwysigrwydd y cysylltiad rhwng y bröydd chwarelyddol:

Dwi'n dod o'r un stoc [â Kate Roberts] ac mae hynny'n bwynt pwysig. Dwi'n credu ei bod hi'n bwysig bod pawb yn troi'n ôl at eu gorffennol bob hyn a hyn - i ddweud y gwir fedra' i ddim pwysleisio gormod pa mor bwysig yw cyflwyno ein hanes a'n diwylliant ar S4C.⁵⁰⁶

Ni ellir gwadu pwysigrwydd edrych yn ôl ac archwilio hanes Cymru, yn enwedig ar S4C. Ond mae hefyd yr un mor bwysig portreadu'r presennol. Fel yr ysgrifennodd Meg Elis yn ei hadolygiad o *William Jones*, a oes rhaid disgwyl hanner canrif arall cyn clywed hanes disgynyddion cymeriadau'r nofelau hyn? Erbyn 1999 ymddengys fod agweddau wedi newid oherwydd mewn cyfweiliad gydag Angharad Jones, comisiynydd drama S4C ar y pryd, dywedodd:

Wrth i ni wynebu'r Gymru newydd mae'n hen bryd i ni ffarwelio gyda'r hen Gymru, Cymru *Traed Mewn Cyffion*, a dathlu'r ffaith ein bod yn genedl sy'n gwneud mwy na jyst byw o ddydd i ddydd a bod ein dramâu yn adlewyrchu'r newid hwn.⁵⁰⁷

⁵⁰⁵ *Traed Mewn Cyffion* (1991), S4C.

⁵⁰⁶ John Ogwen, *Golwg* (Cyfrol 3, Rhif 45, 25 Gorffennaf 1991), t. 13.

⁵⁰⁷ Joanna Davies Passmore yn holi Angharad Jones, 'Drama yn y Drych' yn *Barn* (Ionawr 1999, Rhifau 431/432), t. 36.

Yn sicr roedd yr 1990au yn oes aur mewn addasiadau o nofelau clasurol Cymraeg; *Traed Mewn Cyffion* (1991), *Un Nos Ola Leuad* (1991), *William Jones* (1993) ac *Y Mynydd Grug* (1998). Ond a fu newid ers datganiad Angharad Jones? Erbyn y mileniwm newydd a oedd S4C yn fwy parod i gomisiynu rhaglenni a ffilmiau gwreiddiol a oedd yn adlewyrchu bywydau'r Cymry heddiw? Yn sicr bu ymgais i roi portreadau cyfoes ond, wrth astudio'r bröydd chwarelyddol, mae prinder mawr o bortreadau cyfoes, gwreiddiol ar y sgrin erbyn dechrau'r ugeinfed ganrif ar hugain.

Yn dilyn llwyddiant ei nofel gyntaf, cafodd Bethan Gwanas ei chomisiynu i drosi'r nofel yn gyfres deledu ar gyfer S4C. Efallai nad yw cefndir *Amdani!* yn gwbl unigryw i fro chwarelyddol, ond fe ffilmwyd y gyfres ym Methesda. Fe'i cynhaliwyd am chwe chyfres ac fe'i troswyd hefyd i'r llwyfan. Rwyf eisoes wedi trafod *Porc Peis Bach* sy'n bortread o Lanllyfni yn yr 1960au gyda chwe chyfres, ffilm a nofel yn dilyn helyntion mab y gweinidog a'r gymdeithas glòs chwarelyddol.

Nofel arall a gafodd ei haddasu ar gyfer y sgrin fach yn yr 1990au oedd *Cyw Haul* gan Twm Miall. Yr awdur oedd yn gyfrifol am y sgript ac felly, fel Eigr Lewis Roberts gyda'r gyfres *Minafon*, roedd ganddo ryddid i addasu'r stori a'r cymeriadau heb golli gafael ar y prif llyn storiol. Yn y gyfres deledu, mae rhai digwyddiadau a chymeriadau'n driw i'r nofel tra mae rhai wedi cael eu haddasu. Mae rhai elfennau o'r nofel yn cael eu hehangu gyda rhai cymeriadau'n ennill rôl fwy blaenllaw ar y sgrin nag yn y nofel. Ceir mwy o stori garu rhwng Bleddyn ac Enfys yma, er enghraifft, ac o broblemau priodasol cymeriadau ar gyrion y stori.

Mae'r gyfres deledu yn parhau gyda naws wreiddiol y nofel trwy gynnwys lluniau gan Iwan Bala rhwng hysbysebion ac ar ddechrau a diwedd pob pennod fel ar gloriau a broliant y llyfrau. Ychwanega'r gerddoriaeth werinol at awyrgylch hwyliog, chwareus y ddrama. Yn y nofel, mae naratif Bleddyn yn llawn hiwmor ac yn cyfleu ei feddyliau'n hwylus. Wrth drosi'r nofel i'r sgrin cadwyd y llais hwnnw wrth i Bleddyn droi i siarad â'r camera ar adegau. Dyma ffordd effeithiol o gadw llais unigryw'r cymeriad heb ddefnyddio troslais. Nid yw'n cael ei or-ddefnyddio nac yn amharu ar lif y stori.

Ceir mwy o bwyslais ar y sgrin, o'i gymharu â'r nofel, ar y tebygrwydd rhwng *O Law i Law* a chymeriad Mal Jones sy'n gwerthu eiddo ei fam wedi iddi farw. Mae Bleddyn yn cenfigennu wrtho i raddau am ei fod bellach wedi torri pob cysylltiad â Llan ac yn rhydd i fyw yng Nghaerdydd. Mae nofel T. Rowland Hughes yn datblygu i fod yn symbol o gaethiwed y fro chwarelyddol. Mae disgwyliadau ei fam yn gorfodi iddo ddarllen y llyfr a chymryd rhan yng nghystadleuaeth y capel. Fel yn y nofel, mae Bleddyn yn cwyno'n gyson am ddiflastod bywyd yn ei ardal ac yn ysu am gael mynd i ffwrdd a gweld y byd. Ond yn niwedd y gyfres, yn wahanol i'r nofel, mae Bleddyn yn gadael am Gaerdydd gyda Mal a'i ffrindiau, yn hytrach na mynd i'r gystadleuaeth yn y capel. Mae'n taflu'r llyfr trwy ffenestr y car; dyma symbol o ryddid Bleddyn wrth iddo ymwrthod â'i fro chwarelyddol.

Dychwelodd Twm Miall fel sgriptiwr ddeng mlynedd ar ôl cyfres gyntaf *Cyw Haul* gyda *Tri Tan y Manod* (2006). Ni chafodd y gyfres hon gystal derbyniad o bell ffordd gyda'r pennawd, 'Y rhaglen waethaf ar S4C hyd yn hyn?'⁵⁰⁸ ar Maes-e. I fod yn deg, mae'r pennawd hwn yn ymddangos yn gymharol aml wrth drafod rhaglenni S4C! Ond ymddengys mai'r prif gŵyn oedd bod y rhaglen yn llawer rhy debyg i raglenni Saesneg fel *The Royle Family* ac *Early Doors*. Ni ellir gwadu fod cyfatebiaethau amlwg gyda'r rhaglenni hynny. Mae'r gân ar ddechrau pob pennod gan Gai Toms yn pwysleisio'r cysylltiad amlwg â Blaenau Ffestiniog, ond mae'r gân hefyd yn adleisio cerddoriaeth agoriadol *The Royle Family*. Mae'r ddeialog, naws a chymeriadau *Tri Tan y Manod* yn dwyn i gof y gyfres lwyddiannus honno.

Mae'r ffaith fod pob golygfa trwy'r gyfres yn digwydd yn y gegin yn weledol ddiflas ac yn denu cymhariaeth arall â *The Royle Family*. Golyga hyn hefyd fod y rhaglen yn debyg i ddrama lwyfan ar adegau ac mai dim ond llond llaw o gymeriadau eraill sy'n ymddangos yn y gyfres a hynny yng nghegin Cledwyn. Mae'r teulu'n defnyddio llysenwau yn ôl traddodiad y fro ac yn defnyddio geirfa unigryw i Flaenau, 'Pasa mynd', 'doswch', 'sbiad.'⁵⁰⁹ Mae i'r ddrama ddeialog naturiolaidd gyda hiwmor cynnil ond gall fod yn ddiflas clywed mân sgysiau bob dydd. Ceir sawl cyfeiriad at economi'r Blaenau: 'Da ni'n byw

⁵⁰⁸ Trafodaeth ar Wefan Maes-e- <http://maes-e.com/viewtopic.php?t=16547> Ionawr 2006.

⁵⁰⁹ *Tri Tan y Manod* (2006), S4C.

mewn *economically deprived area*⁵¹⁰ ac mae Cledwyn hefyd yn cwyno: 'Does 'na'm jobs rownd ffordd hyn nagoes.'⁵¹¹

Mewn un bennod, mae criw o ffrindiau Cledwyn yn dod nôl i'r tŷ ar ôl angladd Als bach. Roedd Als Bach yn chwarelwr ac i gofio amdano mae'r criw yn ysmegu dôp, yfed, a dawnsio i 'Gweithio ar Wyneb y Graig' gan Geraint Jarman. Maent yn datgan mai dyma sut y buasai Als Bach eisiau iddynt ei goffáu a dyma felly ddarlun o chwarelwr sy'n herio confensiynau llenyddol y bröydd chwarelyddol. Dyma hefyd bortread o deulu a chriw o ffrindiau yn y Blaenau a'u bywydau. Maent yn byw ar fudd-dal, yn ddi-waith, yn yfed, ysmegu, cymryd cyffuriau a chael partis. Dyma adlais pendant o'r bywyd a gaiff ei bortreadu gan Dewi Prysor yn *Brithyll, Madarch* a *Crawia*, ond yn anffodus nid yw'r hiwmor yn gwbl effeithiol yma.

Mae ambell raglen Saesneg perthnasol y dylid cyfeirio atynt. Mae *Thomas the Tank Engine and the Blue Mountain Quarry*, fel yr awgryma'r enw, yn gyfres sy'n deillio o hanesion Tomos y Tanc, ond yn y rhaglen hon mae Tomos y Tanc a'i ffrindiau'n gweithio mewn chwarel. Mae hynny'n briodol wrth ystyried mai trenau a rheilffordd Tal-y-llyn oedd yr ysbrydoliaeth tu ôl i'r fersiwn wreiddiol o Tomos y Tanc. Mae sawl cymeriad newydd sy'n beiriannau unigryw i'r diwydiant llechi ac mae'r rhaglen yn arddangos dulliau traddodiadol o gludo llechi. Cyfres wedi ei hanimeiddio ydyw ac mae nifer o'r lleoliadau a'r cymeriadau ar gael fel teganau a gemau. Dyma raglen Saesneg i blant sy'n cyflwyno'r diwydiant llechi, ei beiriannau a'i thraddodiadau i gynulleidfa ifanc mewn ffordd gwbl ddiymhongar ac addysgol.

Rhaglen Saesneg arall a ddenodd sylw at y diwydiant llechi oedd *Snowdonia 1890* (2010). Mae'r rhaglen realiti hon yn dilyn dau deulu cyffredin o Gymru wrth iddynt fyw mewn tyddynnod traddodiadol yn Rhosgadfan a byw fel y buasai pobl yn ôl yn 1890. Mae'r gyfres felly'n gyfuniad o ffaith a ffuglen wrth i'r dynion weithio yn y chwarel, y plant yn mynd i ysgol Fictoraidd a'r mamau'n gweithio ar y fferm. Mae'n fewnwelediad difyr i fywydau'r chwarelwyr yn 1890 ac yn datgelu cymaint sydd wedi newid ers hynny. Cafodd y gyfres ei gwerthu gan BBC Wales i CBBC a newidiwyd ei henw i *Stuck on Sheep Mountain!* Er bod y

⁵¹⁰ Ibid.

⁵¹¹ Ibid.

gyfres yn ceisio bod yn addysgol ac yn ysgafn wrth bortreadu'r hen ffordd
Gymreig o fyw, mae'r ffaith iddi gael ei throi i fod yn rhaglen i blant am
deuluoedd Cymraeg yn byw ynghanol defaid yn dweud cyfrolau am agwedd
cyfryngau Lloegr tuag at gyfresi am Gymru!

iii) Dramâu Llwyfan

Mae dramâu cymunedol y bröydd chwarelyddol yn ymddangos yn aml mewn rhyddiaith am yr ardaloedd o *William Jones* i *Hi Yw Fy Ffrind*. Mae'r portreadau hyn yn adlewyrchu bwrlwm diwylliannol y gymdeithas. Mae nifer y sioeau cymunedol wedi lleihau dros y blynyddoedd ac nid oes cofnod ohonynt. Bydd yr adran hon felly'n canolbwyntio ar ddramâu llwyfan sydd wedi eu cynhyrchu gan gwmnïau theatr proffesiynol. Unwaith eto, nid yw pob sioe yn cael ei chofnodi ac felly astudiaeth o'r dramâu amlycaf sydd yma yn hytrach na chyfeiriad at bob drama sy'n berthnasol wrth ddehongli portreadau o'r bröydd chwarelyddol.

Mae Gwenlyn Parry yn ddramodydd sy'n enwog am ei weithiau absŵrd. Ond roedd ei weithiau cynnar yn fwy naturiolaid ac mae 'Hwyr a Bore' yn enwedig yn cyfleu dylanwad ei fagwraeth arno fel awdur. Roedd Gwenlyn Parry yn hanu o Ddeiniolen ac roedd ei dad yn chwarelwr. Yn ôl Roger Owen, dyna oedd Gwenlyn Parry eisiau bod hefyd:

Parry identified very strongly with the working-class society of industrial Caernarfonshire: indeed, his first stated ambition was to be a quarryman like his father. This was not so much for the work, of course, as for the grit and implicit sense of heroism with which a quarryman's life seemed to be imbued.⁵¹²

Mae arwriaeth y chwarelwyr o fewn y gymdeithas yn rhywbeth a gaiff ei hadlewyrchu mewn llenyddiaeth Gymraeg. Mae'r dyfyniad hwn yn awgrymu bod elfennau bywgraffiadol yn 'Hwyr a Bore' wrth i'r mab ddilyn ôl traed ei dad am y chwarel.

Mae'r ddrama'n digwydd ar ddiwrnod cyntaf ymddeoliad William a diwrnod cyntaf ei fab, Dic, yn siop y pentref. Mae tensiynau trwy gydol y ddrama rhwng William a'i wraig, Cadi, a'u gwerthoedd cyferbyniol. Mae symbolau o'r chwarel yn cael eu defnyddio er mwyn pwysleisio'r gwahaniaeth rhyngddynt: 'I'r bin â nhw! Dwi ddim isio gweld dim byd o gwmpas y tŷ 'ma fydd yn fy atgoffa fi o'r twll chwaraal 'na.'⁵¹³ Mae Cadi'n prynu offer newydd i'w mab, pethau fel y bocs bwyd plastig sy'n gyferbyniad llwyr i hen dun bwyd William:

⁵¹² Roger Owen, *Gwenlyn Parry* (Caerdydd: University of Wales Press, 2013), t. 3

⁵¹³ Gwenlyn Parry, 'Hwyr a Bore' yn *Dramâu Gwenlyn Parry: Y Casgliad Cyflawn* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2001), t. 17.

(Tra mae'r ymgom yma yn mynd ymlaen rhwng Dic a'i fam, mae William wedi mynd i'r bag armi unwaith eto, ac wedi tynnu hen dun bwyd tolciog, budr yr olwg allan ohono.)

WILLIAM (*wrth Dic*): Mi gei di fenthyg hwn. Fydda i ddim 'i angen o eto, 'ddyliwn.

CADI: Dwi wedi prynu un newydd iddo fo, thanciw! Dwyt ti 'rioed yn meddwl y caiff o fynd i'r siop hefo rhyw hen racsyn sglyfaethus fel hwnna.⁵¹⁴

Mae William yn gweld gwerth mewn hen bethau ymarferol, syml, cyferbyniad llwyr i werthoedd modern Cadi. Mae Roger Owen yn ysgrifennu am gwpan chwarel William:

The dust and debris caked solidly around its handle denotes the rougher, bolder tastes of working-class masculinity and suggests a nostalgia for the honesty of that way of life, in spite of physical dangers and humiliating initiation rites.⁵¹⁵

Mae Cadi felly'n wrthbwynt i'r thema o hiraeth am y gorffennol sy'n rhedeg trwy'r ddrama. Wrth brynu esgidiau a bocs bwyd newydd i Dic, mae Cadi yn cynrychioli'r dylanwad modern ar fro chwarelyddol.

Mae William yn cofio ei ddiwrnod cyntaf yn y chwarel a'r 'humiliating initiation rites' yr oedd Roger Owen yn cyfeirio atynt:

WILLIAM: Wyddost ti be' ddaru nhw i mi y diwrnod cynta yr es i i'r gwaith?

DIC: Pwy?

WILLIAM: Yr hogia. Tynnu 'nhrwsus i i lawr, a phardduo 'mhen ôl i!

MARGED: O, tada!

WILLIAM (*yn gwenu wrth gofio'r amser*): Ac nid dyna'r cyfan chwaith. Mi fuo rhaid i mi ganu 'Hen Wlad Fy Nhadau' ar ben y bwrdd yn y caban hefo sêr tŷ bach rownd 'y ngwddw.⁵¹⁶

Dyma gyfleu ochr hwyliog y chwarel a'r ochr ysgafn o bersonoliaethau'r gwŷr yn y caban. Nid yw'r ochr hon yn cael ei phortreadu'n aml, gydag awduron yn blaenoriaethu diwylliant ac eisteddfodau'r caban dros yr hwyl a'r ysgafnder. Yn

⁵¹⁴ Ibid, t. 22.

⁵¹⁵ Roger Owen, *Gwenlyn Parry*, t. 28.

⁵¹⁶ Gwenlyn Parry, 'Hwyr a Bore' yn *Dramâu Gwenlyn Parry: Y Casgliad Cyflawn*, t. 20.

dilyn hiraeth William am y chwarel mae Dic yn ei holi:

DIC: Mi fasa'n well gynnoch chi 'ngweld i'n mynd i'r chwaraal, yn basa, tada?

WILLIAM (*heb lawer o argyhoeddiad*): Bobol bach, na faswn i. Ma' dy fam yn llygad 'i lle yn dy yrru di i'r siop yna.⁵¹⁷

Mae'r ffaith nad oes llawer o argyhoeddiad yn ateb William yn awgrymu'n gryf bod y frwydr rhwng gwerthoedd traddodiadol William a rhai modern Cadi yn ymestyn at ddyfodol eu mab.

Ar ddiwedd y ddrama, mae Dic yn cyrraedd adref yn hwyr o'i ddiwrnod cyntaf yn y gwaith. Mae hyn yn arwain Cadi i fyfyrion am beryglon y chwarel:

CADI: Tasa fo wedi mynd i'r chwaraal 'na, mi faswn i bron â drysu ers meitin, fel roeddwn i pan oedditi ti funud ne' ddau ar ôl. Ofn bob math o betha... a wyddost ti be' aeth heibio'r ffenast 'na'r pnawn 'ma?

WILLIAM: Na wn i'n enw'r dyn!

CADI: Yr hen ambiwlans lwyd yna'n mynd o'r gwaith.

WILLIAM (*fel petai'n ailgofio rhywbeth*): Ia'n 'te.

CADI: A doedd 'y nghalon i ddim yn 'y ngwddw i. Dyna i ti beth braf. Mi o'n i'n arfar mynd yn sâl i gyd wrth weld 'i lliw hi, ond heddiw roeddwn i'n gwybod bod y ddau ohonoch chi 'mhell o'i chrafanga hi.⁵¹⁸

Mae'r ddelwedd drawiadol hon o'r chwarel a'i chrafangau am y dynion yn cyflwyno safbwynt gwraig mewn bro chwarelyddol yn effeithiol. Mae'r dyfyniad hefyd yn egluro pam bod Cadi yn gwrthwynebu unrhyw atgof o'r chwarel yn ei chartref. Elfen sy'n cryfau'r ddelwedd fileinig hon o'r chwarel yw'r newyddion bod Twm Bach wedi disgyn o'r graig yn y chwarel ac wedi torri dwy goes. Mae William yn ymateb trwy ddifrio'r stiward:

WILLIAM: Dwi wedi dweud ganwaith wrth Huws Bach Stiward nad ydi'r hogia bach 'ma ddim i gael 'u gyrru i'r rhaff nes 'u bod nhw wedi bod yna o leia flwyddyn a dyma...⁵¹⁹

⁵¹⁷ Ibid, t. 23.

⁵¹⁸ Ibid, t. 27.

⁵¹⁹ Ibid, t. 27.

Dyma bortread confensiynol o stiward, sy'n poeni mwy am elw na gofal y gweithwyr. Datgela'r sgwrs hefyd fod William wedi cael ei hel o'r chwarel am fod yn bump a thrigain oed yn hytrach nag ymddeol. Ceir blas felly ar chwerwedd William, sy'n cyferbynnu â'i hiraeth yn yr olygfa flaenorol.

Yn ddiweddarach, daw Dic adref gan ddatgan ei fod yn casáu'r gwaith yn y siop ac wedi gadael i fynd i chwilio am waith yn y chwarel. Mae'n cysuro ei fam:

DIC: Dydi'r chwaraal ddim mor ddrwg â hynny, wyddoch chi, mam, a mi fydda i dipyn hapusach yno nag yn yr hen siop 'na.

MARGED (*tan wenu*): A falla y caiff o job y stiward ryw ddiwrnod- yn gweithio mewn lle saff!⁵²⁰

Er gwaethaf ei chwerwedd tuag at y chwarel, mae William yn ymfalchïo ym mhenderfyniad ei fab. Mae'n mynd i nôl ei hen esgidiau chwarel o'r bin. Mae Cadi'n ei ddwrddio a mynnu ei bod hi am brynu pâr newydd iddo. Mae'r ddrama'n cloi gyda'r ddau'n ffraeo a'r plant yn pwffian chwerthin. Dyma bortread o deulu sy'n byw yng nghysgod y chwarel a'r cyferbyniad rhwng traddodiadau'r gymdeithas honno a dylanwadau cyfoes. Yn 'Hwyr a Bore', traddodiad sy'n ennill y dydd, rhywbeth sy'n mynd yn groes i wirionedd y diwydiant llechi yn y cyfnod. Mae'r ddrama hon yn adlewyrchiad o werthoedd ac agweddau cyferbyniol tuag at y diwydiant llechi ar drothwy'r cyfnod ôl-ddiwydiannol.

Y ddrama amlycaf wrth astudio'r portread o'r bröydd chwarelyddol yw un o gynyrchiadau cyntaf a phwysicaf Theatr Bara Caws, sef *Bargen* (1978). Mae'r ddrama'n agor gyda gŵr a gwraig yn y presennol mewn ocsiwn, maent yn anymwybodol o hanes streic fawr y Penrhyn er eu bod o Fethesda. Maent yn dechrau darllen dyddiadur chwarelwr o'r cyfnod, William Jones, a thrwyddo yn dysgu am yr anghydfod a dioddefaint eu cyndeidiau.

Mae'r ddrama ei hun yn bortread confensiynol o chwarelwyr ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf. Mae William yn ŵr gonest, annwyl wedi ei gaethiwo gan anghyfiawnderau'r oes. Yn nodweddiadol o bortreadau o'r streicwyr maent yn dlawd, yn cael eu mygu dan ormes yr Arglwydd Penrhyn a'u teuluoedd yn

⁵²⁰ Ibid, t. 33.

dioddef o ganlyniad i'r anghyfiawnderau. Mae'r darlun o'r Arglwydd Penrhyn hefyd yn ystrydebol; y gŵr creulon, cyfoethog hwnnw a oedd yn manteisio ar dlodi'r werin. Yn y ddrama hon, caiff yr Arglwydd Penrhyn a'i deulu eu defnyddio fel gwawdlun o Saeson cyfoethog sy'n dod ag elfen o gomedi i'r ddrama. Trwy hynny mae'r ddrama'n llwyddiannus o ran canfod y cydbwysedd cywir rhwng hiwmor a thristwch.

Mae William yn symbol o ddiodeffaint y chwarelwyr, a thrwy ddramateiddio ei ddyddiadur caiff y gynulleidfa fewnwelediad i Fethesda yn 1900. Mae elfennau o'r ddrama yn sentimental ac yn arwynebol wrth bortreadu'r anghydfod rhwng y chwarelwyr a'r Arglwydd Penrhyn. Rhaid canmol y cynhyrchiad am archwilio agweddau o lwyd wrth bortreadu'r bradwyr. Yma, yr Arglwydd Penrhyn yw'r gelyn ac o ganlyniad mae'r anghydfod ymysg y dynion yn cael ei guddio i raddau.

Ysgrifennodd Myrddin ap Dafydd adolygiad i gyd-fynd â chyhoeddiad o'r ddrama:

Wrth adrodd stori'r chwarelwr, nid creu drama o ddigwyddiad hanesyddol a wnaeth y cwmni. Roedd wedi cyffwrdd nerf ein bod fel pobl. Rhan o fytholeg byw ein cof fel pobl oedd y stori; rhan o chwedl ein creu yn y ganrif hon. Nid cerdded y 'plancs' a wnâi'r cast, ond troedio tir yr enaid; ail-fyw ein hen fywyd. Roedd y gynulleidfa yno ar y llwyfan gydol yr amser.⁵²¹

Mae'r adolygiad hwn yn tanlinellu pwysigrwydd hanesyddol *Bargen* ac effaith hynny ar y gynulleidfa. Wrth gyfeirio at fytholeg a chwedloniaeth wrth drafod cefndir y ddrama, mae Myrddin ap Dafydd yn cyfleu cymaint o effaith a gafodd hanes streic y Penrhyn ar lenyddiaeth Gymraeg a chof cyfredol y Cymry.

Yn dilyn llwyddiant y ddrama lwyfan yn 1978 cafodd ei throsi ar gyfer y radio gan y BBC a'i haddasu'n ffilm gan HTV yn 1980. Cafodd y ddrama ei hatgyfodi yn 1995 gan Theatr Bara Caws a chafwyd ymateb gwych i'r cynhyrchiad hwnnw hefyd. Unwaith eto, mae Myrddin ap Dafydd yn canmol pwysigrwydd hanesyddol y ddrama:

⁵²¹ Myrddin ap Dafydd, 'Adolygiad', *Bargen* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 1995), t. 6.

Eleni, fel yn niwedd y saithdegau, mae iawndal am afiechydon diwydiannol yn bwnc llosg yn y newyddion. Mae hynny ynddo'i hun yn ddigon o gyfiawnhad dros ailgynhyrchu *Bargen*. Mae'n bryd inni atgoffa'n hunain o'n hanes unwaith eto.⁵²²

Ymddengys fod Myrddin ap Dafydd yn fwy parod i gydnabod diffyg ymwybyddiaeth y Cymry erbyn yr 1990au. Ond â ymlaen i bwysleisio ôl a phwysigrwydd yr hanes ar y fro a'i thrigolion hyd heddiw:

Wyddwn i ddim yn hollol beth i'w ddisgwyl wrth fynd am y neuadd yn Ysgol Brynrefail i'w gwyllo hi ddiwedd Medi. Ffyddloniaid y Theatr Gymraeg, mi fyddan nhw yno wrth reswm. Hefyd dyrnaid go dda o hen deuluoedd chwarel sydd yn y fro, siŵr o fod. Tydi Craig yr Undeb ddim ymhell.⁵²³

Mae'n wir fod y chwarel yn parhau i fod yn rhan bwysig o hunaniaeth y brodorion. Mae cynyrchiadau fel *Bargen* yn atgyfnerthu pwysigrwydd y diwydiant llechi a'r gweithwyr i'r bröydd heddiw. Mae *Bargen* yn ddiddorol o safbwynt ôl-ddiwydiannol oherwydd ei bod yn cyfleu cymaint oedd effaith y streic ar gymdeithas y cyfnod a'r tristwch bod hynny bellach yn angof. Dyma ymgais i ddefro'r gynulleidfa, eu haddysgu am eu gorffennol ac atgyfnerthu perthnasedd yr hen chwarelwyr i'r gymdeithas gyfoes.

Yn dilyn llwyddiant *Bargen*, penderfynodd Theatr Bara Caws archwilio ochr arall o hanes Cymru oedd bellach yn angof, sef morwyr a llongau Ynys Môn. Mae pobl, yn gyffredinol, yn llai cyfarwydd â hanesion o'r môr ac mae straeon y morwyr hyn yn llai unigryw i ardal benodol. Mae *Hwyliau'n Codi* (1979) yn arddangos ochr arall o'r diwydiant llechi oherwydd mae llong y ddrama hon yn cludo llechi ar draws y byd.⁵²⁴ Mewn eitem ar *Pethe*, S4C, cafwyd cyfres o gyfweiliadau gyda sylfaenwyr Theatr Bara Caws am *Hwyliau'n Codi*. Soniodd Mei Jones am y darlun rhamantus a oedd ganddo o ganu morwrol a hwyllo'r byd, ond cafodd ei rybuddio gan hanesydd i beidio â rhamanteiddio: 'doedd hi ddim yn jôc

⁵²² Myrddin ap Dafydd, 'Bara Caws a'u Bargen' yn *Theatr-* atodiad i *Barn*, Rhif 429 (Hydref 1998), t. 5.

⁵²³ Ibid.

⁵²⁴ Cysylltiad arall rhwng y llongau a'r diwydiant llechi yw'r ffaith fod gan nifer o chwarelwyr gyfrandaliadau yn y cwmnïau, yn enwedig y rhai a oedd yn cludo llechi.

bod ar y môr.⁵²⁵ Wrth ymchwilio i longau Ynys Môn daeth ar draws cwmni ym Mhorthaethwy a oedd yn trin eu gweithwyr fel 'baw isa'r domen.'⁵²⁶ Yn y cyfweiliad â Mei Jones ymlaen i ddisgrifio sut y galwyd llongau'r cwmni hwn yn 'llongau un wylan'⁵²⁷ oherwydd bod cyn lleied o fwyd arnynt, dim ond un wylan a fyddai'n eu dilyn.

Ar *Pethe* disgrifiodd Betsan Llwyd gymhellant y cwmni wrth greu *Hwyliau'n Codi*. Roedd yn ymgais i fod yn fwy cytbwys wrth bortreadu'r anghydfod rhwng y tlawd a'r cyfoethog o'i gymharu â'u cynhyrchiad diwethaf, sef *Bargen*. Roeddynt eisiau dangos nad Saeson oedd y meistri bob tro a bod yna Gymry yn gallu ymddwyn yn yr un modd â'r Arglwydd Penrhyn a'i debyg. Cwmni Davies ym Mhorthaethwy sydd yn cael ei bortreadu yn y ddrama hon, drama sy'n gyfuniad o sgetsys, canu a drama. Cafodd ei hailgynhyrchu yn 2013 i dderbyniad gwresog ledled Cymru.

Cynhyrchiad arall gan Gwmni Bara Caws sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r diwydiant llechi yw *Y Bonc Fawr* (2005). Mae'r ddrama hon yn un o sioeau glybiau'r cwmni ac yn nodweddiadol o'r rheini yn llawn hiwmor a jôcs anwedus. Mewn adolygiad o'r sioe gan Rhian Price ar wefan y BBC ceir yr argraff bod gwreiddiau'r sioe yn hanu o ystrydebau llenyddol y bröydd chwarelyddol. Mae sylfaen y ddrama yn sicr yn dychanu rhyddiaith draddodiadol wrth i chwarelwr gweddw, tlawd gael ei ormesu gan berchennog creulon y chwarel ac anghyfiawnderau'r oes. Ysgrifenna Rhian Price: 'Gosodwyd cywair y noson o'r cychwyn cyntaf gyda chân gan bum aelod y cast yn rhestru rhai o'r bobl o fewn cymdeithas sy'n "ei chael hi'n galad!"'⁵²⁸

Disgrifia Gareth Evans y cymysgedd o ddylanwadau ac ystrydebau sy'n ychwanegu at hiwmor y sioe:

Nid yn unig mae'r sioe yn seiliedig ar gonfensiynau pantomeim a ffars, ond mae yma hefyd gyfoeth o gelfyddyd Gymraeg. Roedd y cefnlen agoriadol fel golygfa allan o un o straeon Kate Roberts, er bod yr hyn a

⁵²⁵ Mei Jones, *Pethe*, Mawrth 24, 2013, S4C.

⁵²⁶ Ibid.

⁵²⁷ Ibid.

⁵²⁸ Rhian Price, 'Y Bonc Fawr', Clwb Wellmans, Llangefni Nos Iau Tachwedd 3, 2005: <http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/adolygiadau/bonc.shtml>

ddilynodd yn gwblwll annhebyg i unrhyw beth a gyhoeddwyd gan Frenhines Ein Llên.⁵²⁹

Trwy osod seiliau'r ddrama yn llenyddiaeth Kate Roberts mae cyfle i ddychynu'r darlun traddodiadol o'r chwarelwr a'i fro. Trwy chwarae gyda'r confensiynau, mae'r cynhyrchiad hwn yn llwyddo i roi gwedd newydd i hen ystrydebau. Er bod gwreiddiau'r sioe yn perthyn i lenyddiaeth y bröydd chwarelyddol, mae hi'n datblygu i fod yn ffars, wallgof gyda 'dau Wyddel, lesbian dominatrix, gweinidog "sex-obsessed", ceffyl o'r enw Dobbin, a nyrs'⁵³⁰ yn ymddangos ar y llwyfan. Dyma adlewyrchiad o allu Theatr Bara Caws - gallant ddilyn confensiynau a chwarae â'r un rhai mewn dau gynhyrchiad cwbl wahanol ond llwyddiannus.

Arferai Cwmni Theatr Gwynedd addasu llenyddiaeth boblogaidd o'r bröydd chwarelyddol ar gyfer y llwyfan. Yn 1986 addasiad John Ogwen o *O Law i Law* gan T. Rowland Hughes oedd cynhyrchiad cyntaf y cwmni ac roedd yn 'llwyddiant ysgubol'⁵³¹ yn ôl Gareth William Jones. Cafwyd addasiad arall o un o nofelau poblogaidd T. Rowland Hughes ganddynt yn 1995 gyda *William Jones*. Ysgrifennodd Meg Elis adolygiad i *Barn* gyda'r pennawd, 'Chwarae Saff -a Da.' Ynddo mae hi'n galw am gynhyrchiad mwy mentrus, arbrofol, a heriol:

Do, mi ddaru fwynhau, fel y gwnes innau, y set ddyfeisgar a'r stori gysurlon. Beth wnewch chi, wedi'r cwbl, o eicon cenedlaethol? Yr ateb yw bod y cwmni, mewn mannau, wedi gwneud campweithiau bychain, hyd yn oed os mai cameos byr oeddynt yn aml: ymweliad Leusa â'r deintydd, neu ffars anfwriadol drama Twm Edwards. Os yw digwyddiad theatrig yn llenwi theatr, yn plesio cynulleidfa, ac yn ymdrin yn deg â gwaith sy'n annwyl ac yn gyfarwydd i'r gynulleidfa honno, crintachlyd fuasai condemnio'n llwyr.⁵³²

Mae'r adolygiad yn awgrymu bod y ddrama efallai'n rhy driw i'r nofel wreiddiol ac yn glynu'n gaeth ati. Er ei bod yn ddrama gwbl lwyddiannus ar bapur, mae Meg Elis yn gweld bod Cwmni Theatr Gwynedd wedi chwarae'n saff wrth ddewis

⁵²⁹ Gareth Evans, 'Ffani a Dic yn Ffestiniog' yn *Barn* (cyfrol 515/516, Rhagfyr 2005/ Ionawr 2006) ar gael yma: <http://www.theatre-wales.co.uk/barn/manylion.asp?barnID=154> Chwefror 2014.

⁵³⁰ Ibid.

⁵³¹ Gareth William Jones, 'Cwmni Theatr Gwynedd - O Law i Law- addasiad John Ogwen' yn *Barn* (Mawrth 1987, Rhif 290), t. 97.

⁵³² Meg Elis, 'Chwarae Saff -a Da' yn *Barn* (Rhif 392, Medi 1995), t. 29.

William Jones. Efallai bod bodolaeth addasiad ffilm o'r nofel yn golygu y dylai'r theatr fod yn fwy mentrus a pharod i arbrofi gyda'r gwaith.

Cafodd *C'mon Midffild* ei haddasu ar gyfer y teledu o raglen radio ac yn dilyn llwyddiant ysgubol y rhaglen ysgrifennodd Mei Jones ddrama lwyfan am dîm pêl-droed Bryncoch. Cwmni Theatr Gwynedd oedd yn gyfrifol am *Awê Bryncoch* (1993). Yn 2011 ysgrifennodd Bryn Fôn, oedd yn actio Tecs yn y gyfres, ddilyniant i'r cyfresi teledu. Cwmni Theatr Bara Caws oedd yn gyfrifol am *C'mon Midlaiff* a oedd yn portreadu priodas George a Sandra, yn bennaf, wedi iddynt gyrraedd eu canol-oed. Mewn adolygiad o'r ddrama mae Glyn Evans yn datgan bod y stori'n go denau ac am y ddrama: 'Nid clasur efallai, ond diddanwch yn sicr ac mi fodlonai'n hapus ar hynny.'⁵³³ Dywed fod y gynulleidfa wedi ei phlesio er gwaethaf ambell wall a man gwan yn y cynhyrchiad.

Mae ychydig o ddramâu wedi eu hanelu ar gyfer plant sy'n berthnasol i'r traethawd. Roedd y pantomeim *Lleu* (2008) yn adlewyrchu pwysigrwydd Dyffryn Nantlle yn y Mabinogi ac yn cyflwyno Lleu Llaw Gyffes fel arwr ar gyfer y fro honno a Chymru gyfan. Roedd cynhyrchiad Theatr Bara Caws, *Llyfr Mawr Y Plant*, yn deyrnged i'r llyfrau enwog hynny a ysgrifennwyd gan J. O. Williams a Jennie Thomas ym Methesda. Mae'r Amgueddfa Lechi hefyd yn cynnal dramâu achlysurol, yn bennaf ar gyfer plant, fel *Ffraeo yn Bron Haul* a gafodd ei pherfformio yn y rhes dai i gyfleu gofidiau teuluoedd mewn degawdau gwahanol.

Ysgrifennodd Angharad Tomos ddrama pasiant y plant, *Wil Wrth y Wal*, fel rhan o ddathliadau croesawu'r Eisteddfod Genedlaethol i Eryri yn 2005. Gai Toms oedd yn gyfrifol am y gerddoriaeth sydd yn bartneriaeth addas o ystyried cynnwys y ddrama. Cafodd y sioe ei chyfarwyddo gan Gwmni'r Frân Wen ac mae hi'n dilyn hanes ystâd y Faenol o'r unfed ganrif ar bymtheg ymlaen. Teulu Assheton Smith oedd yn byw yn y Faenol, perchnogion chwarel a phorth Dinorwig. Mae'r sioe yn portreadu gwahanol agweddau ar fywyd y teulu hwn trwy sawl cenhedlaeth, o'r sŵ i'r chwarel.

Mae'r ddrama hefyd yn portreadu bywydau'r rhai a oedd yn gweithio i'r teulu gan gynnwys y chwarelwyr a'r bobl a oedd yn gweithio ar y cei, yn allforio'r llechi ar draws y byd. Yn ôl yr awdures: 'Mae'n ddramatig i ddangos y gwrthdaro

⁵³³ Glyn Evans, 'Bara Caws; *C'mon Mid-laiff*', Cwmni Theatr Bara Caws, Llangefni, Tachwedd 17, 2011: <http://www.bbc.co.uk/cymru/cylchgrawn/theatr/adolygiadau/midffild.shtml>

rhwng y boneddigion a'r bobl leol oedd yn gorfod dioddef i gynnal eu safon o fyw.⁵³⁴ Trwy gyferbynnu safonau byw teulu'r Faenol â'i gweithwyr, mae *Wil Wrth y Wal* yn adleisio dramâu fel *Bargen* a *Hwyliau'n Codi*. Mae'r ddrama'n cloi, yng ngeiriau Angharad Tomos, 'gyda'r Eisteddfod yn dod i'r Faenol yn 2005, a'r bobl yn ailfeddiannu'r tir.'⁵³⁵ Mae'n neges gadarnhaol ac yn pwysleisio cymaint sydd wedi newid ers yr unfed ganrif ar bymtheg yng Nghymru. Roedd *Wil Wrth y Wal* yn basiant addas ar gyfer Eisteddfod Eryri a gynhaliwyd o fewn waliau hen ystâd teulu Assheton Smith.

Mae *Deinameit* yn ddrama gan Gwion Hallan a Mari Emlyn am streic Cwmni Friction Dynamics yng Nghaernarfon.⁵³⁶ Cwmni Llwyfan Gogledd Cymru oedd yn cyfarwyddo'r ddrama yn 2004. Roedd yn cynnwys cyffyrddiadau unigryw, er enghraifft, defnyddir 'yr union garafán y bu'r streicwyr yn ei defnyddio i mochel rhag y glaw yn chwipio o'r Fenai.'⁵³⁷ Yn sicr, roedd *Deinameit* yn gwneud y mwyaf o ffynonellau gwreiddiol yr hanes:

Yn gefndir roedd cymylau yn araf symud yn yr awyr a phob hyn a hyn ceid lluniau o gyfnod y streic - y streicwyr, y gorymdeithio, y tribiwnlys, yr ymweliadau gan bwysigion.⁵³⁸

Mae deunyddiau felly'n ychwanegu at bwysigrwydd y streic a'i photensial fel symbol o'r Cymry dosbarth gweithiol yn brwydro yn erbyn anghyfiawnder. Mae *Deinameit* yn un o eithriadau'r bennod hon am ei bod yn portreadu rhywbeth hanesyddol yn y cyfnod hwnnw yn hytrach na hanner can mlynedd yn ddiweddarach.

⁵³⁴ Angharad Tomos, 'Wil Wrth y Wal' (2005) – Eisteddfod Genedlaethol Eryri:

<http://www.bbc.co.uk/cymru/gogleddorllewin/safle/eisteddfoderyri/pages/wilwrthywal.shtml> Chwefror 2014.

⁵³⁵ Ibid.

⁵³⁶ Efallai bod y streic honno ddim yn gwbl berthnasol i'r bröydd chwarelyddol ar yr olwg gyntaf ond mae nifer o gysylltiadau rhyngddynt mewn gwirionedd. Wedi cau'r mwyafrif o chwareli yng ngogledd Cymru, yn enwedig Chwarel Dinorwig yn 1969, aeth nifer o weithwyr y diwydiant llechi i weithio'n Friction Dynamics, Ferodo gynt. Mae nifer o baralelau y gellid eu tynnu hefyd rhwng y streic hon a chwarel y Penrhyn yn 1900-03. Roedd y streicwyr eu hunain yn gwneud y gymhariaeth ac fe'u gwahoddwyd i'r llwyfan yn ystod Gŵyl Pesda Roc 2003. Roedd yr Ŵyl honno'n dathlu canmlwyddiant ers diwedd y streic a pherfformiwyd cân arbennig ar gyfer streicwyr Friction Dynamics gan Ed Holden.

⁵³⁷ Dafydd Meirion, 'Deinameit', Awst 2004:

<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/adolygiadau/deinameit-adol.shtml>

⁵³⁸ Ibid.

Ysgrifenna Dafydd Meirion am y ffordd roedd y ddrama yn chwarae gyda'r ffin rhwng realiti a ffuglen:

Roedd sawl cyfeiriad at bobol leol yn y sgript - Anti Lw oedd yn pobi bara brith i'r streicwyr, Arwyn (tynnwr lluniau'r papur newydd lleol), Alun Gelli (un fu'n ddiwyd iawn yn codi arian i'r streicwyr).⁵³⁹

Mae *Deinameit* yn gynhyrchiad sydd yn defnyddio golygfeydd a allai fod yn gyfarwydd i'r gynulleidfa: 'A thrwy'r ddrama ceid seiniau cyrn ceir yn canu eu cefnogaeth i'r streicwyr, a hwythau'n codi llaw i'w cydnabod.'⁵⁴⁰ Dyma yw cryfder y ddrama, ei bod wedi ei chreu ochr yn ochr â'r hanes, ac oherwydd bod y sgriptwyr yn amlwg wedi cyd-weithio'n agos gyda'r streicwyr. Wrth gwrs oherwydd bod y ddrama wedi ei hysgrifennu yn ystod y streic, ni ellir cael llawer o bellter i ddehongli'r hanes a'i effaith, os o gwbl, ar Gymru, y diwydiant neu'r unigolion.

Yng nghefnidir y ddrama cafwyd hefyd ddyfyniadau a lleisiau'r streicwyr iawn yn cael eu chwarae:

Rhwng golygfeydd ceid lleisiau'r streicwyr eu hunain yn sôn am y profiad o fod ar un o linellau piced hiraf Prydain, beth oedd bod heb arian, sut oedd hyn yn effeithio ar eu teuluoedd, a'r hyn oedden nhw'n feddwl o'r perchennog Americanaidd Craig Smith.⁵⁴¹

Dyma adlais o'r themâu sy'n ymddangos mewn rhyddiaith sy'n portreadu streic y Penrhyn; y tlodi, y dioddefaint, yr anghyfiawnder a'u dicter at y perchennog. Mae'r ddrama hon yn ddiddorol oherwydd gellir ei dehongli fel portread dychmygol o Streic y Penrhyn petai wedi digwydd can mlynedd yn ddiweddarach. Mae'r streicwyr yn genhedlaeth newydd o'r bröydd chwarelyddol, yn ddibynnol ar gwmni sy'n cael ei redeg gan estron hunanol. Mae hyd yn oed nodweddion tebyg rhwng y streicwyr a'r rhai a aeth yn ôl i'r gwaith. Gelwid hwy'n 'sgabs', nid 'bradwyr' bellach ond maent yr un mor atgas gan y streicwyr. Trwy bortreadu gweithwyr yn streicio yn wyneb anghyfiawnder, mae

⁵³⁹ Ibid.

⁵⁴⁰ Ibid.

⁵⁴¹ Ibid.

adlais pendant o hanes chwarel y Penrhyn yma. Ond mae hefyd lais newydd, llais streicwyr Friction Dynamics ac mae *Deinameit* yn haeddu clod am ymateb i anghyfiawnder yn y Gymru fodern.

Drama arall sy'n ymdrin ag anghyfiawnderau cyfoes yw *DW2416* gan Dewi Prysor. Mae'r ddrama yn fonolog fywgraffiadol wrth i Dewi Prysor adael neges i'w fab, sydd eto i'w eni, ar ffurf fideo. Yn y ddrama, mae Prysor wedi cael ei garcharu am ei ran yn ymgyrch llosgi Meibion Glyndŵr ac yn y fideo i'w fab mae Prysor yn adleisio'r gwerthoedd cynhenid sy'n cael eu mynegi yn ei gyfrolau. Yn ôl adolygiad Alwyn Gruffydd:

Mae'n trafod achau'r ddau. Mae'n sôn am y gwerthoedd creiddiol a berthynai i'w teulu ac a drosglwyddir o genhedlaeth i genhedlaeth. Amddiffyn y gwerthoedd hynny a arweiniodd at ei arestio a'i gadw yn y ddalfa ar gam meddai'r tad arfaethedig wrth ei fab arfaethedig.⁵⁴²

Mae pwysigrwydd cynefin yn cael ei bwysleisio a trwy hynny caiff bro Ffestiniog ei phortreadu fel lle sanctaidd sy'n wynebu bygythiadau. Mae'r set yn glawstroffobig ac yn cyfleu caethiwed y cymeriad yn ôl Gareth Evans:

Gwnaethpwyd defnydd trawiadol o'r gofod, gyda'r set gywrain yn arbennig o effeithiol gan gyfleu nid yn unig fflat yn Llan Ffestiniog ond hefyd gell yng ngharchar Walton, gwely heb fatres, cist, ffrâm ffenestr, a byl b golau.⁵⁴³

Efallai bod ymgais yma gan ddylunydd y set i adlewyrchu'r tloidi mewn bro ôl-ddiwydiannol fel Llan Ffestiniog. Trwy ei gadw mor syml nes bod dim ond ychydig wahaniaethau cynnil rhwng ei gartref a'r carchar, mae'r set yn adlewyrchu'r rhwyg rhwng y tlawd a'r cyfoethog mewn ardal lle mae diweithdra'n broblem.

Cafodd nofel fawr Caradog Prichard, *Un Nos Ola Leuad*, ei haddasu ar gyfer y llwyfan gan John Ogwen a Maureen Rhys yn 1981. Actiodd y ddau yn y

⁵⁴² Alwyn Gruffydd, 'Tristwch, digrifwch a dychryn - yn hoelio cynulleidfa', adolygiad o *Dewi Prysor DW2416*, Awst 2003:

<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/adolygiadau/prysor.shtml>

⁵⁴³ Gareth Evans, 'O Gelloedd Walton', adolygiad o *Dewi Prysor DW2416* Awst 2003:

<http://www.theatre-wales.co.uk/barn/manylion.asp?barnID=160>

cynhyrchiad hefyd gyda dim ond cymeriadau'r bachgen a'r fam yn y ddrama. Yn 2011 cafodd addasiad Betsan Llwyd o'i haddasiad hwy ei lwyfannu gan Theatr Bara Caws. Y tro hwn roedd llawer mwy o gymeriadau a digwyddiadau'r nofel yn ymddangos ar y llwyfan. Cafwyd hefyd olygfeydd ysgafn a llinellau crafog o'r nofel. Profodd y cynhyrchiad hwn o *Un Nos Ola Leuad* pa mor boblogaidd yw'r nofel gyda phob tocyn ym mhob canolfan trwy Gymru wedi'i werthu. Cafodd y ddrama dderbyniad gwresog yn Neuadd Ogwen, Bethesda cyn mynd ymlaen i deithio ar draws Cymru. Dyma'r cynhyrchiad mwyaf llwyddiannus yn hanes Cwmni Theatr Bara Caws.

I ddilyn y llwyddiant hwn, cafwyd cynhyrchiad ganddynt o ddwy ddrama am Kate Roberts. Mae *Cyfaill* gan Francesa Rhydderch yn sôn am adeg gythryblus ym mywyd yr awdures yn Ninbych a'i pherthynas gyda theulu yn Budapest. Ynghyd â'r ddrama honno cafwyd perfformiad o addasiad Manon Wyn Williams o *Te yn y Grug*. Dyma gwmni theatr sy'n cadw'n agos at ei gwreiddiau trwy lwyfannu clasuron y bröydd chwarelyddol.

Yn 2013 cafwyd cynhyrchiad cymunedol, proffesiynol gan drigolion Blaenau Ffestiniog a Talysarn ar y cyd gyda Theatr Genedlaethol Cymru. Mae *Blodyn* yn fersiwn cyfoes o chwedl Blodeuwedd sydd yn canolbwyntio ar fywydau pobl ifanc yr ardaloedd chwarelyddol ôl-ddiwydiannol hyn. Mewn cyfweliad dywedodd cyfarwyddwraig y prosiect, Bethan Marlow, mai bwriad y sioe, sy'n gyfuniad o ddrama, canu, celf, dawns a ffilm, oedd 'rhoi llais i Blaenau a Talysarn.'⁵⁴⁴ Rhyddhawyd cân ar y cyd rhwng y trigolion a Gai Toms i gyd-fynd â'r cynhyrchiad. Trwy ddefnyddio chwedl o'r Mabinogi i gysylltu'r ddwy gymuned hon, mae Theatr Genedlaethol Cymru yn rhoi'r cyfle iddynt ail-ddehongli chwedl Blodeuwedd yn ôl cysylltiadau cyfoes y bröydd. Gyda'r ddwy ardal wedi eu heffeithio gan ddiweithdra ers dechrau'r cyfnod ôl-ddiwydiannol, dyma gyfle i'r ardaloedd hyn roi portread unigryw a pherthnasol o'u bywydau a'u bro.

Pan agorir adeilad Pontio yn Hydref 2014, y ddrama gyntaf i'w pherfformio yno fydd addasiad o *Chwalfa* gan T. Rowland Hughes. Dyma adlewyrchiad o boblogrwydd yr awdur hwnnw hyd heddiw, a hefyd

⁵⁴⁴ Bethan Marlow, 'Blodyn', Gwefan Theatr Genedlaethol Cymru, Awst 2013: <http://www.theatr.com/cynyrchiadau/blodyn.aspx>

gydnabyddiaeth o ran y chwarelwyr a bortreadwyd yn y nofel honno yn sefydlu Prifysgol Bangor. Mae *Chwalfa* yn ddewis nodweddiadol, symbolaidd bron, o'r ffordd y mae diwylliant chwarelwyr ar ddechrau'r ugeinfed ganrif yn parhau i ddylanwadu ar ddiwylliant a bywydau cyfoes yng Nghymru. Dyma gylch, mewn ffordd, oherwydd *Chwalfa* oedd addasiad Cymraeg cyntaf y BBC yn yr 1960au. Dyma bortread T. Rowland Hughes unwaith eto'n cael ei gyflwyno i genhedlaeth newydd a'i atgyfnerthu yng nghof cyfredol y genedl.

Mae dramâu llwyfan felly'n atgyfnerthu confensiynau - mae myth y chwarelwr yn gryf ac yn gefndir i sawl drama. Mae'r tueddiad i ailgynhyrchu dramâu'r 1970au a nofelau mawrion y bröydd chwarelyddol yn golygu bod y portread a geir o'r bröydd chwarelyddol mewn dramâu yn cadarnhau confensiynau yn bennaf. Ond mae'r dramâu hefyd yn rhydd i chwarae gydag ystrydebau llenyddol a cheir dehongliadau newydd o hen hanesion yn ogystal â chyfeiriadau dychanol at weithiau llenyddol sy'n eu rhagflaenu.

Pennod 6: Cerddoriaeth - Cadarnhau'r Myth

'Mae hen wlad fy nhadau yn annwyl i mi,
Gwlad beirdd a chantorion, enwogion o fri.'⁵⁴⁵

Fel mae ein hanthem genedlaethol yn ei datgan, Cymru yw gwlad y gân, gwlad sy'n enwog am ei chorau, ei chyngherddau a chystadlaethau'r Eisteddfod. Mewn gwlad sy'n ymfalchïo yn ei doniau cerddorol, a yw'r bröydd chwarelyddol yn wahanol i ardaloedd eraill yng Nghymru? A oes yna wir wahaniaeth rhwng bwrlwm y sîn roc Gymraeg ym Methesda o'i cymharu â Llanrwst neu Abertawe hyd yn oed? Bydd y bennod hon yn dadlau bod gwreiddiau cerddorol yr ardaloedd chwarelyddol wedi hanu o'r diwydiant llechi a bod y dylanwad hwnnw'n fyw hyd heddiw.

I ddechrau hoffwn ystyried sut mae lle yn dylanwadu ar gerddoriaeth. Mae hanes, traddodiadau a diwylliant unigryw i ardal yn sicr o siapio sawl agwedd ar fywyd yn y gymdeithas honno. Roedd yr hen chwarelwyr yn ymfalchïo yn eu diwylliant cyfoethog ac roedd doniau cerddorol yn enwedig yn cael eu dyrchafu gan y gymdeithas honno. Mae sawl cofnod yn cyfeirio at ganu safonol capeli'r ardaloedd hyn yn yr hunangofiannau bro a llu o ffynhonellau hanesyddol. Roedd eisteddfodau'r caban, eu hadloniant amser cinio a chofnodion ohonynt yn canu allan ar y bonc yn adlewyrchu pwysigrwydd cerddoriaeth ym mywyd pob dydd y chwarelwyr cyffredin. O'r diwydiant llechi hanodd nifer o fandiau pres a chorau sy'n parhau i fodoli yn yr ardaloedd.

Sefydlwyd Seindorf Arian Llanrug yn 1830 ond mae cofnod o fand fflwiwt yn y pentref mor gynnar â 1774. Mae Seindorf Arian Deiniolen hefyd yn parhau i berfformio ers 1835 ynghyd â Seindorf Arian Frenhinol Dyffryn Nantlle a sefydlwyd yn 1865. Mae'r cofnod cynharaf o Gôr y Penrhyn yn dyddio nôl i 1893 ac ynghyd â Chôr Meibion y Moelwyn, Blaenau Ffestiniog, maent yn profi bod dylanwad oes aur y diwydiant llechi yn fyw o hyd. Mae'r corau hyn yn arwydd o gryfder traddodiadau cerddorol y bröydd chwarelyddol ynghyd â'r holl gorau

⁵⁴⁵ Evan James a James James, 'Hen Wlad Fy Nhadau' o wefan Llywodraeth Cymru, 1 July 2012: <http://learnwelsh.colegwent.ac.uk/news/item?id=199>

sydd wedi eu sefydlu yn y cyfnod ôl-ddiwydiannol. Sefydlwyd Côr Meibion Caernarfon yn 1967 gan griw o weithwyr ffatri Ferodo, a oedd yn cyflogi nifer o gyn-chwarelwyr wrth i'r diwydiant llechi ddirywio. Mae hefyd corau mwy diweddar fel Cororion, Tregarth, Boncathod, Bethesda, a Chlychau'r Grug, Llanrug, yn profi bod traddodiad cerddorol y bröydd yn parhau i fod yn berthnasol.

Mae cryno-ddisg Côr y Penrhyn, 'Dychwelyd', yn pwysleisio eu pwysigrwydd hanesyddol wrth i'r clawr ddathlu canmlwyddiant ers eu hymweliad cyntaf â Chicago yn 1893. Mae hefyd yn cynnwys lluniau o'r côr yn y cyfnod hwnnw a'r côr yn 1993. Wrth i nifer y chwarelwyr leihau yn sylweddol dros y ganrif ddiwethaf, yn hytrach na chôr ponc yn Chwarel y Penrhyn, daeth Côr Meibion y Penrhyn i fod yn gôr y Dyffryn a dim ond ambell aelod sy'n gystylliedig â'r diwydiant llechi erbyn heddiw. O Gôr y Penrhyn datblygodd parti o ddynion sef Hogia'r Bonc. Maent hwythau yn sefydlu cysylltiad gyda'r chwarel wrth roi llun o chwarelwr yn seinio'r horn cyn ffrwydrad ar glawr eu cryno-ddisg, *Y Rheol Bump*.

O draddodiad corawl yr un ardal datblygodd Hogia Llandegai. Yn ei lyfr, disgrifia Neville Hughes eni'r grŵp:

Rwy'n credu mai yn 1956 y ffurfiodd Mrs. Elin Southall ei chôr yn Llandegai. Côr Talgai, sef côr cymysg a dynnai ei aelodaeth yn bennaf o bentrefi Talybont a Llandegai.⁵⁴⁶

Wrth chwilio am ragor o amrywiaeth yn ychwanegol at ddeuawdau a phartïon adrodd, ffurfiwyd criw sgiff, ac o hyn wedyn, datblygodd Hogia Llandegái. Dechreuodd Hogia Llandegai yn swyddogol yn 1957 ac fe wnaethant barhau i berfformio'n gyson hyd 1996. Er bod rhai o'u caneuon yn amserol fel y gân i ddathlu'r Eisteddfod ym Mangor, 'Bangor Saith-Deg-Un', mae nifer ohonynt yn deillio o hen gerddi a chaneuon traddodiadol eu bro.

Er bod pob math o themâu yng nghaneuon Hogia Llandegai, y rhai sydd o ddiddordeb i'r astudiaeth hon yw hanes cymeriadau a digwyddiadau lleol. Yr enwocaf o'r caneuon hyn, mae'n siŵr, yw 'Defaid William Morgan' sy'n adrodd

⁵⁴⁶ Neville Hughes, *Hogia Llandegai Y Llyfr* (Llangefni: Neville Hughes, 1996), t. 21.

hanes y defaid a oedd yn achosi dinistr yng ngerddi trigolion Rachub. Cafodd y gân hon ac 'Er cof am fuwch o'r enw Mollie' eu hysgrifennu gan William Griffith ar ddechrau'r ugeinfed ganrif ac mae'r ddwy gân yn llawn o'r hiwmor eironig sy'n nodweddiadol o Fethesda. Dyma adlewyrchiad o barhad traddodiadau'r ardal wrth i gerddi a chaneuon o'r 1900au gael eu perfformio hyd heddiw.

Er mwyn cryfhau'r traddodiad hwn o gario caneuon o genhedlaeth i genhedlaeth, lluniodd y mudiad Adfer gasgliad o hen ganeuon Dyffryn Ogwen yn *Beth am Gân!* Mae'r llyfryn yn cynnwys geiriau nifer o ganeuon amrywiol a lluniau o hen gorau'r streic a Thri Thenor Tregarth yn yr 1960au. Yn ôl y rhagair:

Ceir yma ganeuon llon a lleddf; caneuon yn perthyn i'w cyfnod ac yn cofnodi ymateb i ddatblygiadau'r oes neu ddigwyddiadau unigol. Ceir ynddynt dafell go dda o hanes y fro dros gyfnod helaeth.⁵⁴⁷

Yn wir, mae'r llyfryn yn llwyddiannus o ran cyflwyno darlun o fywyd cymdeithasol a gweithiol yn y fro dros gyfnod maith. Daw nifer o ganeuon Hogia Llandegái o'r gyfres hon, gyda sawl cân yn clodfori'r ardal fel yn 'Dyffryn Ogwen.' Mae'r gân yn delfrydu'r ardal, ei harddwch a'i brawdgarwch, ac yn portreadu Dyffryn Ogwen fel Gardd Eden gan fod y cyfeiriadau Cristnogol mor gryf. Mae nifer o ganeuon y gyfrol yn adleisio'r arddull hon o ganu clod. Dyma adlewyrchiad o draddodiad cerddorol yr ardal ac o werthoedd y mudiad Adfer a oedd yn ceisio hybu delweddau o'r Fro Gymraeg fel adlewyrchiad o'r Gymru ddefnyddol a Chymreig.⁵⁴⁸

Mae nifer o ganeuon *Beth am Gân!* yn disgrifio digwyddiadau o bwysigrwydd hanesyddol sy'n ymwneud â'r chwarel fel yr adeg y clwyd y gweithwyr allan ym Methesda yn 1900, llyfogydd 1954, a cân am wroldeb chwarelwyr Bethesda a Llanberis wrth iddynt streicio (sydd hefyd yn cofnodi caredigrwydd Chwarelwyr Meirionnydd ac Arfon yn ystod y streic). Cân gyntaf y

⁵⁴⁷ Pwyllgor Cyhoeddiadau Bro, Cangen Dyffryn Ogwen o Fudiad Adfer, 1978, *Beth am Gân!* (Cyhoeddwyd gan Gangen Dyffryn Ogwen o Fudiad Adfer, Argraffwyd gan O. Jones: Llangefni, 1978), t. 1.

⁵⁴⁸ Roedd caneuon y mudiad Adfer yn boblogaidd yn yr 1970au gyda chaneuon anthemig fel 'Tua'r Gorllewin' gan Ac Eraill ac 'Y Dref Wen' gan Tecwyn Ifan sydd yn mynegi credoau'r mudiad. Roedd eu casgliad o ganeuon yn *Beth am Gân!* hefyd yn adlewyrchu'r gwerthoedd hynny.

llyfryn yw 'Ffarwél Hen Chwarelwr' sydd o safbwynt chwarelwr ar ei ddiwrnod olaf yn ei waith. Mae bron yn farwnad wrth i'r pennill olaf alaru:

Ffarwél, ffarwél i'r cyfan,
Ni chana' i ddim yn hwy;
Os yw nghân yn ysgafn -
Mae nghalon bron yn ddwy!⁵⁴⁹

Mae'r pennill yn cyfleu cariad y gweithwyr at eu crefft. Mae hyn yn aml yn cael ei anghofio gan gymdeithas gyfoes; rydym yn llawer mwy tebygol o gofio'r anghydfod a'r streicio na chariad y dynion at eu gwaith. Ym 'Melys Cofio'r Dyddiau Gynt' mae'r bardd yn rhamantu'r chwarel:

Bardd a cherddor ar y bonc
A thrawiad tonc mor gelfydd.⁵⁵⁰

Mae pwyslais yn y caneuon ar ddewrder a doniau'r dynion cyffredin a oedd yn gweithio'n y chwarel. Mae'r cwpled hwn yn canmol eu gallu cerddorol, llenyddol a'u crefft wrth drin y llechi. Mae caneuon eraill y llyfryn yn llai difrifol ac yn llawn hiwmor wrth ddisgrifio agweddau ysgafnach ar y gymdeithas - ffair Llan, nos Sadwrn tâl, a chân o glod i'r injan oedd yn cludo'r llechi.

Yn yr un modd ag y mae Hogia Llandegai yn clodfori Dyffryn Ogwen, felly hefyd y mae Hogia'r Wyddfa yn dathlu Llanberis. Mae Hogia'r Wyddfa yn hynod berthnasol i'r astudiaeth hon oherwydd roedd y baswr, Elwyn Wilson Jones, yn gweithio yn Chwarel Dinorwig a'i dad sefydlodd yr Amgueddfa Lechi.⁵⁵¹ Cafodd holl aelodau'r grŵp eu magu yn Llanberis ac fe laddwyd tad Myrddin yn y chwarel. O ganlyniad, mae gan yr Hogia gysylltiad personol gyda Chwarel Dinorwig ac mae ganddynt sawl cân am Lanberis a'i chwarel. Sefydlwyd y grŵp yn 1963 ac yn 2013 cafwyd cyngerdd yn yr Eisteddfod Genedlaethol i ddathlu 50 mlynedd o Hogia'r Wyddfa.

Mae'r Hogia'n enwog am ddefnyddio hen gerddi a rhoi alawon newydd iddynt. Dywed Hefin Wyn yn ei lyfr am hanes canu poblogaidd Cymraeg:

⁵⁴⁹ Anhysbys, 'Ffarwél Hen Chwarelwr' yn *Beth am Gân!*, t. 4.

⁵⁵⁰ Anhysbys, 'Melys Cofio'r Dyddiau Gynt' yn *Beth am Gân!*, t.5.

⁵⁵¹ Gweler Atodiad 1: Elin Gwyn yn cyfweld ag Elwyn Wilson Jones 23/11/2011.

Rhan o gyfrinach llwyddiant Hogia'r Wyddfa oedd eu bod yn apelio at gynulleidfa oedd yn dal yn ddiwylliedig. Onid oedd enwau beirdd yn gyfarwydd iddyn nhw a darnau o'u barddoniaeth wedi eu serio ar lechi eu cof?⁵⁵²

Mae Hefin Wyn yn pwysleisio mor ddiwylliedig yw'r Cymry ac yn awgrymu bod cynulleidfa Hogia'r Wyddfa yno cyn i'r grŵp ffurfio hyd yn oed. Yn sicr roedd yr Hogia'n hybu Cymreictod trwy eu cerddoriaeth wrth atgyfodi cerddi clasurol Cymraeg fel 'Cerdd yr Hen Chwarelwr' gan W. J. Gruffydd. Dyma un o'r cerddi cynharaf am chwarelwr ac wrth addasu'r gerdd hon yn gân yn y cyfnod ôl-ddiwydiannol, mae Hogia'r Wyddfa yn cryfhau'r portread traddodiadol o chwarelwr i gynulleidfa fodern.

Mae 'Hen Ŵr ar Bont y Bala' gan Eurig Wyn yn disgrifio hen chwarelwr yn hiraethu am y chwarel wrth sefyll ar y bont sy'n croesi'r afon rhwng llyn Llanberis a llyn Padarn:

Hen ŵr ar bont y Bala
A'th lygaid yn llawn gwllith
Yn cofio bwrlwm y caban
Sydd heddiw'n ddim ond rhith.
Mae'n dawel ar y clogwyn
A segur ydyw'r sied
A dim ond cof mewn deigryn
Yw'r fyddin felfaréd.⁵⁵³

Mae tôn hiraethus i'r gân, gyda'r hen ŵr yn y teitl yn cofio oes ddiwydiannol y chwarel. Mae'r geiriau yn cyd-fynd gyda nodweddion barddoniaeth y bröydd chwarelyddol wrth gyfeirio at dawelwch y chwarel, hiraethu am fwrlwm y caban a gofidio am y dirywiad yn y fro. Mae'r gân yn cyfeirio at gyd-weithwyr yr hen chwarelwr yn marw fesul un o effaith y llwch, ac erbyn diwedd y gerdd, mae'r hen ŵr hefyd yn mynd 'yn drwm o lwch i'r llwch.'⁵⁵⁴ Dyma ddelwedd drawiadol o

⁵⁵² Hefin Wyn, *Be Bop a Lula'r Delyn Aur* (Y Lolfa: Talybont, 2002), t. 61.

⁵⁵³ Hogia'r Wyddfa ac Eurig Wyn, 'Hen Ŵr ar Bont y Bala' o *Goreuon Hogia'r Wyddfa* (Caernarfon: Sain, 2007), trac 17.

⁵⁵⁴ *Ibid.*

aberth y dynion hyn mewn cân sy'n llwyddo i ramantu a phardduo'r diwydiant llechi ar yr un pryd.

Mae 'Chwarel Dinorwig' hefyd yn gân gan Hogia'r Wyddfa sy'n hiraethu am oes ddiwydiannol y chwarel. Canant:

Yn gymorth i lawer bu'r hen Lwybr Main
Ond heddiw mae'n feinach gan laswellt a drain,
'Does neb wrthi'n ca'lyn y wagan ers tro
A'r chwalfa a'r mudo andwyodd y fro,
'Does dim ond atgofion ac eco yn awr
O firi y caban a'r pâr hoelion mawr.⁵⁵⁵

Dyma adlais pendant o themâu 'Hen Wŷr ar Bont y Bala' a llawer o gerddi am y diwydiant llechi. Er bod cyfeiriadau cyson at y cyfnod diwydiannol, mae'r gerdd yn cyfleu'r gwacter a'r dirywiad ar ôl i'r chwarel gau. Yn dilyn cyfres o ddelweddau o ddirywiad ac anobaith, mae'r gân yn gorffen ar nodyn gobeithiol:

Ond paid digalonni, pwy wŷr yr un pryd
Nad oes mewn anwybod rhyw obaith o hyd?⁵⁵⁶

Efallai bod yr anwybod gobeithiol hwn yn ennyn cysur tair blynedd ar ôl cau'r chwarel wrth i'r Amgueddfa Lechi agor a chofnodi a dathlu holl waith y chwarelwyr.

Un o'r caneuon enwocaf am weithwyr y diwydiant llechi, mae'n siŵr, yw 'Y Chwarelwr' gan John ac Alun. Rhyddhawyd y record, *Yr Wylan Wen/Y Chwarelwr*, yn 1991 ac mae wedi datblygu i fod yn anthem i'r bröydd chwarelyddol. Mae'r gân yn adleisio barddoniaeth fel 'Cerdd yr Hen Chwarelwr' gan W. J. Gruffydd wrth bortreadu'r adroddwr:

Yn ddiniwed i'r chwarel es
i ddechrau ennill pres
cyn cyrraedd fy mhenblwydd yn dair-ar-ddeg.
Dim ond mis ers claddu nhad,
Ei fywyd oedd mor rhad,

⁵⁵⁵ Rol Williams ac Arwel Jones, 'Chwarel Dinorwig' o *Pigion Disglair Hogia'r Wyddfa* (Caernarfon: Sain, 2007), trac 1.

⁵⁵⁶ Ibid.

Mwy o lechi oedd ei unig lef.⁵⁵⁷

Dyma enghraifft o gerddoriaeth yn cryfhau'r portread confensiynol o chwarelwr, ac yn ôl llwyddiant y gân, ymddengys fod y darlun hwn yn un y mae'r gynulleidfa yn ei arddel.

Mae gwreiddiau'r portread o chwarelwr eisoes wedi cael eu canfod yn y bennod am ryddiaith y bröydd chwarelyddol, portread a gaiff ei atgyfnerthu gan y gân hon. Ond rhywbeth sy'n ddiddorol ei olrhain yw gwreiddiau 'Y Chwarelwr'. Mae'r gân enwog hon yn addasiad a chyfieithiad o 'Working Man' gan Rita MacNeil. Rhyddhawyd y gân werinol honno gyda'r un alaw flwyddyn ynghynt. Ond nid chwarelwr yw arwr 'Working Man' ond glöwr, fel mae'r geiriau yn ei amlygu:

It's a working man I am,
And I've been underground,
And I swear to God, if I ever see the sun,
Or for any length of time,
I can hold it in my mind,
I never again will go underground.⁵⁵⁸

Ar adegau mae'r cyfieithiad yn rhy lythrennol o ystyried eu bod wedi cael eu haddasu i bortreadu gweithiwr y diwydiant llechi yn hytrach na'r diwydiant glo. Dywed y gytgan:

Chwarelwr ydwyf i
A dyma yw fy nghri
Y caf i unwaith eto weld yr haul.
Ac o fol y mynydd mawr
lle welodd neb y wawr
Gad i mi unwaith eto weld yr haul.⁵⁵⁹

Gyda'r mwyafrif o chwareli gogledd Cymru yn rhai agored, ni ellir ond cyfiawnhau'r geiriau hyn wrth ystyried mai chwarel dan-ddaearyl fel ceudyllau llechwedd sydd ganddynt mewn golwg.

⁵⁵⁷ John ac Alun, 'Y Chwarelwr' o *Yr Wylan Wen/ Y Chwarelwr* (Caernarfon: Sain, 1991), trac 9.

⁵⁵⁸ Rita MacNeil, 'Working Man' o *Working Man: The Best Of Rita MacNeil* (Polydor, 1993), trac 1.

⁵⁵⁹ John ac Alun, 'Y Chwarelwr' o *Yr Wylan Wen/ Y Chwarelwr*, trac 1.

Mae 'Cân y Ddwy Chwarel' gan Dafydd Iwan yn cyd-fynd â'r portread confensiynol o chwarelwr:

Roedd llafur yr hogiau yn rhad
A'r stiward yn llawn gwawd a sarhad⁵⁶⁰

Dyma ddatganiad sy'n atgyfnerthu'r ystrydebau a geir mewn llenyddiaeth am y diwydiant llechi. Er bod elfennau o wirionedd yn y portread, mae'n gaeth i fyth y chwarelwr. Yn dilyn ffrae yn y chwarel, mae tad yr adroddwr yn colli ei waith ac mae'r teulu'n ymfudo i America. Felly, er bod y gân yn dechrau'n ystrydebol, yn anaml ceir safbwynt teulu a symudodd i weithio'n chwareli'r Amerig. Mae'r adroddwr a'i dad yn cael gwaith mewn chwarel yno, a'r tad yn dysgu ei grefft i'r mab. Ond wrth i iechyd y tad ddirywio, mae'n hiraethu am fro ei febyd:

Daeth hiraeth i'w galon o am Fethesda
A sibrydodd yn welw ei wedd,
'Rhowch garreg las ar fy medd
o Chwarel y Penrhyn
lle euthum yn blentyn i'r gwaith.'⁵⁶¹

Mae'r gân yn gorffen drwy ailadrodd geiriau olaf yr hen ŵr. Wrth fynegi cariad chwarelwr at ei weithle, mae 'Cân y Ddwy Chwarel' yn cynnig safbwynt nad yw'n cael ei grybwyll yn aml ac yn datblygu i fod yn gân lai ystrydebol nag ar yr olwg gyntaf, er nad oes dim byd cwbl newydd yn cael ei ddweud yma.

Yn wir, mae nifer o ganeuon poblogaidd y cyfnod ôl-ddiwydiannol yn cadarnhau'r portread confensiynol o chwarelwr ac yn atgyfnerthu myth y chwarelwr. 'The Streets of Bethesda' a gaiff ei pherfformio gan Celt yw cân fwyaf eiconig yr ardal honno; dyma anthem Dyffryn Ogwen. Mae 'The Streets of Bethesda' yn driw i ddelweddau a themâu caneuon a barddoniaeth y bröydd chwarelyddol. Mae hi'n werth ei dyfynnu'n llawn:

One day as I walked through the streets of Bethesda,
As I walked down past the slates and the graves,

⁵⁶⁰ Dafydd Iwan, 'Cân y Ddwy Chwarel', *Man Gwyn* (Caernarfon: Sain, 2007), trac 7.

⁵⁶¹ Ibid.

I saw an old quarryman watching the sunset,
Recalling his life at the close of his day.

He's just a statistic in history's pages,
Struggling for breath as he shuffles along,
There's dust in his lungs from the rocks of the ages,
Death in that mountain he'd known for so long.

My grandfather told me: 'Don't slave in that quarry,
Or you will be joining them six feet below.'
I said: 'Taidi bach paid â phoeni, fydda'i'n iawn,
Fydda'i yn gwisgo fy masg rhag y llwch.'⁵⁶²

Mae'n ddiddorol bod cân fwyaf eiconig yr ardal hon yn un Saesneg. O ardal mor naturiol Gymraeg, mae'n ddiddorol gofyn tybed pam bod y trigolion wedi closio cymaint at y gân hon? Mae'r alaw yn un gref ac adnabyddus ac mae patrwm cyfarwydd i'r gân. Mae tro yn ei diwedd beth bynnag, wrth i'r canwr ateb yr hen wŷr a'i gysuro yn y Gymraeg. Er mai Saesneg, felly, yw iaith y gân, Cymraeg yw iaith yr adroddwr a'i daid.

Mae'n ddiddorol bod gwreiddiau'r gân yn dipyn o ddirgelwch. Yng nghryno-ddisg Celt maent yn dweud bod y geiriau gan 'Anhysbys a Celt.' Clywodd Celt y gân i ddechrau pan ryddhaodd y grŵp gwerin, *The Harvesters*, 'The Streets of Bethesda' fel B-side i un o'u cryno-ddisgiau. Dywedodd Barry neu 'Archie' o Celt am addasiad y grŵp o'r gân: 'Dwi'n meddwl bod y pennill ola i gyd yn wreiddiol i Celt, yn sicr mae'r cwpled Cymraeg.'⁵⁶³ Mae hi wedi ei gosod ar dôn 'The Streets of Laredo' ac wrth edrych ar eiriau'r gân honno, mae'n glir bod strydoedd Bethesda yn addasiad ohoni.⁵⁶⁴ Mae sawl nodwedd gyffredin rhwng y

⁵⁶² Anhysbys/ Celt, 'The Streets of Bethesda', @.Com (Caernarfon: Sain, 1998), trac 7.

⁵⁶³ Barry 'Archie' Jones mewn cyfweiliad gydag Elin Gwyn 17/07/11.

⁵⁶⁴ As I walked out on the streets of Laredo.

As I walked out on Laredo one day,
I spied a poor cowboy wrapped in white linen,
Wrapped in white linen as cold as the clay.

"I can see by your outfit that you are a cowboy."
These words he did say as I boldly walked by.
"Come an' sit down beside me an' hear my sad story.
"I'm shot in the breast an' I know I must die."

Johnny Cash. 'Streets of Laredo' *American IV: The Man Comes Around*. American Recordings Company. 2002.

ddwy gân.⁵⁶⁵ Mae'r hen gowboi wedi cael ei saethu yn ei frest sydd yn cyfateb i silicosis yr hen chwarelwr. Mae hefyd lawer o symbolau o farwolaeth yn y ddwy gân. Mae ysa'r ddau hen ŵr i rybuddio'r gŵyr ifanc am fywyd fel cowboi/chwarelwr yn pwysleisio profiadau dychrynlyd y ddau hyn ac anwybodaeth yr ifanc wrth iddynt wrthod gwrando ar eu cyngor.

Mae 'The Streets of Bethesda' yn dilyn confensiynau caneuon y bröydd chwarelyddol, yn clodfori dewrder y chwarelwr, ac yn pwysleisio'r dioddefaint. Ond beth sy'n gwneud y gân hon yn wahanol i gynnyrch arferol yr ardaloedd yw ei bod yn gosod chwarelwyr mewn cyd-destun cyfoes. Mae Martin Beattie o Celt yn chwarelwr ei hun ac felly yn gynrychiolaeth fodern o weithwyr y diwydiant llechi. Mae'r ffaith hon hefyd yn cryfhau'r ddadl bod dylanwad y diwydiant llechi a thraddodiadau'r hen chwarelwyr yn parhau i effeithio ar gerddoriaeth y bröydd chwarelyddol.

Ysgrifennwyd cyfieithiad o 'The Streets of Bethesda' gan Gwynfor ab Ifor ar gyfer Hogia Llandegai a chyfansoddodd Neville Hughes alaw newydd iddi. Mae 'Strydoedd Bethesda' yn datblygu'r themâu ac yn ychwanegu at naws gyffredinol y gân trwy ymhelaethu ar y dioddefaint a'r bygythiad parhaus o farwolaeth a wynebai'r chwarelwyr:

Bu farw'r gwŷr ifanc a gwaed yn eu peswch,
A rhwygwyd eu cyrff yn y rwbel a'r baw.⁵⁶⁶

Mae'r penillion yn fwy cignoeth a brawychus na'r gwreiddiol. Mae'r gân hefyd yn cyfeirio at y bröydd chwarelyddol eraill:

A chofiwch Fethesda, Ffestiniog a Chorris,
Y llwch ar ysgyfaint a gwaed ar y cŷn.⁵⁶⁷

⁵⁶⁵ Mae 'Streets of Laredo' hefyd yn cael ei galw yn 'Cowboy's Lament'. Mae'n deillio o hen gân werin Saesneg, 'The Unfortunate Lad'. Mae 'The Streets of Laredo' wedi cael ei recordio gan nifer helaeth o artistiaid enwog gan gynnwys Johnny Cash, Willie Nelson, Burl Ives a John Cale.

⁵⁶⁶ Gwynfor ab Ifor, 'Strydoedd Bethesda' o *Hogiau Llandegai Y Llyfr* (Llangefni: Neville Hughes, 1996), t. 114.

⁵⁶⁷ Ibid.

Mae 'Strydoedd Bethesda' yn pwyslesio'n fwy na'r gwreiddiol mor fregus yw bywyd chwarelwr. Mae cyfres o ddelweddau erchyll yn disgrifio'r chwarelwyr yn cael eu lladd yn adlewyrchu'r ffordd mae trigolion y pentref wedi byw ers canrifoedd. Dyma gân gyda sawl fersiwn ac addasiadau ohoni, cân oesol sydd yn cadarnhau'r portread confensiynol o'r hen chwarelwyr ond gyda fersiwn Celt yn rhoi llais i chwarelwyr heddiw.

Grŵp arall sydd â'u gwreiddiau'n ddwfn yn nhraddodiadau'r bröydd chwarelyddol yw Bryn Fôn a'r band, neu Sobin a'r Smaeliaid gynt. Mae hyd yn oed yr enw 'smaeliaid' yn gyfeiriad at yr enw ar bobl o Lanllyfni. Mae eu cân, 'Quarry(Man's Arms)' yn gosod Dyffryn Nantlle yn y cyfnod ôl-ddiwydiannol wrth gydnabod cau'r chwareli. Mae'r gân hon am dafarn yn Llanllyfni ger Pen-y-groes ac yn rhoi darlun cyfoes o'r ardal honno:

Ydy mae'n wir bod chwareli y dyffryn 'di cau
Yr holltwr a'r haliwr 'di mynd i gwrdd ag angau.⁵⁶⁸

Mae'r gân yn mynegi balchder am draddodiadau'r gymdeithas ac yn galaru am y diwylliant sydd wedi ei golli wrth gau'r chwareli.

Ond er bod y gân yn hiraethu am gyfoeth diwylliannol y caban, mae ganddi neges gadarnhaol, sef bod y diwylliant hwnnw heb farw, ond yn hytrach, mae bellach yn byw yn nhafarn y Quarryman's Arms:

Yn y Quarry, os ti'n chwilio am fardd
Paid mynd yn rhy bell, mae'n nhw'i gyd rownd y bar.⁵⁶⁹

Mae hwn yn safbwynt cyfoes a byw o fywyd yn y bröydd chwarelyddol ac mae lle i gwestiynu ai herio ynteu cryfhau'r portread confensiynol o chwarelwr mae'r cwpled hwn. Gyda'r beirdd yn y dafarn, gellir dadlau bod hyn yn tanseilio'r darlun ystrydebol o ddiwylliant y bröydd chwarelyddol. Ond wrth blethu hanes y chwarel a'r ardal gyda chyfeiriadau at Llew Llaw Gyffes ac emynwyr a chrefyddwyr enwog o Ddyffryn Nantlle, mae 'Quarry(Man's Arms)' yn cyd-fynd â

⁵⁶⁸ Bryn Fôn, Meredydd Morris, 'Quarry(Man's Arms)' o Sobin a'r Smaeliaid, *Goreuon Sobin* (Caernarfon: Sain, 2005), trac 8.

⁵⁶⁹ Ibid.

thraddodiad barddol y fro. Dyma bortread o fro chwarelyddol ôl-ddiwydiannol lle mae diwylliant yr hen chwarelwyr wedi addasu gyda'r oes yn hytrach na diflannu a gellir dadlau bod Sobin a'r Smaeliaid eu hunain yn addasiad o draddodiadau cerddorol y chwarelwyr.

Mae 'Plwy Llanllyfni' yn adrodd hanes magwraeth Bryn Fôn a phwysigrwydd yr ardal iddo. Mae sŵn tincian yn y cefndir fel pe bai rhywun yn cerdded ar lechi a dywed y gân: 'Cerddais domenni o gerrig glas.'⁵⁷⁰ Mae 'Plwy Llanllyfni' yn pwysleisio'n gyson bwysigrwydd y llechen fel rhan o hanes a thirwedd ei fro: 'llechan las sydd tan fy mron.'⁵⁷¹ Dyma ddelwedd sy'n cyfleu'r cysylltiad cryf sydd gan bobl a fagwyd yn y bröydd chwarelyddol gyda phrif ddiwydiant eu bro. Mae'n cyfleu'r rhamant sydd yn gysylliedig â'r diwydiant llechi a'r berthynas arbennig sydd gan y brodorion gyda hanes eu hardaloedd.

Mae cân arall Sobin a'r Smaeliaid yn mynegi cariad at fro chwarelyddol. Mae 'Gwlad y Rasta Gwyn' gan Rhys Parry a Bryn Fôn yn disgrifio Dyffryn Ogwen yn yr 1980au a hiraeth Rhys Parry am ei fro enedigol:

Mae'r graig yn tynnu
Y dyffryn a'r llyn
A minnau wrth ddyfroedd fy Mabylon
Mae'r lechan las a'i hiraeth ynof i
Gwlad y Rasta gwyn.⁵⁷²

Mae'r llinell am y 'llechen las a'i hiraeth ynof fi' yn adleisio'r gwerthoedd sydd yn 'Plwy Llanllyfni' sef bod y llechen yn rhan o'r adroddwr. Mae'r gân yn chwarae ar gonfensiynau caneuon traddodiadol Dyffryn Ogwen a chaneuon *reggae*. Wrth ddefnyddu tirwedd y dyffryn a chyfeirio at Fabilon, mae'r ddau ddiwylliant yn cael eu plethu yn y gân hon.

Dywedodd Rhys Parry am gefndir y gân a bwrlwm cerddorol Dyffryn Ogwen yn yr 1980au:

Ar y pryd roedd yna gyffro a llawer yn mynd ymlaen yn gerddorol yn Nyffryn Ogwen gyda grwpiau fel, Maffia, Proffwyd, Draig, Chwys Plisman a Mwg. Roedd pawb yn 'nabod ei gilydd, yn gwneud drwy'i gilydd. Dyma

⁵⁷⁰ Bryn Fôn, 'Plwy Llanllyfni' yn *Sobin a'r Smaeliaid 1* (Sain: Caernarfon, 1990), trac 9.

⁵⁷¹ Ibid.

⁵⁷² Ibid.

mae'r gân amdano mewn difri, Bethesda yw lle y cychwynnodd petha i mi,
fy Ethiopia, fy nghartef.⁵⁷³

Mae'r gân hon felly yn canmol brawdgarwch Dyffryn Ogwen a cheir awgrym yn y gân fod cymdeithas glòs y chwarelwyr yn parhau i fodoli. Mae 'Gwlad y Rasta Gwyn' yn tynnu ar debygrwydd rhwng Bethesda ac India'r Gorllewin. Mae'r tebygrwydd rhwng y ddwy genedl wedi ei bwysleisio droeon ers hynny gyda gormes yr Arglwydd Penrhyn yn gysylltiad anffodus yn eu gorffennol.⁵⁷⁴ Mae'n pwysleisio'r cysylltiad rhwng y chwarelwyr a'r caethweision:

Mi welaf forthwyl a chŷn
A rhaff am wddw'r dyn.⁵⁷⁵

Yn gerddorol, mae'r gân yn efelychu'r dylanwad India'r Gorllewin trwy gael llinellau bâs pwerus, offerynnau pres a rap a hoffter y ddau ddiwylliant o ganabis. Mae'r gân yn adleisio'r thema o gaethiwed a phrotest sy'n rhan bwysig o gerddoriaeth *reggae*, ac ar ôl yr 1970au, yn rhan bwysig o gerddoriaeth Gymraeg hefyd.

Mae 'Dyddiau Caethiwed' gan Geraint Jarman yn pwysleisio'r un themâu ac mae'n wir mai caneuon protest yw llawer o'r caneuon *reggae* Cymraeg. Mae 'Gweithio ar Wyneb y Graig' gan Geraint Jarman yn defnyddio delweddau o'r diwydiant llechi i gyfleu rhwystredigaeth ac anghyfiawnder. Roedd Jarman ymhlith y cyntaf i ysgrifennu caneuon *reggae* Cymraeg, ac aeth ymlaen i ddylanwadu ar nifer o fandiau o'r un cyfnod fel Jecsyn Ffeif a bandiau diweddarach fel Anweledig.

Fel y dywedodd Rhys Parry, yn yr 1980au roedd Bethesda yn ganolbwynt i'r sîn roc Gymraeg a Maffia Mr Huws yn enwedig yn rhoi llais ifanc, newydd i'r ardal. Dywedodd Gwynfor Dafydd (cyn-reolwr Maffia Mr Huws a threfnydd Pesda Roc) fod y mwyafrif o ganeuon Maffia am yr ardal:

⁵⁷³ Rhys Parry a Bryn Fôn, 'Gwlad y Rasta Gwyn' yn *Goreuon Sobin* (Caernarfon: Sain, 2005), trac 6.

⁵⁷⁴ Roedd yn manteisio ar gaethwasiaeth Jamaica yn ei gaeau siwgr a phrynodd Chwarel y Penrhyn gyda'r elw.

⁵⁷⁵ Rhys Parry a Bryn Fôn, 'Gwlad y Rasta Gwyn' yn *Goreuon Sobin* (Caernarfon: Sain, 2005), trac 6.

Ella bod lot o'r caneuon am yr ardal mewn un ffordd neu'i gilydd, o leiaf yn anuniongyrchol, e.e. 'Cysylltiad' am drug-bust yn Carneddi, 'Ffrindiau' am hogyn ifanc o Pesda'n llosgi car a.y.y.b.⁵⁷⁶

Mae hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd Bethesda a'i dylanwad ar ganeuon y grŵp. Mae 'Chwarelwr' yn cyfeirio'n uniongyrchol at brif ddiwydiant y fro wrth ddisgrifio taith chwarelwr i'w waith: 'O wely cynnes ar fore oer/ o dŷ i odrau'r chwarel.'⁵⁷⁷ Dyma gân roc fywiog sy'n edmygu'r chwarelwr gweithgar, cydwbybodol.

Ysgrifennodd Gwynfor Dafydd a Dafydd Rhys 'Halen ar y Briw' ar gyfer Maffia Mr Huws. Dywed Gwynfor Dafydd am gefndir y gân:

Roedd Dafydd isio rhoi golau ar yr hanes cudd am y streic, a'r cyswllt hefo Pesda'r 1980au, a'n bod ni'n dal i gael ein camdrin a'n ecsplôitio gan lywodraeth Prydain a'r system gyfalafol gwblw ffaidd oedd y llywodraeth yn annog ar y pryd. Cân negyddol ac anobeithiol ydi hi, oherwydd ei bod yn gân am ddiwedd Cymru a diwedd ein cymunedau.⁵⁷⁸

Gyda gwleidyddiaeth cyfnod Thatcher yn gefndir i'r gân, maent yn tynnu ar gyffelybiaethau rhwng anghfiawnderau'r hen chwarelwyr ar ddechrau'r 1900au a chymdeithas Bethesda yn yr 1980au. Dywed Carol Wyn Edwards: 'Mae Dyffryn Ogwen yn un o'r ardaloedd prin hynny lle er gwaethaf popeth, ac efallai oherwydd popeth, mae cerddoriaeth wedi ffynnu.'⁵⁷⁹ Yn aml iawn, dicter at anghyfiawnderau yw'r egni y tu ôl i ganeuon y fro. Mae hyn yn arbennig o wir am yr 1980au pan oedd Cymru yn wynebu ton newydd o fgythyadau gwleidyddol, sef cau'r pyllau glo a diweithdra difrifol.

Mae 'Halen ar y Briw' yn lleisio dicter y Dyffryn a'r genhedlaeth honno at y ffordd roedd pobl yn parhau i ddioddef anghyfiawnderau:

⁵⁷⁶ Gwynfor Dafydd mewn cyfweiliad gydag Elin Gwyn 17/07/11.

⁵⁷⁷ Maffia Mr Huws, 'Chwarelwr' ar gael yma:

<http://www.youtube.com/watch?v=vQkCds030WQ> 6 Mai, 2010.

⁵⁷⁸ Gwynfor Dafydd mewn cyfweiliad gydag Elin Gwyn 17/07/11.

⁵⁷⁹ Carol Wyn Edwards, 'Dathlu doniau cerddorol Dyffryn Ogwen' yn *The Free Library* ar <http://www.thefreelibrary.com/Dathlu+doniau+cerddorol+Dyffryn+Ogwen%3B+Caron+Wyn+Edwards+sy'n+clywed...-a0131097190> Awst 2011.

Be' ddigwyddodd i blant Streic Fawr mil naw cant?
Be' ddigwyddodd i blant y Streic Fawr?
'Dan ni'n dygnu byw hefo'r halen ar y briw,
'Dan ni'n dygnu byw, gorfod sefyll yn y ciw.⁵⁸⁰

Mae'r ddelwedd o halen ar y briw yn gyfeiriad at effaith colli streic fawr y Penrhyn a chreithiau'r anghydfod. Yn ôl y gân, mae'r genhedlaeth bresennol yn parhau i ddioddef anghyfiawnderau ac mae Bethesda yn parhau i fod ynghlwm wrth effeithiau'r streic a gormes Lloegr:

Hwyl fawr Arglwydd Penrhyn,
Hwyl fawr MBZ, oddi wrth eich gweision,
Aeth chwys a gwaed ein pobol,
I lenwi poced estron.⁵⁸¹

Mae 'Halen ar y Briw' yn portreadu disgynyddion streicwyr y Penrhyn ac yn darlunio cymdeithas chwarelyddol lle mae ysbryd gwrthryfelgar eu cymdeidiau'n angof. Dyma bortread a chanddo neges bwerus am ddifaterwch pobl ifanc y fro tuag at orthrwm ac anghyfiawnderau eu hoes.

Grwpiau eraill o Ddyffryn Ogwen yn yr 1970au-1980au oedd Brân, Proffwyd, India, Chwd Poeth, Offspring, Masnach Rydd, Chwarter i Un, Iwcs a Doyle, Jina, Draig, Chwys Plisman, Marchog, Y Jecsyn Ffeif, Machlud, Mwg, Weiran Bigog, Tynal Tywyll, Williams, Ffa Coffi Pawb a Celt. Mae'n amlwg o'r rhestr hon fod bwrlwm mawr yn y cyfnod. Arweiniodd y bwrlwm cerddorol yma at sefydlu gŵyl gerddorol boblogaidd, Pesda Roc. Ysgrifennodd Llion Williams am Pesda Roc '83 yn *Sgrech*, cylchgrawn Cymraeg am y sîn gerddorol yng Nghymru: 'Tyfodd y pentra chwarel hwn, sy'n dioddef yn arw o dan effeithiau diweithdra, yn Feca'r byd roc Cymraeg.'⁵⁸² Ceir argraff yn *Sgrech* a *Sothach!* o lewyrch cerddorol yr ardal sy'n gyferbyniad llwyr i'r dirywiad diwydiannol ac economaidd.

⁵⁸⁰ Gwynfor Dafydd a Dafydd Rhys, 'Halen ar y Briw', Maffia Mr Huws, *Croniclau'r Bwthyn Goreuon Maffia Mr Huws* (Sain: Caernarfon, 2008), trac 10.

⁵⁸¹ Ibid.

⁵⁸² Llion Williams, 'Blwyddlyfr Sgrech '83' yn Gol. Glyn Tomos, *Byw y Freuddwyd Sgrech 1975-1983* (Gwasg Carreg Gwalch: Llanrwst, 2005), t. 62.

Dywedodd Gwynfor Dafydd fod Pesda Roc wedi cael ei sefydlu yn haf 1983 'oherwydd y diweithdra oedd yn yr ardal ar y pryd.'⁵⁸³ Nid oedd sefydlu Pesda Roc yn ymateb i'r bwrlwm cerddorol yn unig felly ond hefyd i'r diffyg swyddi a phryder am ddyfodol Cymru. Dywed Gwynfor Dafydd:

Mae'n wir ein bod isio codi dau fys at bawb. Ar Maggie Thatcher a'r Toriaid a'r sefydliad Cymraeg hefyd. [...] Nathon ni neud w bath cw bwl anti-establishment, jyst cael cefn lori a gosod scaffold a tarpolins rownd y fo a cynnal gŵyl mewn cae, a toedd na neb yn gallu ein stopio adeg yna. Ti angen trwydded rwan i wneud unrhywbeth. Gwyliau rŵan yn hollol o fewn y sefydliad a jyst yn cynnal y status quo.⁵⁸⁴

Roedd agenda wleidyddol felly tu ôl i sefydlu'r ŵyl. I ryw raddau, roedd Pesda Roc yn rhoi darlun cyfoes o Fethesda, gŵyl a oedd yn mynegi anniddigrwydd disgynyddion y streicwyr yng nghanol cyfnod Thatcher pan oedd Cymru yn cael ei hisraddio.

I ddathlu can mlynedd ers i'r streic yn Chwarel y Penrhyn ddod i ben, penderfynwyd atgyfodi Pesda Roc yn 2003. Cyfansoddwyd cân ar gyfer yr achlysur gan Ed Holden, 'Cofio Streic y Penrhyn,' a daeth streicwyr Friction Dynamics ar y llwyfan gan bwysleisio bod anghyfiawnderau yn parhau i orthrymu gweithwyr gogledd Cymru. Dyma barhad o weledigaeth wreiddiol Gwynfor Dafydd a chriw Pesda Roc 1983. Yn 2011 cynhaliwyd Pesda Roc er cof am Les Morrison, cerddor a wnaeth lawer i hybu cerddoriaeth yr ardal a darlledwyd yr ŵyl ar S4C. Ym Mhesda Roc y flwyddyn ganlynol gwerthwyd crysau-t gyda'r slogan, 'Nid Oes Bradwr yn y Crys-T Hwn.' Dyma adlewyrchiad o ddyllanwad y streic ar gymdeithas bresennol y fro a'r ffordd mae'r hanes yn cael ei weld fel rhan bwysig o hunaniaeth Bethesda hyd heddiw. Yn 2013, dathlodd Pesda Roc ei phen-blwydd yn 30 oed gyda gŵyl wedi ei threfnu gan y trefnwyr gwreiddiol a Maffia Mr Huws yn brif act fel yr oeddynt yn 1983.

Yr un fath â Pesda Roc yn Nyffryn Ogwen, roedd Padarn Roc yn Nyffryn Peris yn yr 1980au yn rhan o adwaith cerddorol y bröydd chwarelyddol. Yn ddiweddarach cynhaliwyd Gŵyl Car Gwyllt ym Mlaenau Ffestiniog fel dathliad o

⁵⁸³ Gwynfor Dafydd mewn cyfweliad gydag Elin Gwyn 17/07/11.

⁵⁸⁴ Ibid.

dreftadaeth y fro, gydag enw sy'n gyfeiriad uniongyrchol at y chwarel. Dilynwyd yr ŵyl hon gan Drum House Fest yng Ngheudyllau Llechwedd a oedd yn dathlu chwaraeon eithafol y fro yn ogystal â'i cherddoriaeth. Cafodd Gŵyl Gardd Goll ei chynnal yng Nglynllifon, ac Ystâd y Faenol ynghyd â Gŵyl y Faenol. Roedd rhai yn gweld elfen o eironi yn hyn wrth i'r Cymry ailfeddiannu tiroedd perchnogion y chwareli. Yn wir, pan gynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol Bangor ac Eryri, 2005 yn y Faenol fe leisiwyd yr eironi hwnnw'n gelfydd yn y sioe 'Wil wrth y Wal' gan Angharad Tomos, fel y nodwyd eisoes.⁵⁸⁵

Yn ystod haf 2003, roedd yn briodol bod noson olaf Pesda Roc yn cael ei chloi gan y grŵp mwyaf llwyddianus o'r ardal, y Super Furry Animals. Datblygodd y Super Furry Animals o grwpiau amrywiol o Fethesda yn yr 1980au gan gynnwys Machlud a Ffa Coffi Pawb. Aeth Gruff Rhys a'r Super Furry Animals ymlaen i gael llwyddiant rhyngwladol. Mae eu caneuon yn seicadelig ac yn aml yn archwilio profiadau gyda chyffuriau ac yn beirniadu diwylliant y 'celebrity'. Ond mae rhai o ganeuon y Super Furry Animals yn deimladwy a chanddynt fwy o ddyfnder. Mae 'Gathering Moss' yn disgrifio tlodi a'r profiad o fod ar y dôl:

Fields of industry
Death by misery
You and I are idly
You and me are idly
Gathering moss⁵⁸⁶

Mae'r gân hon yn gosod Cymru yn y cyfnod ôl-ddiwydiannol ac yn adlewyrchiad o ddylanwad diweithdra ar gerddoriaeth Gymraeg gyfoes ac yn adleisio bandiau'r bröydd chwarelyddol yn yr 1980au.

Mae 'Mountain People' yn mynegi'r ffordd y mae Cymru yn cael ei hanwybyddu gan lywodraeth a chyfryngau Lloegr. Dywedir:

Because
They don't care about
You and me

⁵⁸⁵ Angharad Tomos, 'Wil Wrth y Wal: Ailfeddiannu'r Faenol' ar wefan BBC:

<http://www.bbc.co.uk/cymru/gogledorllewin/safle/eisteddfoderyri/pages/wilwrthywal.shtml> Awst, 2005.

⁵⁸⁶ Gruff Rhys, Super Furry Animals, 'Gathering Moss' o Fuzzy Logic (Creation, 1996), trac 6.

Obviously
Hand-me-down
Culture
Waiting for the vulture
Yes-yes-yes
We're the mountain people.⁵⁸⁷

Mae'r disgrifiad 'hand-me-down/ Culture' yn bwerus wrth gyfleu dylanwad diwylliant Lloegr ar Gymru gyfoes ac yn pwysleisio agwedd ddilornus y Saeson tuag at y Cymry. Mae'r Cymry'n cael eu portreadu fel 'Mountain People' gan gyfryngau Lloegr, pobl sy'n byw yn ôl yr hen drefn ac yn fygythiad i'r weledigaeth o Brydain fodern. Wrth chwarae gyda'r darlun sarhaus hwn, mae'r Super Furry Animals yn adleisio agwedd grwpiau fel Maffia Mr Huws a oedd wedi digio gyda'r llywodraeth Brydeinig.

Yn Nyffryn Nantlle'r 1980au, roedd bandiau fel Maraca, Wenfflam a Trydan yn enwedig ymhlith y grwpiau Cymraeg cyntaf i ganu am ddiweithdra gogledd Cymru. Roedd Ap Ted a'r Apostolion yn boblogaidd tua diwedd yr 1990au a'r Stealth Hwfyrs yn aml yn eu cefnogi'n lleol. Mae'r traddodiad clasurol yn gryf yn Nyffryn Nantlle; o'r fro hon y daw y bariton byd enwog, Bryn Terfel a hefyd y tenor, John Eifion. Yn yr 1990au hefyd roedd Topper yn llwyddiannus ar draws Cymru ac aethant ymlaen i fod yn aelodau o fandiau Euros Childs, Mr Huw, Gruff Rhys, Dyfrig Evans a Gorky's Zygotic Mynci.

Mae bandiau lleol diweddarach yn cynnwys; Strymdingars, Baban Sgwiral, Y Promatics a Clockwork Radio. Mae Y Rhacs ac Y Reu yn fandiau ifanc, newydd o Ddyffryn Nantlle ac mae Y Reu wedi eu henwebu ar gyfer gwobrau 'Band Newydd y Flwyddyn' a 'Record Fer Orau' Y Selar yn 2014. Mae Afal Drwg Efa yn fand electronig o Ddyffryn Nantlle gydag enw sy'n gyfeiriad at hunangofiant Caradog Prichard, a thrwy hynny'n creu cysylltiad rhwng y bröydd chwarelyddol. Mae *Un Nos Ola Leuad* hefyd wedi ysbrydoli cerddorion gan gynnwys cân o'r un enw gan Endaf Emlyn. Mae'r gân yn adlewyrchiad o themâu tywyll y nofel o'r un enw:

Mi glywaf lais yn galw arnaf i

⁵⁸⁷ Gruff Rhys, Super Furry Animals, 'Mountain People' o *Radiator* (Creation, 1997), trac 14.

I fynd i foddi meiau i gyd yn nyfroedd oer llyn du.⁵⁸⁸

Dyma enghraifft o wahanol agweddau ar ddiwylliant y gymdeithas chwarelyddol yn dylanwadu ar ei gilydd.

Mae gan Ddyffryn Peris fandiau cyfoes poblogaidd. Rwyf eisoes wedi cyfeirio at Padarn Roc a ddenodd dorf o 5000 yn 1980 gyda Jaffync o'r ardal yn brif act. Roedd Caban yn boblogaidd o'r 1990au ymlaen ac mae eu henw yn amlwg yn gyfeiriad uniongyrchol at y diwydiant llechi a'r symbol o ddiwylliant yr hen chwarelwyr. Mae Brigyn, a ddatblygodd o'r grwp Epitaph, yn boblogaidd ynghyd â Masters in France sydd wedi ennill sylw cenedlaethol yn dilyn eu hysbyseb gydag IKEA. Roedd Gogz, The Heights a Derwyddon Dr Gonzo yn boblogaidd yn y 2000au. Mae Derwyddon Dr Gonzo bellach wedi rhoi'r gorau iddi, ond mae rhai aelodau'n mentro ar brosiectau cerddorol newydd gan gynnwys Ifan Dafydd sydd yn prysur gwneud enw iddo'i hun yn genedlaethol.

Ym Mlaenau Ffestiniog, roedd bandiau fel The New Majestics, Cylchoedd Hud a Mistecs yn boblogaidd yn yr 1980au ac yn ddylanwad ar fandiau diweddarach fel Anweledig a Twmffat. Grwpiau eraill o'r ardal oedd yn boblogaidd yn yr 1980-90au oedd Carreg Ateb, Y Frigad Dan, Rhech Atomig, Aeram, Twm Cetyn ac Arwel Gruffydd. Mae Vates yn fand *reggae/ska* sy'n perfformio'n lleol gan amlaf gyda Dewi Prysor yn brif leisydd ac mae Dau Boi o Blaenau yn fand hip hop/rap.

Sefydlwyd CellB yn hen adeilad yr heddlu ac mae'n lleoliad sy'n hybu bandiau ifanc newydd fel Sŵnami ond sydd hefyd yn llwyddo i ddenu artistiaid *reggae* enwog gan gynnwys Julian Marley, un o feibion Bob Marley. Mae CellB wedi llwyddo i greu bwrlwm cerddorol ym Mlaenau Ffestiniog ac yn enghraifft o'r ffordd mae'r fro yn adnewyddu hen adnoddau i hybu creadigrwydd. Mae stiwdio recordio Gai Toms, Sbensh, yn enghraifft arall o hyn, nid yn unig wrth iddo droi hen gapel yn stiwdio recordio, ond oherwydd iddo greu ei albwm, *Rhwng y Llygru a'r Glasu*, o ddeunyddiau wedi eu hailgylchu.

Mae 'Heddiw' gan Gai Toms o *Rhwng y Llygru a'r Glasu* yn rhestru'r dirywiad ym Mlaenau Ffestiniog:

⁵⁸⁸ Endaf Emlyn, 'Un Nos Ola Leuad' o *Dilyn y Graen* (Recordiau Sain, 2001), trac 36.

Heddiw, mae'r iaith yn fain, ac ar yr iard, dio'm yn dawnsio'n y gwynt,
Mae'r ymwybyddiaeth yn mynd, fel rhywogaethau prin.
Heddiw, mae'r henoed yn mynd, ac yn eu lle, cawn estroniaid,
Mae'r capel ar werth, mae 'di mynd i'r diawl!⁵⁸⁹

Mae mynegi siom yn mhresennol y bröydd chwarelyddol yn thema gyffredin yng ngweithiau llenyddol yr ardaloedd. Yn debyg i'r awduron hynny, mae Gai Toms yn gweld dirywiad ac yn hiraethu am oes aur y diwydiant llechi. Ond mae caneuon eraill Gai Toms o dan yr enw 'Mim Twm Llai' yn llawer mwy rhamantus wrth ddisgrifio ei fro a'i fagwraeth. Yn *Straeon y Cymdogion*, mae'r gân 'Cwmorthin' yn disgrifio llechen lle cerfiodd ei enw pan oedd yn blentyn sydd yn parhau i fod yn lloches iddo.⁵⁹⁰ I Gai Toms, mae holl lechi chwarel Cwmorthin yn tystio i waith ei gyn-deidiau ac mae'r thema o barhad yn gryf yn ei ganeuon.

Mae'r ardal a gaiff ei phortreadu yn ei ganeuon yn llawn hud a hen straeon. Yn 'Gwe Pry Cop Tom' dywed:

Hen swyddfa chwarel yn y coed ger yr afon
Ond rwan mae Ceunant yn dŷ i Tom. [...]
Ac yn ôl y sôn, yn ôl y cymdogion
Mae 'na ysbryd ceffyl a throl ar y lân.⁵⁹¹

Mae hanes y chwarel yn ymddangos ym mhob cwr o'i ganeuon a rhamant y lle yn fyw yn ei ddisgrifiadau. Ysgrifennodd Iwan Llwyd adolygiad o *Rhwng y Llygru a'r Glasu*: 'This recent release shows the continuing influence of quarrying communities.'⁵⁹² Mae hynny'n amlwg yn bwysig i Gai Toms wrth iddo gyfeirio'n aml at ddylanwad y chwarel ar ei fywyd yn ei ganeuon. Cyfansoddodd 'Y Ddinas Gadarn' ar y cyd gyda Gwyn Thomas, cân sy'n llawn cyfeiriadau at y diwydiant llechi a thirwedd yr ardal. Y gân fwyaf perthnasol sydd gan Gai Toms i'r astudiaeth hon yw'r gân 'wbanCrw' sydd wedi ei hysgrifennu yn arddull *backslang* y chwarelwyr. Roedd *backslang* yn boblogaidd ymysg chwarelwyr y

⁵⁸⁹ Gai Toms, 'Heddiw', *Rhwng y Llygru a'r Glasu* (Blaenau Ffestiniog: Sbenish, 2008), trac 7.

⁵⁹⁰ Mim Twm Llai, 'Cwmorthin' o *Straeon y Cymdogion* (Caernarfon: Sain, 2005), trac 4.

⁵⁹¹ Mim Twm Llai, 'Gwe Pry Cop Tom' o *Straeon y Cymdogion* (Caernarfon: Sain, 2005), trac 10.

⁵⁹² Iwan Llwyd, *Planet, The Welsh Internationalist*. Issue 192. Dec 08, t. 28.

Blaenau'n enwedig ac mae'n iaith sy'n gosod hanner olaf y geiriau ar y dechrau. Dyma deyrnged uniongyrchol i ddiwylliant yr hen chwarelwyr.

Roedd Gai Toms yn aelod o'r grŵp poblogaidd, Anweledig. Maen nhw'n enwog am eu cyfeiriadau at ddylanwad y chwarel ar eu bywydau. Y llinell enwocaf, mae'n siŵr, yw: 'Rioed 'di gweithio'n chwarael,/ ond gennai lechan yn y gwaed.'⁵⁹³ Dyma adlais o 'Plwy Llanllyfni' a 'Gwlad y Rasta Gwyn' gan Sobin a'r Smaeliaid a sentiment sy'n cyfleu'r cysylltiad rhamantus rhwng y trigolion a hanes diwydiannol y fro. Er nad yw aelodau Anweledig (na Sobin a'r Smaeliaid) erioed wedi gweithio yn y chwarel eu hunain, maent yn teimlo cysylltiad cryf gyda'r diwydiant llechi. Mae 'Dawns y Glaw' yn awgrymu bod hanes yr ardal yn rhan o'u magwraeth:

Mae 'na ysbryd yn hanes y doman,
Sy' wedi cadw ni'n sych ac yn gadarn
Ali bach yn hollti yn Llechwedd,
A Joni'n hollti carreg at ei angladd.⁵⁹⁴

Ceir yr argraff na ellir byw ym Mlaenau Ffestiniog heb fod yn ymwybodol o hanes y chwarelwyr a'u diwylliant. Mae'r gân yn disgrifio 'llwch y llechi glas yn fy sodla'⁵⁹⁵ sydd yn awgrymu bod gwreiddiau'r grŵp yn y llechi. Ymddengys, yn ôl y caneuon hyn, fod dylanwad y chwarel yn rhan annatod o fywyd a cherddoriaeth y fro.

Mae '6.5.99' o'r albwm *Gweld y Llun* yn cyfeirio at streic chwarel y Penrhyn:

Fel caethweision Yr Arglwydd Penrhyn ynghlwm wrth y graig... a dyma wnaeth nhw, deffro rhyw fora a gweld dyn mud a dall, a meddwl am eiliad, a ydyn nhw'n gall i ddi-ystyru miliyna' o eneidia' gwych, a rhannodd, cyfoethogrwydd, dysgodd i ni i beidio â phlygu a derbyn yr hyn sydd yn iawn i'r lleiafrif... mae'n hen bryd deffro.⁵⁹⁶

⁵⁹³ Anweledig, 'Graffiti Cymraeg' o *Gweld y Llun* (Caernarfon: Sain, 2001), trac 2.

⁵⁹⁴ Anweledig, 'Dawns y Glaw' o *Sombreros yn y Glaw* (Caernarfon: Sain, 1998), trac 8.

⁵⁹⁵ Ibid.

⁵⁹⁶ Anweledig, '6.5.99', *Gweld y Llun* (Crai, Sain: Caernarfon, 2001), trac 5.

Mae'r gân yn rhestru anghyfiawnderau yn erbyn Cymru ac yn galw am chwyldro gyda hanes streic Chwarel y Penrhyn yn cael ei ddefnyddio fel symbol o wrthryfel. Mae Anweledig ynghyd â nifer o'r grwpiau yr wyf eisoes wedi cyfeirio atynt yn tystio bod grwpiau Cymraeg yn tueddu i gario agenda wleidyddol wrth iddynt gael eu magu yn ymwybodol o'r bygythiadau sy'n wynebu'r iaith Gymraeg ac, o ganlyniad, y diwylliant Cymreig. Dyma hefyd brofi bod dylanwad hanes y diwydiant llechi yn parhau i gael cryn effaith ar gerddoriaeth gyfoes y bröydd.

Rhai o'r grwpiau eraill o Flaenau Ffestiniog yw Estella, Bob, Yr Anhygoel, Frizbee, Gwibdaith Hen Frân, Sŵnami a'r Llwybr Llaethog sy'n parhau i berfformio ers yr 1980au. Ym Mhenmachno defnyddir hen chwarel i gynnal dawnsfeydd 'rave' yn aml ac mae twf newydd o artistiaid o'r fro gan gynnwys Dan Amor a'r grŵp Sen Segur sy'n cyfansoddi caneuon roc seicadelig. Mae Twnal Tywyll, Tregarth, sef hen lwybr rheilffordd y chwarel yn cynnal 'raves' yn achlysurol a bu traddodiad o ddawnsfeydd disgo ers yr 1970au yn yr ardaloedd cyfagos i Blaenau Ffestiniog. Roedd Mici Plwm o Lan Ffestiniog a Dafydd Gwyndaf o Benmachno yn cynnal disgos poblogaidd. Ymddengys fod hyn nid yn unig yn ymateb i'r galw am ddisgos i'r bobl ifanc, ond hefyd yn hybu dyfodol yr iaith Gymraeg.

Mae traddodiadau cerddorol y bröydd chwarelyddol wedi datblygu gyda'r oes, a bellach mae sawl stiwdio recordio safonol yn yr ardaloedd. Mae nifer o fandiau enwog wedi recordio ym Mryn Derwen, cyn-gartref prif oruchwyliwr Chwarel y Penrhyn. Mae'r stiwdio wedi ennill sylw a sawl gwobr ryngwladol am waith cynhyrchu Dave Wrench. Mae Stiwdio Un yn Rachub hefyd yn boblogaidd ymysg artistiaid Cymraeg a rhyngwladol. Mae gan Sain wreiddiau dwfn yn Nyffryn Nantlle ynghyd â Stiwdio Crychddŵr, Llanllyfni, ac mae Sbensh o Flaenau Ffestiniog yn recordio a chynhyrchu cerddoriaeth mewn hen gapel wedi ei adnewyddu.

Mae twf newydd o fandiau wedi dechrau ym Methesda; bron nad oes ail oes aur yng nghanerddoriaeth y fro. Mae 9bach yn rhoi bywyd newydd i hen ganeuon gwerin a cherddi traddodiadol yr ardal. Mae Hoax Emcee yn rapiwr sy'n sôn am frwydr yr iaith Gymraeg a'r bygythiad y mae'n ei hwynebu wrth i Saeson symud i Fethesda. Mae Memory Clinic a The Chillingtons yn fandiau lleol sydd wedi eu sefydlu gan feibion Les Morrison. Mae Yr Oen, Wyrlligigs, Vintage Magpie, Eilir

Pierce, Efa Supertramp, Santiago ac Y Niwl hefyd yn enghreifftiau o fandiau diweddar sydd â gwreiddiau dwfn yn nhraddodiad cerddorol y fro, yn ogystal â Ceffylau Lliwgar sy'n fand newydd wedi ei greu gan gyn-aelodau Maffia Mr Huws. Mae Steve Eaves yn parhau i gynhyrchu cerddoriaeth Blŵs ers deugain mlynedd ac mae ei ferched, Lleuwen Steffan (gynt o Acoustique) a Manon Ros (Blodau Gwylltion) yn gynhyrchiol hefyd. Mae band ifanc, lleol, Chwalfa, yn enghraifft o ddylanwad llenyddiaeth y bröydd chwarelyddol ar gerddoriaeth.

Mae Radio Rhydd yn fand roc ifanc a sefydlwyd yng ngweithdai Pesda Roc ac a aeth ymlaen i ennill Brwydr y Bandiau Pesda Roc yn 2012. Maent yn adleisio gwerthoedd bandiau Bethesda'r 1980au trwy eu hagwedd at wleidyddiaeth a diweithdra ac yn lledaenu neges o anarchiaeth, chwyldro a gwrthryfel. Mae'n ddiddorol nodi hefyd fod Anthony Roberts o'r band yn gweithio yn Chwarel y Penrhyn gyda'i dad, a oedd yn aelod o nifer o fandiau ym Methesda'r 1980au-90au. Mae'n ddiddorol cwestiynu ai dioddefaint economiadd sy'n gyfrifol am y twf newydd hwn yng ngherddoriaeth Bethesda? Gyda diweithdra'r 1980au yn ysbrydoli bandiau fel Trydan, Maffia Mr Huws a llu o artistiaid eraill, a yw dirwasgiad y ganrif hon yn cael yr un dylanwad ar gerddorion?

Os felly, gellir dadlau mai dylanwad ôl-ddiwydiannol sydd ar y grwpiau hyn, yn hytrach na dylanwad traddodiadau'r hen chwarelwyr. Mae llefydd fel Sheffield a Detroit yn enghreifftiau enwog o ddinasoedd ôl-ddiwydiannol lle mae creadigrwydd a cherddoriaeth yn ffynnu. Ond oherwydd y gellir olrhain traddodiad cerddorol Bethesda, a gweddill y bröydd chwarelyddol, yn ôl i'r 1800au, credaf ei fod yn gyfuniad o ddylanwadau cyfoes ôl-ddiwydiannol a gwreiddiau cerddorol yr ardaloedd hyn. Efallai bod y cyfnod ôl-ddiwydiannol yn ddylanwad cryfach ar fandiau sy'n herio confensiynnau: Maffia Mr Huws, Super Furry Animals a Radio Rhydd er enghraifft. Tra mae hen draddodiadau cerddorol y chwarelwyr yn gryfach ar gerddorion mwy traddodiadol fel Hogia'r Wyddfa, Hogia Llangygái a John ac Alun.

Mae'r diwydiant llechi a diwylliant y chwarelwyr ynghlwm yng nghof cyfredol y genedl. Mae'r ffaith fod 'Cerdd yr Hen Chwarelwr' gan W. J. Gruffydd a ysgrifennwyd yn 1902 yn parhau i gael ei pherfformio gan Hogia'r Wyddfa yn tystio cyn lleied y mae'r portread hwnnw'n cael ei gwestiynu. Dros ganrif yn ddiweddarach, yr un yw'r portread a gawn yn 'Y Chwarelwr' gan John ac Alun

neu 'The Streets of Bethesda' gan Celt. Mae hyn yn dweud cyfrolau am y graddau y mae myth y chwarelwr wedi ei dderbyn, ond hefyd am draddodiad cerddorol y bröydd chwarelyddol.

Mae'r portread a geir o chwarelwyr a'u bro yng ngherddoriaeth yr ardaloedd yn cadarnhau myth y chwarelwr. Dyma ganeuon sy'n atgyfnerthu'r darlun confensiynol a geir mewn barddoniaeth a rhyddiaith. Yn ogystal, o ganlyniad i'r ffaith fod y mwyafrif o'r caneuon hyn yn cyflwyno'r un portread o'r ardal, ei chymdeithas, a gweithwyr y diwydiant llechi, gellir gweld cymaint y mae'r cerddorion yn dylanwadu ar ei gilydd. Er bod deugain mlynedd ers i'r mwyafrif o'r chwareli gau, mae dylanwad y diwydiant llechi yn fyw yn niwylliant y bröydd ac mae'r portread a geir mewn llenyddiaeth ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf yn parhau i gael ei ailadrodd a'i atgyfnerthu hyd heddiw.

Pennod 7: Celf - Portreadu a Dehongli'r Bröydd Chwaryddol

Nid oes gan y beirdd sy'n ysgrifennu am y chwaryli lawer o edmygedd tuag at edrychiad y creithiau enfawr ar y tir. Mae'r tomennydd rwbwl wastad yn cael eu portreadu fel staen sy'n difetha prydfwrthwch y fro. Ond beth am gelf y bröydd chwaryddol? A yw artistiaid yn ceisio arddangos safbwynt gwahanol? A ydynt yn gallu cyfleu prydfwrthwch olion y diwydiant llechi? Bydd y bennod hon yn archwilio'r modd y caiff y bröydd chwaryddol a'r diwydiant llechi eu portreadu mewn celfyddyd weledol trwy amrywiaeth o arddulliau a themâu.

i) Y Llechen

Mae'r llechen wedi cael ei defnyddio fel deunydd adeiladu ers canrifoedd. Mae'n debyg mai'r Rhufeiniaid oedd y cyntaf i wneud defnydd o'r llechen ddwy fil o flynyddoedd yn ôl wrth greu Segontium yng Nghaernarfon. Ers hynny mae'r llechen wedi bod yn rhan annatod o dirlun ac adeiladau'r bröydd chwaryddol a thu hwnt. Ond beth am ddefnydd creadigol o'r graig? Un enghraifft enwog yw'r gwely wedi ei wneud o lechen ar gyfer ymweliad y Frenhines Fictoria â Chastell y Penrhyn yn 1859. Mae'n pwyso tunnell, a dywedwyd iddo fod yn hynod o anghyfforddus, ond er hynny, ni ellir ond edmygu'r crefftwaith. Yng Nghastell y Penrhyn hefyd mae bwrdd biliards wedi ei greu o lechi. Mae'r enghreifftiau hyn yn cyfleu'r gwahanol ddefnydd o'r llechen yn ôl yn Oes Fictoria.⁵⁹⁷

⁵⁹⁷ Ar feddrod yr Arglwydd Penrhyn (Richard Pennant, 1820) mae cerfiadau ar farmor sy'n dangos y werin yr oedd yn feistr arnynt. Crewyd y gofeb gan Richard Westmacott ac mae *vignette* yn portreadu'r broses chwarydda. Mae hefyd ddarlun o gwpl gwerinol yn galaru am eu meistr fel cynrychiolaeth honedig o bobl Bethesda. Mwy o wybodaeth ar gael yma: Peter Lord, *Y Gymru Ddiwydiannol* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1998), t. 76.

Arferai'r chwarelwyr eu hunain wneud defnydd creadigol o'r llechen.⁵⁹⁸ Mae ymchwil Amgueddfa Bangor wedi canfod cannoedd o enghreifftiau o lechi sy'n dyddio o 1823. Mae *Llechi Cerfiedig Dyffryn Ogwen* yn arddangos llechi wedi eu haddurno â phatrymau cywrain. Gan amlaf llechi o amgylch llefydd tân ydynt gydag amrywiaeth o luniau arnynt. Mae'r cerfiadau a ddarganfuwyd yn Nyffryn Ogwen yn adlewyrchu parch y chwarelwr at y llechen wrth iddi gael ei haddurno a chael lle blaenllaw yn ei gartref. Cyflëir hefyd ddiddordebau'r chwarelwyr a gwerthoedd yr oes, yn ôl Gwenno Caffell:

Y dyluniadau llawrydd mwyaf poblogaidd yw ffurfiau planhigion, patrymau llygaid y dydd, adar, adeiladau o fythynnod i gestyll, dodrefn o'r ddeunawfed ganrif, clociau, calonnau, cerddoriaeth, a phatrymau cregyn yn y corneli.⁵⁹⁹

Ceir sawl enghraifft o ddiddordeb mewn seryddiaeth a chytserau, byd natur, adeiladau a cherddoriaeth yn enwedig. Maent yn arddangos gwybodaeth eang am y byd a'r bydysawd, ond ceir hefyd gerfiadau sy'n tanseilio'r darlun rhamantus hwn o'r werin ddiwylliedig wrth i ambell lechen arddangos poteli o 'RYM' a sawl gwydr gorlawn o win!

Ysgrifenna Gwenno Caffell am ei phrofiadau gyda'r bobl leol wrth gofnodi'r cerfiadau:

Mae rhyw amharodrwydd rhyfedd i'w gwerthfawrogi hyd yn oed heddiw, a'r ymateb lleol nodweddiadol iddynt yw mai dim ond 'dynion cyffredin wnaeth nhw' neu 'dim ond pobl leol gerfiodd nhw.' Ac eto mae'r cerfiadau yn dangos pobl a oedd yn llawn hyder yn eu hunain, ac mae colli gwerthfawrogiad y genhedlaeth bresennol o'u diwylliant lleol yn golled ynddi'i hun, heb sôn am golli'r cerfiadau eu hunain.⁶⁰⁰

O'r dyfyniad gellir gweld y modd mae Gwenno Caffell yn amlwg wedi ei siomi gan agwedd y bobl leol at grefft eu cyndeidiau. Mae'r llyfr yn disgrifio triniaeth rhai o'r cerfiadau cywrain hyn gyda nifer wedi eu difetha neu eu defnyddio mewn

⁵⁹⁸ Mae cerrig beddi llechen yn unigryw i fröydd chwarelyddol ac yn adlewyrchu pwysigrwydd y deunydd i'r ardal a hefyd y grefft o gerfio ar lechen.

⁵⁹⁹ Gwenno Caffell, *Llechi Cerfiedig Dyffryn Ogwen* (Bangor: Cymdeithas Archaeoleg Llandegai a Llanllechid, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, 2010), t. 14.

⁶⁰⁰ *Ibid*, t. 21.

ffyrdd cwbl ymarferol a oedd yn diystyru'r cerfiadau gofalus ar y llechen. Efallai gyda chyhoeddi'r llyfr y daw parch newydd at y llechi cerfiedig yn lleol a hefyd wrth i enghreifftiau o fröydd chwarelyddol eraill ddod i'r fei. Mae'r cerfiadau hyn yn sicr yn haeddu cael eu gweld a'u dathlu fel yn yr arddangosfa a gynhaliwyd yn Oriol Bangor i gyd-fynd â chyhoeddi'r llyfr.

O ganlyniad i'r nifer mawr o'r cerfiadau hyn, ymddengys fod gan yr hen chwarelwyr ddiddordeb mewn celf yn ogystal â llenyddiaeth a cherddoriaeth. Mae'n ddiddorol bod y gweithiau gwerinol hyn heb ennill cymaint o enwogrwydd â'u cyfraniadau diwylliannol eraill. Dywed Gwenno Caffell yn ei llyfr:

Mae'r gymdeithas Gymraeg wedi bod yn fwy enwog am ei cherddorion, ei chantorion a'i beirdd nag am ei hymdrechion ym myd celfyddyd; ac eto, wele doreth o gerfiadau bywiog, hyderus a llawn dychymyg wedi eu creu ar ddefnydd newydd mewn ffordd feistrolgar.⁶⁰¹

I raddau, mae celfyddyd y bröydd yn llechu dan yr wyneb, ond wedi ymchwilio i'r peth, daw pwysigrwydd celf i'r chwarelwyr yn fwyfwy amlwg. Roedd nifer o grefftau llechi traddodiadol yn cael eu creu ganddynt gyda'r gwyntyll wedi ei wneud o lechi yn enghraifft amlwg. Hyd heddiw mae cystadlaethau creu gwyntyll llechi yn y sioeau amaethyddol lleol.

Felly beth am grefftwyr heddiw? Cafodd W. J. Rice o Flaenau Ffestiniog ei fagu mewn teulu o chwarelwyr. Ond yn wahanol i'w deulu, yn hytrach na'r hollti a'r naddu traddodiadol datblygodd grefft unigryw i drin llechi. Mae William (Bill) Rice yn arbenigo'n bennaf mewn creu powlenni o lechi a'r rheini yn llyfn ac wedi eu cerfio gyda manylder cywrain. Yn *Slate of Hand* disgrifir y modd mae W. J. Rice yn dod â gwedd newydd i'r llechen:

He is attempting to bring aestheticism to a basic natural raw material which has far too long been chained to the constraints of traditions and archaic industrial conditions.⁶⁰²

⁶⁰¹ Ibid, tt. 4-5.

⁶⁰² Judy & Ted Buswick, *Slate of Hand: Stone for Fine Art & Folk Art* (Victoria, B. C.: Trafford Publishing, 2007), t. 18.

Wrth geisio hybu defnydd newydd a chyfoes o'r llechen mae William Rice yn agor y drws i grefftwyr eraill fod yn fwy creadigol. Mae'n cerfio a thrin y llechen mewn dulliau tebyg i drin marmor neu bren. Trwy wneud hyn mae ei weithiau yn hynod drawiadol ac mae'n anodd credu bod y llechen yn gallu cael ei thrin a'i haddasu yn y fath ffordd.

Mae nifer o sefydliadau yn gwerthu crefftau traddodiadol wedi eu gwneud o lechi. Yr enwocaf, mae'n debyg, yw Inigo Jones, Pen-y-groes a ddechreuodd gynhyrchu deunyddiau o lechi yn 1861. Trwy gyfuno'r grefft a'r gwerthiant, mae Inigo Jones yn gwneud y mwyaf o'r hyn sydd ganddynt i'w gynnig i'r cyhoedd ac yn rhoi cyfle iddynt werthfawrogi'r grefft yn ogystal â'r cynnyrch. Enghreifftiau eraill o sefydliadau sy'n gwerthu crefftau wedi eu gwneud o lechi yw Maricraft Slate World ym Mlaenau Ffestiniog; yno hefyd mae Llechen Las a gweithle William Rice. Ym Morgannwg mae Slate Sign Company, Cerrig a Grasi ym Mhwillheli, Clean Slate Design yn Nhrawsfynydd a Snowdonia Natural Slate Products.

Mae mwy a mwy o gwmnïau fel hyn wedi datblygu dros y blynyddoedd diwethaf wrth i ffyrdd newydd o ddefnyddio'r llechen ddod yn boblogaidd. Ceir cwmnïau sy'n arbenigo mewn creu fframiau lluniau llechi, matiau bwrdd a gwydrau, ac addurniadau ar gyfer y cartref. Mae crefftwyr megis Ieuan Rees a John Neilson yn arbenigo mewn cerfio llechi, yn enwedig mewn caligraffeg. Mae eu gweithiau yn amlwg ar adeiladau ac arwyddion eiconig ar draws Cymru gan gynnwys Canolfan y Mileniwm a chofebion pwysig.

Yn y blynyddoedd diwethaf mae'r llechen wedi dechrau cael ei defnyddio mewn ffyrdd a fyddai'n cael eu hystyried yn anghyffredin yn y ganrif ddiwethaf. Ysgrifenna Judy a Ted Buswick yn *Slate of Hand* am agwedd y rhai sy'n creu gemwaith o lechi:

Indeed there are many people who feel strongly that slate is itself a 'precious stone' and regard its more mundane use as profligacy.⁶⁰³

Ymddengys, felly, fod y llechen, trwy'r gemwaith a'r gelfyddyd, yn cael ei hail-ddiffinio fel deunydd llawer mwy hyblyg a deniadol nag a ystyriwyd yn

⁶⁰³ Ibid, t. 80.

draddodiadol. Mae gemwaith wedi ei wneud o lechen wedi tyfu mewn poblogrwydd dros y deng mlynedd diwethaf.⁶⁰⁴ Mae amrywiaeth y lliwiau a geir yn y garreg yn ei gwneud yn addurn hyfryd ac anghyffredin.

Daw Sara Humphreys o Dregarth ac mae hi'n creu gemwaith ac addurniadau o lechi. Daw ei cherrig o domennydd rwbwl ar draws gogledd Cymru a dywed ei bod yn gwerthfawrogi gallu gwneud defnydd o 'a natural but unwanted resource.'⁶⁰⁵ Ei gemwaith mwyaf poblogaidd yw'r llechen wedi cael ei siapio i edrych fel diferyn yn tasgu gyda'r un patrwm yn llai mewn arian neu aur drosto. Mae Ian Kay hefyd wedi ei leoli yn Nyffryn Ogwen ac yn creu gemwaith o lechi'r fro honno. Mae ei emwaith yn hir a llyfn ac fel arfer yn arddangos yr amrywiaeth o liwiau yn y garreg. Daw John Fletcher o Ardal y Llynnoedd yn Lloegr ac mae'n defnyddio llechi'r fro honno i greu gemwaith cyfoes. Fe weithiodd fel chwarelwr am gyfnod ac erbyn hyn mae'n siapio'r llechen i wneud clustdlysau hir sy'n debyg o ran arddull i emwaith Ian Kay.

Artist amlwg arall o Gymru yw Mari Eluned sy'n arbenigo mewn mwclis o lechi. Ei chynnyrch mwyaf poblogaidd yw'r galon lechen ac mae hi'n llwyddo i drin y llechen nes ei bod yn llyfn a deniadol. Mae ganddi amrywiaeth o gynnyrch gan gynnwys botymau neu batrymau mewn arian neu aur wedi eu glynu ar y llechen. Yn wahanol i emwaith Ian Kay a John Fletcher mae llechi Mari Eluned yn unlliw ac yn fwy caboledig. Mae ei gweithdy ym Mallwyd, Meirionnydd lle caiff ei hysbrydoli gan y tirlun o'i chwmpas. Er nad yw Sarah Anderson o Lanberis yn defnyddio llechen, mae hi'n creu gemwaith sydd wedi cael ei ddylanwadu gan y fro ac yn enwedig gan Lyn Padarn sydd wedi ei amgylchynu gan chwarel Dinorwig. Dywed am ddylanwad y chwarel ar ei gemwaith: 'My chains and blocky necklaces are reminiscent of the quarries near my home, with their heavy chains and machinery.'⁶⁰⁶ Mae'n anghyffredin bod gemwaith wedi cael ei ysbrydoli gan hen beiriannau'r chwarel, ond mae rhywbeth cain am ei dehongliad o'r gweithle. Casgliad diweddaraf Sarah Anderson yw mwclis gyda

⁶⁰⁴ Mae'n ddiddorol nodi bod yr Americanaid brodorol yn Ohio, America yn defnyddio'r llechen fel gemwaith yn ôl yng nghyfnod y coetir.

⁶⁰⁵ Judy & Ted Buswick yn dyfynnu Sara Humphreys yn *Slate of Hand: Stone for Fine Art & Folk Art*, t. 52.

⁶⁰⁶ Sarah Anderson, dyfyniad wrth ymyl ei gemwaith mewn arddangosfa yn Siop Oriol Môn, Chwefror 24, 2013.

rhes o grawiau wedi eu creu o arian neu aur, delwedd nodweddiadol o'r bröydd chwarelyddol.

Yn wir, fel mae'r gemwaith yn tystio, mae'r llechen wedi datblygu i fod yn symbol sy'n gysylliedig â Chymru yn ogystal ag o ddiwydiant y bröydd chwarelyddol. Defnyddir y graig yn y cyd-destun hwn i fynegi rhywbeth am hanes y sawl sy'n ei gwisgo. Felly hefyd caiff y llechen ei defnyddio mewn adeiladau yng Nghymru erbyn heddiw. Yn hanesyddol, mae'r llechen wastad wedi bod yn rhan eiconig o dirlun ac adeiladau'r bröydd chwarelyddol ond, wrth i brisiau godi ac opsiynau rhatach ddisodli'r garreg, mae'r defnydd o lechen mewn adeiladau wedi dod yn fwyfwy symbolaidd. Wrth gael rhan flaenllaw mewn adeiladau eiconig Cymru fel Canolfan y Mileniwm a'r Cynulliad, mae'r llechen yn cyfleu pwysigrwydd cenedlaethol yr adeiladau hyn. Mae'r llechi yng Nghanolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd yn enwedig yn arddangos yr amrywiaeth o wahanol liwiau a geir yn y llechen ar draws Cymru. Mae hefyd yn adlewyrchu bod y diwydiant llechi yn parhau i fod yn rhan bwysig o hunaniaeth Cymru.⁶⁰⁷

Er bod y diwydiant llechi yn parhau ar raddfa lawer llai nag yr ydoedd gan mlynedd yn ôl, mae'r ardaloedd chwarelyddol yn parhau i gofleidio'r llechen. Erbyn heddiw, defnyddir amryw o gerfluniau a chofebau yn y bröydd i hybu balchder yn y gymdeithas yn eu hanes diwydiannol a'u treftadaeth. Enghreifftiau o hyn yw plac canmlwyddiant y streic a chofeb y streic ym Methesda, cofeb chwarelwyr Blaenau Ffestiniog, a chraig yr undeb yn Llanberis. Rwyf eisoes wedi cyfeirio at lwybrau cerdded y bröydd a'r gweithiau celf a gomisiynwyd i'w haddurno, ond credaf fod 'Llwybr Barddoniaeth' Blaenau Ffestiniog yn hynod berthnasol i'r bennod hon.

Creodd Howard Bowcott (g. 1956), arlunydd lleol, gerfluniau o lechi'r fro i addurno'r llwybr a cherfiodd ddyfyniadau o farddoniaeth Gwyn Thomas am yr ardal. Gwelir hefyd gerfiadau llechi yn cynnwys dywediadau lleol, termau chwarelyddol, ymadroddion cyfoes a dyfyniadau gan artistiaid lleol am y fro sy'n eu hysbrydoli. Mae cerflun gan Howard Bowcott yn ganolbwynt pwysig i'r llwybr

⁶⁰⁷ Mae rheolau cynllunio Cyngor Gwynedd yn gorfodi adeiladau newydd i weddu gyda'r ardal. O ganlyniad, mae'r llechen yn cael ei defnyddio yn adeiladau archfarchnadoedd newydd yng Ngwynedd.

hwn ac yn fynegiant o hunaniaeth bresennol Blaenau Ffestiniog. Mae cerflun yn deyrnged i'r 'slate-splitters'⁶⁰⁸ oedd yn gweithio yn y chwareli lleol, yn 30 troedfedd o uchder ac yn cynnwys 36,000 o ddarnau o lechi.⁶⁰⁹

Mae gweithiau Howard Bowcott i'w canfod ledled Cymru ac yn gerfluniau mawreddog o bob math o bethau; croesau Celtaidd, hwyliau llong a thyrau.

Disgrifia wefan Bowcott ei ddefnydd o lechi yn ei gerfluniau:

These sculptures reference the geology, traditional stone-walling techniques and the skill of the slate quarrymen, all evident in the mountain landscape of North Wales in which Bowcott has lived for the last thirty years. His sculptures celebrate these elements, but create new interpretations as contemporary works of art. Each responds to site and new context.⁶¹⁰

Wrth gyfeirio at ddulliau'r chwarelwyr, mae Bowcott yn gosod ei hun yn y cydestun ôl-ddiwidiannol. Mae'n ennyn ysbrydoliaeth o'r hen ddefnydd o lechi ond yn ei addasu a'i ddefnyddio mewn ffordd newydd, gyfoes. Wrth gasglu'r llechi gwastraff, mae'r artist yn rhoi ystyr newydd iddynt a'u troi o fod yn domen rwbel i fod yn ddarn o gelf.

Dull tebyg i Bowcott sydd gan Stephen Kettle (g. 1966), artist sy'n llwyddo i greu cerfluniau manwl a realistig o enwogion megis Winston Churchill, Alan Turing a Sidney E. Frank gyda darnau mân o lechi. Mae'r manylder yn anhygoel; er enghraifft yn ei gerflun o Alan Turing mae dau gant o ddarnau o lechi yn creu'r careiau ar ei esgid! Ar ei wefan mae Stephen Kettle yn canmol llechi Cymru ac yn dweud ei fod yn meddwl eu bod yn rhagori ar lechi o unrhyw wlad arall. Mae yntau, fel Sara Humphreys ac Ian Kay, yn defnyddio llechi gwastraff o'r tomennydd rwbel ac yn eu troi i fod yn rhywbeth hynod o drawiadol. Mae'r thema yma o ailgylchu gwastraff y chwarel yn codi droeon wrth edrych ar weithiau celf y bröydd.

⁶⁰⁸ Howard Bowcott yn cael ei ddyfynnu gan Stephanie O'Neill yn 'Y Da, Y Drwg, a'r Llechi', *DHFF mag*, Rhif 3, <http://issuu.com/dhffmag/docs/dhffmag3>, t. 13.

⁶⁰⁹ Ond mae'r cerflun wedi hollti'r gymdeithas ym Mlaenau Ffestiniog oherwydd fe gostiodd £4.5 miliwn, swm a ddyfarnwyd gan rai i fod yn wastraff o arian mewn ardal ddifreintiedig. Cafwyd gwrthwynebiad tebyg i Llys Dafydd ym Methesda gan rai trigolion.

⁶¹⁰ Howard Bowcott, 'Slate Sculptures', <http://www.howardbowcott.co.uk/page55.html> Awst 2012.

Mae'r artistiaid Andy Goldsworthy (g. 1956) a Richard Long (g. 1945) yn fyd-enwog am eu gweithiau celf ac yn enwedig am y gweithiau hynny sy'n defnyddio llechen. Daw Richard Long o Gernyw ac mae'n debyg mai dylanwad y chwareli llechi yno sydd ar weithiau fel *Slate Atlantic* (2002).⁶¹¹ Mae Andy Goldsworthy yn gysylltiedig ag Ardal y Llynnoedd a defnyddia lechi o'r chwareli yno. Dyma artistiaid sy'n ymateb i wastraff y diwydiant mewn bröydd chwarelyddol tu hwnt i Gymru. Mae gweithiau Goldsworthy yn llawn dychymyg ac yn archwilio natur mewn ffordd chwareus a chreadigol. Mae gweithiau fel *Slate Hole*, *Slate Cone*, *Slate Arch*, *Slate Stacks*⁶¹² ac ati yn rhoi gwedd newydd ar lechen ac yn gerfluniau trawiadol sy'n nodweddiadol o'i weithiau. Dyma ddau artist sy'n ailddehongli'r ffordd rydym yn edrych ar lechi ac yn ein gwahodd i ystyried posibiladau newydd ar gyfer yr hen graig hon.

ii) Darlunio'r Chwarelwyr

Y cyntaf i arlunio'r chwarel a'r chwarelwyr yn eu gweithle oedd Henry Hawkins (g. 1800) yn 1832 gyda'r darlun enwog 'Penrhyn Slate Quarry.'⁶¹³ Mae'r llun yn parhau i fod yng Nghastell Penrhyn ac mae'n ddarlun enfawr wedi ei beintio gydag olew. Mae'n bortread sy'n cyfleu bywiogrwydd diwydiannol y chwarel fwyaf yn y byd yr adeg honno.

Mae Hawkins yn portreadu'r dulliau amrywiol o weithio yn y chwarel; mae rhai o'r dynion ar y graig, eraill yn trin y ffrwydradau, rhai'n hollti a naddu ac eraill yn rwbela. Ysgrifenna Peter Lord am y llun:

Er gwaethaf y dirwedd ddramatig, nid yw'r llun yn ceisio cyfleu awyrgylch aruchel fygythiol ac arallfydol, a chanolbwyntir yn hytrach ar bortreadu'r gweithwyr â'r manylrwydd cyfewin a oedd yn ennill bri ymhlith y Frawdoliaeth Gyn-Raffaelaidd.⁶¹⁴

⁶¹¹ Richard Long, *A Moving World* (St Ives: Tate St Ives, 2002), t. 28.

⁶¹² Andy Goldsworthy, *Hand to Earth*, gol. Andy Goldsworthy a Terry Friedman (Leeds: W. S. Maney & Son Ltd, 1991).

⁶¹³ Mae'r holl weithiau celf y byddaf yn cyfeirio atynt yn y bennod hon ar gael ar unrhyw beiriant chwilio ar y rhyngwyd ac felly ni fyddaf yn eu cyfeirnod.

⁶¹⁴ Peter Lord, *Y Gymru Ddiwydiannol* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1998), t. 81.

Mae hyn yn wir i raddau oherwydd crefft y dynion eu hunain sy'n cael blaenoriaeth yn y portread hwn. Ond credaf fod elfen o fygythiad yn bresennol yn y cefndir. Mae ochrau serth y llethrau a'r cwmp i lawr y clogwyni yn cyfrannu at awyrgylch dramatig y llun ymysg prysurdeb y chwarelwyr. Ond wedi dweud hynny, nid yw'r darlun yn arddangos unrhyw erchyllterau ac mae'n sicr yn nodweddiadol o ddarluniau'r oes.

Mae bachgen yn y portread sydd, yn ôl yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yn mabwysiadu'r ddelwedd o Ioan Fedyddiwr yn 'Infant St John Baptist in the Wilderness' gan Reynolds:

He is pointing heavenward, reminding the viewer that all this mighty endeavour is but human, and is subject to the mightier hand of God.⁶¹⁵

Felly, er bod y darlun yn arddangos cryfder y dynion a'u heffaith ar y tir, mae Duw yn fwy pwerus na hwy. Mae hon yn thema sydd yn codi droeon yn llenyddiaeth y bröydd chwarelyddol ond gan amlaf y mynydd ei hun yw'r uwchbôwer bygythiol. Mae'r portread hwn yn cyfleu prysurdeb y chwarel ac yn edmygu crefft a dewrder y dynion. Mae'n ddiddorol gweld portread o'r chwarel yn ystod oes aur y diwydiant er mwyn cymharu hynny gyda darluniau mwy cyfoes o'r chwarelwyr a'u gweithle.

Roedd Mary Elizabeth Thompson (g. 1896) yn artist o Loegr a ddaeth i Chwarel y Penrhyn i arlunio'r chwarelwyr wrth eu gwaith o 1939 hyd at yr 1950au. Arluniodd hefyd gyfres o luniau o chwareli Dorothea, Pen-yr-Orsedd a Dinorwig a chwareli ithfaen Penmaenmawr a Threfor. Mae ei lluniau yn sgetsys du a gwyn naturiolaidd gyda phensil neu olog gan amlaf o'r dynion a'u crefft. Mae rhai o'i lluniau yn portreadu'r chwarel ei hun neu ei pheiriannau a'i hadeiladau. Ysgrifennodd yr arlunydd wrth edrych yn ôl ar ei gyrfa: 'Pur anaml y gellir dadansoddi dylanwadau ac atyniadau; dichon mai fy nymuniad oedd cofnodi'r hyn nas cofnodwyd.'⁶¹⁶ Trwy ddarlunio gwaith a gweithle'r chwarelwyr

⁶¹⁵ Gwefan yr Ymddiriedolaeth Cenedlaethol am 'The Penrhyn Slate Quarry' gan Henry Hawkins: <http://www.nationaltrustcollections.org.uk/object/1421761> Awst 2012.

⁶¹⁶ M. E. Thompson, *Artist yn y Chwareli: arddangosfa o ddarluniau gan Miss M. E. Thompson (1896-1981): bywyd, gwaith a golygfeydd chwareli gogledd Cymru* (Caerdydd: Welsh Arts Council, 1981), t. 13.

gyda'r fath fanylder, mae lluniau Thompson yn ffynonellau defnyddiol wrth edrych yn ôl ar chwareli'r cyfnod.

Fe ymrwymodd Mary Elizabeth Thompson yn llwyr i'r gwaith o gofnodi gwaith yn y chwarel trwy gyfrwng ei lluniau:

She learned Welsh in order to talk with the working men and join their discussions and banter. The fact that she was female and a dwarf with severe curvature of the spine did not deter her from clambering up and down ladders in all sorts of weather.⁶¹⁷

Ysgrifenna K. L. Thompson hefyd am ba mor benderfynol oedd yr artist: 'Yn y chwareli, byddai'n ymhyfrydu yn y llwch, y sŵn ac arogl disel fel rhan o'r bywyd yr oedd hi'n ei bortreadu.'⁶¹⁸ Byddai hi'n mynd i'r chwarel ym mhob tywydd ac yn gwrthod gwisgo menig waeth pa mor oer oedd eu dwylo. Ceir yr argraff o'r dyfyniadau uchod mor benderfynol oedd yr artist o arlunio'r chwarel a'r chwarelwyr.

Roedd gan Mary Elizabeth Thompson agwedd geidwadol tuag at ddarlunio'r dosbarth gweithiol:

In our time, there is a world movement to depict 'labour', as epochs in the past have represented successively 'The pagan gods', 'religious pageantry', 'love of country and home', down to the present day when the effect of light and atmosphere on, and around objects themselves, is giving way to abstraction and abnormality which I personally feel to be a dead end.⁶¹⁹

Roedd hi'n darlunio'r hyn a welodd heb ramantu nac addasu. Gellir dehongli ei hagwedd fel arwydd o barch at y dynion a'u gwaith. Roedd hi eisiau eu portreadu fel yr oeddynt, yn hytrach na gosod gwerthoedd rhyw bropaganda arnynt.

Ysgrifennodd Mary Elizabeth Thompson:

Dim ond dechrau dod yn ymwybodol yr ydym o'r ffordd y bydd llawer o'n cyd-ddynion yn treulio eu bywydau. Oni fedr celfyddyd ar ei hamryfal

⁶¹⁷ Judy & Ted Buswick, *Slate of Hand: Stone for Fine Art & Folk Art*, t. 117.

⁶¹⁸ K. L. Thompson, *Artist yn y Chwareli*, t. 5.

⁶¹⁹ M. E. Thompson, 'An Artist in the Penrhyn Slate Quarry', *The Highway: The Journal of the Workers' Educational Association*, Cyfrol 41 (Mai 1950), t. 161.

weddau fynegi bywyd arbenigol y lleiafrif mewn modd y gall y mwyafrif ei amgyffred?⁶²⁰

Yn amlwg felly, roedd Mary Elizabeth Thompson yn gweld ei chelf fel ffordd i gyflwyno gwybodaeth am y diwydiant llechi a'r gweithwyr i gynulleidfa ehangach. Mae'n ddiddorol ystyried ai gwleidyddiaeth ynteu ysfa i greu cofnodion hanesyddol a oedd yn ei hysbrydoli.

Yn 1955 ysgrifennodd Mary Elizabeth Thompson at Dr. North (Ceidwad Daeareg Amgueddfa Genedlaethol Cymru o 1919 hyd at 1959) yn disgrifio'r dirywiad yn y chwarel:

Ysbryd gwahanol sydd yn y chwareli llechi heddiw. Aeth y math anghywir o ddynton iddynt bellach, sy'n poeni am ddim byd ond ei gyflog heb hidio ffeuen am y gwaith. Y mae'r crefftwyr medrus yn raddol ymadael, naill ai i fynd i'r pyllau glo yn Wrecsam neu i ddiwydiannau Canolbarth Lloegr. Casglodd chwech ohonynt eu cardiau wythnos ddiwethaf. Unwaith y collir traddodiad, ni ddychwelw eto. Yr oedd hwn yn draddodiad mawr.⁶²¹

Mae barn a gweithiau Mary Elizabeth Thompson yn hynod ddefnyddiol wrth edrych yn ôl ar hanes y diwydiant llechi. Mae hi'n cofnodi'r dirywiad a gellir amgyffred o'r llythyr hwn gymaint sydd wedi newid yn y chwareli yn ystod y cyfnod roedd hi'n arlunio yno. Mae tŷn trist i'r llythyr hwn wrth i'r artist oedd wedi neilltuo cymaint o'i bywyd i bortreadu'r chwarelwyr fod yn dyst i gwmp y diwydiant.

Roedd Martin Bloch (g. 1883) yn Iddew o Neisse, Silesia a ffodd i Brydain yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Cymerodd ddiddordeb mewn arlunio'r dosbarth gweithiol yng Nghymru ac mae ei ddarluniau, 'Lawr o Chwareli Cymru' (1948) a 'Lawr o Chwarel Bethesda' (1951) yn bortreadau mynegiadol o'r chwarelwyr yn croesi Pont y Tŵr am adref ar ôl diwrnod o waith. Nid oedd gan Bloch agwedd mor gonfensiynol ag M. E. Thompson tuag at arlunio ac mae ei weithiau yn llawer mwy modernidd ac arbrofol.

⁶²⁰ M. E. Thompson, *Artist yn y Chwareli*, t. 15.

⁶²¹ M. E. Thompson, Gohebiaeth rhwng Dr North, Ceidwad Daereg Amgueddfa Genedlaethol Cymru o 1919 hyd at 1959 a Miss M. E. Thompson yn *Artist yn y Chwareli*, t. 10.

Mae 'Lawr o Chwarel Bethesda' yn portreadu'r chwarelwyr yn eithaf llwm; maent yn llwyd, yr un lliw â cherrig Pont y Tŵr, ac wedi eu gorchuddio gan lwch y llechen. Mae hyn yn cyfleu eu cysylltiad dwfn gyda'r chwarel ac efallai'n awgrymu eu hundod wrth iddynt arllwys yn un llif o'r mynydd fel petaent wedi eu cerfio ohono. Nid oes manylder ar wynebau'r dynion, dim ond nodweddion dau ohonynt y gellir eu gweld ac mae'r rheiny'n aneglur. Mae'r tirlun ei hun yn lliwgar wrth i'r haul fachlud a throi'r awyr yn binc. Mae afon Ogwen yn adlewyrchu'r machlud i greu naws gynnes mewn portread diddorol sy'n gyfuniad o liwiau lliwgar natur a llwydni diflas y dynion.

Mae'n amlwg bod Bloch wedi cael ei ysbrydoli gan chwarelwyr Bethesda oherwydd pan greodd 'Lawr o Chwarel Bethesda' roedd wedi cael ei gomisiynu i ddarlunio unrhyw destun o'i ddewis ei hun. Mae 'Lawr o Chwarel Bethesda' (1948) yn darlunio'r un olygfa â 'Lawr o Chwarel Bethesda' (1951) ond y tro hwn mae'r chwarelwyr hefyd yn lliwgar ac yn ymdoddi i raddau gyda'u hamgylchedd llachar. Mae oren a gwyrdd yn liwiau amlwg yn y darlun hwn gyda'r llechi glas yn goleuo yn y cefndir wrth i'r dynion adael y chwarel a throi am adref. Mae awyrgylch mwy bywiog a chynnes i'r llun hwn, efallai bod yr artist yn ceisio mynegi rhyddhad y dynion o gael dychwelyd adref ar ôl diwrnod caled o waith. Yn sicr, mae edmygedd at brydferthwch naturiol y fro yn y darlun hwn wrth i'r afon ddisgleirio a liwiau llachar y coed ymdoddi i'r dynion.

Ysgrifennodd Nicholas Thornton am 'Lawr o Chwarel Bethesda' ac am y ffordd y mae Bloch wedi osgoi'r duedd i ramantu'r chwarelwyr:

Mae'r dirwedd lawn mor bwysig â'r chwarelwyr. Maent yn ymddangos o'r dirwedd gyfagos a chânt eu portreadu'n urddasol, ac mae Bloch wedi osgoi'r demtasiwn i ramantu eu bywydau. Mae ei waith brwsio llyfn a'i ddefnydd o liwiau llawn mynegiant yn dangos ei gysylltiadau agos â Mynegiant Almaenaidd.⁶²²

Mae'n ddiddorol gweld ardal a diwydiant mor Gymreig yn cael eu darlunio gan artist dan ddylanwad celf fodern Ewropeaidd y cyfnod. Mae safbwynt Bloch wrth arlunio'r dosbarth gweithiol yng Nghymru'n arbennig o ddiddorol oherwydd, yn

⁶²² Nicholas Thornton, *Llawlyfr yr Amgueddfa Gelf Genedlaethol*, gol. Oliver Fairclough (Caerdydd: Yr Amgueddfa Genedlaethol, 2001), t. 142.

ôl Nicholas Thornton, mae artistiaid alltud eraill y cyfnod, Josef Herman a Heinz Koppel, hefyd wedi eu hysbrydoli i 'greu paentiadau â neges gymdeithasol yn seiliedig ar argraffiadaeth Ewropeaidd.'⁶²³ Mae'n debyg bod yr artistiaid alltud hyn yn teimlo rhyw gysylltiad gyda dosbarth gweithiol Cymru; efallai bod tebygrwydd rhwng y Cymry a brodorion y wlad yr oeddynt yn hiraethu amdani. Wrth osod Chwarel y Penrhyn a diwydiannau Cymru mewn cyd-destun Mynegiadol Almaenaidd mae Bloch, Herman a Koppel yn rhoi safbwynt newydd i gelf ddiwydiannol Cymru ac yn dod yn ddylanwad ar artistiaid Cymreig diweddarach.

Roedd Neville Foulkes (g. 1937) yn chwarelwr yn Chwarel Dinorwig ac roedd hefyd yn artist a bardd. Y chwarel a'r dynion yno yw'r ysbrydoliaeth y tu ôl i'r mwyafrif o'i weithiau ac mae ganddo gyfres o bortreadau o'r chwarelwyr. Mae elfen naïf a chartwnaidd i'w waith ac mae ei ddefnydd o liwiau'n anarferol. Efallai mai dylanwad Martin Bloch sy'n gyfrifol am hynny. Yn 'Holhti a Naddu' mae'r slabiau o lechi yng nghefnidir y llun yn ymgais liwgar i gyfleu graen y graig ond gyda'r amlinelliad melyn llachar nid yw'n gwbl effeithiol. Mae'r chwarelwyr wrth eu gwaith yn destun poblogaidd yng nghelf Neville Foulkes; mae 'Taniwr' yn enwedig yn ddarlun manwl o offer a chreffft y gŵr. Ond yma hefyd mae'r lliwiau'n od gyda chraig werdd a mynydd pinc yn gefndir i bortread sydd fel arall yn bortread naturiolaid o'r chwarelwr. Arluniodd y gyfres hon yn 1979, ddeng mlynedd wedi i Chwarel Dinorwig gau.

Mae gan Neville Foulkes gyfres o luniau sy'n portreadu chwarelwyr yng nghyfnod streic fawr Bethesda, 1900-3. Mae gwedd frown i'r lluniau hyn sy'n gwneud iddynt ymddangos yn hŷn a hen ffasiwn gyda'r dynion yn eu gwisgoedd traddodiadol ac yn gyferbyniad llwyr i'r portreadau lliwgar o chwarelwyr yr 1960au. Mae'r darluniau'n portreadu'r gweithwyr yn protestio'n un rhes gyda gwahanol fynegiadau ar eu hwyneb. Mae 'Chwarelwr' yn bortread arall gyda gwedd frown iddo ond mae gwyrddni yma hefyd ar wisg y ffigwr ac o dan ei lygaid. Mae'r llun yn mynegi'r tristwch a'r tlodi sy'n gysylltiedig â'r chwarelwyr.

Er mai'r chwarelwyr a'u crefft yw prif destun lluniau Neville Foulkes, mae tirlun yr ardal hefyd yn dal ei lygaid. Mae un llun o Lanberis yn edrych dros

⁶²³ Ibid.

doeau'r ardal, 'Stryd Siarlot', gyda mynyddoedd gwyrdd yn y cefndir dros resi anniben o dai chwarelwyr. Mae cyfres o luniau du a gwyn yn portreadu'r chwarel ar ôl iddi gau a'r coed yn dechrau tyfu rhwng y llechi. Mae 'Gerwinder' yn rhyfeddu at y graig serth lle'r oedd y chwarelwyr yn arfer crogi ar raff denau ac mae 'Cwt Mochel' a gafodd ei ddarlunio yn 1981 yn cyfleu'r dirywiad yn yr hen adeilad hwnnw. Roedd Neville Foulkes yn portreadu'r bröydd chwarelyddol, ei gydweithwyr a'u cyndeidiau wrth arlunio'r chwarelwyr ac mae ei ddarluniau'n fewnwelediad diddorol i fywyd a chrefft y gweithwyr trwy lygaid un ohonynt.

Roedd Ifor Pritchard (g. 1940) yn athro Celf yn Ysgol Syr Hugh Owen yng Nghaernarfon; bu farw yn 2010 ac fel teyrnged iddo cyhoeddwyd casgliad o'i weithiau yn 2011, *Craig yr Oesoedd/ True Grit*. Edrych yn ôl y mae'r arlunydd yn lluniau'r gyfrol hon a chofio chwarelwyr Dyffryn Nantlle yn yr 1940au. Mae'n destun syndod mai arlunio o gof plentyn y mae'r arlunydd oherwydd manylder ac agosatrwydd y darluniau. Mae gwahanol adrannau i'r llyfr sy'n cyfleu gwahanol agweddau ar fywyd y chwarelwyr; y tyddyn, y capel, y chwarel, y gymdeithas, ac ati. Mae parch Ifor Pritchard at y gweithwyr yn disgleirio drwy'r lluniau sy'n bortread arwrol o'r dynion a'u crefft.

Er bod edmygedd Ifor Pritchard at y dynion yn amlwg, mae'r lluniau'n dywyll, yn gyfuniad o las, piws a llwyd. Mae ei arddull o baent olew a chyllell yn golygu bod gwedd cyfoethog o baent llwydlas. Fel y dywed Gari Wyn yn ei gyflwyniad i'r llyfr: 'Ni ellid wrth well cyfrwng i fynegi bywyd a chaledi gerwin y chwareli llechi.'⁶²⁴ Mae'r dull hwn hefyd yn rhoi'r argraff o undod rhwng y dynion a'r llechi wrth i wisg y dynion a'r graig asio'n un. Yn driw i'r ffasiwn diweddar mewn llyfrau celf Cymraeg, ceir dyfyniadau o ystod eang o lenyddiaeth Gymraeg gyda chyfieithiadau i'r Saesneg. Cawsant eu dethol gan Myrddin ap Dafydd o nifer o nofelau, cerddi, llyfrau bro a hanes.

Fel ffermwyr Aneurin Jones, mae chwarelwyr Ifor Pritchard yn arwyddlun o wynebau'r fro. Llwydda i ddal rhan annatod o ysbryd chwarelwr, y stoiciaeth a'r gweithgarwch. Llwydda hefyd i gyfleu bwrlwm y caban heb ramantu; sgwrsio a chwerthin dros baned y mae'r gweithwyr yma, nid darllen ac ysgrifennu campweithiau, nac eisteddfota. Ceir darlun o griw o ddynion yn cerdded mewn

⁶²⁴ Gari Wyn, 'Cyflwyniad' yn *Craig yr Oesoedd/ True Grit* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2011), t. 4.

rhes drwy'r eira i gyrraedd eu gwaith. Adlewyrcha osgo eu cyrff a'u dillad y slabiau o lechi sy'n eu tywys ar hyd y llwybr. Mae'r cerrig yn atseinio cerrig bedd y bröydd gyda gwawr goch waedlyd ar y pigyn. Dyma ddarlun trawiadol sy'n cyfleu breuder bywydau'r chwarelwyr. Gosoda darlun olaf y llyfr y diwydiant llechi yn y cyfnod ôl-ddiwydiannol wrth i hen chwarelwr ddod a'i wŷr i'r chwarel. Mae to'r caban bellach yn sgaffaldiau pren a'r wagan wedi rhydu. Yn y llun hwn, mae'r arlunydd wedi gadael yr 1940au ac yn dod â ni yn ôl i'r presennol.

Daw Luned Rhys Parri (g. 1970) o Ddyffryn Nantlle ac mae ei chelf hi'n portreadu cymeriadau'r fro honno. Mae 'Chwarelwr'⁶²⁵ yn bortread o wyneb chwarelwr traddodiadol ac yn debyg i bortreadau Kyffin Williams o ran arddull. Mae'r arlunydd wedi defnyddio llwch llechi yn y paent sydd yn rhoi gwead diddorol i'r llun yn ogystal â bod yn symbolaidd. Mae ei lluniau eraill yn cynnwys mwy o hiwmor wrth ddarlunio cymeriadau'r fro chwarelyddol. Mae ganddi weithiau tri-dimensiwn, a'r ffigyrau yn ei chelf fel petaent yn camu allan o'r llun. Mae'r fro lle cafodd ei magu a'r trigolion yn ysbrydoliaeth fawr i'w gweithiau a chânt eu portreadu gyda hiwmor a thynerwch.

iii) Arlunio'r Chwarel a'r Fro

Mae Peter Prendergast (g. 1946) yn arlunydd byd-enwog a gafodd ei ysbrydoli gan dirwedd gogledd Cymru a Chwarel y Penrhyn ym Methesda. Gwerthodd un o'i bortreadau o'r chwarel i Oriel y Tate ac mae'n un o'r artistiaid mwyaf poblogaidd a dylanwadol o Gymru. Yn *The Painter's Quarry*, llyfr am waith a bywyd Prendergast, mae dyfyniad ganddo ynglŷn â'r tro cyntaf iddo weld Chwarel y Penrhyn: 'I saw this big man-made hole, a bit like Breughel's Tower of Babel, but in reverse.'⁶²⁶ Ymatebodd i'r chwarel a'r fro o'i chwmpas trwy gyfres o ddarluniau.

⁶²⁵ Luned Rhys Parri, 'Chwarelwr', *Helpa Gelf*, Amgueddfa Lechi Cymru, t. 5.

⁶²⁶ Peter Prendergast, 'The Road to Bethesda', *The Painter's Quarry: The Art of Peter Prendergast* (Bridgend: Seren, 2006), t. 72.

Dywedwyd i Prendergast weld 'Lawr i Chwarel Bethesda' gan Martin Bloch mewn Oriel yng Nghaerdydd a bod hynny wedi deffro diddordeb yr arlunydd ym mhrif ddiwydiant gogledd Cymru. Mae *The Painter's Quarry* yn datgan bod Prendergast yn drwm dan ddylanwad Bloch, o ran arddull a thestun, ond bod cyferbyniad amlwg yn eu gweithiau o ran yr hollt rhwng y cyfnod diwydiannol a'r ôl-ddiwydiannol:

Mewn cyferbyniad â chyfres Bloch, a beintwyd pan oedd y chwareli'n gweithredu ar raddfa wahanol, nid yw'r gweithwyr yn ymddangos yn nhirlun Prendergast; amlygir cynnwys dynol y lluniau yn y tyndra sydd yn y lluniadu a'r lliwiau, ac yn hanes creu'r gweithiau eu hunain sydd yn amlwg yn gynnyrch llafur hirfaith.⁶²⁷

Mae defnydd Prendergast o liwiau wrth bortreadu'r chwarel yn dwyn i gof waith Martin Bloch ond y tirlun o amgylch y chwarel lwyd oedd yn lliwgar ganddo ef. Mae dylanwad mynegiadaeth yn amlwg yng ngweithiau'r ddau artist. Ond fel y dywed y dyfyniad uchod, y newidiadau yn y diwydiant llechi yw'r prif wahaniaeth ym mhortreadau'r ddau. Yn 1951 mae darlun Bloch yn dangos y chwarelwyr yn mynd adref o'u gwaith tra mae portread Prendergast yn 1981 yn dangos chwarel anferth, wag.

Wrth i Prendergast ddarlunio'r chwarel, ychwanegodd fwy a mwy o stribedi o amgylch ymylon y cynfas. Tyfodd y llun hwnnw wrth i'r arlunydd geisio cyfleu mawredd y twll a grëwyd gan ddyn. Gellir gweld ôl yr atodiadau hyn o amgylch ei bortread o'r chwarel. Mae Merete Bates yn ysgrifennu am 'The Slate Quarry, Bethesda' gan Prendergast a'r hyn a ddaliodd sylw Oriel y Tate:

The artist's hard, graphite point stubbornly and austere chips out an image, following the quarrymen's laborious galleries which, after infinite sweat and pain, barely erode the natural mountain of slate and granite. This is a great drawing, the more so for its economy, patience and humility. Its difficulty forced intellect and emotion together.⁶²⁸

⁶²⁷ *Y Bryniau Tywyll y Cymylau Trymion: dehongliad o dirwedd Cymru mewn peintiadau gan Josef Herman, Kyffin Williams, Will Roberts, Martin Bloch, George Chapman, Ernest Zobole, Peter Prendergast* (Caerdydd: Cyngor Celfyddydau Cymru, 1981), t. 59.

⁶²⁸ Merete Bates, *The Painter's Quarry: The Art of Peter Prendergast* (Bridgend: Seren, 2006), t. 75.

Mae edmygedd amlwg at y darlun yma ac at grefft Prendergast. Mae 'The Slate Quarry, Bethesda' yn llwyddo i gyfleu naws a mawredd y chwarel ac, fel mae Bates yn ei fynegi, cymaint roedd y chwarelwyr wedi siapio'r mynydd hwn.

Ond nid y chwarel yn unig oedd yn tynnu sylw'r arlunydd, roedd agweddau eraill ar y diwydiant llechi yn ei ysbrydoli hefyd. Mae 'Ffowndri' yn ddarlun wedi ei wneud gan ddefnyddio paent, pasteli a golosg ac yn bortread mynegiadol o'r ffowndri yn y Gilfach Ddu, sef lleoliad yr Amgueddfa Lechi. O ben y grisiau, mae Prendergast yn llwyddo i ddarlunio popeth o'r llawr i nenfwd yr adeilad. Mae ei amlinellau pendant a thywyll yn creu persbectif anarferol ond effeithiol i'r llun.

Roedd tirlun y bröydd chwarelyddol hefyd yn ysbrydoliaeth i Peter Prendergast ac mae casgliad o'i luniau yn *Y Bryniau Tywyll y Cymylau Trymion*. Mae ei dirluniau o Ddyffryn Ogwen a Deiniolen yn enwedig yn drawiadol.⁶²⁹ Mae ei ddarlun o Flaenau Ffestiniog yn 1993 yn nodweddiadol o'i weithiau ac yn archwilio olion diwydiannol ar dirlun y fro chwarelyddol hon. Ysgrifenna Melissa Munro am y llun:

Mae ei faint, y lliwiau llachar, y paent trwchus a'r amlinellau duon yn nodweddiadol iawn o dirluniau Prendergast. Mae'r olion brwsio llawn mynegiant a thrwch y paent yn cyfleu tir creigiog a hinsawdd gyfnewidiol y rhan hon o'r wlad. Gwelai'r arlunydd brydferthwch yn nhirwedd ddiwydiannol naddedig Cymru, fel un a fagwyd yn un o bentrefi glofaol y De.⁶³⁰

Mae nifer o feirniaid yn gweld cysylltiad rhwng magwraeth Prendergast yng nghymoedd y de a'i dad yn gweithio yn y pyllau glo a'i benderfyniad i fynd i fwy ym mröydd chwarelyddol y gogledd ac arlunio dylanwad y diwydiant llechi ar y tirlun. Trwy ddefnyddio golosg neu baent tywyll mae rhai o bortreadau Prendergast yn troi testun llwm hyd yn oed yn fwy digalon. Ond ar adegau eraill mae llwydni'r chwarel a diflastod y pentrefi yn cael eu trawsnewid i chwa o liwiau llachar gydag amlinellau du trwchus i'w coroni. Mae Prendergast yn

⁶²⁹ Peter Prendergast, 'Tirlun ger Bethesda' (1973), 'Y Ffordd i Fethesda' (1977), 'Chwarel y Penrhyn, gyda'r hwyr' (1980) yn *Y Bryniau Tywyll y Cymylau Trymion*.

⁶³⁰ Melissa Munro, 'Peter Prendergast', *Llawlyfr yr Amgueddfa Gelf Genedlaethol*, gol. Oliver Fairclough, t. 162.

llwyddo i roi bywyd newydd i fröydd sy'n cael eu hystyried yn llwm ac mae hefyd yn llwyddo i annog arlunwyr ifanc i ddilyn ôl ei droed tua'r chwarel.

Yn wir, mae dylanwad Prendergast ar artistiaid eraill yn enfawr, yn enwedig arlunwyr o ogledd Cymru a ddysgwyd ganddo yng Ngholeg Menai, artistiaid fel Catrin Williams, Darren Hughes a Glyn Price. Mae Catrin Williams (g. 1966) yn defnyddio lliwiau llachar gyda brwshys trwchus ac amlinelliadau tywyll, arddull sy'n nodweddiadol o weithiau ei chyn-diwtor. Er nad yw hi'n arbenigo mewn arlunio'r bröydd chwarelyddol, mae ei phortread o Flaenau Ffestiniog yn ddarlun diddorol o ran yr astudiaeth hon. Crëwyd murlun lliwgar a bywiog yng nghanol y Blaenau, darlun sy'n gyferbyniad llwyr i'r llwydni diflas sy'n nodweddiadol o bortreadau o'r fro. Dyma safbwynt cyfoes o'r Blaenau a phortread sy'n cyfeirio at ddiwylliant cerddorol cyfoethog Blaenau Ffestiniog, yn ogystal â thanseilio'r ffordd draddodiadol o edrych ar y dref.

Disgybl arall i Peter Prendergast sydd hefyd yn arlunio'r bröydd chwarelyddol yw Darren Hughes (g. 1970) sy'n byw ym Methesda ac yn arlunio tirluniau panoramig o ogledd Cymru. Mae'n tueddu i bortreadu Waunfawr a'r ardaloedd chwarelyddol yn bennaf, yn enwedig Dyffryn Ogwen a Llanberis. Mae ei ddarluniau'n onest yn yr ystyr eu bod yn dangos yr olygfa fel y mae, heb addasu a delfrydu. Os oes drain, weiren flêr neu bolyn trydan yng nghanol yr olygfa yna mae yng nghanol y cyfnod hefyd. Nid yw'r pethau hyn yn gwneud y lluniau'n llai trawiadol ond yn hytrach yn fwy credadwy. Yn yr un modd, tra mae rhai artistiaid yn osgoi darlunio'r chwarel mae Darren Hughes yn ei chynnwys fel rhan o dirlun y fro y mae'n ei phortreadu. Mae lluniau fel 'Goruwch Chwarel Dinorwig' ac 'Early Summer Morning, Dinorwig' yn cyfleu diddordeb yr arlunydd mewn portreadu'r chwarel honno. Mae dawn Darren Hughes yn tywynnu drwy'r lluniau ac yn ei dirluniau mae'r chwarel yn edrych fel rhan annatod o'r fro yn hytrach na chraith. Trwy hynny mae ei dirluniau'n bortread gonest a thrawiadol o'r bröydd chwarelyddol yn y cyfnod ôl-ddiwydiannol.

Daw Glyn Price (g. 1980) o Gwm-y-glo yn Nyffryn Peris ac mae'n darlunio Chwarel Dinorwig mewn arddull sydd yn dwyn i gof gampwaith Peter Prendergast. Ym mhortreadau Glyn Price fel 'Bouldering' a 'Vivian Bach' mae'r chwarel fel rhyw fath o glytwaith amryliw. Mae nifer o sgwariau lliwgar yn dynodi ponciau gwahanol ac mae elfen gartwnaidd i'r gwaith wrth i'r llinellau

blygu a chreu gwedd o ansicrwydd. Bron nad yw darluniau Glyn Price o chwarel Dinorwig yn ddatblygiadau cyfoes o weithiau Peter Prendergast o Chwarel y Penrhyn. Yn sicr, mae dilyniant yma wrth i'r gwaith efelychu 'The Slate Quarry, Bethesda' gyda gwedd lawer mwy chwareus. Mae 'Y Mynydd Glas' a 'Slate' yn cyferbynnu bryniau crwn chwyrliog y fro gyda sgwariau glas y diwydiant llechi. Yn wahanol i arlunydd fel Darren Hughes sydd yn arlunio'r tirlun yn union fel y mae, mae Glyn Price yn rhoi ei wedd ei hun i'r golygfeydd ac yn addasu realiti'r bröydd i fynegi ei ddehongliad personol. Mae ei gelf yn sicr yn ddiddorol o ran arddull a thestun wrth i artist ifanc gael ei ysbrydoli gan hen ddiwydiant ei fro a chwarel wedi cau.

Ganwyd Gwilym Prichard yn Llanystumdwy yn 1931 ac mae bellach dros 80 oed ac yn parhau i arlunio. Mae'n defnyddio olew trwchus i ddarlunio tirluniau Cymru, gyda'r bröydd chwarelyddol yn dal ei sylw'n aml. Gwelir rhesi o grawiau'n un ffens hir yn arwain at dŷ unig wrth odrau mynydd yn 'Tanygrisiau'⁶³¹ ac ymddengys y crawiau hyn eto yn 'Eira a Chapel'⁶³² wrth i drwch o eira orchuddio'r toeau llechi sy'n ymochel dan y chwarel. Mae'r chwarel yn ymddangos yn glir yn 'Ffestiniog'⁶³³ ac mae'r defnydd o sawl lliw llwydlas yn cyfleu gwedd y chwarel yn effeithiol. Mae'r mynyddoedd o gwmpas mewn lliwiau amrywiol ac yn fframio llwydni a glesni Ffestiniog. Yn 'Welsh open cast mine' dim ond y chwarel sydd yn y llun. Gan ei bod hi wedi nosi yn y darlun hwn mae popeth yn las ac yn tystio i ddawn yr arlunydd wrth iddo lwyddo i bortreadu haenau amrywiol o'r chwarel gydag un lliw.

Mae'n debygol mai arlunydd enwocaf Cymru yw Kyffin Williams (g. 1918 - 2006) o Ynys Môn. Mae ei arddull o olew trwchus, tywyll yn gorchuddio'r gynfas i gyfleu tirlun dramatig gogledd Cymru yn hawdd ei adnabod, boed yn llun o fôr neu fynydd. Ond mae fel pe bai prif arlunydd gogledd Cymru yn osgoi portreadu'r chwareli ac yn hytrach yn darlunio popeth o amgylch y chwarel; y mynyddoedd, y bythynnod, y tomennydd rwbel. Yn ei gyfrol *The Land & The Sea* mae Kyffin Williams yn ysgrifennu am rai o'i weithiau, a daw'n amlwg mor

⁶³¹ Gwilym Prichard, 'Tanygrisiau' yn *Gwilym Prichard New Paintings* (Caerdydd: Martin Tinney Gallery, 2003), t. 23.

⁶³² Gwilym Prichard, 'Eira a Chapel' yn *Gwilym Prichard New Paintings*, t. 26.

⁶³³ Gwilym Prichard, 'Ffestiniog' yn *Gwilym Prichard New Paintings*, t. 5.

bwysig yw'r bröydd chwarelyddol iddo a'i luniau, er bod y chwarel ei hun yn absennol.

Yn *The Land & The Sea* mae Kyffin Williams yn disgrifio dylanwad Blaenau Ffestiniog ar ei luniau:

When I lived in South Caernarfonshire I found that the village of Llan Ffestiniog became my favourite place from which to paint the mountains and small farms. Often I walked across the valley to Tanygrisiau, a strangely attractive jumble of houses below gigantic slate tips. Quarrymen's cottages and terraces hid under rocky outcrops and streams tumbled down beneath them. The landscape was hard like the slate that came from it.⁶³⁴

Mae'n ddiddorol cael mewnwelediad i feddyliau'r arlunydd am ei waith a'r tirlun a'i hysbrydolodd. Mae portreadau Kyffin o'r cyfnod hwn yn nodweddiadol o'i waith oherwydd ei ddiddordeb yn nhai traddodiadol y chwarelwyr a'r mynyddoedd o'u hamgylch. Ond er bod y dyfyniad hwn yn mynegi ymwybyddiaeth a diddordeb yn olion y diwydiant llechi, mae'n nodweddiadol hefyd bod yr arlunydd yn portreadu'r hyn sydd o amgylch y chwarel ac yn osgoi'r diwydiant ei hun. Efallai bod Kyffin Williams, fel y beirdd Cymraeg, yn gweld y chwarel fel craith sy'n difetha tirlun Cymru.

Yn *The Land & The Sea* mae 'Slate Tip, Carmel'⁶³⁵ yn bortread o hen domen rwbel wrth ymyl tai yng Ngharmel. Mae'n enghraifft brin o lun gan Kyffin Williams sy'n cydnabod olion y chwarel. Ysgrifenna am y lleoliad:

High on the hillside above Caernarfon, huge mounds of slate rise up to dwarf the small cottages that crouch below them. Those who lived in them must have played their part in creating these monstrous intrusions onto a previously lovely landscape.

Maybe they got used to them, eventually looking upon them with affection. It was impossible to ignore them but I suppose that they had become a part of their homeland.

I have drawn many of these slate tips in Bethesda, Llanberis and Blaenau Ffestiniog, but those near the villages of Rhosgadfan, Carmel and Cesarea are, to me, the most attractive - if attractive is an appropriate word to describe them. Maybe paintable is a better word, for it is the

⁶³⁴ Kyffin Williams, *The Land & The Sea* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1998), t. 16.

⁶³⁵ Kyffin Williams, 'Slate Tip, Carmel', *The Land & The Sea*, t. 73.

contrast between the bulk of the forbidding tip and the intimacy of the nearby cottages that intrigues the artist.⁶³⁶

Mae'n ddiddorol dros ben clywed Kyffin Williams yn adleisio barddoniaeth y bröydd chwarelyddol wrth gyfeirio at y 'monstrous intrusions onto a previously lovely landscape.' Ond yr hyn sy'n cyferbynnu gyda'r datganiad hwn yw'r ffaith ei fod yn cael ei ddenu i'w harlunio. Yn wir, mae'r agosrwydd rhwng bythynnod y chwarelwyr a'r tomennydd llechi yn olygfa hynod o ddramatig. Os mai dychmygu bywyd y bobl yn y tai bychain yng nghysgod gwastraff y diwydiant llechi oedd yn ysgogi Kyffin Williams i greu'r llun hwn, efallai mai dyma'r chwilfrydedd oedd yn ei yrru i arlunio'r ardaloedd chwarelyddol.

Yn y gyfrol hon mae Kyffin Williams yn disgrifio bywydau'r chwarelwyr yn y ganrif ddiwethaf a'u tlodi a'u dioddefaint. Mae tynerwch yn ei bortreadau o hen adfeilion oherwydd ei fod yn ystyried bywydau'r bobl a oedd yn arfer byw yno. Mae 'Cottages, Deiniolen'⁶³⁷ yn portreadu bythynnod y chwarelwyr fel pe baent wedi tyfu o'r tir neu eu cerfio o'r mynydd lle maent yn gorffwys.

Ysgrifenna Kyffin Williams am y pentref:

I never feel that Deiniolen is a happy place, for the cottages are mean and huddle around the bowl of land that seems to empty towards the west to the town of Caernarfon. The lives of the people who lived here must have been hard for in the past tuberculosis must always have threatened them. The large church and the chapel do not appear to be part of the village and seem to have been placed there for respectability. [...] Maybe the melancholy of the place appeals to me, for seldom do I return home to Anglesey without some idea for a painting.⁶³⁸

Mae tristwch a hanes Deiniolen yn ysbrydoli Kyffin ac mae'n ardal dychwelodd ati dro ar ôl tro wrth arlunio. Mae'r bythynnod yn ymddangos yn nifer o'i luniau ac mae'r awyrgylch tywyll, anhapus hwn yn amlwg yn y portreadau. Sylwer eto fod Kyffin Williams yn ymwybodol o ddioddefaint y chwarelwyr ac efallai o ganlyniad i hynny mae'n troi ei olygon tuag at y gweithwyr yn hytrach na'r

⁶³⁶ Kyffin Williams, *The Land & The Sea*, t. 72.

⁶³⁷ Kyffin Williams, 'Cottages, Deiniolen,' *The Land & The Sea*, t. 59.

⁶³⁸ Kyffin Williams, *The Land & The Sea*, t. 58.

gweithle. Efallai nad yw'r chwarelwyr yn ymddangos yng ngweithiau Kyffin Williams ond mae eu bröydd a'u cartrefi'n cael eu harlunio ganddo dro ar ôl tro.

Daw Gareth Parry⁶³⁹ (g. 1951) o deulu o chwarelwyr ym Mlaenau Ffestiniog a'r ardal yw'r ysbrydoliaeth y tu ôl i nifer o weithiau'r arlunydd. Gweithiodd yn y chwarel am gyfnod cyn mynd i astudio celf ym Manceinion. Mae'n arlunio amrywiaeth o dirluniau, y môr, y mynyddoedd a dinasoedd. Ond yr hyn sy'n ddiddorol o ran yr astudiaeth hon yw'r ffordd mae'n portreadu Blaenau Ffestiniog. Mae lluniau fel 'Hogia Tref Fechan Cyfarfod', 'Hogia Tref Fechan Mynd Adref' a 'Hogia Tref Fechan y Nos' yn dangos criw o fechgyn ifanc ar y stryd ym Mlaenau Ffestiniog gyda'r hwyr. Mae goleuadau'r stryd wedi goleuo a phopeth o amgylch y ffigyrau hyn yn aneglur. Y bechgyn yw canolbwynt y lluniau a cheir yr argraff mai dylunio hwyl ddiniwed bechgyn y dref fechan mae'r artist a thrwy hynny ran o gymdeithas Blaenau Ffestiniog.

Ymdebyga ei lun 'Un Nos Ola Leuad' i'r gyfres 'Hogia Tref Fechan' o ran y portread o'r dref; mae capeli a thai wedi eu goleuo gan lampau'r stryd gyda'r hwyr a dau ffigwr yn cerdded i lawr y stryd. Cyfeiria teitl y llun hwn at y nofel o'r un enw ac mae'n pwysleisio'r cysylltiad rhwng y Blaenau a Bethesda. Portreada 'Hen Chwarel "Foity"' ysgerbydau adeiladau'r chwarel honno a gosoda'r diwydiant llechi'n gadarn yn y cyfnod ôl-ddiwydiannol. Mae lluniau fel 'Mae'n Stryd Ni Ar Werth!' hefyd yn pwysleisio'r dirywiad ym Mlaenau Ffestiniog trwy bortreadu'r holl dai gwag sydd ar werth ar brif stryd y dref. Yn 'Y Ffordd i Nunlla (Prynhawn ar ôl Glaw)' mae Gareth Parry yn arlunio Blaenau lwm, lwyd a gwlyb. Ceir goleuni cynnes o'r tai yn goleuo'r stryd ac awyr binc yn cael ei chuddio gan gymylau llwydion. Mae'r golau sy'n tywynnu trwy ffenestri'r tai hefyd yn symbol o gynhesrwydd y gymdeithas er gwaethaf y glaw a'r llwydni sy'n gorchuddio gweddill y darlun.

Daw John neu Jonas Plosky (g. 1940) o Landudno ond mae'n cael ei ddenu at dirlun a chymdeithas Blaenau Ffestiniog. Mae ei bortreadau wedi dal naws y

⁶³⁹ Ymddangosodd Gareth Parry yn y gyfres *O'r Galon* ar S4C mewn rhaglen gyda'r is-deitl 'Y Dyn Tu ôl i'r Llun.' Roedd yn onest wrth drafod ei ieuentid, ei brofiadau gyda chyffuriau, iselder, a'i gyfnod yn byw'n ddigartref. Fe'i hysbrydolwyd gan bobl Blaenau Ffestiniog i ailddechrau arlunio a dechreuodd bortreadu'r cymeriadau hynny. Mae'r rhaglen yn cyfleu natur yr arlunydd hwn, ei onestrwydd a'i frwdfrydedd dros ei gelf a'i fro.

lle, yng nghlebran y gwragedd, yn llwydni'r glaw, yn y tai sy'n swatio'n sownd dan gysgod y chwarel. Mae 'Carrying Home the Shopping, Blaenau Ffestiniog' yn ddarlun o stryd y dref ac ambell aelod o'r gymdeithas yn cerdded arni. Yng nghanol y llun, fel yn narluniau Gareth Parry, mae dau ffigwr yn cerdded, dynes a phlentyn gyda het goch y plentyn yn cyfrannu lliw i lun sydd fel arall yn llwydaidd a llwm. Motiff cyson yng ngweithiau Gareth Parry yw drysau coch y tai sy'n cyfleu cynhesrwydd yr aelwyd. Ymddengys fod drysau cochion Plosky yn cario symbolaeth debyg iddo yntau ac yn pwysleisio tynerwch y gymdeithas ynghanol y tlodi a'r llwydni.

Mae 'Gloddfa Ganol' gan Plosky yn hynod drawiadol. Edrycha'r adeiladau yn ddi-nod wrth wraidd y gloddfa anferth ac felly hefyd mae'r chwarelwyr yng ngwaelod inclein y chwarel a ymddengys yn 'Slate Quarry, Blaenau Ffestiniog'. Yn 'Grey Area' hefyd mae'r dynion yn ymdoddi gyda'r llwydni nes bron na ellir eu gweld. Mae'r tai fel petaent wedi eu cloddio o'r graig a'r mwg o'r simnai a llwydni'r cymylau'n asio'n un. Yn narluniau Plosky, mae'r Blaenau yn llwyd, wedi ei hamgylchynu gan olion hen ddiwydiant; ond eto mae'r gymdeithas yn disgleirio drwy'r cyfan. Er bod tlodi'n bresennol yn dawel yn y lluniau, mae cynhesrwydd y gymdogaeth yn cael ei fynegi'n gynnil trwy'r dillad glân ar y lein, y tynerwch y mae'r plant yn ei dderbyn, y sgwrsio rhwng cymdogion ac yn nrysau coch y tai.

Mae *Aspects of Welsh Slate* gan Pip Knight-Jones (g. 1933) yn gyfuniad diddorol o lyfr hanes am y diwydiant llechi ac o weithiau celf sy'n portreadu Chwarel Dinorwig yn bennaf. Cynhwysir gwybodaeth am hanes y llechen, graffiau a hen luniau o'r chwarel yn atodiad i sawl llun. Dyfrlliw yw ei phrif arddull wrth arlunio'r chwareli mewn dull naturiolaid. Dyma gyfrol ac artist sydd yn llawn gwybodaeth a brwdfrydedd am y bröydd chwarelyddol a'r diwydiant llechi.

Gellir dadlau bod lluniau Pip Knight-Jones yn ddatblygiad o waith Mary Elizabeth Thompson. Tra mae Thompson yn darlunio chwareli llechi gogledd Cymru yn yr 1940au-50au, mae gwaith Knight-Jones yn darlunio'r chwareli yn y cyfnod ôl-ddiwydiannol. Nid oes chwarelwyr yno bellach, mae nifer o'r hen chwareli yn magu llyn yn eu crombil, a'r hen farics yn adfeilion. Mae adlais o

safbwynt Mary Elizabeth Thompson yn y dyfyniad canlynol o *Aspects of Welsh Slate*:

My main aim for this book, is to record paintings of quarry scenes and quarry ruins before they are further destroyed by developers, vandals, unsympathetic councils, the forestry commission or even uncontrolled invasion by natural woodland.⁶⁴⁰

Roedd Mary Elizabeth Thompson hefyd eisiau cofnodi'r chwareli yn ei chyfnod hithau cyn i'r cyfan gael ei golli. Mae cyfnodau'r ddwy yn dangos newidiadau enfawr yn y chwareli ac yn gofnodion hanesyddol defnyddiol wrth astudio'r diwydiant llechi.

Mae Falcon Hildred (g. 1935) wedi byw ym Mlaenau Ffestiniog ers 1969 ac yn portreadu adeiladau ac olion diwydiannol yr hen chwareli. Mae amryw o ddiwydiannau wedi dal llygaid Falcon Hildred gan gynnwys Pont Haearn (Ironbridge), ardaloedd Fictoraidd yn Llundain, Casnewydd a Chaerdydd. Mae ei ddarluniau'n gofnodion o ddiwydiannau sydd yn prysur ddiplannu yng Nghymru a Lloegr. Mae'r arlunydd yn dwyn i gof fanylder gweithiau Mary Elizabeth Thompson wrth bortreadu'r chwarel. Gyda meddwl mecanyddol mae Hildred yn darlunio'r chwareli a'u peiriannau. Gellir wneud cymariaethau rhyngddo a Knight-Jones hefyd oherwydd sylw'r ddau i ochr dechnegol y diwydiant llechi ac yn eu defnydd o ddyfrlliw. Astudiaethau o'r chwarel a'r gwaith yno yw ei ddarluniau ac maent yn mynegi diddordeb yr arlunydd yn y diwydiant.

Darlun o res o dai ym Mlaenau Ffestiniog ar noson glir yw 'Starry Night' (1977). Mae sêr yng nghefnidir y portread ac er bod awyrgylch rhamantaidd i'r llun o ganlyniad, mae tlodi'r fro'n amlwg yng nghyflwr y tai gwag. Portread panoramig o chwarel yr Oakeley a geir yn 'The Oakeley Gash' (1974) gyda chwarel Llechwedd yn y cefndir. Mae'n ddarlun technegol gywir o'r ponciau a'r tirlun a thrwy hynny'n nodweddiadol o waith Falcon Hildred. Felly hefyd mae 'Two Views of Pant-yr-ywn Slate Mill' (2007) sy'n bortread o un o hen adeiladau'r chwarel a'i holwyn ddŵr sydd bellach ond yn atgof o'r cyfnod diwydiannol. Mae gan yr arlunydd gannoedd o luniau o'r chwareli a gan fod ei dechneg mor fanwl a

⁶⁴⁰ Pip Knight-Jones, *Aspects of Welsh Slate* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2004), t. 7.

chywir mae'n llwyddo i gyfleu effaith y diwydiant llechi ar dirlun cyfan Blaenau Ffestiniog.

Mae Ian Phillips (g. 1969) yn rhoi gwedd newydd ar gelf sy'n portreadu chwareli gogledd Cymru a'r bröydd o'u cwmpas. Arddull wahanol i'r cyffredin a geir yn ei weithiau ble mae dylanwad celf Siapaneaidd yn amlwg. Cerfia luniau ar lino a chreu printiau lliwgar ohonynt. Er bod celf draddodiadol Siapaneaidd wrth wraidd dull Ian Phillips o arlunio, mae celf a thirlun Cymru hefyd yn tywynnu trwy'i weithiau.⁶⁴¹ Mae tirlun Cymru yn bwysig yng ngweithiau'r artist ac nid yw wedi cyfyngu ei hun i ambell ardal yn unig; ond byddaf yn canolbwyntio ar y gweithiau sy'n portreadu'r bröydd chwarelyddol yn enwedig wrth iddo geisio dal naws yr ardaloedd a'u cyfleu yn ei luniau.

Mae adar yn fotiff cyffredin yng ngweithiau Ian Phillips ac yn ei bortreadau o'r chwareli y brain sydd fwyaf amlwg. Crea hyn naws fygythiol i'r llun. Portread o hen domen lechi yn y glaw a geir yn 'Rain and Ravens' gyda brain yn hedfan uwch ei phen, mae'n creu awyrgylch tywyll a bygythiol. Llun sy'n fwy nodweddiadol o weithiau Ian Phillips yw 'A Heron Flies Over Llyn Ogwen' sy'n portreadu aderyn gosgeiddig hedfan dros Llyn Ogwen wedi ei amgylchynu gan fynyddoedd Nant Ffrancon. Mae'r lliwiau'n ysgafn ac mae rhywbeth llawer mwy mwyn am y llun hwn o'i gymharu â 'Rain and Ravens.' Llun tyner arall yw 'Foel Goch, Llyn Ogwen and Clouds' sy'n pwysleisio prydfferthwch naturiol Dyffryn Ogwen.

Dyluniodd Ian Phillips y cloriau ar gyfer trioleg Dewi Prysor, *Brithyll*, *Madarch* a *Crawia*. Mae'r bartneriaeth rhyngddo a Dewi Prysor yn un ddiddorol a gellir dadlau ei bod yn ymgais fwriadol i bortreadu Cymru flaengar, gyfoes. Mae *Crawia* yn enwedig yn portreadu elfen o hunaniaeth y bröydd chwarelyddol wrth i slabiau enfawr o lechi daro eu cysgod yng ngolau'r lleud lawn. Gall presenoldeb y lleud lawn ar y clawr hwn a *Brithyll* fod yn gyfeiriad at *Un Nos Ola Leud* a'r cysylltiad diwylliannol a diwydiannol rhwng Blaenau Ffestiniog a Bethesda. Mae cloriau Ian Phillips yn dal naws y nofelau ac yn adlewyrchu'r Blaenau Ffestiniog y mae'r awdur yn ei phortreadu.

⁶⁴¹ Mae artistiaid Cymraeg eraill wedi defnyddio arddull debyg, yn bennaf wrth gerfio i bren ac efallai bod dylanwad Bert Isaac a John Petts ar weithiau Ian Phillips oherwydd gwnaeth yr artistiaid hyn bortreadu chwareli a bröydd chwarelyddol yn eu gweithiau hwy hefyd.

Artist ifanc sy'n ymateb yn uniongyrchol i *Un Nos Ola Leuad* yw Lisa Eurgain Taylor o Langefni. Mae hi'n portreadu delweddau a ymddengys yn y nofel o Frenhines yr Wyddfa a Brenhines y Llyn Du a'u gosod mewn ffordd haniaethol yn ei thirluniau o ogledd Cymru. Dywed: 'Cymeraf siapiau a llinellau'r corff dynol i ddatgelu tirluniau arallfydol gyda naws ysbrydol ac elfen o anthropomorffiaeth [sic] iddynt.'⁶⁴² Mae'r effaith yn hynod o drawiadol ac yn cyfleu'r ddeuliaeth ym myd natur – y ddeuliaeth honno sy'n ymddangos ym mhortread Caradog Prichard o Frenhines y Llyn Du. Dywed Menna Baines am ei gweithiau: 'Oes, ynghanol caledwch y creigiau, mae rhyw feddalwch annisgwyl i'w ganfod hefyd. Mae'r cyfan yn cyfuno i greu awyrgylch gyfriniol, hudol.'⁶⁴³ Mae'r lluniau'n sicr yn llawn awyrgylch ac yn ymateb i weithiau llenyddol y bröydd chwarelyddol mewn ffordd hynod o effeithiol.

Er nad yw Josie Russell (g. 1987) yn portreadu chwareli'n uniongyrchol, mae tirlun y bröydd yn ganolbwynt i'w gweithiau ac mae ganddi arddull unigryw i gyfleu'r ardaloedd. Mae Josie Russell yn casglu amryw o ffabrigau ac yn eu gosod i awgrymu lliwiau mynyddoedd Dyffryn Nantlle yn bennaf. Mae'r bröydd chwarelyddol yn boblogaidd ganddi mewn lluniau fel 'Capel Nantlle', 'Mynyddoedd Eryri o Benygroes', 'Tryfan a Dyffryn Ogwen', 'Llanberis a llyn Padarn' ac ati. Dywed Josie Russell am ei gwaith:

Daw fy ysbrydoliaeth o'r tirluniau hyn o Ddyffryn Nantlle lle cefais fy magu. Mae'r gludweithiau ffabrig wedi eu gwneud bron yn gyfan gwbl o ddeunyddiau a ailgylchwyd o siopau elusen lleol, teulu a ffrindiau.⁶⁴⁴

Mae ei harddull unigryw yn hynod effeithiol o bellter ac yn llwyddo i gyfleu'r amrywiaeth ddramatig ym mynyddoedd y gogledd. Mae'r pwyslais ar ailgylchu yn ddiddorol hefyd oherwydd ei fod yn thema sydd yn codi droeon wrth astudio celf y bröydd chwarelyddol. Efallai bod hyn oherwydd y pwyslais ar

⁶⁴² Lisa Eurgain Taylor, Gwefan yr Artist: <http://www.lisaeurgaintaylor.com/2013.html> Chwefror 2014.

⁶⁴³ Menna Baines, 'Cyfrinachau'r Mynyddoedd- Gwaith Lisa Eurgain Taylor' yn *Barn Mawrth* 2014. Ar gael yma: http://www.cylchgrawnbarn.com/index.php?option=com_content&view=article&id=444:cyfrinachaur-mynyddoedd-gwaith-lisa-eurgain-taylor&catid=112:chwefror&Itemid=341 Mawrth 2014.

⁶⁴⁴ Josie Russell, Arddangosfa Josie Russell Oriol Môn, 24/02/2013.

bwysigrwydd ailgylchu yn ein cymdeithas ond mae'n ddiddorol bod cymaint o'r artistiaid yn creu celf o rywbeth a fyddai fel arall yn cael ei ystyried yn wastraff. Mae'r llechi eu hunain sydd yng ngweithiau'r dylunwyr gemwaith a cherfluniau Howard Bowcott a Stephen Kettle yn dod o'r tomenni rwbel.

Mae nifer o artistiaid yn dod o'r bröydd chwarelyddol ac yn cael eu hysbrydoli gan y tirlun yno. Nant Ffrancon yn Nyffryn Ogwen yw awen David Woodford (g. 1938) ac mae ei dirluniau o'r ardal honno yn hynod o drawiadol a phoblogaidd. Mae lluniau Barry Skinner (g. 1941) yn portreadu hen chwareli mewn dull cartwnaidd gydag amlinelliad du trwchus o amgylch y slabiau mawr o lechi cefnsyth ym mlaen y llun. Mae David Wilde (g. 1918) hefyd yn gosod y crawiau ym mlaen ei luniau ond maent yn finiog ac mewn siapiau ongllog. Mae naws dywyll, fygythiol i bortreadau Wilde o'r chwareli ac mae ei ddefnydd o baent llachar yn rhoi blas mwy sinistr i'r darlun. Mae Cefyn Burgess (g. 1961) o Fethesda yn enwog am greu *collages* o gapeli. Roedd holl gapeli Bethesda yn ysbrydoliaeth iddo ddechrau'r prosiect hwnnw. Mae lluniau yn Neuadd Ogwen o gymeriadau lleol gan Griff Llechid Jones yn cyfleu balchder y fro o'i gwerin, ac o gelfyddyd. Wrth gwrs mae nifer o artistiaid eraill y gallwn gyfeirio atynt yn yr adran hon ond rwyf wedi penderfynu dethol y portreadau mwyaf diddorol i'w trafod.

iv) Ffotograffiaeth

Mae'n ddiddorol bod prif ffotograffwyr y bröydd chwarelyddol yn tueddu i greu naws debyg yn eu lluniau. Gan amlaf, maent yn ddu a gwyn ac yn pwysleisio elfennau ôl-ddiwydiannol y bröydd. Mae hen chwareli gwag a'u hadfeilion yn fotiff cyson ynghyd â delweddau sy'n deillio o oes aur y diwydiant llechi yn cael eu defnyddio i gyfleu'r dirywiad. Mae'r lluniau hyn yn creu awyrgylch tywyll sy'n annog y gynulleidfa i ystyried yr hyn a fu.

Mae *From Edge to Edge, photographs of the Welsh landscape* gan Paul Joyce (g. 1944) yn gyfrol o ffotograffau o Gymru'n gyffredinol ond mae safbwynt ôl-ddiwydiannol cadarn i'r lluniau ac o ganlyniad mae'r bröydd chwarelyddol yn dal llygaid yr artist. Mae ei ffotograffau yn ddu a gwyn ac yn portreadu tirlun

Cymru fel lle anial, llwm. Mae lluniau fel 'Industrial Architecture, now razed'⁶⁴⁵ (1976) yn gosod y diwydiant llechi yn y cyfnod ôl-ddiwydiannol wrth ddangos hen reilffordd i'r chwarel ym Mlaenau Ffestiniog. Mae'r gyfrol yn pwysleisio gwacter a marwolaeth cefn gwlad Cymru a mannau ôl-ddiwydiannol eraill fel cymoedd y de. Lluniau o adeiladau gwag a natur yn ailhawlio'r tir sy'n ymddangos droeon gan Paul Joyce, thema sydd hefyd yn amlwg ym marddoniaeth y bröydd chwarelyddol.

Yn 1979 mae llun o hen chwarel wrth Gwmystwyth, 'Abandoned Quarry'⁶⁴⁶ sydd eto'n pwysleisio'r dirywiad yn y chwarel a'r ffordd y mae'r llechi fel petaent yn mynd yn ôl i'r tir. Mae'r gair 'abandoned' yn cael ei ailadrodd trwy'r gyfrol i bwysleisio'r awyrgylch mae Joyce yn ceisio ei greu yn ei ffotograffau. Ysgrifenna Ian Jeffrey yn rhagair y llyfr am amcanion Paul Joyce gyda'i luniau a'r gyfrol hon:

His purpose here is twofold: to express his own, inevitable, inadequacy in front of a major landscape, and that of a culture similarly overwhelmed. If his own interventions are dwarfed, those of the culture itself are no different; they, too, seem small, precarious, on the verge of a return to nature.⁶⁴⁷

Yn ôl Ian Jeffrey, felly, mae fel petai Joyce yn ceisio cyfleu methiant diwydiannol Cymru. Mae'n archwilio olion y diwydiant llechi fel ysgerbwd sydd yn pydru'n ôl i'r tir. Nid yw ei ffotograffau yn mynegi edmygedd at fawredd y diwydiant yn ei oes aur ond yn hytrach yn cofnodi'r gwacter ar ei ôl.

Mae *Grazing Slateland: The North Wales Slate Landscape* gan Roger Tiley (g. 1960) yn gasgliad o ffotograffau o olion y diwydiant llechi. Dyma gyfrol arall o ffotograffau atmosfferig du a gwyn sydd yn pwysleisio elfennau ôl-ddiwydiannol y bröydd chwarelyddol. Yn ei ragair i'r llyfr mae Roger Tiley yn disgrifio ei amcanion gyda'r gyfres hon o luniau:

⁶⁴⁵ Paul Joyce, *From Edge to Edge, Photographs of the Welsh Landscape* (London: Lucida, 1983), t. 38.

⁶⁴⁶ Paul Joyce, 'Abandoned Quarry, near Cwmystwyth', *From Edge to Edge, Photographs of the Welsh Landscape*, t. 42.

⁶⁴⁷ Ian Jeffrey, 'Preface', *From Edge to Edge, Photographs of the Welsh Landscape*, t. i.

My intention from the outset, was not to take a series of photographs showing the outstanding beauty of Snowdonia (there are a number of books illustrating this), but to record the scars that are embedded on the proud and graphically eloquent scenery. But in a highly successful tourist region, images of dereliction are prominent in the less known corners of Snowdonia. Many of the photographs are indeed uncompromising. Their scale leave room with respect for those old quarrymen who toiled against the stubborn rockfall.⁶⁴⁸

Yn sicr mae ffotograffau Roger Tiley yn archwilio rhan o Eryri a gaiff ei hanwybyddu fel arfer gan y bwrdd twristiaeth. Mae prydferthwch i'w ganfod yn y lluniau ond fel y mae'r artist yn ei awgrymu, nid prydferthwch confensiynol mohono. Mae Roger Tiley yn llwyddo i bortreadu marwolaeth y diwydiant llechi gyda thynnerwch a pharch.

Mae Roger Tiley yn ysgrifennu yn rhagair y gyfrol am ei ddiddordeb yn y diwydiant glo yng nghymoedd y de. Mae wedi treulio blynyddoedd yn cofnodi'r dirywiad yn y diwydiant a'r ardaloedd hynny. Trwy hynny tyfodd ei ddiddordeb yn nhirlun Cymru ac effaith yr hen ddiwydiannau arno. Mae'n ymhelaethu:

I especially became interested in the remains of the slate industry on the landscape. It had dramatically changed the environment. Nearly all the disused quarries had been left, looking as they did the day they closed. The only changes were the effects of the elements eroding the past.⁶⁴⁹

Mae Roger Tiley yn enwog am gofnodi effaith cau'r pyllau glo yng nghymoedd y de ac wrth droi ei olygon tua'r gogledd mae'n cyfleu'r cysylltiad rhwng ardaloedd ôl-ddiwydiannol Cymru. Mae tebygrwydd amlwg yn lluniau *Grazing Slateland* ac *Y Cymoedd Du* (*The Black Valley, The Grey Sky*) o gapeli'n dadfeilio, hen beiriannau'n rhydu, ac o dai gwag. Mae *Y Cymoedd Du* yn portreadu cyfnod ehangach ac yn canolbwyntio mwy ar bobl y gymdeithas honno. Ond mae naws y ddwy gyfrol yn debyg ac yn mynegi'r un neges am fethiannau diwydiannol Cymru.

⁶⁴⁸ Roger Tiley, *Grazing Slateland: The North Wales Slate Landscape* (Ystradglynlais: Incline Publications, 1994), t. 25.

⁶⁴⁹ Roger Tiley, *Grazing Slateland: The North Wales Slate Landscape*, t. 25.

Caiff y dirywiad ei bwysleisio droeon yn *Grazing Slateland*. Mae 'Cwmorthin Quarry, Blaenau Ffestiniog'⁶⁵⁰ yn edrych ar adfeilion hen farics y chwarelwyr o bersbectif yr afon. Mae 'Maen Offeren Quarry'⁶⁵¹ yn cyferbynnu llechi taclus hen adeilad y chwarel gyda blerwch y domen yn y cefndir yn effeithiol. Mae lluniau fel 'Blaenau Ffestiniog, Gwynedd' yn drawiadol o safbwynt ôl-ddiwydiannol oherwydd mae'n bortread o'r ardal honno yn y niwl gyda hen bont rheilffordd y chwarel sydd bellach yn cludo twristiaid yn hytrach na llechi.

Mae 'Penrhyn Quarry, Bethesda'⁶⁵² yn dangos peiriannau modern a pheilonau yn yr hen chwarel honno gan ein hatgoffa bod y diwydiant yn fyw o hyd. Mae'r llun hwn yn wahanol i weddill y gyfrol oherwydd ei fod yn portreadu parhad yn hytrach na dirywiad. Mae 'Dinorwig Quarry, Llanberis'⁶⁵³ wedi ei dynnu o'r chwarel honno ac yn edrych i lawr ar yr orsaf bŵer, Mynydd Gwefru wrth lyn Padarn. Mae cyferbyniad yma rhwng yr hen ddiwydiant llechi a'r diwydiant newydd sydd wedi ailhawlio'r mynydd.

Mae Jean Napier hefyd yn tynnu ffotograffau du a gwyn o'r bröydd chwarelyddol. Mae'n ddiddorol bod y tri artist yma'n defnyddio ffilm ddu a gwyn wrth bortreadu'r ardaloedd llechi; efallai bod hyn oherwydd mai llwyd yw'r lliw amlycaf ymhobman ac mae du a gwyn yn pwysleisio hyn ac yn atgyfnerthu'r awyrgylch. Mae Judy a Ted Buswick yn ysgrifennu am gelf Jean Napier fel a ganlyn:

Napier's photographs show realism and the austere beauty of the slate ruins. But her images appeal to the sense of nostalgia, too, as viewers realize there was once the bustling activity of a prosperous business in these remote mountains.⁶⁵⁴

Mae ei lluniau yn rhoi pwyslais ar y gwacter ar ôl yr hyn a fu. Mae ganddi luniau o gefn llyfn cerrig beddi o lechen, o'r crawiau cadarn ynghanol cae gwag ac o'r dirywiad yn adfeilion yr hen chwareli. Fel y dywed Judy a Ted Buswick, mae

⁶⁵⁰ Roger Tiley, 'Cwmorthin Quarry, Blaenau Ffestiniog', Plate 2, *Grazing Slateland*, t. 43.

⁶⁵¹ Roger Tiley, 'Maen Offeren Quarry, Blaenau Ffestiniog', Plate 6, *Grazing Slateland*, t. 51.

⁶⁵² Roger Tiley, 'Penrhyn Quarry, Bethesda', Plate 17, *Grazing Slateland*, t. 73.

⁶⁵³ Roger Tiley, 'Dinorwig Quarry, Llanberis', Plate 25, *Grazing Slateland*, t. 89.

⁶⁵⁴ Judy & Ted Buswick, *Slate of Hand: Stone for Fine Art & Folk Art*, t. 123.

Napier yn llwyddo i bortreadu'r prydfferthwch yn olion y diwydiant llechi, rhywbeth mae nifer o feirdd ac artistiaid yn cael trafferth ei fynegi.

Defnyddiwyd ffotograffau Jeremy Moore (g. 1953) yn y gyfrol *Blaenau Ffestiniog*, ac rwyf eisoes wedi trafod y llyfr yma yn yr adran farddoniaeth. Ysgrifennodd Gwyn Thomas gerddi i gyd-fynd gyda lluniau Jeremy Moore o'r fro a'i chwareli. Yn wahanol i'r ffotograffwyr eraill, mae Jeremy Moore yn defnyddio ffilm liw ac o ganlyniad yn cyferbynnu llwydni'r chwarel gyda'r peiriannau lliwgar, neu lesni llechen gyda blagur yn tyfu trwyddo. Mae Jeremy Moore, fel y ffotograffwyr eraill, yn portreadu'r dirywiad yn y diwydiant llechi a'r gwacter ar ei ôl yn yr ardal; ond mae Moore hefyd yn canolbwyntio ar natur yn adnewyddu ac yn ailhawlio'r tirlun. Wrth ymateb i bortreadau Jeremy Moore, mae barddoniaeth Gwyn Thomas yn cynnwys y themâu hyn hefyd. Mae'n enghraifft ddiddorol o'r bartneriaeth rhwng celf a llenyddiaeth. Mae lluniau Jeremy Moore a barddoniaeth Gwyn Thomas yn mynegi tristwch ac edifarhad am ddiwedd y diwydiant llechi ond hefyd yn edrych tua'r dyfodol mewn ffordd gadarnhaol wrth weld yr hen chwareli a'u tomennydd rwbwl yn dychwelyd i'r tir.

v) Ymateb i'r Tirlun

Mae'r adran hon yn edrych ar artistiaid sydd yn ymateb i dirlun a diwylliant y bröydd chwarelyddol, ond efallai nad yw eu gweithiau yn uniongyrchol gysylltiedig â'r diwydiant llechi. Nid yw'r gweithiau celf yn yr adran hon yn hawdd i'w labelu am eu bod yn fwy haniaethol ac agored i'w dadansoddi.

Comisiynwyd Peter Lord (g. 1948) i greu prosiect enfawr ym Mharc Glynllifon sef 'Gwerin y Graith' yn 1990. Roedd nifer o artistiaid gwahanol yn rhan o'r prosiect a oedd yn ddathliad o ddiwylliant ac yn enwedig llenyddiaeth y bröydd chwarelyddol. Trwy dalu teyrnged i ryddiaith Kate Roberts, T. Rowland Hughes a Caradog Prichard, roedd 'Gwerin y Graith' yn ymgais i roi cyfle i ardaloedd yr awduron hyn ymfalchïo yn eu treftadaeth. Mae hon yn enghraifft dda o'r cysylltiad rhwng celf weledol a llenyddiaeth ac yn cyfleu'r berthynas rhwng geiriau a llun yn effeithiol.

Mewn traethawd o dan y teitl 'Sites Revisited - artwork in our public places' mae Shelagh Hourahane yn disgrifio'r hyn roedd 'Gwerin y Graith' yn ceisio ei gyflawni:

The people who live in Gwynedd are still mainly clustered into the five 'slate valleys', where housing is plentiful and cheap. It isn't surprising therefore that in the slate valleys initiative, Gwynedd has launched a campaign to offer revival or regeneration to these places. I discover that the formula is similar to that being used in other areas of regeneration, with the emphasis on kindling self worth and optimism within communities and upon new tourism developments as the focus of economic sustainability.⁶⁵⁵

Roedd 'Gwerin y Graith' felly yn ymgais gan Gyngor Gwynedd i hybu balchder a thwristiaeth yn y bröydd chwarelyddol. Roedd yn brosiect hynod ddiddorol am ei fod yn defnyddio cymaint o artistiaid gwahanol mewn gofod mor fawr. Mae rhai agweddau ar y celf yn parhau i fod yno ac wedi datblygu i fod yn rhan annatod o Barc Glynllifon. Cynlluniodd Howard Bowcott a Meical Watts y safle drama wrth yr afon yng Nglynllifon, safle sy'n parhau i gael ei defnyddio hyd heddiw ar gyfer dramâu a gwyliau cerddorol. Roedd Glynllifon wedi bod yn nwylo'r Cyngor ers 1987 ac felly roedd lawnsio 'Gwerin y Graith' dair blynedd yn ddiweddarach yn ffordd wych o wahodd y cyhoedd yno am y tro cyntaf.

Roedd Catrin Williams ynghlwm â'r prosiect ac yn cynnal gweithdai peintio gyda phlant ac yn arlunio lluniau lliwgar ar dyrrau o lechi mewn cylch. Mae ganddi rai darluniau o'r cyfnod ar ei gwefan ac maent yn hynod o liwgar a bywiog gyda nifer o siapiau haniaethol yn gorchuddio'r dudalen. Mewn llyfr wedi ei olygu gan Iwan Bala, *Groundbreaking: The Artists in the Changing Landscape*, ceir disgrifiadau a lluniau o gynnwys y safle. Roedd 'Maen Hir' gan Denys Short yn deyrnged i O. M. Edwards yn yr adran llenyddiaeth plant. Cafodd murlun ar y safle ei arlunio gan Wil Jones, athro celf Ysgol Dyffryn Nantlle a gafodd ei ysbrydoli gan *Chwalfa*, T. Rowland Hughes a hanes streic fawr Bethesda. Mae'n dangos chwarelwyr mewn rhes wedi eu hamgylchynu gan ddyfyniadau o'r nofel

⁶⁵⁵ Shelagh Hourahane, 'Sites Revisited - artwork in our public places', *Groundbreaking: The Artists in the Changing Landscape*, gol. Iwan Bala (Bridgend: Seren, 2005), tt. 67-8.

a lluniau o'r cyfnod. Crëwyd hefyd slabiau anferth o goncrit yn sillafu,
'CHWALFA'.⁶⁵⁶

Cafodd Morgen Hall (g. 1960) ei chomisiynu i greu potiau ar gyfer y safle. Roedd y potiau hyn yn symbol pwysig a oedd yn uno holl gelf y parc. Mae murlun yn dangos mam yn arllwys cynnwys jwg i bowlen sy'n cael ei ddal gan ei phlentyn. Mae dyn tu ôl i'r fam a'i phlentyn yn edrych yn ddifrifol ac mae ysgrifen yn pwysleisio'r hollt yn y gymdeithas, 'Nid oes BRADWR yn y tŷ hwn.'⁶⁵⁷
Ysgrifennodd Peter Lord am bwysigrwydd y jwg i'r prosiect:

The site was to be unified by the symbol of a jug, fallen on its side and spilling its contents. Morgen came to the site, visited Rhosgadfan, read Kate Roberts and made superb pots, some of them on a monumental scale. I designed, and Martin Bellwood made and cast, red bronze to flow in to the soil and into the water of a small lake from which a waterfall descended to the floor of the valley. My idea was to suggest the continuing flow of the literature, through which a sense of tradition persisted despite the breaking of the community from which it arose by various forms of economic, political and social pressure in the twentieth century.⁶⁵⁸

Mae neges gadarnhaol y gelfyddyd yn annog balchder y gymdeithas yn ei diwylliant. Ond gellir dadlau hefyd fod rhywbeth yn arllwys o jwg wedi disgyn ar ei hochr yn ddelwedd annymunol. Mae cynnwys gwerthfawr y jwg yn cael ei golli ac yn fy meddwl i mae naws goch y cynnwys yn dwyn i gof y gwaed a gollwyd yn y chwarel yn hytrach na dawn lenyddol a diwylliannol y bröydd.

Mae Peter Lord yn mynd ymlaen i ddisgrifio pwysigrwydd y safle mewn cyd-destun hanesyddol:

The site was funded by the Transport and General Workers Union, which had led the Great Strike of 1900-03. I still feel that Gwerin y Graith was a beautiful concept and that, given care and the time to mature, it could have become a powerful place. I was very proud of it.⁶⁵⁹

⁶⁵⁶ Peter Lord, 'Gwerin y Graith', Parc Glynllifon 1990, *Groundbreaking: The Artists in the Changing Landscape*, gol. Iwan Bala, t. 111.

⁶⁵⁷ Peter Lord, 'Gwerin y Graith', murlun wedi ei arlunio gan Wil Jones, Parc Glynllifon 1990, *Groundbreaking: The Artists in the Changing Landscape*, gol. Iwan Bala, t. 105.

⁶⁵⁸ Peter Lord, *Groundbreaking: The Artists in the Changing Landscape*, gol. Iwan Bala, t. 107.

⁶⁵⁹ Ibid.

Yn sicr, roedd llawer o botensial yn y safle ac mae'r cysylltiad hanesyddol hwn yn ei wneud hyd yn oed yn fwy ingol. Wrth ystyried y ffordd y buasai'r gelfyddyd wedi gallu datblygu, mae'n gwneud effaith yr hyn a ddigwyddodd yno yn fwy trasig. Crëwyd y safle i annog y bobl leol i ymweld â thiroedd plasty'r boneddigion. Ond yn eironig cafodd y safle ei dinistrio gan drigolion.

Tybiwyd mai bechgyn lleol a oedd yn gyfrifol ond gwrthododd y cyngor fynd â'r mater ymhellach. Roedd tlodi a diweithdra yn broblemau mawr yn yr ardal ar y pryd a chafodd y dinistr ei anwybyddu i raddau. Dyma Peter Lord yn disgrifio'r difrod i'w holl waith:

When I arrived I found that the site had not so much been vandalised as systematically demolished. All the ceramics had been broken, including a jug held in a bronze hand in the middle of the lake. The only survivors were three jugs on top of a small column. The mystical 'Brenhines yr Wyddfa' passage from Caradog Prichard's *Un Nos Ola Leuad*, etched on armoured glass, had somehow been smashed. The bronze castings had been levered from their mountings.⁶⁶⁰

Mae'n ddiwedd trasig i brosiect a oedd mor frwd dros greu balchder yn y fro. Mae'r ffaith mai dim ond y llythrennau concrit enfawr yn sillafu'r gair 'CHWALFA' a erys yn ychwanegu at eironi trist y sefyllfa, yn ôl Peter Lord.⁶⁶¹ Ond dywed yr artist hefyd fod y difrod a'r dirywiad a ddaeth gydag amser wedyn yn ychwanegu at bŵer y safle, mwy na phetai wedi cael ei adael fel yr oedd ef wedi ei ddylunio.⁶⁶² Mae hwn yn safbwynt hynod ddiddorol i Peter Lord ei fynegi ac mae'n siŵr bod elfen o wirionedd yn hynny. Gellir dadlau bod y difrod yn cyfleu agwedd a phroblemau cymdeithasol y bröydd chwarelyddol yn llawer cryfach nag y gall unrhyw waith celf. Y siom yw, wrth gwrs, mai ceisio hybu balchder yn eu cymunedau yr oedd 'Gwerin y Graith.'

Mae David Nash (g. 1945) yn byw ym Mlaenau Ffestiniog ers iddo brynu hen gapel yno am £200 pan oedd yn 22 oed. Mae tirlun y fro yn ysbrydoli ei waith ac er mai am drin pren y mae'n enwog, mae olion y diwydiant llechi yn awen barhaus i'w gelfyddyd. Trwy ei ffenestr mae Nash yn gweld tomen rwbel

⁶⁶⁰ Ibid, t. 110.

⁶⁶¹ Ibid.

⁶⁶² Ibid.

anferth sydd yn newid yn gyson. Ysgrifenna Marina Warner am ddylanwad llechi'r domen ar ei waith:

David Nash says he learns from them daily, from their natural geometry, their simplicity and force, their changeability, their inner life. They set the standard for the laws of organic form which he obeys.⁶⁶³

Mae Nash yn artist sydd yn ymateb i'r tirlun o'i gwmpas ac ni cheir tirlun llawer mwy dramatig nag olion ôl-ddiwydiannol Blaenau Ffestiniog.

Er mai pren yw prif ddeunydd yr artist hwn, mae 'Slate Stove'⁶⁶⁴ yn defnyddio llechi i greu gofod sydd yn mochel tân. Mae hefyd yn creu o ddeunyddiau eraill gan gynnwys rhew, clai, bambw a cherrig afon. Mae'r prosiect hwn yn dwyn i gof weithiau Andy Goldsworthy ac yn efelychu'r elfen chwareus honno yn ei gelf ef. Un o weithiau enwocaf David Nash yw 'Wooden Boulder'⁶⁶⁵ sef darn o bren a gerfiwyd i siâp crwn a'i ollwng yn yr afon ym Maentwrog. Dilynodd Nash daith y darn o bren a chofnodi ei leoliad. Cymerodd un deg saith o flynyddoedd iddo orffen ei daith a chyrraedd yr afon Dwryd. Mae Amanda Farr, cyfarwyddwr Oriol 31, yn disgrifio'r prosiect hynod hwnnw yng nghyfrol David Nash, *Twmps*:

'*Wooden Boulder*' is another of his major environmental works. Hewn from an oak trunk in the hills around Blaenau Ffestiniog, this massive, wooden 'stone' began its travels in a stream down the Ffestiniog Valley in 1978. Often its progress is laborious - it can remain stationary for months, sometimes years: occasionally it moves rapidly, bouyed and buffeted along its way by the stream's waterfalls and seasonal floods.⁶⁶⁶

Mae natur yn chwarae rhan hanfodol yng nghelf David Nash ac o ganlyniad mae neges amgylcheddol amlwg i'w weithiau. Er nad yw'n aml y defnyddio llechi yn ei weithiau, mae'r domen lechi a thirlun Blaenau Ffestiniog yn ysbrydoliaeth gyson i'w gelf.

⁶⁶³ Marina Warner, 'Through the Narrow Door', David Nash, *David Nash: Forms into Time* (London: Artmedia, 2001), t.8.

⁶⁶⁴ David Nash, 'Slate Stove', *Forms into Time*, t. 87.

⁶⁶⁵ David Nash, 'Wooden Boulder', *Forms into Time*, t. 52.

⁶⁶⁶ Amanda Farr, 'Green and Black' yn David Nash, *Twmps* (Newtown, Powys: Oriol 31; Bridgend: Seren, 2001), t. 8.

Mae ffotograffau Bob Mitchell (g. 1941) o chwareli Blaenau Ffestiniog yn hynod drawiadol. Maent yn fwy personol na ffotograffau'r artistiaid eraill rwyf wedi trafod eu gweithiau oherwydd mae Bob Mitchell yn tynnu lluniau gydag olion dynol yn hytrach na diwydiannol. Mae lluniau o hen weithdai'r chwarelwyr yn llawn hen offer yn rhydu, hen ddesg yn pydru, posteri'n crebachu, a chyn-chwarelwyr yn edrych ar eu cyn-weithle. Mae naws lawer mwy ingol i'r ffotograffau hyn o ganlyniad i'r elfennau personol a dynol hyn. Trwy dynnu lluniau o weithwyr presennol y diwydiant mae Mitchell yn dangos mor fregus yw'r hyn sydd ar ôl, ond hefyd yn pwysleisio bod rhai chwareli'n dal ar agor.

Mae prosiect diweddaraf yr artist, 'Man Made Mountains/ Mynyddoedd a Grewyd Gan Ddyn', yn archwilio'r berthynas rhwng y diwydiannol a'r ôl-ddiwydiannol mewn ffordd ddeheuig, unigryw a blaengar. Cafodd yr artist ei ysbrydoli gan dirlun dramatig Blaenau Ffestiniog ac olion y diwydiant llechi sydd yn amgylchynu'r dref i greu gweithiau celf sy'n rhan o ddatliad pen-blwydd Ceudyllau Llechwedd ym Mlaenau Ffestiniog a'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis yn ddeugain oed. Mae'r prosiect yn gyfres o ffotograffau o weithwyr presennol Chwarel y Penrhyn ym Methesda a Chwarel Llechwedd ym Mlaenau Ffestiniog wrth eu gwaith. Ond yn wahanol i ffotograffau cyffredin, mae'r delweddau hyn wedi eu pastio fel papur wal hyd at 50 troedfedd o uchder mewn lleoliadau sy'n pwysleisio'r dirywiad yn y diwydiant llechi.

Mae hen chwareli gwag, adfeilion hen adeiladau a chwareli tanddaearol Corris wedi eu defnyddio fel lleoliadau ar gyfer y prosiect. Trwy'r lleoliadau amrywiol hyn mae 'Mynyddoedd a Grewyd gan Ddyn' yn pontio bröydd chwarelyddol gogledd Cymru ac yn mynegi parhad a breuder y diwydiant llechi. Trwy osod y ffotograffau mewn lleoliadau ôl-ddiwydiannol mae'r artist yn llwyddo i greu cyferbyniad effeithiol rhwng y chwarelwyr cyfoes yn eu gwisgoedd diogelwch a'r hen bonciau lle mae'r ddelwedd o'r hen chwarelwyr yn crogi wrth raff denau yn gyfarwydd.

Mae Bob Mitchell yn cofnodi dirywiad y posteri yn gyson, a gwelir y broses hon fel rhan o'r gwaith, fel perfformiad celfyddydol. Wrth osod y celf yn yr awyr agored, mae'n ddibynnol ar yr elfennau ac, yn ôl yr artist, mae'r ansefydlogrwydd hwnnw yn rhan fwriadol o natur y gwaith: 'The pastings were designed to weather – degrade and disappear – fade away and tear – like old

advertising posters.⁶⁶⁷ Efallai bod hyn yn sylw am y ffordd y mae'r hen chwareli'n cael eu marchnata a'u hysbysebu fel canolfannau i dwristiaid. Cyfleir breuder y ffotograffau mewn ffordd ingol sy'n adlewyrchiad o'r dirywiad yn y diwydiant llechi.

O ganlyniad i ansefydlogrwydd y gweithiau hyn sy'n prysur ddiflannu mae'n wych bod ffilm gan Johnny Maxfield yn cofnodi'r gwaith.⁶⁶⁸ Dyma atodiad gwerthfawr i'r prosiect sy'n dangos sawl agwedd ar waith yr artist o dynnu ffotograffau o'r gweithwyr i'r dirywiad yn y lluniau. Cyfleir breuder yr hollt rhwng y diwydiannol a'r ôl-ddiwydiannol yn drawiadol gan y prosiect hwn. Yn 'Mynyddoedd a Grewyd Gan Ddyn' mae Bob Mitchell yn llwyddo i ymateb i broblemau'r ardaloedd chwarelyddol a'r diwydiant llechi heb sentimentaleiddio na delfrydu'r oes a fu. Yn hytrach, mae'n portreadu presenoldeb byw y diwydiant ochr yn ochr â'r dirywiad.

Diweddglo

Dyma'r astudiaeth gyntaf o'r modd mae'r bröydd chwarelyddol - y chwarelwyr, y diwydiant llechi, a'r gymdeithas - yn cael eu portreadu ym mhrif gyfryngau Cymru. Mae'r ddoethuriaeth yn drosolwg academiaidd o ystod eang o ffynonellau ers 1972, sef geni'r cyfnod ôl-ddiwydiannol. Wrth fanylu ar ddelweddau o'r diwydiant twristiaeth, y portread a gyflwynir gan y bröydd eu hunain mewn papurau a hunangofiannau bro, llenyddiaeth, dramâu llwyfan, teledu a ffilm, canu poblogaidd a chelf, llwyddais i olrhain y modd y defnyddir y cyfryngau hyn i gynnal ac ail-greu'r cof cyhoeddus am y diwydiant llechi yn y cyfnod diweddar ar draws y sbectrwm cyhoeddus.

Dechreuais yr ymchwil hwn gyda meddwl cwbl agored. Yr oeddwn fy hun yn ddall i'r ystrydeb sy'n fyw yn y mwyafrif o bortreadau o'r chwarelwr a'i fyd. Wrth astudio'r holl gyfryngau hyn roeddwn yn gweld yr un darlun yn cael ei

⁶⁶⁷ Bob Mitchell, 'Man Made Mountains', <http://www.manmademountains.co.uk/> Medi 2012.

⁶⁶⁸ Johnny Maxfield, 'Man Made Mountains', <http://www.manmademountains.co.uk/> Medi 2012.

ailadrodd dro ar ôl tro. Yn yr astudiaeth hon, rwyf wedi llwyddo i adnabod ystrydebau'r portread ac archwilio gwreiddiau'r myth. Archwiliais hefyd gonfensiynau'r portread yn ogystal ag eithriadau sy'n herio'r myth.

Yn gyffredinol, defnyddir y chwarelwr mewn llenyddiaeth i adlewyrchu safbwynt yr awdur. Gall fod yn gynrychiolaeth o'r gweithiwr sy'n cael ei ormesu, o wleidyddiaeth radicalaidd, o'r Cristion delfrydol, o'r anghyfiawnderau a wynebwyd gan Gymry'r oes ac o ddiwylliant cyfoethog y werin. Roedd pob carfan o gymdeithas y fro chwarelyddol yn gweithio yn y chwarel, hyd yn oed y dynion gyda'r gallu i fynd i'r brifysgol, i fod yn feddygon neu'n athrawon. Credaf mai dyma pam fod myth y chwarelwr wedi datblygu. Dyma'r dynion a oedd yn arwain y trafodaethau ac eisteddfodau'r caban, a oedd yn barddoni neu'n cyfansoddi cerddoriaeth. Yn hanesyddol, wrth gwrs bod y dynion hyn yn bodoli, ond mae'n ddiddorol eu bod wedi datblygu i gynrychioli chwarelwyr gogledd Cymru'n gyfan gwbl, bron.

Tybed a wnaeth y ffrwd o ramantiaeth yn dilyn brad y Llyfrau Gleision ddylanwadu ar fyth y chwarelwr a'i siapio? Cafwyd sawl ymgais llenyddol i danseilio canfyddiadau'r adroddiad hwnnw yn 1847. Portreadwyd y Cymry fel pobl ddiwylliedig, crefyddol a pharchus mewn llenyddiaeth yn dilyn yr adroddiad ac efallai bod y gwerthoedd hynny wedi datblygu i fod yn gonfensiwn llenyddol. Yn aml, defnyddir ffigwr y chwarelwr i gynrychioli gweithwyr diwydiannol, Cymraeg, delfrydol a gellir dadlau bod y portread hwnnw'n deillio o ysfa'r Cymry i'w cyflwyno eu hunain felly i'r byd. Roedd cyhoeddiadau fel *My People* gan Caradoc Evans yn 1915 hefyd yn ysgogi awduron Cymraeg i bwysleisio rhinweddau eu cymdeithas ac efallai bod hynny hefyd wedi chwarae rhan yn sefydlu'r myth.

Mae haneswyr yn gyffredinol yn cefnogi'r darlun confensiynol o chwarelwr diwylliedig. O ganlyniad, wrth i lenorion ymchwilio i hanes y diwydiant llechi, maent yn ymgyfarwyddo gyda'r portread ystrydebol a geir yn y llyfrau hanes a llenyddiaeth y cyfnod diwydiannol. Efallai bod dirywiad araf y diwydiant llechi'n rheswm pam mae llenyddiaeth y bröydd wedi bod yn edrych yn ôl ar yr oes o'r blaen, yn hytrach nag archwilio sgerbwd y diwydiant. Efallai hefyd fod delfrydu gorffennol y bröydd yn ffordd o gyfleu'r dirywiad yng ngwerthoedd y gymdeithas bresennol. Beth bynnag fo'r rheswm, mae'r mwyafrif

o gynhyrchion llenyddol y bröydd chwarelyddol yn atgyfnerthu'r portread ystrydebol hwn ac o ganlyniad mae gweithiau sy'n herio'r darlun yn chwyldroadol o ystyried yr holl draddodiadau llenyddol sy'n eu rhagflaenu.

Cyfeiriais yn y rhagymadrodd at ysgrif Dafydd Roberts, 'Y Deryn Nos a'i Deithiau,' sy'n cynnwys ffeithiau hanesyddol sy'n creu darlun annymunol o'r chwarelwyr. Dywedodd fod yr ysgrif yn 'adwaith'⁶⁶⁹ i'r portreadau a geir gan haneswyr ac awduron eraill gan alw arnynt i 'ailgloriannu'⁶⁷⁰ digwyddiadau'r gorffennol. Soniais hefyd am yr ymateb a gafwyd i'w ddamcaniaethau ac am erthygl Emyr Price, 'Y Chwarelwr a'i fyd: A'r Cymry Croendenau Unllygeidiog.' Wrth i mi astudio ac ymchwilio i'r ystod eang o ffynonellau a drafodwyd yn y ddoethuriaeth hon, cedwais gwestiwn Emyr Price yn yr erthygl honno mewn golwg: 'Tybed a oes arnom ofn ailgloriannu ein hanes a cheisio peintio darlun cyflawn o'n rhinweddau a'n ffaeleddau?'⁶⁷¹

Wedi astudio'r holl gyfryngau hyn, dof i'r canlyniad bod Emyr Price yn gywir a bod y cof cyhoeddus yn tueddu i ramantu a delfrydu rhinweddau'r gymdeithas chwarelyddol. Bu peth ymgais wedi 1972 i ailgloriannu'r hanes a rhoi darlun mwy cytbwys o'r bröydd a'u cymdeithas. Mae gweithiau Eigr Lewis Roberts a Geraint V. Jones yn fwy parod i gydnabod ochr dywyll cymdeithas chwarelyddol na gweithiau cynharach. Ond er gwaethaf hynny, maent yn parhau i fod yn feirniadol o Fuchedd B. Mae eu nofelau, fel gweithiau T. Rowland Hughes a Kate Roberts, yn ddu a gwyn, ac ni cheir unrhyw gwestiynu a yw rhywun yn gallu bod yn gymysgedd o dda a drwg, o rinweddau a ffaeleddau.

Ar y cyfan mae pob portread yn cadarnhau dyfarniad Emyr Price mewn rhyw ffordd. Mae hyd yn oed weithiau chwyldroadol Dewi Prysor, o ran y ffordd y portreadir y gymdeithas chwarelyddol ganddo, yn delfrydu ffaeleddau ac yn anghytwys am ei fod yn gorbwysleisio'r ochr dywyll. Ni cheir ganddo lawer o gydnabyddiaeth o Fuchedd A nac o garfannau o'r gymdeithas sy'n parhau i fod yn ddiwylliedig, yn barchus neu'n grefyddol. Un persbectif a geir yn ei nofelau ac, er

⁶⁶⁹ Dafydd Roberts, 'Y Deryn Nos a'i Deithiau' yn *Cof Cenedl III: Ysgrifau ar Hanes Cymru*, gol. Geraint H. Jenkins (Llandysul: Gwasg Gomer, 1988), t.158.

⁶⁷⁰ Ibid.

⁶⁷¹ Emyr Price, 'Y Chwarelwr a'i fyd: A'r Cymry Croendenau Unllygeidiog' yn *Barn* (Rhif 304, Mai 1988), t. 10.

bod hynny'n gam mawr i'r cyfeiriad iawn, nid yw'n ddarlun cyflawn o rinweddau a ffaeleddau'r gymdeithas.

Gan Dic Tryfan y cafwyd portread cytbwys a deallus o'r chwarelwyr a'u bro. Yn wir, gellid dadlau'n gryf mai dyma'r portread cywiraf o holl gynhyrchion llenyddol y bröydd am ei fod yn ysgrifennu am unigolion yn hytrach na defnyddio ei gymeriadau i gynrychioli gwahanol agweddau ar fywyd mewn bro chwarelyddol. Roedd yn ysgrifennu yn yr 1910au ac mae'n ddiddorol bod cyhoeddiadau'r ganrif ddiwethaf yn gam yn ôl, mewn ffordd, wrth ystyried mor gyflawn yw ei gymeriadau ef. Mae'n debyg mai cyfres *Cyw Haul* gan Twm Miall sy'n dod agosaf at gydbwysedd Dic Tryfan yn y cyfnod diweddar. Yn y nofelau hynny ceir cydnabyddiaeth o gapelwyr parchus a diwylliedig sy'n annymunol yn ogystal â phobl dreisgar, sy'n yfed, cymryd cyffuriau ac yn ddi-waith ond sydd hefyd yn hoffus. Credaf mai dyma'r gweithiau llenyddol sy'n dod agosaf at y darlun cytbwys roedd Emyr Price yn galw amdano.

Wedi astudio delweddau o'r diwydiant twristiaeth deuthum i'r casgliad bod eu portread yn eithaf cytbwys ar y cyfan. Yn gyffredinol, roedd gan y sefydliadau twristaidd bwyslais ar ddewrder a chrefft y chwarelwyr y soniwyd amdanynt â pharch mawr wrth i nifer o'r amgueddfeydd ddathlu a choffáu eu cyfraniadau diwylliannol ac economaidd i ogledd Cymru. Sefydliadau treftadaeth ddiwydiannol yw'r Amgueddfa Lechi a Ceudyllau Llechwedd a cheir ychydig o ddehongli bywyd cymdeithasol y chwarelwyr ganddynt. Roeddent yn gytbwys ar y cyfan ac yn llwyddo i osgoi cyffredinoli gweithwyr diwydiant cyfan fel cynrychiolaeth o werinwyr delfrydol.

Roedd y portread a geir gan unigolion o'r bröydd yn ddiddorol o safbwynt yr astudiaeth hon oherwydd eu bod yn euog o ramantu. Pan ysgrifennwyd y mwyafrif o'r hunangofiannau bro yn yr 1960-70au, roedd ymdeimlad cyffredinol bod y gymdeithas Gymraeg draddodiadol am ddod i ben ynghyd â'r diwydiant llechi. Roedd yr awduron fel petaent eisiau cofnodi'r bywyd hwnnw, ond wrth wneud hynny, yn gyffredinol, roeddent yn gorbwysleisio'r rhinweddau ac yn osgoi crybwyll unrhyw ffaeleddau. Mae'r papurau bro hefyd yn pwysleisio bwrlwm cymdeithasol a diwylliannol yr ardal ac mae'r unig erthyglau negyddol yn tueddu i fod am faterion gwleidyddol lleol. Dyma lais y bröydd chwarelyddol

felly, a llais sy'n atgyfnerthu'r myth a'r portread confensiynol o'r bröydd gan gadarnhau'r ffordd yr hoffent gael eu cofio.

Mae cerddoriaeth y bröydd chwarelyddol yn atgyfnerthu'r portread confensiynol ac yn ailadrodd ystrydebau barddoniaeth yr 1900au i gynulleidfaoedd modern. Dyma brofi dylanwad traddodiadau'r hen chwarelwyr ar y gymdeithas hyd heddiw. Fodd bynnag, mae'n rhaid nodi hefyd fod cerddoriaeth y bröydd yn cyflwyno gwedd newydd ar eu presennol. Yn dilyn traddodiad roc/*reggae*'r 1980au a'r bwrlwm cerddorol a oedd i'w deimlo ym mhob bro chwarelyddol, mae nifer o fandiau ifanc yn parhau gyda'r traddodiad diweddarach hwnnw ac yn canu am faterion cyfoes fel diweithdra, dirwasgiad a'r diffyg cyfleoedd i bobl ifanc mewn ardaloedd ôl-ddiwydiannol, difreintiedig.

Mae'r ffaith fod traddodiadau diwylliannol - llenyddol, barddol a cherddorol - y bröydd chwarelyddol yn parhau mor gryf hyd heddiw'n profi dylanwad yr hen chwarelwyr. Mae'r ddelwedd a gyflwynwyd yn 'Cerdd yr Hen Chwarelwr' gan W. J. Gruffydd yn 1902 wedi ei hystumio a'i hailadrodd yn gyson dros y ganrif ddiwethaf, a bellach dyma'r darlun confensiynol o chwarelwr. Mae themâu'r gerdd hon yn bresennol yn y mwyafrif o bortreadau o'r bröydd chwarelyddol. Mae Harri Webb yn defnyddio myth y glöwr yn ei gerdd, 'Synopsis of the Great Welsh Novel' i bwysleisio'r portread ystrydebol o'r Cymoedd. Gellir gwneud rhywbeth tebyg gyda'r portread o'r bröydd chwarelyddol. Mae'r ffaith nad oes cerdd ddychanol o'r fath yn bodoli yn dangos cymaint y mae'r myth wedi cael ei dderbyn.

Mae myth y glöwr wedi codi droeon yn yr astudiaeth hon. Yn aml ceir cyferbyniadau rhwng y chwarelwr cyffredin a'r glöwr cyffredin; yn *William Jones a Fo a Fe* yn ddiweddarach, mae pwyslais cyson ar y gwahaniaethau rhynddynt. Gellid cael astudiaeth sy'n ehangu ar gyfrol Hywel Teifi Edwards, *Arwr Glew Erwau'r Glo* gan edrych ar gyhoeddiadau'r cyfnod ôl-ddiwydiannol. Yn wir, gall y ddoethuriaeth hon fod yn wraidd i astudiaethau eraill sy'n cwestiynu ystrydebau a chonfensiynau wrth bortreadu cymdeithasau ôl-ddiwydiannol. Gellir cwestiynu a oes darlun confensiynol yn cael ei ailadrodd wrth bortreadu unrhyw garfan o unrhyw gymdeithas ac a yw'r darlun hwnnw'n un teg, sy'n archwilio'r ffaeleddau a'r rhinweddau'n gytbwys? Ynteu a oes myth wedi ei sefydlu a'i dderbyn?

Hoffwn fod wedi cynnwys pennod am y portread a geir o'r bröydd chwarelyddol a'r diwydiant llechi mewn llenyddiaeth Saesneg a chyfryngau eraill y tu hwnt i Gymru. Rwyf wedi ysgrifennu pennod o'r fath ond nid wyf wedi ei chynnwys yn y ddoethuriaeth hon oherwydd nifer cyfyngedig y geiriau a hefyd oherwydd bod cael gwared ar y bennod honno'n Cymreigio'r gwaith ac yn sicrhau mai astudiaeth o ddiwylliant Cymraeg yn unig a geir yma. Efallai yn y dyfodol y byddaf yn ehangu ar yr astudiaeth trwy archwilio portreadau y tu hwnt i Gymru yn ogystal. Buasai astudiaeth am gyfraniad diwylliannol chwarelwyr gogledd Cymru i ardaloedd eraill hefyd yn ddiddorol, er enghraifft, ardaloedd llechi America neu gymoedd diwydiannol de Cymru. Fe fuaswn hefyd wedi hoffi mynd yn ddyfnach i theorïau ôl-ddiwydiannol a chynnwys pennod am bortreadau cyfoes o ardaloedd ôl-ddiwydiannol de Cymru. Ond yn anffodus, oherwydd y nifer cyfyngedig o eiriau, a natur eang y gwaith, nid oedd hyn yn bosibl.

Hyderir bod y ddoethuriaeth hon yn gyfraniad gwerthfawr i astudiaethau o'r bröydd chwarelyddol ac yn gosod y sylfeini ar gyfer ymchwil bellach yn y maes. Dyma waith sy'n adnabod a chanfod gwreiddiau myth y chwarelwr a'i archwilio mewn ystod eang o gyfryngau. Wedi astudio ac ymchwilio i'r holl ffynonellau hyn, gwelaf fod angen ailystyried y modd y mae'r bröydd chwarelyddol yn cael eu portreadu. Mae'n bryd i ni gydnabod y cyfnod ôl-ddiwydiannol ac ymateb yn greadigol i sefyllfaoedd cyfredol yr ardaloedd hyn. Buaswn yn falch pe buasai'r ymchwil hwn yn cyfrannu rhywfaint at feddylfryd y cof cyhoeddus. Hoffwn hefyd pe buasai unrhyw un fydd yn cyflwyno portread o'r chwarelwr, y diwydiant llechi neu'r bröydd chwarelyddol yn y dyfodol, yn cael eu hysbrydoli gan y gwaith i greu darlun cytbwys sy'n archwilio rhinweddau a ffaeiddau'r bröydd a'u cymdeithas.

Atodiadau

Atodiad 1: Elin Gwyn yn cyfweld ag Elwyn Wilson Jones yn Yr Amgueddfa Lechi
23/11/2011

EG: Allwch chi roi eich dyddiad geni, os gwelwch yn dda?

EWJ: Ges i ngeni ar y seithfed ar hugain o'r chweched yn y flwyddyn 1938.

EG: Be oedd gwaith eich rhieni?

EWJ: Wel oedd fy nhad, mi gafodd o ei brentisio yma, yn y Gilfach Ddu, fel prentis o ffitar yn 1926. Yma fuodd o tan i'r rhyfal dorri allan, oedd rhaid iddo fo fynd yr adeg hynny, ond mi ddoth o nôl yma wedyn. Ffitar oedd o, ond yn hwyrach ymlaen mi gafodd ei wneud yn brif beiriannydd pan oedd y lle'n cynnal a chadw ar gyfer Chwaral Dinorwig. Fo wnaeth sefydlu'r Amgueddfa Lechi wrth gwrs, yn

dechrau yn '72 mis Mai, tuag at ddiwedd mis Mai oedd hi. A wedyn yma fuodd o tan '81.

Gwraig tŷ oedd mam. Fuodd hi'm yn gweithio ond magu tri ohona ni... Mi gafodd hi rhyw gyfnod byr mewn rhyw gaffi mewn rhyw ffatri bach yn Llanberis 'ma. Ond fuodd hi'm yna'n hir iawn. Mi gaewyd honno wedyn rhyw berchnogion newydd yn cymryd drosodd. Na, gwraig tŷ a magu plant odd mam yn gyffredinol felly.

EG: Roeddech chi'n dweud bod eich tad yn un o sylfaenwyr yr Amgueddfa, pam oedd o'n teimlo bod angan cadw hen weithdai'r chwarelwyr?

EWJ: Wel pan gaeodd y chwaraal yn '69 oedd yna rhyw dristwch mawr ar y pryd yn Llanberis. A mi oedd nhad yn rhyw feddwl y basa 'na rywbeth yn cael ei wneud allan o'r safle yma, lle mae'r Amgueddfa Lechi rwan. Oedd o'n teimlo bod isio cadw pethau ar gyfer y dyfodol, i bobl gael gwybod sut oedd y chwaraal yn gweithio. Ag Amgueddfa ar gyfar yr ardal yma oedd hi i ddechra ond ma' 'na gelfi o wahanol chwareli wedi dod yma i gael eu cadw er cof.

EG: Ydych chi'n cofio'r camau a gymerwyd i droi'r lle yn Amgueddfa?

EWJ: Toeddwn i ddim yn gweithio yma ar y pryd, pan agorwyd yr Amgueddfa yn '72. Buaswn i'n meddwl bod fy nhad wedi bod yn ymwneud â'r Amgueddfa'n Gaerdydd ac efo Cyngor Arfon. Roedd o'n rhyw gydweithredu hefo'r ddau er mwyn sefydlu yr Amgueddfa Lechi 'ma. Pan oedd y lle'n cau'n '69, roedden nhw'n trio cael 'madal ar bob dim o'ma. Ac mi oedd yna un peth pwysig iawn oedden nhw'n trio cael 'madal ohono 'fyd, sef yr olwyn ddŵr fawr. A mi oedd honno'n rywbeth gwerthfawr iawn i'r sefydliad a dweud y gwir. Roedden nhw am ddod yma a'i llosgi hi lawr, mynd â hi'n sgrap. Ond, rhyw ffordd neu'i gilydd, mi gafodd fy nhad berswâd ar rywun i beidio gwneud hynny. Ac efallai bod y peth 'di dod o hynny, bod o isio cadw pethau, yr olwyn ddŵr, a'r peiriannau sydd yn y fitting shop. Mae'n nhw yna hyd heddiw fel dwi'n cofio nhw pan oeddwn i'n dechrau gweithio 'ma yn 1953. Wedyn mae hynny'n beth da dwi'n meddwl bod rhyw gof a chadw i bobl hel atgofion, y rhei oedd 'di bod yn gweithio'n y chwaraal ac yn y safle yma, ac ar gyfar pobl ifanc a'r plant ar gyfer y dyfodol hefyd i gael hanes yr hyn oedd wedi digwydd yn y chwaraal.

EG: Oeddach chi'n dweud eich bod chi'n gweithio'n y chwarel...

EWJ: Oeddwn, ges i mhrentisio fel fy nhad. Oeddwn i'n dechrau gweithio 'ma yn 1953 fel prentis o ffitar yn y fitting shop yn fan yna. Mi wnes i fwynhau nghyfnod yma, mae'n rhaid i mi ddweud. A be oedd yn ddifyr yn hynna, oeddach chi'n cael pum mlynadd o brentisiaeth yn y cyfnod hwnnw, ac mi oeddach chi'n gorfod gwneud pob math o bethau yma; oeddach chi'n defnyddio pob math o wahanol beiriannau oedd yn y fitting shop, a hefyd gwneud tipyn o waith peipio dŵr, efallai mynd i wneud rhywbeth i'r injan stêm. Wedyn oedd 'na dipyn o amrywiaeth yn y prentisiaeth oedd o'n rhoi llawar iawn o addysg i rywun a dweud y gwir.

EG: Roeddech chi'n sôn yn gynharach am y tristwch yn Llanberis pan gaewyd y chwarel, sut oedd pobol yn teimlo'n gyffredinol o glywed bod y chwarel yn cael ei throï'n Amgueddfa?

EWJ: Wel, oeddau nhw'n falch pan oeddwn i'n siarad efo pobol ar y pryd felly, oeddau nhw'n falch bod 'na ryw bath yn digwydd yn hytrach na bod hi jest wedi cau a mynd yn sgrap. Ar y pryd mi roddodd waith i bobl leol, y cyn-chwarelwyr oedd yn medru trin a trafod y llechi fel mae'n nhw heddiw. Rhai'n gweithio'n y siop wrth gwrs, toedd na ddim caffi yma ar y pryd pan wnaeth yr Amgueddfa agor. Ond cawsom ni swyddi yn yr offis 'ma. Na, roedd pobol reit hapus, dwi'n meddwl, bod yr Amgueddfa wedi cael ei sefydlu.

EG: Be ydych chi'n feddwl oedd y prif amcan wrth droi'r safle yn Amgueddfa? Trio cadw awyrgylch y lle?

EWJ: Ia, ia. Mae'n bwysig eu bod nhw'n cadw'r un awyrgylch. Mae'n rhyfadd fel odd rhywun yn mynd i fewn i'r fitting shop neu'r efail ac yn clywed yr ogla 'ma ac mae o yna o hyd. Mae'n nhw wedi edrych ar ôl yr hen beiriannau mae'n rhaid i mi ddweud. Fel rydych chi'n cerdded i mewn rydych chi'n teimlo fel eich bod chi'n mynd i ryw oes arall, mynd yn ôl deugain mlynedd. Mae o'n rhywbeth pwysig dwi'n meddwl de, bod y lle 'di cael ei gadw. Yndi, yn sicr.

EG: Pryd wnaethoch chi ddod i weithio yn yr Amgueddfa felly?

EWJ: Ugain mlynedd yn ôl wnes i ddechrau gweithio yma. Bues i yma am ddeuddeg ac dwi wedi ymddeol ers wyth, mae hynny'n gneud ugain yn dydi. Mae'r amsar 'di ffluo mynd yn de.

Buodd nhad fyw tan oedd o'n 92, fuodd o farw wyth mlynedd yn ôl. O'n i'n ymddeol o fan hyn wyth mlynedd yn ôl yr un wythnos â nhad yn marw. Ar y trydydd ar ddeg oeddwn i'n ymddeol, oedd o'n marw ar y nawfed o Fehefin. Ia, mae'n rhyfadd. Cafodd o oes dda. Do, ia.

EG: Alla' i ofyn cwpwl o gwestiynau am Hogia'r Wyddfa?

EWJ: O! Oni'm yn meddwl buasech chi isio gofyn am hynny!

EG: Pa mor gryf oedd dylanwad y chwarael ar eich cerddoriaeth chi?

EWJ: O mi oedd o! Nath Rol Williams sgwennu geiriau am chwarael Dinorwig a ninnau'n gwneud y gerddoriaeth neu Arwel yn hytrach gan mai fo oedd yn gwneud y gerddoriaeth ar gyfer Hogia'r Wyddfa. A nath Eurig Wyn sgwennu un bach dda hefyd am hen wŷr ar bont y Bala a ma' honno 'di bod yn boblogaidd iawn ganddom ni. Pont y Bala ydi'r bont sy'n croesi'r afon rhwng y ddau lyn wrth gwrs, Llanberis a Padarn. Mae'r geiriau rheini'n arbennig gan Eurig Wyn.

Mi laddwyd tad Myrddin yn y chwarael 'ma. A nhad a finnau'n gweithio yma. Wedyn mae Llanbêr a Chwarael Dinorwig a'r ardal yn gyffredinol yn bwysig iawn i ni te fel Hogia. A wedyn do 'di cael cefnogaeth wrth gwrs te yn y pentra erioed

o'r amser gwnathom ni ddechrau efo'n gilydd yn 1963. Os welan ni flwyddyn a hannar arall fyddwn ni di bod efo'n gilydd ers hanner can mlynedd!

EG: Oeddach chi'n sôn fan 'na am y gân 'Chwaraal Dinorwig', cwpled ola'r gân;
'Ond paid digalonni pwy wŷr yr un pryd,
Nad oes mewn anwybod rhyw obaith o hyd.'

Mae'r gân am y chwaraal yn cau, ond ydi'r diwedd yn gyfeiriad bwriadol at agor yr Amgueddfa?

EWJ: Na, dwi'm yn meddwl. Pan gafodd honna ei sgwennu gan Rol Williams oeddo'm yn gwybod bod y chwaraal yn cau siŵr o fod yn de. Oeddau ni 'di recordio honna cyn i'r chwaraal gau. Neu yn y cyfnod yna 'lly. Wedyn na dwi'm yn meddwl. Rhyw obaith o hyd i ail-agor y chwaraal ella, dyna oedd y gobaith yna. Ond dwi 'di roi o ar dâp hefyd ella na'r gobaith ydi geith pobol waith a bod hi'n cal ei hagar fel amgueddfa a tydi'r peth ddim 'di mynd ar chwâl yn gyfan gwbl nac wedi mynd yn angof gin neb felly de. Wedyn ma' 'na ddwy ystyr i raddau i'r ddwy linell ola 'na'n de.

EG: A be wnaeth i chi ddewis cerddi fel 'Hen Bentra Bach Llanbêr' a 'Cerdd yr Hen Chwarelwr'?

EWJ: Wel ia dyna un arall, 'Cerdd yr Hen Chwarelwr' gan W. J. Gruffydd yn de. Oedd hwnnw'n lleol, bardd lleol. Am bod y cysylltiad yma, pentra bach Llanbêr. Ni ydi'r unig grŵp am wn i erioed i ddefnyddio barddoniaeth o safon. Rydan ni 'di cael ein beirniadu lawar gwaith am roi barddoniaeth safonol ar gân, ar ganu ysgafn felly ac eto mae pobol wedi'i dderbyn.

Wchi meddwl am 'Cerdd yr Hen Chwarelwr' oeddach chi'n sôn amdano fo, ma honno 'di cael 'i chyhoeddi mewn llyfr mae pobol yn darllan y llyfr a mae 'di mynd. Ond os ydi hi ar ddisg mae pobol yn mynd i wrando mwy o bosib. Mi gawsom ni'n beirniadu, do. Ond oeddau ni'n derbyn y feirniadaeth, dyna fo de. Tydw i ddim yn fardd, fues i rioed yn fardd ond dwi 'di mwynhau canu'r caneuon yma a geiriau o safon.

EG: Diolch yn fawr iawn i chi am y cyfweiliad.

EWJ: Croeso, croeso wir.

Atodiad 2: Elin Gwyn yn cyfweld â Peter Glyn Hughes 23/01/2012

EG: Could you introduce yourself?

PH: My name is Mr Peter Glyn Hughes, I'm coming up to seventy years of age, at the present I live in Minffordd near Penrhyndeudraeth.

EG: Thank you, what's your date of birth?

PH: 2nd of Aprill 1942.

EG: How did you become involved in the National Slate Museum?

PH: Well Hugh Jones the chap who started it, I was his son-in-law. Nepotism if you like! I was out of work, I was looking for work and I applied. Dai Morgan Rees came up from Cardiff and he came to the interview and he says, 'You can start on Monday.' That's about it, that's how I got the job.

EG: Do you remember the steps taken in 1972 to turn the old workplace into a museum? Were you involved in that process at all?

PH: Yes, I was yeah. There was Hugh Jones, the curator, there was Tom Thomas, Lewis Roberts and Carwyn Jones. We were the basic core getting the museum started. We worked twelve hour shifts from six, seven days a week until it opened in May, spring bank holiday in 1972. We worked like security and you know answering people's questions and things like this about the quarry and the museum.

EG: What are your memories of the opening day in May 1972?

PH: Bit disappointed that there weren't many more people came round. I think apart from the official party, can't have been more than fifteen or twenty visitors that day. And it seemed a bit of an anti-climax after all the hard work we put in.

EG: Who were the people who came to the museum on the open day?

PH: There were quite a few local dignitaries. Dai Morgan Rees, he was the keeper of industry down in Cardiff. His wife, I think Sheila Charles who was his secretary down there came up, Dick [Richard Keen] of course. Erm who else was there? I'm not sure. You know there were quite a few big wigs. And the people who represented us from the Department of the Environment because they were responsible initially for the building.

EG: How long did it take you to get everything ready?

PH: Well from... I can't remember when we actually started the fifth or tenth of April up to when we opened in May sometime, wasn't it? Can't remember the exact date. It was a Spring Bank Holiday anyway. So it was about six weeks it was in the end, it was a heck of a lot of work. I put some of the rail, it's at the end of the museum now, we put some of that down to restore it to what it was. Took us a few years to redo it all. We would go up into the Quarry to pinch bits of rail!

Yes, we had the right hand side were the fitting shops, blacksmith's shop, and there's another room which is called the Dorothea because a lot of stuff was moved from the Dorothea Quarry because the stuff was being stolen from there. So a lot of tools and blacksmith's wages and things like this were taken from there and stored in that room, which we called the Dorothea, it's the last room on the right before the foundry. And we got the foundry going. And we got the water wheel going then. And the staircase, the original way to get up to it was on a big wooden ladder. That was replaced by a wooden staircase that zig-zags up. That was done before we opened.

EG: What do you remember about the early days of the museum?

PH: Being tired! Working twelve-hour days! It was good fun, it was a steep learning curve for me because I hadn't worked in the Quarry. The nearest I got to

the Quarry was my dad worked in the Bank and they used to make their wages up for them. My first wife, her father was the ex-chief engineer in the Quarry, Hugh Jones. I think the only time I'd ever come down the Quarries was when I was in the Mountain Rescue in Valley. Used to come down through Elidir Fawr and come down to Llanberis through the quarry. We'd always have a chat with every quarryman we'd see. I remember we were coming back once in the mist, coming down to Llanberis and they were blasting in the quarry! It was quite something in the mist, you'd see the explosions around you!

EG: I'm sure. Had you been trained as a technician at all?

PH: I was a radar mechanic in the air force. I just picked it up as we went along.

EG: Was that mainly what you did then? Work with the machines?

PH: I started off as an attendant, you know like security and things and then I was made a technician.

We rebuilt some of the quarry machines in the museum itself. First year we cleared up the fitting shop sides, the blacksmith's shops, installed the pressing machines in the next shed. And we opened the foundry up with the help of the ex-moulders, and got the line shaft going and things like this. And opened up the water wheel so people could get up to see it. That was all in the first season.

EG: What were you trying to achieve with the museum?

PH: To save the building and the machinery, it's part of the heritage of the area, so you know it's important that these things are kept in situ. Although they were slightly out of content because they didn't actually work on slate in the buildings, it was engineering work mainly during the war. Slate production was moving towards the yard itself, a central part of the museum. I think it was important you know, you heard so much about the mining industry in South Wales, very little was said about the slate industry. So I think it was important to show the Gogs up here! So at least we were producing some wealth to go back into the economy in Wales. That's important, you know, that this was done. I think over the years it's expanded and I think it's got more to that side now, hasn't it? To what it was.

EG: I heard that the original brief was to make it look as though the workers had just left...

PH: Had just left, yes. You know the coats were left on the [hooks]... things like this. There were old shoes left hanging about. It certainly just looked like they'd just gone home from work and never come back.

EG: I suppose that's how it was in a way as well.

PH: Especially up in the quarries because around the old canteens and that, all the coats, for years afterwards, the coats were all hanging on the doors and the

dartboard was there.

EG: How long did you work there?

PH: I took a voluntary redundancy in 1989. So something like 18 years.

EG: Did the museum change a lot in that time?

PH: It's seems to have changed a hell of a lot more since I left! I might have been holding it back, you know!

EG: Have you been back to the museum at all? Has it changed much?

PH: It's changed a tremendous amount yes. They've built all them houses at the back. They've got a different system to get up to the water wheel now. That was a job and a half too, putting new buckets in the water wheel. Did that. That took quite a bit of effort. We used to stand on the inside of the wheel down the bottom with a sledge hammer and somebody would hold a chisel on the rivets and we'd swing it, 'Do this in three' and see how many swipes it would take to get the bolts off. One time we cleared about three or four sections and of course the weight of the wheel was heavier at the top and we had to run like hamsters down the bottom keeping up to the wheel! Yes it's an amazing wheel that, there's only a small pipe going up to it now to get it to work. There's very little water going into it.

EG: What was your favourite relic or part of the museum?

PH: I think the favorite relic, well not a relic of the museum, was the people who used to work in the quarry, who came there to work over the years splitting and dressing. The old engine drivers used to come back, it was interesting talking to them. What would be the favourite thing? Probably the thing that used to hold me in awe was the water wheel.

EG: How aware were you of Llechwedd? Because they opened in 1972 as well. Did you feel as though you were in competition at all?

